



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>




Celt 545.253.1.32

Gift of

Mrs. D. C. Harries

HARVARD COLLEGE LIBRARY














# DEFODAU DWYREINIOL:

YN CAEL EU CYMMWYSO

ER EGLURO YR YSGRYTHYRAU SANTAIDD.





# DEFODAU DWYRELNIOI:

YN CAEL EU CYMMWYSO

ER EGLURO YR

## YSGRYTHYRAU SANTAIDD.

---

A GYHOEDDWDYD YN SAESNEG GAN Y PARCH. S. BURDER.

HEFYD,

DYFYNIADAU HELAETH O GASGLIAD DIWEDDAR

Y PARCH. GEORGE PAXTON, EDINBURGH;

OLL WEDI EU CRYNHOI A'U CYFIEITHU YN OFABUS GAN E GRIFFITHS,

ABERTAWY.

---

CYHOEDDWDYD YN AMERICA GAN THOMAS R. JONES,  
ROME, N. Y.

---

ROME:

PRINTED BY A. J. ROWLEY & CO.

1848.

4098-100

Celt 5405.253.1.32.

HARVARD COLLEGE LIBRARY  
THE GIFT OF  
MRS. D. C. HARRIES  
APRIL 14, 1922.

## RHAGYMA DroDD.

---

GAN fod yr Ysgrhythrau Santaidd yn cynnwys cennadwri oddiwrth Lywydd mawr y byd at yr hil ddynol, sior yw fod ei fawredd ef, a pherthynas yr hyn a lefara efe â ni, yn ein rhwymo i ymdrechu deall ei feddwl. Er fod yr Ysgrhythrau, o ran eu iaith, yn eglur iawn, pan yn ymdrin â'r pynciau pwysig o gyflwr dyn wrth natur, a'r ffordd a drefnodd y Duw bendigedig i'w gadw, mae ynddynt lawer o ymadroddion ag a ymddangosant i ni yn dywyll a dyrus, sef, y rhai a gyfeiriant at wahanol bethau ac amgylchiadau yn y wlad lle yr ysgrifenyddwyd hwynt. Mae anffyddiaid, lawer gwaith, wedi cymmeryd achlysur oddiwrth rai o'r rhai hyn, i gablu y Bibl. Mynych y mae Cristionogion, ag nad ynt helaeth eu gwybodaeth, yn cyfarfod â dyryswech wrth ddarllen y pethau hyn yn y llyfr santaidd; ac felly nid ydynt yn gweled yr hyn a esyd o'u blaen yn y lleoedd hyn, collant y lles a amcenir, iddynt, a chant eu gofidio yn hytrach na'u hadeiladu.

Felly, wrth ystyried fod llaweroedd o ranau o'r Ysgrhythrau santaidd wedi eu llefaru gyda chyfeiriad uniongyrchol at arferion cyffredin ac adnabyddus yn y gwledydd Dwyreiniol, y rhai oeddynt, y rhan amlaf o honynt, yn wahanol iawn i eiddo ein gwlad ni,

y.nddengys fod gwybodaeth yn eu cylch yn anhebgorol angenrheidiol mewn trefn i ddeall meddwl yr ysgrifenywyr santaidd yn y manau hynny: ac heb y wybodaeth hon, ynnych y gwneir cam mawr ag amrywiol o ysgrythyrau, ac yr arweinir y lliaws i gyfeiliornadau peryglus.

Yn yr oesoedd diweddar, mae amrywiol o ddynion gwybodus wedi bod trwy y Dwyrain, ac wedi sylwi yn fanol ar ddull y trigolion o fyw, yr hwn, ymddengys, sydd yn awr yn gyffelyb i'r hyn oedd yn y cynoesoedd. "Mae arferiadau y Dwyrain," medd Morier, yn hanes ei ail daith trwy Persia, "yn nghanol eu holl gyfnewidiadau mewn llywodraeth a chrefydd, o hyd yr un; mae arferion cyffredin y trigolion, yn dwyn yr hen amseroedd ar gof i'r teithiwr, ac yn cadarnhau, uwchlaw pob peth, brydferthwch, cywirdeb, a phriodoldeb iaith y Bibl."

Dichon fod rhai o'r teithwyr hyn yn eu hymofyniadau, yn gweithredu dan lywodraeth ysbryd o elyniaeth at yr Ysgrythyrau, ac yn amcanu eu dymchwelyd: ond, pa fodd bynnag, mae ysgrifeniadau y rhai hyn oll yn uno i gadarnhau tystiolaeth y prophwydi a'r apostolion, ac mae yr hanesion a roddant yn rhoddi goleuni gwerthfawr ar fanau tywyllion yn y Gyfrol santaidd.

Ac, er ein mantais fawr ni, yr ydym yn cael y pethau mwyaf buddiol yn yr hanesion a gyhoeddasant, wedi eu crynhoi at eu gilydd i gylch bychan; ac y maent yn awr yn cael eu cynnyg i sylw y Cymro, yn ei iaith ei hun.

Yn y llyfr hwn gall ieuentyd gael llawer o wybodaeth fuddiol am bethau ysgrythyrol, mewn modd hyfryd a difyrus: mewn llwybr tebygol o aros ar eu côf, a gwneuthur argraff ar eu meddyliau, a hawdd iddynt ei chyfranu i ereill.

Yn y Cyfieithiad o waith Mr. Burder, ymdrechais i roddi y cwbl mewn iaith mor eglur ag y gallaswn osod y pethau a gynnwysai:

ni raid dywedyd wrth rai cyfarwydd ag ysgrifeniadau cyffelyb, fod eu dwyn i iaith eglur i'r Cymry yn gyffredinol, yn orchwyl anhawddach nac y meddylia neb ei fod nes ei gynnyg: mewn trefn i egluro rhai pethau tywyllion, rhoddias amrywiol o sylwadau ar odrau y dail, a rhoddais lawer o rai ereill i mewn yn nghorph y gwaith. Ac, fel ychwanegiad, dygais i mewn gymmaint ag a allaswn o'r pethau mwyaf buddiol yn ngwaith rhagorol PAXTON ar y defodau hyn.

Rhydd yr hanesion sydd yn y llyfr hwn olwg ar ddull y Patrieirch o fyw, a thrwyddynt gellir gweled grym a harddwch mewn llawer o ysgrythyrau na welid ynddynt o'r blaen. Hyderaf y bydd y gwaith o les mawr i'm cydwladwyr.

E. GRIFFITHS.

*Ebrill 15, 1837.*

## CYNNWYSIAD Y PENNODAU.

Pen.	Tu dal.
1. Tai a Phebyll, . . . . .	9
2. Priodas, . . . . .	38
3. Plant, . . . . .	53
4. Gweision, . . . . .	59
5. Bwyd a Diod, . . . . .	63
6. Dillad, . . . . .	90
7. Anrhegion ac Ymweliadau, . . . . .	111
8. Difyrwch, . . . . .	114
9. Llyfrau a Llythyrâu, . . . . .	124
10. Llettygarwch, . . . . .	133
11. Teithio, . . . . .	140
12. Parch ac Anrhydedd, . . . . .	163
13. Amaethyddiaeth, . . . . .	199
14. Anifeiliaid, . . . . .	219
15. Adar, Trychfilod, ac Ymlusgiaid, . . . . .	247
16. Ffrwythau a Gwin, . . . . .	253
17. Brenhinoedd a Llywodraeth . . . . .	262
18. Rhyfel, . . . . .	275
19. Cospedigaethau, . . . . .	296
20. Crefydd, . . . . .	320
21. Amser a Thymhorau, . . . . .	342
22. Meddyginiaeth, . . . . .	352
23. Angladdau, . . . . .	357
24. Amrywiaeth, . . . . .	380
25. Gwin, . . . . .	407
26. Bwyta ac yfed, . . . . .	410
27. Anrhydedd yn cael ei dalu i'r meirw, . . . . .	415
28. Gwisgoedd, . . . . .	435
29. Prydiau bwyd a Gwleddoedd, . . . . .	437
30. Defodau yn nghylch Priodas, . . . . .	442
31. Cyfammodau, . . . . .	455
32. Gwahanol ffyrdd pobl y Dwyrain i ddangos eu serch at eu gilydd, . . . . .	457
33. Gweinyddiad cyfiawnder yn Ngwlad Canaan, . . . . .	466

# DEFODAU DWYREINIOL.

## PENNOD I.

### TAI A PHEBYLL.

GEN. 18. 1, 2. *Ac efe yn eistedd wrth ddrws y babell yn ngwres y dydd.* Mae y rhai ydynt fugeiliaid yn y dwyrain, yn y dyddiau hyn, yn fynych yn gosod eu hunain mewn sefyllfa gyffelyb. "Am ddeg munud wedi deg daethom i olwg amrywiol o draethau hyfryd, a gwastadedd llawn o bebyll, a'r bobl yn eistedd wrth. y drysau, dan bentai (*sheds*); neu dan goed cysgodol, a ddaelloedd o eifr o'u hamgylch." *Chandler's Travels in Asia Minor*, p. 180.

Mithridates, fel yr oedd efe yn eistedd o flaen drws ei dŷ, a ganfu bobl yn myned heibio; a chan yr ymddangosai wrth eu dillad a'u gwaywffyn eu bod yn ddeyethriaid, efe a alwodd arnynt: wedi iddynt nesâu, efe a gynnygodd iddynt lety a char-edigrwydd: hwy a dderbyniasant ei hynawsedd, ac yn cael eu trin yn garedig ganddo, dangosasant iddo holl ewyllys yr oracl, â'r hwn erfyniasant arno i gydsynio. *Herodotus*, lib. 6, c. 35. Yn Japan, peth arferol yw fod gwr y tŷ yn myned i gyfarfod â theithwyr ran o'r ffordd, â chynnyg croesaw iddynt yn y modd mwyaf gostyngedig a pharchus. Yna efe a frysia adref mewn trefn i dderbyn ei wahoddedigion i'w dŷ yn yr un modd. *Thunberg's Travels*, Vol. 3, p. 100. *Kaempfer's Japan*, Vol. 2, p. 443.

"Efe a orchymynodd i'w restog (*mat*) gael ei ddwyn iddo, eisteddodd ei hun yn ymyl drws ei dŷ, a gwahoddodd fi i eistedd gydag ef." *Belzoni's Researches*, p. 75.

"Wrth fyned heibio i sefydliad rhai o'r Indid, canfyddais," medd Bartram, "rai pobl oedranus yn lledorwedd ar grwyn wedi eu taenu ar y llawr, yn nghysgod oer derw a phalmwydd canghenog, y rhai oeddynt yn rhes o flaen eu tai: codasant, ac edrychasant arnaf fel yr oeddwn yn myned heibio; ond yn gweled



fy mod yn myned heibio heb aros, cymmerasant yr un dull drachefn. Yr oeddynt yn fwynaid, ac yn ymddangos yn hapus yn eu sefyllfa." *Trav. p. 90.*

Ecsod. 26. 36. *A gwna gaeadlen i ddrws y babell o sidan glas, a phorphor, ac ysgarlad, ac o liain main cyfrodedd o wniadwaith.*

"Ni a aethom heibio i *Lahar*, gerllaw i ddyffryn bychan, lle y gwelsom amrywiol o wersylloedd cryno o eiddo yr *Eelauts*, wrth un o ba rai yr arosasom i edrych ar babell penaeth y teulu. Yr oedd wedi ei gwneuthur o ddellt, wedi eu plygu, a'u penau wedi eu sicrhau yn y llawr, a'r rhai hyny wedi eu cuddio â chrwyn (*felts*) mawrion, y rhai a rwymasid â rheffynau, ac a addurnasid â thuswau o sidan, &c. o amrywiol liwiau. Yr oedd llèn, wedi ei gwneuthur yn gywrain iawn gan wragedd, ag arni wniad-waith o amrywiol liwiau yn crogi dros y drws. Yn mhabell brenin Persia, mae llèni gwychion iawn ac arnynt wniad-waith, yn crogi; ac hefyd ar ddrwsau temlau mawrion Mohammed yn Twrci; a'r amgylchiadau hyn gyda eu gilydd a wnant, efallai, egluro Escod. 26. 36." *Morier's Second Journey through Persia, p. 251.*

Ecsod. 33, 8. *A phan aeth Moses i'r babell, yr holl bobl a godasant, ac a safasant bob un ar ddrws ei babell.* Yr oedd sefylla yn gystal a gwycheder rhagorol pabell penaeth, yn un ffordd i'w anrhydeddu ef. "Yr oedd pabell y penaeth, yr hon oedd yn sefyll yn agos i Cairo, yn babell hardd iawn, ac yn cael ei chyfrif yn werth deng mil o goronau: yr oedd yn helaeth iawn, ac yn cael ei hamgylchu â chae o frethyn wedi ei gwyrw (*waxed cloth*). Yn y canol yr oedd ei babell ef ei hun wedi ei gwneuthur o frethyn gwyrdd cwyredig, wedi ei harddu o fewn, mewn modd nodedig iawn; o fewn yr ymylau, ac yn ystlysau ei babell ef, yr oedd ystafelloedd i'w fenywod; o fewn ychydig bellder i'w un ef, yr oedd uwchlaw dau cant o bebyll, wedi eu cyfleu yn y fath fodd, fel yr edrychai eu drwsau hwy oll at babell y penaeth; ac felly y gwnant bob amser, fel y gallont gadw eu llygaid yn wastadol at lety eu mheistr, a bod yn barod i'w gynnorthwyb os ymosodir arno." *Thevenot's Trav. part 2, p. 148. Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2, p. 299.*

"Yn Affrica adwaenir pabell y penaeth yn wastad wrth ei sefyllfa yn nghanol y gwerysll, ac adwaenir yntau wrth ei ddillad, y rhai yn gyffredin ynt hwy a thecach nac eiddo y lleill; a'i swydd ef yw rheoli, barnu, a gofalu am, ei gymdeithas. Mae y penaethiaid israddol hyn yn ddarostyngedig i un uwch, yr hwn a

ystyrrir yn arglwydd mawr, neu henuriad, neu dywysog, gan yr hwn y mae amrywiol o'r gwersylloedd hyn dano, yn ol amllder y llwyth ar yr hwn y blaenora efe. *Modern part of Univ. Hist. Vol. 14, p. 54.*

"Yn yr holl fyddinoedd barbaraid, mae y blaenoriaid yn wastadol yn cyfleu eu hunain yn y canol, gan edrych ar y lle hwnw fel yr un diogelaf; ac ar bob tu i'r lle hwn mae eu nherth yn cael ei ranu yn gyfartal; ac os bydd arnynt angen rhoddi allan unrhyw orchymyn, mae yn cael ei dderbyn gan y fyddin yn hanner yr amser." *Xenophon's Expedition of Cyrus, b. 1.* Mae Arrian yn dywedyd wrthym i Darius gyfleu ei hun yn nghanol ei fyddin yn mrwydr Issus, yn ol arferiad brenhinoedd Persia.

Deut. 20. 5. *Pa wr sydd a adeiludodd dŷ newydd?* "Mae arwyddion o gydlawennychiad yn cael eu hanfon, yn gyffredin, i'r rhai a breswylant annedd newydd. Ar y cyfryw achlysur y foneddiges Ouseley a dderbyniodd anrhegion bychain o fwydydd melusion, blodau, ffrwythau, a thorthau o siwgr." *Sir William Ouseley's Travels in the East, Vol. 3, p. 141.*

Barnwyr 3. 24, 25. *Pan welsant fod drysau yr ystafell yn gloiedig:*—*hwy a gymmerasant agoriad, ac a agorasant.* Mae y cloion coed y rhai a arferir yn gyffredin yn yr Aipht, "wedi eu gwneuthur o ddarn hir o bren cau, wedi ei osod yn y drws, mewn ffordd ag y gellir ei symmud yn ol ac yn mlâen, ac yn myned i mewn i dwll bwriadedig iddo yn ystlys-bost y drws, a sicrheir ef yno âg edafedd haiarn bychain fel bolltau, y rhai a syrthiant oddiuchod i dyllau bychain a wnaed iddynt yn ochor uchaf y clô. Darn hir o bren yw yr agoriad, a darnau bychain o edafedd haiarn o wahanol hydroedd yn ei ben, o'r un rhif ac yn cyfeirio i'r un ffordd â'r bolltau sydd yn syrthio i'r clô; efe a gyfyd y rhai hyn i fynu, ac yna efe a dyn y clô yn ol. Mae y bolltau hyn o edafedd haiarn yn gwahaniaethu mewn rhifedi, o dair i bedair ar ddeg neu bwmtheg, ac mae yn annichonadwy i ddyndy ddyethr wybod pa rifedi o folltau a fyddo mewn clô, na'r dull y maent yn cyfeirio." *Turner's Journal of a Tour in the Levant, Vol. 3, p. 496.*

Barn. 5. 28. *Mam Sisera a edrychodd trwy ffenestr.* "Ymddengys fod y dull o adeiladu yn y *Barbary* ac yn y Dwyrain wedi pambau yr un o'r oesoedd cyntaf. Mae yr holl ffenestri yn agor i ryw gyntedd anghyoeidd, oddieithr ffenestr ddellt, neu le bychan yn sefyll allan uwch ben yr heol yn yr hwn y byddant yn rhodio. Yn amser rhyw wyl yn unig, yr agorant y ffenestri dellt

hyn: gan fod tŷmorau fel hyn yn amserau o beurhyddid, difyrwch, ac oferedd, mae pob teulu yn awyddus am addurno tu fewn a thu allan eu tai â'u dodrefn gwyhaf; ac y mae lliaws o bob rhyw, wedi gwisgo eu dillad goreu, a chan roddi heibio bob gwylder a moes, yn myned i mewn ac allan i'r lle y mynont. Mae yr hanes a gawn, 2 Bren. 9. 30. am waith Jezebel yn golurio ei hwyneb, ac yn gwisgô yn wych am ei phen, ac yn edrych trwy ffenestr, ar ddyfodiad Jehu, i mewn i Jezreel, yn rhoddi i ni ddrychfeddwl bywiog am ddull boneddiges ddwyreiniol yn un o'r gwyliâu hyny. *Shaw's Travels, p. 273.*

Barn. 16. 27. *Ar y nen yr oedd yn nghyleh tair mil o wŷr a gwragedd.* "Gall y dull dwyreiniol o adeiladu ein cynnorthwyo i amgyffred am wneuthuriad neillduol teml neu dŷ Dagon (Barn. 16.) a'r rhifedi mawr o bobl a gladdwyd yn ei ddadfeiliau, trwy waith Samson yn tŷnu i lawr y ddwy brif golofn. Yr ydym yn darllen (ad. 27.) fod yn nghylch tair mil o bersonau ar y nen tra yr ydoedd Samson yn chwarae. Rhaid gan hyny fod Samson mewn cyntedd neu le agored isod o'u blaen; rhaid fod y deml, yn ganlynol, o'r un ddull â'r hen Τεμενν, neu leoedd santaidd caëedig, yn cael eu hamgylchu mewn rhan neu yn gwbl gan dai yn sefyll, weithau, or golofnau. Mae llawer o balasau a llysoedd cyfiawnder yn y gwledydd hyn yn cael eu hadeiladu yn y dull hwn. Ar amser eu gwyliâu a'u cyfarfodydd llawen, taenir llawer o dywod ar hyd y cynteddoedd hyn fel na chaffo yr ymdrechwyr niwed wrth gwmpo arnynt, tra y mae nen y tai hyn yn cael eu llanw â phobl yn edrych ar y chwareuwyr hyn yn dangos eu nherth a'u bywiogrwydd. Gwelais yn fynych amrywiol o gannoedd o bobl yn ymddifyru yn y modd hwn ar nen palas y Dey yn Algiers; i'r hwn, fel i lawer ereill o eiddo rhai o'r un radd a sefyllfa, y mae rhodfa golofnog yn sefyll allan ar gyfer porth y palas (Esther 5. 1.), wedi ei gwneuthur yn null penty (*penthouse*) helaeth, yn cael ei gynnal i fynu gan un neu ddwy o golofnau agos i'w gilydd yn ei ymyl nesaf allan, neu ynte yn y canol. Yn y fath adeiladau agored â'r rhai hyn y mae eu swyddwyr mawrion yn ymgynnull i weinyddn cyfiawnder, a thrin amgylchiadau cyhoeddus eu taleithiau. Yma hefyd y cymmerant eu difyrwch cyhoeddus, megys y cymmerodd arglwyddi y Philistiaid ac ereill yn eu plith, yn nhŷ Dagon. A meddwl, gan hyny, fod yn nhŷ Dagon adeilad yn y dull hwn yn sefyll ar golofnau, buasai y tynlad i lawr o'r colofnau a

safent yn yr ymyl nesaf allan neu yn y canol yn unig, ar y rhai y safai, yr achosi y dinystr a ddygwyddodd i'r Philistiaid." *Shaw's Travels*, p. 288.

Ruth 4. 1. *Yna Boaz a aeth i fynu i'r porth.* Mae yn eglur fod hyn at ryw weithrediadau barnol, yn gyson âg ymarferiad y'r luddewon, ac, yn wir, eiddo rhai cenhedloedd ereill.

Mae Porth Barn yn enw ag sydd o hyd yn gyffredin yn mysg yr Arabiaid i osod allan lys barn, a dygwyd yr ymadrodd hwn gan y Saraseniaid i'r Ispañ. "Ymwelais amrywiol o weithiau ag Alhambra, hen balas ac amddiffynfa brenhinoedd yr Ethiopiaid; efe a saif ar ben bryn, uwchlaw y ddinas, ac mae yn cael ei gylchynu gan fur o uchder a thrwch mawr. Mae y ffordd i mewn iddo dan fwa (*arch*), uwchlaw yr hon y mae agoriad, arwydd y brenhinoedd Mohammedanaidd, wedi ei gerfio. Y porth hwn, yr hwn a elwid Porth Barn, yn ol yr arferion dwyreiniol, oedd y lle yn yr hwn y gweinyddai eu brenhinoedd gyfiawnder." *Jacob's Travels in Spain*, Letter 61.

"Gelwir y porth hwn *Puerta de la Justicia*, hyny yw, Porth Cyfraith neu Farn, o herwydd iddo gael ei adeiladu i wasanaethu fel brawdle, yn gysson ag arferiad yn hen Arabiaid, y rhai, yn gystal â'r luddewon, a gynhalient eu llysoedd barn yn mhyrth y dinasoedd." *Murphy's Arabian Antiquities in Spain*, p. 9.

1 Sam. 9. 26. *A hwy a gyfodasant yn fore: ac yn nghylch codiad y wawr, galwoodd Samuel ar Saul i (ar) ben y tŷ, gan ddywedyd, Cyfod, fel y'th hebryngwyf ymaith.* Mae cysgu ar nen y tŷ wedi bod bob amser yn beth cyffredin yn mysg pobl y Dwyrain. "Y mae wedi bod erioed yn arferiad gyda hwynt, er mwyn iechyd a phleser, i dreulio y nos yn ystod yr haf ar benau y tai, y rhai i'r perwyl hwn a wneir yn wastad, ac a renir y naill oddiwrth y llall â muriau. Ni a gawsom y ffordd hon o gysgu yn hyfryd iawn; o herwydd ein bod fel hyn yn mwynhau yr awyr oer, uwchlaw cyrhaedd gwybed a tharth, heb un gorchudd ond yr wybren, yr hon a ymddengys mewn gwahanol ddulliau ardderchog pa bryd bynag yr aflonyddir ein gorphwysdra; tra y mae dystawrwydd a thawelwch yn gogwyddo y meddwl mewn modd cryf iawn at fyfyrdod." *Wood's Balbec, Introduction*.

"Mae pedair gwraig fy lletywr caredig, yn nghyd â'u morwynion, yn rhoddi i fynu eu trafferthion teuluaid, a phob un yn cymmeryd ei phlentyn a'i gawell i nen ei rhan hi o'r tŷ, gan ofalu am y gostrel groen, llonaid yr hon o ddwfr a ddygodd hi o'r

ffynnon; hi a esyd ei baban mewn diogelwch, ac a esyd ei chostrel ar goed croesion gerllaw ei gwely, fel yr oero at ei gwasanaeth yn y nos neu y dydd nesaf." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2, p. 230.*

"Efe a'n derbyniodd ni wrth y porth nesaf allan, ac a'n harweiniodd trwy ardd fechan i wastad-nen y tŷ, lle yr arweiniwyd ni at amrywiol o Bersiaid a Moguliaid o radd uchel. Yma cawsom fwynhau awel yr hwyr, a golwg, wrth oleu y lloer, ar y gerddi, a difyrwyd ni gan amrywiol o gymdeithasau yn olynol o ferched a pheroriaethwyr yn dawnsio, rhagorach rhai na neb ag oeddwn y pryd hwnw wedi weled yn India." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3. p. 81.*

Gan fod nenau y tai yn wastad, yr oedd yno le cyfleus i godi allorau i addoli llu y nefoedd. Gwel 2 Bren. 23. 5, 12. Jer. 19. 13. 22, 29. Seph. 1. 5.

"Yn y nos, mae pawb yn cysgu ar nen eu tai, a thaenant eu gwelyau ar eu hechel-rodffeydd (*terraces*), heb un gorchudd uwch eu penau ond yr awyr. Anfynych y mae gan y tlodion ddim o gylch yr ymylau i'w cadw oddiwrth sylw y rhai a ânt heibió; a chan ein bod ni yn gyffredin yn marchogaeth allan ar geffylau, yn fore iawn, yr oeddyd yn gweled pobl ar ben y tai, rhai yn eu gwelyau, ereill yn codi. Ymddangosai fod y gwragedd yn wastad yn codi gyntaf, tra y gwelid y gwrrywod yn fynych yn gorwedd yn eu gwelyau yn hir ar ol i'r haul godi." *Morier's Second Journey through Persia, p. 229. Burckhardt's Travels in Nubia, p. 16. Life. Kinnier's Journey through Asia Minor, p. 134.*

"Ni a gnmmerasom ein swpper ar nen y tŷ er mwyn oerder, yn ol eu defod hwy, a lletyasom yno hefyd mewn math o gell yn nghylch wyth troedfedd betryal (*square*) wedi ei gwneuthur o wiail plethedig, wedi eu dwbio yn y gwaelod, ond heb un drws." *Pococke's Travels, Vol. 2, p. 69.* "Cafwyd penty (*shed*) ar un ystlys i nen y tŷ lle y gallasai chwech o honom fod; y lleill a orweddasant ar y nen heb ddim ond yr awyr uwch en penau." *Clarke's Travels, Vol. 2, p. 403. Travels of Ali Bey, Vol. 2, p. 293. Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3. p. 234. Light's Travels in Egypt, p. 142.*

2 Bren. 4. 10. *Ystafell fechan.* "Wrth y rhan amlaf o'r tai hyn y mae un llai yn gyssylltiedig, yr hwn weithiai sydd uwch o un uchder (*story*) na'r tŷ; brydiau ereill mae yn cynnwys un neu ddwy ystafell yn unig, ac uchel-rodffa (*terrace*); tra y mae i ereill,

y rhai ynt wedi eu hadeiladu (fel y maent yn fynych) uwchben y porth neu y ddyfodfa i mewn, (oddieithr yr ystatell ar y llawr, yr hon nid yw i'r rhai hyn,) yr holl lëoedd ag a berthynant i'r un a elwir yn briodol y tŷ. Mae drws yn arwain o honyat i lofft y tŷ, yr hwn a gedwir yn agored neu yn gauedig yn ol ewyllys gwr y tŷ; heblaw drws arall, yr hwn a egyr i risiau anghyoedd, i wared i'r porth neu i'r heol, heb roi yr aflonyddwch lleiaf i'r tŷ. Mae y tai hyn yn y tu cefn, yn cael eu hadnabod wrth yr enw *olee* neu *oleah* (oanys y tŷ yr hwn yn briodol a ystyrir felly a elwir *dar* neu *beet*.) ac ynddynt hwy yr arferir lletya a chroesawu dyeithriaid; ynddynt hwy caniatteir i feibion y teulu gadw eu gordderchwragedd; iddynt hwy hefyd arferu y gwŷr neillduo o derfysg a swm y teulu, ac i gael mwy o lonydd at fyfyrdod neu ddifyrwch; hefyd ar amserau ereill rhoddir hwynt i gadw gwisgoedd ac ystôr. Y mae tadau, plant, ac ŵyrion, yn byw yn nghyd mewn un tŷ." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 1. p. 219.*

1 Bren. 6. 7. *A'r ty, pan adeiladwyd ef, a adciladwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno.* Mae yr ymadroddion hyn yn cael eu hegluro trwy yr hyn a ddywed D'Arvieux yn nghylch Alecsandria yn yr Aipht (*part 1. p. 166.*); "Mae i byrth y ddinas, y rhai ydynt yn sefyll etto, ymddangosiad ardderchog, ac y maent mor uchel a llydain, fel y gallwn gasglu oddiwrthynt fod y lle gynt yn fawr a gwych iawn. Nid oes yndydt ond pedair careg betryal'; un o ba rai a wasanaetha fel trothwy, mae dwy wedi eu codi yn yr ochrau, a'r bedwaredd wedi ei gosod yn groes i orphwys ar eu penau. Ni raid i mi ddywedyd eu bod yn hên iawn; canys y mae yn hollol adnabyddus, nad oes y fath feini dirfawr, er ys llawer o gannoedd o flynyddoedd a aethant heibio, yn cael eu defnyddio mewn adeiladau. Mae yn rhyfedd pa fodd y gallasai yr hynafiad godi y fath feini trymion o'r chwarelau, eu symmud, a'u gosod i fynu. Mae rhai yn meddwl i'r meini hyn gael eu bwrw (*cast*), ac mai carnedd, tebygol, o gerig mân oedd-ynt, y rhai a unwyd â'u gilydd â'r cymmrwd tecaf; fod moldiau (*models*) yn cael eu gwneuthur yn y lle yr oedd eisiau y meini hyn, yn y rhai yr oedd y cymmrwd a'r cerrig yn cael eu cymmysgu yn nghyd, ac ar ol i'r defnydd hwn sychu a dyfod yn ddigon cadarn, fod y moldiau hyn yn cael eu cymmeryd ymaith yn esmwyth, a graddol, ac yna y meini wedi hyny yn cael eu caboli (*polish*)."

1 Bren. 20. 34. *Cei wneuthur heolydd it' yn Damascus.* Mae

yr amgylchiadau cyssylltiedig â'r ymadroddion hyn, a'r rhai cynwysedig yn yr hanes canlynol, mor ddybyg y naill i'r llall, fel yr ymddengys yn eglur gyda pha briodoldeb y dewisodd ein cyfieithwyr ni y gair *heolydd*, yn hytrach nac un o'r rhai ereill ag y mae esponwyr wedi gyanyg iddynt yn ei le. "Wedi i Biazet mewn modd anrhydeddus waredu ei ddinas warchaëedig, efe a ddychwelodd i Gaercystenyn; gan ymosod yn fwy egniol i'w herbyn nac o'r blaen, ac adeiladu caerâu a muriau i'w herbyn ar y tu nesaf i'r wlad; ac wedi myned dros gyfyngfor Bosphorus, adeiladodd gastell ar y cyfyngfor hwnw ar gyfer Caercystenyn, i wneuthur oll a allasai i attal dim i fyned i mewn iddi ar hyd y môr. Y gwarchae caeth hwn (fel yr ysgrifena y rhan amlaf) a barhâodd hefyd ddwy flynedd, y rhai y tybiaf, oddiwrth amgylchiadau yr hanes, eu bod yn rhan o'r wyth mlynedd rhag-ddywededig. *Emanuel*, yr ymerawdwr gwarchaëedig, yn cael ei flino gan y rhyfeloedd meithion hyn, a anfonodd genhadwr at Biazet, i ddeisyf heddwch gartdo, ar yr hyn yr oedd Biazet yn fwy parod i wrando, o herwydd ei fod wedi clywed fod Tamerlane, tywysog mawr *Tartary*, yn bwriadu gwneuthur rhyfel i'w erbyn yn fuan. *Er hyny ni ellid cael yr heddwch hwn, ond ar yr ammod fod i'r ymerawdwr ganiatau rhyddid i'r Tyrciaid gael preswyllo yn nghyd mewn un heol yn Nghaercystenyn, a chael arfer eu crefydd a'u cyfreithiau eu hunain, dan farnwr o'u cenedl eu hunain; a thalu hefyd i frenhin y Tyrciaid deyrnged flynyddol o ddeg mil o dducatau: yr oedd yn dda gan yr ymerawdwr yn ei gyfyngder dderbyn yr ammodau darostyngiadol hyn. Felly terfynwyd y gwarchae maith hwn, ac yn fuan anfonwyd math o Dyrcaid mawrion yn nghyd a'u teuluoedd o Bithynia, i breswyllo yn Nghaercystenyn, ac adeiladwyd llan iddynt yno; yr hon cyn hir wedi hyny a dynwyd i lawr gan yr ymerawdwr, ac efe hefyd a yrrodd y Tyrciaid drachefn allan o'r ddinas, wedi i Biazet gael ei ddymchwelyd a'i gymmeryd yn garcharor gan Tamerlane nerthol." *Knolles's History of the Turks*, p. 206.*

2 Bren. 1. 4. *Ni ddisgyni o'r gwely*. Gall yr ymadrodd hwn gael ei egluro trwy yr hyn a ddwed Shaw am dai yr Ethiopiaid yn *Barbary (Travels*, p. 209.), lle, wedi sylwi fod eu hystafelloedd yn helaeth, o'r un hyd a'r cyntedd petryal ar ystlysau yr hwn y maent wedi eu hadeiladu, efe a ychwanega, "yn un pen i bob ystafell y mae llofft fechan wedi ei chodi dair neu bedair troedfedd yn uwch nâ'r llawr, a chanllaw ar yr ymyl nesaf i'r

ystafell, ac mae ychydig o risiau hefyd yn arwain i fynu iddi. Yma y cyfleant eu gwelyau; scyllfa y cyfeirir yn fynych ati yn yr Ysgrythyrau Santaidd, yr hyn hefyd a all egluro yr amgylchiad hwnw yn hanes Hezeciah ei waith *yn troi ei wyneb at y pared*, (hyny yw, oddiwrth ei weision,) *pan weddiodd*, 2 Bren. 20. 2. fel y buasai llai o sylw yn cael ei gymmeryd o daerineb ei grefyddolder. Dywedir i Ahab wneuthur yn gyffelyb, 1 Bren. 21. 4.; er fod yn debygol iddo ef wneuthur hyn, nid i un dyben crefyddol, ond i guddio oddiwrth ei weision y gofid yr oedd ynddo o herwydd ei siomedigaeth ddiweddar.”

Russel (*Natural History of Aleppo*, p. 4.) a rydd hanes cyffelyb. Efe a ddywed fod y *divan* dwyreiniol yn rhan o'r ystafell ag a godir uwchlaw y llawr, a'u bod yn y gauaf yn taenu carped drosto, ac yn yr haf y taeniant restogau (*mats*) teg drosto; o amgylch yr ystlysau y mae *matresses* tewion yn nghylch tair troedfedd o led, wedi eu cuddio yn gyffredin â brethyn ysgarlad, ac y mae gobenyddau mawrion o fath o sidan, wedi eu llanw yn galed â chottwn, wedi eu gosod yn erbyn y mur (neu y cledyr (*rails*), pan fyddo angen eu cyfleu mewn mânau lle na chyffyrddont â'r muriau,) fel y caffer y cysur o *bwysio* arnynt. Gan ddefnyddir cadeiriau yno, ar y rhai hyn yr eisteddant; a dodrefnir eu holl ystafelloedd mewn modd cyffelyb.”

2 Bren. 11. 2. *Ystafell y gwelyau*. Nid yw ystafell y gwelyau, yn ol arferiad y Dwyrain, yn golygu ystafell i letya, ond ystafell lle y cedwir gwelyau yn ystôr. Dywed *Chardin*, “Nid yw gwelyau yn y Dwyrain yn cael eu codi oddiwrth y llawr â physt, &c.; mae y bobl yn gorwedd ar y llawr. Yn yr hwyr maent yn lledu *matress* neu ddau o gottwn, ysgafn iawn, o ba rai y cadwant amrywiol mewn tai mawrion, erbyn y byddo galwad arnynt am danynt, ac y mae ganddynt ystafell yn fwriadol i'w cadw.” Oddiwrth hyn ymddengys mai mewn ystafell lle y cedwid gwelyau y cuddiwyd Joas.

1 Cron. 9. 18. *Porth y brenhin*. Gelwid y porth hwn wrth yr enw hwn o herwydd i Solomon ei adeiladu ef a'r rhan arall o'r mur ar y tu hwnw, trwy draul fawr iawn a thrallod rhyfeddol, gan godi y sail bedwar cant cufydd, neu saith cant a naw ar hugain o droedfeddi, o waelod dyffryn dwfn Cedron, trwy ddefnyddio meini mawrion, ugain cufydd, neu un droedfedd ar bymtheg ar hugain a naw modfedd o hyd, a chwech cufydd, neu ddeg troedfedd a deg modfedd o uchder (*Josephus*, *Ant.* 20. 9.), fel y



byddai yn gydwastad â'r rhan arall o'r arwynebedd (*surface*). Pan ymwelodd Cadpen LIGHT â Jerusalem, yn 1814, ymddangosai fod rhai o'r meini mawrion hyn yn aros; canys pan yn desgrifio tŷ swyddog gosgordd y Tyrciaid, yr hwn a adeiladwyd yn y fan lle y safai tŷ Pontius Pilat gynt, efe a ddywed, p. 157, "Yr hyn a dynodd fy sylw i fwyaf, oedd tair neu bedair o gerig o faintioli dirfawr, y rhai yr ymddangosai eu bod yn rhan o'r hen dref, ac yn gwneuthur i fynu ran o furiau y palas." Yr oedd hyfrydwch mawr gan yr henafiaid mewn adeiladu â meini mawrion o'r fath hyn; canys, yn nadfeiliau hen adeiladau, gwelwn yn fynych rai o faintioli rhyfeddol. Mr. Wood, yn ei *Ruins of Palmyra and Balbec*, a ddywed, "Fod y meini'a wnant i fynu fur yn yr olaf yn anferthol; mae rhai o honynt a wyth ar hugain i bymtheg ar hugain o droedfeddi o hyd, a naw troedfedd o uwchder. Mae yno dri o'r maintioli canlynol:—deunaw troedfedd a deugain o uwchder, a deuddeg troedfedd o drwch: gronynfeini (*granites*) gwynion ydynt a gwythenau disglair yn rhedeg trwyddynt."

Yn Bagdad, y mae y porth Al Talism "yn awr wedi ei gau i fynu â phriddfeini, mewn anrhydedd i waith y Sultan Murad yn myned trwyddo yn fuddugoliaethus, wedi iddo adennill Bagdad oddiar y Persiad, a gafael wan mab annheilwng penaeth enwog. O herwydd y dygwyddiad nodedig hwn, cauwyd y porth yn ddioed ar waith y buddugoliaethwr yn myned trwyddo, ac nid agorwyd ef byth wedi hyny.' Ymddengys fod yr arferiad hon o gau i fynu unrhyw fynedfa a anrhydeddwyd mewn modd neillduol, fel na chaffo hi ei halogi gan berson cyffredin, wedi ffynnu yn helaeth iawn trwy y Dwyrain. Ceir esamplau ereill o fod pyrth yn cael eu cyfrif yn santaidd o herwydd amgylchiadau cyffelyb." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2. p. 262.*

Esther 1. 6. Y *gwelyau oedd o aur oc arian*. Dichon y gellir cael eglurhad ar yr hanes am y gwelyau o aur ac arian oddiwrth ddodrefn diweddar Asia; mae y *divan*, neu y neuadd i roddi gwrandawriad i genhadiaethau, ac hefyd yr ystafell i dderhyn gwahoddedigion mewn tai anghyoedd, yn gyffredin, wedi eu cuddio â charped Persia; o amgylch y rhai y mae clustogau o wahanol faintioli a dull wedi eu cyfleu, mewn gwisgoedd wedi eu harddu ag aur ac arian, neu mewn brethyn ysgarlad wedi ei addurno â gwniadwaith; symmudir y rhai hyn yn achlysurol i'r cynteddoedd

a'r gerddi, a chyfleir hwynt yno at wasanaeth cydymdeithion." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3, p. 191.*

Job 24. 16. *Cloddio trwy dai.* Yr oedd y tai wedi eu hadeiladu o laid cleilyd, neu, ar y goreu, o briddfeini wedi eu ffurfio o hono, defnydd tyner iawn, yr hyn a'u rhoddai yn agored i'r fath ymosodiad; pa fodd bynag, gan fod y muriau mor drwchus, yr oedd cryn lafur yn ofynol cyn treiddio trwyddynt, gan hyny yr oedd cloddio yn angenrheidiol i wneuthur adwy.

"Mae lladron yn Bengal yn fynych iawn yn cloddio trwy y muriau llaid, a than loriau clai y tai, ac yn dyfod i mewn heb eu canfod, ac yn eu hyspeillo tra y mae y preswylwyr yn cysgu." *Ward's View of the Hindoos, Vol. 2, p. 325.*

Diar 7. 18. *Mi a drwsiais fy ngwely â lleni ac â cherfadau.* Pa beth oedd y gwely hwn, a'r modd yr oedd wedi ei harddu, a ymddengys yn eglur oddiwrth yr hanesyn canlynol. "Yr oedd yr amser i fyned i orphwys yn awr wedi dyfod, ac arweiniwyd ni i ystafell helaeth, yn nghanol yr hon yr oedd math o wely, heb un pren nac amgylch-lleni iddo, er fod y cwrlid a'r clustogau yn rhagori mewn gwycheder ar yr esmwyth-faingc (*sofa*), yr hon hefyd a harddai yr ystafell. Rhagwelais na allaswn ddysgwyl ond ychydig o orphwysdra ar y gwely hwn, ac yr oeddwn yn awyddus am chwilio ei wneuthuriad mewn modd mwy neillduol. Yr oedd pymtheg *matres* cottwn, yn nghylch tair modfedd o drwch, wedi eu gosod ar eu gilydd, yn gwneuthur i fynu y gwaelod; yr oedd y rhai hyn wedi eu cuddio â llèn o liain India, yr hon a wniasid ar y *matres* uchaf. Yr oedd cwrlid o *satin* gwyrdd, wedi ei addurno â gwniadwaith hardd goreuredig, wedi ei sicrhau wrth y llèni. Yr oedd dwy glustog fawr o *satin* porphor, yn llawn o wniadwaith goreuredig, yn gorphwys ar ddwy glustog fawr arall a berthynent i'r esmwyth-faingc, wedi eu dwyn gerllaw i wasanaethu yn gefn, ac yn cael eu bwriadu i ddal ein penau i fynu. Buasai cymmyrd ymaith y clustogau hyn yn ddyfais dda pe buasai genym ryw obenydd; ac wrth droi y tu arall i fynu, gwelsom eu bod wedi eu harddu â gwniadwaith ar y tu isaf yn yr un modd; o'r diwedd penderfynasom i osod ein llaw-liciniau drostynt; er y cwbl yr oeddym yn teimlo yn ddwys oddiwrth y blodau a wnaethid arnynt â'r edau a'r nodwydd." *Du Tott, Vol. 1, p. 95.* "Ar esmwyth-faingc ardderchog yr oedd gorchudd llaes o sidan gwyrdd, i'r un dyben â hwnw yn y neuadd; mi a'i cofais i fynu, pan yr oedd y ddau

eunuch ag oedd gyda ni yn troi eu cefnau, a chefais fod yr esmwyth-faingc wedi ei gwisgo â sidan gwerthfawr iawn, wedi ei oreuro, a blodau heirdd wedi eu gweithio arno:—yr oedd y clustogau hefyd o felfed gwyrdd, wedi ei goreuro, â blodau cyffelyb wedi eu gweithio arnynt.”

Diar. 21. 9. *Mewn tŷ chang.* Mae y LXX. yn arfer *av oixw xoiw* am y geiriau hyn, Y Cyfieithad Lladinaidd, “*in domo communi*,” mewn tŷ cyffredin; hyny yw, mewn tŷ yu cael ei ranu i amrywiol o deuluoedd. Dr. Shaw (*Travels*, p. 207.) a ddywed, “Ymddengys fod y dull cyffredin o adeiladu yn Barbary a'r Dwyrain wedi parhau yr un er yr oesoedd boreuaf hyd yr amser presennol, heb ddim newidiad na diwygiad: mae ganddynt ddrysau llydain, ystafelloedd helaeth, &c. Mae y cyntedd, fynychaf, yn cael ei gylchynu gan rodfeydd rhwng colofnau, uwchlaw pa rai, yn gyffredin y mae llofft yn cael ei chodi. O'r rhodfeydd neu y llofftiau arweinir ni i ystafelloedd ehang o'r un hyd â'r cyntedd, ond anfynych iawn, os un amser, y mae ffordd o un i'r llall. Mae un o honynt yn fynych yn gwasanaethu i deulu cyflawn; a hyny pan byddo tad yn caniatâu i'w blant ag a fyddo wedi priodi i fyw gydag ef, neu pan uno amrywiol o bersonau i dalu rhent tŷ rhyngddynt.” Gwel hefyd *Ward's View of the Hindoos*, Vol. 3. p. 196.

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydwyf fi, ond hawddgar, ferched Jerusalem, fel pebyll Cedar, fel lleni Solomon.* Mae pebyll diweddar weithiau yn brydferth iawn. “Nid yw y Tyrciaid yn arbed un draul er gwneuthur eu pebyll yn gyfleus ac ardderchog. Yr oedd y rhai a berthynent i'r Ymerawdwr yn odidog ryfeddol, ac wedi eu gorchuddio oll â sidan; ac yr oedd un o honynt wedi ei dyblu â sidan gwerthfawr, yn un pen o ba un yr oedd ystafell yr eunuchiaid. Ond yr oedd un yn rhagorach hyd yn oed na hon, yr hon y dywedwyd wrthyf ei bod wedi costio pum mil ar hugain o *biastres*:\* yr oedd wedi ei gwneuthur yn Persia, ac wedi ei bwriadu fel anrheg i ymerawdwr Twrci; a buwyd dair neu bedair blynedd wrthi cyn ei gorphen. Nid oedd tu allan y babell hon, yn wir, yn nodedig; ond yr oedd wedi ei dyblu o fewn ag un darn wedi ei wneuthur o flew camel, ac wedi ei harddu â llun blodau, ac ag ymadroddion yn iaith y Tyrciaid.” *Travels, by Egmont and Heyman*, Vol. 1. p. 212.

\* Deryn o arian Italaidd o werth yn nghylch pum swllt o'n harian ni.—Cym.

Nadir Shah, o helaethrwydd ei yspail, a barodd i babell gael ei gwneuthur o'r fath brydferthwch ac ardderchogrwydd ag oedd braidd tu hwnt i ddusgrifiad. Yr oedd y tu allan wedi ei orchguddio â brethyn ysgarlad llydan teg, ac yr oedd wedi ei ddyblu â *satin* o liw y *violet*, ar yr hwn yr oedd lluniau yr holl adar a'r anifeillaidd yn y greadigaeth, a lluniau coed a blodau, oll wedi eu gwneuthur o amrywiol o berlau a meini gwerthfawr: ac yr oedd polion y babell wedi eu harddu mewn modd cyffelyb. Yr oedd cysgodlen o bob tu i'r orsedd, ar yr hon yr oedd lluniau dau angel wedi eu gwneuthur o feini gwerthfawr. Yr oedd nen y babell wedi ei gwneuthur i fynu o saith darn; a phan symmudid hi i unrhyw le, byddai dau o'r darnau hyn, wedi eu troi mewn cottwm, yn cael eu rhoddi mewn coffr coed; byddai dau o'r coffrau hyn yn ddigon o faich i gawrfil (*elephant*): y gysgodlen a lanwai goffr arall. Yr oedd rhanau nesaf allan y babell, y polion, a'r pinau, yr olaf o ba rai oeddynt o aur oll, yn ddigon o lwyth i bump cawrfil yn chwanea; fel yr oedd saith cawrfil yn ofyni i ddwyn y cwbl o'r babell hon. Yr oedd y babell ardderchog hon yn cael ei dangos ar bob gwyl yn y Neuadd Gyhoedd yn Herat,\* trwy ystod teyrnasiad Nadir Shah. *Gladwin's Khojeh Abdulkurreem, p. 31.*

Mae Syr J. Chardin yn dywedyd wrthym, "i frenin diweddar Persia beri i babell gael ei gwneuthur yr hon a gostiodd ddwy filiwn.† Hwyl a'i galwent y Tŷ aur, am fod aur yn disgleirio yn mhob lle o'i amgylch." Efe a chwanea, "fod ymadrodd wedi ei ysgrifenu ar un o'r addurniadau ar y nen yn un o'r prif ystafelloedd, yr hwn a'i galwai hi yn orsedd yr ail Solomon, ac a nodai allan hefyd y flwyddyn y gwnaethpwyd hi." *Tom. 1. p. 303.*

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydwyf fi, fel pebyll Cedar.* Enw ar un o lwythau yr Arabiaid a elwid Bedouin, yw Cedar, yr hwn a goffeir yn fynych yn yr Hen Destament (*Esay 21, 17. Jer. 49. 28.*); ac hefyd gan Pliny (*Nat. Hist. p. 5. chap. 11.*), wrth yr enw Cedrei. Mae yr Arabiaid a elwir Bedouin yn trigo mewn pebyll, y rhai hyd yn oed yn awr ydynt ddu y rhan fwyaf o honynt. "Nid oes gan y Bedouinaid," medd D'Arvieux, "unrhyw anneddau oud eu pebyll, y rhai a alwant hwyl yn dai. Maent wedi eu gwneuthur oll o flew du geifr, gyda y rhai y mae y gwragedd yn cael

\* Un o brif dren Persia.—CFL.

† Tebyg mai dwy filiwn o *biastree*: gwel yr hanes blaenorol.—CFL.

llawer o waith. Maent yn eu nyddu ac yn eu gwau: maent yn gryf, ac wedi eu gwau yn ofalus, a'u taenu yn y fath ddull fel na all y gwlaw hwyaf a thrymaf fyned trwyddynt." Mae Hòst yn sylwi (*Account of Morocco and Fez, p. 127.*) "Mae yr Arabiaid yn byw mewn pebyll, y rhai a alwant hwy Chaima, o herwydd eu bod yn diffynu oddiwrth yr haul a'r gwlaw. Maent wedi eu gwneuthur naill ai o wllân garw neu flew geifr, neu o fân wreiddiau, y rhai y mae gwragedd yn nyddu, ac yn wau mor fanol fel y cadwant allan y gwlaw. Wrth eu hadeiladu, arferir mewn rhai o honynt dri o brif bolion, y rhai a sicheir yn y ddaear, a chwech o rai byrach, yn y gwahanol gonglau ac ochrau; mewn ereill o honynt nid oes ond dau o brif bolion, o phedwar yn y gwahanol gonglau, y rhai nid ynt ond anfynych uwchlaw wyth neu ddeg troedfedd o uchder. Yn lle drws codant i fynu ran o'r babell: hwy a'i cylymant yma ac acw ar y tu allan â rheffynau; ac fel hyn gorphenir yr holl adeilad, ac yna lliwir y cwbl yn ddu â *chopperas*. Rhaid fod y lliw hwn ganddynt yn yr hen oesoedd; canys yn Nghaniad Solomon 1. 5. dywedir, *Du ydwyf fi fel pebyll Cedâr.*"

Essay 22. 1. *Dringait ti oll i nenau y tai.* Yr oedd y tai gynt yn y Dwyrain, fel y maent yn awr, yn cael eu hadeiladu, yn yr un dull. Mae nen y tŷ bob amser yn wastad, yn cael ei orchuddio â cherig llydain yn gyffredin, ac yn cael ei ddiffynu ar bob tu â mur isel, Deut. 22. 8. Mae cymmaint o gyrchu i nen y tŷ ag sydd i unrhyw ran o hono. Os bydd yr hin yn deg, yma y maent yn rhodio, yn bwyta, yn cysgu, yn ymdrin â masnach, (1 Sam. 9. 25.) ac yn cyflawni eu crefyddolderau, Act. 10. 9. Mae y tŷ yn cael ei adeiladu a chyntedd o fewn iddo, i'r hwn, fynychaf, y mae y ffenestri yn agor: mae y rhai sydd yn agor i'r heol yn cael eu cau i fynu yn y fath fodd â dellt, fel na all neb oddifewn nac oddiallan weled fawr trwyddynt. Pa bryd bynag gan hyny y byddo unrhyw beth i'w weled neu i'w glywed yn yr heolydd, y mae pob un yn myned yn ddioed i nen y tŷ i foddhau ei ymofyngarwch. Yn yr un modd, pan fyddo unrhyw beth gan ryw un i'w wneuthur yn gyhoeddus, y ffordd fwyaf barod ac effeithiol at hyny, yw ei gyhoeddi oddiar nenau y tai, i'r bobl yn yr heol. Mat. 10. 27.

"Wedi i ni adael y dyffryn, a myned i fynu i'r bryn, nynt a ddaethom erbyn yn nghylch wyth o'r gloch yn y bore, at dŷ penaeath y pentref. Wedi i ni gael ein tywys ar hyd risiau

geirwon i uen y tŷ, a dyfod i'r lle gwastad, cawsom benaeth pentref arall yn eistedd ar garped; a rhestogau (*mats*) wedi cael eu cyfleu o'i flaen i'n derbyn ninau." *Clarke's Travels, Vol. 2, p. 401.*

"Ni a gymmerasom ein swpper ar y nen, lle yr oeddym yn eistedd, a synasom ychydig pan ddywedwyd wrthym ein bod i gysgu yno hefyd! *Ibid.* 402.

"Cafwyd y gallai penty (*shed*) ar y neilldu i'r nen gynnwys chwech o honom; y lleill a orweddasant ar y nen agored." *Ibid.* 403. *See also Pococke's Travels, Vol. 2. p. 69.*

Esay 22. 23. *Hoel.* Yn yr hen amserau, ac yn y gwledydd dwyreiniol, megys yr oedd eu dull o fyw, felly yr oedd eu tai yn wahanol iawn i'r eiddom ni yn awr. Nid oedd ganddynt hwy y fath gyflawnder na'r fath amrywiaeth o ddoedrefn, na phethau at bob gwasanaeth fel sydd genym ni. Yr oedd yn beth cyfleus, ac hyd yn oed yn angenrheidiol iddynt hwy, ac yr oedd yn rhan hanfodol o adeiladaeth tŷ, i gynnysgaeddu tu fewn amrywiol o ystafelloedd â rhesi o hoelion neu binau hirion, ar y rhai y crogent amrywiol o bethau symmudadwy, ac amrywiol o lestri mewn gwasanaeth cyffredin, a phriodol i'r ystafell. Arferent roddi yr hoelion hyn yn y muriau wrth eu codi ar y cyntaf, gan fod y muriau yn cael eu gwneuthur o'r fath ddefnyddiau ag na oddefent iddynt gael eu gyru i mewn iddynt wedi hyn; a dyfeisid eu gosod yn y fath ffordd ag y buasant yn cadarnhau y muriau trwy uno y gwahanol ranau â'u gilydd, yn gystal a bod yn gyfleus. Dyma yr hanes a rydd Chardin am hyn; "Nid ydynt â morthwyl yn gyru i mewn yr hoelion a osodant yn muriau tai yn y Dwyrain; mae y muriau'ag sydd o briddfeini, yn rhŷ gelyd; a'r rhai sydd o glai, yn rhŷ barod i falurio. Maent yn hoelion hirion, ac iddynt benau petryal; mae y penau yn geimion fel y daliont yn ddiogelach. Maent yn gyffredin yn eu gosod wrth y ffenestri a'r drysau, fel y gallont grogi lleni arnynt pan fynont." *Harmer, Vol. 1. p. 191.* Yr oeddynt yn eu gosod mewn lleoedd ereill hefyd, fel y gallasid crogi arnynt bethau ereill o amrywiol fathau, *Ezec. 15, 3. Zech. 10. 4. Ezra 9. 8.*

Esay 54. 12. *Gwnaf dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini disglaer.* Rhaid mai ystyr yr ymadrodd hwn yw, "Mi a osodaf gerfiadau a rhanau ereill yr adeilad ag sydd yn dy harddu di fel palas, â'r addurniadau mwyaf gwerthfawr," fel y gwychir neuaddau (*halls*) yn y Dwyrain.

"Y peth cyntaf ag sydd yn tynu sylw," medd Ffranklin, (*His-*

ffynnon; hi a esyd ei baban mewn diogelwch, ac a esyd ei chostrel ar goed croesion gerllaw ei gwely, fel yr oero at ei gwasanaeth 'yn y nos neu y dydd nesaf." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2, p. 230.*

"Efe a'n derbyniodd ni wrth y porth nesaf allan, ac a'n harweiniodd trwy ardd fechan i wastad-nen y tŷ, lle yr arweiniwyd ni at amrywiol o Bersiaid a Moguliaid o radd uchel. Yma cawsom fwynhau awel yr hwyr, a golwg, wrth oleu y lloer, ar y gerddi, a difyrwyd ni gan amrywiol o gymdeithasau yn olynol o ferched a pheriaethwyr yn dawnsio, rhagorach rhai na neb ag oeddwn y pryd hwnw wedi weled yn India." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3. p. 81.*

Gan fod nenau y tai yn wastad, yr oedd yno le cyfleus i godi allorau i addoli llu y nefoedd. Gwel 2 Bren. 23. 5, 12. Jer. 19. 13. 22, 29. Seph. 1. 5.

"Yn y nos, mae pawb yn cysgu ar nen eu tai, a thaeant eu gwelyau ar eu hechel-rodfeydd (*terraces*), heb un gorchudd uwch eu penau ond yr awyr. Anfynych y mae gan y tlodion ddim o gylch yr ymylau i'w cadw oddiwrth sylw y rhai a ânt heibio; a chan ein bod ni yn gyffredin yn marchogaeth allan ar geffylau, yn fore iawn, yr oeddym yn gweled pobl ar ben y tai, rhai yn eu gwelyau, ereill yn codi. Ymddangosai fod y gwragedd yn wastad yn codi gyntaf, tra y gwelid y gwrrywod yn fynych yn gorwedd yn eu gwelyau yn hir ar ol i'r haul godi." *Morier's Second Journey through Persia, p. 229. Burckhardt's Travels in Nubia, p. 16. Life. Kinnier's Journey through Asia Minor, p. 134.*

"Ni a gnmmerasom ein swpper ar nen y tŷ er mwyn oerder, yn ol eu defod hwy, a lletyasom yno hefyd mewn math o gell yn nghylch wyth troedfedd betryal (*square*) wedi ei gwneuthur o wiail plethedig, wedi eu dwbio yn y gwaelod, ond heb un drws." *Pococke's Travels, Vol. 2, p. 69.* "Cafwyd penty (*shed*) ar un ystlys i nen y tŷ lle y gallasai chwech o honom fod; y lleill a orweddasant ar y nen heb ddim ond yr awyr uwch en penau." *Clarke's Travels, Vol. 2, p. 403. Travels of Ali Bey, Vol. 2, p. 293. Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3. p. 234. Light's Travels in Egypt, p. 142.*

2 Bren. 4. 10. *Ystafell fechan.* "Wrth y rhan amlaf o'r tai hyn y mae un llai yn gyssylltiedig, yr hwn weithiai sydd uwch o un uchder (*story*) na'r tŷ; brydiau ereill mae yn cynnwys un neu ddwy ystafell yn unig, ac uchel-rodfa (*terrace*); tra y mae i ereill,

y rhai ynt wedi eu hadeiladu (fel y maent yn fynych) uwchben y porth neu y ddyfodfa i mewn, (oddieithr yr ystatell ar y llawr, yr hon nid yw i'r rhai hyn,) yr holl lëoedd ag a berthynant i'r un a elwir yn briodol y tŷ. Mae drws yn arwain o honynt i lofft y tŷ, yr hwn a gedwir yn agored neu yn gauedig yn ol ewyllys gwr y tŷ; heblaw drws arall, yr hwn a egyr i risiau anghyoedd, i wared i'r porth neu i'r heol, heb roi yr aflonyddwch lleiaf i'r tŷ. Mae y tai hyn yn y tu cefn, yn cael eu hadnabod wrth yr enw *olee* neu *oleah* (oanys y tŷ yr hwn yn briodol a ystyrir felly a elwir *dar* neu *beet*,) ac ynddynt hwy yr arferir lletya a chroesawu dweithriaid; ynddynt hwy caniatteir i feibion y teulu gadw eu gordderchwagedd; iddynt hwy hefyd arferu y gwŷr neillduo o derfysg a swm y teulu, ac i gael mwy o lonydd at fyfyrdod neu ddifyrwrch; hefyd ar amserau ereill rhoddir hwynt i gadw gwisgoedd ac ystôr. Y mae tadau, plant, ac ŵyrion, yn byw yn nghyd mewn un tŷ." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 1. p. 219.*

1 Bren. 6. 7. *A'r typan adeiladwyd ef, a adeiladwyd o gerrig wedi eu cwbl naddu cyn eu dwyn yno.* Mae yr ymadroddion hyn yn cael eu hegluro trwy yr hyn a ddywed D'Arvieux yn nghylch Alecsandria yn yr Aipht (*part 1. p. 166.*); "Mae i byrth y ddinas, y rhai ydynt yn sefyll etto, ymddangosiad ardderchog, ac y maent mor uchel a llydain, fel y gallwn gasglu oddiwrthynt fod y lle gynt yn fawr a gwych iawn. Nid oes ynddynt ond pedair careg betryal'; un o ba rai a wasanaetha fel trothwy, mae dwy wedi eu codi yn yr ochrau, a'r bedwaredd wedi ei gosod yn groes i orphwys ar eu penau. Ni raid i mi ddywedyd eu bod yn hên iawn; canys y mae yn hollol adnabyddus, nad oes y fath feini dirfawr, er ys llawer o gannoedd o flynyddoedd a aethant heibio, yn cael eu defnyddio mewn adeiladau. Mae yn rhyfedd pa fodd y gallasai yr hynafiad godi y fath feini trymion o'r chwarelau, eu symmud, a'u gosod i fynu. Mae rhai yn meddwl i'r meini hyn gael eu bwrw (*cast*), ac mai carnedd, tebygol, o gerig mân oedd-ynt, y rhai a unwyd â'u gilydd â'r cymmrwd tecaf; fod moldiau (*models*) yn cael eu gwneuthur yn y lle yr oedd eisiau y meini hyn, yn y rhai yr oedd y cymmrwd a'r cerrig yn cael eu cymmysgu yn nghyd, ac ar ol i'r defnydd hwn sychu a dyfod yn ddigon cadarn, fod y moldiau hyn yn cael eu cymmeryd ymaith yn esmwyth, a graddol, ac yna y meini wedi hyny yn cael eu caboli (*polish*)."

1 Bren. 20. 34. *Cei wneuthur heolydd it' yn Damascus.* Mae



yr amgylchiadau cyssylltiedig â'r ymadroddion hyn, a'r rhai cynwysedig yn yr hanes canlynol, mor ddyg y naill i'r llall, fel yr ymddengys yn eglur gyda pha briodoldeb y dewisodd ein cyfieithwyr ni y gair *heolydd*, yn hytrach nac un o'r rhai ereill ag y mae esponwyr wedi gyanyg iddynt yn ei le. "Wedi i Biazet mewn modd anrhydeddus waredu ei ddinas warchaëdig, efe a ddychwelodd i Gaercystenyn; gan ymosod yn fwy egniol i'w herbyn nac o'r blaen, ac adeiladu caerau a muriau i'w herbyn ar y tu nesaf i'r wlad; ac wedi myned dros gyfyngfor Bosphorus, adeiladodd gastell ar y cyfyngfor hwnw ar gyfer Caercystenyn, i wneuthur oll a allasai i attal dim i fyned i mewn iddi ar hyd y môr. Y gwarchae caeth hwn (fel yr ysgrifena y rhan amlaf) a barhâodd hefyd ddwy flynedd, y rhai y tybiaf, oddiwrth amgylchiadau yr hanes, eu bod yn rhan o'r wyth mlynedd rhag-ddywededig. *Emanuel, yr ymerawdwr gwarchaëdig, yn cael ei ffino gan y rhyfeloedd meithion hyn, a anfonodd genhadwr at Biazet, i ddeisyf heddwch ganddo, ar yr hyn yr oedd Biazet yn fwy parod i wrando, o herwydd ei fod wedi clywed fod Tamerlane, tywysog mawr Tartary, yn bwriadu gwneuthur rhyfel i'w erbyn yn fuan. Er hyny ni ellid cael yr heddwch hon, ond ar yr ammod fod i'r ymerawdwr ganiatau rhyddid i'r Tyrciaid gael preswyllo yn nghyd mewn un heol yn Nghaercystenyn, a chael arfer eu crefydd a'u cyfreithiau eu hunain, dan farnwr o'u cenedl eu hunain; a thalu hefyd i frenhin y Tyrciaid deyrnged flynyddol o ddeg mil o dducatau: yr oedd yn dda gan yr ymerawdwr yn ei gyfyngder dderbyn yr ammodau darostyngiadol hyn. Felly terfynwyd y gwarchae maith hwn, ac yn fuan anfonwyd math o Dyrcaid mawrion yn nghyd a'u teuluoedd o Bithymia, i breswyllo yn Nghaercystenyn, ac adeiladwyd llân iddynt yno; yr hon cyn hir wedi hyny a dynwyd i lawr gan yr ymerawdwr, ac efe hefyd a yrrodd y Tyrciaid drachefn allan o'r ddinas, wedi i Biazet gael ei ddymchwelyd a'i gymmeryd yn garcharor gan Tamerlane nerthol."* *Knolles's History of the Turks, p. 206.*

2 Bren. 1. 4. *Ni ddisgyni o'r gwely.* Gall yr ymadrodd hwn gael ei egluro trwy yr hyn a ddwed Shaw am dai yr Ethiopïaid yn *Barbary (Travels, p. 209.)*, lle, wedi sylwi fod eu hystafelloedd yn helaeth, o'r un hyd a'r cyntedd petryal ar ystlysau yr hwn y maent wedi eu hadeiladu, efe a ychwanega, "yn un pen i bob ystafell y mae llofft fechan wedi ei chodi dair neu bedair troedfedd yn uwch na'r llawr, a chanllaw ar yr ymyl nesaf i'r

ystafell, ac mae ychydig o risiau hefyd yn arwain i fynu iddi. Yma y cyfleant eu gwelyau; scfyllfa y cyfeirir yn fynych ati yn yr Ysgrythyrau Santaidd, yr hyn hefyd a all egluro yr amgylchiad hwnw yn hanes Hezeciah ei waith *yn troi ei wyneb at y pared*, (hyn yw, oddiwrth ei weision,) *pan weddiodd*, 2 Bren. 20. 2. fel y buasai llai o sylw yn cael ei gymmeryd o daerineb ei grefyddolder. Dywedir i Ahab wneuthur yn gyffelyb, 1 Bren. 21. 4.; er fod yn debygol iddo ef wneuthur hyn, nid i un dyben crefyddol, ond i guddio oddiwrth ei weision y gofid yr oedd ynddo o herwydd ei siomedigaeth ddiweddar."

Russel (*Natural History of Aleppo*, p. 4.) a rydd hanes cyffelyb. Efe a ddywed fod y *divan* dwyreiniol yn rhan o'r ystafell ag a godir uwchlaw y llawr, a'u bod yn y gauaf yn taenu carped drosto, ac yn yr haf y taenant restogau (*mats*) teg drosto; o amgylch yr ystlysau y mae *matresses* tewion yn nghylch tair troedfedd o led, wedi eu cuddio yn gyffredin â brethyn ysgarlad, ac y mae gobenyddau mawrion o fath o sidan, wedi eu llanw yn galed â chottwn, wedi eu gosod yn erbyn y mur (neu y cledyr (*rails*), pan fyddo angen eu cyfleu mewn mânau lle na chyffyrddont â'r muriau,) fêl y caffer y cysur o *buwso* arnynt. Gan na ddefnyddir cadeiriau yno, ar y rhai hyn yr eisteddant; a dodrefnir eu holl ystafelloedd mewn modd cyffelyb."

2 Bren. 11. 2. *Ystafell y gwelyau*. Nid yw ystafell y gwelyau, yn ol arferiad y Dwyrain, yn golygu ystafell i letya, ond ystafell lle y cedwir gwelyau yn ystôr. Dywed *Chardin*, "Nid yw gwelyau yn y Dwyrain yn cael eu codi oddiwrth y llawr â physt, &c.; mae y bobl yn gorwedd ar y llawr. Yn yr hwyr maent yn lledu *matress* neu ddau o gottwm, ysgafn iawn, o ba rai y cadwant amrywiol mewn tai mawrion, erbyn y byddo galwad arnynt am danynt, ac y mae ganddynt ystafell yn fwriadol i'w cadw." Oddiwrth hyn ymddengys mai mewn ystafell lle y cedwid gwelyau y cuddiwyd Joas.

1 Cron. 9. 18. *Porth y brenhin*. Gelwid y porth hwn wrth yr enw hwn o herwydd i Solomon ei adeiladu ef a'r rhan arall o'r mur ar y tu hwnw, trwy draul fawr iawn a thrallod rhyfeddol, gan godi y sail bedwar cant cufydd, neu saith cant a naw ar hugain o droedfeddi, o waelod dyffryn dwfn Cedron, trwy ddefnyddio meini mawrion, ugain cufydd, neu un droedfedd ar byntheig ar hugain a naw modfedd o hyd, a chwech cufydd, neu ddeg troedfedd a deg modfedd o uchder (*Josephus*, *Ant.* 20. 9.), fel y

byddai yn gydwastad â'r rhan arall o'r arwynebedd (*surface*). Pan ymwelodd Cadpen LIGHT â Jerusalem, yn 1814, ymddangosai fod rhai o'r meini mawrion hyn yn aros; canys pan yn desgrifio tŷ swyddog gosgordd y Tyrciaid, yr hwn a adeiladwyd yn y fan lle y safai tŷ Pontius Pilat gynt, efe a ddywed, p. 157, "Yr hyn a dynodd fy sylw i fwyaf, oedd tair neu bedair o gerig o faintioli dirfawr, y rhai yr ymddangosai eu bod yn rhan o'r hen dref, ac yn gwneuthur i fynu ran o furiau y palas." Yr oedd hyfrydwch mawr gan yr henafiaid mewn adeiladu â meini mawrion o'r fath hyn; canys, yn nadfeiliau hen adeiladau, gwelwn yn fynych rai o faintioli rhyfeddol. Mr. Wood, yn ei *Ruins of Palmyra and Balbec*, a ddywed, "Fod y meini'a wnant i fynu fur yn yr olaf yn anferthol; mae rhai o honynt a wyth ar hugain i bymtheg ar hugain o droedfeddi o hyd, a naw troedfedd o uwchder. Mae yno dri o'r maintioli canlynol:—deunaw troedfedd a deugain o uwchder, a deuddeg troedfedd o drwch: gronynfeini (*granites*) gwynion ydynt a gwythenau disglaer yn rhedeg trwyddynt."

Yn Bagdad, y mae y porth Al Talism "yn awr wedi ei gau i fynu â phriddfeini, mewn anrhydedd i waith y Sultan Murad yn myned trwyddo yn fuddugoliaethus, wedi iddo adennill Bagdad oddiar y Persiad, a gafael wan mab annheilwng penaeth enwog. O herwydd y dygwyddiad nodedig hwn, cauwyd y porth yn ddioed ar waith y buddugoliaethwr yn myned trwyddo, ac nid agorwyd ef byth wedi hyny.' Ymddengys fod yr arferiad hwn o gau i fynu unrhyw fynedfa a anrhydeddwyd mewn modd neillduol, fel na chaffo hi ei halogi gan berson cyffredin, wedi ffynnu yn helaeth iawn trwy y Dwyrain. Ceir esamplau ereill o fod pyrth yn cael eu cyfrif yn santaidd o herwydd amgylchiadau cyffelyb." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2. p. 262.*

Esther 1. 6. *Y gwelyau oedd o aur oc arian.* Dichon y gellir cael eglurhad ar yr hanes am y gwelyau o aur ac arian oddiwrth ddodrefn diweddar Asia; mae y *divan*, neu y neuadd i roddi gwrandawriad i genhadiaethau, ac hefyd yr ystafell i dderhyn gwahoddedigion mewn tai anghyoedd, yn gyffredin, wedi eu cuddio â charped Persia; o amgylch y rhai y mae clustogau o wahanol faintioli a dull wedi eu cyfleu, mewn gwisgoedd wedi eu harddu ag aur ac arian, neu mewn brethyn ysgarlad wedi ei addurno â gwniadwaith; symmudir y rhai hyn yn achlysurol i'r cynteddoedd

a'r gerddi, a chyfleir hwynt yno at wasanaeth cydymdeithion." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3, p. 191.*

Job 24. 16. *Cloddio trwy dai.* Yr oedd y tai wedi eu hadeiladu o laid cleilyd, neu, ar y goreu, o briddfeini wedi eu ffurfio o hono, defnydd tyner iawn, yr hyn a'u rhoddai yn agored i'r fath ymosodiad; pa fodd bynag, gan fod y muriau mor drwchus, yr oedd cryn lafur yn ofynol cyn treiddio trwyddynt, gan hyny yr oedd cloddio yn angenrheidiol i wneuthur adwy.

"Mae lladron yn Bengal yn fynych iawn yn cloddio trwy y muriau llaid, a than lorïau clai y tai, ac yn dyfod i mewn heb eu canfod, ac yn eu hyspeillo tra y mae y preswylwyr yn cysgu." *Ward's View of the Hindoos, Vol. 2, p. 325.*

Diar 7. 18. *Mi a drwsiais fy ngwely â lleni ac â cherfadau.* Pa beth oedd y gwely hwn, a'r modd yr oedd wedi ei harddu, a ymddengys yn eglur oddiwrth yr hanesyn canlynol. "Yr oedd yr amser i fyned i orphwys yn awr wedi dyfod, ac arweinwyd ni i ystafell helaeth, yn nghanol yr hon yr oedd math o wely, heb un pren nac amgylch-lleni iddo, er fod y cwrlid a'r clustogau yn rhagori mewn gwychder ar yr esmwyth-faingc (*sofa*), yr hon hefyd a harddai yr ystafell. Rhagwelais na allaswn ddysgwyl ond ychydig o orphwysdra ar y gwely hwn, ac yr oeddwn yn awyddus am chwilio ei wneuthuriad mewn modd mwy neillduol. Yr oedd pŷnthegeg *matres* cottwn, yn nghylch tair modfedd o drwch, wedi eu gosod ar eu gilydd, yn gwneuthur i fynu y gwaelod; yr oedd y rhai hyn wedi eu cuddio â llên o liain India, yr hon a wniasid ar y *matres* uchaf. Yr oedd cwrlid o *satin* gwyrdd, wedi ei addurno â gwniadwaith hardd goreuredig, wedi ei sicrhau wrth y llên. Yr oedd dwy glustog fawr o *satin* porphor, yn llawn o wnfadwaith goreuredig, yn gorphwys ar ddwy glustog fawr arall a berthynent i'r esmwyth-faingc, wedi eu dwyn gerllaw i wasanaethu yn gefn, ac yn cael eu bwriadu i ddal ein penau i fynu. Buasai cymmeryd ymaith y clustogau hyn yn ddyfais dda pe buasai genym ryw obenydd; ac wrth droi y tu arall i fynu, gwelsom eu bod wedi eu harddu â gwniadwaith ar y tu isaf yn yr un modd; o'r diwedd penderfynasom i esod ein llaw-liciniau drostynt; er y cwbl yr oeddym yn teimlo yn ddwys oddiwrth y blodau a wnaethid arnynt â'r edau a'r nodwydd." *Du Tott, Vol. 1, p. 95.* "Ar esmwyth-faingc ardderchog yr oedd gorchudd llaes o sidan gwyrdd, i'r un dyben â hwnw yn y neuadd; mi a'i codais i fynu, pan yr oedd y ddau

eunuch ag oedd gyda ni yn troi eu cefnau, a chefais fod yr esmwyth-faingc wedi ei gwisgo â sidan gwerthfawr iawn, wedi ei oreuro, a blodau heirdd wedi eu gweithio arno:—yr oedd y clustogau hefyd o felfed gwyrdd, wedi ei goreuro, â blodau cyffelyb wedi eu gweithio arnynt.”

Diar. 21. 9. *Mewn tŷ ehang.* Mae y LXX. yn arfer *οικω κοινω* am y geiriau hyn, Y Cyfieithad Lladinaidd, “*in domo communi,*” mewn tŷ cyffredin; hyny yw, mewn tŷ yu cael ei ranu i amrywiol o deuluoedd. Dr. Shaw (*Travels*, p. 207.) a ddywed, “Ymddengys fod y dull cyffredin o adeiladu yn Barbary a'r Dwyrain wedi parhau yr un er yr oesoedd boreuaf hyd yr amser presennol, heb ddim newidiad na diwygiad: mae ganddynt ddrysau llydain, ystafelloedd helaeth, &c. Mae y cyntedd, fynychaf, yn cael ei gylchynu gan rodfeydd rhwng colofnau, uwchlaw pa rai, yn gyffredin y mae llofft yn cael ei chodi. O'r rhodfeydd neu y llofftau arweinir ni i ystafelloedd ehang o'r un hyd â'r cyntedd, ond anfynych iawn, os un amser, y mae ffordd o un i'r llall. Mae un o honynt yn fynych yn gwasanaethu i deulu cyflawn; a hyny pan byddo tad yn caniatâu i'w blant ag a fyddo wedi priodi i fyw gydag ef, neu pan uno amrywiol o bersonau i dalu rhent tŷ rhyngddynt.” Gwel hefyd *Ward's View of the Hindoos*, Vol. 3. p. 196.

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydwyf fi, ond hawddgar, ferched Jerusalem, fel pebyll Cedar, fel lleni Solomon.* Mae pebyll diweddar weithiau yn brydferth iawn. “Nid yw y Tyrciaid yn arbed un draul er gwneuthur eu pebyll yn gyfleus ac ardderchog. Yr oedd y rhai a berthynent i'r Ymerawdwr yn odidog ryfeddol, ac wedi eu gorchuddio oll â sidan; ac yr oedd un o honynt wedi ei dyblu â sidan gwerthfawr, yn un pen o ba un yr oedd ystafell yr eunuchiaid. Ond yr oedd un yn rhagorach hyd yn oed na hon, yr hon y dywedwyd wrthyf ei bod wedi costio pum mil ar hugain o *biastres*:\* yr oedd wedi ei gwneuthur yn Persia, ac wedi ei bwriadu fel anrheg i ymerawdwr Twrci; a buwyd dair neu bedair blynedd wrthi cyn ei gorphen. Nid oedd tu allan y babeſl hon, yn wir, yn nodedig; ond yr oedd wedi ei dyblu o fewn ag un darn wedi ei wneuthur o flew camel, ac wedi ei harddu â llun blodau, ac ag ymadroddion yn iaith y Tyrciaid.” *Travels, by Egmont and Heyman*, Vol. 1. p. 212.

\* Deryn o arian Italaidd o werth yn nghylch pum swllt o'n harian ni.—Cym.

Nadir Shah, o helaethrwydd ei yspail, a barodd i babell gael ei gwneuthur o'r fath brydferthwch ac ardderchogrwydd ag oedd braidd tu hwnt i ddustrigriadiad. Yr oedd y tu allan wedi ei orchguddio â brethyn ysgarlad llydan teg, ac yr oedd wedi ei ddyblu â *satin* o liw y *violet*, ar yr hwn yr oedd lluniau yr holl adar a'r anifeillaidd yn y greadigaeth, a lluniau coed a blodau, oll wedi eu gwneuthur o amrywiol o berlau a meini gwerthfawr: ac yr oedd polion y babell wedi eu harddu mewn modd cyffelyb. Yr oedd cysgodlen o bob tu i'r orsedd, ar yr hon yr oedd lluniau dau angel wedi eu gwneuthur o feini gwerthfawr. Yr oedd nen y babell wedi ei wneuthur i fynu o saith darn; a phan symmudid hi i unrhyw le, byddai dau o'r darnau hyn, wedi eu troi mewn cottwm, yn cael eu rhoddi mewn coffr coed; byddai dau o'r coffrau hyn yn ddigon o faich i gawrfil (*elephant*): y gysgodlen a lanwai goffr arall. Yr oedd rhanau nesaf allan y babell, y polion, a'r pinau, yr olaf o ba rai oeddynt o aur oll, yn ddigon o lwyth i bump cawrfil yn chwaneg; fel yr oedd saith cawrfil yn ofynol i ddwyn y cwbl o'r babell hon. Yr oedd y babell ardderchog hon yn cael ei dangos ar bob gwyl yn y Neuadd Gyhoedd yn Herat,\* trwy ystod teyrnasiad Nadir Shah. *Gladwin's Khojeh Abdulkurream*, p. 31.

Mae Syr J. Chardin yn dywedyd wrthym, "i frenin diweddar Persia beri i babell gael ei gwneuthur yr hon a gostiodd ddwy filiwn.† Hwyl a'i galwent y Tŷ aur, am fod aur yn disgleirio yn mhob lle o'i amgylch." Efe a chwanega, "fod ymadrodd wedi ei ysgrifenu ar un o'r addurniadau ar y nen yn un o'r prif ystafelloedd, yr hwn a'i galwai hi yn orsedd yr ail Solomon, ac a nodai allan hefyd y flwyddyn y gwnaethpwyd hi." *Tom. 1. p. 303.*

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydyf fi, fel pebyll Cedar.* Enw ar un o lwythau yr Arabiaid a elwid Bedouin, yw Cedar, yr hwn a goffeir yn fynych yn yr Hen Destament (Esay 21, 17. Jer. 49. 28.); ac hefyd gan Pliny (*Nat. Hist. p. 5. chap. 11.*), wrth yr enw Cedrei. Mae yr Arabiaid a elwir Bedouin yn trigo mewn pebyll, y rhai hyd yn oed yn awr ydynt ddu y rhan fwyaf o honynt. "Nid oes gan y Bedouinaid," medd D'Arvieux, "unrhyw anneddau ond eu pebyll, y rhai a alwant hwyl yn dai. Maent wedi eu gwneuthur oll o flew du geifr, gyda y rhai y mae y gwragedd yn cael

\* Un o brif dren Persia.—CYN.

† Tebyg mai dwy filiwn o *biastreo*: gwel yr hanes blaenorol.—CYN.

llawer o waith. Maent yn eu nyddu ac yn eu gwau: maent yn gryf, ac wedi eu gwau yn ofalus, a'u taenu yn y fath ddull fel na all y gwlaw hwyaf a thrymaf fyned trwyddynt." Mae Hòst yn sylwi (*Account of Morocco and Fez*, p. 127.) "Mae yr Arabiaid yn byw mewn pebyll, y rhai a alwant hwy Chaima, o herwydd eu bod yn diffynu oddiwrth yr haul a'r gwlaw. Maent wedi eu gwneuthur naill ai o wllan garw neu flew geifr, neu o fân wreiddiau, y rhai y mae gwragedd yn nyddu, ac yn wau mor fanol fel y cadwant allan y gwlaw. Wrth eu hadeiladu, arferir mewn rhai o honynt dri o brif bolion, y rhai a sicrheir yn y ddaear, a chwech o rai byrach, yn y gwahanol gonglau ac ochrau; mewn ereill o honynt nid oes ond dau o brif bolion, o phedwar yn y gwahanol gonglau, y rhai nid ynt ond anfynych uwchlaw wyth neu ddeg troedfedd o uchder. Yn lle drws codant i fynu ran o'r babell: hwy a'i cylymant yma ac acw ar y tu allan â rheffynau; ac fel hyn gorphenir yr holl adeilad, ac yna lliwir y cwbl yn ddu â *chopperas*. Rhaid fod y lliw hwn ganddynt yn yr hen oesoedd; oany's yn Nghaniad Solomon 1. 5. dywedir, *Du ydwyf fi fel pebyll Ceddr.*"

Esay 22. 1. *Dringait ti oll i nenau y tai.* Yr oedd y tai gynt yn y Dwyrain, fel y maent yn awr, yn cael eu hadeiladu, yn yr un dull. Mae nen y tŷ bob amser yn wastad, yn cael ei orchguddio â cherig llydain yn gyffredin, ac yn cael ei ddiffynu ar bob tu â mur isel, Deut. 22. 8. Mae cymmaint o gyrchu i nen y tŷ ag sydd i unrhyw ran o hono. Cs bydd yr hin yn deg, yma y maent yn rhodio, yn bwyta, yn cysgu, yn ymdrin â masnach, (1 Sam. 9. 25.) ac yn cyflawni eu crefyddolderau, Act. 10. 9. Mae y tŷ yn cael ei adeiladu a chyntedd o fewn iddo, i'r hwn, fynychaf, y mae y ffenestri yn agor: mae y rhai sydd yn agor i'r heol yn cael eu cau i fynu yn y fath fodd â dellt, fel na all neb oddifewn nac oddiallan weled fawr trwyddynt. Pa bryd bynag gan hyny y byddo unrhyw beth i'w weled neu i'w glywed yn yr heolydd, y mae pob un yn myned yn ddiwed i nen y tŷ i foddhau ei ymofyngarwch. Yn yr un modd, pan fyddo unrhyw beth gan ryw un i'w wneuthur yn gyhoeddus, y ffordd fwyaf barod ac effeithiol at hyny, yw ei gyhoeddi oddiar nenau y tai, i'r bobl yn yr heol. Mat. 10. 27.

"Wedi i ni adael y dyffryn, a myned i fynu i'r bryn, nyni a ddaethom erbyn yn nghylch wyth o'r gloch yn y bore, at dŷ penaeth y pentref. Wedi i ni gael ein tywys ar hyd risiau

ddarnau mawrion o fynor, ac y mae yr holl adeilad yn cael ei choroni ar y pen â phedwar tŵr o'r un defnydd. Mae y lleoedd brenhiniol at ymolchi a adeiladwyd gan Shah Jehan yn sefyll ychydig i'r Gogledd o'r neuadd hon, ac yn cynnwys tair ystafell helaeth; a thyrâu uwch eu penau o fynor gwyn: Y mae y tu fewn iddynt, dros yn nghylch dwy ran o dair o'r ffordd i fynu, wedi ei wisgo â mynor, a'r ymylau wedi eu haddurno â blodeu-waith wedi ei wneuthur o feini heirdd, a'r cwbl wedi ei gyflawni yn y modd mwyaf ardderchog."

Jer. 2. 18. *Beth sydd i ti a wnelych yn ffordd Assyria, i yfed dyfroedd yr ason?* Mae yr Euphrates yn wastad yn lleidiog, ac nid yw y dwfr, gan hyny, yn dda i'w yfed, oddieithr iddo gael aros awr neu ddwy mewn llestr pridd, i'r llaid gael disgyn i'r gwaelod, yr hwn a geir weithiau gymmaint a modfedd neu ddwy o drwch ar waelod llestr wedi i'r dwfr aros. Gan hyny nid heb reswm y dywedodd yr Arglwydd trwy y proffwyd Jeremiah, *Beth sydd a wnelych yn ffordd Assyria, i yfed dwfr yr ason (Euphrates)?* O herwydd hyn yr ydym yn cael yn nhai y ddinas a'r pentrefi, ond yn enwedig yn y tai sydd yn ymyl yr Aïon Fawr, lawer o lestri pridd y rhai a ddaliant gelyrmaid neu ddau o ddwfr, y rhai a lanwant o'r Euphrates, ond ni ddefnyddiant y dwfr hyd nes byddo y llaid wedi disgyn i'r gwaelod, oddieithr eu bod yn dyoddef cyfyngder syched, a'r prydiau hyny maent yn yfed trwy eu llaw-liëiniau. *Rauwolff's Travels, p. 139.*

Jer. 22. 13. *Ystafellau.* Goruwch-ystafellau. Y prif ystafellau gynt yn Judea oeddynt y rhai oedd uchod, megys hyd y dydd beddyw yn Aleppo; gan fod yr ystafellau ar y llawr yn cael eu defnyddio yn benaf at wasanaeth eu gwasanaethwyr a'u hani-feiliaid. *Russell's Nat. Hist. of Aleppo, p. 4. Busbequius, (Epis. 3. p. 150.)* wrth lefaru am y tŷ a rentasai efe yn Nghaercystenyn, a ddywed, "Y rhan uchaf yn unig a broswylir; canys rhoddir y rhan isaf i gadw y ceffylau." *See Turner's Tour in the Levant, Vol. 2. p. 314.*

"Yn *Prevesa*† mae y tai oll o goed, ac heb ddim ond ystafelloedd ar y llawr i'r rhan amlaf o honynt; a lle y mae un uchder arall, mae y ffordd i'r ystafelloedd hyny ar hyd ysgol neu risiau o goed o'r tu allan, ond yn cael ei chysgodi gan ymylau y nen. Yn y tai hyn mae y ceffylau a'r da yn cael yr ystafelloedd isaf, neu y maent yn cael eu troi yn ystordai, ac mae y teuluoedd

† Porthladd cryn enwog gynt yn Albania.—CYN.



*tory of Shah Allum*), “yw y neuadd gyhoeddus i wrando cenhadwriaethau pob math o bobl. Y mae hi yn sefyll yn mhen uchaf petryal helaeth; ac er ei bod yn bresennol wedi dadfeilio llawer, y mae hi etto yn adeiliad ardderchog. Ac ar bob tu i'r neuadd, ac oll o amgylch y betryal, y mae ystafelloedd o ddau uchder, muriau a wyneb y rhai, yn amser gwychder yr ymerodraeth, oeddynt yn cael eu haddurno â chyflawnder o lèni, melfed, a'r sidan gwerthfawrocaf. Yr oedd y boneddigion yn ymgystadlu â'u gilydd pwy fuasai yn eu gwneuthur yn fwyaf ardderchog, yn enwedig ar wyliau a dyddiau o lawenydd cyhoedd, pan y rhoddent olwg odidog iawn. Gwel Esther 1. 6. Oddiyma aethom i mewn i un arall.

“Mae yr adeilad hon hefyd yn sefyll yn mhen uchaf petryal helaeth, wedi ei chodi ar rodfa o fynor yn nghylch pedair troedfedd o uchder.

Yr oedd y neuadd hon mewn amserau a aethant heibio wedi ei haddurno â gwychder anarferol: ac er ei bod amrywiol o weithiau wedi cael ei dyosg a'i hyspeilio gan oresgynwyr yn olynol, gwelir ynddi o hyd brydferthwch digonol i'w gwneuthur yn rhyfeddol. Yr wyf yn barnu fod yr adeilad yn gant a hanner o droedfeddi o hyd ac yn ddeugain troedfedd o led. Mae y nen yn wastad, ac yn gael ei chynnal gan amrywiol o golofnau o fynor gwyn teg, y rhai ydynt wedi cael eu haddurno mewn modd ardderchog â meini o wahanol liwiau wedi eu gweithio ar ddull blodau, a'u gosod i mewn ynddynt:\* yr oedd y taleithiau (*cornices*) a'r ymylau wedi eu haddurno a cherfiadau godidog. Yr oedd y mŵd (*ceiling*) wedi ei wisgo gynt â dalen werthfawr o arian drosto oll, yr hon sydd wedi ei chymmeryd ymaith er ys amser hir. Mae y manylwch gyda pha un y mae y dis-waith (*inlaid-work*) wedi ei wneuthur yn ngwahanol ranau y mur, yn cael ei ryfeddu yn fawr. Ac mae yn achos o ofid mawr fod y fath ddiffrod barbaraid wedi cael ei wneuthur arno, trwy dynu allan yr addurniadau hyn, a dryllio y mynor. Ar y tu allan i'r neuadd hon, ar y dalaith (*cornice*), y mae y llinellau canlynol wedi eu hysgrifenu mewn llythyrenau o aur, ar waelod o fynor gwyn, *Os oes paradwys ar y ddaear, dyma hi, dyma hi, dyma hi.* Mae uchel-rodfa yr adeilad hon wedi ei gwneuthur i fynu o

\* Yr oedd y gwaith ar y colofnau hyn ryw beth o'r un dull a'r un ag oedd ar y colofnau a safent yn mhorth teml Solomon.—C7H.

ddarnau mawrion o fynor, ac y mae yr holl adeilad yn cael ei choroni ar y pen â phedwar tŵr o'r un defnydd. Mae y lleoedd brenhiniol at ymolchi a adeiladwyd gan Shah Jehan yn sefyll ychydig i'r Gogledd o'r neuadd hon, ac yn cynnwys tair ystafell helaeth; a thyrau uwch eu penau o fynor gwyn. Y mae y tu fewn iddynt, dros yn nghylch dwy ran o dair o'r ffordd i fynu, wedi ei wisgo â mynor, a'r ymylau wedi eu haddurno â blodeu-waith wedi ei wneuthur o feini heirdd, a'r cwbl wedi ei gyflawni yn y modd mwyaf ardderchog."

Jer. 2. 18. *Beth sydd i ti a wnelych yn ffordd Assyria, i yfed dyfroedd yr afon?* Mae yr Euphrates yn wastad yn lleidiog, ac nid yw y dwfr, gan hyny, yn dda i'w yfed, oddieithr iddo gael aros awr neu ddwy mewn llestr pridd, i'r llaid gael disgyn i'r gwaelod, yr hwn a geir weithiau gymmaint a modfedd neu ddwy o drwch ar waelod llestr wedi i'r dwfr aros. Gan hyny nid heb reswm y dywedodd yr Arglwydd trwy y proffwyd Jeremiah, *Beth sydd a wnelych yn ffordd Assyria, i yfed dwfr yr afon (Euphrates)?* O herwydd hyn yr ydym yn cael yn nhai y ddinas a'r pentrefi, ond yn enwedig yn y tai sydd yn ymyl yr Aŏn Fawr, lawer o lestri pridd y rhai a ddaliant gelyrmaid neu ddau o ddwfr, y rhai a lanwant o'r Euphrates, ond ni ddefnyddiant y dwfr hyd nes byddo y llaid wedi disgyn i'r gwaelod, oddieithr eu bod yn dyoddef cyfyngder syched, a'r prydiau hyny maent yn yfed trwy eu llaw-lieiniau. *Rauwolff's Travels, p. 139.*

Jer. 22. 13. *Ystafellau.* Goruwch-ystafellau. Y prif ystafellau gynt yn Judea oeddynt y rhai oedd uchod, megys hyd y dydd beddyw yn Aleppo; gan fod yr ystafellau ar y llawr yn cael eu defnyddio yn benaf at wasanaeth eu gwasanaethwyr a'u hani-feiliaid. *Russell's Nat. Hist. of Aleppo, p. 4. Busbequius, (Epis. 3. p. 150.)* wrth lefaru am y tŷ a rentasai efe yn Nghaercystenyn, a ddywed, "Y rhan uchaf yn unig a breswylir; canys rhoddir y rhan isaf i gadw y ceffylau." *See Turner's Tour in the Levant, Vol. 2. p. 314.*

"Yn *Prevesat* mae y tai oll o goed, ac heb ddim ond ystafelloedd ar y llawr i'r rhan amlaf o honynt; a lle y mae un uchder arall, mae y ffordd i'r ystafelloedd hyny ar hyd ysgol neu risiau o goed o'r tu allan, ond yn cael ei chysgodi gan ymylau y nen. Yn y tai hyn mae y ceffylau a'r da yn cael yr ystafelloedd isaf, neu y maent yn cael eu troi yn ystordai, ac mae y teuluoedd

† Porthladd cryn enwog gynt yn Albania.—Cyn.

yn byw yn yr ystafelloedd uchaf, o bai rai nid oes ond yn anaml fwy na dwy yn yr un tŷ. *Hobhouse's Journey in Albania*, p 16. "Yn ngwlad Groeg mae gan y rhai cyfoethoccaf o honynt dai ac iddynt ddau uchder; mae yr ystafelloedd ar y llawr yn cael eu rhoddi i gadw y ceffylau a'r dâ, ac yn ystordy." *Dodwell's Tour through Greece*, Vol. 1, p. 169.

Jer. 22. 14. *Mi a adciladaf i mi dŷ eang ac ystafellau helaeth.* Ymyl y ddalen, *a'r awyr yn myned trwyddynt.* Yr oedd ganddynt amrywiol o ffyrdd i oeri eu hystafelloedd yn yr Aipht. Gwneir hyn weithiau trwy agoriadau yn y nen, trwy y rhai y gollyngir awyr i mewn. Y maent yn gwneuthur eu neuaddau yn helaeth ac uchel, a chromen (*dome*) ar y pen, i'r hon tua'r gogledd y mae amrywiol o ffenestri. Mae y rhai hyn wedi eu gwneuthur yn y fath fodd ag y tafiant wynt y gogledd i wared i'r ystafelloedd, hyd nes y maent yn cael eu hoeri yn effeithiol. Arferir dyfeisiau ereill i gael cylchrediad rhwydd i'r awyr. Yr oedd nen eu hystafelloedd wedi eu byrddio o fewn, ac weithiau wedi eu harliwio a'u goreuro: tebyg mai mewn ystafell debyg i'r rhai hyn yr oedd Egion brenin Moab, Barn. 3. 20.

Yr ydym yn dysgu oddiwrth Dr. Pococke, eu bod yn yr Aipht yn gorwedd yn fynych yn yr ystafelloedd oerion hyny ag y mae nendyrau iddynt i ollwng awyr i mewn, a rhoddant eu gwelyau ar eu hesmwyth-feinciau. Ac y mae y gwres yn y gwledydd Dwyreiniol mor fawr ar ganol dydd, yn amser haf, fel y mae y bobl yn fynych yn *gorwedd i gysgu* ar ganol dydd, yn enwedig pobl wanaidd; ac felly y gwnaent gynt, fel yr ymddengys oddiwrth hanes Isboseth, 2 Sam. 4. 5, 7.

Mr. Sale ar y Koran, (*Note 6, p. 295, ch. 24.*) a ddwed, "Mae *cysgu ganol dydd* yn beth cyffredin yn y Dwyrain, a phob gwlad boeth. Felly y dywed Niebuhr, *Description de l'Arabie*, p. 6. "Megys y mae yr haul, yn nghanol yr haf, bron yn gywir uwch ben Arabia, y mae yr awyr yn gyffredin mor boeth yno yn Gorpbenhaf ac Awst, fel, oddicithr pan fyddo galwad neillduol, nad ocs neb yn teithio wedi un ar ddeg yn y bore hyd dri yn y prydnhawn; yn anaml iawn y mae yr Arabiaid yn gweithio yn ystod yr oriau hyny; *maent yn gyffredin yn eu treulio trwy gysgu* mewn lle a ollyngo i mewn wynt trwy y nen i'r dyben i'r awyr gael cylchredeg. Dyma hefyd yr arferiad yn Bagdad, yn ynys Charej, ac cfallai mewn trefi ereill yn y wlad hono."

Ier. 22. 14. *Llofft* (Saesneg, mwd, ceiling) o *gedrwydd wedi ei lliwio â fermilion*. Wrth lefaru am y tai diweddar yn Aleppo, dywed Dr. Russell, (p. 2.) mae eu mw dau o goed, wedi eu harliwio yn hardd, ac weithiau wedi eu goreuro, fel y mae caendau (*shutters*) y ffenestri, rhanau o'u drysau, a'u dodrefn at gadw cwppanau a llestri ereill, wedi eu gwneuthur yn yr un modd: y mae yr olwg arnynt yn hyfryd iawn." Felly y mae *Maundrell*, (*Journey, April 28.*) wrth son am dai yn Damascus, yn dywedyd, "mae y mw dau yn ol dull y Tyrciaid, wedi eu lliwio a'u goreuro yn odidog."

Ier. 36. 22. *A'r brenhin oedd yn eistedd yn y gauafdy, yn y naufed mis, a thân wedi ei gynneu* (Saesneg, ar aelwyd) *ger ei fron*. Yn ol pob tebygolrwydd y mae y gair â gyfieithir *aelwyd*, yn golygu math a badeill symmudadwy at gadw tanwydd i'w llosgi, y fath ag a arferir etto yn y Dwyrain at gadw eu hystafelloedd yn dwym yn y gauaf. Yr oedd y fath ddyfeisiau mewn arferiad yn mrysg y Groegiaid gynt, a gelwir hwynt gan Homer *Δαμπερρες*, *Odys*, 19, *lin.* 63, 64. lle y dwyded eise i forwynion Penelope daflu y lludw o'r badell ar y llawr, ac yna crugio coed arnynt er mwyn cael goleu a gwres." *Comp. Odys.* 18, *lin.* 306—310, 342.

Mae y Groegiaid diweddar yn dilyn eu hynafiaid. "Nid oes simneiau," medd Mons. De Guys, "yn nhai y Groegiadd. Mae padell yn cael ei gosod yn nghanol yr ystafell, a'r rhai nad ydynt yn ddigon twym pan yu eistedd draw, a allant yn gyfleus nesu ati. Mae hon yn hen arferiad drwy yr holl Ddwyrain. Yr oedd y dull hwn gan y Rhufeiniaid, ac y mae y Tyrciaid yn glynu wrtho. Yr oedd y badell bon, yr hon a elwid *Δαμπερρ*, medd *Hesychius*, yr hyn a goffir gan *Madame D' Acier*, yn cael ei gosod yn nghanol yr ystafell, ar yr hön y llosgent goed i dwymo yr ystafell, a fflaglau i'w goleuo. Hi a safai ar ystol deir-troed, fel yn bresenol. Ni ddaeth lampau i arferiad hyd yn hir wedi hyny." *Parkhurst's Heb. Lex.* p. 12. *3d edit.*

Yn nhai yr Hindwaid nid oes na simnai nac aelwyd. Yn y gauafau oerion mae y cyfoethgiou yn llosgi coed mewn math o lestri pres neu bridd at ddal tân, y rhai a gyfleir yn yr ystafell. Mae y tlodion yn llosgi fflaglau ar y llawr. *Ward's View of the Hindoos.*

"Gan fod dinas Merdin yn gorwedd yn uchel, nid yw yn dwym iawn yn yr haf, ac y mae hi yn gryn oer yn y ganaf.

y mddengys fod gwybodaeth yn eu cylch yn anhebgorol angenrheidiol mewn trefn i ddeall meddwl yr ysgrifenywyr santaidd yn y manau hynny: ac heb y wybodaeth hon, mynych y gwneir cam mawr ag amrywiol o ysgrythyrau, ac yr arweinir y lliaws i gyfeiliornadau peryglus.

Yn yr oesoedd diweddar, mae amrywiol o ddynion gwybodus wedi bod trwy y Dwyrain, ac wedi sylwi yn fanol ar ddull y trigolion o fyw, yr hwn, y mddengys, sydd yn awr yn gyffelyb i'r hyn oedd yn y cynoesoedd. "Mae arferiadau y Dwyrain," medd Morier, yn hanes ei ail daith trwy Persia, "yn nghanol eu holl gyfnewidiadau mewn llywodraeth a chrefydd, o hyd yr un; mae arferion cyffredin y trigolion, yn dwyn yr hen amseroedd ar gof i'r teithiwr, ac yn cadarnhau, uwchlaw pob peth, brydferthwch, cywirdeb, a phriodoldeb iaith y Bibl."

Dichon fod rhai o'r teithwyr hyn yn eu hymofyniadau, yn gweithredu dan lywodraeth ysbryd o elyniaeth at yr Ysgrythyrau, ac yn amcanu eu dymchwelyd: ond, pa fodd bynnag, mae ysgrifeniadau y rhai hyn oll yn uno i gadarnhau tystiolaeth y prophwydi a'r apostolion, ac mae yr hanesion a roddant yn rhoddi goleuni gwerthfawr ar fanau tywyllion yn y Gyfrol santaidd.

Ac, er ein mantais fawr ni, yr ydym yn cael y pethau mwyaf buddiol yn yr hanesion a gyhoeddasant, wedi eu crynhoi at eu gilydd i gylch bychan; ac y maent yn awr yn cael eu cynnyg i sylw y Cymro, yn ei iaith ei hun.

Yn y llyfr hwn gall ieuencyd gael llawer o wybodaeth fuddiol am bethau ysgrythyrol, mewn modd hyfryd a difyrus: mewn llwybr tebygol o aros ar eu côf, a gwneuthur argraff ar eu meddyliau, a hawdd iddynt ei chyfranu i ereill.

Yn y Cyfieithiad o waith Mr. Burder, ymdrechais i roddi y cwbl mewn iaith mor eglur ag y gallaswn osod y pethau a gynnwysai:

ni raid dywedyd wrth rai cyfarwydd ag ysgrifeniadau cyffelyb, fod eu dwyn i iaith eglur i'r Cymry yn gyffredinol, yn orchwyl anhawddach nac y meddylia neb ei fod nes ei gynnyg: mewn trefn i egluro rhai pethau tywyllion, rhoddias amrywiol o sylwadau ar odrau y dail, a rhoddais lawer o rai ereill i mewn yn nghorff y gwaith. Ac, fel ychwanegiad, dygais i mewn gymmaint ag a allaswn o'r pethau mwyaf buddiol yn ngwaith rhagorol PAXTON ar y defodau hyn.

Rhydd yr hanesion sydd yn y llyfr hwn olwg ar ddull y Patricirch o fyw, a thrwyddynt gellir gweled grym a harddwch mewn llawer o ysgrythyrau na welid ynddynt o'r blaen. Hyderaf y bydd y gwaith o les mawr i'm cydwladwyr.

E. GRIFFITHS.

*Ebrill 15, 1837.*

eunuch ag oedd gyda ni yn troi eu cefnau, a chefaís fod yr esmwyth-faingc wedi ei gwisgo â sidan gwerthfawr iawn, wedi ei oreuro, a blodau heirdd wedi eu gweithio arno:—yr oedd y clustogau hefyd o felfed gwyrdd, wedi ei goreuro, â blodau cyffelyb wedi eu gweithio arnynt.”

Diar. 21. 9. *Mewn tŷ ehang.* Mae y LXX. yn arfer *οικω οικω* am y geiriau hyn, Y Cyfieithad Lladinaidd, “*in domo communi,*” mewn tŷ cyffredin; hyny yw, mewn tŷ yu cael ei ranu i amrywiol o deuluoedd. Dr. Shaw (*Travels*, p. 207.) a ddywed, “Ymddengys fod y dull cyffredin o adeiladu yn Barbary a’r Dwyrain wedi parhau yr un er yr oesoedd boreuaf hyd yr amser presennol, heb ddim newidiad na diwygiad: mae ganddynt ddrysau llydain, ystafelloedd helaeth, &c. Mae y cyntedd, fynychaf, yn cael ei gylchynu gan rodfeydd rhwng colofnau, uwchlaw pa rai, yn gyffredin y mae llofft yn cael ei chodi. O’r rhodfeydd neu y llofftau arweinir ni i ystafelloedd ehang o’r un hyd â’r cyntedd, ond anfynych iawn, os un amser, y mae ffordd o un i’r llall. Mae un o honynt yn fynych yn gwasanaethu i deulu cyflawn; a hyny pan byddo tad yn caniatáu i’w blant ag a fyddo wedi priodi i fyw gydag ef, neu pan uno amrywiol o bersonau i dalu rhent tŷ rhyngddynt.” Gwel hefyd *Ward’s View of the Hindoos*, Vol. 3. p. 196.

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydruf fi, ond hawddgar, ferched Jerusalem, fel pebyll Cedar, fel lleni Solomon.* Mae pebyll diweddar weithiau yn brydferth iawn. “Nid yw y Tyrciaid yn arbed un draul er gwneuthur eu pebyll yn gyfleus ac ardderchog. Yr oedd y rhai a berthynent i’r Ymerawdwr yn odidog ryfeddol, ac wedi eu gorchuddio oll â sidan; ac yr oedd un o honynt wedi ei dyblu â sidan gwerthfawr, yn un pen o ba un yr oedd ystafell yr eunuchiaid. Ond yr oedd un yn rhagorach hyd yn oed na hon, yr hon y dywedwyd wrthyf ei bod wedi costio pum mil ar hugain o *biastres*:\* yr oedd wedi ei gwneuthur yn Persia, ac wedi ei bwriadu fel anrheg i ymerawdwr Twrci; a buwyd dair neu bedair blynedd wrthi cyn ei gorphen. Nid oedd tu allan y babeŵl hon, yn wir, yn nodedig; ond yr oedd wedi ei dyblu o fewn ag un darn wedi ei wneuthur o flew camel, ac wedi ei harddu â llun blodau, ac ag ymadroddion yn iaith y Tyrciaid.” *Travels*, by *Egmont and Heyman*, Vol. 1. p. 212.

\* Deryn o arian Italaidd o werth yn nghylch pum swllt o’n harian ni.—CYN.

Nadir Shah, o helaethrwydd ei yspail, a barodd i babell gael ei gwneuthur o'r fath brydferthwch ac ardderchogrwydd ag oedd braidd tu hwnt i ddsgrifiad. Yr oedd y tu allan wedi ei orchguddio â brethyn ysgarlod llydan teg, ac yr oedd wedi ei ddyblu â *satin* o liw y *violet*, ar yr hwn yr oedd lluniau yr holl adar a'r anifeillaidd yn y greadigaeth, a lluniau coed a blodau, oll wedi eu gwneuthur o amrywiol o berlau a meini gwerthfawr: ac yr oedd polion y babell wedi eu harddu mewn modd cyffelyb. Yr oedd cysgodlen o bob tu i'r orsedd, ar yr hon yr oedd lluniau dau angel wedi eu gwneuthur o feini gwerthfawr. Yr oedd nen y babell wedi ei wneuthur i fynu o saith darn; a phan symmudid hi i unrhyw le, byddai dau o'r darnau hyn, wedi eu troi mewn cottwm, yn cael eu rhoddi mewn coffr coed; byddai dau o'r coffrau hyn yn ddigon o faich i gawrfil (*elephant*): y gysgodlen a lanwai goffr arall. Yr oedd rhanau nesaf allan y babell, y polion, a'r pinau, yr olaf o ba rai oeddynt o aur oll, yn ddigon o lwyth i bump cawrfil yn chwanea; fel yr oedd saith cawrfil yn ofynol i ddwyn y cwbl o'r babell hon. Yr oedd y babell ardderchog hon yn cael ei dangos ar bob gwyl yn y Neuadd Gyhoedd yn Herat,\* trwy ystod teyrnasiad Nadir Shah. *Gladwin's Khojeh Abdulkurreem, p. 31.*

Mae Syr J. Chardin yn dywedyd wrthym, "i frenin diweddar Persia beri i babell gael ei gwneuthur yr hon a gostiodd ddwy filiwn.† Hwyl a'i galwent y Ty aur, am fod aur yn disgleirio yn mhob lle o'i amgylch." Efe a chwanea, "fod ymadrodd wedi ei ysgrifenu ar un o'r addurniadau ar y nen yn un o'r prif ystafelloedd, yr hwn a'i galwai hi yn orsedd yr ail Solomon, ac a nodai allan hefyd y flwyddyn y gwnaethpwyd hi." *Tom. 1. p. 303.*

Caniad Solomon 1. 5. *Du ydwyf fi, fel pebyll Cedar.* Enw ar un o lwythau yr Arabiaid a elwid Bedouin, yw Cedar, yr hwn a goffeir yn fynych yn yr Hen Destament (*Essay 21, 17. Jer. 49. 28.*); ac hefyd gan Pliny (*Nat. Hist. p. 5. chap. 11.*), wrth yr enw Cedrei. Mae yr Arabiaid a elwir Bedouin yn trigo mewn pebyll, y rhai hyd yn oed yn awr ydynt ddu y rhan fwyaf o honynt. "Nid oes gan y Bedouinaid," medd D' Arvieux, "unrhyw anneddau ond eu pebyll, y rhai a alwant hwyl yn dai. Maent wedi eu gwneuthur oll o flew du geifr, gyda y rhai y mae y gwragedd yn cael

\* Un o brif dren Persia.—CYN.

† Tebyg mai dwy filiwn o *biastreo*: gwel yr hanes blaenorol.—CYN.



llawer o waith. Maent yn eu nyddu ac yn eu gwau: maent yn gryf, ac wedi eu gwau yn ofalus, a'u taenu yn y fath ddull fel na all y gwlaw hwyaf a thrymaf fyned trwyddynt." Mae Hòst yn sylwi (*Account of Morocco and Fez*, p. 127.) "Mae yr Arabiaid yn byw mewn pebyll, y rhai a alwant hwy Chaima, o herwydd eu bod yn diffynu oddiwrth yr haul a'r gwlaw. Maent wedi eu gwneuthur naill ai o wllân garw neu flew geifr, neu o fân wreiddiau, y rhai y mae gwragedd yn nyddu, ac yn wau mor fanol fel y cadwant allan y gwlaw. Wrth eu hadeiladu, arferir mewn rhai o honynt dri o brif bolion, y rhai a sicrheir yn y ddaear, a chwech o rai byrach, yn y gwahanol gonglau ac ochrau; mewn ereill o honynt nid oes ond dau o brif bolion, o phedwar yn y gwahanol gonglau, y rhai nid ynt ond anfynych uwchlaw wyth neu ddeg troedfedd o uchder. Yn lle drws codant i fynu ran o'r babell: hwy a'i cylymant yma ac acw ar y tu allan â rheffynau; ac fel hyn gorphenir yr holl adeilad, ac yna lliwir y cwbl yn ddu â *chopperas*. Rhaid fod y lliw hwn ganddynt yn yr hen oesoedd; oany's yn Nghaniad Solomon 1. 5. dywedir, *Du ydwyf fi fel pebyll Cedâr.*"

Esay 22. 1. *Dringait ti oll i nenau y tai.* Yr oedd y tai gynt yn y Dwyrain, fel y maent yn awr, yn cael eu hadeiladu, yn yr un dull. Mae nen y tŷ bob amser yn wastad, yn cael ei orchguddio â cherig llydain yn gyffredin, ac yn cael ei ddiffynu ar bob tu â mur isel, Deut. 22. 8. Mae cymmaint o gyrchu i nen y tŷ ag sydd i unrhyw ran o hono. Cs bydd yr hin yn deg, yma y maent yn rhodio, yn bwyta, yn cysgu, yn ymdrin â masnach, (1 Sam. 9. 25.) ac yn cyflawni eu crefyddolderau, Act. 10. 9. Mae y tŷ yn cael ei adeiladu a chyntedd o fewn iddo, i'r hwn, fynychaf, y mae y ffenestri yn agor: mae y rhai sydd yn agor i'r heol yn cael eu cau i fynu yn y fath fodd â dellt, fel na all neb oddifewn nac oddiallan weled fawr trwyddynt. Pa bryd bynag gan hyny y byddo unrhyw beth i'w weled neu i'w glywed yn yr heolydd, y mae pob un yn myned yn ddioed i nen y tŷ i foddhau ei ymofyngarwch. Yn yr un modd, pan fyddo unrhyw beth gan ryw un i'w wneuthur yn gyhoeddus, y ffordd fwyaf barod ac effeithiol at hyny, yw ei gyhoeddi oddiar nenau y tai, i'r bobl yn yr heol. Mat. 10. 27.

"Wedi i ni adael y dyffryn, a myned i fynu i'r bryn, nyni a ddaethom erbyn yn nghylch wyth o'r gloch yn y bore, at dŷ penaeth y pentref. Wedi i ni gael ein tywys ar hyd risiau

geirwon i nen y tŷ, a dyfod i'r lle gwastad, cawsom benaeth pentref arall yn eistedd ar garped; a rhestogau (*mats*) wedi cael eu cyfleu o'i flaen i'n derbyn ninau." *Clarke's Travels, Vol. 2, p. 401.*

"Ni a gymmerasom ein swpper ar y nen, lle yr oeddym yn eistedd, a synasom ychydig pan ddywedwyd wrthym ein bod i gysgu yno hefyd! *Ibid. 402.*

"Cafwyd y gallai penty (*shed*) ar y neilldu i'r nen gynnwys chwech o honom; y lleill a orweddasant ar y nen agored." *Ibid. 403. See also Pococke's Travels, Vol. 2. p. 69.*

Esay 22. 23. *Hoel.* Yn yr hen amserau, ac yn y gwledydd dwyreiniol, megys yr oedd eu dull o fyw, felly yr oedd eu tai yn wahanol iawn i'r eiddom ni yn awr. Nid oedd ganddynt hwy y fath gyflawnder na'r fath amrywiaeth o ddodrefn, na phethau at bob gwasanaeth fel sydd genym ni. Yr oedd yn beth cyfleus, ac hyd yn oed yn angenrheidiol iddynt hwy, ac yr oedd yn rhan hanfodol o adeiladaeth tŷ, i gynnysgaeddu tu fewn amrywiol o ystafelloedd â rhesi o hoelion neu binau hirion, ar y rhai y crogent amrywiol o bethau symmudadwy, ac amrywiol o lestri mewn gwasanaeth cyffredin, a phriodol i'r ystafell. Arferent roddi yr hoelion hyn yn y muriau wrth eu codi ar y cyntaf, gan fod y muriau yn cael eu gwneuthur o'r fath ddefnyddiau ag na oddefent iddynt gael eu gyru i mewn iddynt wedi hyny; a dyfeisid eu gosod yn y fath ffordd ag y buasent yn cadarnhau y muriau trwy uno y gwahanol ranau â'u gilydd, yn gystal a bod yn gyfleus. Dyma yr hanes a rydd Chardin am hyn; "Nid ydynt â morthwyl yn gyru i mewn yr hoelion a osodant yn muriau tai yn y Dwyrain; mae y muriau'ag sydd o briddfeini, yn rhŷ gelyd; a'r rhai sydd o glai, yn rhŷ barod i fulurio. Maent yn hoelion hirion, ac iddynt benau petryal; mae y penau yn geimion fel y daliont yn ddiogelach. Maent yn gyffredin yn eu gosod wrth y ffenestri a'r drysau, fel y gallont grogi lleni arnynt pan fynont." *Harmer, Vol. 1. p. 191.* Yr oeddynt yn eu gosod mewn lleoedd ereill hefyd, fel y gallasid crogi arnynt bethau ereill o amrywiol fathau, *Ezec. 15, 3. Zech. 10. 4. Ezra 9. 8.*

Esay 54. 12. *Gwnaf dy ffenestri o risial, a'th byrth o feini disglaer.* Rhaid mai ystyr yr ymadrodd hwn yw, "Mi a osodaf gerfiadau a rhanau ereill yr adeilad ag sydd yn dy harddu di fel palas, â'r addurniadau mwyaf gwerthfawr," fel y gwychir neuaddau (*halls*) yn y Dwyrain.

"Y peth cyntaf ag sydd yn tynu sylw," medd Ffranklin, (*His-*

*tory of Shah Allum*), “yw y neuadd gyhoeddus i wrando cenhadwriaethau pob math o bobl. Y mae hi yn sefyll yn mhen uchaf petryal helaeth; ac er ei bod yn bresennol wedi dadfeilio llawer, y mae hi etto yn adeiliad ardderchog. Ac ar bob tu i'r neuadd, ac oll o amgylch y betryal, y mae ystafelloedd o ddau uchder, muriau a wyneb y rhai, yn amser gwychder yr ymerodraeth, oeddynt yn cael eu haddurno â chyflawnder o lèni, melfed, a'r sidan gwerthfawrocaf. Yr oedd y boneddigion yn ymgystadlu â'u gilydd pwy fuasai yn eu gwneuthur yn fwyaf ardderchog, yn enwedig ar wyliau a dyddiau o lawenydd cyhoedd, pan y rhoddent olwg odidog iawn. Gwel Esther 1. 6. Oddiyma aethom i mewn i un arall.

“Mae yr adeilad hon hefyd yn sefyll yn mhen uchaf petryal helaeth, wedi ei chodi ar rodfa o fynor yn nghylch pedair troedfedd o uchder.

Yr oedd y neuadd hon mewn amserau a aethant heibio wedi ei haddurno â gwychder anarferol: ac er ei bod amrywiol o weithiau wedi cael ei dyosg a'i hyspeilio gan oresgynwyr yn olynol, gwelir ynddi o hyd brydferthwch digonol i'w gwneuthur yn rhyfeddol. Yr wyf yn barnu fod yr adeilad yn gart a hanner o droedfeddi o hyd ac yn ddeugain troedfedd o led. Mae y nen yn wastad, ac yn gael ei chynnal gan amrywiol o golofnau o fynor gwyn teg, y rhai ydynt wedi cael eu haddurno mewn modd ardderchog â meini o wahanol liwiau wedi eu gweithio ar ddull blodau, a'u gosod i mewn ynddynt:\* yr oedd y taleithiau (*cornices*) a'r ymylau wedi eu haddurno a cherfiadau godidog. Yr oedd y mŵd (*ceiling*) wedi ei wisgo gynt â dalen werthfawr o arian drosto oll, yr hon sydd wedi ei chymmeryd ymaith er ys amser hir. Mae y manylwch gyda pha un y mae y dis-waith (*inlaid-work*) wedi ei wneuthur yn ngwahanol ranau y mur, yn cael ei ryfeddu yn fawr. Ac mae yn achos o ofid mawr fod y fath ddiffrod barbaraid wedi cael ei wneuthur arno, trwy dynu allan yr addurniadau hyn, a dryllio y mynor. Ar y tu allan i'r neuadd hon, ar y dalaith (*cornice*), y mae y llinellau canlynol wedi eu hysgrifenu mewn llythyrenau o aur, ar waelod o fynor gwyn, *Os oes paradwys ar y ddaear, dyma hi, dyma hi, dyma hi.* Mae uchel-rodfa yr adeilad hon wedi ei gwneuthur i fynu o

\* Yr oedd y gwaith ar y colofnau hyn ryw beth o'r un dull a'r un ag oedd ar y colofnau a safent yn mhorth teml Solomon.—Cru.

Nid yw y lampau hyny yn rhoddi llawer o oleuni, etto y' maent yn gyfleus iawn, o herwydd y gellir eu symmud yn hawdd o un lle i'r llall."

"Gyda golwg ar y lanternau, maent yn debyg iawn yn eu dull i gawell adar, ac y maent wedi eu gwneuthur o gyrs (*reeds*). Mae mewn un bump neu chwech o wydrau, cyffelyb i'r un a ddesgrifiwyd esioes. Maent yn eu crogi wrth reffynau yn nghanol yr heolydd, pan fyddo unrhyw wyl fawr yn Cairo, a rhoddant bapur wedi ei liwio yn lle y cyrs." *Part 1, p. 83.*

Ai y rhai hyn oedd y lanterni ag y gwnaeth y rhai a ddaethant i ddal Crist ddefnydd o honynt? neu ai at y fath lampau a hyn y cyfeiriai Crist yn nammeg y morwynion? neu a ydym ni yn hytrach i feddwl mai yn yr Aipht, pan yn goleuo eu dinasoedd ar amserau nodedig, yr arferir y lanternau hyn, a bod desgrifiad Pococke o lanternau y wlad hon yn rhoddi i ni well drychfeddwl am y rhai a ddefnyddid gynt yn Jerusalem? Wrth lefaru am waith pobl yr Aipht yn teithio, efe a ddywed, "Yn y nos anfynych yr arferant bebyll, ond gorweddant dan yr awyr, a chanddynt lanternau wedi eu gwneuthur ar ddull lanternau papur, wedi eu cymhwyso i'w dwyn mewn llogellau, a'r pen a'r gwaelod wedi eu gwneuthur o efydd (*copper*) wedi ei wisgo âg alcarn (*tin*), ac yn lle papur maent wedi eu gwneuthur o liain, yr hwn a gedwir allan gan gylchau o edafedd haiarn, a phan roddir y darnau at eu gilydd, gwasanaethant yn ganwyllbren, &c., ac y mae ganddynt ffordd i'w grogi allan trwy godi i fynu dri phawl."

Act. 9. 34. *Cyfod, a chyweiria dy wely.* Yr oedd *matresses*, neu ryw bethau o'r fath hyny, yn cael eu defnyddio i gysgu arnynt. Yr oedd yr Israeliaid gynt yn gorwedd ar garpedau. Mae Russell (*p. 90.*) yn dywedyd, "*matress* wedi ei osod ar y llawr yw y gwelyau, ar yr hwn y mae y lleni, (yn y gauaf mae carped neu orchudd o wllân,) wedi eu gosod arno, ac y mae llên arall wedi ei gwnio wrth y *quilt*. Mae un o glustogau y neuadd yn gwasanaethu yn fynych yn obenydd a chlustog y gwely." Nid ydynt yn awr yn cadw eu gwelyau wedi eu gwneuthur yn barod; mae y *matresses* yn cael eu troi yn nghyd, eu cymmeryd ymaith, a'u rhoddi mewn celloedd hyd nes byddo eu heisiau erbyn y nos. Oddiwrth hyn ni a welwn briodoldeb geiriau ein Hiachawdwr wrth y dyn claf o'r parlys, *Cyfod, cymmer dy wely i fynu a rhodia. Mat. 9. 6.*

"Nid yw o un dyben chwilio am ystafelloedd gwelyau yn aa-

neddau y Groegiaid a'r Tyrciaid. Yr esmwyth-feingciau ag sydd ganddynt yn yr ystafellau lle y maent yn byw ydynt y lloedd y mae y bobl o'r radd uchaf yn gorphwys ynddynt y nos: ar y llawr y mae y bobl iselradd yn gorphwys. Ar eu hesmwyth-feingciau maent yn taenu eu *matresses* cwtwm neu wllan, lleni cwtwm, y rhai weithiau ydynt wedi eu trwsio ag addurniadau o fwslin; maent hefyd yn taenu *quilts* addurnedig arnynt. Nid yw y gwŷr na'r gwragedd yn dyosg ond rhan fechan o'u dillad; ac anfynech y mae y bobl iselradd yn dyosg un dilledyn, cyn bwrw eu hunain i lawr yn mysg eu mantellau geirwon, y rhai ydynt eu gorchudd yn y nos." *Holland's Travels in Albania*, p. 158.

Act. 20. 8, 9. *Ac yr oedd llawer o lampau yn y llofft lle yr oeddynt wedi ymgasglu. A rhyw wr icuanc a'i enw Eutychnus, a eisteddai mewn ffenestr; ac efe a syrthiodd mewn trymguwg, tru yr oedd Paul yn ymresymmu yn hir, wedi ei orchfygu gan gwrsg ac a gwymppodd i lawr o'r drydedd llofft, ac a gyfodwyd i fynu yn farw.* "Mae y tŷ lle yr wyf yn bresennol yn byw yn rhoddi yr hyn a ymddengys i mi yn ddrychfeddwl cywir o'r olygfa hōno, sef, cwmp Eutychnus o'r llofft uchaf tra yr oedd Paul yn pregethu, Act. 20. 6, 12. Yn ol ein drychfeddwl ni am dai, mae y darluniad yn mhell iawn oddiwrth fod yn ddealladwy: ac heblaw hyn, mae y gorchwyl o bregethu yn gadael, yn gyffredin, ar feddwl darllenwyr esgeulus y dŷb am addoldŷ. Y disgrifiad o'r tŷ hwn, yr hwn nid yw lawer o filltiroedd o bellder oddiwrth Troas, ac efallai, oddiwrth natur anghyfnewidiol defodau Dwyrein- iol, sydd yn debyg iawn i'r tai a adeiledid y pryd hwnw, a eglura yr hanes yn gyflawn. Wrth ddyfod at ddrws fy lletywr, yr ym yn cael fod yr ystafelloedd ar y llawr yn cael eu defnyddio yn hollol fel ystordai; mae y lle ar y llawr yn cael ei lanw â chelyrnau o olew, cynnyrch y wlad fras o amgylch dros lawer o filltiroedd: mae y lle hwn mor bell o fod yn gymhwys i'w anneddu, fel y mae weithiau mor fudr o herwydd diferiad yr olew, fel y mae yn anhawdd oael allan le glân i osod troed i lawr i fyned oddiwrth y drws at y grisiau. Wrth fyned i fynu, yr ydym yn cael yn yr ail uchder, ystafelloedd canolig, ddim yn uchel iawn; mae y rhai hyn yn cael eu defnyddio gan y teulu at eu gwasanaeth beunyddiol. Gyda yr uchder nesaf yr ant mewn traul: mae y llēni a'r rhestogau prydferth, a'r clustogau sydd o gylch yr ymylau, yn dangos y parch gyda yr hwn y bwriadant dderhyn y rhai a ymwelant â hwynt. Yma, hefyd, y mae eu gwycheder,

gan ei fod ar nen y tŷ, yn cael ei fwynhau gan y Groegiaid thodion gyda mwy o neillduedd, ac y mae llai o gyfle gan y Tyrciaid i'w haflonyddu; yma, pan ymwelodd athrawon yr athrofa â mi i dahu eu parch, hwy a dderbyniwyd mewn dull trefnus, ac a eisteddasant ar ffenestr. Mae yr ystafell hon yn uwch ac yn helaethach na'r rhai sydd odditani; y mae iddi ddwy ffenestr yn sefyll allan; ac y mae yr holl lawr yn estyn allan yn wyneb y tŷ gymmaint dros ran isaf yr adeilad, fel y mae y ffenestri sydd yn sefyll allan yn crogi yn gryn bell uwchben yr heol. I'r fath oruwch-ystafell, un o'r neilldu, helaeth, a chyfleus, y gwahoddwyd St. Paul i bregethu cyn iddo ymadael. Mae y *ditan*, neu yr eisteddle yr hwn a godwyd yn uwch na'r rhon arall o'r ystafell, â chlustogau a rhestogau, yn cylchynu y rhan fewnol o bob un o'r ffenestri hyn y rhai ag sydd yn sefyll allan; mi a sylwais eu bob weithiau, pan fyddai y cwmpeini yn lliosog, yn gosod clustogau mawrion tu ol i'r ewmpeini ar y *divan*; fel y mae ail res o gwmpeini, yn eistedd yn uwch ar y tu ol i'r rhes flaenaf. Yr oedd Eutyclus, wrth eistedd fel hyn, yn gydwastad â'r ffenestr ag oedd yn agored; ac yn cael ei orchfygu gan gwsg, peth hawdd oedd iddo syrthio o'r drydedd lofft i'r heol; ac yr oedd bron yn sier, o'r fath uchder, o golli ei fywyd. Aeth St. Paul i wared ag a gysurodd y cydymdeithion brawychedig trwy ddwyn Eutyclus i fynu yn fyw. Nodir fod *llawer o lampau yn y llofft*. Trwy fod cyflawnder mawr o olew yn y gymmydogaeth, gallent ddefnyddio llawer o lumpau; gallasai gwres y rhai hyn, a'r fath gwmpeini lliosog, achosi trymder y dyn ieuanc ar yr awr hwyr hōno; a bod yn achos hefyd fod y ffenestri yn agored." *Jowett's Christian Researches in the Mediterranean*, p. 66.

Phil. 2. 15. *Yn mhliith y rhai yr ydych yn disgleirio megys goleuadau yn y byd*. Mae y gyffelybiaeth hon yn cyfeirio at yr adeiladau a alwn ni goleudai (*light-houses*), yr ardderchoccaf o ba rai a gyfodwyd yn ynys *Pharos*,\* pan adeiladodd *Ptolemy Philadelphus* y tŷr nodedig hwnw, ar yr hwn y cedwid fflam ddisglaer yn wastadol yn y nos, fel y gallai morwyr weled eu fiordd yn gywir, a diogelu eu hunain rhag llong-ddrylliad. Yr oedd rhai o'r goleudai hyn wedi eu gwneuthur ar ddull dynion. Yr oedd y Colossus yn Rhodest† yn dal goleu mewn un llaw ag

\* Ynys yn Mor y Canoldir, ar gyfer Alexandria, yn yr Aipht.—CYN.

† Ynys arall yn Mor y Canoldir yn nghylch 40 milltir o byd, a 15 o led.—CYN.

oedd yn goleuo yr holl borthladd. Yr oedd y goleuadau hyn hefyd weithiau yn symmudadwy, ac arferid hwy i oleuo minteioedd (*caravans*) o farsiantdwytr trwy yr anialwch yn y nos. Mae Pitts yn eu disgrifio fel hyn: "Maent rywbeth yn debyg i flychau haiarn (*stoves*), yn y rhai y rhoddant ddarnau byrion o goed sychion, â pha rai y mae rhai o'r camelod wedi eu llwytho. Mae un o'r polion hyn yn perthyn i bob cymdeithas; mae ar ben un o'r polion hyn weithiau ddeg, weithiau ddeuddeg o'r goleuadau hyn, ac y maent hefyd o wahanol ddulliau, un efallai, yn hirgul, un arall yn dairnglog, neu fel N. neu M., &c. Maent yn cael eu dwyn o'r blaen, ac yn cael eu gosod i fynu yn y fan lle y byddo y fintai i aros, cyn y delo hi yn mlaen, y naill ryw ychydig o bellder oddiwrth y llall." *Dr. Pococke's Travels, Vol. 2, p. 33.*

## PENNOD II.

### PRIODASAU.

GEN. 24. 4. *I'm gwlad i yr ai, ac at fy nghenedl i yr ai di, ac a gymmeri wraig i'm mab Isaac.* Yn Bengal, mae gwr ieuanc fel Isaac; nid oes ganddo ddim i'w wneuthur yn y dewisad o'i wraig. Mae rhieni yn gosod ereill ar waith i geisio gwragedd i'w meibion. Y rhai sydd yn gadael eu cartref i ymofyn am waith, maent yn wastadol yn priodi eu plant yn eu gwlad eu hunain, ac yn mhlith eu cydnabod; ni wnant hyny un amser yn mhlith y bobl y preswylant gyda hwynt. *Ward's View of the Hindoos, Vol. 2, p. 315.*

"Yr oedd bywyd neillduedig y menywod yn y Dwyrain, yr hwn oedd y fath fel nad allai dyn ieuanc ond yn anfynych wneuthur dewisiad rhydd, o herwydd nad allai farnu am dymher merch ieuanc, nac am ei golwg pan dan orchudd, wedi dwyn i mewn yr arferiad o fod y rhieni yn cymmeryd arnynt ddewis gwragedd i'w meibion. Gwelsom i Hagar roddi Aiphtes yn wraig i Ismael. Yn yr amserau cyntaf pan oedd y Groegiaid yn enwog, yr oedd yr un arferiad yn ffynnu yn eu plith, ac o herwydd yr un rhesymau. Gan fod llawer o ryfeloedd wedi cyfodi o herwydd fod menywod ieuainc wedi cael eu dwyn ymaith trwy drais, meddylid na ellid eu gwyllo gyda digon o ofal; gan hyny anfynych yr oedd y priod-fab yn gydnabyddus â'r briod-ferch yr hon a ofynasai ei dad iddo.

Achilles a wrthododd y cynnyg o gael dewis o dair merch Agamemnon, ac a ddywedodd y buasai i'w dad Peleus roddi gwraig iddo ef." *Stollberg's History of Religion, part 1, p. 141.*

Mae Abraham yn rhoddi gorchymmyn i'w was i ddewis gwraig i Isaac, yn mhlith ei gyfeillion neu ei berthynasau, ac oddiwrth y rhan olaf o'r hanes, ymddengys fod Rebecca yn wýres i Nachor, brawd Abraham. Mae yr un arferiad yn ffynu o hyd yn mysg y llwyth hwnw o Arabiaid a elwir *Bedouin*. "Nid yw cydwaedoliaeth," medd Don Raphael, "yn un rhwystr i briodas, hyd nes y deuir at ryw radd bennodol; yn y gwrthwyneb, y mae pob Arabiaid yn ymdrechu priodi plentyn neu wýres brawd neu chwaer, ac y mae y berthynas yn rhoddi blaenoriaeth i'r ymgeisydd gyda y tad, yr hwn y gall efe ei ddadleu er ei fantais, os bydd amrywiol o ymgeiswyr am y ferch ar y pryd hwnw." *The Bedouins, part 3, p. 144.*

Gen. 29. 20. *Jacob a wasanaethodd am Rahel saith mlynedd: ac yr oeddynt yn ei ohwg ef fel ychydig ddyddiau, am fod yn hoff ganddo efe hi.* Mae Herodotus, (*Clio, p. 82, edit. Gale,*) yn coffáu defod hynod iawn yn mhlith y Babiloniaid, yr hon a all wasanaethu i dafnu goleu ar ymddygiad Laban at Jacob." Yn mhob dosparth y maent ar ddiwrnod peniodedig yn casglu yr holl forwynion ag sydd mewn oed i briodi; a phan byddo y meibion wedi dyfod yn nghyd, a sefyll o amgylch y lle, mae y cyhoeddydd yn codi i fynu ac yn gwerthu y naill ar ol y llall, gan ddwyn yn mlaen yn wastadol yr un fwyaf brydferth yn gyntaf: ac ar ol ei gwerthu hi am swm da o aur, efe a esyd i fynu yr hon a fernir nesaf ati mewn harddwch. Ar yr achlysur hwn arferai y rhai mwyaf cyfoethog o'r Babiloniaid ymgystadlu am y wraig brydferthaf, a chynnyg uwchlaw eu gilydd; ond byddai y rhai cyffredin yn boddloni cymmeryd y rhai anhardd a chloff ág arian gyda hwynt: canys ar ol i'r holl forwynion prydfarth gael eu gwerthu, mae y cyhoeddydd yn gorchymmyn i'r un fwyaf anhardd sefyll i fynu, ac ar ol iddo ofyn yn gyhoeddus pwy a wna ei phriodi ond cael swm beehan gyda hi, y mae hi yn cael ei rhoddi i'r dyn a foddono ei phriodi gyda y swm leiaf. Yn y modd hwn y mae yr arian a geir wrth werthu y rhai harddaf, yn gwasanaethu yn waddol (*portion*) i'r rhai nid yw eu golwg yn hyfryd, neu y rhai y mae ynddynt ryw amherffeithrwydd corphoral. Nid oedd tad yn cael caniattad i borthi ei fympwy yn y dewisad o w'r i'w ferch, ac ni allasai y



prynwr ddwyn ymaith y wraig a brynasai efe, heb roddi diogelwch digonol y buasai efe byw gyda hi fel ei wraig. Yr oedd y rhai hyny hefyd ag a dderbynient swm o arian gyda y rhai na chyrhaeddent bris yn y farchnad, yn gorfod rhoddi diogelwch y byddent byw gyda hwynt; ac os na wnaent, byddent yn gorfod rhoddi yr arian yn ol.”

Yn Java,\* wedi cael cydsyniad y perthynasau, mae y priod-fab yn rhwym i wasanaethu y rhieni dros flwyddyn. *Raffles's History of Java, Vol. 1, p. 325.*

“Mae gan y *Naudowessies* ddefod ryfedd yn nghylch eu priodasau, yr hon nid ymddengys yn debyg i'r rhai a arferir gan unrhyw lwyth arall y daethum trwyddynt. Pan byddo un o'u meibion ieuainc wedi sefydlu ar ferch ieuanc a fyddo efe yn hoffi, mae yn datguddio ei serch i'w rhieni, y rhai a roddant wahoddiad iddo i ddyfod a byw gyda hwynt yn eu pabell; yn ganlynol efe a dderbyn y cynnyg, ac wrth wneuthur hyny efe a ymrwma i drigo yno dros flwyddyn yn y cymmeriad o wasanaethwr; yn ystod yr amser hwn y mae yn hela cymmaint ag a allo at wasanaeth y teulu: trwy hyn y mae y tad yn gallu gweled a all efe ddarparu at gynhaliaeth ei ferch, a'r plant a allont gael. Ni wneir hyn, pa fodd bynnag, ond pan byddont yn ieuainc, ac am y wraig gyntaf, ac nid yw yn cael ei fynychu fel gwasanaeth Jacob. Pan ddelo y tymhor hwn i ben, mae y briodas yn cael ei chyflawni yn ol defod y wlad.” *Clark and Lewis's Travels to the Missouri, p. 101.*

“Yn y dull o briodi, mae tad y forwyn yn gwneuthur dewisiad o ryw. ddyn ieuanc yn wr iddi, yn gyffredin o deulu israddol, ac y mae y teulu hwnw yn ymwrthod â phob hawl iddo yn mhellach, ac y mae yn cael ei gymmeryd i dŷ ei dad-yn-nghyfraith, yr hwn sydd yn lladd ŷch ar yr achlysur, ac yn derbyn ugain *dollar* oddiwrth berthynasau y mab; wedi hyn mae ei ddrwg a'i dda ef yn dyfod yn eiddo i deulu y wraig. Os bydd iddo ladd neu yspeilio, y maent hwy yn talu y ddirwy; os caiff efe e? lofruddio, y maent yn derbyn y ddirwy: y maent hwy hefyd yn agored i unrhyw ddyled a dyno efe wedi ei briodas, y mae y dyledion cyn hyny yn aros ar ei rieni. Y mae efe yn byw yn y teulu mewn cyflwr rhwng eiddo mab ac eiddo dyledwr; y mae efe fel mab yn cyfranogi o'r hyn a fyddo yn y teulu, ond nid yw yn berchenog

\* Ynys helaeth berthynol i Asia, yn yr India Ddwyreiniol.—Cryn.

arno ei hun ; mae ei blanhigion *rice*, a chynnyrch ei ardd *bepper*, a'r cwbl a ennillo efe, yn perthynu i'r teulu. Mae yn agored i gael ei ysgaru pan ewyllysiont hwy, ac er fod plant ganddo, rhaid iddo adael y cwbl, a dychwelyd yn noeth fel y daeth. Mae y teulu weithiau yn caniatáu iddo symmud i dŷ iddo ei hun, ond y mae efe, ei blant, a'i eiddo, yn feddiant iddynt hwy o hyd. Os na bydd ganddo ferched trwy y briodas, efe a all brynu ei hun a'i wraig ; trwy dalu ei *joojoor* hi. Ond os bydd merched cyn y rhyddhaer hwynt, mae yr anhawsdra yn cael ei fwyhau, o herwydd fod gan y teulu yr un hawl i'w gwerth hwythau : peth cyffredin, pa fodd bynag, pan fyddont yn heddychol â'u gilydd, yw iddo ef gael ei ryddhau, wrth dalu un *joojoor*, neu yn y man eithaf gyda y chwanegiad o'r swm o hanner cant o *ddollars* ; wrth dalu y swm hwn, efe a all sefyll am gael ei ryddhad tra na byddo ei ferched mewn oed i briodi." *Marsden's History of Sumatra*, p. 224.

"Mae y *Burdooraunes* yn Cabul,\* hyd yn oed y dydd hwn, yn byw ryw amser gyda yr hwn sydd mewn golwg i fod yn dad-yn-nghyfraith iddynt, ac yn ennill eu priod-ferch trwy eu gwasanaeth, fel y gwasanaethodd Jacob am Rahel, heb un amser weled gwrthrych eu dymuniad." *Elphinston's Cabul*, b. 2, c. 3. *Holderness on the Customs of the Crim Tartars*, p. 8.

Barnwyr 14. 11. *Cymmerasant ddeg ar hugain o gyfeillion i fod gydag ef.* "Yn yr hwyr mi a aethum i un o'r priodasau. Yr oedd tri offeiriad yn cynnorthwyo yn y cyflawniad o honi. Aeth lliaws o wŷr a llanciau a chanddynt oleuadau yn eu dwylaw, o dŷ y priod-fab (gan ei adael ef yn nhŷ ei dad) at dŷ y briod-ferch. Ar ol aros yn nghylch hanner awr, daeth y briod-ferch allan, yn cael ei chanlyn gan ei chyfeillesau, a dechreuwyd yr orymdaith : y gwŷr yn myned yn mlaenaf, a'r benywod ar eu hol a'r briod-ferch yn eu blaenori. Ar eu gwaith yn dyfod gerllaw y llân arosasant, tra yr aeth y priod-fab yn mlaenaf i'r llân ar ol ei dad a'i gyfeillion, y rhai oeddynt yn sier yn fwy na deg ar hugain mewn rhifedi, i fod yn barod i dderbyn ei briod-ferch. Ar ol hyn y briod-ferch a'i chydymdeithion a acthant i mewn trwy ddrws y rhan a berthynai i'r menywod. Yr oedd swm dibaid yn ystod yr amser y buwyd wrth y ddefod, yr hon a barhaodd gerllaw hanner awr." *Jowett's Christian Researches in Syria*, p. 87.

\* Talaeth yn Asia.—Cym.

Ruth 8. 9. *Ac efe a ddywedodd, Pwy wyt ti? a hi a ddywedodd, Myfi yw Ruth dy law-forwyn: lleda dy aden dros dy law-forwyn, canys fy nghyfathrachwr i ydwyt ti.* Yr oedd y ddefod neillduol hon yn cael ei bwriadu i gydnabod a chyfaddef perthynas, yn nghyd a'r dyledswyddau perthynol iddi. "Yn nghylch dau o'r gloch daethom at wersyllfa, lle y penderfynwyd i ni orphwys. Un o'm harweinyddion, wrth gymmeryd ymaith ein dodrefn, &c. mewn modd bwriadol a osododd fy ngwn (*gun*) yn y cyfryw sefyllfa, fel, oni buasai i mi ei gipio i fynu, y buasai y camel yn penlinio arno, ac yn ei ddi. Y penaeth a ddaeth allan i'm croesawu, ac a'm harweiniodd i'w babell; yna efe a blygodd i'r llawr, a chan ledu allan ei wisg, dywedodd wrthyf, 'Fab fy ewythr, os nad oes genyt ddim arall i gysgu arno, ti a gei orphwys yma.'" *Sir F. Henniker's Notes during a Visit to Egypt, Nubia, &c.*

Esay 44. 18. *Cauodd eu llygaid.* Un o'r defodau mewn priodasau Iuddeuwig yn Aleppo, yw *sicrhau yr amrantau wrth eu gilydd â gum*. Y priod-fab yw y person sydd yn agoryd llygaid y briod-ferch, ar yr amser gosodedig. *Russell's Hist. of Aleppo*, p. 132.

Nid ymddengys fod un cyfeiriad yn yr ysgrythyrau at y ddefod hon; ond arferid hyn hefyd fel cosp yn y gwledydd hyn. Mae capelydd (*chaplain*) Sir T. Roe, yn ei hanes am ei fordaith i'r India Ddwyreiniol, yn son am fab blaenor y Moguliaid,\* a welsai efe, yr hwn a gawsai ei fwrw i garchar gan ei dad, lle yr oedd a'i lygaid wedi cael eu *selio yn nghyd* (trwy osod rhywbeth o'u blaen y: hwn ni allesid ei gymmeryd ymaith) dros dair blynedd. Wedi yr amser hwnw cymmerwyd ymaith y sel hōno, fel y caffai efe ryddid i fwynhau y goleuni, er na ryddhâwyd ef." P. 471. "Efe a barodd i'w lygaid gael eu gwnio yn nghyd, fel yr arferir gwneuthur yma weithiau, i'r dyben o'i amddifadu ef o'i olwg, fel y caffai efe felly ei anghymwysu i beri un terfysg mwy; yr hwn wniad, os pery yn hir, sydd, meddant, yn dinystrio y golwg: ond ar ol enyd, ei dad a barodd i lygaid y tywysog hwn gael eu hagoryd drachefn, fel na ddallwyd ef, ond daeth i weled eilwaith, ac nid oedd ond cosp dros dymmor." *Delle Valle*, p. 29. Mae tywysogion ereill wedi cael eu trin mewn modd gwahanol, pan fernid yn gynhwys eu darostwng; mae

\* Pobl Tartari, yn Asia.—CYN.

*cyffyriau* wedi cael eu rhoddi iddynt i'w gwneuthur yn *hurt*. Fel hyn y mae *Olearius* yn dywedyd wrthym (p. 915.) i Schah Abas, y brenin nodedig hwnw. o eiddo y Persiaid, yr hwn a fu farw yn 1629, orchymmya i ryw gymmaint o *opium* gael ei roddi bob dydd i'w wŷr, yr hwn oedd i'w ganlyn, i'w wneuthur yn hurt, fel na buasai ganddo un achos i'w ofni ef. Cyffelyb, tebygol, yw yr amgylchiadau y cyfeirir atynt yn yr ymadrodd hwn, megys hefyd yn *Essay* 6. 10. ac yn yr olwg hon pa mor brydferth yr ymddengys y geiriau hyn! Gradd y personau sydd yn cael eu trin fel hyn, y tynerwch a ddangosir yn y fath gospedigaethau, ag nad yat i barhau ond dros ychydig, a'r dyben sydd mewn golwg ar eu hol, i wneuthur y personau hyn yn gyfranogion o'r bri mwyaf, amgylchiadau a ymddangosant oll yn yr hanesion hyn, ac a wasanaethant i dafu golwg dyner dros yr oruchwyliaeth hon o eiddo Rhagluniaeth at y rhai a haeddent lymdostedd mawr.

Matt. 22. 11. *Gwisg priodas*. Peth arferol oedd i bersonau ymddangos mewn gwledd priodas mewn gwisg odidog, yn gyffredin wedi eu haddurno â brwyd-waith blodeuog, fel y dywed rhai ysgrifenywyr wrthym (gwel Dat. 19. 8, a *Hammond in loc.*); ond megys na ellir dysgwyl i deithwyr wrth gael eu cymmell fel hyn i mewn ddarparu iddynt eu hunain, rhaid i ni gan hyny gasglu, nid yn unig oddiwrth wychder y darpariadau, i ba rai rhaid i ni feddwl fod ystafell-wisgoedd y tywysog yn cyfateb, ond hefyd oddiwrth waith y brenin yn digio wrth y gwestwr hwn, fod gwisg wedi cael ei chynnyg, ond iddi gael ei gwrthod: ac y mae hwn yn amgylchiad ag sydd (fel y mae *Calvin* yn sylwi) yn debyg ryfeddol i drefn Duw 'o ymdrin â ni, yr hwn yn wir sydd yn gofyn santeiddrwydd mewn trefn i ni gael derbyn bendithion yr efengyl, ond sydd yn rasol yn gweled yn dda i'w weithio ynom trwy ei Ysbryd Glân, am hyny a all yn briodol ddigio wrthym a'n cospi am esgeuluso ffafir mor fawr.

Mae yr hanes canlynaol yn dangos y pwys o gael gwisg briodol at wledd priodas, a'r tramgwydd a gymmerir wrth y rhai a'i gwrthodant pan gynnygir hi fel anrheg. "Y dydd oanlynol, Rhag. 3, y brenin a anfonodd i wahodd y cenhadau i giniawa gydag ef unwaith yn chwaneg. Y *Mehemander* a ddywedodd wrthynt, mai yr arferiad oedd fod iddynt wisgo ar eu dillad eu hunain y rhai goreu o'r gwisgoedd hyny a anfonasai y brenin iddynt. Y cenhadau ar y cyntaf a ddangosasant beth pctruder

yn nghylch cydsynio: ond pan ddywedwyd wrthynt fod hyny yn arferiad ag y cydsyniai yr holl genhadau â hi, ac yn ddiamaheu yr anfoddlonai y brenhin wrthynt os ymddangosent o'i flaen heb yr arwyddion hyn o'i haelioni, hwy o'r diwedd a benderfynasant i wneuthur hyny; ac, yn ol eu hesampl hwy, yr holl osgordd (*retinue*) a wnaethant felly." *Ambassador's Travels*, p. 188.

Mat. 25. 6. *Ac ar hanner nos y bu gwaedd, Wele y mae y priod-fab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef.* Yr oedd yn beth arferol yn mysg y Groegiaid gynt i dywys pâr newydd briodi adref gan ddwyn gyda hwynt lampau a fflaglau.

Y mae yr Indiaid Paganaid yn y Dwyrain yn cadw i fynu o hyd arferiad gyffelyb; "canyis ar ddydd eu priodas, mae y gwr a'r wraig, ill dau yn yr un *palanquin*," yn myned allan rhwng saith ac wyth o'r gloch yn yr hwyr, a'u holl berthynasau a'u cyfeillion gyda hwynt: yr udgyrn a'r tabyrddau yn cael eu dwyn o'u blaen, ac yn cael eu goleuo â lliaws o fflaglau. Mae y pâr ieuanc yn myued o amgylch yn y dull hwn dros rai oriau, wedi hyny dychwelant i'w tŷ eu hunain, lle y mae y menywod a phobl y tŷ yn dysgwyl am danynt. Mae yr holl dŷ yn cael ei oleuo â lampau bychain, ac mae llawer o'r fflaglau a goffiawyd eisioes yn cael eu cadw yn barod erbyn eu dyfodiad, heblaw y rhai sydd yn cael eu dwyn gyda hwynt, ac o flaen y *palanquin*." *Agreement of Customs between East Indians and Jews*, Art. 17, p. 68.

Yr oedd y boneddigesau Rhufeinaidd yn cael eu tywys adref i dai eu gwŷr yn yr hwyr wrth oleuni fflaglau. *Kennett's Roman Antiquities*, part 2, b. 5, c. 9. Mae yr amgylchiadau hyn yn rhoddi eglurhad neillduol ar ddammeg y deg morwyn; yn enwedig lle y dywedir eu bod yn myned allan i gyfarfod â'r priod-fab.

Yn "*The Customs of the East Indians and the Jews compared*," mae yr hanes canlynol, yr hwn mewn rhai pethau a wahaniaetha oddiwrth yr hanes arall, yn cael ei roddi am ddesodau priodas y rhai blaenaf, yn yr hwn y dangosir y tebygolrwydd neillduol sydd rhynddynt ag arferion yr Iuddewon. "Ar ddydd eu priodas, mae y gwr a'r wraig, a hwy yn yr un *palanquin*, yn myned allan rhwng saith ac wyth o'r gloch, yn cael eu canlyn gan eu holl berthynasau a'u cyfeillion. Mae yr udgyru a'r tabyrddau yn cael eu dwyn o'u blaen; ac y maent yn cael eu goleuo gan rifedi mawr

\* Corbyd agored yn mysg yr Indiaid yn cael ei ddwyn ar ysgwyddau caethion.—Cru.

o fflaglau. Gerllaw *palanquin* y pâr newydd briodi, o'i du ol, mae llawer o wragedd yn rhodio, gwaith y rhai yw canu pennillion yn y rhai y dymunant iddynt bob math o lwyddiant. Mae y pâr ieuainc yn myned oddiamgylch fel hyn dros *rai oriau*, ac yna yn dychwelyd i'w tŷ eu hunain, lle y mae menywod a phobl y tŷ yn dysgwyl am danynt; mae yr holl dŷ yn cael ei oleuo â lampau bychain, ac mae llawer o'r fflaglau hyn ag a goffiawyd eisioes, yn cael eu cafw yn barod erbyn iddynt ddyfod, heblaw y rhai a ddygir gyda hwynt o flaen y *palanquin*. Nid yw y goleuadau hyn yn ddám amgen na darnau o hen liain, wedi eu gwasgu yn nghyd yn galed, a'u gwueuthur yn grwn, ac yna eu gwthio i wared i feld o-efydd. Mae y rhai sydd yn eu dwyn, yn eu dâl mewn un llaw, ac yn dwyn yn y llaw arall gostrel wedi ei gwneuthur o'r un defnydd, sef efydd, yr hon sydd yn llawn o olew, ac y mae yn gofala am dywallt o honi o bryd i bryd ar y lliain, yr hwn yn amgen ni roddai oleuni." Yr oedd y priod-ferched Iuddewig yn cael eu tywys adref yn yr hwyr.

Arferai y priod-fab wahodd ei gyfeillesau a'i berthynasau i uno gyda lwynt yn yr orymdaith. Yr oeddynt yn cael eu gwisgo â dillad addas i'r amgylchiad, ac yn cymmeryd lampau, ac yn aros yn gympeini wrth y tŷ, hyd nes y deuai y pâr ieuainc allan, pan y cydlawenychent â hwynt. *Plut. Prob. Rom.*, p. 26. *Hesiod, Scut. Herc.* 5. 247.

"Mewn priodas yn mysg yr Hindwaid mae y brahmie a fyddo yn gweinyddu, yn gosod llaw y briod-ferch ar law y priod-fab, ac yn eu cylchynu yn nghyd â rhwymyn o flodau. Wedi hyny mae eu dillad yn cael eu cylymu yn nghyd â darn o frethyn, fel arwydd o'u hundeb." *Ward's View of the Hindoos, Vol. 3*, p. 173. *Clarke's Travels, Vol. 3*, p. 200, and *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3*, p. 53.

Mat. 25. 10. *A chanwyd y drws.* "Mewn priodas, yr hon a welais rai blynyddoedd yn ol, daeth y priod-fab o ryw bellder, ac yr oedd y briod-ferch yn byw yn Serampore, lle yr oedd y priod-fab i ddyfod ar hyd y dwfr. Ar ol dysgwyl dros ddwy neu dair awr, o'r diwedd, pan gerllaw hanner nos, cyhoeddwyd fel yn iaith yr Ysgrythyr, Wele, y mae y priod-fab yn dyfod, ewch allan i gyfarfod ag ef. Yr holl bobl ag oedd yn dysgwyl yn awr a gynneuasant eu lampau, ac a redasant â hwynt yn eu dwylaw i lanw eu lleoedd yn yr orymdaith (*procession*); yr oedd rhai o honynt wedi colli eu goleuadau, ac yn anmharod, ond yr

oedd bryd hyny yn rhy ddiweddar i'w ceisio, ac aeth yr orymdaith yn mlaen i dŷ y briod-ferch, lle yr aeth y cwmpeini i mewn i gyntedd helaeth ac ardderchog, o flaen y tŷ, wedi cael ei orchuddio, lle yr oedd llawer iawn o gyfeillion; wedi gwisgo eu dillad goreu, yn eistedd ar restogau. Cafodd y priod-fab ei ddwyn yn mreichiau cyfaill, a'i osod yn nghanol y cwmpeini, lle yr eisteddodd efe dros ychydig o amser, ac yna aeth i'r tŷ, drws yr hwn a gauwyd yn ddiwed, a rhoddwyd gwylwyr wrtho. 'Myfi ac ereill â ymresymasom â'r porthorion; ond yn ofer.'" *Ward's View of the Hindoos, Vol. 3, p. 171. Hughes's Travels in Sicily, Vol. 2, p. 29.*

Un o ddefodau priodas yn Ceylon yw rhwymo yn nghyd ddillad y briod-ferch a'r priod-fab. *Davy's Account of Ceylon, p. 166.*

Yn Hindwstan, ar y dydd pennodedig gan y brahminiaid, at briodi, y priod-fab; yn cael ei wahaniaethu trwy fod coron ar ei ben, wedi ei harddu yn odidog â pherlau, ac yn cael ei ganlyn gan feibion yr holl bersonau sydd o'r un grefft yn y dref, rhai ar gefyllau, ereill mewn *palanquins* a cherbydau, wedi eu gwisgo mewn modd ardderchog, a ânt trwy y prif heolydd, a cbanddynt beroriaeth a phobl yn gwneuthur ymddangosiadau gwyction o'u hamgylch. Y dydd nesaf y mae y briod-ferch yn cymmeryd ei thro hithau, yn cael ei chanlyn gan holl forwynion yr un teulu, yn yr un dull rhwysgfawr, a thua 'r hwyr hi a ddychwel adref i gael ei huno mewn priodas, gan mai hwnw yw yr amser i gyflawni y ddefod yn mysg yr Hindwaid. Mae hi yn dechreu trwy gynnea tân, a'i osod rhwng y pleidiau sydd i gael eu priodi, i arwyddo y gwres a ddylai fod yn eu serchiadau: yna rhwymir y ddau yn nghydâ rhwymyn sidan, i arwyddo rhwymyn annatodadwy priodas. Wedi hyn, rhoddir brethyn rhyngddynt, i ddynodi na ddylai fod cyfeillach agos rhyngddynt cyn priodi. Wedi gwneuthur hyn, mae y brahminiaid yn cyhoeddi rhyw ffurf o eiriau, yn gorchymryn y gwr i ganiatau i'r wraig bob peth buddibl iddi, ac yn gorchymryn y wraig i fod yn ffyddlon i'w gwr: yna wedi i fendith gael ei chyhoeddi arnynt, ar iddynt fod yn ffrwythlon, mae y brethyn yn cael ei gymmeryd ymaith, a'r rhwymyn sidan yn cael ei ddattod; yr hyn a esyd derfyn ar y ddefod. *Modern Univer. Hist. Vol. 6, p. 277.*

Nid yw y brahminiaid un amser yn ymddangos yn nhemlau yr Hindwaid, heb y *Zennar*, neu y rhwymyn santaid, yn myned drostynt oddiwrth yr ysgwydd aswy; mae rhan uchaf eu cyrph yn gyffredin yn noeth; ond mae darn o gottwm teg yn cael ei rwymo

o amgylch y canol, ac yn syrthio i lawr yn blygiadau heirdd dros y penliniau. Gwel *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 1, p. 70.*

Yn nghylch y defodau priodasol, y rhai nid ynt yn gwahaniaethu ond ychydig trwy Hindwstan, gellir dywedyd yn fyr fel hyn; Mae y priod-fab yn myned mewn gorymdaith i'r tŷ lle mae tad y briod-ferch yn byw, ac mae yn cael ei roesawu yno fel gwestwr. Mae y briod-ferch yn cael ei rhoddi iddo gan ei thad, yn y dull pwysig o roddi anrheg, a chylmyr eu dwylaw yn nghyd â math o laswellt; efe a ddillada y briod-ferch â dillad isaf ac uchaf, ac ymylau ei fantell ef a'i heiddo hŷthau a gylmyr yn nghyd. Y mae y priod-fab yn rhoddi offrymau i'r tân (yn ddarluniad o gariad,) ac y mae y briod-ferch yn gollwng *rice* i syrthio iddo fel offrwm. Mae y priod-fab mewn modd dwys yn cymmeryd ei llaw hi mewn priodas. Hi a sathra ar gareg ac ar ddarn o fynor. Hwy a rodiant o amgylch tân; ac yn mhen ychydig gollyngir yr edfychwyr ymaith, am fod y briodas yn awr yn gyflawn a dialw yn ol. Yn hwyr yr un dydd mae y briod-ferch yn eistedd i lawr ar groen tarw, ac y mae y priod-fab yn nodi allan iddi serên y pegwn gogleddol, fel arwydd o ddiysgogrwydd. Yna hwy a gyfranogant o bryd o fwyd. Y mae y priod-fab yn aros dri diwrnod yn nhŷ tad y briod-ferch. Ar y pedwerydd dydd efe a'i tywys hi adref i'w dŷ ei hun mewn gorymdaith reolaidd. Y mae hi yno yn cael ei chroesawu gan ei berthynasau ef; ac y mae y ddefod yn terfynu gyda rhai offrymau i'r tân.

Mae un arall wrth ysgrifenu ynghylch priodasau yr Hindwaid, ar ol llefaru am y defodau blaenorol, yn dywedyd, "Mae y *tali*, yr hwn sydd rwymyn sidan, a phen aur yn crogi wrtho, yn cael ei ddal yn barod; ac, wrth ei ddangos, i'r cydymdeithion, y mae rhyw weddiau a bendithion yn cael eu cyhoeddi; wedi hyny y mae y priod-fab yn ei gymmeryd ac yn ei grogi o amgylch gwddf y briod-ferch. Y cwlwm hwn yw yr hyn sydd yn neillduol yn diogelu meddiant o honi: canys cyn iddo ef roddi y rhwymyn am dani, gall yr holl seremoniau ereill fod yn ofer; ond wedi i'r rhwymyn unwaith gael ei roddi am dani, y mae y briodas yn annattodadwy: a pha bryd bynag y byddo y gwr farw, y mae y rhwymyn yn cael ei losgi, i ddangos fod rhwymau y briodas wedi eu tori." Mewn hanesion hen a diweddar mae y rhifedi saith a thri yn cael eu hystyried yn gyffredin yn santaidd; am y rhifedi blaenaf y sonir yn fwyaf neillduol yn yr Ysgrythyr ei fod felly; yn mysg y Rhufeiniaid a'r Groegiaid, yr olaf a ystyrir fwyaf felly. *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3, p. 300, 302, 306.*



Luc. 14. 8-10. *Pan y'lh wahodder gan neb i neithior, &c.* Gosodwyd fod i *Ameen-ad-Dowlah*,\* ar ddiwedd Awst i roddi gwledd i'r cenhadwr a'i gydymdeithion; ar y dydd pennodedig, fel yr arferir yn Persia, daeth cennad attom, yn nghylch pump o'r gloch yn yr hwyr, i'n gwahodd i'r wledd. Mi a allwn ddefnyddio iaith ysgrhythrol i ddechreu fy hanes. *Rhyw wr a wnaeth supper mawr, ac a wahoddodd lawer, ac a ddanfonodd ei weision bryd supper i ddywedyd wrth y rhai a wahoddasid, Deuwch, canys weilhian y mae pob peth yn barod*, Luc 16, 17. Mae yr wrthddadl a gyfyd anffyddiaid yn erbyn y rhan hòno o'r ysgrhythyr ag y mae y geiriau hyn yn ddechreu, yn codi oddiar y creulondeb a ymddengys fod mewn gwahodd pobl i wledd, ac heb roddi iddynt eu dewisiad yn y peth, ond eu cospi am iddynt wrthod. Pan yr oedd yr holl westwyr, at y rhai y cafodd y gwas ei anfon pan yr oedd y swpper yn barod, wedi derbyn y gwahoddiad yn flaenorol, yr oeddynt gan hyny, wedi ymrwymo yn flaenorol i ymddangos yn y wledd, ar yr awr pan gaffent eu galw; ni chawsant eu cymmeryd yn anmharod, ac ni allasant, yn gysson â gweddusder, ddadleu un ymrwymiad, blaenorol.

Pan byddo Persiad yn myned i mewn i ystafell wledd, ar ol iddo adael ei esgidiau y tu allan, efe a arfera y cyfarchiad arferol, *Ta'ngnefedd i chwi*, yr hwn a gyfeirir at yr holl gynulleidfa, fel pe byddai yn cyfarch y tŷ (Mat. 10. 12); ac yna gan ddal sylw pa le, yn ol ei radd, a all efe gymmeryd yn mysg y gwestwyr, efe yn ddioed a ymwithia trwy bawb i'r lle hwnw, heb wneuthur un esgus dros yr aflonyddwch mawr a rydd i'r cwmpeini. Gellir meddwl fod yn mhlith pobl ofer, ddadleuon yn codi yn fynych yn nghylch y blaenoriaeth; a byddai yn hawdd adnabod wrth wynebaw y rhai a fyddent yn bresennol. pan gymmerai rhyw un eisteddle uwch nac y bernid fod ganddo hawl iddi. Mae y *Mollahs*, yr ysgrifenyddion Persiaidd, yn nodedig am eu trahausder yn y matter hwn; a dwg hyny i'n cof y rhybudd a roddodd ein Iachawdwr i'r Iuddewon yn nghylch eu hysgrifenyddion hwynt, y rhai, yn mysg pethau ereill, a ddesgrifia efe fel yn caru y prif-gadeiriau yn y gwleddoedd, Marc 12. 39. Mae gan feistr y wledd, pa fodd bynag, awdurdod i roddi unrhyw un yn lle y myno yn mysg y gwestwyr; ac ni a welsom engraifft o hyny ar yr achlysur hwn; canys pan oedd

\* Yr ail weinidog, o ran gradd, yn y llywodraeth.

yr ystafell bron yn llawn, llywodraethwr Kashan, gwr o olwg ostyngedig, er ei fod yn gryn uchel o ran gradd, a ddaeth i mewn, ac a eisteddodd yn y lle isaf; yr *Ameen-ad-Dowlah*, wedi dangos gofal neillduok am dano, trwy amrywiol o ymadroddion parchus, a gyfeiriodd â'i law at eisteddle uwch yn yr ystafell, a dymunodd arno symmud iddo, yr hyn yna a wnaeth efe. *Morier's Second Journey through Persia*, p. 143.

"Drannoeth, pan ar ymweliad â'r *Khan*\* hwn, ei fab, y llywodraethwr, a gyfododd mewn brys o'i eisteddle, ac a aeth ymaith. Mi a ddeallais yn fuan, oddiwrth fy neonglydd fy mod yn anwybodus wedi ei dramgwyddo, trwy fyued yn uwch i fynu yn yr ystafell nac ef, er fy mod ar yr ochor arall. Prin y gallwn ymatal rhag chwerthin o herwydd defod mor wael, yn enwedig gan fy mod i yn westwr iddo; ond pa un a allasai efe gan fod ei dad yn bresennol, fyned mor uchel yn yr ystafell ag y mynai, nid oedd fy iechyd i yn caniatâu, na'm gradd chwaith, i mi eistedd gerllaw y drws." *Hanway's Travels through Persia*, Vol. 1, p. 218.

"Mae y briod-ferch a'r priod-fab yn cael eu gosod i eistedd yn un pen i neuadd fawr a wneir erbyn hyn, dan fath o orchudd, a'u hwynebâu tua'r dwyrain. Mae y briod-ferch ar law aswy y priod-fab, ac amrywiol o frahminiaid yn sefyll ar bob tu iddynt. Mae y perthynasau a'r gwestwyr yn eistedd o amgylch yr ystafell ar y Hawr, ar yr hwn y mae rhestogau newyddion wedi eu tânau, a'r rhai hyny wedi eu gorchuddio â charpedau, a'r carpedau eilwaith, yn gyffredin, wedi eu gorchuddio â lliain; mae cadeiriau yn anadnabyddus yma; ond yn meddiant Ewropiaid; ac mae cael eisteddle uwch na'r llawr, yn arwydd o uwchafiaeth." *Crauford's Sketches of the Hindoos*, Vol. 2, p. 6.

Yn Labadea, yr ngwlad Groeg, mae meistr y tŷ yn cymmeryd ei eisteddle, gan osod ei wraig i eistedd wrth ei ochor, wrth lestr crwn, a chan ddyosg ei fraich yn hollol noeth, trwy droi ei lewys i fynu hyd ei ysgwyddau, efe a rana y *soup* a'r cig. Ni osodir ond un ddysglaid ar y bwrdd ar unwaith; os cig a fydd ynddi, efe a'i tŷr yn ddarnau â'i fysedd. Nid yw cyllill a llwyau yn cael eu harferyd ond anfynych, ac ni newidir hwynt un amser. Pan ddygir cig neu bysgod i mewn, mae gwr y tŷ yn gwasgu

\* Y *Khans* ydynt dywysogion y Moguliaid, neu y Mongoliaid, yn Tartary, yn Asia, yn rhai er eu bod oll yn anubynol y naill ar y llall, ydynt oll yn ddarostyngedig i ymerawdwr China.—Cvii.

*lemon* uwchben y ddysgl. Y mae yr ystafell yr holl amser hwn yu cael ei llanw â merched, y rhai a berthynant i'r tŷ, a gwasanaethwyr ereill, oll yn droednoeth; hefyd mae yno gwmpeini cymmysg o offeiriaid, meddygon, a dycethriaid, ag ydynt yn ymweled â'r teulu. Derbynir y rhai hyn oll ar y rhan hono o'r llawr ag sydd wedi ei chodi, sef, y *divan*; ar y rhan isaf mae wedi ymgasglu wasanaethwyr is, pobl gyffredin y wlad, hen wragedd, a chaethion, y rhai y caniateir iddynt eistedd yno ar y llawr, a chyfeillachu â'u gilydd. Pan byddo y pryd bwyd dros-odd, mae merch yn dysgub y carped, ac yna y mae y gwestwyr yn cael eu gosod, gyda y gofal mwyaf am ddeddfau blaenoriaeth, mewn trefn reolaidd ar y *divan*; y meistr a'r feistres yn eistedd yn y pen uchaf i'r glwth, a'r lleill o'r cwmpeini yn furfio dwy rës, un ar bob ochor, pob un yn cael ei gyfleu yn ol ei fadd."

"Tua'r hwyr mab hynaf y Consultŷ yn Jean d' Acre, (yr hen Ptolemais,) a'm tywysodd i wledd priodas Groegwr cryn enwog, tad yr hwn sydd offeiriad, a'i frawd yn ysgrifenydd i lywodraethwr Galilea, yr holl westwyr ag a wahoddasid, a ymgasglasant, heb wahaniaeth, mewn neuadd, lle yr arôlygwyd hwynt gan feistr y seremoniau, a chafodd rhai eu symmud yn uwch ac ereill yn is; a dygwyddodd pan ddaethom ni, at ddau, ag oedd wedi cyfleu eu hunain yn y pen uchaf, orfod iddynt symmud yn is. Églurodd hyn i mi ymadiodd yr Iesu, Luc 14. 8. *Stephen's Schulz, Vol. 5, p. 237.*

Ioan 2. 1. *Yr oedd priodas yn Cena Galilea.* Mae yr amgylchiadau canlynol, fel yn gyssylltiedig â phriodas, yn rhy nodedig i fyned heibio iddynt heb sylwi arnynt:—"Ar aehlysuron cyffredin yr oedd yn beth arferol, pan byddai yr orymdaith yn symmud yn mlaen, i dafu i blith y werin arian, melus-fwydydd, blodau, a phethau ereill; y rhai a ddaliai y bobl mewn brethyn wedi ei wneuthur i'r perwyl hwnw, yn cael ei ledu ar bolion gyda golwg ar hyny. Gyda golwg ar yr arian, pa fodd bynag, ymddengys fod rhyw ychydig o ofal, neu yn hytrach o dwyll; yr hyn, tebygol, a gododd oddiar yr angenrheidrwydd o gydsynio â defod oedd yn anghymmwyys iawn i etifeddiaeth rhai, a thrachwant ereill; canys cawsom nad peth anghyffredin oedd casglu arian drwg, a elwid *kelb*, am bris isel, i'w taflu ymaith ar briodasau.

"Cafodd y briodferch ar ddydd y briodas ei thywys gyda

rhwysg mawr gan ei chyfeillion i dŷ ei gwr; ac yn ddiwed ar ei dyfodiad hi a roddodd iddo amrywiaeth o anrhegion; yn enwedig o ddiorefn tŷ, yn nghyd â gwaywffon a phabell. Ymddengys fod cyffelybrwdd rhyfedd rhwng rhai o'r seremoniau hyn ag eiddo rhai ag oedd yn mysg yr hen Almaeniaid (*Germanans*), cyn iddynt adael eu fforesti, yn gystal ag yn mysg y Gothiaid wedi iddynt gael eu sefydlu yn y lleoedd a orchfygasant. Mae *Tacitus* yn sylwi fod y priod-feibion a'r priod-ferched yn mysg yr Almaeniaid yn rhoddi anrhegion i'w gilydd: megis anifeiliaid, &c. Ymddengys fod yr anrhegion a roddid i briod-ferch yn y Dwyrain yn cael eu rhoddi ar yr un egwyddor â'r *morgengabe*, neu y rhodd foreol, yr hon yr arferai gwr yn Ewrop mewn oesoedd a aethant heibio, ei rhoddi i'w wraig ar y bore ar ol iddynt briodi." *Richardson's Dissert. on the East*, p. 343. *Hughes's Travels in Sicily*, Vol. 2, p. 30.

"Ar y bore y mae y briodas i gael ei thynnal, mae y briod-ferch yn anrhegu yr hwn a fwriedir i fod yn wr iddi ag arfau, helm, a phob peth arall angenrheidiol i wneuthur i fynu drwsiad cyflawn at ryfel. Ei thad ar yr un dydd a rydd iddi hi ran fechan o'i gwaddol: y mae efe ar yr un pryd yn derbyn oddiwrth ei fab-yn-nghyfraith hanes ei achau; y maent yn ymfalchio cymmaint yn eu hachau ag mewn unrhyw beth a berthyn i'w hanrhydedd: mae pob dyn yn cael ei barchu yn fwy neu yn llai yn ol purdeb ei achau a'r enwau ardderchog a berthynant iddo. Pan aner y plentyn cyntaf trwy y briodas hon, mae tad y briod-ferch yn talu y gweddill o'i gwaddol hi i'w gwr, gan ei hanrhegu hi ar yr amser happus hwnw ag arwyddion gwahaniaethol menyw briod, y rhai ni wisgir un amser gan y llwyth hwn hyd nes byddo plentyn wedi ei eni trwy y briodas: yr arwyddion anrhydeddus hyn ydynt orchudd gwyn hir dros fath o benwisg, a bod holl ranau ereill y wisg yn wynion hefyd." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia*, Vol. 1, p. 143.

1 Cor. 9. 5. *Onid oes i ni awdurdod i arwain o amgylch wraig, a fyddai chwaer megis ag y mae i'r apostolion ereill?* "Ni a aethom i edrych ar yr orymdaith nosol ag sydd yn wastadol yn cydfyned â'r priod-fab, wrth gymmeryd yr un a ddyweddiwyd i fod yn wraig iddo o dŷ ei thad i dŷ yr hwn sydd i fod yn wr iddi. Yr oedd yma yn nghylch cant o'r personau blaenaf yn Joannina, a chyda hwynt liaws mawr yn dwyn fflaglau, ac ereill yn chwareu offer cerdd. Wedi iddynt dderbyn y foneddiges, hwy a ddychwelasant

ond unodd â hwynt yr un nifer o foneddigesau, y rhai a dalent eu moes i'r briod-ferch: oanlynid y rhai hyn hefyd gan ei morwynion, llawer o ba rai a ddygent fabanod yn eu breichiau, wedi eu gwisgo yn ardderchog iawn. Y briod-ferch fechan, yr hon a ymddangosai yn ieuanc iawn, a gerddodd yn araf, a chan ymddangos yn hytrach yn anewyllysgar, yn ol y ddefod, yn cael ei chyanal gan wraig oedranus -ar bob tu, ac un arall ar ei hol." Gall y seremoni hon roddi rhyw oleuni ar eiriau *St. Paul*, *ἡμεῖς ἐσπασίμεν*, 1 Cor. 9. 5, y rhai a gamddeallwyd gan rai esponwyr." *Hughes's Travels in Sicily, &c' Vol. 2, p. 20.*

Titus 2. 5. *Yn gwarchad gartref.* Y mae eiddigedd yn beth mor gyffredin a chryf yn mysg pobl y Dwyrain, fel y cedwir eu gwragedd lawer iawn yn eu tai. Dywed Russell wrthym, (*Hist. of Aleppo, p. 113.*) fod "Tyrcaid Aleppo, gan eu bod mor eiddigeddus, yn cadw eu gwragedd gartref gymmaint ag a allont, fel mai anfynych y capiateir iddynt ymweled â'u gilydd. Mae angenrheidrwydd, pa fodd bynag, yn rhwymo y gwŷr i oddef iddynt fyned allan yn fynyeh; ac y mae dydd Llun a dydd Iau yn ddiwrnodiau, ag y mae rhyw fath o ryddid iddynt i fyned i ymweled â beddau eu perthynasau meirwon, yr hyn a rydd iddynt gyfle i rodio o amgylch yn y gerddi neu y meusydd; maent wedi trefnu yn y fath fodd fel y mae braidd bob dydd Iau yn y Gwanwyn yn dwyn enw rhyw sant neillduol â bedd-adaill yr hwn y rhaid iddynt hwy ymweled ar y dydd hwnw. Mae eu mynwentydd a'u gerddi allan o'u dinasoedd yn lle cyfartal rhyngddynt. Trwy hyn y mae y rhan amlaf o'r menywod Tyrcaid ag a berthynant i'r ddinas yn cael cyfle i fyned allan i anadlu mewn awyr iach ar y cyfryw achlysuron, oddiethir eu bod yn cael eu cyfyngu (fel y cânt yn fynyeh) i'w tai, wrth orchymmyn y *bashaw*, sef llywodraethwr y dalaeth, ac felly yn cael eu hymddifadu o'r ychydig ryddid ag y mae arferiad wedi ennill iddynt oddiwrth eu gwŷr." Mae gwaharddiadau y llywodraethwr yn cael eu bwriadu, neu haerir o leiaf eu bod yn cael eu bwriadu, i gadw rhag achlysuron i syrthio i anniweirdeb, i'r hwn y gellid tybied fod y rhyddid hwn i fyned allan yn rhoddi cyfle. O herwydd yr un rheswm gellir meddwl fod *St. Paul* yn uno-*bod yn bur a gwarchad gartref* yn nghyd.

Dat. 21. 2. *Wedi ei pharotoi fel priodas-ferch.* Yn y Dwyrain mae priod-ferched yn newid eu gwisgoedd yn fynyeh, ac y maent ar bob tro yn cael eu cyflwyno i'r priod-fab. Mae *D' Arvieux*

yn rhoddi i ni yr hanes hwn am yr Arabiaid (*Voy. dans la Pal.* p. 225):—"Pan ddelo yr hwyr, mae y menywod yn cyflwyno y briod-ferch i'r hwn sydd i fod yn brïod iddi. Mae y menywod ag sydd yn ei thywys yn gwneuthur eu moes iddo, ond nid ydyw efe yn ateb un gair, eithr eistedd yn llonydd hollol, gan edrych yn ddwys a difrifol. Mynychir y seremoni hon dair gwaith yr un hwyr; a pha bryd bynag y newidiant hwy wisg y briod-ferch, hwy a'i cyflwynant hi i'r prob-fab, yr hwn a'i derbyn bob tro gyda yr un sobrwydd. Mae gwisgo a dyosg y briod-ferch yn 'ath o wychder, ag a arferir yn fynych yn y Dwyrain, i beri iddi wisgo yn y dydd hwnw yr holl ddillad a wnaethpwyd erbyn ei phriodas. Mae gwisg y prod-fab hefyd yn cael ei newid yn fynych o herwydd yr un rheswm." Mae sylwi ar yr amgylchiad hwn yn taflu grym i eiriau St. Ioan, pan lefara efe am y Ierusalem newydd yn dyfod oddiwrth Dduw o'r nefoedd, *wedi ei pharotai fel priodas-ferch wedi ei thrusio i'w gwr.*" *Harmer, Vol. 2, p. 122.*

### PENNOD III.

#### PLANT.

GEN. 15. 3. *Fy nghaethwas fydd fy etifedd.* "Mae yn arferiad etto yn India, yn enwedig yn mysg y Mohammedaniaid, os na bydd plant, ac weithiau lle y byddo perthynasau agos, fod penteulu yn mabwysiadu caethwas, yn fynych un o'r Abyssiniaid, o'r dua ei liw, i fod yn etifedd iddo: y mae yn ei addysgu yn gysson â'i ddymuniadau, ac yn ei briodi âg un o'i ferched. Megys gwobr teilyngdod mwy na'r cyffredin, neu i borthi mympwy tywysog arglwyddaidd, rhoddir yr anrhydedd hwn hefyd ar gaethwas a fyddo newydd gael ei brynu, neu un a fyddo eisioes wedi tyfu yn y teulu; ac iddo ef y mae yn rhoddi ei gyfoeth trwy ewyllys, gan esgeuluso ei neiaint, neu ryw ganghenau ereill o'i waedoliaeth. Mae hyn yn arferiad hen iawn yn y Dwyrain, ac yn ffynnu yn mysg y cenhedloedd mwyaf gwaraid. Yn y rhan flaenaf o'r hanes batriarchaidd, cawn Abraham yn achwyn o herwydd y diffyg o etifedd, ac yn dywedyd mai naill ai Eleazar o Ddamascus, neu efallai un o'i gaethweision ag a anesid yn ei dŷ, a fuasai ei etifedd, gan gau allan yr ÷oll

ganhennau ereill o'i deulu ag oeddynt berthynasau trwy waed-oliaeth." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 4, p. 201.* *Halhed's Gentoo Laws, p. 81.* "Yn mysg Indiaid America, os caiff unrhyw gymmydogion eu hymddifadu, trwy angau neu gan elyn, o'u plant, y mae y rhai sydd yn meddiannu y rhifedi mwyaf o gaethion, yn gwneuthur y diffyg i fynu; ac y mae y rhai hyn yn cael eu mabwysiadu ganddynt, a'u trin yn mhob ystyr fel pe byddent blant y personau i ba rai y cyflwynir hwynt." *Carver's Travels in North America, p. 158.* Yn mysg y *Mamelukes*, y mae y gwr a ryddhawyd yn cael ei alw yn blentyn y tŷ. "Ibrahim, un o filwriaid byddin yn mysg y Tyrciaid, a amlhasai ei ddynion rhydd yn y fath fodd, fel o'r pedwar ar hugain o lywodraethwyr ag oedd ar y taleithiâu, nad oedd dim llai nac wyth o'i deulu ef. Ar ei farwolaeth, yr hon a ddygwyddodd yn 1757, ei deulu, hyny yw, ei gaethion breiniedig, a ymranasant yn eu plith eu hunain, ond a unasant yn erbyn pawb ereill, a pharhausant i rododi cyfraith." *Volney's Travels, Vol. 1, p. 112, 153.*

Gen. 21, 8. *A'r bachgen a gymnyddodd, ac a ddiddefnwyd, ac Abraham a wnaeth wledd fawr ar y dydd y diddefnwyd Isaac.* Yr oedd amrywiol o genhedloedd, er yr oesoedd boreaf, yn arferyd cysegreu eu plant, ac yn enwedig os byddai yn gyntaf-anedig, ac yn fab, trwy ryw ddefodau neillduol fel gwleddoedd, yn fuan ar ol iddynt ddyfod i allu cerdded, a dechreu defnyddio eu tafodau, amser hyd yr hwn nid arferent eu tynu oddiar fronau eu mamau. "Arferai pobl Mexico wneuthur addunedau dros eu plant, yn gystal a throstynt eu hunain, ac yn fynych cysegrent hwynt at wasanaeth eu duwiau, mewn rhyw deml neu fynachdy." *Cullen's Mexico, Vol. 1, p. 259.* *Morier (Second Journey through Persia, p. 107,)* a hysbysa i ni, y dydd y byddo i blentyn gwrryw gael ei ddiddefnu, eu bod yn ei ddwyn i deml Fohammedanaidd, ac ar ol cyflawni rhyw weithredoedd o grefyddolder gosodedig, dychwelant adref, yna casglant eu cyfeillion a'u perthynasau, rhoddant wledd iddynt, o'r hon y gwnant i'r plentyn hefyd gyfranogi.

Gen. 24. 59. *A hwy a ollyngasant Rebecca, a'i mammaeth.* Yr oedd mammaethod yn cael parch mawr gynt, ac yn cael eu hystyried fel a hawl ganddynt i fri didor a pharhaus. Y mae y fammaeth mewn teulu dwyreiniol yn wastadol yn berson anrhydeddus. Dywed teithwyr diweddar wrthym, ei bod yn Syria

yn cael ei hystyried fel math o ail fam, pa un a fu hi yn fam fagu a'i peidio. Y mae hi yn wastadol yn myned gyda y briodferch i dŷ ei gwr, ac yn aros o hyd yno, yn berson anrhydeddus. Felly yr oedd pethau yn ngwlad Groeg gynt." *Siege of Acre*, b. 2, p. 35, *notę*.

Yn Hindwstan nid yw y fammaeth "yn cael edrych arni fel person dyeithr, ond yn dyfod yn un o'r teulu, ac yn treulio y gweddill o'i bywyd yn mysg y plant y rhoddodd hi sugn iddynt, gan y rhai yr anrhydeddir ac y perchir hi fel ail fam." *Forbes's Oriental Memoirs*, Vol. 3, p. 134.

"Mae mewn llawer o barthau yn Hindwstan demlau a bedd-adeiladau costus, wedi eu hadeiladu gan dywysogion Mohammedanaidd, gerllaw i feddau eu mammaethod. Cynhyrfir hwynt trwy serch diolchgar i godi yr adeiladau hyn, mewn coffadwriaeth am y rhai ag a wylasant drostynt gyda gofal mamawl pan oeddynt yn eu babandod digymmorth: y maent wedi gwneuthur fel hyn er cyn cof.

"Ar y 12fed o Fehefin, am bedwar o'r gloch, cafodd mam canghellydd Siam, yr hwn hefyd sydd yn trefnu matterion tramor, ei chladdu gyda rhwysg a difrifoldeb mawr. Mae pobl Siam yn galw eu mammaethod hefyd, yn famau, a'r rhai hyny a sugnasant yr un bronau â hwynt, yn frodyr. Nid oedd hon ond mammaeth y canghellydd, canys claddwyd ei fam ef yn nghylch pymtheg mis cyn hyny." *Kaempfer's Japon*, b. 1, c. 1, p. 15. *Holland's Travels in Albania*, p. 156.

1 Sam. 1. 11. *Rhoddaf ef i'r Arghwydd holl ddyddiau ei einioes, ac ni ddaw ellyn ar ei ben ef.* "Dygwydda yn fyuych ar ol genedigaeth plentyn, os bydd y rhiant mewn cyfyngder, neu y plentyn yn glaf, neu os bydd rhyw achos arall o ofid, fod y fam yn gwneuthur addewid, na ddaw ellyn ar ben y plentyn dros ryw gymmaint o amser, ac weithiau dros ei holl fywyd." 1 Sam. 1. 11. Os bydd i'r plentyn iachau, ac i'r achos o'r gofid gael ei symmud, ac os na bydd yr adduned ond dros amser, fel y gallo adduned y fam gael ei chyflawni, yna hi a eillia ei ben ar ddiwedd yr amser a nodwyd, ac a wna wledd fechan; hi a gasglu arian a phethau ereill oddiwirth ei pherthynasau a'i chyfeillion, y rhai a anfonir fel *nezers*, neu offrymau, i'r deml yn Kerbelah, ac yno cysegrir hwynt, Num. 6." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 109.

1 Sam. 20. 30. *Tydi fab y gyndyn wrthnysig.* Yn y Dwyrain



pan fyddent yn ddig wrth rhyw un, maent yn gwaradwyddo ac yn bychanu ei rieni. Ni feddyliai Saul am ddim ond tywallt allan ei lid yn erbyn Jonathan, ac nid oedd yn amcanu gwaradwyddo ei wraig yn bersonol; nid oedd y coffad o honi hi ond cyfrwng, trwy yr hwn yn ol dull Dwyreiniol, y trosglwyddai efe ei ddigofaint yn erbyn Jonathan i feddyliau y rhai oeddynt o'i amgylch. Ceir anghraifft o'r un dull yn Affrica, yn nheithiau *Mungo Park*. "Mae serch y fam yn amlwg yn mhob lle yn mysg yr Affricaniad, ac yn creu serch cyfatebol yn y plentyn. Tarewch fi, ebe fy ngweinyddwr, ond na felldithiwech fy mam. Cefais fod yr un dyb yn ffynu yn gyffredinol, a sylwais mai y sarhad mwyaf a ellid gynyg i negro trwy holl barthau Affrica oedd sarhau yr hon a esgorodd arno." *Travels*, p. 264.

"Yr oedd perchennog y tŷ hwn, yr wyf fi yn credu, yn wr a werthai neu a barottoai gyffyriau meddygol, neu ddwfr distylledig; yr oedd mewn tyllau yn magwrydd fy ystafell i uwchlaw deg ar hugain o gostreli wedi eu llanw â defnydd gwlyb o wahanol liwiau. Shir Khan Beg, yn gobeithio dyfod o hyd i win yn eu plith, a roddodd un o'r costreli mwyaf wrth ei wefusau, ond yn cael yr hyn a gynnwysai mor ffaidd ac atgas, efe a dywalltodd allan fil o felldithion, nid yn uniongyrchol ar y dyn yr hwn a gymmysgasai y cyfryw gyffyriau, ond ar yr holl fenwod bri a llwyddiant y rhai y gallai dybied fod o fwyaf o bwys i'r dyn hwnw; ei wragedd, ei fam, ei ferched, a'i chwirydd." *Sir W. Ouseley's Travels in the East*, Vol. 2, p. 73.

"Canfyddais fod un o'm costreli, ag a lanwasid a gwin rha-gorol, wedi cael ei thori trwy ergyd oddiwrth un o'r ceffylau: yr oedd y llall bron yn wag; Shir Khan Beg, ar y dydd cyntaf o'n taith, a gyfaddefodd yn onest ei amheuaeth yn nghylch yr anmhrŷodoldeb o yfed diodydd gweithedig (*fermented liquors*); ac, ar yr ail ddydd, efe yn gyhoeddus a ofynodd am ychydig o honynt, ac yn fynych wedi hyny, wrth weled yr ystôr o'r gwahanol winoedd yn lleihau, fel nad oedd ond prin digon dros ddau neu dri diwrnod, efe a felldithiodd o waelod ei galon y ceffyl a dorasai y gostrel, a marchogwr y ceffyl hwnw; y mul oedd yn cludo y costreli, a'r dyn oedd yn gyru y mul; heblaw gwragedd, merched, a chwirydd y ddau ddyn anffortunus hyny; tra y cyssurai efe ei hun a finnau â'r ystyriaeth, y gallem yn fuan gael yr hyn o leiaf a feddwai." *Ibid.* p. 106.

Mae un o'r Hindwaid yn fynych yn gwaradwyddo un arall

mewn geiriau cyffelyb i'r rhai hyn: Tydi fab y fenyw benrhydd: tydi fab y wraig dlawd." *Ward's View of the Hindoos, Vol. 2, p. 322.*

"Pa un a oedd efe yn feddw, neu yn orphwyllog, neu yn unig yn faleisus, nid allem ddeall yn gywir: ond yr *Archon* a gauodd ei ddrws ac a'i clôdd yn ddiogel iawn, ac yna, gan osod ei ben allan trwy oruwch-ffenstr, anfonodd allau gawod o felldithion arnom ni, a phawb a berthynai i ni, fel yr oedd yr holl gŵn a'r anifeiliaid trwy ba rai y dychwelodd *Mustapha* y sarhad, yn ofer hollol. *Siguore Demetrio*, yn ngwir iaith y *Dwyrain*, a barhaodd i ddesgrifio yr anmharch a roddai efe nid yn unig arnom ni ein hunain, ond ar ein mamau cyn iddynt briodi, ein chwirydd cyn iddynt gael eu geni, credoau ein cŵn, a'r fath ymadroddion heirdd ag a berthynent i *Roegwyr*." *Narrative of a Journey in the Morea, by Sir William Gell, p. 190.*

Sal. 127. 4, 5. *Fel y mae saethau yn llaw y cadarn, felly y mae plant ieuentyd: gwyn ei fyd y gwr a lanwodd ei gawell saethau â hwynt.* Mae pobl y *Dwyrain* yn arfer galw meibion gwrol a dewr yn "saethau" a "phicellau" eu rhieni, o herwydd au bod yn alluog i'w diffynu. "Blaen-lymu saethau," "gwneuthur saethau llymion," yn eu plith hwynt, yw cael meibion gwrol a glew. *See A. Schulten's Observ. on the Extracts from the Hamasa, in his edition of Espen's Arabic Grammar, p. 486.* Mae *Merrick* yn coffhau dull cyffellb o osod peth allan yn mysg y *Chineaid*. Pan aner mab mewn teulu peth arferol yw crogi bwâau a saethau o flaen y tŷ, fel arwydd fod y teulu wedi cael diffynnydd."

Mat. 1. 1. *Llyfr cenhedliad Iesu Grist, fab Dafydd, fab Abraham.* Yr oedd y dull cryno hwn o brofi achau yn cael ei arferyd gan yr Arabiaid. *Niebuhr (Vol. 3, p. 209)* a ddywed, "Mae yr Arabiaid wedi dyfeisio dull cryno i brofi eu hachau. O blith eu hynafiaid diweddar dewisant allan ryw wr enwog, oddiwrth yr hwn y cyfaddefir yn gyffredinol eu bod yn disgyn. Cyfaddefir drachefn yr un mor gyffredinol fod y gwr mawr hwn yn disgyn oddiwrth ryw wr mawr arall; ac fel hyn ûnt yn ol at seilydd y teulu." Fel hyn, megys nad oes un Arabiaid yn amheu fod *Daui Seid* a *Daui Barkad* wedi disgyn oddiwrth *Al Bunemi*, *Al Bunemi* oddiwrth *Hassan ibn Ali*; hefyd fod *Khassem alk bir* wedi disgyn oddiwrth *Imam Hadi*, ac *Imam Hadi* oddiwrth *Hossein ibn Ali*; peth hawdd yw i deuluoedd

llywodraethol Mecca; Sana, &c. brofi eu hunain yn hiliogaeth Mohammed, trwy y penau hyn i'w teuluoedd." *French edit. 4to, p. 142.*

Luc 1. 61. *Hwythau a ddywedasant wrthi, Nid oes neb o' th genedl a elwir ar yr enw hwn.* Nid peth arferol chwaith yn rhith yr Arabiaid oedd rhoddi enwau i blant y rhai na buont erioed ar neb yn y teulu. Pan, gan hyny, ar y seithfed dydd wedi i Mohammed gael ei eni, y gwahoddodd ei dad cu aelodau llwyth y Koreischites i wledd, y gwestwyr a ofynasant ar a diwedd, Pa enw a roddai i'w wŷr, ar gyfrif yr hwn y groesawasai efe hwynt mewn modd mor ardderchog? Pan ddywedodd efe, Mohammed, hwy a atebasant, Yna yr ydych yn meddwl rhoddi iddo enw dyeithr i'r teulu. *See Abulfeda's Annals, b. 1, p. 4.* Mae yr un arferiad yn ffynu yn mysg rhai llwythau yn Ngogledd America.

Mae *Lafitua* (yn ei *Manners of the Savages of America, p. 36.*) yn dywedyd, "Yn mysg yr *Hunns* a'r *Troquois*, y maent yn wastadol yn cadw yn y teulu ryw rifedi o enwau hynafiaid y teulu, eiddo gwŷr ac eiddo gwragedd. Enwau yw y rhai hyn a berthynant iddynt hwy yn hollol, a chymmerir yn ganiatol ei fod yn gyffredinol yn hysbys fod y cyfryw enwau yn perthyn i'r cyfryw deulu. Yn awr, yn mhob teulu, mae yn arferiad megys i alw yn ol i fywyd, yr aelodau hyny o'i eiddo ag a wnaethent eu hunain yn enwog. Hwy, gan hyny, a edrychant allan, ar yr un pryd, am enwau y rhai a barchant, ac a'u rhoddant i'r rhai o'u hiliogaeth jag sydd i'w cynddrychioli. Mae yr olaf yn cael mwy neu lai o fri mewn cyfartalwch i'r modd yr oedd y rhai a ddygent yr enwau hyn gynt yn rhagori mewn cymhwysderau, rhinweddau, neu weithredoedd. Yr oedd gan yr Iuddewon, mewn modd cyffelyb, ryw enwau neillduol yn mhob teulu, y rhai y cymmerent ofal am eu cadw; ac yr oedd y rhai hyn yn cael eu cymmeryd o deulu y tad, yn ol yr hyn a gymmerodd le, yn ol yr ysgrythyr, wrth enwi Ioan Fedyddiwr. Ond yn mysg yr *Hunns* a'r *Troquois*, y mae enwau y bechgyn yn cael eu cymmeryd yn bresennol, fel gynt yn mysg y *Lycians*, o deulu y fam yn unig."

Ioan 1. 42. *Ti yw Simon mab Jona, ti a elwir Cephas.* Yr oedd enwau yn fynych yn cael eu rhoddi i gadw mewn cof amgylchiadau neillduol. Ac yn fynych, fel yr ymddengys oddiwrth yr hanesion canlynol, mewn cyferbyniad i gymmeriad a sefyllfa y rhai y rhoddid hwynt iddynt.

“Yn mysg pobl y tŷ, y rhai a weinyddent i ni yma, yr oedd caethwas o Abyssinia. hen wr erchyll o wrthun, a elwid Almas, neu y *diamond*. Ac mi a syfiais yn Shiraz, Fassa, a threfi ereill, fod y caethion Affricanaid yn cael eu gwahaniaethu wrth enwau blodeuog, mewn cyfartalwch i’w hagrwrch neu eu drygsawrusrwydd. Hefyd. mi a adwaenwn un a elwid Yasmin, y *jessamine* ;\* un Sumbul, yr hyacinth,† Jauher, y perl, a Makbul, yr hyfryd.”  
*Sir W. Ouseley’s Travels in the East, Vol. 2, p. 158.*

Ioan 14. 18. *Yn ymddifad.* Megys plentyn digymmorth. Mae y plentyn yn ymddifad o lawenydd a chysur, ac yn fynych yn cael ei wasgu gan ofid a thristwch; cyflwr yr hwn sydd yn cael ei osod allan gan yr Ysgrifenywyr santaidd a rhai o’r rhai paganaidd trwy eiriau yn arwyddo tywyllwch.

“Mae milwyr Nadir Shah yn gorfod cadw *yetims* ar eu traul eu hunain. Mae *yetim* yn arwyddo plentyn; ond ystyrir y rhai hyn fel gwasanaethwyr, y rhai, pan fyddo eu mheistri farw, neu y syrthiout mewn rhyfel, ydynt barod i wasanaethu fel milwyr.”  
*Hanway’s Travels in Persia, Vol. 1, p. 172.*

---

## PENNOD IV.

### GWEISION.

GEN. 14. 14. *Ei hyfforddus weision a anesid yn ei dŷ ef.* Yr oedd llawer o fanteision yn codi oddiwrth y moddiôn o ddiffyniad a ddesgrifir yn yr hanesion canlynol. Gellir tybied fod y personau sydd ar waith yn cael eu cynhyrfu gan ystyriaeth o les cyffredin a serch at eu gilydd. Diolchgarwch am yr hyn a aeth heibio, a dysgwyliaid am les yn yr amser i ddyfod, a’u cynhyrfai hefyd i barhau eu hymdrechiadau. Ymddengys fod yr ymarferiad, gan hyny wedi ffynnu yn helaeth, ac wedi bod o ganlyniadau da.

“Yn Persia mae caethion yn fynych wedi dyfod yn anwyliaid ac yn weision ag y rhoddir yr hyder mwyaf ynddynt; ac nid yw eu plant, gan eu bod wedi cael eu geni yn y tŷ, yn cael fawr llai o barch na pherthynasau y teulu. Maent yn cael eu galw

\* Blodeuyn ag iddo arogl hyfryd.

† Math o faen gwerthfawr.

yn Khanahzad, neu gaethion wedi eu geni yn y tŷ." *Malcolm's History of Persia, Vol. 1, p. 456; Vol. 2, p. 286.*

"Y Tyrriad hwn, wrth arfer fy ngweled yn cael fy ngosod ar waith gan ymerawdwr Twrci, a ymddiriedodd i mi ei holl weithrediadau milwraidd, ac nid amheuoedd yr ymdrechwn i ddarostwng y gwrthryfelwyr yn y Morea.\* Yr oedd y fyddin a gasglasai efe llywodraeth yr hon a fwriadasai efe i mi, wedi eu gŵneuthur i fynu o wirfoddiaid (*volunteers*); yr oedd pobl ei dŷ yn rhan o honi, ac yr oedd y fyddin hon yn cael ei chynhyrfu yn fwy gan y dysgwyliad am yspail, na chan y serch at anrhydedd." *Baron Du Tott, Vol. 2, p. 152, part 4.*

"Wedi marwolaeth Ali Bey, y llywodraethwyr ag oeddynt ddyledus am eu dyrchafiad i'w dŷ ef, (hyny yw, y rhai yr oedd efe wedi bod yn noddwr iddynt: yn mysg y *Mamelouks* gelwir y dyn a ryddhawyd yn fab y tŷ,) a nychasant yn ddirgel, wrth weled yr awdurdod yn myned i ddwyllaw plaid newydd." *Volney's Travels, Vol. 1, p. 153.*

"Mae pob llwyth yn cael ei wneuthur i fyhu o ryw un prif deulu, neu ychwaneg, penau y rhai a ddygant y titl o *Sheiks* (yr arglwyddi hynaf). Mae y teuluoedd hyn yn debyg o ran eu sefyllfa i'r pendeigion yn Ewrop, a'r mawrion yn mysg y Rhuŵeiniaid. Mae un o'r arglwyddi hyn yn ben ar y lleill, ac yn cyn-ddrychioli blaenor y fyddin hon. Mae efe weithiau yn cymmeryd y titl *emir*, hyny yw, llywydd, neu dywysog. Pa fwyaf o berthynasau, plant, neu gyngreirwyr a fyddo ganddo, mwyaf oll yw ei awdurdod a'i nerth. At y rhai hyn efe a chwanega rifedi o weision, holl anghenion y rhai a ddiwalla efe, ac fel hyn efe a bryna eu dibyniad arno. Mae teuluoedd ereill llai, y rhai nad ydynt yn ddigon cryf i fyw yn annibynol, ac felly yn gorfod ceisio cymmorth a nodded, yn uno â'r cyfryw benaeth." *Ibid. Vol. 2, p. 305.*

Gen. 39. 4. *Efe a'i gwnaeth ef yn olygwr ar ei dŷ.* Yr oedd Joseph, er mewn caethiwed, yn awr mewn sefyllfa yr hon, gyda chymmwysderau rhagorol, a'r fath ffafr oddiwrth wr mor fawr yn y llys, ag nad oedd yn ei gau allan oddiwrth ryw olwg am gyrhaedd anrhydedd mawr. Canys yn y Dwyrain, fel yn ngwlad Groeg, yn ystod yr oesoedd gwronaidd, nid oedd cyfnewidiadau

\* Gor-ynys a berthynai, hyd yn ddiwoddar, i Twrci, ond sydd yn awr yn rhan o deyrnas Groeg.

cyflym iawn mewn sefyllfa yn bethau anghyffredin. Yr oeddynt yn bethau cyffredin ar amser pan yr oedd môr-ladrad yn gystal a rhyfel, yn gosod pawb yn agored i syrthio i gaethiwed; ac yr oedd gwahaniaeth mawr yn cael ei wneyd rhwng un ag oedd yn y modd hwn wedi colli ei ryddid, a'r cyfryw ag a fuasent yn gaethion o genhedlaeth i genhedlaeth. Yn ein hamseroedd ein hunain mae meibion ag ydynt wedi eu prynu mewn gwledydd ereill a chael eu dwyn i'r Aipht, wedi cyrhaedd yr anrhydedd mwyaf. Hwy a ddaethynt yn gaethion i un o'r *Mamelouks*, yr hwn hefyd a werthasid i'r Aipht yn ei fabandod. Canys nid oes un o'r *Mamelouks* yn priodi; ac mae yr holl urdd (*order*), yr hon a gynnwys yn nghylch 8000 o wroniaid, yn cael ei hadlenwi â bechgyn ag sydd yn cael eu prynu. Os bydd y prynwr yn cael y bachgen yn meddu y galluoedd angenrheidiol, y mae yn ei addysgu yn yr holl bethau cymhwysiadol a berthynant i'r urdd, hyny yw, rheoli ei geffyl yn ol dull yr Arabiaid, defnyddio y cleddyf ar bicell; yna efe a wneir yn rhydd, ac a godir i'r urdd, aelodau yr hon sydd yn dewis y pedwar llywodraethwr ar hugain, ar y rhai y mae y *pacha* Tyrcaidd, mewn effaith, er nid mewn enw, yn dibynu yn hollol, oddiethr fod y *Porte* yn llwyddo i ddattod y pedwar ar hugain hyn o benau yn yr urdd oddiwrth eu gilydd, y rhai, pan unont, a heriant allu yr ymerawdwr; a pha un a fyddont yn unedig neu ar wahan, maent yn llywodraethu yr Aipht, gydag awdurdod annherfynol, hyny yw, maent yn ei gormesu ac yn ei hanrheithio hi. *Stollberg's History of Religion*, part 1, p. 189.

1 Cron. 2. 35. *A Sesan a roddodd ei ferch yn wraig i Jarha ei was.* Pan na byddo gan bobl y Dwyrain feibion, maent yn fynych yn priodi eu mherched â'u caethion, a hyny hyd yn nod pan fyddo ganddynt lawer o gyfoeth i'w roddi iddynt. Yr oedd Hassan wedi bod yn gaethwas i Kamel ei ragflaenor. Eithr Kamel, "yn ol defod y wlad, a roddodd iddo un o'i ferched mewn priodas, ac a adawodd iddo ar ei farwolaeth un ran o'r cyfoeth mawr a gasglasai efe yn nghyd trwy ystod ei fywyd hir a llwyddiannus." *Maillet, Lett.* 11, p. 118.

"Yn mysg gweision y llywydd yn Cambay,\* fel hefyd yn Surat, a lleoedd ereill, y mae llawer o gaethion o Abyssinia a Chaffraria yn Affrica, ag sydd yn cael eu galw mewn ffordd o

\* Dinas yn Persia.

gyweithasfwydd yn feistri. Maent yn fynych yn cael eu codi i fri mawr, yn cael eu gwisgo yn anrhydeddus, ac yn cael ceffylau, ac arfau, a gweision. Mae hyn yn beth arferol yn mysg y Moguliaid, y Tyrciaid, y Persiaid, a'r Arabiaid, ac yn enwedig yn mysg y *Mamelouks* yn yr Aifft, y rhan amlaf o ba rai a esgynasant i'w huchafiaeth o'r fath ddechreuad, fel y mae yr enw yr hwn sydd yn arwyddo prunedig neu feddiant, yn gosod allan. Mae y caethion a ymddygant yn dda, yn cael eu cadwynau yn ysgafn, ac yn cael eu trin fel perthynasau agos, a rhoddir hyder mawr ynddynt. Maent yn fynych yn ennill eu rhyddid, ac yn priodi merched eu mheistri." *Forbes's Oriental Memoirs, Vol. 3, p. 167. Malcolm's History of Persia, Vol. 2, p. 213.*

Sal. 123, 2. *Fel y mae llygaid gweision ar law eu meistraid.* Maë gweision neu gaethion yn y Dwyrain yn gweini i'w meistraid a'u meistresau gyda y paroh mwyaf. Mae *Maundrell (Journey at March, p. 13,)* yn sylwi, fod y gweision yn Twrci yn sefyll o amgylch eu meistraid a'u gwestwyr gyda y parch a'r dystawrwydd mwyaf, a chyda manylwch mawr. Dywed *Pococke*, fod pob peth yn cael ei wneuthur yn yr Aipht gyda y gwedd-eidd-dra a'r dystawrwydd mwyaf, y caethion neu y gweision yn sefyll yn mhen isaf yr ystâfell, a'u dwylaw yn blethedig o'u blaen, yn gwylio gyda y sylw manylaf ar bob awgrym o eiddo eu meistri, yr hwn a rydd orchymmyn iddynt trwy arwyddion. Mae *De la Mottraye (Travels, Vol. 1, p. 249,)* yn dywedyd fod y boneddigesau yn y dwyrain yn rhoddi eu gorchymmynion trwy yr amrantiad (*wink*) lleiaf, neu droad y bys, a hyny mewn modd nad yw yn ganfyddadwy i ddyethriaid." Mae *Du Tott, (Vol. 2, p. 30,)* yn adrodd angrafft nodedig o'r awdurdod sydd yn cydfyned â'r dull hwn o orchymmyn, ac o'r arferiad o arwyddion. "Pan oedd y seremoniau arferol ar yr achlysuron hyn drosodd. *Racub* y prif-weinidog (*vizir*) newydd, a barhaodd i ymddyddan yn gyfeillgar â'r cenhadwr: daeth y *muzur-aga*, neu yr ucholfâer, i mewn i'r neuadd, a chan neshau at y *Pacha*, neu y llywodraethwr, efe a sisialodd ryw beth yn ei glust, ac ni a sylwasom mai yr holl ateb a gafodd oedd symmudiad bychan o eiddo y llaw o'r naill du i'r llall, wedi yr hyn y prif weinidog, yn ddioced gan wenu fel o'r blaen, a barhaodd y gyfeillach dros ryw gymmaint o amser yn hwy: yna ni a adawson y neuadd a'r ymddyddan, ac a ddaethom at waelod y grisiau mawrion lle yr

aethom ar ein ceffylau : yma yr oedd naw pen, wedi eu tori, a'u gosod yn rhes y tu allan i'r porth cyntaf, yr hyn a roddodd i ni eglurhad cyflawn o'r *arwydd*, yr hwn a arferasai y llywodraethwr yn ein gŵydd."

Luc 16. 7. *Yna y dywedodd wrth un arall, A pha faint o ddyled sydd arnat tilhau? Ac efe a ddywedodd, Can. mesur o wenith. Ac efe a ddywedodd wrtho, Cymmer dy ysgrifen, ac ysgrifena bedwar ugain.* Ein Harglwydd yma a gyfeiria tebygol at arferiad gyffredin mewn rhanau o Asia; hi a ffyna o hyd, fel y mae yn amlwg oddiwrth yr hanes canlynol a gymmerwyd o *Captain Hadley's Hindostan Dialogues*, p. 79. Mae person yn llefaru fel hyn wrth y cadpen.

"Rhaglaw eich *Sirkar*, pan oedd ei feistr yn Calcutta, a sefydlodd lys cyfiawnder. Wedi iddo chwilio am lawer o ddyledwyr a'u gofynwyr, efe a ddaeth o hyd i'r cyfrifon crybwyll-edig yn eu rhwym ysgrifau.

"Efe yna a wnaeth gyttundeb â hwynt i fynu y rhwym-ysgrifau o ddwyllaw y rhai a'u dalient, am hanner y ddyled, os rhoddent hwy y bedwaredd ran iddo ef. Fel hyn, pob dyledwr, ar yr hwn yr oedd cant *rupee*,\* wedi rhoddi deg a deugain i'r gofynwr, a phump ar hugain i'r dyhiryn hwn, a gafodd ei rwmysgrif am driugain a deg o *rupees*. Wedi dâf a fflaugellu cant a phump ar hugain o ofynwyr, y mae efe yn y dull hwn wedi trefnu yn nghylch yr hyn a echwynasent, ac y mae wedi gwneuthur y gorchwyl hwn yn ein henwau ni."

## P E N N O D V.

### BWYD A DIOD.

GEN. 18. 4. *Ac efe a safodd gyda hwynt dan y pren, a hwy a fwytasant.* Nid oes dim yn fwy cyffredin yn India na gweled teithwyr a gwestwyr yn bwyta dan gysgod coed. Nid yw hyd yn oed gwleddoedd yn cael eu cadw un amser mewn tai. Mae tŷ yr Hindw yn gwasanaethu i gysgu, a thrin bwyd ynddo, ac i gau y menywod i mewn ynddo; ond nid ystyrir ef un amser yn lle i eistedd a chiniawa ynddo. *Ward's View of the*

\* Deryn o arian bathol yn yr India Ddwyreiniol, gwerth 2s. a 3c. o'n, harian ni.



*Hindoos*, Vol. 2, p. 315. "Wrth ddychwelyd i'r bâd, cefais yr *aga* a'i holl osgordd yn eistedd ar restog dan lwyn o goed palmwydd, gerllaw y dwfr. Yr oedd yr haul y pryd hwnw yn machlado, ac yr oedd cysgod y mynyddoedd yn y gorllewin wedi cyrhaedd dros y Nilus, a gorchuddio y dref. Yr amser hwn y mae y bobl yn ymddifyru, gan gyfarfod yn amrywiol dyrfaoedd yma a thraw, i yfed *coffee*, mygu eu pibellau, a siarad am gamelod, ceffylau, asynod, badau, &c. *Belzoni's Researches in Egypt*, p. 61. "Yr *aga*, wedi iddo ddarparu ciniaw i mi, a wahoddodd amrywiol o'r brodorion i eistedd i lawr. Dygwyd dwfr mewn croen gan un o'r gweision, i olchi ein dwylaw. Cafodd dau aderyn eu dwyn i'r bwrdd ar deisenau o flawd gyenith, mewn dysgi bren, wedi ei chuddio â rhestog fychan, ac amrywiol o'r un fath deisenau mewn un arall: yn nghanol y rhai hyn yr oedd ymenyn wedi ei doddi, a rhai o ffrwythau y pren *date*. Cafodd y rhai hyn eu rhanu a'u dryllio, a'u cymmysgu yn nghyd gan rai o'r cwmpeini, tra y darniodd ereill yr adar: wedi gwneuthur hyn, dechreuodd pawb fwyta mor gyflym ag y gallent: gan godi y naill or ol y llall, mor fuan ag y caent eu diwallu." *Light's Travels in Egypt*, p. 82.

Mae caredigrwydd i deithwyr yn ffynu trwy Guzerat: mae person ag a fyddo yn gryn barchus, wrth fyned trwy dalaeth, pan yn myned i mewn i bentref, yn cael ei anhegu â ffrwythau, llaeth, ymenyn, tanwydd, a llestri pridd at drin bwyd; y mae y menywod ar plant yn cynnyg iddo duswau o flodau. Mae gwasgodfauon (*bowers*) bychain yn cael eu codi mewn manau cyfleus, o fewn ychydig o bellder oddiwrth ffynnon neu lyn, lle y cynhelir person gan y pentrefi nesa, i ofalu am y dwfr a'r costreli, a diwallu pob teithiwr yn rhad. Mae pentrefi neillduol lle y mae y preswylwyr yn cymmell teithwyr i dderbyn lluniaeth dros ddiwrnod: pa un a fyddont yn llawer neu ychydig, cyfoethog neu dlawd, Ewropaidd neu frodorol, rhaid iddynt beidio gwrthod yr haelioni a gynnygir. *Forbes's Oriental Memoirs*, Vol. 2, p. 415.

Gen. 21. 19. *A Duw a agorodd ei llygaid hi, a hi a ganfu bydew dwfr; a hi a aeth, ac a larwoodd y gostrel â dwfr, ac a ddiododd y llanc.* Nid oes ond ychydig o ddarllenwyr yn Ewrop, tebygol, yn alluog i ffurfio drychfeddwl gyfartal â dychrynfeydd y sefyllfa a ddesgrifir yma. Gall y desgrifiad canlynol wasanaethu.

wasanaethu i ddangos i ni ddychrynfeydd yr anialwch, ar perygl o drengu ynddo trwy syched.

“ Mae anialwch Mesopotamia yn awr yn gosod o flaen ein llygaid yr olwg bruddaidd sydd drosto oll. Parhad ydyw, ac y mae, mewn ystyr, yn gangen o Anialwch mawr Arabia ar y tu arall i'r Euphrates. Mae rhai planhigion heilltion, yma a thraw, yn cuddio y tywod poeth. Mae y wermod yn ymledu yma fel yr eithin yn Ewrop, dros lawer iawn o dir, ac yn cadw ymaith bob planhigyn arall. Mae yma lawer o greaduriaid gwylltion ac ysglyfaethus yn rhodio yn y gwastadedd hyn. Y llew yn ymguddio yn ei loches, ac yn gwylio am ei ysglyfaith; a phan yn methu cael 'r un creadur i dori ei newyn, daw allan dan ruo gyda ffyrnigrwydd, hyd nes byddo ei ruad yn swnio fel taran trwy yr anialwch. Mae dwfr yr anialwch, gan mwyaf, yn chwerv a hallt. Mae yr awyr, fel y mae yn gyffredin yn Arabia, yn bur a sych; y mae yn boeth iawn yn fynych yn y gwastadedd noethion a heilltion; mae tARTH afiachus yn codi oddiar ddwfr llonydd, ac yn gwasgaru yno; ac y mae yr agerdd sydd yn codi o lynoedd brwmstanaidd a heilltion yn cynnyddu heintusrwydd yr awyr. Mae yr awyr weithau yn cael ei therfysgu, nes y gosoder colofn o'r gwynt gwenwynllyd hwnw mewn cyffroad buan, yr hwn a elwir *Samum*, neu *Samyel*: nid yw y gwynt hwn yn cael ei arswydo gymmaint yn nghanol Arabia ag yn yr ymylau. Mor fuan ag y codo y gwynt per-yglus hwn, mae yr awyr yn ddioed yn colli ei phurdeb, mae yr haul yn cael ei guddio â gorchudd gwaedlyd, mae pob anifail yn syrthio i'r ddaear mewn braw, i ochelyd y gwynt llosgawl hwn, yr hwn sydd yn mygu (*stifle*) pob creadur byw a anturio sefyll o'i flaen.

“ Mae y marsiandwyr y rhai ydynt yn cludo pethau yn ol ac yn mlaen o Aleppo i Bagdad, ac yn teithio trwy yr anialwch hyn, yn cael talu teyrnged i'r Arabiaid, y rhai a ystyriant eu hunain yn feistri ar yr annglyfaneddleoedd hyn. Maent hefyd yn gorfod bod mewn braw rhag y gwynt mygawl, heidiau o locustiaid, a diffyg dwfr mor fuan ag yr ymadawont â'r Euphrates. Mae teithiwr Ffrengig yn sicrhau, -iddo ef weled golwg a achlysurwyd gan y diffyg o ddwfr, y fwyaf dychrynllyd i ddyn o deimlad ag a ellir ddychymmygu: y lle oedd rhwng Anah a Dryjeh. Yr oedd y locustiaid, wedi iddynt yn gyntaf ddifa y cwbl, wedi trengu o'r diwedd. Yr oedd y rhifedi dirfawr o locustiaid meirwon wedi

llygru y pyllau, o ba rai, o ddiffyg ffynnonau, yr oeddynt yn gorfod tynu dwfr. Y teithiwr a welodd Dyrriad, yr hwn, ag anobaith yn eglur yn ei wynebpryd, a redodd i wared oddiar fryn ato. "Yr wyf fi," ebe efe, "y mwyaf anffodus yn y byd! Yr wyf wedi prynu ar bris uchel iawn, ddau cant o ferched, y rhai prydferthaf a fedd gwlad Groeg a Georgia. Yr wyf wedi eu haddysgu gyda gofal; ac yn awr pan y maent mewn oed i briodi, yr wyf yn eu cymmeryd i Bagdad i'w gwerthu mewn modd manteisiol. Och! y maent yn trengu yn yr anialwch gan syched, ond yr wyf fi yn teimlo poen mwy nac a deimlant hwy." Y teithiwr yn ddioed a aeth i fynu i'r bryn; ac a welodd olwg arswydus. Yn nghanol deuddeg o enuchiaid ac yn nghylch cant o gamelod, efe a welodd y merched prydferth hyn, y rhai oeddynt o ddeuddeg i bymtheg mlwydd oed, yn eu hyd ar y llawr, yn agored i'r poen a achosid gan syched pocthawl, a marwolaeth anocheladwy. Yr oedd rhai eisioes wedi eu claddu mewn pwll, yr hwn oedd newydd gael ei gloddio; yr oedd rhifedi mwy wedi syrthio i lawr yn farw yn ymyl eu tywyswyr, yn y rhai nid oedd uerth mwyach i'w claddu. Yr oedd ocheneidiau rhai yn marw i'w clywed; a chlywid llefau ereill yn y rhai yr oedd ychydig o nerth yn aros, yn crefu yn ofer am ychydig o ddwfr. Y teithiwr ffrengig a frysiodd i agoryd ei gostrel groen, yn yr hon yr oedd ychydig o ddwfr. Yr oedd ef yn ddioed yn myned i'w chynnyg hi i un o'r trueiniaid anffodus hyn, "Y dyn gorphwyllog!" ebe ei dywysydd Arabaidd, "a ewyllysi di i ninau drengu gan syched." Efe yn ddioed a laddodd y ferch â saeth, ymaflodd yn y gostrel, ac a fygythiodd ladd y neb a anturiai gyffwrdd â hi. Efe a gynghorodd y masnachydd hwn mewn caethion i fyned i Dryjeh, lle y caffai ddwfr. "Na," ebe y Tyrriad, "yn Dryjeh yr yspcilwyr a gymmerent ymaith fy holl gaethion." Yr Arabiad a lusgodd y teithiwr ymaith. Y funud yr oeddynt yn ymadael, y trueiniaid anhappus hyn yn gweled y gobaith diweddaf yn diflanu, a godasant lef alaethus. Cyffrowyd yr Arab gan dostari; efe a gymmerodd un o honynt, tywalltodd ddiferyn o ddwfr ar ei gwefusau llosgedig, ac a'i gosododd ar ei gamel, gan fwriadu gwneuthur anrheg o honi i'w wraig. Y ferch druan a lewygodd amrywiol o weithiau, wrth fyned heibio i gyrph ei chyfeillesau, y rhai a syrthiasent yn feirw ar y ffordd. Pan yr oedd ystôr y teithiwr o ddwfr bron darfod, daethant at ffynnon hyfryd o ddwfr iachus a phur; ond yr oedd y rhaff mor fyr, fel na chyrrhaeddai

y celwrn wyneb y dwfr. Hwy a dorasant bob un 'ei gochl yn lleiniau, rhwymasant hwynt yn nghyd, ac ni thynasant ond ychydig o ddwfr ar unwaith, o herwydd yr ofnent i'w rhaff wan dori a gollwng eu celwrn i syrthio i'r ffynnon. Ar ol y fath beryglon, daethant o'r diwedd i'r wersyllfa gyntaf yn Syria." *Malle-Brun, Universal Geography, t. 2.*

Gen. 24. 11. *Ar brydnhaon, yn nghylch yr amser y byddai merched yn dyfod allan i dynu dwfr.* Mae Homer yn llefaru ei fod yn arferiad yn mysg y *Phæacians* a'r *Læstrygonians*, i osod y menywod i dynu dwfr. Mae Dr. Shaw, wrth lefaru am waith y menywod Ethiopaidd yn *Barbary*, yn dywedyd, "I orphen y dydd, yn yr hwyr, sef ar yr amser y byddo y menywod yn myned allan i dynu dwfr, y maent bob un i gymmeryd pisser neu groen gafr, a chan gylmu eu plant bychain ar eu cefnau, y maent yn myned yn y dull hwn ddwy neu dair milltir i gyrchu dwfr." *Travels, p. 421.* Y mae y menywod yn Persia yn myned yn finteioedd i dynu dwfr at eu gwasanaeth. Mi a welais y rhai hynaf yn eistedd ac yn siarad wrth y ffynnon, gan drin cottwn garw y wlad, tra yr oedd y merched ieuainc yn llanw y croen â dwfr, yr hwn a ddygent hwy ar eu cefnau i'r dref. *Morier's Journey through Persia, p. 61.*

"Wrth ffynnon Belgrad, yr hon y mae y foneddiges Montague wedi ddarlunio mor nodedig, mae yn ddifyrus iawn i weled y menywod Groegaidd, ar ddydd gwyl, yn ymgasglu i dynu dwfr, wedi gwisgo eu dillad gwyhaf. Ffurf y pisser, i'r hwn y mae dwy ddolen, eu hagwedd pan yn ei ddwyn ar eu hysgwyddau, ydynt weddillion neillduol o ddull yr amser gynt. Mae eu dawnisiau, a'u peroriaeth trwsgl â'r delyn, &c., yn dwyn defodau yr oesoedd pellaf i lawr i'n dyddiau ni." *Dallaway's Constantinople, p. 147.*

"Yn mhentrefi y Brahminiaid yn Concan, yn Asia, mae menywod o'r graddau uchaf, fel Rebecca a Rahel, yn tynu dwfr o'r ffynnonau cyhoedd, yn arwain yr anifeiliaid i'r borfa, ac yn golchi eu dillad yn y pydewau, &c. Escod. 2. 16. Ioan 4. 6. Marc 14. 12-15."

"Yn debyg iawn i ddulliau bugeilaidd llancesau Mesopotamia yn ayddiau y patrieirch, y mae merched ieuainc Gwzerat yn tynu dwfr yn feunyddiol o'r ffynnonau cyhoedd, ac weithiau yn dwyn dwy neu dair o ystenau, wedi eu gosod y naill ar ben y llall, ar eu penau, yr hyn, gan ei fod yn gofyn dianwadalweh hollol, a'u gwna i edrych yn syth ac ardderchog iawn. Pan yr

oedd boneddiges Seisnig, hyfrydwch mawr yr hon oedd egluro yr ysgrythrau trwy eu cymharu ag arferion a defodau yr Hindwaid, yn darllen y gyfeillach nodedig a fu rhwng gwas Abraham a Rebecca, wrth borth Nachor, Gen. 24, 15, i, un o'r brodorion ag oedd yn gryn wybodus, pan ddaeth hi at y geiriau a ddywedant i'r llances ddisgyn i'r ffynnon â'r ysten ar ei hysgwydd, ei chyfaill ystyriol a waeddodd allan, Fy arglwyddes, yr oedd y fenyw hōno o sefyllfa (*caste*) uchel! Efe a gasglai hyn oddiwrth yr amgylchiad o ddwyn yr ysten ar ei hysgwydd, ac nid ar ei phen: mae rhai o'r graddau uchaf yn mysg y Brahminiaid yn gwneuthur yr un modd." *Ibid. Vol. 2, p. 78.*

"Ffynnon gyhoedd y tu allen i un o'r pyrth yn ninas Dhuboy, oedd yn lle ag y cyrchai llawer iddo; yr oedd y rhan amlaf o deithwyr yn aros yno er cael cysgod a lluniaeth: byddai y menywod yn cyrchu i'r ffynnonau a'r cronfeydd fore a hwyr, i dynu dwfr. Mae i lawer o ffynnonau Gwzerat risiau yn arwain i wared at wyneb y dwfr; mae ereill o honynt hebddynt, ac nid wyf fi yn cofio gweled un o honynt ag iddi gelyrnau a rhaffau at wasanaeth dyeithriaid; mae y rhan amlaf o deithwyr gan hyny, ac y mae y pererinion crefyddol yn fynych, yn dwyn gyda hwynt lestr pres bychan a llinyn hir wrtho at y gwasanaeth hwn." *Ibid. Vol. 2, p. 322.*

"Pan oeddwn i ymā, (yn Ain, yn Ngwlad Cannan,) menyw Arabaidd ieuanc, yn mhriodas yr hon yr oeddwn wedi bod y dydd cyntaf y daethim i'r pentref, a ddaeth yma i dynu dwfr. Yr oedd menywod ereill gyda hi yn canu cân a gyfeiria i at ei phriodas. Pan ddaeth hi at y ffynnon, hi a lanwodd ei llestr, wedi hyn y menywod ereill a wnaethant yr un modd. Mae yn beth arferol fod menywod yn gwneuthur hyn nid yn unig yn mhentrefi Judea a Samaria, ond hefyd yn mhentrefi Galilea, pharthau ereill o Syria." *Maritis' Travels, Vol. 3, p. 141. See also Belzoni's Researches, pp. 335, 344. Sir R. K. Porter's Travels in Persia, Vol. 2, p. 7. Dodwell's Tour through Greece, Vol. 1, p. 167. Buckingham's Travels in Palestine, p. 89.*

Gen. 27. 4. *Blasus-fwyd.* Mae bron holl ddysgleidiau pobl Aleppo, fel yr hysbysa Dr. Russell i ni, "wedi eu seimio naill ai â brader neu ag ymenyn, wedi eu tymheru yn gryn uchel â halen a phêr-lysiâu; llawer o honynt wedi eu gwneuthur yn chwêrw â sudd pomgranad, &c.; ac y mae wuiwn a garleg yn

fynych yn gorphen y tymheriad." *Vol. 1, p. 115.* Rhydd Dr. Shaw hanes cyffelyb i ni, *p. 231.*

Megys mai cig rhyw greadur wedi ei hela a ddymunodd Isaac, tebygol iawn fod y ddysglaid a ewyllysiodd efe, o'r fath ag a grybwyllwyd uchod.

Mae rhai o'u dysgleidiau o fwyd, pa fodd bynag, o natur felus, "Mae oen cyflawn, wedi ei llenwi â *rice*, almonau, rhesin, &c. a'i fall-ferwi, yn ddyaglaidd ddanteithiol gyda hwynt." *Russell, Vol. 1, p. 172, &c.*

Priodol iawn gan hyny, yn ein cyfieithwyr ni, oedd rhoddi y gair hwn mewn cylch helaethach yn *Diar. 23. 3. Pan eisteddych i swytha gyda thywysog, ystyria yn ddyfal beth sydd ger dy fron*, ad. 1. *Na ddeisyf ei ddanteithion ef, canys bwyd twyllodrus ydyw*, ad. 3. Rhoddir ef yr un modd yn ad. 6.

Mae *De la Roque* yn rhoddi hanes cyffelyb iawn am ddull yr Arabiaid o fywiolaethu, ffordd y rhai o fyw sydd yn debyg iawn i eiddo y patrieirch. "Mae cig wedi ei bobi braidd yn beth anheborol i fyrddau eu tywysogion, ac w'nyn a m'nynod wedi eu mall-ferwi yn gyfain, a'u llenwi â bara, blawd, a brasder cig defaid, rhesin, *saffron*, *mint*, a phêr-lysiau ereill." *Voy. dans la Pal, ch. 14, p. 197.*

*Gen. 29. 2. A charreg fawr oedd ar enau y pydew.* "Y mae yn arferiad cyffredinol gan y minteiodd, marsiandwyr yn y parthau hyn, yn gystal ag yn anialwch Arabia, i beidio yfed un amser ond pan orphwyso yr holl fintai dros yohydig o funudau i'r perwyl hwnw: yr amser i wneuthur hyn, yn y minteioedd sydd yn dwyn caethion, yw yn nghylch naw o'r gloch yn y bore, a dwy waith yn ystod taith y prydnhawn, sef, yn nghylch pedwar a chwech o'r gloch. Yn y bore, hefyd, y mae pob un yn yfed pan orphwyso y fintai, a thrachefn wedi eu pryd bwyd; gwnant felly hefyd yn yr hwyr. Mae dyn yn cael ei ystyried yn fenyw-aid, os bydd iddo yfed pan na wnelo ereill felly." *Burckhardt's Travels in Nubia, p. 428.*

Yn Arabia, a lleoedd ereill, y maent yn cuddio eu ffynnonau dwfr, rhag i'r tywod, yr hwn a gyffroir gan y gwynt, eu llanw. *Chardin.* Yr oedd eu gofal gymmaint rhag i'r ffynnon fod yn agored dros unrhyw hyd o amser, fel yr arosent hyd nes y cesglid y praidd oll yn nghyd, cyn y dechreuent dynu dwfr; a phan orphenent cauid y ffynnon drachefn yn ddioed.

*Ecsod. 12. 46. Na thorwch asgwrn o hono.* Yr oedd yn rhaid

rhostio oen y pasg, gan hyny, yn gyfan. I gogyddes Ewropaidd dichon y byddai dwyn oen cyfan i'r bwrdd, wedi ei drin yn dda; yn orchwyl anhawdd. Ond yn y Dwyrain nid yw rhostio dafad yn gyfan ond beth cyffredin. Dywed Belon, "Wrth droed y bont, cyfarfuasom â bugeiliaid y rhai oeddynt yn rhostio dafad yn gyfan, yr hon oeddynt wedi werthu i deithwyr. Yr oedd y perfedd wedi eu tynu allan, a'r corph wedi ei wnio yn nghyd drachefn. Y rhai ni welsant y cyfryw beth, ni allant ddychymmygu gystal y gellir rhostio cymmaint o gig yn nghyd.

Mae *Thevenot* yn dywedyd (*Travels, Vol. 2, p. 236,*) fod rhostio defaid ac ŵyn cyfain yn beth cyffredin yn Persia. Mae hyn yn cael ei wneuthur mewn ffwrn, i'r hon y mae agoriad yn y pen; a llestr yn cael ei osod yn y gwaelod i dderbyn y brasder; ac yn y dull hwn mae yn cael ei rostio yn dda o amgylch.

Ecsod. 16. 14. *Manna.* Mae y *Bedouins* hyd y dydd hwn yn casglu manna, dan yr un amgylchiadau ag a ddesgrifir yn llyfrau Moses. Pa bryd bynag y byddo y gwlaw wedi bod yn helaeth yn ystod y gauaf, y mae cyflawnder o hono yn diferu oddiar y *tamarisk*, pren cyffredin iawn yn anialwch Syria ac Arabia, ond nid yn dwyn manna, mor bell ag yr wyf fi yn gwybod, yn un lle arall. Maent yn ei gasglu cyn y codo yr haul, o herwydd ei fod yn toddi os gadewir ef yn yr haul: mae ei flâs yn felus iawn, yn debyg iawn i fêl. Y maent yn ei ddefnyddio fel y defnyddiwn ni *sugar*, yn fwyaf cyffredin mewn dysgleidiau a fyddo wedi eu gwneuthur, o flawd. Pan wedi ei buro, efe a geidw dros lawer o fisoedd. Ni ellir casglu llawer o hono, canys ar y *tamarisk* yn unig y mae i'w gael; ac nid yw y pren hwnw i'w weled ond mewn rhes o ddyffrynoedd yn y parthau hyny. *Burckhart's Travels, Introd. 68.*

"Yn mis Mehefin y mae yn diferu oddiar ddrain y *tamarisk* ar frigau, dail, a drain ag sydd yn wastadol yn gorchuddio wyneb y ddaear dan y pren hwn yn ei gyffwr naturiol. Mae y manna yn cael ei gasglu cyn codiad haul, tra y mae i'w gael wedi ceulo, ond mae yn toddi mor fuan ag y tywyno yr haul arno. Mae yr Arabiaid yn glanhau ymaith y dail, y drain, &c., ag a fyddo wedi glynu wrtho, yn ei ferwi, yn ei hidlo trwy ddarn o liain, ac yn ei osod mewn crwyn. Yn y dull hwn y maent yn ei gadw hyd y flwyddyn ganlynol, ac yn ei ddefnyddio fel y defnyddiant fêl; rhoddant ef ar wyneb eu bara dilefeiniillyd, neu soddant eu bara ynddo. Ni ellais i gael hanes eu bod un amser yn ei wneu-

thur yn deisenau neu dorthau. Mewn blynyddau yn y rhai y mae llawer o wlaw wedi disgyn yn unig y mae y maana i'w gael; rai blynyddau ni cheir dim o hono, fel, tebygol, y dygwydda hi y flwyddyn hon. Ni welais i ddim o hono yn mysg yr Arabiaid, eithr mi a gefais ddarn o gynnyrch y flwyddyn ddiweddar o'r mynachdy, lle yr oedd wedi cael ei gadw mewn cysgod oer, ac felly wedi dyfod yn galed, mewn dull teisen fechan. Daeth yn dyner ar ol cael ei gadw ýchydig o amser yn y llaw; os rhoddir ef yn yr haul dros bam munud, efe a dodda; ond os rhoddir ef yn ol mewn lle oer, efe a galeda mewn chwarter awr. Yn y tymmor pan y mae yr Arabiaid yn ei gasglu, nid yw un amser yn myned mor galed, nes y byddo raid ei falurio, fel y dywedir i'r Israeliaid wneuthur, Num. 11. 8. Ei liw yw melyn twyll, ac yr oedd dail y pren *tamarisk* yn gymmysgedig â'r darn a welais i. Mae ei flâs yn hyfryd; mor felus â mêl: mae ei arogl yn beraidd. Os bwytteir eryn lawer o hono, dywedir ei fod yn garthawl (*purgative*).” *Ibid.* p. 600.

Lef. 2. 4. *Ffwrn*. Wrth y gair ffwrn rhaid i ni beidio meddwl un o ffyrnau Ewrop, ond y fath un ag a ddesgrifir gan *Niebuhr* (*Description of Arabia*, p. 51,) a olygir. “Ar fwrdd y llong yn yr hon yr hwyliasom ni o Dsjidda i Loheia, yr oedd un o'r morwyr yn gorfod cymmeryd *durra*, math o feillion, bob prydnhawn, a rhwbio cymmaint o honynt, a dwfr gyda hwynt, rhwng dwy gareg, ag oedd yn ddigon dros un diwrnod, ac o'r blawd i wneuthur toes a theisenau bychain. Ar yr un pryd byddai y ffwrn yn cael ei thwymno. Llestr dwfr helaeth oedd hon, yn nghylch tair troedfedd o uchder, heb un gwaelod, a'r pen uchaf wedi ei droi yn isaf, a chlai wedi ei osod yn dew o'i amgylch, ac yn sefyll ar bren wedi ei wneuthur mewn modd cyfleus i'w symmud. Pan yr oedd y ffwrn wedi ei thwymno yn ddigonol, cafodd y toes, ei osod ar du fewn y ffwrn, heb dynu y marwor allan, ac yna cauwyd y ffwrn. Cafodd y bara yr hwn ni phobwyd ond prin hanner digon arno i Ewropiad, ei dynu allan wedi hyny a'i fwyta yn frwd. Mae y fath lestr yn cael ei alw *tenâr*; a'r un yw y gair hwn â'r un ag a saif yn y testun uchod yn yr iaith Hebraeg, yr hwn a gyficithodd *Luther* trwy y gair ffwrn. Yr hyn o ddengys ein bod i ddeall y fath lestr ag a ddesgrifir gan *Niebuhr*.

Lef. 2. 13. *Offrynma halen, ar bob offrom i'*. Yr oedd halen yn mysg yr hynafiaid yn arwydd o gyfeillgarwch a ffyddlondeb,



am hyny arferid ef yn eu holl offrymau a'u cyfammodau. Sonir *Bruce* am fath o halen ag sydd mor galed fel yr arferir ef fel arian, ac efe a â o law i law heb gael mwy o niwed nac a gaffai careg.

Wrth ddesgrifio talaeth *Kain-du*, *Marco Polo (Travels, p. 420.)* a ddywed, "Mae yn y wlad hon ffynnonau halen, o ddwfr pa rai y maent yn gwneuthur halen, trwy ei ferwi mewn pedyll bychain; pan byddo y dwfr wedi berwi dros awr, mae yn dyfod yn fath o does glydiawl, yr hwn a wneir yn deiseni, gwerth dwy geiniog. Mae y rhai hyn, y rhai ydynt yn wastad ar y tu isaf, ac yn gau ar y tu uchaf, yn cael eu gosod ar lechau poethion gerllaw tân, mewn trefn iddynt sychu a chaledu. Ar y teiseni hyn, y rhai ydynt i gael eu harfer fel arian, y mae argraff y brenin yn cael ei rhoi; ac ni ellir eu parotoi gan neb ond swyddwyr y brenin yn unig.

Pan sonir am *gufammmod halen*, ymddengys y cyfeirir at y dull o wneuthur cyfammod, pan arferid halen fel arwydd o gadernid. Mae y *Baron du Tott*, wrth lefaru am un ag oedd yn awyddus am gydnabyddiaeth ag ef, yn dywedyd, ar ei ymadawiaid, efe a addawodd ddychwelyd mewn amser byr. Pan yr oeddwn wedi myned gydag ef hanner y ffordd i wared i'r grisiau, efe a safodd, trodd yn gyflym at un o'm gweision, a dywedodd wrtho, *dygwch i mi ychydig o fara a halen*. Dygwyd iddo yr hyn a ofynnodd; yna, wedi cymmeryd ychydig o halen rhwng ei fysedd, a'i osod gyda difrifoldeb mawr ar damaid o fara, efe a'i bwytaodd gyda sobrwydd neillduol, gan sicrhau i mi. y gallwn yn awr ddibynu arno. *Part 1, p. 214.* Yn mysg pethau ereill a ddywedir am *Jacoub ben Laith*, sonir iddo dori i balas, ac wedi iddo gasglu yspail fawr, yr hon yr oedd yn nghylch ei chymmeryd ymaith, iddo daro ei droed wrth ryw-beth ag a barodd iddo dramgwyddo; iddo ei osod wrth ei enau, mewn trefn i ddeall yn well beth ydoedd, a gwybyddodd yn fuan mai halen ydoedd; ar hyn, yn ol coelgrefydd y wlad, lle yr ystyriai y bobl halen fel arwydd o lettygarwoh ac ernes o hono, efe a darawyd â braw yn y fath fodd fel y gadawodd ei holl yspail, gan ymadael heb gymmeryd dim ymaith gydag ef. *D'Herbelot, Bibl. Orient. p. 466.*

Mae y llwyth hwnw o Arabiaid a elwir *Bedouin*, o hyd yn ystyried halen fel arwydd ac ernes o ffyddlondeb, ac o gadernid cyfammodau. "Mae ganddynt barch mawr i fara a halen. Pan fyddo rhyw un yn ciniawa gyda hwynt, a hwy yn ewyll.

ysio ie gymell i fwyta, dywedant, bwyttwch er mwyn y bara a'r halen yr hwn sydd rhyngom ni. Maent hefyd yn arfer cadarnhau neu wadu unrhyw beth trwy halen." *D'Arvicur's Customs of the Bedouin Arabs*, p. 43. Mae Schultz (*Travels through Europe, Asia, and Africa*) yn son am angrafft nodedig o barch yr Arabiaid i halen. "Ar y 13eg o Fehefin, (yn y flwyddyn 1754,) yr oedd y Diacon, Joseph Diab, y gwr a gadwai gyfrifon y tollau, wrth y bwrdd: gan gyfeirio at yr halen oedd ar y bwrdd, efe a sylwodd fod yr Arabiaid yn ei arfer fel arwydd o gyfeillgarwch, ac er eu bod yn hoffi ei fwyta, nad oeddynt yn ei osod ar eu bwrdd. Efe a ddywedodd iddo ef fod unwaith gyda mintai o farsiantdwy'r yn Bab-el (Bagdad), pan y daethant i fan lle yr oedd gwersyll yr Arabiaid. Yr oedd yn y fintai farsiantdwr cyfoethog. Mor fuan ag y canfyddodd efe fod un o'r Arabiaid yn dyfod at y fintai, efe a gladdodd yr arian ag oedd ganddo o'i amgylch yn y ddaear, ac a wnaeth dân mawr uwchben y fan; yna y lleill a gyfleasant eu hunain o amgylch y tân. Pan ddaeth yr Arabiaid yn mlaen derbyniwyd hwynt yn garedigol, a gwahoddwyd hwynt i fwyta bwyd: hwy a dderbyniasant y gwahoddiad ac a eisteddasant i lawr. Ond mor fuan ag y gwelodd y penaeth yr halen ar y bwrdd, efe a ddywedodd wrth y marsiantdwr: Mae fy ngholled i yn cnull i chwi; canys gan fy mod i wedi ciniawa wrth fwrdd ar yr hwn yr oedd halen, ni allaf, ni feiddiaf, wneuthur un niwed i chwi. Ar hyn darfu y gyfeillach, a'r penaeth Arabaidd nid yn unig ni chymmerai ddim o'r hyn a allasai ofyn, ond efe a'u tywysodd ac a'u diffynodd am ddim â'i wŷr, mor bell â'r Euphrates, ac a'u rhoddodd dan ofal Pacha Bagdad, fel cyfeillion i'w dywysog ef, Achsam. Yr oeddynt yn awr mewn diogelwch. Nid yw gosod halen ar fwrdd cyffredin yn beth arferol yn mysg yr Arabiaid, ond yn unig pan fyddo tywysog Arabaidd yn myned i gyngrair â *phacha*, yr hyn a elwir *Baret milleh*, neu gyngrair yr halen. Mae hyn yn cael ei wneuthur yn y modd canlynol: Pan byddo y tywysog Arabaidd yn ewyllysio byw dan arglwyddiaeth *pacha*, y mae yn anfon ei swyddwyr awdurdodedig ato, ac yn gofyn a all efe drigo yn y wlad fel cyngreiriwr? Os bydd y *pacha* yn cydsynio â hyny, efe a enfynd ei raglawiaid at y tywysog, i hysbysu iddo y bydd iddynt gyfarfod ar y cyfryw a'r cyfryw ddydd: pan ddelo y dydd pennodedig, y mae y *pacha* yn marchogaeth i gyfarfod â'r tyw.

ysog yn y maes, yr hwn a fyddo yr olaf wedi<sup>a</sup> dewis yn arosfa iddo, ac yn ei dywys i'w drigfa; yna y tywysog a ofyn iddo pa faint raid iddo ei roddi am drigo yn y maes. Mae y cytundeb yn fuan yn cael ei wneuthur, ac yn cael ei drefnu yn ol helaethrwydd y gwersyll. Arabaidd: mor fuan ag y terfynir ef, mae gwledd yn cael ei pharotoi, ac y mae halenai (*salt-cellar*), yn nghyd â rhai darnau bychain o fara, yn cael eu dwyn o amgylch yr ystafell gan weision y *pacha*, ar ddysgl lydan. Mae y ddysgl hon yu cael ei gosod o flaen y *pacha* yn gyntaf, yr hwn sydd yn cymmeryd darn o fara, ac yn ei soddi yn yr halen, ac yn ei ddal rhwng dau fys o flaen y tywysog, ac yn gweiddi allan, *Salam!* hyny yw, Tangnefedd! Yr wyf fi yn gyfaill i'ch cyfaill chwi, ac yn elyn i'ch gelyn chwi. Mae y ddysgl yn awr yn cael ei gosod o flaen y tywysog Arabaidd, yr hwn yn yr un modd sydd yn cymmeryd darn o fara, yn ei soddi yn yr halen, ac yn galw ar y *pacha*, ac yn dywedyd, Tangnefedd! Yr wyf fi yn gyfaill i'ch cyfaill chwi, ac yn elyn i'ch gelyn chwi. Wedi hyn y mae y ddysgl a'r bara ynddi yn cael ei gosod o flaen blaenoriaid y tywysog Arabaidd, ac o flaen gweinidogion penaf y *pacha*, y rhai ydynt yn ei derbyn yn yr un modd â'u huchafiaid; ond wrth dderbyn y bara ni ddywedant hwy ond yn unig *Salam! tangnefedd!*"

Ymddengys oddiwrth yr hanesion diweddaraf am y llwyth hwnw o Arabaidd a elwir *Bedouins*, fod yr arferion hyn yn ffynnu yn eu plith hyd y dydd hwn. Mae *Don Raphael* yn sylwi, (*Bedouins, or Arabs of the Deserts*, p. 2, p. 59.) "Er fod y *Bedouins* yn gyffredin yn elynol at ddyeithriaid, etto y mae cyfammodau y rhai, trwy ddofi eu gwylltneb, yr ymddengys eu bod yn gweithio ynddynt dybiau llwyr wahanol i'w cymmeriad, ac yn eu gwneuthur dros rai munudau, yn ddynion hollol wahanol. Mae un math o'r cyfammodau hyn yn cael eu gwneuthur trwy osod rhai gronynau o halen a darn o fara yn ngenau y naill a'r llall, gan ddywedyd, 'Myn y ddefod o fara a halen,' neu yn unig, 'Myn yr halen a'r bara hyn, ni fradychaf di.' Ni chwangerir llw; canys pa fwyaf santaidd yr ymddengys fod llw, hawddaf oll y mae Arabiad yn ei dori. Ond mae cyfammod a wneler yn y modd hwn, yn cael ei rym oddiwrth dyb, ac y mae hyn yn wir yn beth rhyfedd. Wedi iddynt fwyta halen a bara gyda rhyw un byddai yn drosedd erchyll nid yn unig ei yspeillio, ond hyd yn oed cyffwrdd â'r peth lleiaf ag y mae yn ddwyn gydag

ef trwy yr anialwch. Caffai y niwed lleiaf a wnelid i'w berson ef, ei ystyried yr un cymmaint o ddrwg. Caffai Arabiad a fyddai yn euog o'r fath drosedd, ei ystyried fel dyhiryn ag a allai ddysgwyl cerydd oddiwrth bawb, a bod yn ffeidd-beth ganddynt: byddai yn un diystyredig, ac nid allai byth olchi ymaith ei warth. Mae yn beth na chlywwyd am dano braidd erioed fod Arabiad yn tynu y fath warth arno ei hun. Nid ynt yn petruso cyflawni cyfammod a wnaed â bara a halen. Os gall dyn dy-eithr wrth gyfarfod â hwynt yn yr anialwch, neu wrth ddyfod i'w gwersyll, neu cyn yr ymadawo o ddinas, ddangos y cyfammod hwn yn wyneb eu hawydd cryf i yspeilio, y mae ei dda a'i fywyd yn ddiogel, hyd yn oed yn nghanol yr anialwch. Mae yr Arabiad gyda yr hwn y bwyaodd efe fara a halen, a'r holl Arabiaid o'r llwyth hwnw, yn ei ystyried fel cydwladwr a brawd iddynt. Nid oes un math o barch, nac un prawf o serchog-rwydd, na ddangosant iddo."

Barn. 5. 25. *Mewn phiol ardderchog y dug hi ymenyn.* Wrth lesaru am y modd hynaws y derbyniwyd ef mewn tŷ yn Tron-yen yn *Norway*, dywed *Dr. Clarke*, (*Travels*, Vol. 5, p. 620.) "Os gofynir am ychydig o ymenyn yn un o'r tai hyn, y mae talp mawr yn nghylch chwech neu wyth pwys yn cael ei ddwyn; ac wedi ei addurno mor odidog, trwy ei wneuthur mewn moldiau, ar y rhai y mae lluniau eglwysi cadeiriol ardderchog iawn, ac amrywiol o ddyfeisiau ereill, fel, yn ol iaith rhai o wragedd ein tyddynwyr ni, yr ystyriem ni mai trueni fyddai ei dori. Trwy y parth hwn o *Norway*, ymddengys mai phiol ymenyn y teulu yw phiol ardderchocaf y teulu; pa le bynag yr eisteddasom i fwyta pryd o fwyd, dangosid y phiol hon, fel yn mhebyll yr hen Arabiaid gynt, pan ddygodd Jael, gwraig Heber y Cenead, ymenyn ar phiol ardderchog."

"Yr oedd yr ymenyn a osodwyd o'n blaen yn hyfryd neillduol: ac wrth holi yn nghylch y ffordd o'i wneuthur, œfais eu bod yn ei wneuthur mewn croen, yr hwn, ar ol dyosg y blew oddiarno, a lanwent yn agos â hufen, ac yna crogent ef wrth drawst, lle y tynai dau o honynt ef yn ol ac yn mlaen, gan ei gadw i ysgwyd yn barhaus hyd nes y ffurfid yr ymenyn." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia*, Vol. 2, p. 540.

Ruth. 2. 14. *Gwlych dy damaid yn y finegr.* Nid ydym i ddeall hyn am finegr wrtho ei hun, ond finegr wedi ei gymmysgu ag ychydig o olew; mae pobl *Algiers* yn caniattau i'w cacthion

truenus ryw ychydig o olew gyda y finegr, a rhoddant iddynt gyda eu bara. Mae *Pitts* yn dywedyd, (*Account*, p. 6,) mai ei ddogn ef, pan mewn caethiwed, oedd pump neu chwech llwyaid o finegr, hanner llwyaid o olew, ychydig o fara cras du, peint o ddwfr, ac ychydig o firwythau yr olew-wydden. *Harmer*, Vol. 3, p. 160.

1 Sam. 14. 25. *A rhai o'r wlad a ddaethant i' goed, lle yr oedd mel ar hyd wneub y tir.* A ni yn gwneuthur ein ffordd trwy lwyni a thir garw, lle ni ellid cael un llwybr i'n tywys a gwneuthur ein taith yn esmwythach, yr Hottentotiaid, wrth ddewis ffordd lyfnach, a wasgerid weithiau yn gryn bell oddiwrth eu gilydd. Trwy yr amgylchiad hwn cawsom beth mel gwyllt hyfryd iawn; dygwyddodd i un o'r bobl weled amrywiol o weny yn myned i dwll yn y ddaear, yr hwn o'r blaen a fuasai yn drigle rhyw fath o wenci. Pan ddechreuodd y bobl agor y twll, did oeddwn i yn dysgwyl y buasem yn dianc rhag cael ein rhwygo yn arswydus; ond hwy a wyddeut mor dda y modd i wneuthur y gorchwyl, fel yr yspeillasant y trychfilod bychain gyda y rhwyddineb a'r diogelwch mwyaf. Cyn iddynt ddechreu cloddio, cynneuwyd tân gerllaw y twll, â choed ir, i beri cwmmwl o fwg. Fel hyn y gwenyn ag oedd yn dychwelyd o'r maes a gedwid rhag dyfod gerllaw y twll, a'r rhai a ehedent allan o'r nyth a gedwid draw. Bu raid i'r lleill o honom, i ochelyd ymosodiad y gwenyn, farchogaeth ymaith, neu sefyll yn y mwg. Cawsom yn nghylch tri phwys o fel, yr hwn, er yn deneu iawn, agos fel dwfr, oedd yn felus a hyfryd iawn, fel y mel goreu yn Lloegr, yn ol fy nhyb i, oddiethr fod y cyfyngder yr oeddwn ynddo yn fy nhueddu i feddwl ei fod yn well nac yr oedd mewn gwirionedd." *Burchell's Travels in Southern Africa*, Vol. 2, p. 81.

1 Sam. 17. 18. *Y deg cosyn.* Mae y Cyfieithad Lladinaidd yn egluro yr ymadrodd hwn, trwy gyfieithu y geiriau Hebraeg, yn ddeg basgedaid o gaws, neu ddeg cosyn wedi eu gwneuthur yn y cyfryw fasgedi. Hyd y dydd hwn yn *Barbary*, "ar ol peri i'r llaeth geulaw â blodau math o ysgall, y maent yn ei osod mewn basgedi bychain, wedi eu gwneuthur o lawfrwyn neu balmwydd byrion; yna rhwymant hwynt yn nghyd yn dŷn a gwasgant hwynt." *Shaw's Travels*, p. 168. *Bochart*, Vol. 2, p. 316.

"Un arall a gynnygiodd laeth i mi mewn basgedi; amgylchiad a barodd i mi ryfeddu yn fawr. 'Beth,' ebe fi, 'llaeth mewn basgedi!' 'Mae y basgedi hyn,' eb efe, 'yn brydferth iawn, ac wedi eu plethu mor dda â chyr, fel y dalant ddwfr,' a buont

wedi hyny o wasanaeth mawr i mi at hyny." *Vaillant's Travels, Vol. 1, p. 422.*

"Yn yr hwyr hwy a anfonasant i ni anrheg o rai basgedeidiau o laeth. Yr oedd y basgedi hyn wedi eu gwneuthur o fath o laswellt garw cyffelyb i gyrs, y rhai a dyfent yn ffynnonau *Zaure Veld*. Maent wedi eu gwneuthur yn gwyrain a hardd iawn, ac mor fanol, fel y gállant ddal y dwfr teneuaf." *Barrow's Travels in Southern Africa, p. 170.*

"Mae y merched hefyd yn nydd-droi edafedd cottwm yn eddi (*fringe*), ac y maent yn parottoi cyrs, a dail rhai coed; ac y mae y bechgyn yn gwneuthur felly hefyd, at wneuthur basgedi: ond gwaith y gwŷr yw gwneuthur y basgedi. Maent yn gyntaf yn lliwio defnyddiau ag amrywiaeth o liwiau bywiog, ac yna yn eu cymmysgu ac yn eu gwau yn hardd iawn. Maent hefyd yn plethu basgedi bychain ar ddull cwppanau â'r gwiaill, mewn modd mor fanol fel y daliant un math o wlybwr heb wneuthur dim yn chwaneid iddynt, heb roddi un math o farnais arnynt; maent yn yfed mor gyffredin o'r cwppanau gweuedig hyn, ag o'r rhai a wnant o'r pren *calabash*, y rhai a liwiant yn gwyrain iawn. Maent yn gwneuthur basgedi o wahanol faintioli at ddwyn eu dillad, neu ddybenion ereill, mewn amrywiaeth mawr o ddulliau; ac mor gadarn, fel y gellwch eu gwasgu, neu eu taflu oddiam-gylch yn y modd y mynoch, heb wneuthur fawr o niwed iddynt." *Waser's Description of the Isthmus of Darien. Collection of Voyages, Vol. 2, p. 80.*

2 Sam. 17. 28. *Cras-ŷd*. Mae cras-ŷd yn fwyd a arferir o hyd yn y Dwyrain, fel yr hysbysa *Hasselquist* i ni, "Ar y ffordd o Acre i Seide gwelsom fugail yn bwyta ei giniaw, sef tywysenau gwenith hanner addfed, y rhai a rostiasai efe, ac a fwyttaai gyda hyfrydwch mawr. Yn yr Aipht arferir y cyfryw fwyd yn aml gan y tlodion, arferant dywysenau gwenith yr India neu eiddo Twrci, ac hefyd arferant fath o filed. Pan ddyfeisiwyd y bwyd hwn gyntaf, nid oedd celfyddyd ond yn ei babandod: etto arferir ef o hyd gan rai cenhedloedd, lle nad yw y trigolion hyd y dydd hwn wedi dysgu y ffordd i fod yn foethus."

Ezra 4. 14. *Cynhaliaeth o lys y brenin*. Ymyl y ddalen—*Yn cael eu halltu â halen y Elys*. Mae rhai wedi tybied fod y geiriau hyn yn cyfeirio at eu gwaith yn derbyn cyflog oddi-wrth y brenin mewn halen; ereill eu bod yn gosod allan gyd-mabyddiaeth eu bod yn cael eu diffynu gan y brenin fel y mae

cig yn cael ei ddiogelu gan halen. Digon, pa fodd bynag, i osod terfyn ar yr holl dybiau hyn yw adrodd geiriau brenin Persiaidd, yn llys yr hwn y bu *Chardin* ryw gymmairt o amser. "Gan godi mewn digllonedd yn erbyn swyddog a gynnygiasai ei dwyllo, efe a dynodd ei gleddyf, syrthiodd arno, ac a'i torodd yn ddarnau wrth draed y rhaglaw Tyrcaidd, yr hwn oedd yn sefyll (a ffafr yr hwn a geisai y dyn druan trwy y twyll hwn), a chan edrych yn graff arno ef, a'r arglwyddi mawrion ereill ag a safent ar bob tu iddo, efe a ddywedodd mewn modd digllon, Y mae genyf y fath weision a bradwyr anniolchgar â'r rhai hyn i *fwyta fy halen*." *Tom. 3, p. 149.* Cefais hysbysrwydd credadwy," medd *Mr. Parkhurst, (Heb. Lex. p. 448, 3d edit.)* ei fod yn ymadrodd cyffredin o eiddo brodorion yr India Ddwyreiniol, "Halen y cyfryw un ydwyf fi;" gan feddwl ei fod yn cael ei borthi ganddo. Yn mysg brodorion y Dwyrain yr oedd halen gynt, ac y mae etto, yn arwydd o hynawsedd a chyfeillgarwch. Mae y dysgedig *Jos. Medz* yn sylwi, (*Works, p. 370, fol.*) "pan fynai ymerawdwr Russia," yn ei amser ef, "qdangos tiriondeb a ffafr anarferol i ryw un, yr anfonai efe iddo *fara* a *halen* oddiar ei fwrdd." A phan wahoddodd efe y Barwn *Sigismund*, cenhadwr yr ymerawdwr *Ferdinand*, efe a wnaeth hyn yn y dull hwn: "Sigismund, chwi a gewch fwyta eich bara a'ch halen gyda mi." Felly *Tamerlane*, yn ei osodiadau, wrth goffâu am un *Share Behraum*, yr hwn a adawsai ei wasanaeth ef, a unasai a'r gelynion, ac a ymladdasai i'w erbyn a ddywed, "O'r diwedd fy *halen yr hwn a fwytasai* efe a'i llanwodd â gofid, efe drachefn a daflodd ei hun ar fy nhrugaredd, ac a ymostyugodd ger fy mron."

"Penaeth, pan ofynwyd iddo pa un, yn ol ammodau yr ymstyngiad, a ddychwelai efe i Nepal, a atebodd, 'Ni allaf fi ddychwelyd mwy, rhaid i mi edrych am wasanaeth yn rhyw le arall: ni allaf byth edrych yn wyneb y rajah drachefn, canys mi a fwyteais halen Ghoorkha. Yr oedd ymddiried wedi ei roddi ynof fi, ac ni bum i farw yn fy lle; ni allwn byth ddychwelyd i'n gwlad.' Yr holl benaethiaid ag oeddynt bresennol a ysgyd wasant eu penau, ac a ddwedasant, 'Na, ni allwn ni ddychwelyd byth mwy.'" *Frazer's Journey through Part of the Snowy Range of the Himala Mountains, 4to. Clarke's Travels, Vol. 2, p. 370. Buckingham's Travels in Palestine, p. 290.*

Job 5. 5. *Yr hwn y bwyty y newymog ei gynhauaf, wedi*

iddo ei gymmeryd o blith drain, a'r sychedig (Saesneg, *yspeil-ydd*) a honc eu cyfoeth. Ymddengys hyn yn gyfeiriad amlwg at yr Arabiaid ag ydynt yn hanner newynu yn yr anialwch, y rhai oeddynt yn wastadol yn barod i yspeilio, fel y mae eu hiliogaeth hyd y dydd hwn. Mae y cyfryw bobl newynog yn cael eu disgrifio fel hyn gan *Volney* (*Voyage, tom. 1, p. 357, French ed.*): "Mae y dynion hyn yn llai, teneuach, a duach na neb o'r *Bedouins* a adwaenwyd hyd yn hyn; nid oedd ar eu cluniau treuliedig ond giau heb gnawd; yr oedd eu boliau yn glynu wrth eu cefnau. Mae y *Bedouins* yn gyffredin yn fychain, teneu, a thywyll, ond yn fwy felly, pa fodd bynag yn nghanol yr anialwch nac ar ymylau y wlad wrteithiedig. Mae y rhai hyn yn gyffredin yn nghylch pump troedfedd a dwy fodfedd o hyd. Anfynych a mae ganddynt fwy nac yn nghylch chwech wns o fwyd dros ddiwrnod cyfan. Chwech neu saith o rawn y pren *date*, wedi eu gwlychu mewn ymenyn toddedig, ac ychydig o laeth, a wasanaethant i ddyndros dros bedair awr ar hngain; ac efe a ymddengys yn happus pan allo chwaneu at hyn ychydig o beilliad garw ac ychydig o *rice*. Mae eu camelod hefyd, y rhai ydynt eu cynhaliaeth penaf, yn deneu iawn, yn byw ar yr ymborth gwaelaf, ac ar ychydig iawn o hono. Mae natur wedi rhoddi iddynt benau bychain, heb glustiau, a gyddfau hirion, heb fawr gnawd; nid oes yn eu coesau un cyhyr (*muscle*) nad yw yn hollol angenrheidiol at ysgogiad: ac, yn fyr, nid oes yn eu cyrph gwywedig ond yn unig y gewynion ag sydd yn ofynol i uno eu gwahanol ranau â'u gilydd; mae ganddynt asgwrn gen cryf, fel y gallant falu yr ymborth caletaf; a' rhag iddynt ddifa gormod, mae natur wedi cyfyngu eu cylla a gwneuthur iddynt gnoi eu cil.

Sal. 107. 5. *Yn newynog ac yn sychedig, eu henaid a lewygodd ymddynt.* "Mae llawer yn trengu gan y syched mwyaf truenus. Mewn amgylchiad fel hwn y teimlir mewn gwirionedd werth cwp-panaid o ddwfr; yr hwn y mae ganddo lestraid o hono yw y cyfoethocaf o bawb: yn y cyfryw amgylchiad, nid oes gwahaniaeth; os bydd y meistr heb ddim ni rydd y gwas beth iddo; caays yn anfynych iawn y ceir dyn yr hwn a fydd boddlon i golli ei einioes i gadw eiddo un arall, yn enwedig mewn mintai yn yr anialwch, lle y mae pobl yn ddyeithriaid i'w gilydd. Y fath sefyllfa i ddyndros fod ynddi, er yn gyfoethog, efallai yn bech-chen llawer o'r eiddo yn y fân! Y mae efe yn marw o eisiau



cwppanaid o ddwfr; nid oes neb a'u rhydd iddo; efe a gynnyg y cwbl sydd ganddo, ond nid oes neb a'i gwrendy; y maent oll yn trengu, er trwy gerdded ychydig o filltiroedd yn mhellach, y gallont gael eu hacbub. Mae y camelod yn gorwedd i' lawr, ac ni ellir gwneuthur iddynt godi; nid oes yn neb nerth i rodio; ond yr hwn y mae ganddo ychydig o'r gwlybwr gwerthfawr hwnw, a rodia filltir yn mhellach, ac efallai yntau hefyd yn marw wedi hyny. Os yw teithiau ar y moroedd yn beryglus, mae rhai yn yr anialwch yn beryglus hefyd. Ar y môr, mae y darpariadau yn fynych yn darfod; yn yr anialwch, teimlir yr un cyfyngder. Ar y môr cyfarfyddir ag ystormydd; yn yr anialwch ni all fod ystorum fwy na ffynnon sech. Ar y môr, cyferfydd un â lladron; efe a ddianc, a rydd ei hun i fynu, neu a fydd farw; yn yr anialwch, yspeilir y teithiwr o'i holl feddiannau a'i ddwfr. Gadewir iddo fyw, efallai, ond y fath fywyd! i farw y farwolaeth greulonaſ a mwyaf blinderus. Yn fyr bod yn sychedig mewn anialwch, heb ddwfr, yn agored i wres llosgawl yr haul, heb gysgod, ac heb obaith am gael y naill na'r llall, yw y sefylla echrysonaf ag a all dyn gael ei osod ynddi, ac un o'r dyoddefiadau mwyaf, yr wyf yn credu, ag a all bod dynol gael ei ddwyn iddo. Mae y llygaid yn myned yn boeth, mae y tafod a'r gwefusau yn chwyddo, clywir swm cau yn y clustiau, yr hwn a ddwg yn mlaen fyddarwch, ac ymddengys fod yr ymenydd yn myned yn dew a phoeth. Cyfyd yr holl deimladau hyn oddiwrth y diffyg o ychydig o ddwfr. Yn nghanol y trueni hwn, y teithiwr a dybia ei fod yn gweled rhywbeth fel llyn neu afon o ddwfr gloyw a iachus, heb fod yn mhell oddiwrtho. Mae yr olwg dwyllodrus hon yn ddigon adnabyddus, ond er y cwbl y mae y teithiwr yn ei gyfyngder yn ymdrechu cyrhaedd yr elfen hòno, ac yn meddwl am y fath hap-pusrwydd a fyddai bod yn y cyfryw fân. Os na chaiff teithiwr ei ddiwylllo, efe a brysura ei gamrau i gyrhaedd y fân yn gynt; pa gyflymaf yr â efe rhagddo, cyflymaf yr â yr olwg ymaith, nes o'r diwedd y diflana hi yn llwyr, ac y mae y teithiwr twyll-edig yn gofyn yn fynych, pa le y mae y dwfr a welodd efe gerllaw iddo. Prin y gall efe gredu iddo gael ei dwyllo yn y fath fodd; efe a haera iddo weled y tônau yn myned o flaen y gwynt, a lluniau y creigiau uchel yn y dwfr." *Belzon's Researches in Egypt*, p. 342.

Diar. 15. 17. *Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad, nac fych*

*pasgedig a chas gydag ef.* Mae y geiriau hyn yn cael eu cyfieithu fel hyn gan y LXX. Κρησσων ενισμος μετα λαχανων προς φιλιαν και χαριν, η παραθεσις μωσων μετα εχθρας, gan eu deall am 'y diwallrwydd a roddid trwy drais i deithwyr, yr hyn yr oedd yr Arabiaid a phobl orchfygedig yn gorfod plygu i'w wneuthur. Nid peth anarferol ydoedd i deithwyr fwyta ar draul rhai na chaent hyfrydwch wrth eu diwallu; a chan mai trwy orfod y gwnaent hyny, achosid casineb trwy hyny. Mae *Dr. Shaw (Travels, Pref. p. 12,)* yn sylwi ar yr amgylchiad hwn. Wrth lefaru am Barbary, efe a ddywed, "Yn y wlad hon, mae yr Arabiaid, naill ai trwy hen arferiad, trwy ryw ammod dan ba un y daliant eu tiroedd, neu rhag ofn ac o herwydd rhwymau, yn gorfod rhoddi i'r *Spahees*, a'u cwmpeini, ddigon o ymborth i ni ein hunain, yn nghyd a gwellt a haidd i'n muled a'n ceffylau. Heblaw dysglaid o laeth, a basgedaid o ffigys, rhesin, neu ffrwythau y pren *date*, y rhai, ar ein dyfodiad, a roddwyd i ni, i dori ein newyn; meistr y babell, lle y llettyem, a gyrchodd o'r praidd, yn el rhifedi ein cwmpeini, fŷn neu afr, oen neu ddafad, hanner y llwdn hwn a ferwyd yn ddiwed gan ei wraig, ac a drimiwyd i ni; torwyd y gweddill yn ddarnau, i'w bobi, a chadwasom ef at forefwyd, &c. y dydd nesaf." Yn y tu dalen nesaf efe a ddywed, "pan ddiwellid ni mewn modd hynaws, (canys ni rydd yr Arabiaid ddim i ni weithiau hyd nes y byddo raid iddynt wneuthur hyny,) arferai yr awdwr roddi i feistr y babell gyllell, ychydig o ddarnau o gallestr, neu ryw ychydig o bylor Seisnig," &c. I attal y fath finteioedd i fyw yn rhad arnynt, mae yr Arabiaid yn gofalu am æfydlu mewn coed, dyffrynoedd, neu leoedd anamlwg, fel y mae yn anhawdd eu cael allan.

*Preg. 7. 6. Clindarddach drain dan grochan.* Tom gwartheg oedd y cynnud a arferid yn gyffredin, ond yr oedd hwn yn araf iawn yn llosgi. Ar y cyfrif hwn bygythiai yr Arabiaid yn fynych losgi dyn â than tom gwartheg fel marwolaeth nychlyd. Dan eu crochanau yn gyffredin yr arferent hwy hwn. Mae y cynnud hwn yn wahanol iawn i ddrain ac eithin, a phethau cyffelyb, y rhai yn ddiâu a losgent yn fuan, gyda y clindarddach y cyfeirir ato yn y geiriau hyn. Wrth gymharu pethau gwahanol y gwelwn rym y gymbariaeth.

Mae y cynnud a arferir yn gyffredin gan bobl y wlad (*yr Aipht*) yn cael-ei barotoi o gymmysgedd o dom camelod, llaid, a gwellt: y pethau hyn wedi eu cynmysgu yn dda, hwy a'u gwnant

yn beleni, ac a'u rhoddant ar furiau eu bythod i grasu yn yr haul. *Clarke's Travels, vol. 3, p. 34.*

“Yn mhob rhan o'r pentref yr oedd pentyrau o ddom gwartheg. y rhai a gasglasid gan y trigolion yn gynnud erbyn y gauaf. Yr oedd muriau eu tai hefyd wedi eu gorchuddio â pheleni o'r un defnyddiau, y rhai oeddynt bryd lyny yn sychu fel chwanegiadau at eu ystôr. Mae plant y bobl gyffredin yn ei gasglu; ac mi a welais yn fynych ddau o'r rhai bychain hyn yn ymryson am dano gyda y gwres mwyaf.” *Morier's Journey through Persia, p. 272.*

“O herwydd prinder coed, y mae tom gwartheg yn cael ei ddefnyddio yn gynnud, ac y mae y bobl yn ei gasglu gyda gofal mawr, gan ei wneuthur yŷ deisenau, y rhai a sychant yn yr haul, at eu gwasanaeth yn y gegin, ac yn enwedig yn y gauaf. *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 5. Walpole's Memoirs of Turkey, vol. 2, p. 388. Forbes's Oriental Memoirs, vol. 3, p. 96. Dubois' Description of the People of India, p. 290.*

Preg. 11. 1. *Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau.* Mae gan yr Arabiaid ddiareb gyffelyb iawn, “Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dyfroedd, efe ryw ddiwrnod a ad-delir i ti.” Mae y Tyrciaid wedi ei benthycu hi oddiar yr Arabiaid, gydag ychydig o gyfnewidiad; yn eu dull hwy y mae hi fel y canlyn: “Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dwfr; hyd yn oed os na wŷbydd y pysgod, etto y Creawdwr a wybydd hyny.” Ystyr y ddiareb Hebraeg, yn gystal a'r un Arabaidd a Thyrciaidd, yw: “Cyfrana dy fara i bawb pobl dlodion, pa un a fyddont adnabyddus neu anadnabyddus i ti; bwrw dy fara hyd yn oed i'r dwfr, heb ofalu pa un a nofia efe ai peidio, ac heb ofalu pwy a gaffo les oddiwrtho, pa un ai dynion ai pysgod; canys hyd yn nod yr elusen hon, yr hon a rodder ar antur, Duw a'i tal yn ol i ti yn gynt neu yn hwyrach.” *Von Dieg's Memorabilia of Asia, vol. 1, p. 106.*

Caniad Solomon 4. 12. *Gardd gauedig yw fy chwaer, a'm dywceddi; ffynnon gloedig, ffynnon seliedig yw.* “Y bore hwn ni a aethom i weled rhai lleoedd nodedig yn nghymmydogaeth Beth'lehem. Y lle cyntaf y cyfeiriasom ein taith ato, oedd y ffynnon a'u, y llynoedd, a'r gerddi ardderchog hyny ag oeddynt o fewn i ychydig o ffordd i Beth'lehem, i'r dehau, y rhai y dywedir iddynt gael eu dyfeisio gan y brenin Solomon, a'u bod yn hyfrydwch iddo. At y gweithiau a'r lleoedd hyn o hyfrydwch tybir fod y

tywysog mawr hwnw yn cyfeirio, Preg. 2, 6, 6, lle, yn mysg yr angreiffitiau ereill o'i fawredd, y cyfrif efe ei erddi, a'i winllanoedd, a'i llynoedd.

"Gyda golwg ar y llynoedd, y maent yn dri mewn rhifedi, yn rhes y naill o flaen y llall, a lle i ddyfroedd yr un uchaf ddisgyn i'r ail, ac eiddo yr ail ddisgyn i'r trydydd. Maent yn bedaironglog; maent yr un lled bob un, sef yn nghylch pedwar ugain a deg o gamrau; mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn eu hyd, mae y cyntaf yn nghylch cant a phedwar ugain a deg o gamrau; yr ail yn nghylch dau cant, y trydydd yn nghylch dau cant a thrugain. Mae mur danynt oll, a hwnw wedi ei ddwbio, a chynnwysant ddyfnder mawr o ddwfr.

"Gerllaw i'r llynoedd y mae castell hardd o wneuthuriad diweddar; ac o fewn yn nghylch cant a deugain o gamrau oddiwrthynt y mae ffynon, o'r hon yn benaf y derbyniant eu dyfroedd. Myn y mynachod pabaidd mai hon yw y *ffynnon seliedig* i'r hon y cymharir y ddyweddi, Caniad Sol. 4, 12; ac yn gadarnhad i'r dyb hon honant draddodiad, fod y brenin Solomon yn cau y ffynnonau hyn, ac yn cadw eu drysau yn seliedig âi sêl ei hun, i'r dyben o gadw y dyfroedd at ei wasanaeth ei hun yn ei burdeb naturiol. Ac nid anhawdd oedd eu cadw fel hyn, gan eu bod o dan wyneb y ddacar, ac heb un ffordd atynt ond trwy dwll bychan cyffelyb i enau ffynnon gul. Trwy y twll hwn y mae y ffordd i waered, ond nid heb anhawsdra y gellir myned dros yn nghylch pedair llathen, yna deuir i ystafell ag iddi fwd (*arch*) hardd yn y nen, yn nghylch pymtheg cam o hyd ac wyth o led. Yn ymyl hon y mae ystafell arall o'r un ddull, ond ryw beth yn llai. Mae y ddwy ystafell hyn wedi eu cuddio â mwd cerig hardd hen iawn, ac efallai yn waith Solomon ei hun.

"Islaw y llynoedd y mae dyffryn cul a cherigog, yn cael ei gau i mewn o bob tu gan fynyddoedd uohel. Myn y mynachod mai hwn yw yr ardd gauedig y cyfeirir ati yn yr un lle ag a nodwyd eisoes. Pa faint o wirionedd a all fod yn y dychymmyg hwn ni allaf ddwedyd yn bendant. Gyda golwg ar y llynoedd, mae yn debygol ddigon y dichon mai yr un rhai ydynt ag eiddo Solomon; gan na cheir y fath gyflawnder o ddwfr ffynnon yn un lle arall trwy holl Wlad Cannan." *Maundrell's Journey, April 1, p. 88, 17th edit.*

Yn mysg yr Iuddewon, ar amser priodas, mae y priob-fab yn

anfon gweddi at Dduw, yn yr hyn y mae y deisyfiad hwn: "Na oddef i ddyeithr fyned i mewn i'r ffynnon santaidd, fel y gallo dy was gadw had santeiddrwydd yn bur, ac na byddo y briodferch yn anffrwythlon." *Addison's Present State of the Jews*, p. 5. *Selden's Uxor*, Hebr. 3. 2.

Esay 3. 1. *Ffon bara*. Bara oedd ac yw y rhan benaf o ym-borth dynion braidd yn mhob gwlad, yn enwedig ynmysg cenhedloedd Dwyreiniol, y rhai, fel y mae *Dr. Shaw (Travels*, p. 280,) yn sylwi, ydynt yn bwyta llawer o fara; cyfrifir fod tri pherson o bob pedwar yn byw yn hollol arno, neu ynte ar y fath fwydd ag a wneir o flawd haidd neu wenith." Felly y mae *Niebuhr (Voyage en Arabie; tom. 1, p. 188,*) yn dywedyd wrthym, mai "prif faeth pobl y Dwyrain, yn gyffredin, yw bara newydd ei bobî: am hyny gofalant yn enwedig na byddont yn ddiffygiol o flawd pan deithiont yn yr anialwch."

Esay 7. 15. *Ymenyn a mel a fwyty efe*. "Hwy a roddasant i ni beth mel ac ymenyn yn nghyd, a bara i'w wlychu ynddo; a Narsah a ddymunodd ar un o'i wŷr i gymmysgu y ddau gyffyr â'u gilydd i ni, gan ein bod ni yn lledchwith gyda y gorchwyl. Yr Arabiad, wedi iddo gvffroi y cymmysgedd yn dda â'i fys, a ddangosodd ei ddehurwydd i'w ddifa yn gystal ag i'w gymmysgu, ac a wobrwyydd ei hun am ei drafferth trwy fwyta ei hanner." *Irby and Mangles, Travels in Egypt, &c.* p. 263.

Esav 21. 14. *Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion Tema, achuboch flaen y crwydrus â'i fara*. Yn lluddedig o herwydd gwres a syched, ni a ddaethom at ychydig o fythod mewn coed palmwydd, ac a arosasom i yfed o ffynnon ag ynddi ddwfr hyfryd iawn. Yn yr hinsawdd gogleddol hwn ni ellir ffurfio un drychfeddwl am yr hyfrydwch o yfed yn yr Aipht: ni theimlir ond ychydig o chwant bwyd; ond pan, ar ol croesi y tywod poethion, y deuwech i res hardd o goed ar lan y Nilus, ac y caffoch yr afalau malynion hirion (*lemons*), ac y cymmysgoch eu sudd â sugyr yr Aipht, a dwfr tyner yr afon, ar ol yr yfoc o'r ddiod hon, teimlwech fod pob pleser arall o eiddo y synwyrâu yn ddim mewn cymhariaeth i hwn. Wrth ystyried hyn gall un weled prydferthwch a grym y cymhariaethau ysgwrthyrol hyny, lle y mae teimladau hyfrytaf y galon yn cael eu cyffelybu i doriad syched mewn tir sychedig." *Carne's Letters from the East*, vol. 2, p. 111.

Galar 1. 11. *Hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddad-*

*ebur yr enaid.* "Casodd gemau ag addurniadau un o fonedd-igesau y Moguliaid eu gwerthu yn angyhoedd mewn modd isel iawn er cael angenrheidiau bywyd. Yn ystod fy arosiad byr i, gwelais lawer o bethau yn cael eu gwerthu yn y modd hwn, yn enwedig drych bychan, yn nghanol maen gwerthfawr a elwir *agate*, wedi ei addurno â dail euraid, a gemau bychain ar ddull rhosynau, yr hwn a brynasid gan foneddiges weddw yn mysg y Moguliaid, am ddeg *rupee* yn unig. Am y cyfryw wlad gellid dywedyd yn briodol, fod ei gwryfon yn gystuddiedig, a'i gwragedd yn anrheithiedig; hwy a ucheneidiant am fara; hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd." *Forbes's Oriental Memoirs, vol. 3, p. 121.*

Galar. 4. 8. *Duach yw y golwg arnynt na'r gloyn.* Gwneir yr un darluniad o effeithiau newyn o hyd yn y gwledydd hyny. Dywed *Sir John Chardin* wrthym, (*Voy. tom. 3, p. 173,*) fod pobl gyffredin Persia, i osod allan ddyoddefiadau Hossein, wŷr i'w proffwyd Mohammed, ac un o'u saint ardderchocaf yr hwn a ffordd i'r diffaethwch o flaen ei elynion buddugol, y rhai a'i hymldiasant dros ddeg diwrnod yn nghyd, ac o'r diwedd a'i goddiweddasant, bron marw gan y poethder, syched, a lludded, ac a'i lladdasant gan roddi iddo lawer o archollion, mewn coffadwriaeth am yr hyn y cadwant ddeg diwrnod yn flynyddol gyda difrifoldeb mawr; bydd y bobl gyffredin yr amser hwnw, yn gosod allan yr hyn a ddyoddefodd efe, "yn ymddangos yn hollol noeth, oddieithr y manau hyny ag y mae gwylder yn gofyn iddynt gael eu cuddio, ac wedi dup eu hunain oll drostynt; tra y mae ereill wedi lliwio eu hunain â gwaed; ereill yn rhedig o amgylch yr heolydd, â tafodau yn crogi allan o'u geneuau fel pobl bron syrthio gan ludded, a chan ymddwyn fel pobl mewn anobaith, gan waeddi â'u holl nerth, Hossein, &c. Y rhai a liwiasent eu hunain yn ddu, a fwriadent ddangos y cyfyngder o herwydd syched a gwres yr hwn a ddyoddefodd Hossein, yr hwn oedd gymmaint, meddant, fel y trodd efe yn ddu, ac y chwyddodd ei dafod allan o'i enau. Y rhai oeddynt yn orchuddedig â gwaed, a fwriadent osod allan y modd creulon yr archollasid ef, fel y rhedodd ei holl waed o'i wythenau cyn iddo farw."

Galar 5. 10. *Ein croen a dduodd fel fiwrn.* Yr oedd ffyrnau symmudadwy yn cael eu harfer yn fynychn yn y Dwyrain, ac yr oeddynt yn rhan o ddodrefn teithwyr Dwyrainiol. Ymddengys fod y ffyrnau hyn wedi cael eu ffurfio o wahanol ddefnyddiau,

truenus ryw ychydig o olew gyda y finegr, a rhoddant iddynt gyda eu bara. Mae *Pitts* yn dywedyd, (*Account*, p. 6,) mai ei ddogrn ef, pan mewn caethiwed, oedd pump neu chwech llwyaid o finegr, hanner llwyaid o olew, ychydig o fara cras du, peint o ddwfr, ac ychydig o firwythau yr olew-wydden. *Harmer*, Vol. 3, p. 160.

1 Sam. 14. 25. *A rhai o'r wlad a ddaethant i goed, lle yr oedd mel ar hyd wnech y tir.* A ni yn gwneuthur ein ffordd trwy lwyni a thir garw, lle ni ellid cael un llwybr i'n tywys a gwneuthur ein taith yn esmwythach, yr Hottentotiaid, wrth ddewis ffordd lyfnaoh, a wasgerid weithiau yn gryn bell oddiwrth eu gilydd. Trwy yr amgylchiad hwn cawsom beth mel gwyllt hyfryd iawn; dygwyddodd i un o'r bobl weled amrywiol o weny yn myned i dwll yn y ddaear, yr hwn o'r blaen a fuasai yn drigle rhyw fath o wenci. Pan ddechreuodd y bobl agor y twll, did oeddwn i yn dysgwyl y buasem yn dianc rhag cael ein rhwygo yn arswydus; ond hwy a wyddeut mor dda y modd i wneuthur y gorchwyl, fel yr yspeiliasant y trychfilod bychain gyda y rhwyddineb a'r diogelwch mwyaf. Cyn iddynt ddechreu cloddio, cynneuwyd tân gerllaw y twll, â choed ir, i beri cwmmwl o fwg. Fel hyn y gwenyn ag oedd yn dychwelyd o'r maes a gedwid rhag dyfod gerllaw y twll, a'r rhai a ehedent allan o'r nyth a gedwid draw. Bu raid i'r lleill o honom, i ochelyd ymosodiad y gwenyn, farchogaeth ymaith, neu sefyll yn y mwg. Cawsom yn nghylch tri phwys o fel, yr hwn, er yn deneu iawn, agos fel dwfr, oedd yn felus a hyfryd iawn, fel y mel goreu yn Lloegr, yn ol fy nhyb i, oddiethr fod y cyfyngder yr oeddwn ynddo yn fy nhueddu i feddwl ei fod yn well nac yr oedd mewn gwirionedd." *Burchell's Travels in Southern Africa*, Vol. 2, p. 81.

1 Sam. 17. 18. *Y deg cosyn.* Mae y Cyfieithad Lladinaidd yn egluro yr ymadrodd hwn, trwy gyfieithu y geiriau Hebraeg, yn ddeg basgedaid o gaws, neu ddeg cosyn wedi eu gwneuthur yn y cyfryw fasgedi. Hyd y dydd hwn yn *Barbary*, "ar ol peri i'r llaeth geulaw â blodau math o ysgall, y maent yn ei osod mewn basgedi bychain, wedi eu gwneuthur o lawfrwyn neu balmwydd byrion; yna rhwymant hwynt yn nghyd yn dŷn a gwasgant hwynt." *Shaw's Travels*, p. 168. *Bochart*, Vol. 2, p. 316.

"Un arall a gynnygiodd laeth i mi mewn basgedi; amgylchiad a barodd i mi ryfeddu yn fawr. 'Beth,' ebe fi, 'llaeth mewn basgedi!' 'Mae y basgedi hyn,' eb efe, 'yn brydferth iawn, ac wedi eu plethu mor dda â chyrs, fel y dalant ddwfr,' a buont

wedi hyny o wasanaeth mawr i mi at hyny." *Vaillant's Travels, Vol. 1, p. 422.*

"Yn yr hwyr hwy a anfonasant i ni anrheg o rai basgedeidiau o laeth. Yr oedd y basgedi hyn wedi eu gwneuthur o fath o laswellt garw cyffelyb i gyrs, y rhai a dyfent yn ffynnonau *Zaire Veld*. Maent wedi eu gwneuthur yn gwyrain a hardd iawn, ac mor fanol, fel y gállant ddal y dwfr teneuaf." *Barrow's Travels in Southern Africa, p. 170.*

"Mae y merched hefyd yn nydd-droi edafedd cottwm yn eddi (*fringe*), ac y maent yn parottoi cyrs, a dail rhai coed; ac y mae y bechgyn yn gwneuthur felly hefyd, at wneuthur basgedi: ond gwaith y gwŷr yw gwneuthur y basgedi. Maent yn gyntaf yn lliwio defnyddiau ag amrywiaeth o liwiau bywiog, ac yna yn eu cymmysgu ac yn eu gwau yn hardd iawn. Maent hefyd yn plethu basgedi bychain ar ddull cwppanau â'r gwiaill, mewn modd mor fanol fel y daliant un math o wlybwr heb wneuthur dim yn chwanege iddynt, heb roddi un math o farnais arnynt; maent yn yfed mor gyffredin o'r cwppanau gweuedig hyn, ag o'r rhai a wnant o'r pren *calabash*, y rhai a liwiant yn gwyrain iawn. Maent yn gwneuthur basgedi o wahanol faintioli at ddwyn eu dillad, neu ddybenion ereill, mewn amrywiaeth mawr o ddulliau; ac mor gadarn, fel y gellwch eu gwasgu, neu eu tafu oddiam-gylch yn y modd y mynoch, heb wneuthur fawr o niwed iddynt." *Waser's Description of the Isthmus of Darien. Collection of Voyages, Vol. 2, p. 80.*

2 Sam. 17. 28. *Cras-ŷd*. Mae cras-ŷd yn fwyd a arferir o hyd yn y Dwyrain, fel yr hysbysa *Hasselquist* i ni, "Ar y ffordd o Acre i Seide gwelsom fugail yn bwyta ei giniaw, sef tywysenau gwenith hanner addfed, y rhai a rostiasai efe, ac a fwyttaai gyda hyfrydwch mawr. Yn yr Aipht arferir y cyfryw fwyd yn aml gan y tlodion, arferant dywysenau gwenith yr India neu eiddo Twrci, ac hefyd arferant fath o filed. Pan ddyfeisiwyd y bwyd hwn gyntaf, nid oedd celfyddyd ond yn ei babandod: etto arferir ef o hyd gan rai cenhedloedd, lle nad yw y trigolion hyd y dydd hwn wedi dysgu y ffordd i fod yn foethus."

Ezra 4. 14. *Cynhaliaeth o lys y brenin*. Ymyl y ddalen—*Yn cael eu halltu â halen y Hys*. Mae rhai wedi tybied fod y geiriau hyn yn cyfeirio at eu gwaith yn derbyn cyflog oddi-wrth y brenin mewn halen; ereill eu bod yn gosod allan gyd-mabyddiaeth eu bod yn cael eu diffynu gan y brenin fel y mae



cig yn cael ei ddiogelu gan halen. Digon, pa fodd bynag, i osod terfyn ar yr holl dybiau hyn yw adrodd geiriau brenin Persiaidd, yn llys yr hwn y bu *Chardin* ryw gymmaiht o amser. "Gan godi mewn digllonedd yn erbyn swyddog a gynnygiasai ei dwyllo, efe a dynodd ei gleddyf, syrthiodd arno, ac a'i torodd yn ddarnau wrth draed y rhaglaw Tyrcaidd, yr hwn oedd yn sefyll (a ffafwr yr hwn a geisai y dyn druan trwy y twyll hwn), a chan edrych yn graff arno ef, a'r arglwyddi mawrion ereill ag a safent ar bob tu iddo, efe a ddywedodd mewn modd digllon, Y mae genyf y fath weision a bradwyr anniolchgar â'r rhai hyn i *fwyta fy halen.*" *Tom. 3, p. 149.* Cefais hysbysrwydd credadwy," medd *Mr. Parkhurst, (Heb. Lex. p. 448, 3d edit.)* ei fod yn ymadrodd cyffredin o eiddo brodorion yr India Ddwyreiniol, "Halen y cyfryw un ydwyf fi;" gan feddwl ei fod yn cael ei borthi ganddo. Yn mysg brodorion y Dwyrain yr oedd halen gynt, ac y mae etto, yn arwydd o hynawsedd a chyfeillgarwch. Mae y dysgedig *Jos. Mede* yn sylwi, (*Works, p. 370, fol.*) "pan fynai ymerawdwr Russia," yn ei amser ef, "qdangos tiriondeb a ffafwr anarferol i ryw un, yr anfonai efe iddo *fara* a *halen* oddiar ei fwrdd." A phan wahoddodd efe y Barwn *Sigismund*, cenhadwr yr ymerawdwr *Ferdinand*, efe a wnaeth hyn yn y dull hwn: "Sigismund, chwi a gewch fwyta eich bara a'ch halen gyda mi." Felly *Tamerlane*, yn ei osodiadau, wrth goffâu am un *Share Behraum*, yr hwn a adawsai ei wasanaeth ef, a unasai a'r gelynydd, ac a ymladdasai i'w erbyn a ddywed, "O'r diwedd fy *halen yr hun* a *fwytasai* efe a'i llanwodd â gofid, efe drachefn a daflodd ei hun ar fy nhrugaredd, ac a ymostyugodd ger fy mron."

"Penaeth, pan ofynwyd iddo pa un, yn ol ammodau yr ym-ostyngiad, a ddychwelai efe i Nepaul, a atebodd, 'Ni allaf ni ddychwelyd mwy, rhaid i mi edrych am wasanaeth yn rhyw le arall: ni allaf byth edrych yn wyneb y rajah drachefn, canys mi a fwyteais halen Ghoorkha. Yr oedd ymddiried wedi ei roddi ynof fi, ac ni bum i farw yn fy lle; ni allwn byth ddychwelyd i'n gwlad.' Yr holl bennaethiaid ag oeddynt bresennol a ysgyd wasant eu penau, ac a ddwedasant, 'Na, ni allwn ni ddychwelyd byth mwy.'"

*Frazer's Journey through Part of the Snowy Range of the Himala Mountains, 4to. Clarke's Travels, Vol. 2, p. 370. Buckingham's Travels in Palestine, p. 290.*

Job 5. 5. *Yr hun y bwyty y newynog ei gynhauaf, wedi*

y preswlydd. Yn mysg y eydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dâl gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diweddaf, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-faingc, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r cydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrciaid, yn achlysur fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Mŷn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymwth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, efe a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgyblion, *yn gwoledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blaew tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniaw yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd mŷn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a mŷn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliath." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydferth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd mŷn, a dygwyd cryn lawer o laeth

cwppanaid o ddwfr; nid oes neb a'u rhydd iddo; efe a gynnyg y cwbl sydd ganddo, ond nid oes neb a'i gwrendy; y maent oll yn trengu, er trwy gerdded ychydig o filltiroedd yn mhellach, y gallont gael eu hacub. Mae y camelod yn gorwedd i lawr, ac ni ellir gwneuthur iddynt godi; nid oes yn neb nerth i rodio; ond yr hwn y mae ganddo ychydig o'r gwlybwr gwerthfawr hwnw, a rodia filltir yn mhellach, ac efallai yntau hefyd yn marw wedi hyny. Os yw teithiau ar y moroedd yn beryglus, mae rhai yn yr anialwch yn beryglus hefyd. Ar y môr, mae y darpariadau yn fynych yn darfod; yn yr anialwch, teimlir yr un cyfyngder. Ar y môr cyfarfyddir ag ystormydd; yn yr anialwch ni all fod ystorum fwy na ffynnon sech. Ar y môr, cyferfydd un â lladron; efe a ddianc, a rydd ei hun i fynu, neu a fydd farw; yn yr anialwch, yspeilir y teithiwr o'i holl feddiannau a'i ddwfr. Gadewir iddo fyw, efallai, ond y fath fywyd! i farw y farwolaeth greulonaſ a mwyaf blinderus. Yn fyr bod yn sychedig mewn anialwch, heb ddwfr, yn agored i wres llosgawl yr haul, heb gysgod, ac heb obaith am gael y naill na'r llall, yw y sefylla echrystonaf ag a all dyn gael ei osod ynddi, ac un o'r dyoddefiadau mwyaf, yr wyf yn credu, ag a all bod dynol gael ei ddwyn iddo. Mae y llygaid yn myned yn boeth, mae y tafod a'r gwefusau yn chwyddo, clywir swm cau yn y clustiau, yr hwn a ddwg yn mlaen fyddarwch, ac ymddengys fod yr ymenydd yn myned yn dew a phoeth. Cyfyd yr holl deimladau hyn oddiwrth y diffyg o ychydig o ddwfr. Yn nghanol y trueni hwn, y teithiwr a dybia ei fod yn gweled rhywbeth fel llyn neu afon o ddwfr gloyw a iachus, heb fod yn mhell oddiwrtho. Mae yr olwg dwyllodrus hon yn ddigon adnabyddus, ond er y cwbl y mae y teithiwr yn ei gyfyngder yn ymdrechu cyrhaedd yr elfen hòno, ac yn meddwl am y fath hap-pusrwydd a fyddai bod yn y cyfryw fân. Os na chaiff teithiwr ei ddiwylllo, efe a brysura ei gamrau i gyrhaedd y fân yn gynt; pa gyflymaf yr â efe rhagddo, cyflymaf yr â yr olwg ymaith, nes o'r diwedd y diflana hi yn llwyr, ac y mae y teithiwr twyll-edig yn gofyn yn fynych, pa le y mae y dwfr a welodd efe gerllaw iddo. Prin y gall efe gredu iddo gael ei dwyllo yn y fath fodd; efe a haera iddo weled y tônau yn myned o flaen y gwynt, a lluniau y creigiau uchel yn y dwfr." *Belzon's Researches in Egypt, p. 342.*

Diar. 15. 17. *Gwell yw prŷd o ddail lle byddo cariad, nac ŷch*

*pasgedig a chas gydag ef.* Mae y geiriau hyn yn cael eu cyfieithu fel hyn gan y LXX. Κρεισσων ενισμος μετα λαχανω προς φιλαν και χαρν, η παραθεσις μοςχων μετα εχθρας, gan eu deall am 'y diwallrwydd a roddid trwy drais i deithwyr, yr hyn yr oedd yr Arabiaid a phobl orchfygedig yn gorfod plygu i'w wneuthur. Nid peth anarferol ydoedd i deithwyr fwyta ar draul rhai na chaent hyfrydwch wrth eu diwallu; a chan mai trwy orfod y gwnaent hyn, achosid casineb trwy hyny. Mae *Dr. Shaw (Travels, Pref. p. 12.)* yn sylwi ar yr amgylchiad hwn. Wrth lefaru am Barbary, efe a ddywed, "Yn y wlad hon, mae yr Arabiaid, naill ai trwy hen arferiad, trwy ryw ammod dan ba un y daliant eu tiroedd, neu rhag ofn ac o herwydd rhwymau, yn gorfod rhoddi i'r *Spahees*, a'u cwmpeini, ddigon o ymborth i ni ein hunain, yn nghyd a gwellt a haidd i'n mulod a'n ceffylau. Heblaw dysglaid o laeth, a basgedaid o ffigys, rhesin, neu ffrwythau y pren *date*, y rhai, ar ein dyfodiad, a roddwyd i ni, i dori ein newyn; meistr y babell, lle y llettyem, a gyrchodd o'r praidd, yn el rhifedi ein cwmpeini, fŷn neu afr, oen neu ddafad, hanner y llwdn hwn a ferwyd yn ddioed gan ei wraig, ac a drimiwyd i ni; torwyd y gweddill yn ddarnau, i'w bobi, a chadwasom ef at forefyd, &c. y dydd nesaf." Yn y tu dalen nesaf efe a ddywed, "pan ddiwellid ni mewn modd hynaws, (canys ni rydd yr Arabiaid ddim i ni weithiau hyd nes y byddo raid iddynt wneuthur hyny,) arferai yr awdwr roddi i feistr y babell gylllell, ychydig o ddarnau o gallestr, neu ryw ychydig o bylor Seisnig," &c. I attal y fath finteioedd i fyw yn rhad arnynt, mae yr Arabiaid yn gofalu am sefydlu mewn coed, dyffrynoedd, neu leoedd anamlwg, fel y mae yn anhawdd eu cael allan.

*Preg. 7. 6. Clindarddach drain dan grochan.* Tom gwartheg oedd y cynnud a arferid yn gyffredin, ond yr oedd hwn yn araf iawn yn losgi. Ar y cyfrif hwn bygythiai yr Arabiaid yn fynych losgi dyn â than tom gwartheg fel marwolaeth nychlyd. Dan eu crochanau yn gyffredin yr arferent hwy hwn. Mae y cynnud hwn yn wahanol iawn i ddrain ac eithin, a phethau cyffelyb, y rhai yn ddiâu a losgent yn fuan, gyda y clindarddach y cyfeirir ato yn y geiriau hyn. Wrth gymharu pethau gwahanol y gwelwn rym y gymhariaeth.

Mae y cynnud a arferir yn gyffredin gan bobl y wlad (*yr Aipht*) yn cael-ei barotoi o gymmysgedd o dom camelod, llaid, a gwellt: y pethau hyn wedi eu cymmysgu yn dda, hwy a'u gwnant

yn yr hwn y coffeir pan na allai hi lwyddo gydag ef i gyd-synio â'i dymuniadau, hi a'i daliodd ef erbyn ei wisg, gan ddywedyd, *Gorwedd gyda mi; yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi, ac a ffodd, ac a aeth allan: a phan gyhuddodd hi Joseph wrth ei gwr, hi a ddangosodd y wisg fel prawf o'i euog-rwydd, gan ddywedyd, Yr Hebrëwas yr hun a ddygaist i ni, a ddaeth attaf i'm gwaradwyddo; ond pan ddyrchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl, ac a ffodd allan: ac yn ddioed wrth glywed y geiriau hyn, ennynodd digllonedd [Putiphar, a rhoddwyd Joseph mewn carchar. Yn awr, ymddengys wrth ddarllen hyn heb eglurhad, i Putiphar, yr hwn yr ymddengys ei fod yn ddyn da, weithredu ar yr achlysur hwn yn anghyfiawn iawn, gan nad ymddengys iddo wneuthur un ymfyniad yn nghylch euogrwydd Joseph, ond iddo ar unwaith, ar haeriad ei wraig, ei roddi mewn carchar. Yn y gwrthwyneb, os oedd yr un arferiad ag sydd yn awr yn gyffredin yn Abyssinia, yn ffynu yr amser hwnw yn yr Aipht, gwelir i Putiphar weithredu yn gyfiawn, yn ol rheol sefydledig y wlad, gan yr ystyrir hyn yn wastad fel prawf sicr o euogrwydd, yr hwn ni ofyn am i dystiolaeth bellach gael ei dwyn, os bydd i ddyn wedi yr ymafler unwaith yn ei wisg, redeg ymaith, a gadael ei wisg ar ol." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 409.*

Gen. 45. 22. *I bob un o honynt oll y rhoddes bwr o ddillad.* Ymddengys fod anrhegion o ddillad yn bethau cyffredin yn mysg pob gradd yn y Dwyrain. Mae yr ymadrodd a goffawyd yn awr yn angrafft o hyny. Gwelw hefyd 2 Cron. 9. 24. Cedwir yr arferiad hon o hyd. Mae *De la Mottraye* yn ein cynnysgaeddu â hysbysrwydd neillduol yn nghylch hyn. "Y prif weinidog Tyrcaidd a aeth i mewn trwy ddrws arall, y cenhadon a godasant i'w aneroch ef yn ol eu harfer, yr hyn a ddychwelodd efe trwy ostwng ychydig ar ei ben: wedi hyny efe a eisteddodd i lawr ar gongl yr esmwyth-faingc, yr hwn yw y lle anrhydeddusaf; yna ei ganghellydd, ac ereill o'i swyddwyr, a ddaethant ac a safasant o'i flaen, hyd nes y dygwyd *coffee* i mewn; swyddwr Ffrainc a gyflwynodd un arall iddo fel ei olynydd ef, yr hwn a draddododd iddo ef lythyrâu ei feistr, y rhai a dalent foes iddo oddiwrth ei fawrhydi ac yntau ei hun, i'r rhai yr atebodd y prif swyddog Tyrcaidd yn hynaws iawn; yna, ar ol peth ymddyddan, yn nghylch y parodrwydd o'r

tywysog mawr hwnw yn cyfeirio, Preg. 2, b, b, lle, yu mysg yr angricffiaau ereill o'i fawredd, y cyfrif efe ei erddi, a'i winllan-oedd, a'i llynoedd.

“Gyda golwg ar y llynoedd, y maent yn dri mewn rhifedi, yn rhes y naill o flaen y llall, a lle i ddyfroedd yr un uchaf ddisgyn i'r ail, ac eiddo yr ail ddisgyn i'r trydydd. Maent yn bedair-onglog; maent yr un lled bob un, sef yn nghylch pedwar ugain a deg o gamrau; mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn eu hyd, mae y cyntaf yn nghylch cant a phedwar ugain a deg o gamrau; yr ail yn nghylch dau cant, y trydydd yn nghylch dau cant a thrugain. Mae mur danynt oll, a hwnw wedi ei ddwbio, a chynnwysant ddyfnder mawr o ddwfr.

“Gerllaw i'r llynoedd y mae castell hardd o wneuthuriad diweddar; ac o fewn yn nghylch cant a deugain o gamrau oddiwrthynt y mae ffynon, o'r hon yn benaf y derbyniant eu dyfroedd. Myn y mynachod pabaidd mai hon yw y *ffynnon seliedig* i'r hon y cymharir y ddyweddi, Caniad Sol. 4, 12; ac yn gadarnhad i'r dyb hon honant draddodiad, fod y brenin Solomon yn cau y ffynnonau hyn, ac yn cadw eu drysau yn seliedig âi sêl ei hun, i'r dyben o gadw y dyfroedd at ei wasanaeth ei hun yn ei burdeb naturiol. Ac nid anhawdd oedd eu cadw fel hyn, gan eu bod o dan wyneb y ddaear, ac heb un ffordd atynt ond trwy dwll bychan cyffelyb i enau ffynnon gul. Trwy y twll hwn y mae y ffordd i waered, ond nid heb anhawsdra y gellir myned dros yn nghylch pedair llathen, yna deuir i ystafell ag iddi fwd (*arch*) hardd yn y nen, yn nghylch pymtheg cam o hyd ac wyth o led. Yn ymyl hon y mae ystafell arall o'r un ddull, ond ryw beth yn llai. Mae y ddwy ystafell hyn wedi eu cuddio â mwd cerig hardd hen iawn, ac efallai yn waith Solomon ei hun.

“Islaw y llynoedd y mae dyffryn cul a cherigog, yn cael ei gau i mewn o bob tu gan fynyddoedd uchel. Myn y mynachod mai hwn yw yr ardd gauedig y cyfeirir ati yn yr un lle ag a nodwyd eisoes. Pa faint o wirionedd a all fod yn y dychymmyg hwn ni allaf ddwedyd yn bendant. Gyda golwg ar y llynoedd, mae yn debygol ddigon y dichon mai yr un rhai ydynt ag eiddo Solomon; gan na cheir y fath gyflawnder o ddwfr ffynnon yn un lle arall trwy holl Wlad Cannan.” *Maxwell's Journey, April 1, p. 88, 7th edit.*

Yn mysg yr Iuddewon, ar amser priodas, mae y priob-fab yn

anfon gweddi at Dduw, yn yr hyn y mae y deisyfiad hwn: "Na oddef i ddyeithr fyned i mewn i'r ffynnon santaidd, fel y gallo dy was gadw had santeiddrwydd yn bur, ac na byddo y briodferch yn anffrwythlon." *Addison's Present State of the Jews*, p. 5. *Selden's Uxor*, Hebr. 3. 2.

Esay 3. 1. *Ffon bara*. Bara oedd ac yw y rhan benaf o ym-borth dynion braidd yn mhob gwlad, yn enwedig yn mysg cenhedloedd Dwyreiniol, y rhai, fel y mae *Dr. Shaw (Travels*, p. 230,) yn sylwi, vdynt yn bwyta llawer o fara; cyfrifir fod tri pherson o bob pedwar yn byw yn hollol arno, neu ynte ar y fath fwydd ag a wneir o flawd haidd neu wenith." Felly y mae *Niebuhr (Voyage en Arabie; tom. 1, p. 188)* yn dywedyd wrthym, mai "prif faeth pobl y Dwyrain, yn gyffredin, yw bara newydd ei bobî: am hyny gofalant yn enwedig na byddont yn ddiffygiol o flawd pan deithiont yn yr anialwch."

Esay 7. 15. *Ymenyn a mel a fwyty efe*. "Hwy a roddasant i ni beth mêl ac ymenyn yn nghyd, a bara i'w wlychu ynddo; a Narsah a ddymunodd ar un o'i wŷr i gymmysgu y ddau gyffyr â'u gilydd i ni, gan ein bod ni yn lledchwith gyda y gor-chwyl. Yr Arabiad, wedi iddo gvffroi y cymmysgedd yn dda â'i fys, a ddangosodd ei ddehurwydd i'w ddifa yn gystal ag i'w gymmysgu, ac a wobrwyydd ei hun am ei drafferth trwy fwyta ei hanner." *Irby and Mangles, Travels in Egypt, &c.* p. 263.

Esav 21. 14. *Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion Tema, achuboch flaen y crwydrus â'i fara*. Yn lluddedig o herwydd gwres a syched, ni a ddaethom at ychydig o fythod mewn coed palmwydd, ac a arosasom i yfed o ffynnon ag ynddi ddwfr hyfryd iawn. Yn yr hinsawdd gogleddol hwn ni ellir ffurfio un drychfeddwl am yr hyfrydwch o yfed yn yr Aipht: ni theimlir ond ychydig o chwant bwyd; ond pan, ar ol croesi y tywod poethion, y deuwch i res hardd o goed ar lan y Nilus, ac y caffoch yr afalau melynion hirion (*lemons*), ac y cymmysgoch eu sudd â sugyr yr Aipht, a dwfr tyner yr afon, ar ol yr yfoc o'r ddiod hon, teimluch fod pob pleser arall o eiddo y synwrau yn ddim mewn cymhariaeth i hwn. Wrth ystyried hyn gall un weled prydferthwch a grym y cymhariaethau ysgwrthyrol hyny, lle y mae teimladau hyfrytaf y galon yn cael eu cyffelybu i doriad syched mewn tir sychedig." *Carne's Letters from the East*, vol. 2, p. 111.

Galar 1. 11. *Hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddad-*

*eburu yr enaid.* "Casodd gemau ag addurniadau un o fonedd-igesau y Moguliaid eu gwerthu yn angyhoedd mewn modd iael iawn er cael angenrheidiâu bywyd. Yn ystod fy arosiad byr i, gwelais lawer o bethau yn cael eu gwerthu yn y modd hwn, yn enwedig drych bychan, yn nghanol maen gwerthfawr a elwir *agate*, wedi ei addurno â dail euraid, a gemau bychain ar ddull rhosynau, yr hwn a brynasid gan foneddiges weddw yn mysg y Moguliaid, am ddeg *rupees* yn unig. Am y cyfryw wlad gellid dywedyd yn briodol, fod ei gwryfôn yn gystuddiedig, a'i gwragedd yn anrheithiedig; hwy a ucheneidiant am fara; hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd." *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 121.

Galar. 4. 8. *Duach yw y golwg arnynt na'r gloyn.* Gwneir yr un darluniad o effeithiau newyn o hyd yn y gwledydd hyny. Dywed Sir John Chardin wrthym, (*Voy. tom. 3, p. 173.*) fod pobl gyffredin Persia, i osod allan ddyoddefiadau Hossein, wŷr i'w proffwyd Mohammed, ac un o'u saint ardderchocaf yr hwn a fiodd i'r diffaethwch o flaen ei elynion buddugol, y rhai a'i hymldiasant dros ddeg diwrnod yn nghyd, ac o'r diwedd a'i goddiweddasant, bron marw gan y poethder, syched, a lludded, ac a'i lladdasant gan roddi iddo lawer o archollion, mewn coffadwriaeth am yr hyn y cadwant ddeg diwrnod yn flynyddol gyda difrifoldeb mawr; bydd y bobl gyffredin yr amser hwnw, yn gosod allan yr hyn a ddyoddefodd efe, "yn ymddangos yn hollol noeth, oddieithr y manau hyny ag y mae gwyllder yn gofyn iddynt gael eu cuddio; ac wedi dup eu hunain oll drostynt; tra y mae ereill wedi lliwio eu hunain â gwaed; ereill yn rhedig o amgylch yr heolydd, âu tafodau yn crogi allan o'u geneuau fel pobl bron syrthio gan ludded, a chan ymddwyn fel pobl mewn anobaith. gan waeddi â'u holl nerth, Hossein, &c. Y rhai a liwiasent eu hunain yn ddu, a fwriadent ddangos y cyfyngder o herwydd syched a gwres yr hwn a ddyoddefodd Hossein, yr hwn oedd gymmaint, meddant, fel y trodd efe yn ddu, ac y chwyddodd ei dafod allan o'i enau. Y rhai oeddynt yn orchuddedig â gwaed, a fwriadent osod allan y modd creulon yr archollasid ef, fel y rhedodd ei holl waed o'i wythenau cyn iddo farw."

Galar 5. 10. *Ein croen a dduodd fel ffwrn.* Yr oedd ffyrnau symmudadwy yn cael eu harfer yn fynych yn y Dwyrain, ac yr oeddynt yn rhan o ddodrefn teithwyr Dwyreiniol. Ymddengys fod y ffyrnau hyn wedi cael eu ffurfio o wahanol ddefnyddiau,



yn ol graddau eu perchenogion. Y rhai y cyfeirir atynt gan Jeremiah wrth ddesgrifio cyfyngderau preswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, *ein croen a dduodd fel ffwrn gan y newyn tost*, ymddengys eu bod o fath isel, ac yn perthynu, fel y mae yn fwyaf tebygol, i'r dosparth cyffredin o deithwyr. Er y cwbl yr oedd rhai ereill o fath llawer uwch, hyd yn oed o fetteloedd gwerthfawr iawn. Fel hyn hysbysir i ni, mewn chwedl Arabaidd, a gyfieithwyd yn 1786, o ysgrifen anghyoeiddig, mai rhan o fwyd yr olynnydd hwnw i Mohammed a elwir *Vathek*, ar ei deithau, oedd teisenau moethus, y rhai a bobasid mewn ffyrnau arian. Mae St. Jerome yn desgrifio ffwrn Ddwyreiniol fel llestr crwn o bres, wedi cael ei dduo ar un tu gan y tân a'i cylchynai, er peri gwres o fewn.

Ezec. 4. 15. *Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele, mi a roddais it' fiswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.* O herwydd diffyg coed, defnyddir tom camelod yn gynnud yn y Dwyrain. Mae Shaw, yn ei ragymadrodd i'w *Deithiau*, lle y rhydd efe ddesgrifiad manol o'r dull o deithio yn y Dwyrain, yn dywedyd, o herwydd prinder tanwydd, pan byddai arnynt eisiau pobi neu ferwi rhywbeth, mai tom y camelod yr hwn a gefnid yn y manau lle yr arosasai minteioedd blaenorol, oedd eu cynnud arferol; yr hwn, ar ol bod yn yr haul dros ddau neu dri diwrnod, a gymmerai dân yn hawdd ac a losgai fel golosggoed. Mae yr hanes canlynol o eiddo *D'Arvieux* (*Manners of the Bedouin Arabs, chap. 14, p. 93,*) yn gwasanaethu yn well etto i egluro y testun yn yr hwn y gorchymmynir i'r prophwyd bobi bara, neu yn bytrach deisenau teneuon, â biswail gwartheg." Mae yr ail fath o fara yn cael ei bobi dan ludw, neu rhwng dau delpyn o biswail gwartheg wedi eu sychu a'u cynneu. Trwy hyn gwneir tân araf, yr hwn a boba y bara yn raddol; mae y bara hwn mor drwchus a'n teisenau ni. Mae y bywyn yn dda os bwyteir ef y diwrnod hwnw, ond y mae y grawen (*crust*) yn ddu a llosgedig, a blas y mwg arni o herwydd cael ei phobi yn y tân. Rhaid fod dyn wedi arferyd â dull y *Bedouins*, ac yn newynog iawn, cyn y gallo gael fawr o flas arni. Ni a chwaneigwn hefyd yr hyn a ddywed *Niebuhr* yn ei *Ddesgrifiad o Arabia*, tu dal. 52. "Mae yr Arabiaid yn defnyddio llafn o haiarn i bobi eu barâ; neu gosodant dalp crwn o does mewn marwor coed neu biswail camelod, a chuddiant ef yn hollol â hwynt, hyd nes

botasau, ein hesgidiau, a'n sandalau." *Sir W. Ouseley's Travels in the East, vol. p. 267.*

"Yr oedd pellder pennodedig wedi ei sefydlu i ni i gymmeryd ymaith ein hesgidiau; bu raid i rai o osgordd y cennadwr dynu ymaith yr eiddynt hwy gryn bellder oddiwrth y brenin, tra y bu i ereill, y rhai yr oedd eu gradd yn rhoddi iddynt fwy o fraint, eu cadw am eu traed hyd nes dyfod yn agos i'r grisiau a arweinient i'r ystafell. Gan fod y Persiaid yn caniatâu fod eu penaeth yn santaidd iawn, gan ei alw ef *Zib Allah*, cysgod yr Hollalluog, hwy a dalant iddo anrhydedd ag sydd bron yn ddwyfol. Heblaw rhoddi iddo ditl uchel, trwy eu gwaith yn tynu ymaith eu hesgidiau arwyddir fod y tir a'i cylchyna ef yn santaidd; a'r amgylchiad hwn a eglura yr hyn a ddywedodd tywysog Arglwydd y lluoedd wrth Josuah. 'Dat-tod dy esgidiau oddiam dy draed; canys y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd santaidd.'" *Morier's Second Journey through Persia, p. 172. Holland's Travels in Albania, p. 316. Sir W. Ouseley's Travels in the East, vol. 2, p. 12. Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 235. Dodwell's Tour through Greece, vol. 1, p. 151. Cox's Journal of a Resident in the Burman Empire, p. 13. Fraser's Tour through the Himala Mountains, p. 428.*

Yn mysg yr *Aiphthiaid* ni oddefid i un dyn fyned i mewn i demlau eu heulunod ag esgidiau ar ei draed, o herwydd eu bod wedi eu gwneuthur o grwyn anifeiliaid meirwon, am hynny yu cael eu cyfrif yn halogrwydd.

Y *Tyrcaid*, pan yn cael eu galw i weddïau cyhoedd, a dynant ymaith eu hesgidiau wrth y deml. *Maronit de Moribus Oriental, c. 12.*

1 Sam. 18. 4. *A'i wregys.* "Mi a brynwyd," medd *Pitts*, gan hen lanc: nid oedd arnaf eisiau iddo roddi dim i mi: yr oedd genyf ddigon o fwyd, diod, dillad, ac arian. Wedi i mi fyw gydag ef yn nghylch blwddyn, efe a wnaeth ei bererindod i Mecca, ac a'm dygodd gydag ef: ond cyn i ni ddyfod i Alexandria efe a gymmerwyd yn glaf, ac yn credu yn sobr y byddai farw, gan fod ganddo am ei ganol wregys wauedig, dan ei wregys uchaf, yr hwn a wisgant yn gyffredin, yn yr hwn yr oedd llawer o aur, ac hefyd fy llythyr rhyddad i, yr hwn y bwriadai efe ei roddi i mi, pan yn Mecca, efe a'i cymmerodd ymaith, ac a archodd i mi ei wisgo am danaf; yna efe a gym-

hyn yw y bri mwyaf a ellir ddangos i unrhyw ddyd mewn gwledd yn y Dwyrain." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 230.

Megys nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn wastadol y cyfeillion anwylaf, neu y gwestwyr a anrhydeddir fwyaf, yn cael eu gosod i eistedd yn ddigon agos i feistr y wledd, i wlychu eu dwylaw yn yr un ddysgl ag ef, (tebygol na bu i fwy na phedwar o'r dysgyblion, ar y swpper olaf, fwynhau y fraint hon), mae erchylldra y fradwriaeth yn cael ei fwyhau yn rhyfedd, pan mae un o'r ychydig hyny yn dyfod yn fradwr; ac yn y goleu hwn, yn ddiarnheu, y bwriedid dangos ymddygiad Judas trwy yr ymadrodd grymus hwn.

Marc 9. 50. *Bid genych halen ynoch eich hwtain.* Yn y gwledydd sydd yn nghanol Affrica, y moethusrwydd mwyaf o'r cwbl yw halen. Plentyn yno a sugna ddarn o halen fel pe byddai sugyr. Mae y dosparthau tlotaf o'r trigolion, pa fodd bynag, mor anfynych yu cael yr hyfrydwech o gael y peth gwerthfawr hwn, fel mai yr un peth yw dywedyd fod dyn yn bwyta halen gyda ei fwyd, a dywedyd ei fod yn ddyd cyfoethog. Mae yr arferiad maith o fwydta llyisiau, yn creu y fath chwant am halen, fel na all unrhyw eiriau ei ddesgrifio yn gyflawn. *Park's Travels*, p. 280.

Luc 5. 8. *Simon Pedr, pan welodd hyny, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu.* Yr oedd ymaffyd yn y gliniau yn weithred trwy yr hon gynt y dangosid parch ac yr erfynid am nodedd." Ar y dydd canlynol gwnaethpwyd darpariadau i ddwyn ei ddedfryd i weithrediad. Rhai o'r rhai oeddynt benaethiaid yn materion y tywysog, a syrthiasant wrth ei draed, ac, er trahausdra Barca Gana yn ei ymddygiad atynt wedi ei ddyrchafiad, hwy a ddeisyfiasant faddeuant i'r dyn, ac am iddo hefyd gael ei dderbyn i ffafr. Ar hyn daeth y troseddwr i'r golwg, yna y tywysog a dafiodd ei hun yn ol ar ei garped, wylodd fel plentyn, a goddefodd i'r ymbiliwr, yr hwn oedd wedi nesu gerllaw iddo, ymaffyd yn ei liniau; a chan eu galw hwy oll yn feibion iddo, efe a faddeuodd i'w gaethwas edifeiriol." *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 174.

Luc 14. 13. *Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efryd-lion, y cloffion, y deillion.* "Cyn machludiad haul ymgasglasom yn nhŷ un o hiliogaeth prophwyd ag a wisgai wisg werdd am ei ben, yr oeddem ynghylch deg ar hugain o bersonau mewn rhifedi. Derbyniwyd ni i mewn i ystafell hardd iawn, ag iddi fwd wedi ei oreuro, eisteddleuedd a charpedi arnynt, ac iddynt glustogau gwerthfawr, a phethau ereill a ddangosent olud

y preswlydd. Yn mysg y cydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dâl gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diweddaf, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-fainge, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r cydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrciaid, yn achlysuero fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Mÿn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymmwth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, efe a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgyblion, *yn gwledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blawd tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniaw yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd mÿn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a mÿn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliaeth." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydfêrth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd mÿn, a dygwyd cryn lawer o laeth

cig yn cael ei ddiogelu gan halen. Digon, pa fodd bynag, i osod terfyn ar yr holl dybiau hyn yw adrodd geiriau brenin Persiaidd, yn llys yr hwn y bu *Chardin* ryw gymmaibt o amser. "Gan godi mewn digllonedd yn erbyn swyddog a gynnygiasai ei dwyllo, efe a dynodd ei gleddyf, syrthiodd arno, ac a'i torodd yn ddarnau wrth draed y rhaglaw Tyrcaidd, yr hwn oedd yn sefyll (a ffiafr yr hwn a geisai y dyn druan trwy y twyll hwn), a chan edrych yn graff arno ef, a'r arglwyddi mawrion ereill ag a safent ar bob tu iddo, efe a ddywedodd mewn modd digllon, Y mae genyf y fath weision a bradwyr anniolchgar â'r rhai hyn i *fwyfa fy halen.*" *Tom. 3, p. 149.* Cefais hysbysrwydd credadwy," medd *Mr. Parkhurst, (Heb. Lex. p. 448, 3d edit.)* ei fod yn ymadrodd cyffredin o eiddo brodorion yr India Ddwyreiniol, "Halen y cyfryw un ydwyf fi;" gan feddwl ei fod yn cael ei borthi ganddo. Yn mysg brodorion y Dwyrain yr oedd halen gynt, ac y mae etto, yn arwydd o hynawsedd a chyfeillgarwch. Mae y dysgedig *Jos. Mede* yn sylwi, (*Works, p. 370, fol.*) "pan fynai ymerawdwr Russia," yn ei amser ef, "ddangos tiriondeb a ffiafr anarferol i ryw un, yr anfonai efe iddo *fara* a *halen* oddiar ei fwrdd." A phan wahoddodd efe y Barwn *Sigismund*, cenhadwr yr ymerawdwr *Ferdinand*, efe a wnaeth hyny yn y dull hwn: "Sigismund, chwi a gewch fwyta eich bara a'ch halen gyda mi." Felly *Tamerlane*, yn ei osodiadau, wrth goffâu am un *Share Behraum*, yr hwn a adawsai ei wasanaeth ef, a unasai a'r gelynion, ac a ymladdasai i'w erbyn a ddywed, "O'r diwedd fy *halen yr hun* a *fwytasai* efe a'i llanwodd â gofid, efe drachefn a daflood ei hun ar fy nhrugaredd, ac a ymostyugodd ger fy mron."

"Penaeth, pan ofynwyd iddo pa un, yn ol ammodau yr ymostyngiad, a ddychwelai efe i Nepaul, a atebodd, 'Ni allaf fi ddychwelyd mwy, rhaid i mi edrych am wasanaeth yn rhyw le arall: ni allaf byth edrych yn wyneb y rajah drachefn, canys mi a fwyteais halen Ghoorkha. Yr oedd ymddiried wedi ei roddi ynof fi, ac ni bum i farw yn fy lle; ni allwn byth ddychwelyd i'n gwlad.' Yr holl bennaethiaid ag oeddynt bresennol a ysgyd wasant eu penau, ac a ddwedasant, 'Na, ni allwn ni ddychwelyd byth mwy.'" *Frazer's Journey through Part of the Snowy Range of the Himala Mountains, 4to. Clarke's Travels, Vol. 2, p. 370. Buckingham's Travels in Palestine, p. 290.*

Job 5. 5. *Yr hun y bwytty y newynog ei gynhauaf, wedi*

hyd y penelin, yr oedd cadwyni aur o amgylch eu migyrrau, ac yr oedd holl fysedd ei thraed a'i dwylaw wedi eu haddurno â modrwyau gwerthfawr. Fel holl fenywod y Dwyrain o bob crefydd, yr oedd ei llygaid wedi eu lliwio â thylch du, wedi ei wneuthur ag *antimony*; yr hwn a rydd oerder adfywiol, a disgleirdeb chwanebol i'r llygad, ac ystyrir ei fod yn wellhad ar brydfertwch yn Asia."

Mae esgidiau Indiaid America yn cael eu gwneuthur o grwyn hyddod, ceirw, ac ychain, wedi eu trin yn ol y dull Ewropaidd, neu â'r blew yn aros arnynt. Mae ymylau yr esgidiau hyny, o amgylch y migyrrau, yn cael eu haddurno â darnau o bres neu alcam, y rhai a sicrheir wrth linyrau o ledr yn nghylch modfedd o hyd, y rhai, gan eu bod yn crogi yn gryn dew, a dinciant yn hyfryd pan fyddont naill ai yn rhodio neu yn dawnsio. *Carver's Travels in North America*, p. 146.

Yn yr India Ddwyreiniol, mae y gwragedd Cenhedlig yn gwisgo modrwyau aur neu arian, yn ol eu gallu, un yn eu trwyn, ac amrywiol o rai ereill mewn tyllau wedi eu gwneuthur yn ymyl y glust, ac un fawr a throm yn mhob tu i'w penwisg. Maent hefyd yn gwisgo modrwyau ar fysedd eu traed, ac estyll o wahanol fettelau o amgylch eu coesau, a gleiniau (*beads*) bychain o wydyr wrthynt, y rhai, pan gerddant, a wnant swm fel eiddo neidr gynffon-drwst (*rattle-snake*.) *Captain Hamilton, in Pinckerton's Coll. part 32, p. 322.*

Jer. 4. 30. *Lliwio dy wyneb â lliwiau.* Mae amrywiol o Awdwyr, a boneddiges *M. W. Montagu* yn neillduol, (*Letters, vol. 2, p. 32,*) wedi sylwi ar yr arferiad ag sydd wedi ffynu oddiar cyn cof yn mysg gwragedd y Dwyrain, o liwio eu llygaid â phylor, yr hwn, o bell, neu wrth oleu canwyll, a chwanea lawer iawn at eu tegwch. Yr hynafiaid a alwent y defnydd â'r hwn y gwnaent hyn, *stibium*, hyny yw, *antimony*; ond dywed *Dr. Shaw* wrthym (*Travels, p. 229,*) mai *mîn plwm* gwerthfawr ydyw, yr hwn, yn ol desgrifiad naturiaethwyr, a edrych yn debyg iawn i *antimony*. Y rhai ydynt yn anghyfarwydd â'r defnydd hwnw a allant ffurfio rhyw ddrychfeddwl am dano, pan ddywedir wrthynt nad yw yn annhebyg iawn i'r *black lead* o'r hwn y mae *pencils* yn cael eu gwneuthur, y rhai ydynt yn ddigon adnabyddus.

Mae Russel yn desgrifio y *kohol* a arferid at y llygaid neu dufewn yr amrantau; math o fŵn plwm ydyw, a ddygwyr o

cwppanaid o ddwfr; nid oes neb a'u rhydd iddo; efe a gynnyg y cwbl sydd ganddo, ond nid oes neb a'i gwrendy; y maent oll yn trengu, er trwy gerdded ychydig o filltiroedd yn mhellach, y gallont gael eu hacub. Mae y camelod yn gorwedd i lawr, ac ni ellir gwneuthur iddynt godi; nid oes yn neb nerth i rodio; ond yr hwn y mae ganddo ychydig o'r gwlybwr gwerthfawr hwnw, a rodia filltir yn mhellach, ac efallai yntau hefyd yn marw wedi hyny. Os yw teithiau ar y moroedd yn beryglus, mae rhai yn yr anialwch yn beryglus hefyd. Ar y môr, mae y darpariadau yn fynych yn darfod; yn yr anialwch, teimlir yr un cyfyngder. Ar y môr cyfarfyddir ag ystormydd; yn yr anialwch ni all fod ystorum fwy na ffynnon sech. Ar y môr, cyferfydd un â lladron; efe a ddianc, a rydd ei hun i fynu, neu a fydd fary; yn yr anialwch, yspeilir y teithiwr o'i holl feddiannau a'i ddwfr. Gadewir iddo fyw, efallai, ond y fath fywyd! i farw y farwolaeth greulonaſ a mwyaf blinderus. Yn fyr bod yn sychedig mewn anialwch, heb ddwfr, yn agored i wres llosgawl yr haul, heb gysgod, ac heb obaith am gael y naill na'r llall, yw y sefylla echryslonaſ ag a all dyn gael ei osod ynddi, ac un o'r dyoddefnadau mwyaf, yr wyf yn credu, ag a all bod dynol gael ei ddwyn iddo. Mae y llygaid yn myned yn boeth, mae y tafod a'r gwefusau yn chwyddo, clywir swm cau yn y clustiau, yr hwn a ddwg yn mlaen fyddarwch, ac ymddengys fod yr ymenydd yn myned yn dew a phoeth. Cyfyd yr holl deimladau hyn oddiwrth y diffyg o ychydig o ddwfr. Yn nghanol y trueni hwn, y teithiwr a dybia ei fod yn gweled rhywbeth fel llyn neu afon o ddwfr gloyw a iachus, heb fod yn mhell oddiwrtho. Mae yr olwg dwyllodrus hon yn ddigon adnabyddus, ond er y cwbl y mae y teithiwr yn ei gyfyngder yn ymdrechu cyrhaedd yr elfen hòno, ac yn meddwl am y fath hap-purwydd a fyddai bod yn y cyfryw fân. Os na chaiff teithiwr ei ddidwyllo, efe a brysura ei gamrau i gyrhaedd y fân yn gynt; pa gyflymaf yr â efe rhagddo, cyflymaf yr â yr olwg ymaith, nes o'r diwedd y diflana hi yn llwyr, ac y mae y teithiwr twyll-edig yn gofyn yn fynych, pa le y mae y dwfr a welodd efe gerllaw iddo. Prin y gall efe gredu iddo gael ei dwyllo yn y fath fodd; efe a haera iddo weled y tonaſ yn myned o flaen y gwynt, a lluniau y creigiau uchel yn y dwfr." *Belzon's Researches in Egypt, p. 342.*

Diar. 15. 17. *Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad, nac fch*

*pasgedig a chas gydag ef.* Mae y geiriau hyn yn cael eu cyfieithu fel hyn gan y LXX. *Κρείσσων ενισμος μετα λαχανων προς φιλιαν και χαριν, η παραθεσις μοςχων μετα εχθρας,* gan eu deall am 'y diwallrwydd a roddid trwy drais i deithwyr, yr hyn yr oedd yr Arabiaid a phobl orchfygedig yn gorfod plygu i'w wneuthur. Nid peth anarferol ydoedd i deithwyr fwyta ar draul rhai na chaent hyfrydwch wrth eu diwallu; a chan mai trwy orfod y gwnaent hyny, achosid casineb trwy hyny. Mae *Dr. Shaw (Travels, Pref. p. 12.)* yn sylwi ar yr amgylchiad hwn. Wrth lefaru am Barbary, efe a ddywed, "Yn y wlad hon, mae yr Arabiaid, naill ai trwy hen arferiad, trwy ryw ammod dan ba un y daliant eu tiroedd, neu rhag ofn ac o herwydd rhwymau, yn gorfod rhoddi i'r *Spahes*, a'u cwmpeini, ddigon o ymborth i ni ein hunain, yn nghyd a gwellt a haidd i'n muled a'n ceffylau. Heblaw dysglaid o laeth, a basgedaid o ffigys, rhesin, neu ffrwythau y pren *date*, y rhai, ar ein dyfodiad, a roddwyd i ni, i dori ein newyn; meistr y babell, lle y llettyem, a gyrchodd o'r praidd, yn ol rhifedi ein cwmpeini, fŷn neu afr, oen neu ddafad, hanner y llwdn hwn a ferwyd yn ddioed gan ei wraig, ac a driniwyd i ni; torwyd y gweddill yn ddarnau, i'w bobi, a chadwasom ef at forefwyd, &c. y dydd nesaf." Yn y tu dalen nesaf efe a ddywed, "pan ddiwellid ni mewn modd hynaws, (canys ni rydd yr Arabiaid ddim i ni weithiau hyd nes y byddo raid iddynt wneuthur hyny,) arferai yr awdwr rodni i feistr y babell gyllell, ychydig o ddarnau o gallestr, neu ryw ychydig o bylor Seisnig," &c. I attal y fath finteioedd i fyw yn rhad arnynt, mae yr Arabiaid yn gofalu am sefydlu mewn coed, dyffrynoedd, neu leoedd anamlwg, fel y mae yn anhawdd eu cael allan.

*Preg. 7. 6. Clindarddach drain dan grochan.* Tom gwartheg oedd y cynnud a arferid yn gyffredin, ond yr oedd hwn yn araf iawn yn llosgi. Ar y cyfrif hwn bygythiai yr Arabiaid yn fynych losgi dyn â than tom gwartheg fel marwolaeth nychlyd. Dan eu crochanau yn gyffredin yr arferent hwy hwn. Mae y cynnud hwn yn wahanol iawn i ddrain ac eithin, a phethau cyffelyb, y rhai yn ddiâu a losgent yn fuan, gyda y clindarddach y cyfeirir ato yn y geiriau hyn. Wrth gymharu pethau gwahanol y gwelwn rym y gymhariaeth.

Mae y cynnud a arferir yn gyffredin gan bobl y wlad (*yr Aipht*) yn cael ei barotoi o gymmysgedd o dom camelod, llaid, a gwellt: y pethau hyn wedi eu cynmysgu yn dda, hwy a'u gwnant



yn beleni, ac a'u rhoddant ar furiau eu bythod i grasu yn yr haul. *Clarke's Travels, vol. 3, p. 34.*

"Yn mhob rhan o'r pentref yr oedd pentyrau o ddom gwartheg. y rhai a gasglasid gan y trigolion yn gynnud erbyn y gauaf. Yr oedd muriau eu tai hefyd wedi eu gorchuddio â pheleni o'r un defnyddiau, y rhai oeddynt bryd hyny yn sychu fel chwaneg-iaidau at eu ystôr. Mae plant y bobl gyffredin yn ei gasglu; ac mi a welais yn fynych ddau o'r rhai bychain hyn yn ymryson am dano gyda y gwres mwyaf." *Morier's Journey through Persia, p. 272.*

"O herwydd prinder coed, y mao tom gwartheg yn cael ei ddefnyddio yn gynnud, ac y mae y bobl yn ei gasglu gyda gofal mawr, gan ei wneuthur yn deisenau, y rhai a sychant yn yr haul, at eu gwasanaethi yn y gegin, ac yn enwedig yn y gauaf. *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 5. Walpole's Memoirs of Turkey, vol. 2, p. 368. Forbes's Oriental Memoirs, vol. 3, p. 96. Dubois' Description of the People of India, p. 290.*

Preg. 11. 1. *Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau.* Mae gan yr Arabiaid ddiareb gyffelyb iawn, "Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dyfroedd, efe ryw ddiwrnod a ad-delir i ti." Mae y Tyrciaid wedi ei benthyca hi oddiar yr Arabiaid, gydag ychydig o gyfnewidiad; yn eu dull hwy y mae hi fel y canlyn: "Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dwfr; hyd yn oed os na wybydd y pysgod, etto y Creawdwr a wybydd hyny." Ystyr y ddiareb Hebraeg, yn gystal a'r un Arabaidd a Thyrciaidd, yw: "Cyfrana dy fara i bawb pobl dlodion, pa un a fyddont adnabyddus neu anadnabyddus i ti; bwrw dy fara hyd yn oed i'r dwfr, heb ofalu pa un a nofia efe ai peidio, ac heb ofalu pwy a gaffo les oddiwrtho, pa un ai dynion ai pysgod; canys hyd yn nod yr elusen hon, yr hon a rodder ar antur, Duw a'i tal yn ol i ti yn gynt neu yn hwyrach." *Von Dieg's Memorabilia of Asia, vol. 1, p. 106.*

Caniad Solomon 4. 12. *Gadd gauedig yw fy chwaer, a'm dyweddi; ffynnon gloëdig, ffynnon seliedig yw.* "Y bore hwn ni a aethom i weled rhai lleoedd nodedig yn nghymydogoeth Bethlehem. Y lle cyntaf y cyfeiriasom ein taith ato, oedd y ffynnonau, y llynoedd, a'r gerddi ardderchog hyny ag oeddynt o fewn i ychydig o ffordd i Bethlehem, i'r deheu, y rhai y dywedir iddynt gael eu dyfeisio gan y brenin Solomon, a'u bod yn hyfrydwch iddo. At y gweithiau a'r lleoedd hyn o hyfrydwch tybir fod y

tywysog mawr hwnw yn cyfeirio, Preg. 2, 6, 6, lle, yn mysg yr angreiffiau ereill o'i sawredd, y cyfrif efe ei erddi, a'i winllanoedd, a'i llynoedd.

"Gyda golwg ar y llynoedd, y maent yn dri mewn rhifedi, yn rhes y naill o flaen y llall, a lle i ddyfroedd yr un uchaf ddisgyn i'r ail, ac eiddo yr ail ddisgyn i'r trydydd. Maent yn bedair-onglog; maent yr un lled bob un, sef yn nghylch pedwar ugain a deg o gamrau; mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn eu hyd, mae y cyntaf yn nghylch cant a phedwar ugain a deg o gamrau; yr ail yn nghylch dau cant, y trydydd yn nghylch dau cant a thrugain. Mae mur danynt oll, a hwnw wedi ei ddwbio, a chynnwysant ddyfnder mawr o ddwfr.

"Gerllaw i'r llynoedd y mae castell hardd o wneuthuriad diweddar; ac o fewn yn nghylch cant a deugain o gamrau oddiworthynt y mae ffynon, o'r hon yn benaf y derbyniant eu dyfroedd. Myn y mynachod pabaidd mai hon yw y *ffynnon seliedig* i'r hon y cymharir y ddyweddi, Caniad Sol. 4, 12; ac yn gadarnhad i'r dyb hon honant draddodiad, fod y brenin Solomon yn cau y ffynnonau hyn, ac yn cadw eu drysau yn seliedig âi sêl ei hun, i'r dyben o gadw y dyfroedd at ei wasanaeth ei hun yn ei burdeb naturiol. Ac nid anhawdd oedd eu cadw fel hyn, gan eu bod o dan wyneb y ddaear, ac heb un ffordd atynt ond trwy dwll bychan cyffelyb i enau ffynnon gul. Trwy y twll hwn y mae y ffordd i waered, ond nid heb anhawsdra y gellir myned dros yn nghylch pedair llathen, yna deuir i ystafell ag iddi fwd (*arch*) hardd yn y nen, yn nghylch pymtheg cam o hyd ac wyth o led. Yn ymyl hon y mae ystafell arall o'r un ddull, ond ryw beth yn llai. Mae y ddwy ystafell hyn wedi eu cuddio â mwd cerig hardd hen iawn, ac efallai yn waith Solomon ei hun.

"Islaw y llynoedd y mae dyffryn cul a cherigog, yn cael ei gau i mewn o bob tu gan fynyddoedd uchel. Myn y mynachod mai hwn yw yr ardd gauedig y cyfeirir ati yn yr un lle ag a nodwyd eisoes. Pa faint o wirionedd a all fod yn y dychymmyg hwn ni allaf ddwedyd yn bendant. Gyda golwg ar y llynoedd, mae yn debygol ddigon y dichon mai yr un rhai ydynt ag eiddo Solomon; gan na cheir y fath gyflawnder o ddwfr ffynnon yn un lle arall trwy holl Wlad Cannan." *Maxndrell's Journey, April 1, p. 88, 7th edit.*

Yn mysg yr Iuddewon, ar amser priodas, mae y priob-fab yn

anfon gweddi at Dduw, yn yr hyn y mae y deisyfiad hwn: "Na oddef i ddeythr fyned i mewn i'r ffynnon santaidd, fel y gallo dy was gadw had santeiddrwydd yn bur, ac na byddo y briodferch yn anffrwythlon." *Addison's Present State of the Jews*, p. 5. *Selden's Uxor*, Hebr. 3. 2.

Esay 3. 1. *Ffon bara*. Bara oedd ac yw y rhan benaf o ym-borth dynion braidd yn mhob gwlad, yn enwedig yn mysg cenhedloedd Dwyreiniol, y rhai, fel y mae *Dr. Shaw* (*Travels*, p. 280,) yn sylwi, vdynt yn bwyta llawer o fara; cyfrifir fod tri pherson o bob pedwar yn byw yn hollol arno, neu ynte ar y fath fwyd-dd ag a wneir o flawd haidd neu wenith." Felly y mae *Niebuhr* (*Voyage en Arabie*, tom. 1, p. 188,) yn dywedyd wrthym, mai "prif faeth pobl y Dwyrain, yn gyffredin, yw bara newydd ei bobî: am hynny gofalant yn enwedig na byddont yn ddiffygiol o flawd pan deithiont yn yr anialwch."

Esay 7. 15. *Ymenyn a mel a fwyty efe*. "Hwy a roddasant i ni beth mel ac ymenyn yn nghyd, a bara i'w wlychu ynddo; a Narsah a ddymunodd ar un o'i wŷr i gymmysgu y ddau gyffyr â'u gilydd i ni, gan ein bod ni yn lledchwith gvdâ y gorchwyl. Yr Arabiad, wedi iddo gvffroi y cymmysgedd yn dda â'i fys, a dangosodd ei ddehurwydd i'w ddifa yn gystal ag i'w gymmysgu, ac a wobrwydd ei hun am ei drafferth trwy fwyta ei hanner." *Irby and Mangles, Travels in Egypt, &c.* p. 263.

Esav 21. 14. *Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion Tema, achubwch flaen y crwydrus â'i fara*. Yn lluddedig o herwydd gwres a syched, ni a ddaethom at ychydig o fythod mewn cord palmwydd, ac a arosasom i yfed o ffynnon ag ynddi ddwfr hyfryd iawn. Yn yr hinsawdd gogleddol hwn ni ellir ffurfio un drychfeddwl am yr hyfrydwch o yfed yn yr Aipht: ni theimlir ond ychydig o chwant bwyd; ond pan, ar ol croesi y tywod poethion, y deuwch i res hardd o goed ar lan y Nilus, ac y caffoch yr afalau malynion hirion (*lemons*), ac y cymmysgoch eu sudd â sugyr yr Aipht, a dwfr tyner yr afon, ar ol yr yfoc o'r ddiod hon, teimlwch fod pob pleser arall o eiddo y synwrau yn ddim mewn cymhariaeth i hwn. Wrth ystyried hyn gall un weled prydfwrthwch a grym y cymhariaethau ysgrothyrol hyny, lle y mae teimladau hyfrytaf y galon yn cael eu cyffelybu i doriad syched mewn tir sychedig." *Carne's Letters from the East*, vol. 2, p. 111.

Galar 1. 11. *Hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddad-*

wnant weithiau, trwy dyllu trawst tŷ, neu ddystrywio y coed mewn llong.

Mae y creaduriaid dinystriol hyn yn myned at eu gwaith yn fyrddiynau, dan grestenuau o dywod mân, wedi eu tymheru â gwlybrwydd o'u cyrph eu hunain, yr hyn a wna eu gorchudd mor galed â chlai llosgedig, ac a'u cuddia hwynt yn effeithiol pan y maent gyda eu gwaith twyllodrus.

“Gallwn goffâu llawer o angreiffiau o'r difrod a wna y *termites!* dygwyddodd un i fy mhethau i fy hun; gadewais As-jengo yn y tymmor gwlawog i dreulio ychydig o wythnosau gyda phenaeth yn ei dŷ yn y wlad yn *Eddova*, mewn lle gwledig a chysgodol; ar fy ymadawiad cloais ystafell yn cynnwys llyfrau, lluniau, ac ychydig o bethau gwerthfawr; gan i mi gymmeryd yr allwedd gyda mi, ni allai y forwyn fyned i'r ystafell i lanhau y dodrefn; yr oedd muriau yr ystafell wedi en gwyngalchu, eu haddurno â darluniau, mewn ymylwydd a gwydrau Saisnig: ar fy nychweliad adref yn yr hwyr, edrychais yn ddiotal o amgylch fy mwthyn wrth oleu canwyll, ac ymddangosai pob peth yn yr un drefn ag y gadawswn hwynt; ond wrth edrych yn graffach bore drannoeth, gwelais lawer iawn o ddifrodiadau, a'r darluniau wedi eu niweidio; ymddangosai y gwydrau yn dywyll iawn, a'r ymylwydd wedi eu cuddio â llwch; pan gynnygiais eu sychu ymaith, synais wrth gael y gwydrau yn glynu wrth y mur, ac ddim yn crogi yn yr ymylwydd fel y gadawswn hwynt, ond wedi eu cylchynu yn hollol â chresten wedi ei gwneuthur gan y morgrug gwynion; y rhai oeddynt yn weithredol wedi bwyta yr ymylwydd a'r astell yn y cefn, a'r rhan fwyaf o'r papyr, ac wedi gadael y gwydrau i gael eu dal i fynu gan y gresten yr hon a ffurfiasant hwy tra gyda eu gwaith o ddifrodi. O herwydd bod llwch ar y costreli gwydr, yr oedd y morgrug wedi eargyn a bwyta trwy waelod cist, ac wedi myned ychydig yn mlaen mewn tyllu y llyfrau a'r lliain. Pan ddychwelodd boneddiges y penaeth gyda yr hwn y buaswn i yn aros yn *Eddova*, i'w hystafell yn y castell, hi a gafodd, trwy yr un achos, fod cist fawr, yn yr hon y gosodasai hi *shawls*, mwslin, a phethau ereill, y rhai a gasglasai hi mewn trefn i adael India, wedi eu ddystrywio yn hollol gan y trychfilod gwancus hyn.” *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 1, p. 361.

Matt. 22. 12. *Ac efe a ddywedodd wrtho, Y cyfaill, pa fodd y daethost i mewn yma heb fod genyt wisg priodas? Oddiwrth*

yn ol graddau eu perchenogion. Y rhai y cyfeirir atynt gan Jeremiah wrth ddesgrifio cyfyngderau preswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, *ein croen a dduodd fel ffwrn gan y newyn tost*, ymddengys eu bod o fath isel, ac yn perthynu, fel y mae yn fwyaf tebygol, i'r dosparth cyffredin o deithwyr. Er y cwbl yr oedd rhai ereill o fath llawer uwch, hyd yn oed o fetteloedd gwerthfawr iawn. Fel hyn hysbysir i ni, mewn chwedl Arabaidd, a gyfieithwyd yn 1786, o ysgrifen anghyoeddig, mai rhan o fwyd yr olynydd hwnw i Mohammed a elwir *Vathek*, ar ei deithau, oedd teisenau moethus, y rhai a bobasid mewn ffyrnau arian. Mae St. Jerome yn desgrifio ffwrn Ddwyreiniol fel llestr crwn o bres, wedi cael ei dduo ar un tu gan y tân a'i cylchynai, er peri gwres o fewn.

Ezec. 4. 15. *Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele, mi a roddais i' fswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.* O herwydd diffyg coed, defnyddir tom camelod yn gynnud yn y Dwyrain. Mae Shaw, yn ei ragymadrodd i'w *Deithiau*, lle y rhydd efe ddesgrifiad manol o'r dull o deithio yn y Dwyrain, yn dywedyd, o herwydd prinder tanwydd, pan byddai arnynt eisiau pobi neu ferwi rhywbeth, mai tom y camelod yr hwn a gefnid yn y manau lle yr arosasai mintoioedd blaenorol, oedd eu cynnud arferol; yr hwn, ar ol bod yn yr haul dros ddau neu dri diwrnod, a gymmerai dân yn hawdd ac a losgai fel golosggoed. Mae yr hanes canlynol o eiddo *D'Arvieux* (*Manners of the Bedouin Arabs, chap. 14, p. 93.*) yn gwasanaethu yn well etto i egluro y testun yn yr hwn y gorchymmynir i'r prophwyd bobi bara, neu yn bytrach deisenau teneuon, â biswail gwartheg." Mae yr ail fath o fara yn cael ei bobi dan ludw, neu rhwng dau delpyn o biswail gwartheg wedi eu sychu a'u cynneu. Trwy hyn gwneir tân araf, yr hwn a boba y bara yn raddol; mae y bara hwn mor drwchus a'n teisenau ni. Mae y bywyn yn dda os bwyteir ef y diwrnod hwnw, ond y mae y grawen (*crust*) yn ddu a llosgedig, a blas y mwg arni o herwydd cael ei phobi yn y tân. Rhaid fod dyn wedi arferyd â dull y *Bedouins*, ac yn newynog iawn, cyn y gallo gael fawr o flas arni. Ni a chwanegwn hefyd yr hyn a ddywed *Niebuhr* yn ei *Ddesgrifiad o Arabia*, tu dal. 52. "Mae yr Arabiaid yn defnyddio llafn o haiarn i bobi eu barâ; neu gosodant dalp crwn o does mewn marwor coed neu biswail camelod, a chuddiant ef yn hollol â hwynt, hyd nes

daliasant. Nid allai fod dim tu hwnt i'r gwres o'r bywiogrwydd gyda pha rai y rhuthrodd y dynion hyn i waered i gynnorthwyio eu cydymdeithion. Yr oedd Geōrgis a minau yn ddiwyliadwriaeth ar y funud hon, fel y bu i'r Arabiaid, gan gymmeryd mantais o'r amgylchiad hwn, ruthro arnom, a chymmeryd ymaith ein gŷnau, ac yna rhedasant yn gyflym i waered i'r dyffryn. Yr oedd yr Arabiaid wedi taflu ymaith eu gwisgoedd uchaf fel y byddent yn ysgafn i redeg, ac wedi i'm cydymmaith ymallyd yn y rhai hyn, fel rhyw dâl am ei ŵn, aethom rhagom, heb gymmaint ag aros i weled diwedd yr ymdrech, gan ein bod yn awyddus am gyrhaedd *Assallt* cyn nos." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 16.

Ioan 19. 23. *A'i bais ef oedd ddiwniad, wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.* "Mae gwisg yr Arabiaid yn y rhan hon o wlad Canaan, ac yn wir trwy holl Syria, yn unfurf; crys glas ydyw, yn cyrhaedd islaw y penliniau, mae y coesau a'r traed yn noethion, oddiethr fod yr olaf welthiau yn cael eu cuddio â math o esgidiau uchel. Mae cochl yn cael ei wisgo wedi ei wneuthur o flew geirwon camelod, yn cael ei addurno bron bob amser â llinellau duon a gwynion llydain, yn myned ar hyd y cefn i waered; mae hwn yn ddarn petryal, a thyllau ynddo i'r breiohiau; mae gwniad ynddynt yn gyffredin yn y oesfn; pan wneir hwynt heb y gwniad hwn, ystyrir hwynt yn werthfawr iawn. Yna, gan hyny, yr ydym, efallai, yn gweled ffurf a defnyddiau gwisg ein lachawdwr, am yr hon y bwriodd y milwyr goel-bren, gan ei bod yn *ddiwniad wedi ei gwau o'r cwr uchaf trwyddi oll.* Dyma y fath hynaf o wisgoedd o berthynai i drigolion y wlad hon." *Clarke's Travels*, vol. 3, p. 425.

Yr oedd cochl yr Iesu, tebygol, yn gyffelyb i wisg uchaf yr archoffeiriad, yr hon a ddesgrifir gan Josephus, (*Antiq. b. 3, c. 7, § 2*), yr hon oedd wedi ei gwau yn un darn, ac heb un agoriad llddi ar y ddwyfron nac yn yr ochrau, ond yn unig yn y pen uchaf i ollwng y pen allan. Mae y modd cywrain ac anhawdd yn yr hwn yr oedd y fath gochl yn cael ei wau, wedi cael ei ddesgrifio yn fanol, a'i egluro trwy ddarluniau gan *John Braun*, yn ei waith Lladin ar ddillad yr offeiriaid Inddewig. Yr oedd gan yr ysgstfenydd hwn hefyd gochl diwniad, wedi ei wau gan wehydd yn Nimuegen, yn 1676, wrth ei gyfarwyddiadau ef, ar wŷdd a wnaed yn fwriadol at hyny. Efe a dderbyniodd hefyd ddau gryd o'r un fath o'r India Ddwyreiniol. Ymddengys nad

hyn yw y bri mwyaf a ellir ddangos i unrhyw ddyd mewn gwledd yn y Dwyrain." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 230.

Megys nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn wastadol y cyfeilion anwylaf, neu y gwestwyr a anrhydeddir fwyaf, yn cael eu gosod i eistedd yn ddigon agos i feistr y wledd, i wlychu eu dwylaw yn yr un ddysgl ag ef, (tebygol na bu i fwy na phedwar o'r dysgyblion, ar y swpper olaf, fwynhau y fraint hon), mae erchylldra y fradwriaeth yn cael ei fwyhau yn rhyfedd, pan mae un o'r ychydig hyny yn dyfod yn fradwr; ac yn y goleu hwn, yn ddiarnheu, y bwriedid dangos ymddygiad Judas trwy yr ymadrodd grymus hwn.

Marc 9. 50. *Bid genych halen ynoch eich hwtain.* Yn y gwledydd sydd yn nghanol Affrica, y moethusrwydd mwyaf o'r cwbl yw halen. Plentyn yno a sugna ddarn o halen fel pe byddai sugyr. Mae y dosparthau tlataf o'r trigolion, pa fodd bynag, mor anfynych yu cael yr hyfrydwech o gael y peth gwerthfawr hwn, fel mai yr un peth yw dywedyd fod dyn yn bwyta halen gyda ei fwyd, a dywedyd ei fod yn ddyd cyfoethog. Mae yr arferiad maith o fwydta llysiau, yn creu y fath chwant am halen, fel na all unrhyw eiriau ei ddesgrifio yn gyflawn. *Park's Travels*, p. 280.

Luc 5. 8. *Simon Pedr, pan welodd hyny, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu.* Yr oedd ymafyd yn y gliniau yn weithred trwy yr hon gynt y dangosid parch ac yr erfynid am noddod." Ar y dydd canlynol gwnaethpwyd darpariadau i ddwyn ei ddedfryd i weithrediad. Rhai o'r rhai oeddynt benaethiaid yn materion y tywysog, a syrthiasant wrth ei draed, ac, er trahausdra Barca Gana yn ei ymddygiad atynt wedi ei ddyrchafiad, hwy a ddeisyfiasant faddeuant i'r dyn, ac am iddo hefyd gael ei dderbyn i ffafr. Ar hyn daeth y troseddwr i'r golwg, yna y tywysog a daflodd ei hun yn ol ar ei garped, wylodd fel plentyn, a goddefodd i'r ymbiliwr, yr hwn oedd wedi nesu gerllaw iddo, ymafyd yn ei liniau; a chan eu galw hwy oll yn feibion iddo, efe a faddeuodd i'w gaethwas edifeiriol." *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 174.

Luc 14. 13. *Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efryd-tion, y cloffion, y deillion.* "Cyn machludiad haul ymgasglasom yn nhŷ un o hiliogaeth prophwyd ag a wisgai wisg werdd am ei ben, yr oeddem ynghylch deg ar hugain o bersonau mewn rhifedi. Derbyniwyd ni i mewn i ystafell hardd iawn, ag iddi fwd wedi ei oreuro, eisteddleodd a charpedi arnynt, ac iddynt glustogau gwerthfawr, a phethau ereill a ddangosent olud

y preswlydd. Yn mysg y cydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dal gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diweddaf, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-faingc, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r cydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrciaid, yn achlysuro fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Myn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymmwrth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, efe a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgybllion, *yn gwledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blaod tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniau yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd myn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a myn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliaeth." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydferth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd myn, a dygwyd cryn lawer o laeth



hyfryd, a rhoddwyd ef mewn basgedi a wnaethpwyd o ddail y pren *doom*, ac a dŵbiwyd drostynt â chŵyr, gwaith yn yr hwn y mae brodorion yr ynnysoedd hyn yn rhagori yn neillduol." *Ibid.* p. 188.

Ioan 13. 23. *Yr oedd un o'i ddysgyblion yn pwyso ar fynwes yr Iesu, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu.* Teslir goleuni ar yr ymadrodd hwn gan yr hyn a ddywed *D'Arvieux* am ddull yr Arabiaid yn bwyta.

"Hwy a eisteddant wrth frwdd, mewn modd ag y byddo ysgwyddau un yn cael eu troi at fynwes y llall, mae llaw ddehau pob un yn cael ei throi at y dysglau, mae y llaw aswy yn cael ei throi ymaith oddiwrthynt, ac y maent yn ei defnyddio yn unig i bwysu arni, pan byddo y rhifedi mawr o bobl a fyddo wrth fwrdd yn eu rhwymo i fod yn y dull anghyfeus hwn."

## PENNOD VI.

### DILLAD.

GEN. 24. 65, *Hi a gymmerth orchudd ac a ymwisgodd.* Arferid cuddio y pen ar y tri achlysur hyn. Mewn gofid a galar 2 Sam. 19. 2, fel dangosiad o wylder, Gen. 24. 65, ac fel tystiolaeth neu arwydd o'r bri ar parch mwyaf, neu pan byddai dyn israddol yn methu dâl yr olwg ar ddisgleirder mawredd a gwychder un arall. Fel hyn, Elias (1 Bren. 19. 13,) pan glywodd efe lais Daw ar fynydd Horeb, a oblygodd ei wyneb yn ei fantell. Arferai pob cenedl guddio yr wyneb â gorchudd. Yr oedd y Rhufeiniaid, yn enwedig, mor fanol yn nghylch hyn, fel y bu i C. Sulpitius Gallus, pan wybu efe i'w wraig ymddangos allan hebdo, ei hysgar hi o herwydd hyny yn unig.

Yr oedd bod i'r ddyweddi wisgo gorchudd yn arferiad hen iawn, fel y dywed Pliny hefyd wrthym, *Nat. Hist. b. 21, chap. 8. Tertullian (de Virginibus velandis, c. 2),* pan yn llefaru am Rebecca, yr hon a aeth i gyfarfod âg Isaac â gorchudd ar ei gwyneb, a sylwa ar hyny fel defod a gedwid o hyd yn ei amser ef, fod y priodferched yn mysg y Cenhedloedd yn cael eu tywys at y rhai a fwriedid i fod yn wŷr iddynt, yn orchuddedig. O herwydd hyn arferai y Rhufeiniaid y gair *nuptia*, am briodas, yr hwn sydd air a ddeilliwyd o *nubere*, cuddio, gorchuddio.

Mae Olearius yn dywedyd (*Travels in Persia*, p. 106,) eu bod yn Russia, Persia, ac Armenia, tra byddo y briodferch yn eistedd wrth y bwrdd yn taflu llaw-liain dros ei phen, yr hon a guddiai ei gwyneb hi.

Gen. 27. 27. *Arogl ei wisgoedd ef.* Mae pobl y Dwyrain yn ymdrechu perarogli eu dillad mewn amrywiol o ffyrdd. Taenellent arnynt olew pèr, wedi ei dynu o bèr-lyisiau; hwy a'u mygdarthent â'r aroglarth gwerthfawrocaf, neu a choed pèr eu harogl, ac hefyd y maent yn gwnio darnau o'r pren *aloe* yn eu dillad. A rhai o'r pethau hyn yr oedd dillad Jacob wedi eu perarogli. Mae Pliny yn sylwi, (*Nat. Hist. b. 17, chap. 5,*) "fod y tir, ar ol sychder hir, pan yn cael ei wlychu gan y gwlaw, yn rhoddi arogl hyfryd, â pha un ni ellir cymharu dim;" ac yn fuan wedi hyny efe a chwanega, os bydd y tir yn rhoddi arogl hyfryd, pan wedi cael ei aredig, mae hyny yn brawf eï fod yn dir da."

Gen. 37. 3. *Efe a wnaeth iddo siacced fraith.* Mae *Rauwolf* (*Travels, part 1, p. 89,*) yn dywedyd, "fod Tyrciaid o radd uchel yn Aleppo yn gwisgo eu meibion, pan fyddont wedi tyfu ychydig, ac yn gallu cerdded, mewn siaccedi llaesion teg, yn y rhai y mae amrywiol o liwiau wedi eu gwau, yr rhai a edrychant yn brydferth iawn.

"Y gwasanaeth (yn y llan yn Assalt) a ymddangosai i mi agos yr un ag a welswn o'r blaen yn llanau Groegaidd Asia leiaf, a gwahaniaethent yn unig yn eu bod yn cael eu cyflawni yn yr iaith Arabaidd yn lle yr iaith Roegaidd. Yr offeiriaid a wisgent siacced fraith, gwisg ag yr ymddengys y perchir hi gymmaint trwy y parthau hyny yn y dyddiau hyn, ag y perchid hi yn nyddiau Jacob y patriarch, yr hwn a fynodd wneuthur un i'w fab anwyl Joseph: neu yn amser Sisera, pan yr oedd siacced fraith, neu wisg symmudliw, yn cael ei chyfrif yn mysg y pethau a wnaent i fynu arwyddion buddugoliaeth ac yspail werthfawr brwydr Tabor neu Cison." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes, p. 31.*

Gen. 39. 12. *Ac efe a adawodd ei wisg yn, ei llaw hi, ac a fodd.* "Yr arferiad o rwymo dillad troseddwr, gallaf gymmeryd achlysur yma i'w choffâu, a ymddengys i mi yn egluro ymadrodd yn yr Hen Destament, yr hwn yn wastad a ymddangosai i mi o'r blaen yn gryn aneglur. Mae yr amgylchiad y cyfeiriaf ato, yn perthynu i'r hanes am wraig Putiphar a Joseph,

cwppanaid o ddwfr; nid oes neb a'u rhydd iddo; efe a gynnyg y cwbl sydd ganddo, ond nid oes neb a'i gwrendy; y maent oll yn trengu, er trwy gerdded ychydig o filltiroedd yn mhellach, y gallont gael eu hacbub. Mae y camelod yn gorwedd i lawr, ac ni ellir gwneuthur iddynt godi; nid oes yn neb nerth i rodio; ond yr hwn y mae ganddo ychydig o'r gwlybwr gwerthfawr hwnw, a rodia filltir yn mhellach, ac efallai yntau hefyd yn marw wedi hyny. Os yw teithiau ar y moroedd yn beryglus, mae rhai yn yr anialwch yn beryglus hefyd. Ar y môr, mae y darpariadau yn fynych yn darfod; yn yr anialwch, teimlir yr un cyfyngder. Ar y môr cyfarfyddir ag ystormydd; yn yr anialwch ni all fod ystorum fwy na ffynnon sech. Ar y môr, cyferfydd un â lladron; efe a ddianc, a rydd ei hun i fynu, neu a fydd farw; yn yr anialwch, yspeilir y teithiwr o'i holl feddiannau a'i ddwfr. Gadewir iddo fyw, efallai, ond y fath fywyd! i farw y farwolaeth greulonaſ a mwyaf blinderus. Yn fyr bod yn sychedig mewn anialwch, heb ddwfr, yn agored i wres llosgawl yr haul, heb gysgod, ac heb obaith am gael y naill na'r llall, yw y sefylla echrysonaſ ag a all dyn gael ei osod ynddi, ac un o'r dyoddefiadau mwyaf, yr wyf yn credu, ag a all bod dynol gael ei ddwyn iddo. Mae y llygaid yn myned yn boeth, mae y tafod a'r gwefusau yn chwyddo, clywir swm cau yn y clustiau, yr hwn a ddwg yn mlaen fyddarwch, ac ymddengys fod yr ymenydd yn myned yn dew a phoeth. Cyfyd yr holl deimladau hyn oddiwrth y diffyg o ychydig o ddwfr. Yn nghanol y trueni hwn, y teithiwr a dybia ei fod yn gweled rhywbeth fel llyn neu afon o ddwfr gloyw a iachus, heb fod yn mhell oddiwrtho. Mae yr olwg dwyllodrus hon yn ddigon adnabyddus, ond er y cwbl y mae y teithiwr yn ei gyfyngder yn ymdrechu cyrhaedd yr elfen hòno, ac yn meddwl am y fath hap-pusrwydd a fyddai bod yn y cyfryw fân. Os na chaiff teithiwr ei ddiwylllo, efe a brysura ei gamrau i gyrhaedd y fân yn gynt; pa gyflymaf yr â efe rhagddo, cyflymaf yr â yr olwg ymaith, nes o'r diwedd y diflana hi yn llwyr, ac y mae y teithiwr twyll-edig yn gofyn yn fynych, pa le y mae y dwfr a welodd efe gerllaw iddo. Prin y gall efe gredu iddo gael ei dwyllo yn y fath fodd; efe a haera iddo weled y tônau yn myned o flaen y gwynt, a lluniau y creigiau uchel yn y dwfr." *Belzon's Researches in Egypt, p. 342.*

Diar. 15. 17. *Gwell yw pryd o ddail lle byddo cariad, nac ſch*

*pargedig a chas gydag ef.* Mae y geiriau hyn yn cael eu cyfieithu fel hyn gan y LXX. Κρηίδων ενισμος μετα λαχανων προς φισλιαν και χαριν, η παραθεσις μολχων μετα εχθρας, gan eu deall am 'y diwallrwydd a roddid trwy drais i deithwyr, yr hyn yr oedd yr Arabiaid a phobl orchfygedig yn gorfod plygu i'w wneuthur. Nid peth anarferol ydoedd i deithwyr fwyta ar draul rhai na chaent hyfrydwch wrth eu diwallu; a chan mai trwy orfod y gwnaent hyny, achosid casineb trwy hyny. Mae *Dr. Shaw (Travels, Pref. p. 12.)* yn sylwi ar yr amgylchiad hwn. Wrth lefaru am Barbary, efe a ddywed, "Yn y wlad hon, mae yr Arabiaid, naill ai trwy hen arferiad, trwy ryw ammod dan ba un y daliant eu tiroedd, neu rhag ofn ac o herwydd rhwymau, yn gorfod rhoddi i'r *Spahes*, a'u cwmpeini, ddigon o ymborth i ni ein hunain, yn nghyd a gwellt a haidd i'n muled a'n ceffylau. Heblaw dyaglaidd o laeth, a basgedaidd o ffigys, rhesin, neu ffrwythau y pren *date*, y rhai, ar ein dyfodiad, a roddwyd i ni, i dori ein newyn; meistr y babell, lle y llettyem, a gyrchodd o'r praidd, yn el rhifedi ein cwmpeini, fŷn neu afr, oen neu ddafad, hanner y llwdn hwn a ferwyd yn ddiwed gan ei wraig, ac a driniwyd i ni; torwyd y gweddill yn ddarnau, i'w bobi, a chadwasom ef at forefwyd, &c. y dydd nesaf." Yn y tu dalen nesaf efe a ddywed, "pan ddiwellid ni mewn modd hynaws, (canys ni rydd yr Arabiaid ddim i ni weithiau hyd nes y byddo raid iddynt wneuthur hyny,) arferai yr awdwr roddi i feistr y babell gyllell, ychydig o ddarnau o gallestr, neu ryw ychydig o bylor Seisnig," &c. I attal y fath finteioedd i fyw yn rhad arnynt, mae yr Arabiaid yn gofalu am sefydlu mewn coed, dyffrynoedd, neu leoedd anamlwg, fel y mae yn anhawdd eu cael allan.

*Preg. 7. 6. Clindarddach drain dan grochan.* Tom gwartheg oedd y cynnud a arferid yn gyffredin, ond yr oedd hwn yn araf iawn yn llosgi. Ar y cyfrif hwn bygythiai yr Arabiaid yn fynych losgi dyn â than tom gwartheg fel marwolaeth nychlyd. Dan eu crochanau yn gyffredin yr arferent hwy hwn. Mae y cynnud hwn yn wahanol iawn i ddrain ac eithin, a phethau cyffelyb, y rhai yn ddiâu a losgent yn fuan, gyda y clindarddach y cyfeirir ato yn y geiriau hyn. Wrth gymharu pethau gwahanol y gwelwn rym y gymhariaeth.

Mae y cynnud a arferir yn gyffredin gan bobl y wlad (*yr Aipt*) yn cael ei barotoi o gymmysgedd o dom camelod, llaid, a gwellt: y pethau hyn wedi eu cymmysgu yn dda, hwy a'u gwnant

un llaw ac y tarawer ef â bysodd y llaw arall. Nid oes un offeryn cerdd, tebygol, mor gyffredin yn Twrci â hwn; canys pan ddawnsio y menywod, mewn rhai o'u chwareuyddiaethau, cedwir yr amser yn wastadol â'r ergydion ar yr offeryn hwn. Cawn yr un offeryn ar eu holl gofodeiladau yn llaw y *Bacchante*. Mae hefyd yn gyffredin yn mysg y Negroaid ar y *Gold Coast* a'r *Slave Coast*. Mae *Vogel* yn ei *Account of his Ten Years' Voyage in the East Indies*, p. 463,) yn dywedyd, "Hwy a gyrhasant o'r gymmydogaeth bedair merch, yn nghyd a'u hofferynau, y rhai a elwir *rabannes*, ac a wnaethant iddynt chawareu. Ond nid yw y *rabannes* hyn yn ddim mwy na math o dabyrddau o'r un dull â'r eiddom ni, ond ddim mor uchel, ar y rhai y chwareuai y merched ag un llaw, gan ganu ar yr un pryd, a dawnsio yn eu dull hwy, a thafu eu hunain i bob math o agweddu.

Mae darluniau cyffelyb i'r rhai hyn yn fynych i'w cael yn ysgrifeniadau hen Awdwyr. Mae Plato yn sicrhau i ni fod y duwiau, a phlant y duwiau yn cael eu hanrhydeddu â dawnsiau. *De Leg. b. 7, p. 815*. Ac yr oedd efe am gyssegru caniadau a dawnsiau iddynt; pennodi gwyliau ar amserau priodol o'r flwyddyn, a gorchymmyn trwy awdurdod pa ganiadau a fyddent yn briodol i gael eu canu, a pha ddawnsiau i gael eu harfer, gyda yr aberthau a offrymmod iddynt. Hysbysa Lucian i ni fod yr Indiaid yn addoli yr haul, pan gyfodent yn y bore, nid fel y gwnelai y Groegiaid trwy gusanu eu llaw, ond trwy droi tua'r Dwyrain a dawnsio, ac fel hyn gwnelent heddych â'r duwdod fore a hwyr. *De Sallat. § 15, 16, 17. Chandler's Life of David, vol. 2, p. 116*.

"Mae yr Almai yn gwneuthur i fynu ddosparth clodfawr iawn yn y wlad hon; mewn trefn i gael derbyniad jddo rhaid meddiannu prydfferthwch, llais hyfryd, hyawdledd, a gallu i gyfansoddi ac adrodd pennillion cymmwys i'r amgylchiad. Mae yr Almai oll yn gwybod caniadau newyddion ar eu tafodau; mae eu cof yn cael ei ystorio â'r caniadau goreu yn nghlych angladdau a chariad; maent yn bresennol yn mhob gwyl, a hwy ydynt addurniadau penaf gwleddoedd. Maent yn cael eu gosod mewn math o areithfa wedi ei chyfodi yn uwch na'r lle o'i hamgylch lle y canant yn ystod y wledd; wedi hyny disgynant a ffurfiant ddawnsiau, y rhai nid ydynt mewn un modd yn debyg i'r eiddom ni. Math o chwareuau ydynt yn y rhai nid oes dim swm ond

tywysog mawr hwnw yn cyfeirio, Preg. 2, b, 6, lle, ym mysg yr angreiffiâu ereill o'i fawredd, y cyfrif efe ei erddi, a'i winllanoedd, a'i llynoedd.

"Gyda golwg ar y llynoedd, y maent yn dri mewn rhifedi, yn rhes y naill o flaen y llall, a lle i ddyfroedd yr un uchaf ddisgyn i'r ail, ac eiddo yr ail ddisgyn i'r trydydd. Maent yn bedair-onglog; maent yr un lled bob un, sef yn nghylch pedwar ugain a deg o gamrau; mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn eu hyd, mae y cyntaf yn nghylch cant a phedwar ugain a deg o gamrau; yr ail yn nghylch dau cant, y trydydd yn nghylch dau cant a thrugain. Mae mur danynt oll, a hwnw wedi ei ddwbio, a chynnwysant ddyfnder mawr o ddwfr.

"Gerllaw i'r llynoedd y mae castell hardd o wneuthuriad diweddar; ac o fewn yn nghylch cant a deugain o gamrau oddiwrthynt y mae ffynon, o'r hon yn benaf y derbyniant eu dyfroedd. Myn y mynachod pabaidd mai hon yw y *ffynnon seliedig* i'r hon y cymharir y ddyweddi, Caniad Sol. 4, 12; ac yn gadarnhad i'r dyb hon honant draddodiad, fod y brenin Solomon yn cau y ffynnonau hyn, ac yn cadw eu drysau yn seliedig âi sêl ei hun, i'r dyben o gadw y dyfroedd at ei wasanaeth ei hun yn ei burdeb naturiol. Ac nid anhawdd oedd eu cadw fel hyn, gan eu bod o dan wyneb y ddaear, ac heb un ffordd atynt ond trwy dwll bychan cyffelyb i enau ffynnon gul. Trwy y twll hwn y mae y ffordd i waered, ond nid heb anhawsdra y gellir myned dros yn nghylch pedair llathen, yna deuir i ystafell ag iddi fvd (*arch*) hardd yn y nen, yn nghylch pymtheg cam o hyd ac wyth o led. Yn ymyl hon y mae ystafell arall o'r un ddull, ond ryw beth yn llai. Mae y ddwy ystafell hyn wedi eu cuddio â mwd cerig hardd hen iawn, ac efallai yn waith Solomon ei hun.

"Islaw y llynoedd y mae dyffryn cul a cherigog, yn cael ei gau i mewn o bob tu gan fynyddoedd uchel. Myn y mynachod mai hwn yw yr ardd gauedig y cyfeirir ati yn yr un lle ag a nodwyd eisoes. Pa faint o wirionedd a all fod yn y dychymmyg hwn ni allaf ddwedyd yn bendant. Gyda golwg ar y llynoedd, mae yn debygol ddigon y dichon mai yr un rhai ydynt ag eiddo Solomon; gan na cheir y fath gyflawnder o ddwfr ffynnon yn un lle arall trwy holl Wlad Cannan." *Maundrell's Journey, April 1, p. 88, 7th edit.*

Yn mysg yr Iuddewon, ar amser priodas, mae y priob-fab yn

anfon gŵeddi at Dduw, yn yr hyn y mae y deisyfiad hwn: "Na oddef i ddeieithr fyned i mewn i'r ffynnon santaidd, fel y gallo dy was gadw had santeiddrwydd yn bur, ac na byddo y briodferch yn anffrwythlon." *Addison's Present State of the Jews*, p. 5. *Selden's Uzor*, Hebr. 3. 2.

Esay 3. 1. *Ffon bara*. Bara oedd ac yw y rhan benaf o ym-borth dynion braidd yn mhob gwlad, yn enwedig yn mysg cenhedloedd Dwyreiniol, y rhai, fel y mae *Dr. Shaw (Travels*, p. 280,) yn sylwi, vdynt yn bwyta llawer o fara; cyfrifir fod tri pherson o bob pedwar yn byw yn hollol arno, neu ynte ar y fath fwydd ag a wneir o flawd haidd neu wenith." Felly y mae *Niebuhr (Voyage en Arabie*, tom. 1, p. 188,) yn dywedyd wrthym, mai "prif faeth pobl y Dwyrain, yn gyffredin, yw bara newydd ei bobî: am hyny gofalant yn enwedig na byddont yn ddiffygiol o flawd pan deithiont yn yr anialwch."

Esay 7. 15. *Ymenyn a mel a fwyty efe*. "Hwy a roddasant i ni beth mêl ac ymenyn yn nghyd, a bara i'w wlychu ynddo; a Narsah a ddymunodd ar un o'i wŷr i gymmysgu y ddau gyffyr â'u gilydd i ni, gan ein bod ni yn lledchwith gyda y gorchwyl. Yr Arabiad, wedi iddo gvffroi y cymmysgedd yn dda â'i fys, a ddangosodd ei ddehurwydd i'w ddifa yn gystal ag i'w gymmysgu, ac a wobrwyydd ei hun am ei drafferth trwy fwyta ei hanner." *Irby and Mangles, Travels in Egypt*, &c. p. 263.

Esav 21. 14. *Dygwoch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion Tema, achubwch flaen y crwydrus â'i fara*. Yn lluddedig o herwydd gwres a syched, ni a ddaethom at ychydig o fythod mewn coed palmwydd, ac a arosasom i yfed o ffynnon ag ynddi ddwfr hyfryd iawn. Yn yr hinsawdd gogleddol hwn ni ellir ffurfio un drychfeddwl am yr hyfrydwch o yfed yn yr Aipht: ni theimlir ond ychydig o chwant bwyd; ond pan, ar ol croesi y tywod poethion, y deuwech i res hardd o goed ar lan y Nilus, ac y caffoch yr afalau melynion hirion (*lemons*), ac y cymmysgoch eu sudd â sugyr yr Aipht, a dwfr tyner yr afon, ar ol yr yfoc o'r ddiod hon, teimlwech fod pob pleser arall o eiddo y synwyrâu yn ddim mewn cymhariaeth i hwn. Wrth ystyried hyn gall un weled prydferthwech a grym y cymhariaethau ysgrvthyrol hyny, lle y mae teimladau hyfrytaf y galon yn cael eu cyffelybu i doriad syched mewn tir sychedig." *Carne's Letters from the East*, vol. 2, p. 111.

Galar 1. 11. *Hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddad-*

*ebra yr enaid.* “Cafodd gemau ag addurniadau un o fonedd-igesau y Moguliaid eu gwerthu yn angyhoedd mewn modd isel iawn er cael angenrheidiau bywyd. Yn ystod fy arosiad byr i, gwelais lawer o bethau yn cael eu gwerthu yn y modd hwn, yn enwedig drych bychan, yn nghanol maen gwerthfawr a elwir *agate*, wedi ei addurno â dail euraid, a gemau bychain ar ddull rhosynau, yr hwn a brynasid gan foneddiges weddw yn mysg y Moguliaid, am ddeg *rupee* yn unig. Am y cyfryw wlad gellid dywedyd yn briodol, fod ei gwryfon yn gystuddiedig, a'i gwragedd yn anrheithiedig; hwy a ucheneidiant am fara; hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd.” *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 121.

Galar. 4. 8. *Duach yw y golwg arnynt na'r gloyn.* Gwneir yr un darluniad o effeithiau newyn o hyd yn y gwledydd hyny. Dywed Sir John Chardin wrthym, (*Voy. tom. 3, p. 173.*) fod pobl gyffredin Persia, i osod allan ddyoddefiadau Hossein, w'yr i'w proffwyd Mohammed, ac un o'u saint ardderchocaf yr hwn a ffodd i'r diffaethwch o flaen ei elynion buddugol, y rhai a'i hymldiasant dros ddeg diwrnod yn nghyd, ac o'r diwedd a'i goddiweddasant, bron marw gan y poethder, syched, a lludded, ac a'i lladdasant gan roddi iddo lawer o archollion, mewn coffadwriaeth am yr hyn y cadwnt ddeg diwrnod yn flynyddol gyda difrifoldeb mawr; bydd y bobl gyffredin yr amser hwnw, yn gosod allan yr hyn a ddyoddefodd efe, “yn ymddangos yn hollol noeth, oddieithr y matnau hyny ag y mae gwylder yn gofyn iddynt gael eu cuddio; ac wedi dup eu hunain oll drostynt; tra y mae ereill wedi lliwio eu hunain â gwaed; ereill yn rhedig o amgylch yr heolydd, âu tafodau yn crogi allan o'u geneuau fel pobl bron syrthio gan ludded, a chan ymddwyn fel pobl mewn anobaith. gan waeddi â'u holl nerth, Hossein, &c. Y rhai a liwiasent eu hunain yn ddu, a fwriadent ddangos y cyfyngder o herwydd syched a gwres yr hwn a ddyoddefodd Hossein, yr hwn oedd gymmaint, meddant, fel y trodd efe yn ddu, ac y chwyddodd ei dafod allan o'i enau. Y rhai oeddynt yn orchuddedig â gwaed, a fwriadent osod allan y modd creulon yr archollasid ef, fel y rhedodd ei holl waed o'i wythenau cyn iddo farw.”

Galar 5. 10. *Eim croen a dduodd fel ffwrn.* Yr oedd ffyrnau symmudadwy yn cael eu harfer yn fynych yn y Dwyrain, ac yr oeddynt yn rhan o ddodrefn teithwyr Dwyreiniol. Ymddengys fod y ffyrnau hyn wedi cael eu ffurfio o wahanol ddefnyddiau,



yn ol graddau eu perchenogion. Y rhai y cyfeirir atynt gan Jeremiah wrth ddesgrifio cyfyngderau preswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, *ein croen a dduodd fel ffwrn gan y newyn tost*, ymddengys eu bod o fath isel, ac yn perthynu, fel y mae yn fwyaf tebygol, i'r dosparth cyffredin o deithwyr. Er y cwbl yr oedd rhai ereill o fath llawer uwch, hyd yn oed o fetteloedd gwerthfawr iawn. Fel hyn hysbysir i ni, mewn chwedl Arabaidd, a gyfieithwyd yn 1786, o ysgrifan anghyoeddig, mai rhan o fwyd yr olynydd hwnw i Mohammed a elwir *Vathek*, ar ei deithau, oedd teisenau moethus, y rhai a bobasid mewn ffyrnau arian. Mae St. Jerome yn desgrifio ffwrn Ddwyreiniol fel llestr crwn o bres, wedi cael ei dduo ar un tu gan y tân a'i cylchynai, er peri gwres o fewn.

Ezec. 4. 15. *Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele; mi a roddais it' fiswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.* O herwydd diffyg coed, defnyddir tom camelod yn gynnud yn y Dwyrain. Mae Shaw, yn ei ragymadrodd i'w *Deithiau*, lle y rhydd efe ddesgrifiad manol o'r dull o deithio yn y Dwyrain, yn dywedyd, o herwydd prinder tanwydd, pan byddai arnynt eisiau pobi neu ferwi rhywbeth, mai tom y camelod yr hwn a gefnid yn y manau lle yr arosasai mintoioedd blaenorol, oedd eu cynnud arferol; yr hwn, ar ol bod yn yr haul dros ddau neu dri diwrnod, a gymmerai dân yn hawdd ac a losgai fel gologsgoed. Mae yr hanes canlynol o eiddo *D' Arvieux* (*Manners of the Bedouin Arabs, chap. 14, p. 93.*) yn gwasanaethu yn well etto i egluro y testun yn yr hwn y gorchymmynir i'r prophwyd bobi bara, neu yn bytrach deisenau teneuon, â biswail gwartheg." Mae yr ail fath o fara yn cael ei bobi dan ludw, neu rhwng dau delpyn o biswail gwartheg wedi eu sychu a'u cynneu. Trwy hyn gwneir tân araf, yr hwn a boba y bara yn raddol; mae y bara hwn mor drwchus a'n teisenau ni. Mae y bywyn yn dda os bwyteir ef y diwrnod hwnw, ond y mae y grawen (*crust*) yn ddu a llosgedig, a blas y mwg arni o herwydd cael ei phobi yn y tân. Rhaid fod dyn wedi arferyd â dull y *Bedouins*, ac yn newynog iawn, cyn y gallo gael fawr o flas arni. Ni a chwanegwn hefyd yr hyn a ddywed *Niebuhr* yn ei *Ddesgrifiad o Arabia*, tu dal. 52. "Mae yr Arabiaid yn defnyddio llafn o haiarn i bobi eu barâ; neu gosodant dalp crwn o does mewn marwor coed neu biswail camelod, a chuddiant ef yn hollol â hwynt, hyd nes

Cyn i ni eistedd yn hir, pa fodd bynag, fy nghydymaith, Mallim Georgis, a roddodd i'r gymdeithas angraffit o'i alluoedd i adrodd pennillion, fel y dywedodd wrthyf, difyfyf yn yr iaith Arabaeg, y rhai, mor bell ag y gallwn ni farnu, a dybit' yn gyffredinol yn ymdrechion llwyddiannus at drefniad medrus o ran mesur a chynghanedd cywir. Wedi hyn un o'r cwmpeini a adroddodd res o linellau ar lythyrenau egwyddor yr iaith Arabaeg, cafodd chwedlau o'r *Arabian Nights* eu hadrodd gan rai o aelodau ieuangaf y cwmpeini; ac wedi hyn, yr offeiriad, yr hwn oedd yn bresennol, a orphenodd y difyrwch trwy roddi hanes mewn ymadroddion rheolaidd a dull rhwysgfawr, am ddynstr Sodom a Gomorrah, trwy iddynt gael eu llyncu yn y lle y mae y Môr marw yn awr." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 53.

"Yr unig leoced at ddifyrwch yn Cairo ydynt y *Coffee-houses*, y rhai ydynt yn gyffredin yn llawn; ond pa mor lliosog bynag y byddo y cwmpeini, mor fuan ag y dechreuo un o'r adroddwyr hyn ei chwedl, y mae dystawrwydd yn uniongyrchol. Mae llawer o'r Arabiaid yn dangos llawer iawn o nerth dychymmyg a chof yn y chwedlau hyn, y rhai ydynt wedi eu cyfaddasu mewn modd rhyfeddol i ddifyru pobl segur ac ofergoelus.

"Tyrciad, a'i bibell hir yn ei law, a wrendy dros oriau ar chwedl am ryw ryfeddod neu swyn, gyda sobrwydd mawr, gan waeddi allan, *Allah*, ac heb rwystro y llefarwr unwaith. Mae y ddefod hon, yr hon sydd yn ffynu mor gyffredinol trwy y Dwyrain, yn wasanaethgar yn gystal ag yn ddifyrus." *Cerne's Letters from the East*, vol. 1, p. 187.

2 Sam. 11. 2. *A bu ar brydnhawngwaith gyfodi o Ddafydd oddiar ei wely, a rhodio ar nen tŷ y brenin, ac oddiar y nen efe a gansu wraig yn ymolchi.* Mae yr hanes canlynol yn cyfatted, mewn rhai pethau, i'r hanes am Dafydd. "Mae Nour Jehan yn arwyddo goleuni y byd; gelwid hi hefyd goleuni y *seraglio*: yr oedd hi yn wraig i un o wŷr mawrion Twrci, teulu yr hwn a ddaethant o Persia i Hindwstan. Gan ei bod hi yn lân nodedig, yn meddu ffraethder mawr, ac yn brydyddes ragorol, yr oedd yr ymerawdwr Tyrcaid yn penderfynu ei chymeryd hi yn wraig iddo ei hun. Efe a anfonodd ei gwr, yr hwn a gyfrifid y gwr glewaf yn ei wasanaeth, â rhyw fanteioedd dan ei reolaeth i Bengal, ac wedi hynny efe a anfonodd un arall â chanddo lu mwy i'w dori ef ymaith. Wedi iddo ef gael ei ladd, llwyddwyd yn fuan gyda Nour Jehan

hyn yw y bri mwyaf a ellir ddangos i unrhyw ddyn mewn gwledd yn y Dwyrair." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 230.

Megys nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn wastadol y cyfeillion anwylaf, neu y gwestwyr a anrhydeddir fwyaf, yn cael eu gosod i eistedd yn ddigon agos i feistr y wledd, i wlychu eu dwylaw yn yr un ddysgl ag ef, (tebygol na bu i fwy na phedwar o'r dysgyblion, ar y swpper olaf, fwynhau y fraint hon), mae erchylldra y fradwriaeth yn cael ei fwyhau yn rhyfedd, pan mae un o'r ychydig hyny yn dyfod yn fradwr; ac yn y goleu hwn, yn ddiarnheu, y bwriedid dangos ymddygiad Judas trwy yr ymadrodd grymus hwn.

Marc 9. 50. *Bid genych halen yn och eich hwtain.* Yn y gwledydd sydd yn nghanol Affrica, y moethusrwydd mwyaf o'r cwbl yw halen. Plentyn yno a sugna ddarn o halen fel pe byddai sugyr. Mae y dosparthau tlotaf o'r trigolion, pa fodd bynag, mor anfynych yu cael yr hyfrydwch o gael y peth gwerthfawr hwn, fel mai yr un peth yw dywedyd fod dyn yn bwyta halen gyda ei fwyd, a dywedyd ei fod yn ddyn cyfoethog. Mae yr arferiad maith o fwydta llysiau, yn creu y fath chwant am halen, fel na all unrhyw eiriau ei ddesgrifio yn gyflawn. *Park's Travels*, p. 280.

Luc 5. 8. *Simon Pedr, pan welodd hyny, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu.* Yr oedd ymaffyd yn y gliniau yn weithred trwy yr hon gynt y dangosid parch ac yr erfynid am nodded." Ar y dydd canlynol gwnaethpwyd darpariadau i ddwyn ei ddedfryd i weithrediad. Rhai o'r rhai oeddynt bennaethiaid yn materion y tywysog, a syrthiasant wrth ei draed, ac, er trahausdra Barca Gana yn ei ymddygiad atynt wedi ei ddyrchafiad, hwy a ddeisyfiasant faddeuant i'r dyn, ac am iddo hefyd gael ei dderbyn i ffafr. Ar hyn daeth y troseddwr i'r golwg, yna y tywysog a dafodd ei hum yn ol ar ei garped, wylodd fel plentyn, a goddefodd i'r ymbiliwr, yr hwn oedd wedi nesu gerllaw iddo, ymaffyd yn ei liniau; a chan eu galw hwy oll yn feibion iddo, efe a faddeuodd i'w gaethwas edifeiriol." *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 174.

Luc 14. 13. *Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efrydion, y cloffion, y deillion.* "Cyn machludiad haul ymgasglasom yn nhŷ un o hiliogaeth prophwyd ag a wisgai wisg werdd am ei ben, yr oeddem ynghylch deg ar hugain o bersonau mewn rhifedi. Derbyniwyd ni i mewn i ystafell hardd iawn, ag iddi fwd wedi ei oreuro, eisteddleuodd a charpedi arnynt, ac iddynt glustogau gwerthfawr, a phethau ereill a ddangosent olud

y preswlydd. Yn mysg y cydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dal gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diweddaf, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-faingc, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r cydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrociaid, yn achlysuero fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Mÿn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymmwrth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, efe a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgybllion, *yn gwledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blaew tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniau yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd mÿn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a mÿn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliaeth." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydferth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd mÿn, a dygwyd cryn lawer o laeth

mrwydau anllywodraethus y troseddwyr y mae y llywodraeth yn ei goddef.

Mat. 14. 7. *Efe a addawodd troy lw roddi iddi pa beth bynag a ofynai.* Peth arferol yn y Dwyrain yw fod y rhai a fyddont yn dawnsio yn gyhoeddus ar wyliau mewn tai mawrion, yn gofyn oddiwrth y cwmpeini y rhai y buont yn eu difyru, y cyfryw wobrau ag a welo yr edrychwyr yn dda i'w cyfranu. Y gwobrau hyn yn gyffredin ydynt ddarnau bychain o arian, y rhai y mae y rhoddwyr yn lydiaw (*stick*) ar wyneb yr un a fyddo yn dawnsio. Bydd yr un y byddo y cwmpeini yn ei hoffi yn cael ei wyneb wedi ei guddio â'r cyfryw anrhegion. "*Shah Abbas*, pan yn feddw un diwrnod, a rhoddodd i fenyw a ddawnsiasai wrth ei fodd, rodd werthfawr iawn. Y nazar, wedi iddo roddi y brenin mewn cof am hyny bore drannoeth, a gymmerodd ryddid i ddywedyd wrtho fod hyny yn afradlonrwydd anniffynadwy; felly y brenin a orchymmynodd roddi iddi anrheg lawer llai ei gwerth, i'r hon y bu raid iddi foddloni." *Thevenot's Travels in Persia*, p. 100.

Mae y ddsygl arian yn beth nodedig yn yr hanes hwn am doriad pen Ioan. Yn ddiweddar, pan yr oedd ymerawdwr Twrci wedi derbyn, yn ol y ddefod, benau rhai o'i swyddwyr y rhai a dorasid ymaith wrth ei orchymmyn, efe a orchymmynodd iddynt gael eu dangos, mewn dysglau arian, wrth ddrws ei balas, a phapyr ar bob un yn dynodi ei drosedd, yr hyn a wnawd yn ol ei arch.

Yn ol hen ddefod yn Persia yr oedd gan y frenines hawl, ar ddydd gwyl genedigaeith y brenin, i arddelwi unrhyw ffafr a dybiai hi yn addas. *Amestris* a ofynodd' am i wraig *Masistus* (yr hon mewn modd camweddus y tybiai hi ei bod yn cyrchu putteiniaid at y brenin), gael ei thraddodi i'w dwylaw hi; mor fuan ag y traddodwyd hi iddi, hi a orchymmynodd i'w bronau, ei thrwyn, ei thafod, a'i gwefusau, gael eu tori ymaith, a'u taflu i'r cwn; ac iddi hi gael ei chadw i weled ei chnawd ei hun yn cael ei ddifa ganddynt. *Dr. W. Alexander's Hist. of Women*, vol. 1, p. 234.

1 Cor. 15, 32. *Os yn ol dull dyn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Ephesus.* Mae yr arferiad farbaraid o wneuthur i ddynion ymladd ag anifeiliaid gwylltion wedi ffynnu yn y Dwyrain hyd yr oesau diweddaraf. Mae *Jurgen Andersen*, yr hwn a ymwelodd â thaleithiau brenin Mogul yn 1646, yn rhoddi hanes (*Travels*, chap. 22, p. 29,) am y cyfryw ymdrechion ag anifeiliaid, y rhai a welsai efe yn Agra, trigfa brenin Mogul. Mae ei ddesgrifiad

Mae Olearius yn dywedyd (*Travels in Persia*, p. 108,) eu bod yn Russia, Persia, ac Armenia, tra byddo y briodferch yn eistedd wrth y bwrdd yn taflu llaw-liain dros ei phen, yr hon a guddiai ei gwyneb hi.

Gen. 27. 27. *Arogl ei wisgoedd ef.* Mae pobl y Dwyrain yn ymdrechu perarogli eu dillad mewn amrywiol o ffyrdd. Taenellent arnynt olew pèr, wedi ei dynu o bèr-lyisiau; hwy a'u mygdarthent â'r aroglarth gwerthfawrocaf, neu a choed pèr eu harogl, ac hefyd y maent yn gwnio darnau o'r pren *aloe* yn eu dillad. A rhai o'r pethau hyn yr oedd dillad Jacob wedi eu perarogli. Mae Pliny yn sylwi, (*Nat. Hist. b. 17, chap. 5,*) "fod y tir, ar ol sychder hir, pan yn cael ei wlychu gan y gwlaw, yn rhoddi arogl hyfryd, â pha un ni ellir cymharu dim;" ac yn fuan wedi hyny efe a chwanea, os bydd y tir yn rhoddi arogl hyfryd, pan wedi cael ei aredig, mae hyny yn brawf eï fod yn dir da."

Gen. 37. 3. *Efe a wnaeth iddo siacced fraith.* Mae *Rauwolf* (*Travels, part 1, p. 89,*) yn dywedyd, "fod Tyroiaid o radd uohel yn Aleppo yn gwisgo eu meibion, pan fyddont wedi tyfu ychydig, ac yn gallu cerdded, mewn siaccedi llaesion teg, yn y rhai y mae amrywiol o liwiau wedi eu gwau, yr rhai a edrychant yn brydferth iawn.

"Y gwasanaeth (yn y llan yn Assalt) a ymddangosai i mi agos yr un ag a welswn o'r blaen yn llanau Groegaidd Asia leiaf, a gwahaniaethent yn unig yn eu bod yn cael eu cyflawni yn yr iaith Arabaidd yn lle yr iaith Roegaidd. Yr offeiriaid a wisgent siacced fraith, gwisg ag yr ymddengys y perchir hi gymmaint trwy y parthau hyny yn y dyddiau hyn, ag y perchid hi yn nyddiau Jacob y patriarch, yr hwn a fynodd wneuthur un i'w fab anwyl Joseph: neu yn amser Sisera, pan yr oedd siacced fraith, neu wisg symmudliw, yn cael ei chyfrif yn mysz y pethau a wnaent i fynu arwyddion buddugoliaeth ac yspail werthfawr brwydr Tabor neu Cison." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes, p. 31.*

Gen. 39. 12. *Ac efe a adawodd ei wisg yn, ei llaw hi, ac a fodd.* "Yr arferiad o rwymo dillad troseddwr, gallaf gymmeryd achlysur yma i'w choffâu, a ymddengys i mi yn egluro ymadrodd yn yr Hen Destament, yr hwn yn wastad a ymddangosai i mi o'r blaen yn gryn aneglur. Mae yr amgylchiad y cyfeiriaf ato, yn perthynu i'r hanes am wraig Putiphar a Joseph,

yn yr hwn y coffeir pan na allai hi lwyddo gydag ef i gyd-synio â'i dymuniadau, hi a'i daliodd ef erbyn ei wisg, gan ddywedyd, *Gorwedd gyda mi; yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi, ac a ffodd, ac a aeth allan*: a phan gyhuddodd hi Joseph wrth ei gwr, hi a ddangosodd y wisg fel prawf o'i euog-rwydd, gan ddywedyd, *Yr Hebrëwas yr hun a ddygaist i ni, a ddaeth ataf i'm gwaradwyddo; ond pan ddyrchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl, ac a ffodd allan*: ac yn ddiwed wrth glywed y geiriau hyn, enynnodd digllonedd [Putiphar, a rhoddwyd Joseph mewn carchar. Yn awr, ymddengys wrth ddarllen hyn heb eglurhad, i Putiphar, yr hwn yr ymddengys ei fod yn ddynd da, weithredu ar yr achlysur hwn yn anghyfiawn iawn, gan nad ymddengys iddo wneuthur un ymofyniad yn nghylch euogrwydd Joseph, ond iddo ar unwaith, ar haeriad ei wraig, ei roddi mewn carchar. Yn y gwrthwyneb, os oedd yr un arferiad ag sydd yn awr yn gyffredin yn Abyssinia, yn ffynnu yr amser hwnw yn yr Aipht, gwelir i Putiphar weithredu yn gyfiawn, yn ol rheol sefydledig y wlad, gan yr ystyrir hyn yn wastad fel prawf sicr o euogrwydd, yr hwn ni ofyn am i dystiolaeth bellach gael ei dwyn, os bydd i ddynd wedi yr ymafer unwaith yn ei wisg, redeg ymaith, a gadael ei wisg ar ol." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 409.

Gen. 45. 22. *I bob un o honymt oll y rhoddes bwr o ddillad.* Ymddengys fod anrhegion o ddillad yn bethau cyffredin yn mysgr pob gradd yn y Dwyrain. Mae yr ymadrodd a goffawyd yn awr yn angrafft o hyny. Gweler hefyd 2 Cron. 9. 24. Cedwir yr arferiad hon o hyd. Mae *De la Mottraye* yn ein cynnysgaeddu â hysbysrwydd neillduol yn nghylch hyn. "Y prif weinidog Tyrcaidd a aeth i mewn trwy ddrws arall, y cenhadon a godasant i'w anerch ef yn ol eu harfer, yr hyn a ddychwelodd efe trwy ostwng ychydig ar ei ben: wedi hyny efe a eisteddodd i lawr ar gongl yr esmwyth-faingc, yr hwn yw y lle anrhydeddusaf; yna ei ganghellydd, ac ereill o'i swyddwyr, a ddaethant ac a safasant o'i flaen, hyd nes y dygwyd *coffee* i mewn; swyddwr Ffrainc a gyflwynodd un arall iddo fel ei olynnydd ef, yr hwn a draddododd iddo ef lythyrâu ei feistr, y rhai a dalent foes iddo oddiwrth ei fawrhydi ac yntau ei hun, i'r rhai yr atebodd y prif swyddog Tyrcaidd yn hynaws iawn; yna, ar ol peth ymddyddan, yn nghylch y parodrwydd o'r

ddau tu i barhau cymmod rhwng yr ymerawdwr Tyrcidd a llys Ffrainc, yr hwn y sicrhaodd swyddog Ffrainc fod y brenin ei feistr mewn modd didwyll am ei feithrin, wedi hyny hwy a roddasant ddwy ddysglaid o *goffee* i'r cenhadau, gyda bwydydd melusion, &c. Yna hwy a'u gwisgasant â gwisgoedd o frethyn aurfrodiog, ag arnynt flodau mawrion o sidan; ac i'r rhai a dderbyniwyd i'r ystafell gyda hwynt, hwy a roddasant rai ereill cyffelyb; gwnawd hyn oll yn ol y ddefod a arferir at bawb gweinidogion tramor." *Travels*, p. 199. Gweler hefyd Ezra 2. 69. Neh. 7. 70.

"Ar ddiwedd gwledd, y mae yr Hindwaid, yn mysg anrhegion ereill i'r gwestwyr, yn gyffredin yn rhoddi gwisgoedd newyddion; darn o frethyn yn unig yw y wisg Hindwaidd, nad yw yn gofyn gwaith o eiddo y dilledydd." *Ward's View of the Hindoos*, vol. 2, p. 318, &c.

Ecsod. 25. 4. *Lhain main*. Dan yr enw hwn tybiwyd y llef arid am gottwm. Mae cottwm yn tyfu yn mharthau poethion Affrica ac America, ar goed hirion dreiniog; yn India ar fanwydd uchel; ac yn Melita ac ynysoedd yr *Archipelago* ar blanhigyn llysieuol.

Yn *Guzerat* mae y meusydd *rice* a chottwm yn cael eu planu ar ddechreu y tymmor gwlawog, yn Mehefin. Mae y blaenaf yn cael ei hau mewn cwysau, ac yn cael ei fedi yn mhen yn nghylch tri mis; mae manwydd y cottwm, y rhai ydynt yn tyfu i'r uchder o dair neu bedair troedfedd, ac mewn gwyrddlesni ynt debyg i lwyn *currants*, yn gofyn amser hwy i ddwyn eu cynnyrch tyner i berffeithrwydd. Y manwydd hyn, trwy eu bod wedi cael eu planu rhwng y cwysau o *rice*, nid ydynt yn rhwystro iddo dyfu nac iddo gael ei fedi. Yn fuan ar ol y cynhauaf *rice*, hwy a roddant allan flodeuyn melyn hardd; canlynir hrwn gan godau gleision, yn llawn o fywyn llinynog; mae y codau yn troi yn llwyd a chaled wrth addfedu, ac yna yn rhanu yn ddwy neu dair rhan, yn cynnwys y cottwm. Maes ffrwythlon, yn dangos ar yr un amser flodeuyn llydan, codau agored, a llafnau gwynion o gottwm addfed, yw un o'r gwrthrychau prydferthaf yn amaethyddiaeth Hindwstan. Dywed *Herodotus*, fod gan yr Indiaid, yn ei amser ef, fath o blanhigyn, yr hwn, yn lle ffrwyth, a ddygai wla'n gwell a thecach nac eiddo y defaid, o'r hwn yr oedd y brodorion yn *gwneuthur eu dillad*; yr un, yn ddiarnheu, oedd y planhigyn hwn a phlanhigyn cottwm diweddar yr India. *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 2, p. 405.



yn beleni, ac a'u rhoddant ar furiau eu bythod i grasu yn yr haul. *Clarke's Travels, vol. 3, p. 34.*

"Yn mhob rhan o'r pentref yr oedd pentyrau o ddom gwartheg, y rhai a gasglasid gan y trigolion yn gynnud erbyn y gauaf. Yr oedd muriau eu tai hefyd wedi eu gorchuddio â pheleni o'r un defnyddiau, y rhai oeddynt bryd lyny yn sychu fel chwanegiadau at eu ystôr. Mae plant y bobl gyffredin yn ei gasglu; ac mi a welais yn fynych ddau o'r rhai bychain hyn yn ymryson am dano gyda y gwres mwyaf." *Morier's Journey through Persia, p. 272.*

"O herwydd prinder coed, y mae tom gwartheg yn cael ei ddefnyddio yn gynnud, ac y mae y bobl yn ei gasglu gyda gofal mawr, gan ei wneuthur yn deisenau, y rhai a sychant yn yr haul, at eu gwasanaeth yn y gegin, ac yn enwedig yn y gauaf. *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 5. Walpole's Memoirs of Turkey, vol. 2, p. 368. Forbes's Oriental Memoirs, vol. 3, p. 96. Dubois' Description of the People of India, p. 290.*

Preg. 11. 1. *Bwrw dy fara ar wyneb y dyfroedd, canys ti a'i cei ar ol llawer o ddyddiau.* Mae gan yr Arabiaid ddiareb gyffelyb iawn, "Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dyfroedd, efe ryw ddiwrnod a ad-delir i ti." Mae y Tyrciaid wedi ei benthycu hi oddiar yr Arabiaid, gydag ychydig o gyfnewidiad; yn eu dull hwy y mae hi fel y canlyn: "Gwna ddaioni, bwrw dy fara i'r dwfr; hyd yn oed os na wybydd y pysgod, etto y Creawdwr a wybydd hyny." Ystyr y ddiareb Hebraeg, yn gystal a'r un Arabaidd a Thyrciaidd, yw: "Cyfrana dy fara i bawb pobl dlodion, pa un a fyddont adnabyddus neu anadnabyddus i ti; bwrw dy fara hyd yn oed i'r dwfr, heb ofalu pa un a nofia efe ni peidio, ac heb ofalu pwy a gaffo les oddiwrtho, pa un ai dynion ai pysgod; canys hyd yn nod yr elusen hon, yr hon a rodder ar antur, Duw a'i tal yn ol i ti yn gynt neu yn hwyrach." *Von Dicg's Memorabilia of Asia, vol. 1, p. 106.*

Caniad Solomon 4. 12. *Gawdd gauedig yw fy chwaer, a'm dyweddi; ffynnon gloedig, ffynnon seliedig yw.* "Y bore hwn ni a aethom i weled rhai lleoedd nodedig yn nghymydogoeth Beth'lehem. Y lle cyntaf y cyfeiriasom ein taith ato, oedd y ffynnonau, y llynoedd, a'r gerddi ardderchog hyny ag oeddynt o fewn i ychydig o ffordd i Beth'lehem, i'r dehau, y rhai y dywedir iddynt gael eu dyfeisio gan y brenin Solomon, a'u bod yn hyfrydwch iddo. At y gweithiau a'r lleoedd hyn o hyfrydwch tybir fod y

tywysog mawr hwnw yn cyfeirio, Preg. 2, 6, 6, lle, yn mysg yr angreiffitiau ereill o'i fawredd, y cyfrif efe ei erddi, a'i winllanoedd, a'i llynoedd.

"Gyda golwg ar y llynoedd, y maent yn dri mewn rhifedi, yn rhes y naill o flaen y llall, a lle i ddyfroedd yr un uchaf ddisgyn i'r ail, ac eiddo yr ail ddisgyn i'r trydydd. Maent yn bedair-onglog; maent yr un lled bob un, sef yn nghylch pedwar ugain a deg o gamrau; mae rhyw ychydig o wahaniaeth rhyngddynt yn eu hyd, mae y cyntaf yn nghylch cant a phedwar ugain a deg o gamrau; yr ail yn nghylch dau cant, y trydydd yn nghylch dau cant a thrugain. Mae mur danynt oll, a hwnw wedi ei ddwbio, a chynnwysant ddyfnder mawr o ddwfr.

"Gerllaw i'r llynoedd y mae castell hardd o wneuthuriad diweddar; ac o fewn yn nghylch cant a deugain o gamrau oddiwrrhynt y mae ffynon, o'r hon yn benaf y derbyniant eu dyfroedd. Myn y mynachod pabaidd mai hon yw y *ffynnon seliedig* i'r hon y cymharir y ddyweddi, Caniad Sol. 4, 12; ac yn gadarnhad i'r dyb hon honant draddodiad, fod y brenin Solomon yn cau y ffynnonau hyn, ac yn cadw eu drysau yn seliedig âi sel ei hun, i'r dyben o gadw y dyfroedd at ei wasanaeth ei hun yn ei burdeb naturiol. Ac nid anhawdd oedd eu cadw fel hyn, gan eu bod o dan wyneb y ddaear, ac heb un ffordd atynt ond trwy dwll bychan cyffelyb i enau ffynnon gul. Trwy y twll hwn y mae y ffordd i waered, ond nid heb anhawsdra y gellir myned dros yn nghylch pedair llathen, yna deuir i ystafell ag iddi fwd (*arch*) hardd yn y nen, yn nghylch pymtheg cam o byd ac wyth o led. Yn ymyl hon y mae ystafell arall o'r un ddull, ond ryw beth yn llai. Mae y ddwy ystafell hyn wedi eu cuddio â mwd cerig hardd hen iawn, ac efallai yn waith Solomon ei hun.

"Islaw y llynoedd y mae dyffryn cul a cherigog, yn cael ei gau i mewn o bob tu gan fynyddoedd uchel. Myn y mynachod mai hwn yw yr ardd gauedig y cyfeirir ati yn yr un lle ag a nodwyd eisoes. Pa faint o wirionedd a all fod yn y dychymmyg hwn ni allaf ddwedyd yn bendant. Gyda golwg ar y llynoedd, mae yn debygol ddigon y dichon mai yr un rhai ydynt ag eiddo Solomon; gan na cheir y fath gyflawnder o ddwfr ffynnon yn un lle arall trwy holl Wlad Cannan." *Maundrell's Journey, April 1, p. 88, 7th edit.*

Yn mysg yr Iuddewon, ar amser priodas, mae y priob-fab yn

anfon gweddi at Dduw, yn yr hyn y mae y deisyfiad hwn: "Na oddef i ddyeithr fýned i mewn i'r ffynnon santeidd, fel y gallo dy was gadw had santeiddrwydd yn bur, ac na byddo y briodferch yn anffrwythlon." *Addison's Present State of the Jews*, p. 5. *Selden's Uxor*, Hebr. 3. 2.

Esay 3. 1. *Efon bara*. Bara oedd ac yw y rhan benaf o ymborth dynion braidd yn mhob gwlad, yn enwedig yn mysg cenhedloedd Dwyreiniol, y rhai, fel y mae *Dr. Shaw (Travels*, p. 230,) yn sylwi, ydynt yn bwyta llawer o fara; cyfrifir fod tri pherson o bob pedwar yn byw yn hollol arno, neu ynte ar y fath fwydd ag a wneir o flawd haidd neu wenith." Felly y mae *Niebuhr (Voyage en Arabie; tom. 1, p. 188)*, yn dywedyd wrthym, mai "prif faeth pobl y Dwyrain, yn gyffredin, yw bara newydd ei bobî: am hyny gofalant yn enwedig na byddont yn ddiffygiol o flawd pan deithiont yn yr anialwch."

Esay 7. 15. *Ymenyn a mel a fwyty efe*. "Hwy a roddasant i ni beth mel ac ymenyn yn nghyd, a bara i'w wlychu ynddo; a Narsah a ddymunodd ar un o'i wŷr i gymmysgu y ddau gyffyr â'u gilydd i ni, gan ein bod ni yn lledchwith gyda y gorchwyl. Yr Arabiad, wedi iddo gvffroi y cymmysgedd yn dda â'i fys, a ddangosodd ei ddehurwydd i'w ddifa yn gystal ag i'w gymmysgu, ac a wobrwyoedd ei hun am ei drafferth trwy fwyta ei hanner." *Irby and Mangles, Travels in Egypt, &c. p. 263.*

Esav 21. 14. *Dygwch ddyfroedd i gyfarfod â'r sychedig, trigolion Tema, achubwch flaen y crwydrus â'i fara*. Yn lluddedig o herwydd gwres a syched, ni a ddaethom at ychydig o fythod mewn cord palmwydd, ac a arosasom i yfed o ffynnon ag ynddi ddwfr hyfryd iawn. Yn yr hinsawdd gogleddol hwn ni ellir ffurfio un drychfeddwl am yr hyfrydwch o yfed yn yr Aipht: ni theimlir ond ychydig o chwant bwyd; ond pan, ar ol croesi y tywod poethion, y deuwech i res hardd o goed ar lan y Nilus, ac y caffoch yr afalau melynion hirion (*lemons*), ac y cymmysgoch eu sudd â sugyr yr Aipht, a dwfr tyner yr afon, ar ol yr yfoc h o'r ddiod hon, teimlwch fod pob pleser arall o eiddo y synwrau yn ddim mewn cymhariaeth i hwn. Wrth ystyried hyn gall un weled prydfwrthwch a grym y cymhariaethau ysgrthyrol hyny, lle y mae teimladau hyfrytaf y galon yn cael eu cyffelybu i doriad syched mewn tir sychedig." *Carne's Letters from the East, vol. 2, p. 111.*

Galar 1. 11. *Hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd i ddad-*

*eburu yr enaid.* “Cafodd gemau ag addurniadau un o fonedd-igessau y Moguliaid eu gwerthu yn angyhoedd mewn modd isel iawn er cael angenrheidiau bywyd. Yn ystod fy arosiad byr i, gwelais lawer o bethau yn cael eu gwerthu yn y modd hwn, yn enwedig drych bychan, yn nghanol maen gwerthfawr a elwir *agate*, wedi ei addurno â dail euraid, a gemau bychain ar ddull rhosynau, yr hwn a brynasid gan foneddiges weddw yn mysg y Mogulisid, am ddeg *rupee* yn unig. Am y cyfryw wlad gellid dywedyd yn briodol, fod ei gwryfon yn gystuddiedig, a'i gwragedd yn anrheithiedig; hwy a ucheneidiant am fara; hwy a roddasant eu hoff-bethau am fwyd.” *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 121.

Galar. 4. 8. *Duach yw y golwg arnynt na'r gloyn.* Gwneir yr un darluniad o effeithiau newyn o hyd yn y gwledydd hyny. Dywed Sir John Chardin wrthym, (*Voy. tom. 3, p. 173*), fod pobl gyffredin Persia, i osod allan ddyoddefiadau Hossein, wŷr i'w proffwyd Mohammed, ac un o'u saint ardderchocaf yr hwn a fiodd i'r diffaethwch o flaen ei etynion buddugol, y rhai a'i hymldiasant dros ddeg diwrnod yn nghyd, ac o'r diwedd a'i goddiweddasant, bron marw gan y poethder, syched, a lludded, ac a'i lladdasant gan roddi iddo lawer o archollion, mewn coffadwriaeth am yr hyn y cadwnt ddeg diwrnod yn flynyddol gyda difrifoldeb mawr; bydd y bobl gyffredin yr amser hwnw, yn gosod allan yr hyn a ddyoddefodd efe, “yn ymddangos yn hollol noeth, oddieithr y manau hyny ag y mae gwylder yn gofyn iddynt gael eu cuddio; ac wedi dup eu hunain oll drostynt; tra y mae ereill wedi lliwio eu hunain â gwaed; ereill yn rhedig o smgylch yr heolydd, â tafodau yn crogi allan o'u geneuau fel pobl bron syrthio gan ludded, a chan ymddwyn fel pobl mewn anobaith. gan waeddi â'u holl nerth, Hossein, &c. Y rhai a liwiasent eu hunain yn ddu, a fwriadent ddangos y cyfyngder o herwydd syched a gwres yr hwn a ddyoddefodd Hossein, yr hwn oedd gymmaint, meddant, fel y trodd efe yn ddu, ac y chwyddodd ei dafod allan o'i enau. Y rhai oeddynt yn orchuddedig â gwaed, a fwriadent osod allan y modd creulon yr archollasid ef, fel y rhedodd ei holl waed o'i wythenau cyn iddo farw.”

Galar 5. 10. *Eîn croen a dduodd fel ffwrn.* Yr oedd ffyrnau symmudadwy yn cael eu harfer yn fynych yn y Dwyrain, ac yr oeddynt yn rhan o ddodrefn teithwyr Dwyrainiol. Ymddengys fod y ffyrnau hyn wedi cael eu ffurfio o wahanol ddefnyddiau,

yn ol graddau eu perchenogion. Y rhai y cyfeirir atynt gan Jeremiah wrth ddesgrifio cyfyngderau preswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, *ein croen a dduodd fel ffwrn gan y newyn tost*, ymddengys eu bod o fath isel, ac yn perthynu, fel y mae yn fwyaf tebygol, i'r dosparth cyffredin o deithwyr. Er y cwbl yr oedd rhai ereill o fath llawer uwch, hyd yn oed o fetteloedd gwerthfawr iawn. Fel hyn hysbysir i ni, mewn chwedl Arabaidd, a gyfieithwyd yn 1786, o ysgrifen anghyoeddig, mai rhan o fwyd yr olynnydd hwnw i Mohammed a elwir *Vathek*, ar ei deithau, oedd teisenau moethus, y rhai a bobasid mewn ffyrnau arian. Mae St. Jerome yn desgrifio ffwrn Ddwyreiniol fel llestr crwn o bres, wedi cael ei dduo ar un tu gan y tân a'i cylchynai, er peri gwres o fewn.

Ezec. 4. 15. *Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele, mi a roddais i' fswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.* O herwydd diffyg coed, defnyddir tom camelod yn gynnud yn y Dwyrain. Mae Shaw, yn ei ragymadrodd i'w *Deithiau*, lle y rhydd efe ddesgrifiad manol o'r dull o deithio yn y Dwyrain, yn dywedyd, o herwydd prinder tanwydd, pan byddai arnynt eisiau pobi neu ferwi rhywbeth, mai tom y camelod yr hwn a geffid yn y manau lle yr arosasai minteioedd blaenorol, oedd eu cynnud arferol; yr hwn, ar ol bod yn yr haul dros ddau neu dri diwrnod, a gymmerai dân yn hawdd ac a losgai fel gologgoed. Mae yr hanes canlynol o eiddo *D'Arvicur* (*Manners of the Bedouin Arabs, chap. 14, p. 93.*) yn gwasanaethu yn well etto i egluro y testun yn yr hwn y gorchymynir i'r prophwyd bobi bara, neu yn bytrach deisenau teneuon, â biswail gwartheg." Mae yr ail fath o fara yn cael ei bobi dan ludw, neu rhwng dau delpyn o biswail gwartheg wedi eu sychu a'u cynneu. Trwy hyn gwneir tân araf, yr hwn a boba y bara yn raddol; mae y bara hwn mor drwchus a'n teisenau ni. Mae y bywyn yn dda os bwyteir ef y diwrnod hwnw, ond y mae y grawen (*crust*) yn ddu a llosgedig, a blas y mwg arni o herwydd cael ei phobi yn y tân. Rhaid fod dyn wedi arferyd â dull y *Bedouins*, ac yn newynog iawn, cyn y gallo gael fawr o fias arni. Ni a chwaneigwn hefyd yr hyn a ddywed *Niebuhr* yn ei *Ddesgrifiad o Arabia*, tu dal. 52. "Mae yr Arabiaid yn defnyddio llafn o haiarn i bobi eu barâ; neu gosodant dalp crwn o does mewn marwor coed neu biswail camelod, a chuddiant ef yn hollol â hwynt, hyd nes

pp. 61, 154. Dywed *Pococke* (*Travels*, vol. 1, p. 186, note,) eu bod yn gosod i lawr eu henwau â'u sel, yr hon a wisgant ar eu bys, a'r hon a dduir pan fyddont yn bwriadu ei defnyddio." Mae yr arferiad o osod llestr yr ingc wrth yr ochor, neu ar y glun medd *Olearius*, yn parhau yn y Dwyrain hyd y dydd hwn. Hysbysa Dr. Shaw i ni, (*Travels*, p. 227,) "fod yr ysgrifenyddion yn mysg yr Ethiopiaid yn *Barbary*, yn crogi eu llestr ingc wrth eu gwregys; arferiad ag sydd mor hen a dyddiau Ezeziel, pen. 9. 2." Ac mewn sylw-nod ese a chwangea, "Fod yn y llestri hyn le hir a gwastad dan y gwregys i ddal y pin, ond fod y lle a fwrieder i'r ingc yn betryal (*square*), a chaead arno: mae hwn ar y tu allan i'r gwregys." *Mr. Hanway* (*Travels*, vol. 1, p. 332) a ddywed am y *Persiaid*, "Mae eu hysgrifenyddion yn dwyn eu hinge a'u pinau ysgrifenu gyda hwynt mewn llestr yr hwn a osodant wrth eu gwregys." Dywed *Malcolm* wrthym (*History of Persia*, vol. 1, chap. 10,) "fod y llestr hwn yn nghylch deg neu ddeuddeg modfedd o hyd, ac yn dair neu bedair o amgylch, wedi ei baentio yn hardd, ac mae yn cael ei wisgo gan weinidogion yn Persia fel arwydd o'u swydd." See also *Sir R. K. Porter's Travels in Persia*, vol. 1, p. 365.

Act. 8. 30. *A Philip a redodd atto ef, ac a'i clylu ef yn darllain y Prophwyd Esaias.* Mae eu harferiad a ddarllain yn uchel yn dwyn i'm cof ryw sylwadau a wneuthum yn fynych ar yr arferion Dwyreiniol. Ymddengys nad yw y bobl yn y gwledydd hyn yn deall llyfr heb ei ddarllen yn uchel. Antarrant ddarllain yn uchel, mewn ffordd o ganu, gan symmud eu penau a'u cyrph, gan osod pwyslais ar ryw leocedd neillduol, er ddim mewn dull ag a foddiai ein clustiau ni. Yn fynych iawn ymddengys eu bod yn darllen heb ganfod yr ystyr: ac yn foddlonant ar eu bod yn gallu myned trwy y gorchwyl o ddarllen mewn rhyw ddull. Ant dros yr attal-nodau fel penau chanfyddent hwynt, ac arosant yn nghanol yr ymadiod, pa le bynag y dygwyddo fod arnynt angen cymmeryd anadl. Ar un achlysur, pan yr oeddwn yn dangos i rai personau mewn llyfr Seisnig y modd y darllenwn ni, mewn modd rhwydd ac eglur, hwy a chwarddasant, ac a ddywedasant, Nid darllen ond siarad yr ydych. Minnau a allaswn ddywedyd wrth un o honynt hwythau, Nid darllen ond canu yr ydych. Mi a allaf ddeall yn hawdd iawn y modd y gallasai Philip glywed pa ran o *Esaias*

hyn yw y bri mwyaf a ellir ddangos i unrhyw ddyn mewn gwledd yn y Dwyrain." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 230.

Megys nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn wastadol y cyfeillion anwylaf, neu y gwestwyr a anrhydeddir fwyaf, yn cael eu gosod i eistedd yn ddigon agos i feistr y wledd, i wlychu eu dwylaw yn yr un ddsygl ag ef, (tebygol na bu i fwy na phedwar o'r dysgyblion, ar y swpper olaf, fwynhau y fraint hon), mae erchylldra y fradwriaeth yn cael ei fwyhau yn rhyfedd, pan mae un o'r ychydig hyny yn dyfod yn fradwr; ac yn y goleu hwn, yn ddiarnheu, y bwriedid dangos ymddygiad Judas trwy yr ymadrodd grymus hwn.

Marc 9. 50. *Bid genych halen ynnoch eich hwtain.* Yn y gwledydd sydd yn nghanol Affrica, y moethusrwydd mwyaf o'r cwbl yw halen. Plentyn yno a sugna ddarn o halen fel pe byddai sugyr. Mae y dosparthau tlotaf o'r trigolion, pa fodd bynag, mor anfynych yu cael yr hyfrydweh o gael y peth gwerthfawr hwn, fel mai yr un peth yw dywedyd fod dyn yn bwyta halen gyda ei fwyd, a dywedyd ei fod yn ddyn cyfoethog. Mae yr arferiad maith o fwydta llyisiau, yn creu y fath chwant am halen, fel na all unrhyw eiriau ei ddesgrifio yn gyflawn. *Park's Travels*, p. 280.

Luc 5. 8. *Simon Pedr, pan welodd hyny, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu.* Yr oedd ymaflyd yn y gliniau yn weithred trwy yr hon gynt y dangosid parch ac yr erfynid am nodded." Ar y dydd canlynol gwnaethpwyd darpariadau i ddwyn ei ddedfryd i weithrediad. Rhai o'r rhai oeddynt benaethiaid yn materion y tywysog, a syrthiasant wrth ei draed, ac, er trahausdra Barca Gana yn ei ymddygiad atynt wedi ei ddyrchafiad, hwy a ddeisyfiasant faddeuant i'r dyn, ac am iddo hefyd gael ei dderbyn i ffafr. Ar hyn daeth y troseddwr i'r golwg, yna y tywysog a dafodd ei hun yn ol ar ei garped, wylodd fel plentyn, a goddefodd i'r ymbiliwr, yr hwn oedd wedi nesu gerllaw iddo, ymaflyd yn ei liniau; a chan eu galw hwy oll yn feibion iddo, efe a faddeuodd i'w gaethwas edifeiriol." *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 174.

Luc 14. 18. *Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr frydion, y cloffion, y deillion.* "Cyn machludiad haul ymgasglasom yn nhŷ un o hiliogaeth prophwyd ag a wisgai wisg werdd am ei ben, yr oeddem ynghylch deg ar hugain o bersonau mewn rhifedi. Derbyniwyd ni i mewn i ystafell hardd iawn, ag iddi fwd wedi ei oreuro, eisteddleoedd a charpedi arnynt, ac iddynt glustogau gwerthfawr, a phethau ereill a ddangosent olud

y preswlydd. Yn mysg y cydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dal gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diweddaf, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-faingc, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r cydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrciaid, yn achlysuero fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Myn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymmwrth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, ese a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgybllion, *yn gwledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blaen tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniaw yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd myn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a myn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliaeth." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydferth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd myn, a dygwyd cryn lawer o laeth



gyda deheurwydd mawr nes y byddo y deisen mor deneu ag yr ewyllysiont iddi fod. Yna hwy a wlychant un tu iddi â dwfr, ac ar yr un pryd hwy a wlychant y llaw a'r fraich sydd i'w gosod yn y ffwrn. Mae y deisen yn glynu yn ddiogel wrth ochr y ffwrn, hyd nes y pober hi yn ddigonol, pan, os na ofelir am dani, y syrth i blith y marwor. Pe na byddent yn gyflym iawn gyda y gwaith hwn, llosgai gwres y ffwrn eu breichiau; ond hwy a'i cyflawnant gyda y fath ddeheurwydd rhyfedd fel y mae un wraig yn parhau i gadw tair neu bedair teisen yn y ffwrn ar unwaith, hyd nes y gorpieno hi bobi. Nid yw y dull hwn o bobi yn gofyn hanner y tanwydd ag a ddifair yn Ewrop."

Gen. 18. 7. *Abraham a redodd at y gwartheg, ac a gymmerodd lo tyner a da.* Ymddengys i Abraham fod yn weithgar iawn mewn paratoi i roesawu yr angelion. Ond pan ddywedir iddo *redeg at y gwartheg a chymmeryd llo*, rhaid i ni beidio meddwl iddo ddarostwng ei hun at unrhyw orchwyl gwasaid neu anwedus i'w radd, o herwydd hysbysir i ni "nad yw y tywysog mwyaf yn y gwledydd hyn yn cywilyddio cyrchu oen o'r praid, a'i ladd, tra y mae y dywysoges yn anamyneddgar hyd nes y byddo hi wedi parottoi ei than a'i chrochan i'w drin." *Shaw's Travels*, p. 301.

"Gan fod y Panther, am ddau o'r gloch, yn rhy bell i ni allu gobeithio ciniawa ar ei bwrdd, ni a roddasom ein hachos o flaen y Dola caredig, yr hwn a addawodd yn ewyllysgar roddi i ni y peth goreu a allasid gael ar yr ynys. Lladdwyd mŷn ieuanc hyfryd, a rhoddwyd ef dan ofal ei wraig, yr hon a gyflawnodd swydd cogyddes, mewn ystafell, o fewn i'r hon ni oddefid i ni fyned. Mewn yn nghylch dwy awr dygwyd y cwbl yn barod i'r bwrdd mewn phiolau coed; ac yn lle lliain bwrdd, cawsom restogau (*mats*) newyddion. Yr oedd y foneddiges wedi gwneuthur rhai teisenau hyfryd iawn hefyd i ni: yr oedd y mŷn wedi ei bobi yn rhagorol, ac nid wyf yn cofio i mi erioed fwynhau ciniaw yn well." *Lord Valentia's Travels*, vol. 2, p. 323.

Yr Aga, wedi iddo ddarparu ciniaw i mi, a wahoddodd amrywiol o'r brodorion i eistedd i lawr. Dygwyd dwfr mewn croen gan un o'r gweision, i ni olchi ein dwylaw. Dygwyd i ni ddau aderyn (*fowl*), wedi eu pobi, ar deisenau o flawd gwenith, mewn phiolau coed, yn cael eu cuddio â rhestog bychan, a rhifedi o'r un fath deisenau mewn phiol arall. Yn nghanol y rhai hyn,

yr oedd ymenyn toddedig, a ffrwythau y pren *date*. Cafodd y rhai hyn eu dryllio, a'u cymmysgu gan rai o'r cwmpeini, tra y darniai ereill yr adar; wedi i hyn gael ei wneuthur, y cydymmeithion a ddechreuasant fwyta mor fuan ag y gallent, gan godi un ar ol y llall, mor fuan ag y torent eu newyn. A'r Aga, yn ystod yr amser hwn yn edrych arnom." *Light's Travels in Egypt*, p. 83.

"Ni a lwyddasom, ar ol rhyw gyflafareddiad, i gael gan yr Arabiaid hyn i gydymdaith â ni fel arweinyddion, ac fel diogelwch rhag i neb o'u llwyth eu hunain ymosod arnom yn ein ffordd; canys ni a ystyriem y chwanegent hwy ychydig at ein nerth os cyfarfyddem â rhai ag a gynnygient ein hyspeilio. Cafodd yr ernes o ffyddlondeb ei roddi genym i'n gilydd trwy fwyta ac yfed yn nghyd; a thri *phiastres* yn unig oedd y swm y cytunwyd ar gael ei thalu i bob un o'r dynion a gydymdeithient â ni. *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 15.

Gen. 24. 16-18. *A hi a aeth i waered i'r ffynnon, ac a lanwodd ei hysten.* Ni a farchogasom heddyw trwy ddyffrynoedd bychain, gwyrddion a hyfryd, yn gorwedd rhwng bryniau cerigog uchel: ac, i chwanegu at brydferthwch yr olwg, yr oedd llawer o ffynnonau gloywon yn ffrydio o'r creigiau, lle yr oedd menywod ieuainc yn tynu dwfr. Mi a ofynais amrywiol o weithiau am lymmaid o ddwfr, i gael llwybr i ddechreu ymddyddan â hwynt. Gan blygu yn foneddigaidd ar un glin, a dangos ar yr un amser ddannedd gwynion heirdd, a llygaid duon neillduol, hwy a'i rhoddasant i mi pan ar fy ngheffyl, ac ymddangosent yn cael eu boddhau yn fawr pan ddiolchwn iddynt am eu hynawsedd; gan sylwi wrth eu gilydd, A glywsoch chwi y dyn gwyn yn diolch i mi?" *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 71.

Barn. 6. 19. *A Gideon a aeth i mewn, ac a barotodd fynn gafr, ac epha o beilliaid; y cig a osododd efe mewn basged, a'r isgell a osododd efe mewn crochan, ac a'i dygodd ato ef dan y dderwen, ac a'i cyflwynodd.* Mae hanes gan *Dr. Shaw*, ag sydd yn rhoddi esponiad cyflawn ar y testun hwn. Yn ei ragymadrodd y mae, p. 12. "Heblaw phiolaid o laeth, a basgedaid o ffigys, rhesin, neu ffrwythau y pren *date*, y rhai ar ein dyfodiad a ddygwyd i ni, i ddofi ein chwant bwyd, meistr y babel a gyrchodd i ni o'i braidd, yn ol rhifedi ein cydymmeith-

yn yr hwn y coffeir pan na allai hi lwyddo gydag ef i gyd-synio â'i dymuniadau, hi a'i daliodd ef erbyn ei wisg, gan ddywedyd, *Gorwedd gyda mi; yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi, ac a ffodd, ac a aeth allan*: a phan gyhuddodd hi Joseph wrth ei gwr, hi a ddangosodd y wisg fel prawf o'i euogrwydd, gan ddywedyd, *Yr Hebrëwas yr hun a ddygaist i ni, a ddaeth attaf i'm gwaradwyddo; ond pan ddyrchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl, ac a ffodd allan*: ac yn ddioed wrth glywed y geiriau hyn, ennynodd digllonedd [Putiphar, a rhoddwyd Joseph mewn carchar. Yn awr, ymddengys wrth ddarllen hyn heb eglurhad, i Putiphar, yr hwn yr ymddengys ei fod yn ddyn da, weithredu ar yr achlysur hwn yn anghyfiawn iawn, gan nad ymddengys iddo wneuthur un ymfyniad yn nghylch euogrwydd Joseph, ond iddo ar unwaith, ar haeriad ei wraig, ei roddi mewn carchar. Yn y gwrthwyneb, os oedd yr un arferiad ag sydd yn awr yn gyffredin yn Abyssinia, yn ffynu yr amser hwnw yn yr Aipht, gwelir i Putiphar weithredu yn gyfiawn, yn ol rheol sefydledig y wlad, gan yr ystyrir hyn yn wastad fel prawf sicr o euogrwydd, yr hwn ni ofyn am i dystiolaeth bellach gael ei dwyn, os bydd i ddyn wedi yr ymafer unwaith yn ei wisg, redeg ymaith, a gadael ei wisg ar ol." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 409.

Gen. 45. 22. *I bob un o honynt oll y rhoddes bâr o ddillad.* Ymddengys fod anrhegion o ddillad yn bethau cyffredin yn mysy pob gradd yn y Dwyrain. Mae yr ymadrodd a goffawyd yn awr yn angrafft o hyny. Gweler hefyd 2 Cron. 9. 24. Cedwir yr arferiad hon o hyd. Mae *De la Mottraye* yn ein cynnysgaeddu â hysbysrwydd neillduol yn nghylch hyn. "Y prif weinidog Tyrcaidd a aeth i mewn trwy ddrws arall, y cenhadon a godasant i'w anerch ef yn ol eu harfer, yr hyn a ddychwelodd efe trwy ostwng ychydig ar ei ben: wedi hyny efe a eisteddodd i lawr ar gongl yr esmwyth-faingc, yr hwn yw y lle anrhydeddusaf; yna ei ganghellydd, ac ereill o'i swyddwyr, a ddaethant ac a safasant o'i flaen, hyd nes y dygwyd *coffee* i mewn; swyddwr Ffrainc a gyflwynodd un arall iddo fel ei olynydd ef, yr hwn a draddododd iddo ef lythyrâu ei feistr, y rhai a dalent foes iddo oddiwrth ei fawrhydi ac yntau ei hun, i'r rhai yr atebodd y prif swyddog Tyrcaidd yn hynaws iawn; yna, ar ol peth ymddyddan, yn nghylch y parodrwydd o'r

canlynol: Mae un o'r menywod Ethiopiaidd yn cymmeryd phiol bren fawr, yn yr hon y cura hi ychydig o wenith a dwfr, nes y delo yn uwd; hi a bery i chwanegu blawd a dwfr, nes y byddo ganddi ddigon; yna y mae llestr pridd arall, ac yddo gig heb ei halltu, yn cael ei osod ar y tân, ac arno rhoddir llestr pridd arall, a thyllau yn ei waelod, yn yr hwn y rhoddir y *kuskus* a barotowyd eisioes, a chlawr drosto, a berwir ef âg agerdd y llestr isaf; ac weithiau rhoddir ychydig o'r isgell ar y *kuskus* yn awr ac eilchwyl nes y digono. Rhoddir ef wedi hyny mewn llestr eang helaeth, cul iawn yn y gwaelod, a llydan yn y pen uchaf; rhoddir y cig berwedig ar y *kuskus*, ac wyaau wedi eu berwi yn gelyd; dros y cwbl hwy a dywalltant ymenyn, ac a'i lliwiant â *saffron*. Yn gyffredin tefir ymaith yr isgell.

Job 31. 32. *Ni lettyodd dyeithr-ddyn yn yr heol: agorais fy nrysau i'r fforddoliau.* Yr oedd, ac y mae, llettygarwch yn rhinwedd nodedig yn nghymmeriad yr Arabiaid, maent yn ymffrostio ynddo fel eu gogoniant mwyaf. Mae un o'u prydyddion yn llefaru yn wresog iawn am y matter hwn. "Pa mor fynych, pan roddai adsain hysbysrwydd i mi fod dyeithr yn nesu, y cyffroais i fy nhân, fêl y llewyrchai yn ddisglaer. Rhedais ato fel at ysglyfaeth, gan ofal rhag i rai o'm cymmydogion gael meddiant o hono o'm blaen." Mae *Schultens*, yr hwn a ddyfyna yr ymadrodd hwn o lyfr Arabaidd, yn sylwi, fod yr Adsain a grybwyllir yma yn cyfeirio at arferiad sydd gan y rhai a deithiant yn Arabia-ar hyd, y nos. Maent yn dynwared cyfarthiad ei, ac fel hyn yn cyffroi holl gŵn bychain yr ardal i gyfarth. Ar hyn rhuthra y bobl allan o bob parth, gan ymdrechu am gael y gwr dyeithr yn westwr. Coffir am arferiad o eiddo yr Arabiaid, yr hon a ddengys eu llettygarwch, sef, diffoddi y tân pan roesawant ddyeithr, fel na allo efe sylwi pa un a fyddo gwr y tŷ yn bwytta neu beidio; y blaenaf yn fynych a fwytty yn helaeth, pan na byddo yr olaf yn cymmeryd dim, rhag na byddo digon iddynt ill dau.

"Wrth arferiad y wlad, gorchymmynir fod ymborth a lletty da yn cael eu darparu i ddycithriaid a theithwyr a ddelo i bentref. Nid digon yw, medd gosodiadau, *Java*, i ddyn esod ymborth da o flaen ei westwr, mae yn rhwymedig i wneuthur chwaneg: dylai wneuthur y pryd bwyd yn fiasus trwy ciriau a thriniaeth hynaws, ei ddyddanu ar ei daith, a llawenhau ei galon, tra

Ecsod. 35. 35. *I wau.* Yn ngweithfeydd cottwm yr India, mae y gwŷydd yn cael ei osod dan bren, a'r edau yn cael ei thynu allan holl hyd y lliain. Nid yw y gwehydd Hindwaidd yn wr o radd isel; mae efe yn nesaf at yr ysgrifenydd, ac uchlaw yr holl grefftwyr. Mae y bobl hyn yn gwneuthur gweithiau teg a phrydferth anarferol; ac er fod Hindwad yn cael ei eni heb nerth crefftwrol, mae yn ei gorph deimlad ac ystwythder rhyfedd. *Forbes's Oriental Memoirs, p. 502.*

Ecsod. 38. 8. *Drychau.* Cafodd noe bres ei gwneuthur o ddrychau y gwragedd ag oedd fel hyn wedi ymgasglu. Mae rhai yn barnu i hyn gael ei achlysuru gan arferiad gwragedd yr Aipht, y rhai a arferent fyned i'r deml a drych yn un llaw, a thympan yn y llall, *Vid. Cyril de Adoratione in Spiritu et Virtute, tom. 1, l. 2, p. 64.*

Yr oedd y drychau dwyreiniol wedi eu gwneuthur o ddr cabol-edig (*polished*), a'r rhan amlaf o honynt yn amgrwm (*convex*). Os oeddynt yn cael eu gwneuthur fel hyn yn ngwlad Elihu, mae y gyffelybiaeth a ddefnyddir ganddo yn ymddangos yn fywiog iawn. *A daenaist ti gydag ef yr wybren, yr hon a sicrhawyd fel drych toddedig?* Iob 37. 18. Hysbysa Shaw i ni, (*Travels, p. 241.*) "fod drychau yn y Dwyrain yn rhan o wisgiad y menywod. Mae y gwragedd Ethioipaidd yn Barbary yn hoff o'u haddurniadau, ac yn enwedig o'u drychau, y rhai a grogant ar eu dwyfron, na roddant hwynt heibio, hyd yn oed pan, ar ol caled-waith y dydd, y byddont yn gorfod myned ddwy neu dair milltir i gyrchu dwfr mewn piser, neu groen gafr." Arferai y gwragedd yn Israel ddwyn eu drychau gyda hwynt, hyd yn oed i'r lleoedd addoliad mwyaf arbenig.

Mewn rhai tmlau yn mysg y paganiaid mae y drychau cabol-edig hyn o wasanaeth mawr, "Yn nghanol y deml mae drych mawr yn fynych wedi ei osod, wedi ei wneuthur o fettel toddedig, wedi ei gaboli yn dda, yr hwn a fwriedir i osod yr addolwyr mewn cof, fod beiau a drygau eu calonau yn gorwedd yn agored i lygaid y duwiau anfarwol ag ydynt yn chwilio y cwbl, yn yr un modd ag y mae eu hanffurfiwch corphorol yn cael ei ddangos yn ffyddlon gan y drych." *Thunberg's Travels in Japan, 4. 19.* See also *Sir John Chardin's Travels, vol. 2, p. 279.* *Goguet's Origin of Laws, &c. vol. 1, book 6, chap. 2, p. 353, edit. Edinburgh; and Agreement of Customs between East Indians and Jews, Art. 15.*

yn y rhai y dangosid ef yn y modd mwyaf rhwydd a haelionus. Mae yn cael ei noddi a'i orchymmyn allan hefyd yn y Testament Newydd. Yr oedd y cristionogion cyntefig mor barod i gyflawni y ddyledswydd hon, fel yr oedd hyd yn oed y cenhedloedd yn eu rhyfeddu o herwydd hyny. Er eu bod yn llettygar i bawb dyeithriad, yr oeddynt yn neillduol felly i'r rhai oeddynt o'u ffydd a'u cymmundeub eu hunain. Yn ngwaith Homer a'r ysgrifenywyr Groegaidd, ni a welwn y fath barch oedd ganddynt i'w gwestwyr. Oddiw'rth yr angreiffitiau hyn ni a drown gyda hyfrydwch i edrych ar dymher hynaws a charedig cenhedloedd llai gwarediedig. Teithwyr diweddar a goffant yn fynych y derbyniad groesawus a gânt gyda y rhai yr arosant ychydig yn eu plith. Volney, (*Travels, vol. 2, p. 76.*) wrth lefaru am y *Druses*,\* a ddywed, "Pwy bynag a ymddangoso wrth eu drws hwy fel deisyfwr gostyngedig neu ymdeithydd, sydd sicr o gael lëtty ac ymborth yn y modd mwyaf rhwydd a haelionus. Mi a welais y rhai iselaf o bobl gyffredin. y wlad yn fynych yn rhoddi y tammaid olaf o fara a fyddai ganddynt yn eu tai i deithiwr newynog. Pan fyddont unwaith wedi gwneuthur ymrwymiad â'u gwestwyr trwy fara a halen, nid oes un amgylchiad a ddygwyddo wedi hyny a all beri iddynt ei dori."

"Mae ymrwymiad â dyn dyeithr weithiau yn cael ei dderbyn fel esgus dros beidio ufuddhau i wr mawr, pan na byddo un esgus arall dros hyny; pan braidd y cymmerid afiechyd yn esgus." *Russell's History of Aleppo, vol. 1, p. 231.*

Mae yr Hindwaid yn estyn eu llettygarwch weithiau i elynion, gan ddywedyd, "Nid yw y pren yn attal ei gysgod hyd yn oed oddiw'rth y cymynwr coed."

"Ni all dim ragori ar hynawsedd pobl y wlad: cawsom ein gwahodd yn fynych i erddi, a gwahoddid ni yn roesawgar gan bob un braidd ag a welem. Hwy yn fynych a erfynient ar y cenhadwr a'i gyfeillion i'w hanrhydeddu trwy ddyfod yn westwyr iddynt, ac ymaflent weithiau yn ffrwynau eu ceffylau, ac ni adawent iddynt fyned heibio hyd nes yr addawent ddyfod stynt i gymmeryd eu borefwyd ar ryw ddiwrnod dyfodol, a chadarn-

\* *Druses*: cymdeithas o bobl yn Syria, yn nghymydogeath mynyddoedd Libanus; bernir eu bod ynghylch 120,000 mewn rhifedi. Y peth mwyaf neillduol yn eu cymmeriad yw, fod ganddynt y fath barch i gyfroitbiau llettygarwch fel na fradychant westwr ar un cýfrif.

chyntedd helaeth cyn y deuwch at y bedd, y cyntaf o ba rai sydd yn nghylch erw o dir, ac y mae wedi ei balmantu â mynor du a gwyn; mae y lleill o faintioli cyfartal: ond pa nesaf at y bedd, mwyaf yw y gwychder a'r gogoniant sydd i'w weled. Mae y fath dyb am santeiddrwydd yr holl leoedd hyn ag sydd gerllaw y bedd, fel na faidd neb rodio yno oddieithr ei fod yn droednoeth; rhaid fod y traed yn hollol noeth, os amgen rhaid peidio rhodio un ran o'r cynteddau santaidd hyn. *Finch's Travels in India. Harris's Coll. vol. 1, p. 89.*

Yn y desgrifiad o orymdaith orfoleddus yn Mexico, sylwir ar yr un ddefod. "Yr oedd y buddugoliaethau a ennillwyd gymmaint, fel y parhaodd y llawenydd yn Cusco o'u herwydd dros fis. Yr oedd yno rai o'r holl genhedloedd a orchfygasid i harddu y ddefod, a chymmeryd rhan yn y gorchwyl: hwy oll a ymddangosasant yn eu gwahanol wisgoedd, a chyda y beroriaeth filwraidd a arferid yn eu gwahanol wledydd. Cawsant eu rhanu i gynnifer o fyddinoedd gwahanol, y rhai a gerddasant mewn trefn ar ol yr *inca* neu yr ymerawdwr a'r penciwodau, i deiml yr haul. Dattododd pawb eu hesgidiau pan ddaethant at ymylau, y deiml; yr ymerawdwr yn unig a gadwodd yr eiddo ef am ei draed hyd nes y daeth hyd at y drws, lle y dynoethodd yntau ei draed, ac yna aeth i mewn, a rhoddodd ddiolch am y buddugoliaethau mawrion a enillasai." *Harris's Coll. vol. 1, p. 782.*

Pan roddodd Montezuma ei hun i fynu i Cortes, daeth dau cant o arglwyddi gydag ef, mewn dillad gwydach nac eiddo pendefigion ereill, ond yn droednoeth, ddau a dau, gan gadw yn agos i furiau y tai, i ddangos y parch oedd ganddynt i'w penadur. *Cullen's Mexico, vol. 2, p. 64.*

A phan aeth Cartes, gyda ei bedwar Cadben ac ychydig o filwyr i dalu eu moes i Montezuma, dywedir wrthym, wedi iddynt fyned trwy dri chyntedd a rhai neuaddau i'r ystafell nesaf i'r oreu, mewn trefn i ddyfod i'r neuadd at wrando cennadwriaethau, iddynt gael eu derbyn mewn modd parchus, gan amrywiol o arglwyddi ag oeddynt yn cadw gwyliadwriaeth, a gorfu arnynt dynu ymaith eu hesgidiau, a chuddio eu gwisgoedd gwylichion â dillad geirwon. *Ibid. p. 70.*

"Ar y llawr yr oedd carped teg hardd ei liwiau wedi ei danu, a thros hwn rhoddwyd math o frethyn, ar yr hwn y rhoddasom ein hunain, wedi i ni adael y tu allan i'r drws, yn ol defod y Persiaid, ein

botasau, ein hesgidiau, a'n sandalau." *Sir W. Ouseley's Travels in the East, vol. p. 267.*

"Yr oedd pellder pennodedig, wedi ei sefydlu i ni i gymmeryd ymaith ein hesgidiau; bu raid i rai o osgordd y cennadwr dynu ymaith yr eiddynt hwy gryn bellder oddiwrth y brenin, tra y bu i ereill, y rhai yr oedd eu gradd yn rhoddi iddynt fwy o frain, eu cadw am eu traed hyd nes dysfod yn agos i'r grisiau a arweinient i'r ystafell. Gan fod y Persiaid yn caniatáu fod eu penaeth yn santaidd iawn, gan ei alw ef *Zib Allah*, cysgod yr Hollalluog, hwy a dalant iddo anrhydedd ag sydd bron yn ddwyfol. Heblaw rhoddi iddo ditl uchel, trwy eu gwaith yn tynu ymaith eu hesgidiau arwyddir fod y tir a'i tylchyna ef yn santaidd; a'r amgylchiad hwn a eglura yr hyn a ddywedodd tywysog Arglwydd y lluoedd wrth Josuah. 'Dat-tod dy esgidiau oddiam dy draed; canys y lle yr wyt ti yn sefyll arno sydd santaidd.'" *Morier's Second Journey through Persia, p. 172. Holland's Travels in Albania, p. 316. Sir W. Ouseley's Travels in the East, vol. 2, p. 12. Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 235. Dodwell's Tour through Greece, vol. 1, p. 151. Cox's Journal of a Resident in the Burman Empire, p. 13. Fraser's Tour through the Himala Mountains, p. 428.*

Yn mysg yr *Aiphitiaid* ni oddefid i un dyn fyned i mewn i demlau eu heulunod ag esgidiau ar ei draed, o herwydd eu bod wedi eu gwneuthur o grwyn anifeiliaid meirwon, am hynny yu cael eu cyfrif yn halogrwydd.

Y *Tyrcaid*, pan yn cael eu galw i weddïau cyhoedd, a dynant ymaith eu hesgidiau wrth y deml. *Maronit de Moribus Orient, c. 12.*

I Sam. 18. 4. *A'i wregys.* "Mi a brynwyd," medd *Pitts*, gan hen lanc: nid oedd arnaf eisïau iddo roddi dim i mi: yr oedd genyf ddigon o fwyd, diod, dillad, ac arian. Wedi i mi fyw gydag ef yn nghylch blwddyn, efe a wnaeth ei bererindod i Mecca, ac a'm dygodd gydag ef: ond cyn i ni ddyfod i Alexandria efe a gymmerwyd yn glaf, ac yn credu yn sobr y byddai farw, gan fod ganddo am ei ganol wregys wauedig, dan ei wregys uchaf, yr hwn a wisgant yn gyffredin, yn yr hwn yr oedd llawer o aur, ac hefyd fy llythyr rhyddad i, yr hwn y bwriadai efe ei roddi i mi, pan yn Mecca, efe a'i cymmerodd ymaith, ac a archodd i mi ei wisgo am danaf; yna efe a gym-



yn ol graddau eu perchenogion. Y rhai y cyfeirir atynt gan Jeremiah wrth ddesgrifio cyfyngderau preswylwyr Jerusalem, gan ddywedyd, *ein croen a dduodd fel ffwrn gan y newyn tost*, ymddengys eu bod o fath isel, ac yn perthynu, fel y mae yn fwyaf tebygol, i'r dosparth cyffredin o deithwyr. Er y cwbl yr oedd rhai ereill o fath llawer uwch, hyd yn oed o fetteloedd gwerthfawr iawn. Fel hyn hysbysir i ni, mewn chwedl Arabaidd, a gyfieithwyd yn 1786, o ysgrifen anghyoeddig, mai rhan o fwyd yr olynnydd hwnw i Mohammed a elwir *Vathek*, ar ei deithau, oedd teisenau moethus, y rhai a bobasid mewn ffyrnau arian. Mae St. Jerome yn desgrifio ffwrn Ddwyreiniol fel llestr crwn o bres, wedi cael ei dduo ar un tu gan y tân a'i cylchynai, er peri gwres o fewn.

Ezec. 4. 15. *Yntau a ddywedodd wrthyf, Wele, mi a roddais it' fiswail gwartheg yn lle tom dyn, ac â hwynt y gwnei dy fara.* O herwydd diffyg coed, defnyddir tom camelod yn gynnud yn y Dwyrain. Mae Shaw, yn ei ragymadrodd i'w *Deithiau*, lle y rhydd efe ddesgrifiad manol o'r dull o deithio yn y Dwyrain, yn dywedyd, o herwydd prinder tanwydd, pan byddai arnynt eisiau pobi neu ferwi rhywbeth, mai tom y camelod yr hwn a geffid yn y manau lle yr arosasai minteioedd blaenorol, oedd eu cynnud arferol; yr hwn, ar ol bod yn yr haul dros ddau neu dri diwrnod, a gymmerai dân yn hawdd ac a losgai fel golosggoed. Mae yr hanes canlynol o eiddo *D'Archieux* (*Manners of the Bedouin Arabs, chap. 14, p. 93.*) yn gwasanaethu yn well etto i egluro y testun yn yr hwn y gorchymmynir i'r prophwyd bobi bara, neu yn bytrach deisenau teneuon, â biswail gwartheg." Mae yr ail fath o fara yn cael ei bobi dan ludw, neu rhwng dau delpyn o biswail gwartheg wedi eu sychu a'u cynneu. Trwy hyn gwneir tân araf, yr hwn a boba y bara yn raddol; mae y bara hwn mor drwehus a'n teisenau ni. Mae y bywyn yn dda os bwyteir ef y diwrnod hwnw, ond y mae y grawen (*crust*) yn ddu a llosgedig, a blas y mwg arni o herwydd cael ei phobi yn y tân. Rhaid fod dyn wedi arferyd â dull y *Bedouins*, ac yn newynog iawn, cyn y gallo gael fawr o flas arni. Ni a chwaneigwn hefyd yr hyn a ddywed *Niebuhr* yn ei *Ddesgrifiad o Arabia*, tu dal. 52. "Mae yr Arabiaid yn defnyddio llafn o haiarn i bobi eu barâ; neu gosodant dalp crwn o does mewn marwor coed neu biswail camelod, a chuddiant ef yn hollol â hwynt, hyd nes

ganddo dros y cwbl wisg bron yn gyffelyb; ond wedi iddo ddywedyd ei weddïau yno, iddo newid ei wisg, a gwisgo un o liw gwyrdd hardd. At y newidiad mynych hwn yn mysg y mawrion ar eu gwisgoedd, gall fod y Salmydd yn cyfeirio yn y geiriau hyn. *Malcolm's History of Persia, vol. 1, chap. 10.*

Esay 3, 16. *Rhygyngu wrth gerdded.* Mae *Rauwolf* yn dywedyd wrthym fod y gwragedd Arabaidd, y rhai a welodd efe wrth fyned i waered ar hyd yr Euphrates, yn gwisgo modrwyau o amgylch eu coesau a'u dwylaw, ac weithiau gryn lawer o honynt yn nghyd, y rhai pan gerddent, a lithrent i fynu ac i waered, ac felly a wnaent swm mawr. Dywed *Sir John Chardin* "eu bod yn Persia ac Arabia yn gwisgo modrwyau o amgylch eu migyrnau, y rhai ydynt lawn o glychau bychain. Mae plant, ac yn enwedig merched bychain yn cymmeryd hoffder mawr yn eu hysgwyd; i'r dyben hwn hwy a rodiant yn gyflym." Llefara *Niebuhr* am y modrwyau mawrion y rhai yr oedd y putteiniaid a'r gwragedd a arferent ddawnsio yn yr Aipht, a gwraigedd Arabaidd o'r anialwch, yn eu gwisgo o amgylch eu coesau. *Voyage in Arabia, p. 133.* Ymddengys oddiwrth y Koran fod gwragedd Arabia yn amser Mohammed yn hoffi bod sylw yn cael ei wneuthur ar yr un fath o addurniadau. "Na fydded iddynt hwy (sef y gwragedd) wneuthur trwst â'u traed, nes y byddo i'r addurniadau sydd guddiedig gael eu datguddio trwy hyn," *Sale's Koran, cap. 24, p. 291, note d.* "Na fydded iddynt wneuthur trwst â'u traed, &c. trwy ysgwyd y modrwyau y rhai y mae gwragedd yn y Dwyrain yn wisgo am eu migyrnau, a'r rhai ydynt yn gyffredin o aur neu arian. Mae y balchder a gymmerai y boneddigesau Iaddewig gynt mewn gwneuthur swm â'r addurniadau hyn yn nghylch y traed (yn mysg pethau ereill o'r un natur) yn cael ei geryddu yn llym gan y proffwyd Esay."

Mae y gwragedd yn gwisgo "eu gwallt yn hir iawn: mae yn gyffredin yn ddu, ac yn cyrhaedd yn blethi hirion i waered bron hyd at eu migyrnau. Wrth ben pob pleth y mae addurniadau yn crogi; mae ganddynt hefyd amrywiaeth o fâthau (*coins*) wedi cael eu gosod yn ol eu mympwy yn eu pen-wisgoedd. Pan fyddont yn cerdded, y mae y *sequins*, sef yr addurniadau, sydd wrth eu gwallt, yn tincian, megys cynnifer o glychau." *Bramsen's Tour, vol. 1, p. 178.*

"Wedi iddynt ymdrechu sethant i ddawnsio, ya yr hyn y cya-

hyn yw y bri mwyaf a ellir ddangos i unrhyw ddydd mewn gwledd yn y Dwyrain." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 230.

Megys nad oes ond ychydig, a'r rhai hyny yn wastadol y cyfeillion anwylaf, neu y gwestwyr a anrhydeddir fwyaf, yn cael eu gosod i eistedd yn ddigon agos i feistr y wledd, i wlychu eu dwylaw yn yr un ddysgl ag ef, (tebygol na bu i fwy na phedwar o'r dysgyblion, ar y swpper olaf, fwynhau y fraint hon), mae erchylldra y fradwriaeth yn cael ei fwyhau yn rhyfedd, pan mae un o'r ychydig hyny yn dyfod yn fradwr; ac yn y goleu hwn, yn ddiarheu, y bwriedd dangos ymddygiad Judas trwy yr ymadrodd grymus hwn.

Marc 9. 50. *Bid genych halen ynnoch eich hwtain.* Yn y gwledydd sydd yn nghanol Affrica, y moethusrwydd mwyaf o'r cwbl yw halen. Plentyn yno a sugna ddarn o halen fel pe byddai sugyr. Mae y dosparthau tlotaf o'r trigolion, pa fodd bynag, mor anfynych yu cael yr hyfrydwch o gael y peth gwerthfawr hwn, fel mai yr un peth yw dywedyd fod dyn yn bwyta halen gyda ei fwyd, a dywedyd ei fod yn ddydd cyfoethog. Mae yr arferiad maith o fwydta llysiau, yn creu y fath chwam am halen, fel na all unrhyw eiriau ei ddesgrifio yn gyflawn. *Park's Travels*, p. 280.

Luc 5. 8. *Simon Pedr, pan welodd hyny, a syrthiodd wrth liniau yr Iesu.* Yr oedd ymafiyd yn y gliniau yn weithred trwy yr hon gynt y dangosid parch ac yr erfynid am nodded." Ar y dydd canlynol gwnaethpwyd darpariadau i ddwyn ei ddedfryd i weithrediad. Rhai o'r rhai oeddynt benaethiaid yn materion y tywysog, a syrthiasant wrth ei draed, ac, er trahausdra Barca Gana yn ei ymddygiad atynt wedi ei ddyrchafiad, hwy a ddeisyfiasant faddeuant i'r dyn, ac am iddo hefyd gael ei dderbyn i ffafr. Ar hyn daeth y troseddwr i'r golwg, yna y tywysog a daflodd ei hun yn ol ar ei garped, wylodd fel plentyn, a goddesodd i'r ymbiliwr, yr hwn oedd wedi nesu gerllaw iddo, ymafiyd yn ei liniau; a chan eu galw hwy oll yn feibion iddo, efe a faddeuodd i'w gaethwas edifeiriol." *Denham and Clapperton's Recent Discoveries in Africa*, p. 174.

Luc 14. 13. *Eithr pan wnelych wledd, galw y tlodion, yr efryd-lion, y cloffion, y deillion.* "Cyn machludiad haul ymgasglasom yn nhŷ un o hiliogaeth prophwyd ag a wiagai wisg werdd am ei ben, yr oeddem ynghylch deg ar hugain o bersonau mewn rhifedi. Derbyniwyd ni i mewn i ystafell hardd iawn, ag iddi fwd wedi ei oreuro, eisteddleodd a charpedi arnynt, ac iddynt glustogau gwerthfawr, a phethau ereill a ddangosent olud

y preswlydd. Yn mysg y eydymdeithion yr oedd dau Indiad, y rhai a ddeallent eu mantais yn rhy dda i adael eu noddwr, fel y glynent wrtho yn wastadol. Y dynion hyn, y rhai oeddynt wedi eu gwisgo mewn bratiau lleision, prin yn dâl gyda eu gilydd, er wedi cael eu rhwymo ag amrywiol o reffynau ac edafedd, ac ynddynt heidiau o bryfed, o herwydd nad oeddynt un amser yn newid eu dillad, nac efallai, ddim wedi golchi eu cyrph, yn ystod y tair blynedd diwedda, oeddynt wedi cael eu gosod i eistedd yn mysg y lleill, ar yr esmwyth-faingc, ac yn cael eu gwasanaethu gyda yr un parch yn hollol â'r lleill o'r eydymdeithion. Mae yr arferiad o oddef y bratiog a'r aflan i ddyfod i'r un fath le â'r rhai a fyddo mewn dillad da a glân, yn gystal â'r arferiad o adael i wasanaethwyr y tŷ i gysgu drwy y nos ar y *divans*, neu yr eistedd-leoedd, yr hyn sydd yn beth yr un mor gyffredin yn mysg y Tyrciaid, yn achlysuero fod tai y cyfoethogion mor agored i bryfed ag yw eiddo y tlodion." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 55.

Luc 15. 29. *Mÿn*. Ystyrir mynod fel moethau. *Hariri*, ysgrifennwr nodedig am Mesopotamia, wrth ddesgrifio gwaith person yn ddisymmwrth yn dal dyn a honai lawer o hunanymwadiad, a ddywed, efe a'i cafodd ef gydag un o'i ddysgybllion, *yn gwledda gyda boddlonrwydd mawr ar fara wedi ei wneuthur o'r blaen tecaf, ynghyd a MYN POBEDIG, a llestraid o win o'u blaen*. Dengys hyn yn mha oleuni yr ydym i ystyried yr achwyniad a wnaethpwyd gan frawd hynaf y mab afradlon, a'r gwobr y cynnygiwyd ei anfon i Tamar, Gen. 38. 16. A'r anrheg a wnaethpwyd gan Samson i'r hon a fwriadai i fod yn ddyweddi iddo, Barn. 15. 1.

"Wedi cymmeryd rhai pethau i'w hyfed, hysbyswyd i ni fod ciniaw yn barod, yna ni a ymneillduasom gyda y Dolah o Aden i ystafell arall, lle y cafodd mÿn, wedi ei ologi a'i dori yn ddarnau bychain, yn nghyd â rhyw gymmaint o *rice*, eu gosod o'n blaen, yn ol defod y wlad." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 115.

"Nid oes pobl yn y byd mewn mwy o gyfyngder o ran angenrheidiau bywyd: ychydig o ryw fath o fara, ac ychydig o bysgod, mesur bychan o laeth geifr neu gamelod, a mÿn ar ryw achlysur neillduol iawn, yw y cwbl o'u cynhaliaeth." *Ibid*, p. 178.

"Mor fuan ag y daethom i bentref Howakil, parotowyd bwthyn prydferth iawn i mi; a chan ei bod wedi myned yn hwyr, cydsyniais i aros yno dros y nos. Nid allai dim ragori ar garedigrwydd y bobl dda hyn; lladdwyd mÿn, a dygwyd cryn lawer o laeth

hyfryd, a rhoddwyd ef mewn basgedi a wnaethpwyd o ddail y pren *doom*, ac a ddwbiwyd drostynt â chŵyr, gwaith yn yr hwn y mae brodorion yr ynysoedd hyn yn rhagori yn neillduol." *Ibid.* p. 188.

Ioan 13. 23. *Yr oedd un o'i ddysgyblion yn pwyso ar fynwes yr Iesu, yr hwn yr oedd yr Iesu yn ei garu.* Teflir goleuni ar yr ymadrodd hwn gan yr hyn a ddywed *D'Arvieux* am ddull yr Arabiaid yn bwyta.

"Hwy a eisteddant wrth frwdd, mewn modd ag y byddo ysgwyddau un yn cael eu troi at fynwes y llall, mae llaw ddehau pob un yn cael ei throi at y dysglau, mae y llaw aswy yn cael ei throi ymaith oddiwrthyn, ac y maent yn ei defnyddio yn unig i bwysu arni, pan byddo y rhifedi mawr o bobl a fyddo wrth frwdd yn eu rhwymo i fod yn y dull anghyfleus hwn."

## PENNOD VI.

### DILLAD.

GEN. 24. 65, *Hi a gymmerth orchudd ac a ymwisgodd.* Arferid cuddio y pen ar y tri achlysur hyn. Mewn gofid a galar 2 Sam. 19. 2, fel dangosiad o wylder, Gen. 24. 65, ac fel tystiolaeth neu arwydd o'r bri ar parch mwyaf, neu pan byddai dyn israddol yn methu dâl yr olwg ar ddisgleirder mawredd a gwychder un arall. Fel hyn, Elias (1 Bren. 19. 13,) pan glywodd efe lais Duw ar fynydd Horeb, a oblygodd ei wyneb yn ei fantell. Arferai pob cenedl guddio yr wyneb â gorchudd. Yr oedd y Rhufeiniaid, yn enwedig, mor fanol yn nghylch hyn, fel y bu i C. Sulpitius Gallus, pan wybu efe i'w wraig ymddangos allan hebdo, ei hysgar hi o herwydd hyny yn unig.

Yr oedd bod i'r ddyweddi wisgo gorchudd yn arferiad hen iawn, fel y dywed Pliny hefyd wrthym, *Nat. Hist. b. 21, chap. 8. Tertullian (de Virginibus velandis, c. 2)*, pan yn llefaru am Rebecca, yr hon a aeth i gyfarfod âg Isaac â gorchudd ar ei gwyneb, a sylwa ar hyny fel defod a gedwid o hyd yn ei amser ef, fod y priodferched yn mysg y Cenhedloedd yn cael eu tywys at y rhai a fwriedid i fod yn wŷr iddynt, yn orchuddedig. O herwydd hyn arferai y Rhufeiniaid y gair *nuptia*, am briodas, yr hwn sydd air a ddeilliwyd o *nubere*, cuddio, gorchuddio.

Asia, yn wŷr ac yn wragedd, yn llwio eu dannedd, blew ac amrantau eu llygaid yn ddu. Nid yw yr arferiad hon yn cael ei chyfyngu iddynt hwy yn unig, yn enwedig y weithred o liwio blew yr amrantau: mae menywod Hindwstan a Phersia yn gwneuthur hyny. Hwyl a dybiant ei fod yn llesiol yn gystal ag yn hardd. Mae yr enaint a ddefnyddiant yn cael ei alw *Surma*, yr enw Persiaidd am *antimony*." *Embassy to Ava, vol. 2, p. 235. Morier's Second Journey through Persia, p. 61.*

Mae *Mr. Harmer* (vol. 2, p. 406,) o'r dyb fod yr ymadrodd a ddefnyddia Jacob wrth fendithio Joseph, y byddai *ei lygaid yn goch gan win*, Gen. 49. 12, i gael ei egluro trwy yr arferiad hon. Efe a sylwa nad yw y gair gwreiddiol yn dygwydd ond dwy waith yn yr ysgrythyrau; yn y ddau le mae yn amlwg yn gosod allan y canlyniad o yfed gwin; ond mewn un, dengys effaith hyfryd oddiwrtho, yn y llall un waradwyddus. Gen. 49. 12. Diar. 23. 28. Ni wn i fod cochder llygaid, a llefaru yn fanol, yn cael ei achosi gan yfed gwin; cyfyd hyfyd oddiwrth achosion ereil. Os newidiwn ychydig ar yr ymadrodd ac yn lle cochder llygaid, darllen cochder wynebpryd, fel y mae rhai esponwyr yn tueddu i wneuthur, mae yn sicr fod y cyfryw effaith yn cael ei hachosi gan yfed gwin; ond, pa fodd bynag, gair arall sydd yn gosod allan gochder yn gyffredinol, mae hwnw yn gosod allan wridgochedd (*puddiness*) yn neillduol. Gwel 1 Sam. 16. 12, a 1 Sam. 17. 42. Ac nid oedd y LXX. yn deall y gair fel yn arwyddo cochder, ond math o dduwch, canys felly y cyfieithiant hwy, Diar. 23, 29, llygaid y rhai sydd *κελεδνοι*, gair a arwydda y lliw a gyfyd oddiwrth ysigo y cnawd, a'r hwn a osodir allan trwy ddau air *du* a *glas*. Dywedir a darllenir ef yn iaith Syria ac Arabia, yn yr un modd; (*Poli. Syn. in loc.*) ac onid yw yn fwy naturiol ei egluro yn yr ymadrodd hwn, yr hwn sydd yn llefaru am wae, am dristwch, am weliau, yn ol yr un dull nac am wyneb coch? Os yw y gair yn cael ei ddeall yn yr ystyr hwn yn yr ymadrodd hwn yn *Diarhebia*, ni all ei fod yn beth cyson, yn afreidiol, i roddi iddo ystyr arall, pan ddarllenom rag-ddywediadau Jacob, ac mae yn sicr nad oes un anhawsdra i'w ddeall ef am dduwch llygaid yn y lle hwnw." Ystyr y rhag-ddywediad gan hyny a all fod, *ei lygaid a dduir gan win*; a fywioceir, gan win, fel pe duid hwynt â mŵn plwm. Yn gyson â hyn, er ddim gyda yr un manylwch, mae y LXX. yn defnyddio y gair wrth gyfieithu y gair yn y lle hwn, yr hwn sydd

yn yr hwn y coffeir pan na allai hi lwyddo gydag ef i gyd-synio â'i dymuniadau, hi a'i daliodd ef erbyn ei wisg, gan ddywedyd, *Gorwedd gyda mi; yntau a adawodd ei wisg yn ei llaw hi, ac a ffodd, ac a aeth allan: a phan gyhuddodd hi Joseph wrth ei gwr, hi a ddangosodd y wisg fel prawf o'i euog-rwydd, gan ddywedyd, Yr Hebrëwas yr hun a ddygaist i ni, a ddaeth ataf i'm gwaradwyddo; ond pan ddyrchefais fy llef, a gweiddi, yna efe a adawodd ei wisg yn fy ymyl, ac a ffodd allan: ac yn ddioed wrth glywed y geiriau hyn, ennynodd digllonedd [Putiphar, a rhoddwyd Joseph mewn carchar. Yn awr, ymddengys wrth ddarllen hyn heb eglurhad, i Putiphar, yr hwn yr ymddengys ei fod yn ddynd da, weithredu ar yr achlysur hwn yn anghyfiawn iawn, gan nad ymddengys iddo wneuthur un ymfyniad yn nghylch euogrwydd Joseph, ond iddo ar unwaith, ar haerriad ei wraig, ei roddi mewn carchar. Yn y gwrthwyneb, os oedd yr un arferiad ag sydd yn awr yn gyffredin yn Abyssinia, yn ffynnu yr amser hwnw yn yr Aipht, gwelir i Putiphar weithredu yn gyfiawn, yn ol rheol sefydledig y wlad, gan yr ystyrir hyn yn wastad fel prawf sicr o euogrwydd, yr hwn ni ofyn am i dystiolaeth bellach gael ei dwyn, os bydd i ddynd wedi yr ymafler unwaith yn ei wisg, redeg ymaith, a gadael ei wisg ar ol." *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 409.*

Gen. 45. 22. *I bob un o honynt oll y rhoddes bwr o ddillad.* Ymddengys fod anrhegion o ddillad yn bethau cyffredin yn mysig pob gradd yn y Dwyrain. Mae yr ymadrodd a goffawyd yn awr yn angraifft o hyny. Gweler hefyd 2 Cron. 9. 24. Cedwir yr arferiad hon o hyd. Mae *De la Mottraye* yn ein cynnysgaeddu â hysbysrwydd neillduol yn nghylch hyn. "Y prif weinidog Tyrcaidd a aeth i mewn trwy ddrws arall, y cenhadon a godasant i'w anerch ef yn ol eu harfer, yr hyn a ddychwelodd efe trwy ostwng ychydig ar ei ban: wedi hyny efe a eisteddodd i lawr ar gongl yr esmwyth-faingc, yr hwn yw y lle anrhydeddusaf; yna ei ganghellydd, ac ereill o'i swyddwyr, a ddaethant ac a safasant o'i flaen, hyd nes y dygwyd *coffee* i mewn; swyddwr Ffrainc a gyflwynodd un arall iddo fel ei olynydd ef, yr hwn a draddododd iddo ef lythyrâu ei feistr, y rhai a dalent foes iddo oddiwrth ei fawrhydi ac yntau ei hun, i'r rhai yr atebodd y prif swyddog Tyrcaidd yn hynaws iawn; yna, ar ol peth ymddyddan, yn nghylch y parodrwydd o'r

ddau tu i barhau cymmod rhwng yr ymerawdwr Tyrciaidd a llys Ffrainc, yr hwn y sicrhacodd swyddog Ffrainc fod y brenin ei feistr mewn modd didwyll am ei feithrin, wedi hynny hwy a roddasant ddwy ddysglaid o *goffee* i'r cenhadau, gyda bwydydd melusion, &c. Yna hwy a'u gwisgasant â gwisgoedd o frethyn aurfrodiog, ag arnynt flodau mawrion o sidan; ac i'r rhai a dderbyniwyd i'r ystafell gyda hwynt, hwy a roddasant rai ereill cyffelyb; gwnawd hyn oll yn ol y ddefod a arferir at bawb gweinidogion tramor." *Travels*, p. 199. Gweler hefyd Ezra 2. 69. Neh. 7. 70.

"Ar ddiwedd gwledd, y mae yr Hindwaidd, yn mysg anrhegion ereill i'r gwestwyr, yn gyffredin yn rhoddi gwisgoedd newyddion; darn o frethyn yn unig yw y wisg Hindwaidd, nad yw yn gofyn gwaith o eiddo y dilledydd." *Ward's View of the Hindoos*, vol. 2, p. 318, 8vo.

Ecsod. 25. 4. *Lliain main*. Dan yr enw hwn tybiwyd y llefrid am gottwm. Mae cottwm yn tyfu yn mharthau poethion Affrica ac America, ar goed hirion dreiniog; yn India ar fanwydd uchel; ac yn Melita ac ynysoedd yr *Archipelago* ar blanhigyn llysieuol.

Yn *Guzerat* mae y meusydd *rice* a chottwm yn cael eu planu ar ddechreu y tymmor gwlawog, yn Mehefin. Mae y blaenaf yn cael ei hau mewn cwysau, ac yn cael ei fedi yn mhen yn nghylch tri mis; mae manwydd y cottwm, y rhai ydynt yn tyfu i'r uchder o dair neu bedair troedfedd, ac mewn gwyrddlesni ynt debyg i lwyn *currants*, yn gofyn amser hwy i ddwyn eu cynnyrch tyner i berffeithrwydd. Y manwydd hyn, trwy eu bod wedi cael eu planu rhwng y cwysau o *rice*, nid ydynt yn rhwystro iddo dyfu nac iddo gael ei fedi. Yn fuan ar ol y cynhauaf *rice*, hwy a roddant allan flodeuyn melyn hardd; canlywir hwn gan godau gleision, yn llawn o fywyn llinynog; mae y codau yn troi yn llwyd a chaled wrth addfedu, ac yna yn rhanu yn ddwy neu dair rhan, yn cynnwys y cottwm. Maes ffrwythlon, yn dangos ar yr un amser flodeuyn llydan, codau agored, a llafnau gwynion o gottwm addfed, yw un o'r gwrthrychau prydferthaf yn amaethyddiaeth Hindwstan. Dywed *Herodotus*, fod gan yr Indiaid, yn ei amser ef, fath o blanhigyn, yr hwn, yn lle ffrwyth, a ddygai wlaen gwell a thecach nac eiddo y defaid, o'r hwn yr oedd y brodorion yn *gwneuthur eu dillad*; yr un, yn ddiarnheu, oedd y planhigyn hwn a phlanhigyn cottwm diweddar yr India. *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 2, p. 405.



y rhai ceddynt oll wedi eu hanner ddystrywio." *Bartolomeo, by Johnson, p. 13.*

Yn Japan y mae math o forgrug, mewn dull, a maintioli, a phethau eraill, yn gyffelyb i'n rhai cyffredin ni, ond mor wynned â'r eira; hwy mewn amser byr a dorant trwy unrhyw beth ond careg neu fŵn, gan wneuthur, pa le bynag y delont, niwed mawr; ac ni chafwyd hyd yn hyn un ffordd arall i'w cadw oddiwrth nwyddau, a phethau gwerthfawr, ond taenŷ halen dan a thros y cyfryw nwyddau. *Modern Univ. Hist. vol. 9, p. 97.*

Y weevil sydd drychfil bychan o ryw fath o wyfyn, yr hwn a esyd ei wyau yn ngheudod ŷd, ac yn enwedig gwenith. Os caiff yr ŷd ei osod i gadw mewn deisi, neu mewn ysguboriau yn ysgubau, mae yr wyau hyn yno yn deor, ac y mae yr ŷd mewn canlyniad yn cael ei ddinystrio yn llwyr. *Weld's Trav. through N. America, vol. 1, p. 216.*

Yn Carthagena, yn Neheudir America, y mae y trychfil a elwir *comegen* yn niweidio ac yu ddystrywio dodrefn tai, yn enwedig pob math o bethau crogedig, pa un bynag ai brethyn, neu liain, neu *stuff* wedi ei addurno âg aur neu arian fyddo, neu ysnodeni; a phob peth, yn wir, oddiethr y pethau fyddont o fettel caled, y rhai yr ymddengys eu bod yn trechu ei wancusrwydd â'u caledwch. Nid yw ddim mwy na math o wyfyn neu gynronyn (*maggot*); ac y mae mor fychan fel mai prin y mae yn weledig i'r llygad noeth; ond mor gyflym yn ei ddifrodiadau, fel mewn amser byr y gwna falurio yn llwch un sypyn neu fwy o nwyddau lle y dygwyddo iddo ymaflyd; ac, heb newid-ei ddull, efe a'i tylla drwyddo, mewn modd mor gyfrwys fel na chanfyddir ei waith hyd nes y deuir i syflyd y sypyn, ac yna, yn lle brethyn neu llain tew, ni chaiff un ond darnau bychain a llwch; efe fel hyn a ddystrywia yr holl nwyddau a fyddo mewn ystordŷ, lle y caffo afael mewn un noswaith. *Ulloa's Voyage, by Adams, vol. 1, p. 67, 68.*

Mae *termites*, neu forgrug gwynion Bombay, mor lliosog a dinystriol yn Anjengo, fel y mae yn anhawdd cadw rhag eu difrodiadau; hwy mewn ychydig o oriau a ddystrywiant gystaid fawr o lyfrau, o bapurau, o sidan, neu ddillad, gan eu tyllu â mil o leoedd; ni feiddiwn adael cist ar y llawr, oddiethr i ni ei chyfleu ar gostreli gwydr, y rhai, os cedwir hwynt yn lân oddiwrth lwch, ni allant esgyn i fynu ar hyd-ddynt: nid yw hyn ond peth bychan ei bwys, pan ei cymharer â'r niwed trwm a

hwy, a deil allan felly o un tu o anialwch Arabia i'r llall, os gall y marchogwr ddal allan heb gysgu, a dianc rhag, rhwystrau ereill."

Salm 121. 5. *Yr Arglwydd yw dy gysgod ar dy ddeheuolau.* Mae cysgod-len (*umbrella*) yn ddiffyniad hen iawn, yn gystal ag yn un anrhydeddus, yn erbyn effeithiau niweidiol pelydr yr haul, mewn gwledydd poethion; oni allwn ni gan hynny dybied, mai dyma y fath gysgod y cyfeiria y Salmwydd ato?

*Niebuhr*, yr hwn a ymwelodd â pharth deheuol Arabia, a rydd i ni yr hanes canlynol am orymdaith (*procession*) nodedig o eiddo y penaeth sydd yn byw yn Sana, yr hwn sydd yn dywysog mawr yn y parth hwnw o Arabia, ac a ystyrir yn berson santaidd, gan ei fod wedi disgyn oddiwrth Mohammed, eu prophwyd mawr. Mae yn ddigon adnabyddus fod ymerawdwr Twrci, yn Nghaercystenyn, yn myned bob dydd Gwener i'r deml Fohammedanaidd, os bydd yn iach.\* Mae penaeth Sana\* hefyd yn cadw yr un ddefod-grefyddol gyda rhwysg mawr. Ni welsom ni ond ei ddychweliad, o herwydd i hyn gael ei ddarlunio i ni fel y rhan gywreiniaf o'r ddefod, oblegid y cylch hirfaith a gymmer efe' y pryd hwnw, a'r rhifedi mawr o'i weision a'i cylchynant, wedi iddynt gyflawni eu crefyddolderau, mewn tmlau Mohammedanaidd ereill. Blaenorid y penaeth gan rai cannoedd o filwyr. Efe a phob un o'r tywysogion perthynol i'w deulu lliosog, a barodd i gysgod-len helaeth gael ei dwyn wrth ei ochr, ac mae hwy yn fraint, yr hon yn y wlad hon a briodolir i dywysogion y teulu sydd yn llywodraethu, yn union yn yr un modd ag nad yw ymerawdwr Twrci, yn Nghaercystenyn, yn goddef i neb ond ei brif weinidog, gael gorchudd i'w guddio rhag gwres yr haul. Dywedant fod yr arglwyddi annibynol yn nhaleithiau ereill *Yemen*, yn Arabia Ddedwydd, yn peri fod y cysgod-len hyn yn cael eu dwyn mewn modd cyffelyb at eu gwasanaeth hwy, fel arwydd o'u hannibyniaeth. Heblaw y tywysogion, yr oedd gan yr *imam*, nŷu y penaeth, yn ei osgordd (*train*) o leiaf chwe chant o arglwyddi o'r radd ardderchocaf, a blaenoriaid y fyddin, a llawer o honynt yn marchogaeth ar geffylau godidog, ac yr oedd lliaws mawr o bobl yn canlyn ar draed. Ar bob tu i'r *imam* dygid llumman, yr hwn oedd yn wahanol i'r eiddom ni, trwy fod ar ei

\* *Sana*. Dinas yn Asia, yr hon yw prif ddinas Arabia Ddedwydd. Mae dadfeiliau castell yn ei hymyl, yr hwn y dywedir iddo gael ei adeiladu gan Sem.

yr hanes canlynol ymddengys y fath angenrheidrwydd neillduol oedd, ac sydd etto, fod dyn yn y Dwyrain yn meddiannu yr hyn a ellir alw yn ddefod-wisg at achlysuron neillduol. "Mae chwedl gyffredin allan, pan fyddo crïstionogion yn ewyllysaio cael siarad âg ymerawdwr Twrci, fod cennadwri yn cael ei hanfon, at yr ymerawdwr, yn gosod allan, fod et, noeth a newynog, yn deisyf cael ei dderbyn i mewn: i'r hwn y rhoddir yr ateb hwn, Gwisgwch a phorthwch ef, ac yna dygwch ef i mewn. Mae y *pelisse* yn arwydd o fri yn Twrci, yr un modd ag y mae y gardys neu wisgoedd y llys yn Lloegr. Ond gall y chwedl ddarostyngiadol am wisgo godi, efallai, o herwydd dull gwisgoedd rhai pobl a welant y rhai yr ystyriant hwy nad ydynt yn wisgoedd gweddus. Cyfrifir ei fod yn beth anaddas yn y dillad byrion Dwyreiniol neu eiddo y *Mamelouks*, i wneuthur ymweliad cyffredin heb y wisg uchaf hōno yr hon sydd yn cuddio dyn, fel un o w'nau athrofa. *Notes during a Visit to Egypt, Nubia, &c. by Sir F. Henniker, p. 325.*

Marc 14. 51. *A rhyw wr ieuanc oedd yn ei ddilyn ef, wedi gwisgo â lliain mair ar ei gorph noeth; a'r gwŷr ieuainc a'i daliasant ef:* Mae Poccoke yn sylwi, wrth ddesgrifio dillad pobl yr Aipht, "ei fod bron yn beth cyffredinol yn mys brodorion Arabaidd a Mohammedanaidd y wlad, i wisgo gwrthban helaeth, naill ai gwyn neu wineu, ac yn yr hâf llen las a gwyn o gottwm; gan roddi un gongl yn mlaen, dros yr ysgwydd aswy, dygant hi yn ol, dan y fraich ddehau, ac felly dros eu cyrph, ac felly gadewir y fraich ddehau yn noeth at weithrediad. Pan byddo yr hin yn boeth, a hwy yn marchogaeth, hwy a'i gollyngant i syrthio i lawr ar y cyfrwy o'u hamgylch: ac ynghylch *Faiume*, sylwais yn neillduol nad oedd gan bobl ieuainc yn enwedig, a'r fath dlotaf, *ddim am danynt* ond y gwrthban hwn; ac mae yn debygol fod y gwr ieuanc wedi ei ddilladu yn y modd hwn, yr hwn a ddilynodd ein Iachawdwr, pan ddaliwyd ef, gan yr hwn yr oedd gwisg o liain wedi ei bwrw o amgylch ei gorph noeth; a phan ddaliodd y gwŷr ieuainc ef, efe a adawodd y lliain, ac a fodd oddiwrthyt yn noeth." *Travels, vol. 1, p. 190.*

Marc 14. 52. *Ac efe a adawodd y lliain, ac a fodd oddiwrthyt yn noeth.* "Tra yr oeddym yn esgyn y bryn, ein tywyswyr Arabaidd newydd a gantuasant ymryson yn y gwastadedd, rhwng eu cyfeillion, y rhai a adawsent i gadw yr yspail, a pherchenogion y da yspeiliedig, y rhai a ddilynasant yr yspeilwyr, ac a'u

a Rosetta, dechreuasom groesi yr anialwch, yr hwn a ymddangosai fel môr o dywod, ond yn fwy gwastad a chadarnach, o ran ei wyneb nag o'r blaen. Yr Arabiaid, gan lefaru eu hiaith drosgl, a redasant dan siarad wrth ochrau ein hasynod, nes i rai o honynt waeddi allan *Raschid!* ni a gnafuasom ei thyllau, &c., yn ymddangos ar y tu arall i lyn neu fôr mawr, yr hwn a orchuddiai yr holl le rhyngom a'r ddinas. Heb fod genyf yn fy meddwl fy hun, ar yr amser hwnw, un amheuaeth yn nghylch y sicrwydd mai dwfr ydoedd, ac yn gweled clych-dai blaen-ffin ac adeiladau Rosetta, yn nghyd a'r holl lwyni a goed *dates* a sycamorwydd yn cael eu hadlewyrchu ganddo fel mewn drych, fel y gallasid darlunio y peth manylaf perthynol i'r adeilad neu i'r coed, mi a ofynais i'r Arabiaid pa fodd yr oeddym i groesi y dwfr. Yr oedd ein deonglydd, er mai Groegwr ydoedd, mor hyderus â neb o honom ein bod yn nesu at ymyl dwfr, a digllonodd pan haerodd yr Arabiaid, y byddai i ni mewn awr gyrhaedd Rosetta trwy groesi y tywod yn y llinell union ag oeddym yn ddilyn y pryd hwnw, ac nad oedd yno ddim dwfr. Beth, eb efe, gan roddi ffordd i'w dymher, a ydych yn tybied mai dyn gorphwyllog ydwyf, ac y cymmeraf fy mherswadio yn groes i dystiolaeth fy synwyrâu? Yr Arabiaid dan wenu, a'i llonyddasant ef yn fuan, ac a wnaethant i'r holl gydymdeithion synu, trwy ddymunio arnom edrych yn ol ar yr anialwch a deithiasem eisioes, lle y gwelsom ymddangosiad cyffelyb hollol. Yr oedd yn ymddangosiad i'r hwn yr oeddem oll yn ddyethriaid bryd hyny, 'er wedi hyny iddo ddyfod yn beth mwy cynnefin i ni. Etto ni bu i ni ar un achlysur wedi hyny weled yr hudoliaeth anarferol hwn yn ymddangos mor rhyfeddol. Rhoddodd yr olwg arno ddrychfeddyliau i ni am yr anobaith dychrynlyd y rhaid fod teithwyr weithiau yn agored iddo, y rhai, wrth fyned dros y diffaethwch dirfawr yn ymddifad o ddwfr, ac yn trengu gan syched, ydynt yn cael yr olwg dwyllodrus hon o flaen eu llygaid." Hwy a welsant yr ymddangosiad rhyfedd hwn ddwywaith wrth groesi yr anialwch.

"Ei liw oedd y glas puraf, ac yr oedd-mor loyw fel yr oedd cysgod y mynyddoedd a ymylent ar y terfyngylch i'w weled ynddo yn y modd egluraf, a gwnelid yr hudoliaeth mai dwfr ydoedd fel hyn yn berffeithiach. Yr oeddwn yn fynych wedi gweled yr ymddangosiad hwn yn Syria a'r Aiff, ond yr oeddynt yn wastad o liw goleu, ryw beth yn debyg i niwl y bore, yn anfynych yn

oedd crysau a chochlau cyfain, a'r llewys a'r rhanau ereill wedi eu gwau yn un darn, yn bethau anghyffredin yn y Dwyrain. Mae teithiwr Arabaidd yn y nawfed ganrif o'n cyfrif ni, hanes yr hwn, yn nghyd ag eiddo Arab arall, a gyhoeddwyd yn yr Iaith Ffrengig, gan *Renaudot*, (*Anciennes Relations des Indes et de la Chine, Paris, 1718,*) yn dywedyd (p. 2,) "fod gwehyddion medrus yn y *Maldives*, ynysodd bychain yn Môr yr India, y rhai a wnant grysau cyfain a chochlau culion o fân edafedd y pren *cocoa*." Dywed yr un teithiwr (p. 21,) am wlad yn yr India yn yr hon y mae ganddynt wisgoedd wedi eu gwau o gottwm mewn modd neillduol iawn, y rhai ynt bron yn grynon, ac mor deg fel y gellir eu tynu trwy fodrwy o faintioli cymmedrol.

Act. 18. 6. *Efe a ysgydwodd ei ddillad.* Mae ysgwyd y gochl, gweithred gyffredin iawn yn Twrci, yn ddiamheu, yn weithred o'r un natur ac i'r un dyben a hōno o eiddo St. Paul, yr hwn, pan ymosododd yr Iuddewon yn ei erbyn, ac y cablasant, a ysgydwodd ei ddillad." *Morier's Second Journey through Persia, p. 123.*

"Ein *Tchochodar Ibrahmin*, pan welodd y bobl hyn a ymaflodd yn ei *belisse*, ac a ysgydwodd ei ymylau, ac a wnaeth arwyddion i ni i fod ar ein gwyliadwriaeth." *Clarke's Travels, vol. 4, p. 36.* Mae hyn yn arwydd o ocheliad yn gyffredinol yn mys y Tyrciaid.

Act. 19. 12. *Napcynau.* "Arferir bron yn mhob lle ddywn ffôn yn eu dwylaw; mae y gorchwyl o wneuthur napcynau hefyd yn gyffredinol yn Arabia, yn Syria, yn ngwlad Cannan, ac yn yr holl ymerodraeth Dyrcaidd. Gwneir hwynt â nodwydd; ac y mae y gwaith hwn yn ddifyrwech i'r ystlen deg yno megys y mae gwneuthur darnau o deisban (*tapestry*) &c. gyda ni. Mae y merched ieuainc yn eu gwneuthur i'w tadau, i'w brodyr, ac yn eu rhoddi fel anrhegion i'w cyfeillion. Maent yn eu cadw bron yn wastadol yn eu dwylaw yn y gwledydd poethion hyny, i sychu eu chwys." *Chardin, Harmer, vol. 2, p. 395.*

"Un o brif swyddwyr y llywodraethwr yn nesaf a roddai i bob un o honom napcyn wedi ei harddu â brwyd-waith yn anrheg; anrhegion, eb efe, trwy ba rai yr oedd anffyddiaid o radd uchel yn cael eu hanrhydeddu ar eu hymweliadau â'i feistr ef. Yr oedd y napcynau wedi eu gwneuthur o fwsalin wedi ei harddu â brwyd-waith." *Clarke's Travels, vol. 2, p. 352.*

Mae y<sup>o</sup> foneddiges M. W. Montagu yn dywedyd iddi hi gael napeynau wedi eu harddu â brwyd-waith, gan foneddigesau mawrion Twrci. Nid oes ond ychydig o bersonau o rwy uchder o ran sefyllfa yn China, y rhai nad ydynt bob amser yn dwyn gyda hwynt napeyn prydfferth yn eu llaw, neu wedi ei roddi yn ddiogel wrth eu hochrau, mewn modd ag y byddo yn wastadol yn gyfleus at eu gwasanaeth. *See also Walpole's Memoirs of Turkey, vol. 1, p. 391.*

1 Cor. 11. 14. 15. *Onid yw naturiaeth ei hun yn eich dysgu ehwi, os gwallt llaes a fydd gwr, mai anmharch fydd iddo; ond os gwraig a fydd gwallt llaes, clod yw iddi: oblegid ei llaes-wallt a ddodwyd yn orchudd iddi.* Mae y boneddigesau Dwyreiniol yn nodedig am hyd a rhifedi cydynau eu gwallt. Y gwŷr yno, yn y gwrthwyneb, nid ydynt yn gwisgo ond ychydig o wallt ar eu talcenau. Mae y foneddiges M. W. Montagu yn llefaru fel hyn yn nghylch gwallt y gwragedd. "Mae eu gwallt yn crogi yn ei lawn hyd o'u tu ol, wedi ei ranu yn gydynau, yn mhob un yr oedd perl neu ysnod yn, wedi ei osod. Ni welais i erioed yn fy mywyd gynnifer o gnydau heirdd o wallt. Yn ngwallt un foneddiges mi a gyfrifais gant a deg o'r cydynau hyn, ac holl yn naturiol; ond rhaid addef fod pob math o brydferthwch yn fwy cyffredin yma na chyda ni."

Mae y gwŷr yno, yn y gwrthwyneb yn eillio eu gwallt oddiar eu penau, oddiethr un cydyn; a'r rhai a wisgant eu gwallt, tybiant eu bod yn fenywaidd. Coffêir y ddau beth hyn gan *Chardin*, yr hwn a ddywed mai felly y gwnant yn y Dwyrain; mae y gwŷr yn eillio, mae y gwragedd yn meithrin eu gwallt gyda hoffder mawr, yr hwn a estynant, trwy osod cydynau o sidan wrtho, hyd eu sodl u. Y gwŷr ieuainc a fyddo yn gwisgo eu gwallt yn y Dwyrain, edrychir arnynt fel rhai menywaidd a gwarthus.

---

## PENNOD VII.

### ANRHEGION AC YMWELIADAU.

GEN. 33. 10. *A Jacob a ddywedodd, Nage, atolwg, os cefais yn awr ffafr yn dy olwg, cymmer fy anrheg o'm llaw i. Yn y Dwyrain, pan wahoddo rhyw ddyn un o'i uchafiaid, arfero wneu-*

thur anrheg iddo ar ol y pryd bwyd, fel cydnabyddiaeth am ei drafferth. Gwneir hyny yn fynych cyn bwyta, gan nad yw yn fwyhad ar ei fri i ddyn fyned i dŷ un o'i israddiaid. Gwnant anrhegion i'w cyd-raddiaid, ac i rai islaw iddynt eu hunain. *Chardin, MS. Harmer, vol. 2, p. 324.*

2 Sam. 11, 8. *Ac Urias a aeth allan o dŷ y brenin, a saig y brenin a aeth ar ei ol ef.* Yr oedd unrhyw anrheg a roddid yn uniongyrchol oddiwrth ryw berson breninol yn cael ei hystyried yn werthfawr neillduol. "Gwnaethpwyd trefniadau yn awr at i ni gael ein dwyn ger bron yr unben yn ddoed ar ei ddychweliad, yr hwn a sefydlasai efe i fod, yn ol tystiolaeth y prif-weinidogion, ar y trydydd ar ddeg o'r mis hwn. Yn y cyfamser efe a anfonodd at y Cenhadwr arwydd neillduol o roesaw, trwy ei anrhegu â thair *Antelope*, math o eifr, a hanner cant o betris, y rhai a laddasai efe â'i law ei hun: amgylchiad a chwanegai lawer at werth yr anrheg hon, ac a roddodd hawl i'r clydydd i wobr gymmaint â'i gyflog dros hanner blwyddyn." *Str William Ousley's Travels in the East, vol. 3, p. 116.*

Esther 9. 19. *Am hyny Iuddewon y pentrefydd, y rhai oedd yn trigo mewn trefi heb gaerau, oedd yn cynnal y pedwerydd dydd ar ddeg o'r mis Adar, mewn llawenydd a chyfeddach, ac yn ddiwrnod daionus, ac i anfon rhoddion i'w gilydd.* "Ni a gawsom y cig yn flasus a thyner, yr hwn oedd ddarn o gnwc camel, yr hwn a ystyrir y cig goreu: nid oedd ynddo fawr o frasier, ac ymddangosai y cig yn arw anarferol; pa fodd bynag ni a wnaethom fore bryd cysurus o fwyd. Dygwyd y wledd yn mlaen gyda llawer o drefn a gweddusder: bwytaodd y *sheikhs* o'r neilldu wrthynt eu hunain mewn rhes ddwbl, ag amrywiol o ddysglau mawrion wedi eu gosod mewn pellder pennodedig rhyngddynt: ac yr oedd rhaff wedi ei gosod o amgylch i attal y bobl i wasgu i mewn. Yr oedd Narsah yn mhen y rhes, ac ychydig o gydymmeithion mynwosol gydag ef, i blith y rhai y galwyd ni wedi i ni gymmeryd ein bore-fwyd. Wedi i'r *sheikhs* orphen, cafodd y bobl wledda ar y gweddill. Heblaw hyn, dosparthwyd rhanau o fwyd i wahanol bebyll y gwersyll, yr hwn a gynnwysai yn nghylch dau cant o honynt: bwriedid y rhoddion diweddaff hyn i'r gwragedd a'r plant. Yr ydym yn credu oddiwrth yr holl bentyrau o gig ag oedd yno, fod amrywiol o gamelod wedi eu trin." *Arby and Mangle's Travels in Egypt, &c. p. 265.*

Dan. 2. 46. *Gorchymmynodd hefyd am iddo offrymu iddo offrom*

ac aroglarth. Yr oedd offrymu peraroglau yn cael ei gyfrif yn arwydd o barch ac anrhydedd yn yr oesoedd boreaf yn mysge pobl y Dwyrain. Offrymwyd y cyfryw offrym i Daniel mewn trefn i wneuthur anrhydedd mawr iddo. Hysbysa *Herodotus* hefyd i ni, (b. 3, cap. 20,) fod y personau a anfonwyd i Babilon o Ethiopia gan Cambyses, 'wedi eu hawdurdoddi i draddodi gyda rhyw anrhegion, genadwri neillduol i'r tywysog.' Yr oedd yr anrheg yn cael ei gwneuthur i fynu o wisg goch-las, cadwyn aur i'r gwddf, breichledau, blwch o beraroglau, a bariled o win." Mae taenellu ystafelloedd a phersonau gwestwyr â rhôs-ddwfr, a pheraroglau ereill, yn parhau yn y Dwyrain i fod yn arwydd o sylw parchus. Matt, 26. 7. Marc 14. 3.

"O'r holl roegiaid, ymddangosai iddo wneuthur y bri uchaf i Antalcidas, y Spartiad, pan y cymmerodd efe y dalaith a wisgai efe wrth y bwrdd oddiam ei ben, ei soddi mewn peroglau, a'i hanfon iddo." *Plutarch, Vit. Pelopidas.*

Ymerawdwr China a roddodd i Mr. George Staunton, mab i ysgrifenydd cennadiaeth Arglwydd Macartney, ei gôd oddiwrth ei wregys â'i law ei hun.

Mal. 1. 8. *Cynnyg ef yr awr hon i'th dywysog.* Mae hyn wedi ei fwriadu fel cerydd i Israel am offrymu at wasanaeth allor Duw y fath ebyrth ag oedd yn anmberffaith; a'r fatl, pe cynnygiasid hwyt i un o'u huchafiaid, na chawsent eu derbyn. Mae anrhegion yn gyffredinol yn gymmeradwy; ond mae amgylchiadau yn y Dwyrain yn gwneuthur gwahaniaeth mawr ar y pen hwn, gyda golwg ar y drychfeddylliau ag a gyssylltid gan y bobl hyn ag anrhegion, a'r rhai a fynwesir yn gyffredin gan bobl yn y rhan hon o'r byd. Yr oedd anrhegion yn angenrheidiol anheggorol er cael ffafr gwyr mawrion. Yr oedd teyrnged y brenin yn caal ei thalu, yn wir, â'r pethau ag oeddynt angenrheidiol at gynnalïaeth; felly hefyd yr oedd rhenti gwahanol bersonau; o ganlyniad byddai y cyfryw bersonau yn ofalus am gael yr hyn oedd dda a dianaf, a dirmygent dderbyn yr hyn a fyddai yn wahanol.

Yn gyson â hyn, y mae *Mr. Bruce* (*Travels, p. 353,*) yn dywedyd wrthym mai "enw llywodraethwr presennol *Dahalac* yw Hagi Mohammed Abed-el-Cader. Teyrnged y llywodraethwr hwn yw gafr yr hon a ddygir iddo yn fisol gan bob un o'r deuddeg pentref. Mae pob llong a dry i mewn yno hefyd yn talu iddo bwys o *goffee*, ac y mae pob un o Arabia yn talu *dollar* neu



*pataka.*" Mae *Chardin* yn sylwi, ei fod yn ddefod yn y Dwyrain, fod y bobl dlodion, ac yn enwedig y rhai sydd yn y wlad, yn gwneuthur anrhegion i'w harglwyddi o wŷn a defaid, fel offwrw neu deyrnged."

"Rhoda'wyd rhybudd i'r cennadwr pa awr y gallai efe wneuthur ei ymostyngiad o flaen y tywysog, i hysbysu iddo ddyben ei ddyfodiad, a chynnyg ei anrhegion: canys y mae yn ddefod sefydledig yn y Dwyrain na byddo i neb ymddangos ger bron uchafiad heb ddwyn anrhegion iddo. Ei anrhegion ef oeddynt chwech dryll o *gamlet* Cyprus, rhyw gymmaint o ysgarlad, deugain torth sugyr, hebog, dau fwa, a dwsin o fyllt." *Travels of Bertrandon de la Brocquiere in 1432, p. 185.* Mae anrhegion i ddynion, fel offrymau i Dduw, yn gwneuthur iawn am droseddau. *Jolliffe's Letters from Palestine, p. 142.*

## PENNOD VIII.

### DIFYRWCH.

Ecsod 15, 20. *A Miriam y brophwydes, chwaer Aaron, a gymmerodd dympan yn ei llaw, a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiau.* Mae boneddiges *M. W. Montagu*, wrth lefaru am ddawnsiau yn y Dwyrain, yn dywedyd, "Yr un yn ddiau yw eu dull â'r hwn y dywedir i Diana ei arfer wrth ddawnsio ar lanau yr Eurotas. Mae y foneddiges fawr o hyd yn arwain y dawns, ac yn cael ai chanlyn gan lu o ferched ieuaine, ac os bydd hi yn canu, hwy a wnaent i fynu y bwrddwn. Mae y tonau yn fywiog nodedig, etto y mae rhywbeth ynddynt sydd yn fwynaidd rhyfeddol. Mae eu camrau yn cael eu hamrywio yn ol ewyllys yr hon sydd yn arwain y dawns, ond yn wastadol y maent yn rheolaidd, ac yn llawer mwy trefnus nac yn yr eiddom ni." *Letters, vol. 2, p. 45.* Mae hyn yn rhoddi i ni dyb wahanol am ystyr y geiriau hyn nac yn amgen a fyddai genym. *Miriam y broffwydes, chwaer Aaron, a gymmerodd dympan yn ei llaw, a'r holl wragedd a aethant allan ar ei hol hi, â thympanau ac â dawnsiau.* Hi a dywysodd y dawns, a hwy a ddilynasant ei chamrau hi, y rhai ni reolid gan ryw ffurf osodedig ag cedd yn adnabyddus, ond gan deimladau y galon ar-yr amser hwnw. Tebygol na

ddawnsiodd Dafydd wrtho ei hun ger bron yr Arglwydd pan symudwyd yr arch, ond iddo dywys y dawns yn yr un modd awdurdodol, 2 Sam. 6, 14. Barn. 11, 34. 1 Sam. 18, 6. Mae gweddill o'r hen ddefod o ddawnsio yn gyhoedd wrth gadw gwyl am ryw ddygwyddiad happus, yn cael ei gadw o hyd yn yr Aipht, lle y mae gwragedd yn gorfoleddu trwy ddawnsio am godiad blynyddol y Nilus, ac agoriad y dyfr-ffosydd i ddyfrhau y wlad. "Dihunwyd ni o'n hûn gyntaf gan swm rhyw offer yn tincian, a swm lleisiau menywod yn ei ganlyn. Edrychais allan trwy y ffenestr, a gwelais gwmpeini o ddeg ar hugain o leiaf, o lancesau, yn nesu atom, gan estyn eu camrau yn rheolaidd, a gwneuthur awgrymau bywiog. Yr oedd y lloer yn llewyrchu yn ddisglaer iawn, a chawsom olwg gyflawn arnynt, o'u gwaith yn dyfod i borth ein heol ni, hyd nes y daethant hyd at ein tŷ ni. Yna hwy a arosasant, a chan wneuthur eu hunain yn gylch o flaen y drws, adnewyddasant y dawns a'r gân gyda bywiogrwydd mawr, a dygasant i'n cof y darluniad a roddir yn yr Ysgrhythrau Santaidd o'r gwragedd hyn wrth ddawnsio. Wedi iddynt ein ffafrio ni dros ychydig o funudau a'u chwareu bywiog, hwy a symmudasant yn mlaen at dŷ yr *hakeen*, ac a ganasant dôn neu ddwy o flaen ei dŷ ef, yna y cwmpeini llawen hyn a ymudawsant â'n parth ni, i ddeffroi ereill o gysgaduriaid y dref i fwynhau eu peroriaeth a'u llawenydd. Yr oeddym yn anesmwyth am wybod yr achos o'r aflonyddwch hyfryd a gawsom y neithiwr, a chlywsom gan un o'n gwylwyr fod y llancesau ag oedd yn dawnsio yn cadw y ddefod a welsom, o herwydd codiad cyntaf y Nilus. Ymddengys iddynt ddyfod heibio i'n tŷ ni yn eu ffordd at yr afon, lle yr aethant i ymolchi ar y pryd hwnw o'r nos, ac i ganu clod i'r gallu haelionus hwnw, yr hwn yn flynyddol sydd yn cyfranu ei ddyfroedd i ddiwallu anghenion y brodorion." *Irwin's Voyage to the Red Sea*, p. 229. Wrth y tympanau ar y rhai y chwareuodd Miriam a'r gwragedd ereill wrth ddawnsio, yr ydym i ddeall tympan yr hen Roegiaid a'r Rhufeiniaid. Mae yr offeryn hwn o hyd yn y Dwyrain yn cadw yr enw ag y mae yn gael yn yr Hebraeg, *sef doff* neu *diff*, oddiwrth yr hwn y deillia y gair Ispaenaidd *adufe*. Mae *Niebuhr* yn disgrifio yr offeryn hwn, (*Travels, part 1, p. 181.*) Cylch llydan ydyw, a chroen wedi ei ledu drosto; ar yr ymylau mae yn gyffredin lafnau teneuon o ryw fettel, y rhai hefyd a wnant swm, pan ddalier yr offeryn hwn i fynu mewn

un llaw ac y tarawer ef â bysedd y llaw arall. Nid oes un offeryn cerdd, tebygol, mor gyffredin yn Twrci â hwn; canys pan ddawnsio y menywod, mewn rhai o'u chwareuyddiaethau, oedwir yr amser yn wastadol â'r ergydion ar yr offeryn hwn. Cawn yr un offeryn ar eu holl gofodeiladau yn llaw y *Bacchante*. Mae hefyd yn gyffredin yn mysg y Negroaid ar y *Gold Coast* a'r *Slave Coast*. Mae *Vogel* yn ei *Account of his Ten Years' Voyage in the East Indies*, p. 463,) yn dywedyd, "Hwy a gyrchasant o'r gymmydogaeth bedair merch, yn nghyd a'u hofferynau, y rhai a elwir *rabannes*, ac a wnaethant iddynt chwareu. Ond nid yw y *rabannes* hyn yn ddim mwy na math o dabyrddau o'r un dull â'r eiddom ni, ond ddim mor uchel, ar y rhai y chwareuai y merched ag un llaw, gan ganu ar yr un pryd, a dawnsio yn eu dull hwy, a thafu eu hunain i bob math o agweddau.

Mae darluniau cyffelyb i'r rhai hyn yn fynych i'w cael yn ysgrifeniadau hen Awdwyr. Mae Plato yn sicrhau i ni fod y duwiau, a phlant y duwiau yn cael eu hanrhydeddu â dawnsiau. *De Leg. b. 7, p. 815.* Ac yr oedd efe am gyssegru caniadau a dawnsiau iddynt; pennodi gwyliau ar amserau priodol o'r flwyddyn, a gorchymmyn trwy awdurdod pa ganiadau a fyddent yn briodol i gael eu canu, a pha ddawnsiau i gael eu harfer, gyda yr aberthau a offrymmid iddynt. Hysbysa Lucian i ni fod yr Indiaid yn addoli yr haul, pan gyfodent yn y bore, nid fel y gwnelai y Groegiaid trwy gusanu eu llaw, ond trwy droi tua'r Dwyrain a dawnsio, ac fel hyn gwneient heddwch â'r duwdod fore a hwyr. *De Sallat. § 15, 16, 17. Chandler's Life of David, vol. 2, p. 116.*

"Mae yr Almai yn gwneuthur i fynu ddosparth clodfawr iawn yn y wlad hon; mewn trefn i gael derbyniad jiddo rhaid meddiannu prydferthwch, llais hyfryd, hyawdledd, a gallu i gyfansoddi ac adrodd pennillion cymmwys i'r amgylchiad. Mae yr Almai oll yn gwybod caniadau newyddion ar eu tafodau; mae eu cof yn cael ei ystorio â'r caniadau goreu yn nghlych angladdau a chariad; maent yn bresennol yn mhob gwyl, a hwy ydynt addurniadau penaf gwleddoedd. Maent yn cael eu gosod mewn math o areithfa wedi ei chyfodi yn uwch nâ'r lle o'i hamgylch lle y canant yn ystod y wledd; wedi hyny disgynant a ffurfiant ddawnsiau, y rhai nid ydynt mewn un modd yn debyg i'r eiddom ni. Math o chwareuau ydynt yn y rhai nid oes dim swm ond

awgrymau; cariad yw eu testun cyffredin. Mae ystwythder cyrph y rhai hyn wrth ddawnsio yn annirnadwy, a hyblygrwydd eu hwynebau, y rhai a dderbyniant argraphiadau darluniadol o'r rhanau a chwareuant hwy yn dda, mewn modd rhyfeddol. Pa fodd bynag, y mae anweddustra yr ystum yn fynych yn myned yn mhell iawn. Maent yn cael eu derbyn i'r holl harems. Maent yn dysgu y tônau newyddion i'r menywod; yn adrodd chwedlau yn nghylch carwriaeth; ac yn canu caniadau y rhai a ddesgrifant eu moesau eu hunain." *Savary on Egypt.*

Num. 21. 17. *Yna y canodd Israel y gân hon, Cyfod ffynnon, cewch iddi.* "Menywod *Eleusis*, yn ngwlad Groeg, a gyflawnasant dawns o amgylch ffynnon, yr hon a elwir *callichorus*, a chyda eu dawns canant ganiadau hefyd o anrhydedd i *Ceres*. Mae y caniadau hyn yn nghylch ffynnon yn cael eu canu mewn parthau ereill o wlad Groeg, yn gystal ag yn Syria. Mae *De Gugs* yn son am danynt. Efe a ddywed iddo weled y menywod ieuainc yn *Prince's Island*, wedi ymgasglu yn yr hwyr wrth ffynnon gyhoedd, ac yn uno yn ddisymmwrth i ddawnsio, tra y canai ereill gyda'u gilydd. *Lett. on Greece, vol. 1, p. 220. Lond. 1781.* Cyfansoddai yr hen brydyddion bennillion y rhai a genid gan y bobl wrth dynu dwfr, y rhai a elwid yn bendant caniadau y ffynnon. Mae *Aristotle*, yn ol tystiolaeth *Winkelmann*, yn dywedyd, "fod y ffynnonau cyhoedd yn gwasanaethu fel cynnifer o foddion i uno cymdeithas, gan eu bod yn dwyn y bobl yn finteioedd at eu gilydd, ac felly i gyfeillgarwch, trwy eu bod yn arfer dawnsio yn nghyd yn fynych o'u hamgylch. Gall hyn wasanaethu i egluro yr achos o'r amrywiaeth o lampau heirdd, piserau, a llestri gwerthfawr ereill, y rhai a gafwyd yn ngwaelod ffynnonau gwahanol barthau o wlad Groeg." *Clarke's Travels, vol. 3, p. 430.*

1 Sam. 16. 17. *A dywedodd Saul wrth ei weision, Edrychwch yn awr i mi am wr yn medru canu yn dda, a dygwch ef ataf fi.* Dichon i'r gorchymyn hwn o eiddo Saul gyfodi oddiar ddymuniad i gael y fath berson ag a allai, trwy ei fedrusrwydd i ganu, weithredu tuag at ei foddhad ef a thuag at ei ardderchogrwydd. Ymddengys ei fod yn rhan o wychder breninol yn y Dwyrain fod ganddynt ddynion o'r desgrifiad hwn yn nghylch eu llys. Gellir sylwi hefyd, "fod rhai profsedig i adrodd chwedlau, er oesoedd bereol yn y Dwyrain. Hyd yn oed y dydd hwn mae gan ddynion o radd uchel yn gyffredin un neu ddau, gwrryw neu fenyw, yn mysg eu gweinyddwyr, y rhai a'u difyrent hwy

a'u menywod, pan yn brudd, ac yn cael eu trallodi a'u blino; a defnyddir hwynt yn fynych i'w suaw i gysgu. Mae llawer o'u chwedlau yn ddifyrus iawn, yn enwedig y rhai ydynt o ddechreuad Persiaidd, neu y rhai a ysgrifenyddyd yn ol dull y rhai hyny. Yr oeddynt yn eael eu tybied mor' beryglus gan Mohammed, fel y gwaherddir hwynt yn bendant yn y Koran." *Richardson's Dissert. on the Manners of the East.*

Yn Persia, "lle y byddo rhyw ychydig fwy o le nac arferol, neu dan ryw ffyrdd gorchuddiedig yn ymyl masnach-dai, cawn yn gyffredin un o'r adroddwyr chwedlau hyn, y rhai ydynt bersonau cyhoedd, yn cael ei gylchynu gan finteioedd o bobl; rhai mewn dillad da, ereill mewn bratiau, a llawer yn noethion, yn gwrando gyda y gofal mwyaf ar chwedlau y rhai y rhaid eu bod wedi eu clywed fil o weithiau o'r blaen. Mae yn eu hadrodd gyda newidiad ystumiau, ac amrywiaeth llais, yn ol oi destun: mae pawb o'r tlodion hyd y pen sydd yn gwisgo y goron, yn mynwesu yr un hoffder yn y difyrwch hwn. Ei fawrhydi presennol, a thywysogion y llys, a gadwant, bob un o honynt, un o'r bobl hyn sydd yn adrodd chwedlau; wrth wrando ar ffrwythau cof a hyawdledd y rhai hyn; y treulia y teulu breninol eu horiau segur yn ystod y dydd; a phan ar daith faith, mae y swyddog angenrheidiol hwn yn wastadol o hyd galw, i'w difyru yn wyneb meithder y ffordd." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 311.*

"Mae y fath fwyaf sobr (y Tyrciaid) yn fynych yn cyrchu, tua diwedd y dydd, i dai neillduol at yfed *coffee*, lle y bydd i gymdeithas liosog wrando ar adroddiad rhyw un, ag a fyddo wedi ei ddewis o'r cwmpeini, gyda y sylw mwyaf dwys a pharchus. Y chwedlau hyn, y rhai weithiau a barhant dros ddwy awr, nid ydynt yn ddibwys, ond mae iddynt yn wastadol ryw addysg fel eu dyben." *Jolliffe's Letters from Palestine and Egypt, p. 304. Forbes's Oriental Memoirs, vol. 3, p. 181. Malcolm's History of Persia, vol. 2, p. 552. Heude's Voyage up the Persian Gulf in 1817, p. 212. Sir W. Ouseley's Travels in the East, vol. 2, p. 116. Wittman's Travels in Turkey, p. 370.*

Yr oedd adrodd chwedlau yn un math o ddifyrwch yn mysg y cenedloedd Dwyreiniol Hwy a galonogent ac a gynnalient bersonau proffes a bywioliaeth y rhai oedd hyny. "Yn yr hwyr, ni a gyfarfuaform oll fel o'r blaen, yn nhŷ *Awobe*, y marsiandwr, lle yr oedd cymdeithas liosog wedi ymgynnull cyn ein dyfodiad.

Cyn i ni eistedd yn hir, pa fodd bynag, fy nghydymaith, Mallim Georgis, a roddodd i'r gymdeithas angrafft o'i alluoedd i adrodd pennillion, fel y dywedodd wrthyf, difyfyr yn yr iaith Arabaeg, y rhai, mor bell ag y gallwn ni farnu, a dybid yn gyffredinol yn ymdrechion llwyddiannus at drefniad medrus o ran mesur a chynghanedd cywir. Wedi hyn un o'r cwmpeini a adroddodd res o linellau ar lythyrenau egwyddor yr iaith Arabaeg, cafodd chwedlau o'r *Arabian Nights* eu hadrodd gan rai o aelodau ieuangaf y cwmpeini; ac wedi hyn, yr offeiriad, yr hwn oedd yn bresennol, a orphenodd y difyrwch trwy roddi hanes mewn ymadroddion rheolaidd a dull rhwysgfawr, am ddinystyr Sodom a Gomorrah, trwy iddynt gael eu llyncu yn y lle y mae y Môr marw yn awr." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 53.

"Yr unig leocedd at ddifyrwch yn Cairo ydynt y *Coffee-houses*, y rhai ydynt yn gyffredin yn llawn; ond pa mor lliosog bynag y byddo y cwmpeini, mór fuan ag y dechreuo un o'r adroddwyr hyn ei chwedl, y mae dystawrwydd yn uniongyrchol. Mae llawer o'r Arabiaid yn dangos llawer iawn o nerth dychymmyg a chof yn y chwedlau hyn, y rhai ydynt wedi eu cyfaddasu mewn modd rhyfeddol i ddifyru pobl segur ac ofergoelus.

"Tyrciad, a'i bibell hir yn ei law, a wrendy dros oriau ar chwedl am ryw ryfeddod neu swyn, gyda sobrwydd mawr, gan waeddi allan, *Allah*, ac heb rwystro y llefarwr unwaith. Mae y ddefod hon, yr hon sydd yn ffynu mor gyffredinol trwy y Dwyrain, yn wasanaethgar yn gystal ag yn ddifyrus." *Carne's Letters from the East*, vol. 1, p. 187.

2 Sam. 11. 2. *A bu ar brydnhawngwaith gyfodi o Ddafydd oddiar ei wely, a rhodio ar nen tŷ y brenin, ac oddiar y nen efe a ganfu wraig yn ymolchi.* Mae yr hanes canlynol yn cyfatted, mewn rhai pethau, i'r hanes am Dafydd. "Mae Nour Jehan yn arwyddo goleuni y byd; gelwid hi hefyd goleuni y *seraglio*: yr oedd hi yn wraig i un o wŷr mawrion Twrci, teulu yr hwn a ddaethant o Persia i Hindwstan. Gan ei bod hi yn lân nodedig, yn meddu ffraethder mawr, ac yn brydyddes ragorol, yr oedd yr ymerawdwr Tyrciaidd yn penderfynu ei chymmeryd hi yn wraig iddo ei hun. Efe a anfonodd ei gwr, yr hwn a gyfrifid y gwr glewaf yn ei wasanaeth, â rhyw finteioedd dan ei reolaeth i Bengal, ac wedi hyn yfe a anfonodd un arall â chanddo lu mwy i'w dori ef ymaith. Wedi iddo ef gael ei ladd, llwyddwyd yn fuan gyda Nour Jehan

i ddyfod yn ymerodres. Ni chafodd y bâth a wnaethpwyd yn nheyrnasiad yr ymerawdwr hwn, ar yr hwn y mae arwyddion yr arwydd-gylch, ei wneuthur, fel y meddylir yn gyffredin yr Ewrope, wrth orchymmyn yr ymerodres hon; ac ni theyrnasodd hi un diwrnod, fel y mae y dyb gyffredin, ond hi a deyrnasodd ar berson yr hwn a deyrnasodd dros fwy na deuddeng mlynedd." *Fraser's History of Nadir Shaw, note, p. 21.*

Mae y boneddigesau Persiaidd yn ystyried yr olchfa fel y lle mwyaf difyr; maent yn gneuthur ymarwmiadau i gyfarfod yno, ac yn fynych y maent yn treulio saith neu wyth awr yn nghyd yn y parlawr dros lawr yr hwn y mae carped wedi ei dana, gan ddywedyd chwedlau, ac adrodd hanesion, bwyta bwydydd melusion, rhanu y *kaliouns*, a chyffelybu eu prydfethwch, yn ol eu tybiau hwy yn y Dwyrain am berffethrwydd tegwch; lliwio eu gwallt a'u aeiliau, lliwio eu cyrph teg mewn modd cywrain ac amrywiol o ffyrdd, yn ol eu mympwy ofer: mynych y gwnant liwiau coed, adar, ac anifeiliaid, yr haul, y lleuad, a'r ser. Maent yn gosod y lliw hwn dros eu dwyfron, ac i gyrhaedd i waered mor bell â'r fogail, o amgylch yr hon y lliwiant ryw ddartun disglair yn gyffredin. Maent yn gwneuthur eu dillad mewn dull ag y gallont ddangos yr addurniadau hyn; maent oll yn agored o'r gwddf hyd y fan hòno." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 233.*

"Y lle a hoffai pobl y Dwyrain fwyaf yn wir oedd yr olchfa haf. Ymddengys ei bod yn cynnwys llawer o ardderchogrwydd, a mwynderau anianol, yn y rhai yn rhy fynych y mae rhai o dywysogion Asia wedi ymhyfrydu yn ormodol. Mae yr olchfa hon, y parlawr, neu y cyntedd, yn grwn, a chawg mawr o'r un dull yn ei ganol, o fynor gwyn hardd, yr hwn sydd yn nghylch trugain neu drugain a deg o droedfeddi o dryfesur (*diameter*). Mae hwn yn cael ei lanw â'r dwfr gloywaf, yr hwn sydd yn gwreichioni yn yr haul, canys ei unig orchudd yw yr awyrgylch; ond y mae coed rhôs, a manwydd ereill, yn dwyn blodau, yn llwyni gerllaw iddo; ac y mae eu cangenau weithiau wrth ysgwyd yn rhodd cysgod crynawl dros ddisgleirdeb mawr y dwfr. O amgylch y cyntedd y mae dwy res, y naill yn uwch na'r llall, o ystafellau bychain, yn edrych tu a'r olchfa, ac wedi eu trwsio yn hardd iawn. Mae y rhai hyn at wasanaeth y boneddigesau ag sydd yn dyfod gyda y *Shah* yn ystod ei ymweliad achlysurol â'r lle hwn. Maent yn dyoeg ac yn gorphwys yn y rhai hyn cyn neu wedi

cael yr hyfrydwch o ymolchi: y maent mor hoff o'r hyfrydwch hwn, fel y maent yn aros yn y dwfr dros oriau; ac weithiau, pan byddo y gwres yn gwanychu y bobl yn fawr, ymddangosant fel pobl feirw, ac nid fel rhai byw. Ond trwy yr olchfa hyfryd hon, mae y dyfroedd yn llyso yn barhaus o ffynnon; mae yn adnewyddu bywiogrwydd y corff â'i oerfel, ac y mae hefyd yn cynnyddu ei rym: mae yn oeri yr awyr, yr hwn y gallai gwres yr haul, ac arogl y miloedd o flodau sydd o amgylch yn amgen ei wneuthur yn feichus. Mae meistr breninol yr *Horti Adonidis* hwn yn fynych yn gorphwys ganol dydd yn un o'r goruwchystafellau ag sydd o amgylch parloriau yr olchfa: ac os bydd efe yn tueddu at hyny, ni raid iddo ond troi ei lygaid i waered, er cael gweled gwrthdrysiau hawddgaraf ei serch, yn chwaredu fel *Naiads* yn nghanol y ffrydiau grisialaidd, ac yn dangos holl harddwch a bywiogrwydd merched ieuainc Asia. Tebygol mai yn nghyntedd y cyfryw olchfa y gwelodd Dafydd Bathseba, par orchfygwyd ef gan serch atti. Ac efe yn rhodio ar brydnhawngwaith ar nen ei balas, efe a allaisai yn ddiwriad fyned mor agos i'r ymyl fel y gallasai weled golchfa ei fenywod, lle yr oedd gwraig brydferth Uria, wrth ymweled â'r gwragedd breninol, efallai wedi uno â hwynt, fel yr arferid gwneuthur yn fynych yn y gwledydd hyny, wrth ymolchi." *Sir, R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 339.*

Jer. 31, 4. 5. *Ti a ai allan gyd â'r chwareuyddion dawns. Ti a blenni etto winllanoedd yn mynyddoedd Samaria.* Wrth lefaru am y dawnsiau Groegaidd, ac yn enwedig yr un a elwir y *crane*, dywed *Dr. Chandler*, "Mae pobl y wlad yn ei gyflawni yn flynyddol yn heolydd y fynachlog Roegaidd, ar ddiwedd cynnauf y gwin, gan ymfflyd yn nwyllaw eu gilydd, a myned o flaen eu mulod a'u asynod, y rhai ydynt wedi eu llwytho â grawnwin mewn cawelli, ymdroant trwy eu gilydd mewn modd cymmysgylt iawn, ac mae yr arweinydd yn ysgwyd llaw-liain i fynu." Mae *Shaw* (*Travels, p. 234,*) yn llefaru am y gorymdeithiau (*processions*) gorfoleddus hyny at y rhai y tybir fod y proffwyd yn cyfeirio. "Mae llawer o wyr ieuainc Twrci neu Ethiopia, a lliaws mawr o'r milwyr ag nad ydynt yn briod, yn myned gyda eu gordderchadon i'r meusydd, gan gymmeryd gwin a pheroriaeth gyda hwynt; neu ynte yn ymddifyru mewn tafardai: atferiad ag sydd, yn wir, yn cael ei gwahardd yn bendant gan eu crefydd, ond yn wyneb llygredd yr amseroedd, a



urwydau anllywodraethus y troseddwyr y mae y llywodraeth yn ei goddef.

Mat. 14. 7. *Efe a addawodd trwy lw rodidi iddi pa beth bynag a ofynai.* Peth arferol yn y Dwyrain yw fod y rhai a fyddont yn dawnsio yn gyhoeddus ar wyliau mewn tai mawrion, yn gofyn oddiwrth y cwmpeini y rhai y buont yn eu difyru, y cyfryw wobrau ag a welo yr edrychwyr yn dda i'w cyfranu. Y gwobrau hyn yn gyffredin ydynt ddarnau bychain o arian, y rhai y mae y rhoddwyr yn lydiaw (*stick*) ar wyneb yr un a fyddo yn dawnsio. Bydd yr un y byddo y cwmpeini yn ei hoffi yn cael ei wyneb wedi ei guddio â'r cyfryw anrhegion. "*Shah Abbas*, pan yn feddw un diwrnod, a rhoddodd i fenyw a ddawnsiasai wrth ei fodd, rodd werthfawr iawn. Y nazar, wedi iddo rodidi y brenin mewn cof am hyny bore drannoeth, a gymmerodd ryddid i ddywedyd wrtho fod hyny yn afradlonrwydd anniffynadwy; felly y brenin a orchymmynodd rodidi iddi anrheg lawer llai ei gwerth, i'r hon y bu raid iddi foddloni." *Thevenot's Travels in Persia*, p. 100.

Mae y ddysgl arian yn beth nodedig yn yr hanes hwn am doriad pen Ioan. Yn ddiweddar, pan yr oedd ymerawdwr Twrci wedi derbyn, yn ol y ddefod, benau rhai o'i swyddwyr y rhai a dorasid ymaith wrth ei orchymmyn, efe a orchymmynodd iddynt gael eu dangos, mewn dysglau arian, wrth ddrws ei balas, a phapyr ar bob un yn dynodi ei drosedd, yr hyn a wnawd yn ol ei arch.

Yn ol hen ddefod yn Persia yr oedd gan y frenines hawl, ar ddydd gwyl genedigaeth y brenin, i arddelwi unrhyw ffafr a dybiai hi yn addas. *Amestris* a ofynodd' am i wraig *Masistus* (yr hon mewn modd camweddus y tybiai hi ei bod yn cyrchu putteiniaid at y brenin), gael ei thraddodi i'w dwylaw hi; mor fuan ag y traddodwyd hi iddi, hi a orchymmynodd i'w bronau, ei thrwyn, ei thafod, a'i gwefusau, gael eu tori ymaith, a'u tafu i'r cwn; ac iddi hi gael ei chadw i weled ei chnawd ei hun yn cael ei ddifa ganddynt. *Dr. W. Alexander's Hist. of Women*, vol. 1, p. 234.

1 Cor. 15, 32. *Os yn ol dull dyn yr ymleddais ag anifeiliaid yn Ephesus.* Mae yr arferiad farbaraidd o wneuthur i ddyinion ymladd ag anifeiliaid gwylltion wedi ffynu yn y Dwyrain hyd yr oesau diweddaraf. Mae *Jurgen Andersen*, yr hwn a ymwelodd â thaleithiau brenin Mogul yn 1646, yn rhoddi hanes (*Travels*, chap. 22, p. 29,) am y cyfryw ymdrechion ag anifeiliaid, y rhai a welsai efe yn Agra, trigfa brenin Mogul. Mae ei ddesgrifiad

ei hystyried, yn y Dwyrain, oddiar yr oesau boreaf fel arwydd o awdurdod trosglwyddedig. Mae yr un a roddir i brif weinidog Twrci (*Grand Vizier*) gymmaint, fel na faidd un swyddog yn y llywodraeth, ddim un gweinidog, wrthwynebu, nac hyd yn nod dywedyd yn erbyn, ei orchymynion, heb beryglu ei hun, canys ufuddheir i bob un o'i orchymynion, fel pe byddent wedi dyfod o'r orsedd, neu o enau yr ymerawdwr ei hun. Mae efe hefyd yn derbyn bri brenhinol braidd; mae ar y cwbl o'i amgylch arwydd anrhydedd, awdurdod, a gwycheder mawr. *Government, &c., of the Turkish Empire, by Joseph Von Hammer, vol. 2, p. 83.* Mae Ludecke (*Description of the Turkish Empire*), yn dywedyd, "Y *Grand Vizier* yw y penaf o holl weinidogion y llywodraeth, ac mae ei sawredd yn gyffelyb i'r hwn a roddodd Pharaoh i Joseph. Geliwir ef ei Uchder. Nid yw yr ymerawdwr yn gwahaniaethu fawr oddiwrtho ef oddieithr mewn enw. Nid oes dim yn llysoedd Ewrop cyffelyb i'w sawredd ef, ac nid yw mawredd y *prif weinidogion* yn ddim at yr eiddo ef. Gan ei fod yn cadw sêl yr ymerawdwr, mae yn wastadol yn ei chrogi am ei wddf. Y rhoddiad o honi iddo, yw yr arwydd o'i godiad i swydd, a'r cymmeriad o honi ymaith, yw ei ddiswyddiad. Heb chwaneg o gyfarwyddyd na chyfrifoldeb, efe a enfynd allan holl orchymynion yr ymerodraeth." Pan, gan hyny, y bu i Alexander Fawr, ar ei wely angau, roddi ei sêl i *Perdiccas*, barnwyd iddo roddi iddo hefyd ei awdurdod brenhinol, a'i swriadu ef i fod yn olynnydd iddo. *Curtius, b. 5, chap. 10.*

Num. 16. 15. *Ni chymmerais asyn oddiarnynt.* Yr anrheg gyffredin a wneir i'r mawrion yn awr yn y gwledydd hyn yw *ceffyl*: dichon fod *asyn* gynt yn ateb yr un perwyl. "Os ymweliad rhwysgfawr o eiddo *Bashaw*\* a fydd," medd *Dr. Russell*, "neu ryw berson arall mewn awdurdod, mae *ceffyl* da, a harnais hefyd weithiau, neu ryw anrheg werthfawr gyffelyb, yn cael ei rhoddi iddo ar ei ymadawiad." Dywed *Dr. Perry*, pan byddo rhyw un yn cael yr anrhydedd o gael ei wneuthur yn *bey*\*, y mae yn rhoddi anrheg i'r swyddog oddiwrth yr hwn y mae yn derbyn yr arwydd, yr hwn sydd yn cael ei anfon gan ymerawdwr Twrci, a cheffyl a phethau gwerthfawr ereill ganddo. *Bashaw* newydd yn Aipht, yn fuan wedi ei ddyfodiad yno, anfonwyd iddo dri cheffyl ardderchog iawn gan un

\* *Bashaw*, enw a arferir yn mysg y Tyrciaid ar rag-frenin.

† *Bey*, enw cyffredin yn mysg y Tyrciaid ar reolwr talaeth.

torodd ei geg, ac yna efe a ddrylliodd ei holl gorph. Gwnaeth hyn gyffroi un dyn glew arall, er yn un bychan, ac o ymddangosiad gwael, oddiwrth yr hwn ni buasai un yn dysgwyl hyny; efe a ruthrodd yn mlaen fel dyn gorphwyllog, a'r dywalgi, o'i du yntau, heb lwfrdra a ruthrodd at ei elyn; ond y dyñ ar yr ymosodiad cyntaf a dorodd ei ddwy balf flaen, fel y syrthiodd, ac yna efe a dorodd ei gorph yn ddarnau. Ar hyn y brenin a lefodd, "Beth yw dy enw di?" Efe a atebodd, "Fy enw i yw Geyby." Yn fuan wedi hyny, un o weision y brenin a ddaeth gan ddwyn dryll o sidan symmudliw wedi ei oreuro ag aur, ac a ddywedodd, "Geyby, derbyn y wisg anrhydeddus hon y mae y brenin yn roddi i ti." Efe a gymmerodd y wisg gyda pharch mawr, a'i cusanodd dair gwaith, gan ei gwasgu bob tro at ei fynwes a'i lygaid, ac yna efe a'i daliodd i fynu, ac mewn modd dystaw gweddiodd am iechyd y brenin; a phan orphenodd efe hi, efe a lefodd, "Bydded i Dduw adael iddo ef ddyfod mor fawr a Tamerlane, oddiwrth yr hwn y disgynodd efe, Bydded iddo fyw saith cant o flynyddoedd, a pharhaed ei dŷ hyd dragywyddoldeb!" Ar hyn gorchymynwyd iddo fyned o'r ardd i fynu at y brenin; a phan ddaeth efe i'r ddyfodfa, efe a dderbyniwyd gan ddau dywysog, y rhai a'i tywysasant ef rhyngddynt i gusanu traed y brenin. A phan oedd efe yn myned ymaith, y brenin a ddywedodd wrtho, "Canmoler di, Geyby-Chan am dy weithredoedd nerthol, a thi a gei gadw yr enw hwn hyd dragywyddoldeb. Myfi ydwyf dy feistr grasol di, a thithau ydwyf fy nghaethwas innau."

---

## PENNOD IX.

### LLYFRAU A LLYTHYRAU.

2 Bren. 21. 13. *Golchaf kefyd Jerusalem fel y gylch un gwpan.* Mae y cyfieithad Lladin yn darllen yr ymadrodd hwn, *Delebo Jerusalem, sicut deleri solent tabula:* Mi a ddileaf Jerusalem fel yr arferir dileu llechau. Cyffelybiaeth ydyw wedi ei chymmeryd oddiwrth yr hen ffordd o ysgrifenu. Hwy a wnaent eu llythyrenau â phin ysgrifenu ar fyrddau ar y rhai yr oedd cŵyr wydi ei daenu yn deneu: i'r dyben hwn yr oedd un pen i'r pin hwn yn fain, y pen arall yn llyfn; â hwn gallent rwbio allan yr hyn a ysgrifenasent, ac felly lyfnhau y lle a lledu y

cŵyr yn ol, fel y byddai yn gymmys i dderbyn unrhw eiriats ereill. Fel hyn yr oedd yr Arglwydd wedi ysgrifenu Jerusalem i lawr, ddim yn bwriadu i'w henw byth gael ei ddileu; ond yn awr troir yr ysgrifbenbin hwn, ac nid yw Jerusalem i'w chael mwy.

Nehemiah 6. 5. *Llythyr agored.* Mae llythyr yn cael ei enw Hebraeg oddiwrth ei fod yn cael ei *rotio* neu eu *blygu* yn nghyd. "Mae yr Arabiaid diweddar yn *rholiau* eu llythyrau, ac yna yn eu gwasgu yn wastad yn syppyn o gylch modfedd o led, ac yna yn glydiaw eu penau yn lle eu selio." *Niebuhr*, p. 90. Mae y Persiaid yn gwneuthur i fynu eu llythyrau yn "*rhôl* yn nghylch chwech modfedd o hyd, ac y mae darnau o bapur yn cael eu sicrhau o'u hamgylch â glyd, yna hwy a'i seliant â math o *ink* tebyg i'r un at argraphu, ond ddim mor dew." *Hanway's Travels*, vol. 1, p. 317. Yn gyffredin anfonid llythyrau at bersonau o radd uchel mewn côd, ac wrth eu hanfon at gydraddiaid hefyd arferid eu rhoddi mewn rhywbeth, ond at rai israddol, neu at y rhai a ddirmygid, anfonid hwynt yn agored, hyny yw, heb eu rhoddi mewn dim arall. Dywed honeddiges *M. W. Montague*, (*Letters*, vol. 1, p. 136,) i ateb *Baasa Belgrave* i'r cennadwr Seisnig wrth fyned i Gaercustenyn, gael ei ddwyn iddo mewn côd o *satîn ysgarlad*. Ond gyda golwg ar Nehemiah, bwriedid ei sarhau ef gan Sanbalat wrth beidio rhoddi iddo yr arwydd o barch a roddid yn gyffredin i bersonau yn ei sefyllfa ef, a thriniwyd ef yn ddirmygus, wrth anfon llythyr iddo heb ef osod yn y dull yr arferid gosod llythyrau a anfonid at bersonau mewn sefyllfa uchel.

*Futty Sihng*, a anfonodd *chopdar* ataf o Dhuboy, â llythyr o wahoddiad i mi i briodas, ag oedd i gymmeryd lle y pryd hwnw yn Brodera, yr hon oedd yn gostus iawn, a'r ddefod i barhau yn hir. Yr oedd y llythyr wedi ei ysgrifenu, fel yr arferfa y tywysogion dwyreiniol wneuthur, ar *silver paper*, wedi ei addurno ag aur, wedi ei daenellu â *saffron*, wedi ei guddio â sidan symmudliw. Yr oedd gyda y llythyr gôd o *keem-caub* porphor wedi ei addurno ag aur, wedi ei lanw â hadau pâr eu harogl, fel arwydd o ffair ac argoel dda. Canys ymgynghorir yn neillduol â'r seryddion a'r dewiniaid brahminaid bob amser ar amgylchiadau cyffelyb i hwn. *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 279.

Job 19. 23. *O nad ysgrifened fy ngeiriau yn awr!* "Y ffordd hynaf o ysgrifenu oedd ar ddail y palmwydd. *Pliny*, lib. 13, cap. 11. Wedi hyny arferwyd rhisgl nesaf i mewn coed i'r

perwyl hwn; a chan y gelwid y rhisgl nesaf i mewn hwn, yn Lladin yn *liber*, ac yn yr iaith Roeg yn  $\beta\iota\beta\lambda\omicron\varsigma$ , o herwydd hyny y mae llyff fyth wedi hyny yn cael ei alw yn Lladin *liber*, ac yn Groeg  $\beta\iota\beta\lambda\omicron\varsigma$ , o herwydd y gwnelid eu llyfrau i fynu gynt o'r cyfryw risgl nesaf i mewn. Mae y Chineaid eto yn defnyddio y rhisgl nesaf i mewn i goed i ysgrifenu arno, fel y mae rhai o'u llyfrau y rhai a ddygwyd i Ewrop yn dangos yn amlwg. Ffordd arall a arferid yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a'r hon oedd cyn hened â *Homer* (canys y mae efe yn ei choffâu yn ei ganiadau), oedd, ysgrifenu ar fyrddau o goed wedi eu cuddio â chwŷyr. Ar y rhai hyn hwy a ysgrifent â math o fynawyd neu *style* haiarn, â'r hwn y cerfient eu llythyr- enau ar y cŵyr, ac o herwydd hyn y mae ffyrdd gwahanol dynion o ysgrifenu neu gyfansoddi yn cael eu galw yn *styles* gwahanol. Y ffordd hon gan mwyaf a arferid wrth ysgrifenu llythyr- au neu epistolau gan hyny y mae y cyfryw epistolau yn cael eu galw yn Lladin *tabellæ*, a'r rhai a'u cludant yn *tabellarii*. Pan ysgrifenedid eu hepistolau fel hyn, hwy a gylyment y byrddau yn nghyd â llinyn, gan osod eu sêl ar y cwlwm, ac felly hwy a'u hanfonent at y rhai y byddent wedi eu cyfeirio, y rhai, wedi tori y llinyn, a'u hagorent ac a'u darllent. Ond pan ddyfeis- iwyd *papyrus* yr Aipht at y perwyl hwn, cafodd yr holl ffyrdd ereill eu rhoddi heibio, gan nad oedd un defnydd a ddyfeisiasid cyn hyny yn fwy cyfleus i ysgrifenu arno na hwn. Am hyny pan ymosododd Ptolemy Philadelphus, brenin yr Alpht, at wneuthur llyfrgell fawr, ac i gasglu pob math o lyfrau iddi, efe a orchymmynodd iddynt oll gael eu copio allan ar y cyfryw bapyr; ac yr oedd hefyd yn cael ei anfon allan at wasanaeth gwledydd ereill, hyd oni bu i Eumenes, brenin Pergamus, wrth ymdrechu gosod i fynu llyfrgell, yr hon a ragorai ar hōno yn Alexandria, achlysuro gwaharddiad i'r nwydd hwnw gael et anfon allan. Gwnaeth hyn i Eumenes ddyfeisio gwneuthur llyfrau o grwyn, ac arnynt hwy o hyny allan efe a gopiodd y cyfryw lyfrau o waith dynion dysgedig ag a osododd efe wedi hyny yn ei lyfrgell, ac o herwydd hyn y mae y crwyn a drinir at wasanaeth yr ysgrifenydd, sef *parchment*, yn cael ei alw yn Lladin yn *pergamena*, hyny yw, o ddinas Pergamus, yn Asia leiaf, lle y defnyddiwyd ef gyntaf i'r perwyl hwn yn mysg y Groegiaid. Mai yr Eumenes hwnw ar yr achlysur hwn a ddyfeisiodd wneuthur *parch- ment* gyntaf ni all fod yn wir; canys yn Esay, Jeremiah, ac

Ezeziel, a rhaiâu ereill o'r ysgrythyrau saŵtaidd, lawer o oesau cyn amser Eumenes, cawn goffad yn cael ei wneuthur o roliau o ysgrifau; a phwy a all amheu fod y rholiau hyn o *barchment*? Oddiar pan y mae y gelfyddyd ardderchog o argraphu wedi cael ei dyfeisio, y papyr a wneir o glyd (*paste*) bratiau lliain yw yr hwn sydd wedi cael ei ddefnyddio yn gyffredinol wrth ysgrifenu ac argraphu, fel yr hwn sydd fwyaf cyfleus at y naill a'r llall; at gof-lyfrau, ac ysgrifeniadau yn nghylch matterion mewn cyfraith, y mae *parchment* yn cael ei ddefnyddio yn ddiweddar, at y rhai, o herwydd ei barhausrwydd, y mae yn addas iawn." *Prideaux's Connection, vol. 2, p. 707, 9th edit.* Gellir sylwi, hefyd, eu bod gynt yn ysgrifenu eu tystiolaethau coffadwriaethol ar gyfrolau neu roliau o blwm, a'u matterion anghyoeedd ar liain teg a chwyr drosto. Gallwn weled y flaeaf o'r arferion hyn yn nymuniad Job, *O nad ysgrifenid fy ngeiriau yn awr! O nad argreffid hwynt mewn llyfr! O nad ysgrifenid hwynt yn y graig dros byth, â phin o haiarn ac â phlwm!* Mae ffordd o ysgrifenu yn y Dwyrain, yr hon a fwriedir i sefydlu y geiriau yn y cof, pan na fwriedir i'r ysgrifen ei hun barhau. Nid yw y plant yn Barbary a anfonir i'r ysgol yn defnyddio papyr, medd Dr. Shaw, (*Trav. p. 194.*) ond y mae pob bachgenyn yn ysgrifenu ar fwrdd llyfn a theneu, wedi ei ddwbio drosodd â math o wyn-fŵn (*chalk.*) yr hwn a ellir ei sychu ymaith a'i adnewyddu fel y mynir. Ychydig sydd yn dal yn eu cof yr hyn a ddysgasant yn eu ieuenctyd; yr oedd pethau yn ddiarmheu yn cael eu gwisgo ymaith o gof yr Arabiaid yn nyddiau Job, yn gystal ag oddiar eu byrddau ar y rhai yr ysgrifenenent. Dywed Job gan hynny, *O nad ysgrifenid hwynt mewn llyfr, o'r hwn ni chânt eu dileu!* Ond yr oedd llyfrau yn agored i gael eu niweidió, ac o herwydd hyn efe a ewyllisia i'w eiriau gael eu *hysgrifenu mewn craig*, y ffordd fwyaf barhaus o'r cwbl. Fel hynny mae y gwahaniaeth rhwng *ysgrifenu* ac *ysgrifenu mewn llyfr* yn dyfod yn amlwg hollol, ac y mae y graddau yn ymddangos yn eu prydfferthwch, yr hyn a gollir yn ein cyfieithiad ni, lle y mae y gair *argraphu* yn cael ei arfer, yr hwn, heblaw ei anmhriodoldeb, nid yw yn rhoddi un amcan am feddwl Job, gan nad yw ysgrifeniadau coffadwriaethol y rhai y bwriedir iddynt barhau yn hir ddim yn cael eu gwahaniaethu oddiwrth bapryau llai eu parhad trwy y gair argraphu. *Harmer, vol. 2, p. 168.* Gwel hefyd *Jones's Vindication of the former part of St. Matthew's Gospel, chap. 14 and 15.*

un llaw ac y tarawer ef â bysedd y llaw arall. Nid oes un offeryn cerdd, tebygol, mor gyffredin yn Twrci â hwn; canys pan ddawnsio y menywod, mewn rhai o'u chwareuyddiaethau, cedwir yr amser yn wastadol â'r ergydion ar yr offeryn hwn. Cawn yr un offeryn ar eu holl gofodeiladau yn llaw y *Bacchante*. Mae hefyd yn gyffredin yn mysg y Negroaid ar y *Gold Coast* a'r *Slave Coast*. Mae *Vogel* yn ei *Account of his Ten Years' Voyage in the East Indies*, p. 463,) yn dywedyd, "Hwy a gyrchasant o'r gymmydogaeth bedair merch, yn nghyd a'u hofferynau, y rhai a elwir *rabannes*, ac a wnaethant iddynt chawareu. Ond nid yw y *rabannes* hyn yn ddim mwy na math o dabyrddau o'r un dull â'r eiddom ni, ond ddim mor uchel, ar y rhai y chwareuai y merched ag un llaw, gan ganu ar yr un pryd, a dawnsio yn eu dull hwy, a thafu eu hunain i bob math o agweddau.

Mae darluniau cyffelyb i'r rhai hyn yn fynych i'w cael yn ysgrifeniadau hen Awdwyr. Mae Plato yn sicrhau i ni fod y duwiau, a phlant y duwiau yn cael eu hanrhydeddu â dawnsiau. *De Leg. b. 7*, p. 815. Ac yr oedd efe am gyssegru caniadau a dawnsiau iddynt; pennodi gwyliau ar amserau priodol o'r flwyddyn, a gorchymmyn trwy awdurdod pa ganiadau a fyddent yn briodol i gael eu canu, a pha ddawnsiau i gael eu harfer, gyda yr aberthau a offrymmid iddynt. Hysbysa Lucian i ni fod yr Indiaid yn addoli yr haul, pan gyfodent yn y bore, nid fel y gwnelai y Groegiaid trwy gusanu eu llaw, ond trwy droi tua'r Dwyrain a dawnsio, ac fel hyn gwneleant heddwch â'r duwdod fore a hwyr. *De Sallat. § 15, 16, 17. Chandler's Life of David, vol. 2, p. 116.*

"Mae yr Almai yn gwneuthur i fynu ddoesparth clodfawr iawn yn y wlad hon; mewn trefn i gael derbyniad jiddo rhaid meddiannu prydferthwch, llais hyfryd, hyawdledd, a gallu i gyfansoddi ac adrodd pennillion cymmwys i'r amgylchiad. Mae yr Almai oll yn gwybod caniadau newyddion ar eu tafodau; mae eu cof yn cael ei ystorio â'r caniadau goreu yn nghlych angladdau a chariad; maent yn bresennol yn mhob gwyl, a hwy ydynt addurniadau penaf gwleddoedd. Maent yn cael eu gosod mewn math o areithfa wedi ei chyfodi yn uwch na'r lle o'i hamgylch lle y canant yn ystod y wledd; wedi hyny disgynant a ffurfiant ddawnsiau, y rhai nid ydynt mewn un modd yn debyg i'r eiddom ni. Math o chwareuau ydynt yn y rhai nid oes dim swm ond

awgrymau; cariad yw eu testun cyffredin. Mae ystwythder cyrph y rhai hyn wrth ddawnsio yn annirnadwy, a hyblygrwydd eu hwynebau, y rhai a dderbyniant argraphiadau darluniadol o'r rhanau a chwareuant hwy yn dda, mewn modd rhyfeddol. Pa fodd bynag, y mae anwedusdra yr ystum yn fynych yn myned yn mhell iawn. Maent yn cael eu derbyn i'r holl harems. Maent yn dysgu y tônau newyddion i'r menywod; yn adrodd chwedlau yn nghylch carwriaeth; ac yn canu caniadau y rhai a ddesgrifiant eu moesau eu hunain." *Savary on Egypt.*

Num. 21. 17. *Yna y canodd Israel y gân hon, Cyfod ffynnon, cewoch iddi.* "Menywod *Eleusis*, yn ngwlad Groeg, a gyflawnasant dawns o amgylch ffynnon, yr hon a elwir *callichorus*, a chyda eu dawns canant ganiadau hefyd o anrhydedd i *Ceres*. Mae y caniadau hyn yn nghylch ffynnon yn cael eu canu mewn parthau ereill o wlad Groeg, yn gystal ag yn Syria. Mae *De Guys* yn son am danynt. Efe a ddywed iddo weled y menywod ienainc yn *Prince's Island*, wedi ymgasglu yn yr hwyr wrth ffynnon gyhoedd, ac yn uno yn ddisymwth i ddawnsio, tra y canai ereill gyda'u gilydd. *Lett. on Greece, vol. 1, p. 220. Lond. 1781.* Cyfansoddai yr hen brydyddion bennillion y rhai a genid gan y bobl wrth dynu dwfr, y rhai a elwid yn bendant caniadau y ffynnon. Mae *Aristotle*, yn ol tystiolaeth *Winkelmann*, yn dywedyd, "fod y ffynnonau cyhoedd yn gwasanaethu fel cynnifer o foddion; i uno cymdeithas, gan eu bod yn dwyn y bobl yn finteioedd at eu gilydd, ac felly i gyfeillgarwch, trwy eu bod yn arfer dawnsio yn nghyd yn fynych o'u hamgylch. Gall hyn wasanaethu i egluro yr achos o'r amrywiaeth o lampau heirdd, piserau, a llestri gwerthfawr ereill, y rhai a gafwyd yn ngwaelod ffynnonau gwahanol barthau o wlad Groeg." *Clarke's Travels, vol. 3, p. 430.*

1 Sam. 16. 17. *A dywedodd Saul wrth ei weision, Edrychwch yn awr i mi am wr yn medru canu yn dda, a dygwch ef attaf fi.* Dichon i'r gorchymmyn hwn o eiddo Saul gyfodi oddiar ddymuniad i gael y fath berson ag a allai, trwy ei fedrusrwydd i ganu, weithredu tuag at ei foddhad ef a thuag at ei ardderchogrwydd. Ymddengys ei fod yn rhan o wychder breninol yn y Dwyrain fod ganddynt ddynion o'r desgrifiad hwn yn nghylch eu llys. Gellir sylwi hefyd, "fod rhai proffesedig i adrodd chwedlau, er oesoedd bereol yn y Dwyrain. Hyd yn oed y dydd hwn mae gan ddynion o radd uchel yn gyffredin un neu ddau, gwrryw neu fenyw, yn mysg eu gweinyddwyr, y rhai a'u difyrent hwy



i ddyfod yn ymerodres. Ni chafodd y bŷth a wnaethpwyd yn nheyrnasiad yr ymerawdwr hwn, ar yr hwn y mae arwyddion yr arwydd-gylch, ei wneuthur, fel y meddylir yn gyffredin yr Ewrope, wrth orchymmyn yr ymerodres hon; ac ni theyrnasodd hi un diwrnod, fel y mae y dyb gyffredin, ond hi a deyrnasodd ar berson yr hwn a deyrnasodd dros fwy na deuddeng mlynedd." *Fraser's History of Nadir Shaw, note, p. 21.*

Mae y boneddigesau Persiaidd yn ystyried yr olchfa fel y lle mwyaf difyr; maent yn gneuthur ymrwymadau i gyfarfod yno, ac yn fynych y maent yn treulio saith neu wyth awr yn nghyd yn y parlawr dros lawr yr hwn y mae carped wedi ei dana, gan ddywedyd chwedlau, ac adrodd hanesion, bwyta bwydydd melusion, rhanu y *kaliouns*, a chyffelybu eu prydfethwch, yn ol eu tybiau hwy yn y Dwyrain am berffethrwydd tegwch; lliwio eu gwallt a'u aeiliau, lliwio eu cyrph teg mewn modd cywrain ac amrywiol o ffyrdd, yn ol eu mympwy ofer: mynych y gwnant liwiau coed, adar, ac anifeiliaid, yr haul, y lleuad, a'r ser. Maent yn gosod y lliw hwn dros eu dwyfron, ac i gyrhaedd i waered mor bell â'r fogail, o amgylch yr hon y lliwiant ryw ddarlun disglair yn gyffredin. Maent yn gwneuthur eu dillad mewn dull ag y gallont ddangos yr addurniadau hyn; maent oll yn agored o'r gwddf hyd y fan hŷno." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 233.*

"Y lle a hoffai pobl y Dwyrain fwyaf yn wir oedd yr olchfa hŷf. Ymddengys ei bod yn cynnwys llawer o ardderchogrwydd, a mwynderau anianol, yn y rhai yn rhy fynych y mae rhai o dywysogion Asia wedi ymhyfrydu yn ormodol. Mae yr olchfa hon, y parlawr, neu y cyntedd, yn grwn, a chwag mawr o'r un dull yn ei ganol, o fynor gwyn hardd, yr hwn sydd yn nghylch trugain neu drugain a deg o droedfeddi o dryfesur (*diameter*). Mae hwn yn cael ei lanw â'r dwfr gloywaf, yr hwn sydd yn gwreichioni yn yr haul, canys ei unig orchiudd yw yr awyrgylch; ond y mae coed rhŷs, a manwydd ereill, yn dwyn blodau, yn llwyni gerllaw iddo; ac y mae eu cangenau weithiau wrth ysgwyd yn rhoddi cygod crynawl dros ddisgleirdeb mawr y dwfr. O amgylch y cyntedd y mae dwy res, y naill yn uwch na'r llall, o ystafellau bychain, yn edrych tu a'r olchfa, ac wedi eu trwsio yn hardd iawn. Mae y rhai hyn at wasanaeth y boneddigesau ag sydd yn dyfod gyda y *Shah* yn ystod ei ymweliad achlysurol â'r lle hwn. Maent yn dyosg ac yn gorphwys yn y rhai hyn cyn neu wedi

cael yr hyfrydwch o ymolchi: y maent mor hoff o'r hyfrydwch hwn, fel y maent yn aros yn y dwfr dros oriau; ac weithiau, pan byddo y gwres yn gwanychu y bobl yn fawr, ymddangosant fel pobl feirw, ac nid fel rhai byw. Ond trwy yr olchfa hyfryd hon, mae y dyfroedd yn llofio yn barhaus o ffynnon; mae yn adnewyddu bywiogrwydd y corff à'i oerfel, ac y mae hefyd yn cynnyddu ei rym: mae yn oeri yr awyr, yr hwn y gallai gwres yr haul, ac arogl y miloedd o flodau sydd o amgylch yn amgen ei wneuthur yn feichus. Mae meistr breninol yr *Horti Adonidis* hwn yn fynych yn gorphwys ganol dydd yn un o'r goruwchystafellau ag sydd o amgylch parloriau yr olchfa: ac os bydd efe yn tueddu at hyny, ni raid iddo ond troi ei lygaid i waered, er cael gwelod gwrthdrysychau hawddgaraf ei serch, yn chwaraeu fel *Naiads* yn nghanol y ffrydiau grisialaidd, ac yn dangos holl harddwch a bywiogrwydd merched ieuainc Asia. Tebygol mai yn nghyntedd y cyfryw olchfa y gwelodd Dafydd Bathseba, par orchfygwyd ef gan serch atti. Ac efe yn rhodio ar brydnhawngwaith ar nen ei balas, efe a allaisai yn ddiwriad fyned mor agos i'r ymyl fel y gallasai weled golchfa ei fenywod, lle yr oedd gwraig brydferth Uria, wrth ymweled â'r gwragedd breninol, efallai wedi uno â hwynt, fel yr arferid gwneuthur yn fynych yn y gwledydd hyny, wrth ymolchi." *Sir, R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 339.*

Jer. 31, 4. 5. *Ti a ai allan gyd â'r chwareuyddion dawns. Ti a blenni etto winllanoedd yn mynyddoedd Samaria.* Wrth lefaru am y dawnsiau Groegaidd, ac yn enwedig yr un a elwir y *crane*, dywed *Dr. Chandler*, "Mae pobl y wlad yn ei gyflawni yn ffynyddol yn heolydd y fynachlog Roegaidd, ar ddiwedd cynnauf y gwin, gan ymasfyd yn nwylaw eu gilydd, a myned o flaen eu mulod a'u asynod, y rhai ydynt wedi eu llwytho â grawnwin mewn cawelli, ymdroant trwy eu gilydd mewn modd cymmysgylid iawn, ac mae yr arweinydd yn ysgwyd llaw-liain i fynu." Mae *Shaw (Travels, p. 234)* yn lefaru am y gorymdeithiau (*processions*) gorfoleddus hyny at y rhai y tybir fod y proffwyd yn cyfeirio. "Mae llawer o wyr ieuainc Twrci neu Ethiopia, a lliaws mawr o'r milwyr ag nad ydynt yn briod, yn myned gyda eu gordderchadon i'r meusydd, gan gymmeryd gwin a pheroriaeth gyda hwynt; neu ynte yn ymddifyru mewn tafardai: afferiad ag sydd, yn wir, yn cael ei gwahardd yn bendant gan eu crefydd, ond yn wyneb llygredd yr amseroedd, a

yr oedd yr efnuch yn ddarllen, cyn iddo gael ei wahodd i eistedd gydag ef yn y cerbyd. Yr oedd yr efnuch, er, tebygol, yn darllen iddo ei hun, ac ddim yn bwriadu cael ei glywed gan neb o'i weision, yn darllen yn ddigon uchel i gael ei ddeall gan berson mewn ychydig o bellder oddiwrtho." *Jowell's Christian Researches in Syria*, p. 120.

Dat. 1. 1. *Da'guddiad*. Mae St. Ioan yma wedi dilyn arferiad yr Hebraeid, yn enwedig y prophwydi, o ddechreu ei lyfr gyda y titl neu eglurhad o'r mater a drinir ynddo. Ymddengys yr arferai yr awdwyr hynaf wneuthur hyn, y rhai santaidd a'r rhai ethnicaidd. Yn nghaniadau Homer, mae y pennill cyntaf yn gosod allan y mater sydd yn y cwbl, a gall sefyll fel titl. Gellir gweled yr un peth yn ysgrifeniadau amrywiol ereill o'r ysgrifenywyr Paganaidd.

"Yn eu llyfrau harddaf, mae y *Burmahs* yn ysgrifenu ar ddarnau o ifori, neu ar ddail teg Palmyra: Mae yr ifori yn cael ei liwio yn ddu, a'r ymylau yn cael eu haddurno ag aur. Ar bapur Palmyra rhoddir ar y llythyrenau yn gyffredin farnais du: ac addurnir ymylau y dail mewn amrywiol o ffyrdd. Ar eu llyfrau mwyaf cyffredin y *Burmahs*, â math o bin haiarn, a gerfiant eu hysgrifeniadau ar ddail Palmyra. Gwneir twll trwy ddwy gongl y ddalen, trwy y rhai rhoddant liny, ac felly unant y dail â'u gilydd; rhoddant y llinynau hyn trwy ddarn o fwrdd, ac felly y rhwymant hwynt. Pan fyddont yn rhwymo yn hardd, torant ymylau y dail yn llyfn, a goreurant hwynt, ac ysgrifenant y titl ar y bwrdd uchaf: mae y ddau liny yn cael eu sicrhau trwy wneuthur cwlwm ar eu penau, ar y rhai weithiau y rhoddir perlau gwerthfawr. Mae y llyfrau harddaf yn eu plith yn cael eu trï mewn sidan, ac yn cael eu rhwymo â gardys, yn yr hwn y mae gan y *Burmahs* ffordd i wau titl y llyfr." *Asiatic Researches*, vol. 6, p. 306.

Dat. 10. 10. *Ac mi a gymmerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwytteais ef*. Arferir yr iaith gymhariaethol hon gan ysgrifenywyr yn mysg y Paganiaid. Fel hyn dywed *Busbequius*, (*Travels*, p. 245,) "Dywedai y Tyrciaid yn fynych, fod dysgeidiaeth cenhedloedd ereill ganddynt yn eu llyfrau, ond fod y Tartariaid yn bwyta eu llyfrau, a bod eu doethineb ganddynt hwy yn eu mynwesau, o ba le y gallent ei thynw allan yn ol fel y byddai angen arnynt, fel oraclau dwyfol.

## PENNOD X.

## LLETYGARWCH.

GEN. 18. 6. *Ac Abraham a frysiodd i'r babell at Sara, ac a ddywedodd, Parotoa ar frys dair phiolaid o flawd peilliaid, tylina, a gwna yn deisenau.* Mae y cyfarwyddiadau hyn yn debyg hollol i arferion y lle, y rhai nad ynt wedi newid ond ychydig, os dim, oddiwrth yr hyn oeddynt gynt. Dywed *Dr. Shaw, (Travels, p. 296,)* "mewn dinasoedd a phentrefi, lle y mae ffyrnau cyhoedd, fod y bara yn cael ei lefeinio: ond yn mhlith y *Bedouins*, mor fuan ag y caffo y toes ei dylino, ei fod yn cael ei wneuthur yn deisenau teneuon, y rhai a bobir yn ddioced naill ai ar y marwor, neu ynte mewn llestr bâs fel padell-ffrio (*frying-pan*)."  
2 Sam. 13. 8. 1 Cron. 23. 29.

"Yma y gwelais wragedd yn gŵneuthur y teisenau teneuon hyny y llefarais am danynt. Dyma y dull y gwnant hwynt: mae ganddynt fwrdd crwn bychan, llyfn iawn, ar yr hwn y tafiant beth blawd, yr hwn a gymmysgant â dwfr nes y byddo yn does teneu, teneuach nâ'r hwn a wneir at fara. Hwy a ranant y toes hwn yn ddarnau bychain, y rhai a wnant yn deisenau mor deneuon ag y gallont. Tra y byddent yn gŵneuthur hyn, mae ganddynt ddalen amgrwn (*convex*) o haiarn wedi ei gysod ar ystol deirtroed (*tripod*), yn cael ei thwymno â than araf, ar yr hon y lledant y deisen, a throant hi yn ddioced, fel y gwnant hwy ddwy o'u teisenau yn gynt nac y gall llethen-wr (*wafer-man*) wneuthur llethen." *Brocquiere's Travels to Palestine, in 1432, p. 167.*

Mae Mr. Jackson (*Journey overland from India*) yn rhoddi yr hanes canlynol am ffwrn Ddwyreiniol:—"Mae ganddynt le bychan wedi ei adeiladu o glai, rhwng dwy a thair troedfedd o uchder, a thwll yn ei waelod, at dynu allan y lludw, rywbeth yn debyg i olyn galch. Mae y ffwrn yn gyffredin yn nghylch pymtheg modfedd o led yn y pen, ac yn mwyhau yn raddol tu a'r gwaelod. Mae yn cael ei thwymno â choed; a phan fyddo hi yn ddigon poeth, ac yn hollol rydd oddiwrth fwg, heb ddim ond marwor glân yn y gwaelod, y rhai a barhant i roddi gwres mawr, hwy a barotoant y toes, ac a wnant y teiseni i'r maint yr ewyllysiont, ar fwrdd neu lech, a osodasid gerllaw y ffwrn. Wedi iddynt dylino y toes i dymher briodol, hwy a weithant y toes

torodd ei geg, ac yna efe a ddrylliodd ei holl gorph. Gwnaeth hyn gyffroi un dyn glew arall, er yn un bychan, ac o ymddangosiad gwael, oddiwrth yr hwn ni buasai un yn dysgwyl hyny; efe a ruthrodd yn mlaen fel dyn gorphwyllog, a'r dywalgi, o'i du yntau, heb lwfrdra a ruthrodd at ei elyn; ond y dyñ ar yr ymosodiad cyntaf a dorodd ei ddwy balf flaen, fel y syrthiodd, ac yna efe a dorodd ei gorph yn ddarnau. Ar hyn y brenin a lefodd, "Beth yw dy enw di?" Efe a atebodd, "Fy enw i yw Geyby." Yn fuan wedi hyny, un o weision y brenin a ddaeth gan ddwyn dryll o sidan symmudliw wedi ei oreuro ag aur, ac a ddywedodd, "Geyby, derbyn y wisg anrhydeddus hon y mae y brenin yn roddi i ti." Efe a gymmerodd y wisg gyda pharch mawr, a'i cusanodd dair gwaith, gan ei gwasgu bob tro at ei fynwes a'i lygaid, ac yna efe a'i daliodd i fynu, ac mewn modd dystaw gweddiodd am iechyd y brenin; a phan orphenodd efe hi, efe a lefodd, "Bydded i Dduw adael iddo ef ddyfod mor fawr a Tamerlane, oddiwrth yr hwn y disgynodd efe, Bydded iddo fyw saith cant o flynyddoedd, a pharhaed ei dŷ hyd, dragywyddoldeb!" Ar hyn gorchymynwyd iddo fyned o'r ardd i fynu at y brenin; a phan ddaeth efe i'r ddyfodfa, efe a dderbyniwyd gan ddau dywysog, y rhai a'i tywysasant ef rhyngddynt i gusanu traed y brenin. A phan oedd efe yn myned ymaith, y brenin a ddywedodd wrtho, "Canmoler di, Geyby-Chan am dy weithredoedd nerthol, a thi a gei gadw yr enw hwn hyd dragywyddoldeb. Myfi ydyf dy feistr grasol di, a thithau ydwyf fy nghaethwas innau."

## PENNOD IX.

### LLYFRAU A LLYTHYRAU.

2 Bren. 21. 13. *Golchaf hefyd Jerusalem fel y gylch un gwp-pan.* Mae y cyfieithad Lladin yn darllen yr ymadrodd hwn, *Delebo Jerusalem, sicut deleri solent tabulae*: Mi a ddileaf Jerusalem fel yr arferir dileu llechau. Cyffelybiaeth ydyw wedi ei chymmeryd oddiwrth yr hen ffordd o ysgrifenu. Hwy a wnaent eu llythyrenau â phin ysgrifenu ar fyrddau ar y rhai yr oedd cŵyr wydi ei daenu yn denu: i'r dyben hwn yr oedd un pen i'r pin hwn yn fain, y pen arall yn llyfn; â hwn gallent rwbio allan yr hyn a ysgrifenasent, ac felly lyfnhau y lle a lledu y

cŵyr yn ol, fel y byddai yn gymmys i dderbyn unrhw eiriâu ereill. Fel hyn yr oedd yr Arglwydd wedi ysgrifenu Jerusalem i lawr, ddim yn bwriadu i'w henw byth gael ei ddileu; ond yn awr troir yr ysgrifben hwn, ac nid yw Jerusalem i'w chael mwy.

Nehemiah 6. 5. *Llythyr agored.* Mae llythyr yn cael ei enw Hebraeg oddiwrth ei fod yn cael ei *rokio* neu eu *blygu* yn nghyd. "Mae yr Arabiaid diweddar yn *rholiau* eu llythyrâu, ac yna yn eu gwasgu yn wastad yn syppyn o gylch modfedd o led, ac yna yn glydiaw eu penau yn lle eu selio." *Niebuhr*, p. 90. Mae y Persiaid yn gwneuthur i fynu eu llythyrâu yn "*rhôl* yn nghylch chwech modfedd o hyd, ac y mae darnau o bapur yn cael eu sicrhau o'u hamgylch â glyd, yna hwy a'i seliant â math o *ink* tebyg i'r un at argraphu, ond ddim mor dew." *Hanway's Travels*, vol. 1, p. 317. Yn gyffredin anfonid llythyrâu at bersonau o radd uchel mewn côd, ac wrth eu hanfon at gydraddiaid hefyd arferid eu rhoddi mewn rhywbeth, ond at rai israddol, neu at y rhai a ddirmygid, anfonid hwynt yn agored, hyny yw, heb eu rhoddi mewn dim arall. Dywed honeddiges *M. W. Montague*, (*Letters*, vol. 1, p. 136,) i ateb *Baasa Belgrave* i'r cennadwr Seisnig wrth fyned i Gaercustenyn, gael ei ddwyn iddo mewn côd o *satin ysgarlad*. Ond gyda golwg ar Nehemiah, bwriedid ei sarhau ef gan Sanbalat wrth beidio rhoddi iddo yr arwydd o barch a roddid yn gyffredin i bersonau yn ei sefyllfa ef, a thriniwyd ef yn ddirmygus, wrth anfon llythyr iddo heb ef osod yn y dull yr arferid gosod llythyrâu a anfonid at bersonau mewn sefyllfa uchel.

*Futty Sihng*, a anfonodd *chopdar* ataf o Dhuboy, â llythyr o wahoddiad i mi i briodas, ag oedd i gymmeryd lle y pryd hwnw yn Brodera, yr hon oedd yn gostus iawn, a'r ddefod i barhau yn hir. Yr oedd y llythyr wedi ei ysgrifenu, fel yr arfera y tywysogion dwyreiniol wneuthur, ar *silver paper*, wedi ei addurno ag aur, wedi ei daenellu â *saffron*, wedi ei guddio â sidan symmudliw. Yr oedd gyda y llythyr gôd o *keem-caub* porphor wedi ei addurno ag aur, wedi ei lanw â hadau pèr eu harogl, fel arwydd o ffair ac argoel dda. Canys ymgynghorir yn neillduol â'r seryddion a'r dewiniaid brahminaid bob amser ar amgylchiadau cyffelyb i hwn. *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 279.

Job 19. 23. *O nad ysgrifened fy ngeiriau yn awr!* "Y ffordd hynaf o ysgrifenu oedd ar ddail y palmwydd. *Pliny*, lib. 13, cap. 11. Wedi hyny arferwyd rhisgl nesaf i mewn coed i'r

perwyl hwn; a chan y gelwid y rhisgl nesaf i mewn hwn, yn Lladin yn *liber*, ac yn yr iaith Roeg yn  $\beta\iota\beta\lambda\omicron\varsigma$ , o herwydd hyny y mae llyft fyth wedi hyny yn cael ei alw yn Lladin *liber*, ac yn Groeg  $\beta\iota\beta\lambda\omicron\varsigma$ , o herwydd y gwnelid eu llyfrau i fynu gynt o'r cyfryw risgl nesaf i mewn. Mae y Chineaid eto yn defnyddio y rhisgl nesaf i mewn i goed i ysgrifenu arno, fel y mae rhai o'u llyfrau y rhai a ddygwyd i Ewrop yn dangos yn amlwg. Ffordd arall a arferid yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, a'r hon oedd cyn hened â *Homer* (canys y mae efe yn ei choffâu yn ei ganiadau), oedd, ysgrifenu ar fyrddau o goed wedi eu cuddio â chŵyr. Ar y rhai hyn hwy a ysgrifent â math o fynawyd neu *style* haiarn, â'r hwn y cerfient eu llythyr- enau ar y cŵyr, ac o herwydd hyn y mae ffyrdd gwahanol dynion o ysgrifenu neu gyfansoddi yn cael eu galw yn *styles* gwahanol. Y ffordd hon gan mwyaf a arferid wrth ysgrifenu llythyr- au neu epistolau gan hyny y mae y cyfryw epistolau yn cael eu galw yn Lladin *tabellæ*, a'r rhai a'u cludant yn *tabellarii*. Pan ysgrifenid eu hepistolau fel hyn, hwy a gylyment y byrddau yn nghyd â llinyn, gan osod eu sêl ar y cwlwm, ac felly hwy a'u hanfonent at y rhai y byddent wedi eu cyfeirio, y rhai, wedi tori y llinyn, a'u hagorent ac a'u darllent. Ond pan ddyfeis- iwyd *papyrus* yr Aipht at y perwyl hwn, cafodd yr holl ffyrdd ereill eu rhoddi heibio, gan nad oedd un defnydd a ddyfeisiasid cyn hyny yn fwy cyfleus i ysgrifenu arno na hwn. Am hyny pan ymosododd Ptolemy Philadelphus, brenin yr Alpht, at wneuthur llyfrgell fawr, ac i gasglu pob math o lyfrau iddi, efe a orchymmynodd iddynt oll gael eu copio allan ar y cyfryw bapyr; ac yr oedd hefyd yn cael ei anfon allan at wasanaeth gwledydd ereill, hyd oni bu i Eumenes, brenin Pergamus, wrth ymdrechu gosod i fynu llyfrgell, yr hon a ragorai ar hōno yn Alexandria, achlysurow gwaharddiad i'r nwydd hwnw gael ef anfon allan. Gwnaeth hyn i Eumenes ddyfeisio gwneuthur llyfrau o grwyn, ac arnynt hwy o hyny allan efe a gopiodd y cyfryw lyfrau o waith dynion dysgedig ag a osododd efe wedi hyny yn ei lyfrgell, ac o herwydd hyn y mae y crwyn a drinir at wasanaeth yr ysgrifenydd, sef *parchment*, yn cael ei alw yn Lladin yn *pergamena*, hyny yw, o ddinas Pergamus, yn Asia leiaf, lle y defnyddiwyd ef gyntaf i'r perwyl hwn yn mysg y Groegiaid. Mai yr Eumenes hwnw ar yr achlysur hwn a ddyfeisiodd wneuthur *parch- ment* gyntaf ni all fod yn wir; canys yn Esay, Jeremiah, ac

canlynol: Mae un o'r menywod Ethiopaidd yn cymmeryd phiol bren fawr, yn yr hon y cura hi ychydig o wenith a dwfr, nes y delo yn uwdd; hi a bery i chwaneu blaedd a dwfr, nes y byddo ganddi ddigon; yna y mae llestr pridd arall, ac ynddo gig heb ei halltu, yn cael ei osod ar y tân, ac arno rhoddir llestr pridd arall, a thyllau yn ei waelod, yn yr hwn y rhoddir y *kuskus* a barotowyd eisioes, a chlawr drosto, a berwir ef âg agerdd y llestr isaf; ac weithiau rhoddir ychydig o'r isgell ar y *kuskus* yn awr ac eilchwyl nes y digono. Rhoddir ef wedi hyny mewn llestr eang helaeth, cul iawn yn y gwaelod, a llydan yn y pen uchaf; rhoddir y cig berwedig ar y *kuskus*, ac wya'u wedi eu berwi yn gelyd; dros y cwbl hwy a dywalltant ymenyn, ac a'i lliwiant â *saffron*. Yn gyffredin tefir ymaith yr isgell.

Job 31. 32. *Ni lettyodd dyeithr-ddyn yn yr heol: agorais fy nrysau i'r fforddion.* Yr oedd, ac y mae, llettygarwch yn rhinwedd nodedig yn nghymmeriad yr Arabiaid, maent yn ymffrostio ynddo fel eu gogoniant mwyaf. Mae un o'u prydyddion yn llefaru yn wresog iawn am y matter hwn. "Pa mor fynych, pan roddai adsain hysbysrwydd i mi fod dyeithr yn nesu, y cyffroais i fy nhân, fel y llewyrchai yn ddisglaer. Rhedais ato fel at ysglyfaeth, gan ofal rhag i rai o'm cymmydogion gael meddiant o hono o'm blaen." Mae *Schultens*, yr hwn a ddyfyna yr ymadrodd hwn o lyfr Arabaidd, yn sylwi, fod yr Adsain a grybwyllir yma yn cyfeirio at arferiad sydd gan y rhai a deithiant yn Arabia-ar hyd y nos. Maent yn dynwared cyfarthiad ei, ac fel hyn yn cyffroi holl gŵn bychain yr ardal i gyfarth. Ar hyn rhuthra y bobl allan o bob parth, gan ymdrechu am gael y gwr dyeithr yn westwr. Coffeir am arferiad o eiddo yr Arabiaid, yr hon a ddengys eu llettygarweh, sef, diffoddi y tân pan roesawant ddyeithr, fel na allo efe sylwi pa un a fyddo gwr y tŷ yn bwytta neu beidio; y blaenaf yn fynych a fwytty yn helaeth, pan na byddo yr olaf yn cymmeryd dim, rhag na byddo digon iddynt ill dau.

"Wrth arferiad y wlad, gorchymmynir fod ymborth a lletty da yn cael eu darparu i ddyeithriaid a theithwyr a ddelo i bentref. Nid digon yw, medd gosodiadau, *Java*, i ddyn esod ymborth da o flaen ei westwr, mae yn rhwymedig i wneuthur chwaneu: dylai wneuthur y pryd bwyd yn fflatus trwy ciriau a thriniaeth hynaws, ei ddyddanu ar ei daith, a llawenhau ei galon, tra



“Nid oedd yr arferiad o blwm at gadw ysgrifeniadau coffadwriaethol yn adnabyddus i'r hynafiaid. Dywedir fod *wythinocau* a *dyddiau* Herod wedi cael eu hysgrifenu ar lechau plwm, y rhai a gedwid yn ofalus yn nheml y *Muses*; y rhai, pan ddangoswyd hwynt i Pausanias, oeddynt wedi gwaethygu yn fawr trwy henaint. *Pausanias in Bœoticis*, c. 31. Hysbysa hanesyddiaeth i ni fod llechau o blwm a chopr yn cael eu defnyddio er cadw cyfammodau, cyfreithiau, &c. Yr oedd cyttundeb y gwron, Judas y Maccabeaid, a'r Rhufeiniaid, ar gopr neu bres, 1 Mac. 8, 22. Mae rhai ysgrifenywyr yn haeru fod papyr plwm, *charta plumbea*, yn cael ei ddefnyddio gynt; ond y peth mwyaf tebygol yw nad oedd y cyfryw bapyr, os bu efe erioed mewn arferiad, yn ddim amgen na dail teneu o blwm, wedi eu gweithio yn deg i'r perwyl mewn golwg. (*Montfaucon, Pale og. Græc.* p. 16. Mae *Montfaucon* yn sicrhau i ni, (*Antiq. Expliquee*, tom. 2, p. 378,) iddo ef, yn y flwyddyn 1699, brynu yn Rhufain lyfr yr hwn oedd wedi ei wneuthur i fynu yn hollol o blwm, yn nghylch pedair modfedd o hyd, a thair modfedd o led. Nid yn unig yr oedd y ddau ddarn y rhai a wnaent i fynu y ddau glawr, ond hefyd yr holl ddail, chwech mewn rhifedi, yn nghyd a'r darn a roddid trwy y dolenau y rhai a ddalient y dail yn nghyd, a'r hoelion, oll wedi eu gwneuthur o blwm. Yr oedd y gyfrol hon yn cynnwys rhyw ffigyrau yn iaith yr Aiff, a rhyw ysgrifennu annealladwy arall. Mae *Pliny* (13, 11,) yn sicrhau i ni, *Fod dynion ar y cyntaf yn ysgrifenu ar ddail y palmwydd, a rhisgl rhyw goed ereill; ond wedi hyny fod ysgrifeniadau cyhoedd yn cael eu cadw ar lechau neu leni o blwm, a'r rhai nad oeddynt ond o natur anghyhoedd ar grwyn neu liain.*

Wrth eiriau o eiddo *Dionysius*, ymddengys fod ysgrifenu ar grwyn mewn arferiad yn mysg y Rhufeiniaid yn fore iawn. Yr oedd yr arferiad hon yn henach o lawer mewn parthau ereill o'r byd. Ffynai yn mysg y Joniaid.\* *Herodotus* 5, 58. Yr oedd y Persiaid gynt yn ysgrifenu eu hanesion ar grwyn. *Diodorus*, 2, 32. Yr oedd llyfrau lliain yn cael eu harfer gan yr hynafiaid yn ol tystiolaeth *Pliny* a *Vopiscus*. Llefara *Livy* am y llyfrau lliain ag a gafwyd yn nheml Moneta, 4, 7. Fod ysgrifenu ar liain yn beth yr un mor gyffredin yn y Dwyrain, a ellir gasglu

\* Trigolion saith o ynysocedd yn Mor y Canoldir, i'r de-orllewin o gyffiniau Twro.

oddiwrth rwymau y *munmies*,\* y rhai a gafwyd yn fynych wedi eu cuddio â llythyrenau annarllenadwy o herwydd oed. Mae dull petryal (*square*) llythyrenau yr ieishioedd Dwyreiniol, yn fanteisiol iawn at eu rhoddi ar ddefnyddiau wrth eu gwau: ac mae *Eichorn* yn tybied, gyda llawer iawn o debygolrwydd, fod llyfrau yr Hen Destament wedi cael eu hysgrifenu ar liain. *Eint. in Alt. Test.* 2, 3. Mae yr arferiad hon yu ffynnu o hyd yn y Dwyrain, fel yr ymddengys oddiwrth *Moallakat*, neu lyfrau lliain y prydyddion Arabaidd, y rhai a wêlir yn crogi yn y deml yn Mecca. *Sir W. Jones's Works, vol. 4, p. 245.*

Esay 60. 8. *Hwy a chedant fel cwmwl, ac fel colommenod i'w ffenestri.* Mae *M. Savary (Letters on Egypt)*, wrth lefaru am fuddugoliaeth, yn dywedyd, "Ar foreu y dydd nodedig hwnw, anfonwyd colommen ymaith o Manseura, i ddwyn y newydd i Cairo, prif ddinas yr Aipht, am farwolaeth Facr Eddin, a floedigaeth yr Aiffiaid. Mae yr arferiad hon o ddefnyddio colommenod i ddwyn cennadwriaethau gyda chyflymdra, yr hon a barhaodd cyhyd yn y Dwyrain, yn awr wedi ei diddymu. Dichon mai at gyflymdra mawr yr adar hyn i ddwyn negesau gyda'r buandra mwyaf, a'r taerineb gyda pha un y dychwelent i'w hanneddau arferol, y mae Esay yn cyfeirio, yr hwn, pan yn disgrifio y taerineb gyda pha un y tyrai y Cenhedloedd i eglwys Crist, a ddywed, *Hwy a chedant fel cwmwl, ac fel colommenod i'w ffenestri.*

Dywed Dr. Russell wrthym, pan ddefnyddid colommenod i ddwyn cennadwriaethau, yr arferid nid yn unig gosod y papyr a fyddai yn cynnwys y gennadwri dan yr aden, fel na chaffai ei wlychu. Ond "yr arferent olchi eu traed â finagr, gyda golwg ar eu cadw yn oer, fel nad arosent i yfed neu ymolchi, yr hyn a fuasai yn dystrywio y papyr." *Hist. of Aleppo, vol. 2, p. 203.*

Yn nghymfydogaethau y ddinas, i'r gorllewin, gerllaw Zainerood, y mae llawer o dai colommenod, wedi eu codi, yn mhell oddiwrth drigfanau, yn unig er mwyn cael eu tom at wrtaith. Tyrau mawrion crynion ydynt, yn hytrach yn fwy yn y gwaelod nac yn y pen, a thyllau ynddynt i'r colommenod fyned trwyddynt. Mae eu tu fewn yn debyg i ddil mêl (*honey comb*), lle y mae mil o dyllau, a phob un o honynt yn nyth gryno. Ymddengys fod mwy o ofal wedi ei gymmeryd gyda y tu allan iddynt hwy, nac am du allan y tai annedd yn gyffredin, canys y maent wedi eu lliwio a'u haddurno. Mae yr heidiau anarferol o-golommenod

\* *Mumm'es*, cyrph meirwon wedi eu perarogli.

“Nid oedd yr arferiad o blwm at gadw ysgrifeniadau coffadwriaethol yn adnabyddus i'r hynafiaid. Dywedir fod *wythnosas* a *dyddiau* Herod wedi cael eu hysgrifenu ar lechau plwm, y rhai a gedwid yn ofalus yn nheml y *Muses*; y rhai, pan ddangoswyd hwynt i Pausanias, oeddynt wedi gwaethygu yn fawr trwy henaint. *Pausanias in Bœoticis*, c. 31. Hysbysa hanesyddiaeth i ni fod llechau o blwm a chopr yn cael eu defnyddio er cadw cyfammodau, cyfreithiau, &c. Yr oedd cyttundeb y gwron, Judas y Maccabeaid, a'r Rhufeiniaid, ar gopr neu bres, 1 Mac. 8, 22. Mae rhai ysgrifenywyr yn haeru fod papyr plwm, *charta plumbea*, yn cael ei ddefnyddio gynt; ond y peth mwyaf tebygol yw nad oedd y cyfryw bapyr, os bu efe erioed mewn arferiad, yn ddim amgen na dail teneu o blwm, wedi eu gweithio yn deg i'r perwyl mewn golwg. (*Montfaucon, Palæ og. Græc.* p. 16. Mae *Montfaucon* yn sicrhau i ni, (*Antiq. Expliquée*, tom. 2, p. 378,) iddo ef, yn y flwyddyn 1699, brynu yn Rhufain lyfr yr hwn oedd wedi ei wneuthur i fynu yn hollol o blwm, yn nghylch pedair modfedd o hyd, a thair modfedd o led. Nid yn unig yr oedd y ddau ddarn y rhai a wnaent i fynu y ddau glawr, ond hefyd yr holl ddail, chwech mewn rhifedi, yn nghyd a'r darn a roddid trwy y dolenau y rhai a ddalient y dail yn nghyd, a'r hoelion, oll wedi eu gwneuthur o blwm. Yr oedd y gyfrol hon yn cynnwys rhyw ffigyrau yn iaith yr Aifft, a rhyw ysgrifennu annealladwy arall. Mae *Pliny* (13, 11,) yn sicrhau i ni, *Fod dynion ar y cyntaf yn ysgrifenu ar ddail y palmwydd, a rhisgl rhyw goed ereill; ond wedi hyny fod ysgrifeniadau cyhoedd yn cael eu cadw ar lechau neu leni o blwm, a'r rhai nad oeddynt ond o natur anghyhoedd ar grwyn neu liain.*

Wrth eiriau o eiddo *Dionysius*, ymddengys fod ysgrifenu ar grwyn mewn arferiad yn mysg y Rhufeiniaid yn fore iawn. Yr oedd yr arferiad hon yn henach o lawer mewn parthau ereill o'r byd. Ffynai yn mysg y Joniaid.\* *Herodotus* 5, 58. Yr oedd y Persiaid gynt yn ysgrifenu eu hanesion ar grwyn. *Diodorus*, 2, 32. Yr oedd llyfrau lliain yn cael eu harfer gan yr hynafiaid yn ol tystiolaeth *Pliny* a *Vopiscus*. Clefara *Livy* am y llyfrau lliain ag a gafwyd yn nheml Moneta, 4, 7. Fod ysgrifenu ar liain yn beth yr un mor gyffredin yn y Dwyrain, a ellir gasglu

\* Trigolion saeth o ynysydd yn Mor y Canoldir, i'r de-orllewin o gyffiniau Twrci.

oddiwrth rwymanu y *mummies*,\* y rhai a gafwyd yn fynych wedi eu cuddio â llythyrenau annarllenadwy o herwydd oed. Mae dull petryal (*square*) llythyrenau yr ieishioedd Dwyreiniol, yn fanteisiol iawn at eu rhoddi ar ddefnyddiau wrth eu gwau: ac mae *Eichorn* yn tybied, gyda llawer iawn o debygolrwydd, fod llyfrau yr Hen Destament wedi cael eu hysgrifenu ar liain. *Einkl. in Alt. Test.* 2, 3. Mae yr arferiad hon yu ffynnu o hyd yn y Dwyrain, fel yr ymddengys oddiwrth *Moallakat*, neu lyfrau lliain y prydyddion Arabaidd, y rhai a wêlir yn crogi yn y deml yn Mecca. *Sir W. Jones's Works, vol. 4, p. 245.*

Esay 60. 8. *Hwy a chedant fel cwmwl, ac fel colommenod i'w ffenestri.* Mae *M. Savary (Letters on Egypt)*, wrth lefaru am fuddugoliaeth, yn dywedyd, "Ar foreu y dydd nodedig hwnw, anfonwyd colommen ymaith o Manseura, i ddwyn y newydd i Cairo, prif ddinas yr Aipht, am farwolaeth Facr Eddin, a ffoed-igaeth yr Aiffiaid. Mae yr arferiad hon o ddefnyddio colommenod i ddwyn cennadwriaethau gyda chyflymdra, yr hon a barhaodd cyhyd yn y Dwyrain, yn awr wedi ei diddymu. Dichon mai at gyflymdra mawr yr adar hyn i ddwyn negesau gyda'r buandra mwyaf, a'r taerineb gyda pha un y dychwelent i'w hanneddau arferol, y mae Esay yn cyfeirio, yr hwn, pan yn disgrifio y taerineb gyda pha un y tyrai y Cenhedloedd i eglwys Crist, a ddywed, *Hwy a chedant fel cwmwl, ac fel colommenod i'w ffenestri.*

Dywed Dr. Russell wrthym, pan ddefnyddid colommenod i ddwyn cennadwriaethau, yr arferid nid yn unig gosod y papyr a fyddai yn cynnwys y gennadwri dan yr aden, fel na chaffai ei wlychu. Ond "yr arferent olchi eu traed â finegr, gyda golwg ar eu cadw yn oer, fel nad arosent i yfed neu ymolchi, yr hyn a fuasai yn dystrywio y papyr." *Hist. of Aleppo, vol. 2, p. 203.*

Yn nghymhydogaethau y ddinas, i'r gorllewin, gerllaw Zainerood, y mae llawer o dai colommenod, wedi eu codi, yn mhell oddiwrth drigfanau, yn unig er mwyn cael eu tom at wrtaith. Tyrau mawrioa crynion ydynt, yn hytrach yn fwy yn y gwaelod nac yn y pen, a thyllau ynddynt i'r colommenod fyned trwyddynt. Mae eu tu fewn yn debyg i ddil mêl (*honey comb*), lle y mae mil o dyllau, a phob un o honynt yn nyth gryno. Ymddengys fod mwy o ofal wedi ei gymmeryd gyda y tu allan iddynt hwy, nac am du allan y tai annedd yn gyffredin, canys y maent wedi eu lliwio a'u haddurno. Mae yr heidiau anarferol o golommenod

\* *Mummies*, cyrph meirwon wedi eu perarogli.

llwyni, araf iawn yr oeddynt yn teithio; ond ymddangosai fod gan bawb ddigon o amynedd i gyd-ddwyn â symudiad araf y camel, ac yr oedd yn amlwg nad oedd o fawr bwys ganddynt pa un a orphwysent ganol dydd neu ar fachludiad haul, gan fod awr yn ddigon o amser iddynt osod i fynu eu cysgod dros y nos." *Buckingham's Travels in Palestine*, p. 324.

Num. 7. 2. *Tywysogion Israel, penaethiaid tŷ eu tadau.* Er fod minteioedd lliosog i'w gweld yn gyffredin ar y ffyrdd yn y Dwyrain, mae rhyw beth neillduol yn nheithiad blynyddol y cymdeithasau lliosog hyny o bobl ag y'nt yn myned ar bererindod i Mecca trwy yr anialwch; yr hyn a all wasanaethu mewn modd nodedig i egluro dull teithiad Israel trwy rai rhanau o'r anialwch hwnw. "Y dydd cyntaf y daethom allan o Mecca," medd *Pitts*, yn ei ddesgrifiad o'i ddychweliad oddiyno, "yr oedd y cwbl allan o drefn; ond y dydd nesaf ymdrechai pob un fyned yn mlaen; ac mewn trefn i hyn, bu llawer o gwerylu ac ymladd lawer gwaith. Ond wedi i bob un gymmeryd ei le yn y fintai, hwy a gadwasant yr un lle yn drefnus a thangnefeddus hyd neu y daethant i Cairo. Wrth deithio, rhoddant bedwar camel ochr yn ochr, y rhai a rwymir oll y naill ar ol y llall, fel gweddoedd. Mae yr holl gorph yn cael ei alw *caravan*. yr hwn a renir i amrywiol o *cottors*, neu gymdeithasau, i bob un o ba rai y mae enw, ac a gynnwysa, efallai, amrywiol o gannoedd o gamelod; a hwy a symudant y naill gymdeithas ar ol y llall, fel gwahanol fyddinoedd. Yn mhen pob *cottor* y mae rhyw wr bonheddig mawr, neu swyddog, yr hwn a ddygir mewn rhywbeth fel elor fŷrŷch. Yn mhen pob *cottor* hefyd y mae camel at ddwyn ei drysorau, &c. Mae dwy gloch fechan wrth y camel hwn, un ar bob tu iddo, swn y rhai a ellir glywed o bell. Mae clychau bychain o amgylch gyddfau rhai ereill o'r camelod. rhai o amgylch eu coesau y rhai, yn nghyda'r gweision, (y rhai a berthynant i'r camelod, ac a deithant ar draed) a ganant trwy yr holl nos, ac felly gwnant swn hyfryd, yr hyn a bair iddynt fyned rhagddynt ar eu taith gyda bywiogrwydd a phlesŷr. Dywedant fod y peroriaeth hwn yn gwnouthur y camlod yn fywiog. Fel hyn hwy a deithiant mewn trefn dda, bob dydd, nes y delont i Cairo; ac oni bai y drefn hon, ni ddiid dychymmygu y fath derfysg a fyddai yn mysŷg y fath dyrfa ddiŷfawr.

"Yn y nos y teithiant swyaf, o herwydd gwres mawr yr haul

yn y dydd; y mae ganddynt oleuadau, y rhai a ddygir ar ben polion i gyfarwyddo y pererinion yn eu teithiau."

Yr wyf yn meddwl y gallwn oddiwrth hyn ffurfio rhyw ddrychfeddw<sup>r</sup> am swydd ac ymddangosiad y tywysogion hyny perthynol i'r llwythau, rhwymedigaethau pa rai a goffêir yn Num. pen. 7. Hwy yn ddiameu a ymddangosent yn dra chyffelyb i dywysogion y gwahanol ddosparthau hyn ó fintai y Mohammedaniaid.

Num. 10. 31. *Ti a fyddi yn lle llygaid i ni.* Y pwys o gael tywysydd wrth deithio trwy yr anialwch a ymddengys yn eglur, pan ddarllenom yr hanes canlynol a gymmerwyd allan o waith *Bruce*, (*Travels*, vol. 4, p. 586,) "Tywysydd yw *hybeer*, oddiwrth y gair Arabaidd *hubbar*, hysbysu, addysgu, neu gyfarwyddo, o herwydd yr arferant hwy wneuthur y swydd hon i'r minteioedd (*caravans*) wrth deithio trwy bob parth o'r anialwch, pa un bynag ai i'r Aipht ac yn ol, glan y Môr Coch, neu wledydd Sudan, a'r rhanau, pellaf i'r gorllewin i Affrica. Mae y tywyswyr yn ddyinion ystyriol iawn, yn gwybod yn gywir sefyllfa a rhinweddau pob math o ddwfr ag a ellir gyfarfod yn y ffordd a deithiant, y pellder at ffynnonau, pa un a feddiennir hwynt gan elynion ai peidio, ac os gwneir, y ffordd oreu i'w gochelyd yn y modd mwyaf cyfleus. Mae yn angenrheidiol hefyd iddynt hwy wybod yr amseroedd y mae y gwyntoedd gwenwynllyd yn debyg o chwythu, a'r lleoedd y maent yn debyg o ddifrodi; gofynol yw iddynt wybod hefyd am y lleoedd a feddiennir gan dywod symudol. Hwy a berthynant yn gyffredin i lwyth grymus o Arabiaid yn preswyllo yn yr anialwch hwn, pa rai a ddefnyddiant hwy er cynnorthwyo eu minteioedd, neu i'w diffynu mewn amser o berygl, ac y mae gwobrwyon gwerthfawr bob amser dan eu hawdurdod hwynt i'w gwasgaru ar y cyfryw achlysuron; ond yn awr. am fod yr anialwch hwn yn mhob man heb lywodraeth, bod y masnach rhwng Abyssinia a Chaira wedi ei roddi i fynu, a'r masnach rhwng Sudan a'r brif ddinas wedi lleihau yn fawr, mae pwys a pharch swydd yr arweinydd wedi syrthio mewn cyfartalwch i leihad masnach, ac felly y mae diogelwch wedi lleihau."

Num. 20. 17, 18. *Attoleg, gŵd i mi fyned trwy dy wlad; nid awn trwy facs na gwintlan. ac nid yfwn ddwfr un ffynnon. A dywedodd Edom wrtho ef, Na ddyled heblio i mi.* Ynghylch deuddeg o'r gloch daeth yr yspiwr yn ol, a dywedodd fod y gelyn wedi gosod ei wŷr i wyllo y ffrwd, ar bob tu i'r dyffryn, yn y fath fodd na oddefai efe i fugeiliaid ein tywysog i ddyfrhau

yr oedd yr efnuch yn ddarllen, cyn iddo gael ei wahodd i eistedd gydag ef yn y cerbyd. Yr oedd yr efnuch, er, tebygol, yn darllen iddo ei hun, ac ddim yn bwriadu cael ei glywed gan neb o'i weision, yn darllen yn ddigon uchel i gael ei ddeall gan berson mewn ychydig o bellder oddiwrtho." *Jowell's Christian Researches in Syria*, p. 120.

Dat. 1. 1. *Datguddiad*. Mae St. Ioan yma wedi dilyn arferiad yr Hebraeid, yn enwedig y prophwydi, o ddechreu ei lyfr gyda y titl neu eglurhad o'r mater a drinir ynddo. Ymddengys yr arferai yr awdwyr hynaf wneuthur hyn, y rhai santaidd a'r rhai ethnicaidd. Yn nghaniadau Homer, mae y pennill cyntaf yn gosod allan y mater sydd yn y cwbl, a gall sefyll fel titl. Gellir gweled yr un peth yn ysgrifeniadau amrywiol ereill o'r ysgrifenywyr Paganauidd.

"Yn eu llyfrau harddaf, mae y *Burmahs* yn ysgrifenu ar ddarnau o ifori, neu ar ddail teg Palmyra: Mae yr ifori yn cael ei liwio yn ddu, a'r ymylau yn cael eu haddurno ag aur. Ar bapyr Palmyra rhoddir ar y llythyrenau yn gyffredin farnais du: ac addurnir ymylau y dail mewn amrywiol o ffyrdd. Ar eu llyfrau mwyaf cyffredin y *Burmahs*, â math o bin haiarn, a gerfiant eu hysgrifeniadau ar ddail Palmyra. Gwneir twll trwy ddwy gongl y ddalen, trwy y rhai rhoddant linyrn, ac felly unant y dail â'u gilydd; rhoddant y llinynau hyn trwy ddarn o fwrdd, ac felly y rhwymant hwynt. Pan fyddont yn rhwymo yn hardd, torant ymylau y dail yn llyfn, a goreurant hwynt, ac ysgrifenant y titl ar y bwrdd uchaf: mae y ddau linyrn yn cael eu sicrhau trwy wneuthur cwlwm ar eu penau, ar y rhai weithiau y rhoddir perlau gwerthfawr. Mae y llyfrau harddaf yn eu plith yn cael eu traï mewn sidan, ac yn cael eu rhwymo â gardys, yn yr hwn y mae gan y *Burmahs* ffordd i wau titl y llyfr." *Asiatic Researches*, vol. 6, p. 306.

Dat. 10. 10. *Ac mi a gymmerais y llyfr bychan o law yr angel, ac a'i bwytteais ef*. Arferir yr iaith gymhariaethol hon gan ysgrifenywyr yn mysg y Paganauidd. Fel hyn dywed *Busbequius*, (*Travels*, p. 245,) "Dywedai y Tyrciaid yn fynych, fod dysgeidiaeth cenhedloedd ereill ganddynt yn eu llyfrau, ond fod y Tartariaid yn bwyta eu llyfrau, a bod eu doethineb ganddynt hwy yn eu mynwesau, o ba le y gallent ei thynw allan yn ol fel y byddai angen arnynt, fel oraclau dwyfol.

Nid oedd gwisg Crist, o herfwydd yr ymddangosiad isel a wnaeth efe ar y ddaear, wedi ei haddurno yn y modd a hynodai wisgoedd y Dwyrain. Pe buasai ei wisg yn null cyffredin y Dwyrain, dywedasad, tebygol, i'r wraig gyffwrdd â sider (*fringe*) ei wisg, yn lle â'i *hymyl*.

"Y tywysydd a'r gosgorddion a dynasant eu sandalau wrth y drws, yn ol yr arfer; hwy a aethant yn mlaen, ac a gusanasant ymyl gwisg yr Aga, ac yna aethant yn ol ac eisteddasant i lawr wrth y drws." *Chateaubriand's Travels in Greece, Palestine, &c.*, vol. 1, p. 312.

"Dygwyddodd i mi unwaith neu ddwywaith fod yn bresennol pan oedd Ali Pasha yn gwrandaw ar wahanol ymbilwyr, y rhai, y naill ar ol y llall, a ddeuent o'i flaen. Yr oedd hon yn olwg gyffrous iawn; pob ymbiliwr, wrth nesau ato, a benliniai, cusanai ei wisg, ac yna gosodai o'i flaen ei ddeisyfiad neu ei achwyniad." *Holland's Travels in Albania*, p. 186.

Mat. 14. 6. *Pan gadwyd dydd genedigaeth Herod*. Yr oedd dydd genedigaeth tywysog, a dydd ei esgyniad i'r orsedd, yn cael eu cadw gyda rhwysg mawr yn mysg y Cenhedloedd. Arferid gwneuthur hyny yn mysg yr Aiffiaid (Gen. 40. 20) a'r Rhufeiniaid, ond ni wnelid felly yn mysg yr Iuddewon, y rhai a gyfrifent y gwleddoedd hyny yn mysg gwleddoedd eilunaddolaidd."

Dywed Josephus (*Antiq.*, 15. 11) fod yr Herod cyntaf, tad Herod Antipas, yn arfer cadw gwyl ar ddydd ei esgyniad i'r orsedd. *Herodotus*, 9. 109, a ddywed yr un peth am *Xerxes*, brenin Persia.

"Nid oes un o'r Chineaid, pa mor dlawd bynag, nad yw yn cadw ei ddydd genedigaeth gyda'r holl fawredd a all efe ei gyrhaedd. Mae yr holl blant, y perthynasau, y cymmydogion, a'r cyfeillion, yn gwybod dydd genedigaeth pob dyn yn eu plith. Mae dydd genedigaeth swyddog gwladol yn adnabyddus yn y gymmydogaeth lle y llywodraetho; eiddo rhag-frenin (*viceroi*), neu lywodraethwr gornohel, yn adnabyddus trwy yr holl dalaeth. Mae cadw dydd genedigaeth yn hen arferiad, ond ddim am eiddo personau annghyhoedd; ac nid yw mor gyffredinol yn un lle ag yn China. Ceidw y gwragedd eu dydd genedigaeth, ond nid yw y gwyr gyda'r gwragedd mewn unrhyw lawenydd pa bynag." *Fernandez Navarrete's Account of Spain*. *Churchill's Collection*, vol. 1, p. 71.

Mae y cadwraeth o ddydd genedigaeth brenin Mogul yn cael ei



ddesgrifio fel hyn gan Syr *Thomas Roe* :—"Efe a'i holl bendefigion a lawenychasant. Gwahoddwyd fi hefyd i'r seremoni ; ac fel yr oeddwn yn yfed iechyd da iddo mewn cwppan aur ardderchog, wedi ei addurno â pherlau, efe a erfyniodd arnaf, pan oeddwn yn yfed y gwin, i dderbyn y cwppan fel ei anrheg ef. Ei fawrhydi a ymddangosodd yn holl uchder rhwysg, a gwychder dillad y dydd hwnw, a thrwsiwyd ei elephantiaid yn eu harnais gwychaf ; aeth pawb heibio o'i flaen yn y modd mwyaf trefnus, a phlygasant yn ostyngedig iddo wrth fyned rhagddynt, ac, wrth ystyried y cwbl, mi a dybiais fod hon yr olwg hyfrytaf a welais erioed." *Harris's Collection, vol. 1, p. 166.*

Mae y Tartariaid yn cadw dydd genedigaeth eu penaeth yn y modd mwyaf anrhydeddus. Cedwir y dydd hwn yn eu plith mewn modd mwy difrifol nag un dydd yn y flwyddyn, oddieithr y dydd cyntaf o Chwefror, ar yr hwn y dechreuant eu blwyddyn. Mae y brenin, gan hyny, ar ei ddydd genedigaeth, mewn gwisg werthfawr iawn, wedi ei haddurno âg aur, ac y mae yn nghylch dwy fil o feyron (*barons*) a milwyr wedi eu gwisgo mewn dillad o'r un lliw wedi eu haddurno âg aur, y rhai a roddir iddynt, yn nghyda phâr o esgidiau. Mae rhai yn gwisgo perlau a gwisgoedd gwerthfawr iawn, y rhai ydynt nesaf at y *Khan* ; ac nid yw y gwisgoedd hyn yn cael eu gwisgo ond ar dair gwyl ar ddeg, yn ol y y tair lleuad ar ddeg ag sydd yn y flwyddyn. Gwisgir pawb bryd hyny fel brenhinoedd. Arferir hefyd yn mysg y Tartariaid, ar ddydd genedigaeth y *Khan* mawr, fod i'r holl frenhinoedd, y tywysogion, a'r pendefigion, y rhai ydynt ddarostyngedig i'w arglwyddiaeth ef, anfon anrhegion iddo fel eu hymerawdwr : ac y mae y rhai a ddymunant gael unrhyw le neu swydd o fawredd dano, i ddwyn eu deisyfiadau at ddeuddeg breyr (*baron*) gosodedig i'r perwyl hwnw, ac y mae yr hyn a benderfynant hwy yr un mor rymus a phe byddai yr ymerawdwr ei hun yn eu hateb. Mae pawb pobl, o ba ffydd neu blaid bynag y byddont, pa un bynag a'i Cristionogion neu Iuddewon, Saraceniaid, neu Dartariaid, neu Baganiaid, yn rhwymedig i alw yn ddirifol ar eu duwiau, dros fywyd, diogelwch, a llwyddiant y *Khan* Mawr." *Voyage and Travels of Marco Polo, in Pinkerton's Collect., vol. 7, p. 132.*

Marc 7. 3. *Oni bydd iddynt olchi eu dwylaw yn fynych, ni fwyttânt.* Mae *Theophylact* yn cyfieithu y geiriau, *oni bydd iddynt olchi i fynu at eu penelin*, gan gadarnhau fod *εὐχμη* yn

dynodi y cwbl o'r fraich o'r plygiad hyd flaen y bysedd. Ond nid yn gyffredin y mae y gair yn arwyddo hyn; canys *εγγυνη* yn briodol a arwydda y llaw, a'r bysedd wedi eu plygu at y cledr a'u gwneuthur yn grwn. Mae cyfieithiad *Theophylact*, pa fodd bynag, yn gosod allan feddwl yr Efyngylwr. Canys pan olchai yr Iuddewon, dalient i fynu eu dwylaw, a chan blygu eu bysedd, derbynient y dwfr a dywelltid arnynt gan eu gweision (rhan o swydd pa rai oedd hyny, 2 Bren. 3. 11), hyd nes y rhedai i waered ar hyd eu breiohiau, y rhai a olchent i fynu hyd eu penelinoedd. *Masknight's Harmony*, vol. 2, p. 352.

"Yn mhen yn nghylch awr, daeth boneddiges y tŷ yn mlaen a chanddi biser ac ysten, a llaw-liain hardd wedi ei daflu dros ei braich: wedi myned yn mlaen at y swyddog, a gwneuthur ei moes, hi a dywalltodd ddwfr twym i'r cawg, â'r hwn y golchodd efe ei ddwylaw, gan droi i fynu ei lewis llaesion i'r perwyl hwn, a golechi i fynu hanner y ffordd at ei benelinoedd." *Hughes's Travels in Sicily, Greece, and Albania*, vol. 2, p. 50.

Marc 11. 8. *Ereill a dorasant gangau o'r gwŷdd, ac a'u taenasant ar hyd y ffordd.* "Ni a glywsom fod rhôs a dwfr wedi eu rhoddi ar ei ffordd oll i Kalaat Poushan, yn nghylch tair milltir, yr hyn oedd y ffordd i ddangos anrhydedd i bersonau mewn gradd uchel; ac yma a thraw yr oedd cawgiau yn llawn o sugyr wedi eu tori dan draed ei geffyl. Mae sathru ar sugyr, yn eu plith hwy, yn arwyddo llwyddiant. Yr oedd gwasgaru blodau yn sermoni a gyflawnwyd er anrhydedd i Alexander ar ei fynediad i Babilon." *Quintus Curtius*, lib. 5. *Morier's Second Journey through Persia*, p. 94.

"Wrth fyned i mewn i'r lletty cyffredin (*caravanserai*), Zal Khan a barodd i ddwy neu dair o gostreli gwydr, bron yn llawn o sugyr grisialedig (*sugarcandy*) gael eu dryllio, ac i'w cynnwysiad gael ei wasgaru yn mysg y lliaws: dull o dalu moes i ddyeithriaid o sefyllfa uchel ag a arferwyd yn Persia trwy ystod llawer o oesau. *Sir W. Ouseley's Travels in the East*, vol. 1, p. 262.

"Ymddangosai yn awyddus am rod-di i ni arwydd cyhoedd o'i sylw; canys fel yr oeddem yn marchogaeth yn mlaen, mewn dau fan gwahanol, rhoddwyd iddo gawgiau yn llawn o sugyr grisialedig, o'r hwn efe ei hun a gymmerodd ddarn, ac yna gorchymynodd fod iddo gael ei rod-di i mi, ac i foneddigion y genhadiaeth, ac i'n gweinyddwyr. Mae hyn yn mysg y Persiaid yn cael

ei gyfrif yn arwydd nodedig o ffafwr : a thra na allasem ni ymattal rhag gwenu o herwydd y fath ddefod ddeyithr o osod darnau mawrion o sugyr grisialedig yn ein dwylaw pan yn marchogaeth, nid oedd braidd un Persiad o'n hamgylch na fuasai yn ewyllysgar yn rhoddi i ni ei farf am arwydd cyffelyb o arhwydedd." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 387.

"Cyn i ni fyned i mewn i Bosmech, gwelais seremoni ryfedd iawn, ag sydd yn gyffredin yn y wlad hon, a gyflawnir mewn arhwydedd i ddynesiad brenin at unrhyw dref neu bentref cryn fawr yn ei arglwyddiaethau. Ymddangosodd lliaws o bobl, yn dyfod tuag atom, yn tywys buwch yn mlaen, yr hon a ddygasant gerllaw i'r tywysog, ac a aberthasant yn ddioed wrth draed ei gefyl. Rhoddwyd arwydd gan Abbas Mirza i atial moes mor anhyfryd, ond ni sylwyd arno yn nghanol y terfysg, a rheddodd gwaed yr anifail dros y ffordd yr oedd yn rhaid i ni fyned drosti. Heblaw hyn, gwelais weithred arall o barch yn cael ei chyflawni; sef tori llestr yn cynnwys sugyr neu fêl, yn ffordd y tywysog. Ac yna â y lliaws yn mlaen." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia*, vol. 1, p. 255.

"Cefais fy nghroesawi yma gan fintai o ddeunaw neu ugain o wŷr meirch, y rhai a ganlynent Mirza Takki, y penaeth, y rhai, gyda lliaws o bobl ar draed, a ddaethant dros filltir i'm cyfarfod. Oddiwrth ei ymadroddion parchus, dechreuais dybied fod y person a anfonasid yn mlaen gan y *Khan* yr hwyr o'r blaen, wedi rhoddi lle iddo ddysgwyl cenhadwr (*ambassador*), a bod yr arhwydedd a roddid i mi wedi ei fwriadu i fy mrawd. Cymmerais gyfle i ddiwygio unrhyw wall a allai gymmeryd lle; ond parhaodd y Mirza yn ei arwyddion o barch, ac wrth fyped i mewn trwy y porth, efe a barodd i gostrel wydr, yn cynnwys sugyr grisialedig, gael ei thori ar y llawr; ac wedi i ni gyrhaedd ei dŷ ef ei hun, lle yr oedd ystafell gyfneus wedi ei pharotol i mi, torwyd costrel arall. Anfynych y telir y fath seremoni o barch ond i ymwelwyr o'r radd uchaf." *Sir W. Ouseley's Travels in the East*, vol. 2, p. 164.

"Pan dderbyniodd y tywysog *Chiragh Ulee Khan* y wisg arhwydeddus, yn mysg arwyddion ereill o fri yn y seremoni, yr oedd hr holl grefftwyr yn gymdeithasau wrthynt eu hunain yn dwyn pibellau gwydr bychain, wedi eu llanw â sugyr, y rhai, pan nesaodd y tywysog, a dorasant, ac a wasgarasant ar hyd y llawr." *Waring's Tour to Sheeraz*, p. 29.

**Luc 7. 38.** *A hi a gusanodd ei draed.* Arferid hyn yn fynych fel arwydd o serch a pharch. Dywed Xenophon, "Yna hwy yn serchiadol a gusanasant ddwyllaw a thraed Cyrus, gan dywallt dagrau a dangos arwyddion o lawenydd ar yr un pryd."

"Yn ystod fy nheithiau, arferwn gadw fflaim (*lancet*) gyda mi; a phan gymmerais hon allan o'm llogell-lyfr, y gosodais hi yn ei law ef, ac y dywedais wrtho, y bwriedid hi iddo ef, efe a edrychodd arnaf fi, ac arni hithau, a'i enau yn agored, fel yn methu credu y gallwn ymadael â'r fath berl. Ond pan ddywedais yr ail waith, 'Eich eiddo chwi ydyw,' efe a fwriodd ei hun ar y llawr, cusanodd fy mhenliniau a'm traed, ac a wylodd yn y fath fodd gan lawenydd, fel nad allai ddiolch mewn geiriau." *Sir. R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 464.*

**Luc 10. 4.** *Na chyferchwoh well i'neb ar y ffordd.* Yr oedd y genhadaeth ar yr hon yr anfonwyd dysgyblion Crist mor bwysig, fel y gofynid iddynt fod yn y brys mwyaf, i ochelyd y pethan a allent eu rhwystro, yn enwedig os na byddent ddim ond o natur seremoni. Mae y gorchymyn cynnwysedig yn yr ymadrodd hwn i'w ddeall fel hyn; canys ni ellir meddwl y gorchymynai Crist i'w ddysgyblion dori un o'r defodau hyny yn afreidiol, y rhai oeddynt mewn arferiad cyffredinol, a'r rhai oeddynt ddiniwed ynddynt eu hunain. Wrth fyned allan ar y tro presennol, pe goddefasid iddynt roddi a derbyn cyfarchiadau cyffredin, tebygol na buasant yn gallu myned nemawr yn mlaen. Gyda golwg ar wirionedd yr haeriad hwn, gallwn gael boddlonrwydd oddiwrth yr hyn a ddywed *Niebuhr (Travels, vol. 1, p. 302)*. "Arabiaid Yemen, ac yn enwedig preswylwyr yr ucheldiroedd, ydynt yn fynych yn attal dyeithriaid, i ofyn o ba le y deuant, ac i ba le yr ânt. Gofynir y gofyniadau hyn yn hollol o gywrain-ymfyngarwch, ac anghall gan hyny fyddai rhoddi ateb." Y darluniad hwn o'r peth, yn sicr, a symuda ymaith bob ymddangosiad o anfoesgarwch oddiar orchymyn Crist, yr hwn a fwriedid y'n unig i ddysgu ymddygiad gweddus i'w weision.

Dyben y cyfarwyddyd hwn oedd gochelyd iddynt gael eu rhwystro gan oediadau afreidiol ar eu taith. Ni fwriedid ef i rwystro y cyfarchiadau moesgar ag oeddynt arferol ynmysg y bobl, ond i ochelyd y rhwystrau a achlysurid gan ffurfiau a defodau. Ac yr oedd hyn yn fwy angenrheidiol, gan ei fod yn ddywediad ynmysg yr Iuddewon, *Rhwystroch bob dyn a chyf-*

*archiad.* Y modd y gallasai personau gael eu lluddias yn y dull hwn, a ymddengys yn eglur oddiwrth yr hanesyn canlynol:—  
 “Pa uwchaf fyddai gradd dyn, a pha oreu fyddai ei ddygiad i fynu, mwyaf mynych yr ail-osodai ei ofyniadau. Dyn ieuanc trwsiadus a dynodd fy sylw neillduol, fel un cyfarwydd yn y gorchwyl o barhau ac amlhau cyfarchiadau. Wrth anerch Arabiaid o Augila, efe a roddodd ei law iddo, ac a'i cadwodd gryn amser â'i foes-eiriau. Bu raid i'r Arabiaid ei adael, a chychwyn yn mlaen gyda mwy o frys nag o'r blaen, i oddiweddyd ei gydymdeithion. Y gwr ieuanc a dybiai y buasai efe yn ymddangos yn ddiffygiol mewn moesau pe buasai efe yn ei adael ef mor fuan. Am hyny dros fwy na hanner milltir efe a reddodd gyda'i geffyl ef, tra mai yr holl ymddyddan oedd, Pa fodd yr ydwyt yn ymdaro? Wel, pa fodd yr ydwyt ti dy hun? Bendigedig fyddo Duw am dy fod wedi dyfod mewn heddwch! Duw a ganiatao heddwch i ti! Pa fodd yr ydwyt?” &c. *Horne-man's Travels in Africa*, p. 53.

“Mae yr Arabiaid yn foegar neillduol, ac yn hoffi ysgwyd dwylaw â theithwyr ar y ffordd, yr hyn a dröodd allan yn llawer o flinder i ni, o herwydd yr ofnem y cawsem y plâ. Maent hefyd yn fanwl iawn yn gosod rhes o ofyniadau o faen y rhai a gyfarfyddont. Yn gyntaf gofynant am eu hiechyd eu hunain, yna am iechyd eu gwragedd a'u plant; ac yn olaf pa un a ydyw eu hanifeiliaid a'u gweision yn ddiogel ac iach.” *Bramsen's Tour*, vol. 1, p. 183.

Ioan 1. 23. *Eb efe, Myfi yw llef un yn gwaeddi yn y diffaeth-wch, Uniawnwch ffordd yr Arglwydd.* “Cyn i ni gyrhaedd Mayar, cyfarfuasom â Mirza Abdul Cossim, swyddog parchus dan lywodraethwr Ispahan, a meddyg, un o rai dysgedig y ddinas, ac âg amrywiol o bobl barchus ereill. Gelwir y dirprwywr hyn *Peeshwaz*, agorwyr y ffordd; ac mae anfon y gwŷr hyn i gyfarfod â gwestwyr yn un o'r prif-fyrdde yn dangos parch iddynt. Pa mwyaf parchus fyddo y person a anfonir, a pha bellaf y delo, mwyaf yw y parch a ddangosir.” *Morier's Second Journey through Persia*, p. 128.

Phil. 1. 7. *Eich bod genyf yn fy nghalon.* Mae yr ymadrodd rhyfedd hwn yn arwyddo, nid yn unig fod gan yr apostol y seroh mwyaf didwyll a gwresog at y Phillipiaid, ond eu bod yn wastadol yn ei gof, a'i fod ef fel hyn yn cael ei gyffroi i ddwyn yn mlaen, yn mhob modd dichonadwy, eu lles a'u llwydd

ysbrydol. Os nid yn hollol gyffelyb, gellir ystyried yr anghraifft ganlynol yn nesu at hyny.

“Yr hen wr a'n dilynodd, gyda'i wragedd, i gryn bellder oddi-wrth y pentref, ac, wrth ymadael, efe a'm cymmeradwyodd i i'w berthynasau. 'Eich brawd chwi ydyw efe,' eb efe wrth ei fab; a chan agoryd gwasgawd (*waistcoat*) ei fab, a gosod ei law wrth ei fynwes, 'Yna,' eb efe, 'caffed ei osod.' Ffordd o gymmeradwyo ag sydd hefyd mewn arferiad mawr yn anialwch Arabia.” *Burckhardt's Travels in Nubia*, p. 170.

Dat. 1. 16. *A'i wynebpryd fel yr haul yn dysgleirio yn ei nerth.* Ceir yr ymadrodd hwn yn nheith brenin Siam. Dywedir y dysgleiria efe fel yr haul ganol dydd; ei fod fel y lleuad pan yn llawn: ac y dysgleiria ei lygâd fel seren fore. *I. Struy's Voyage 1, chap. 10.*

Dat. 2. 17. *Enw newydd, wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn sydd yn ei dderbyn.* Dywed *Doddridge* am yr yr ymadrodd hwn,—Yr wyf weithiau yn meddwl y gall o λαμβανων arwyddo, *un ag sydd wedi ei dderbyn*, gan yr ymddengys y rhaid fod enw a roddid i unrhyw berson yn adnabyddus i ereill, os amgen, rhoddid ef yn ofer; ac yna, efe a arwydda y caiff anrhydedd ei wneuthur i'r cyfryw un, yr hwn a fydd yn adnabyddus yn unig i breswylwyr y byd hwnw i'r hwn y caiff efe ei dderbyn, a'r rhai eisioes a'i derbyniasant ef; yn amgen rhaid y cyfeiria at ddefod ag sydd weithiau wedi flynu yn mysg tywysogion, o roddi enwau neillduol, yn gosod allan gyfeillgarwch a hyfrydwch mawr, i anwyliaid nodedig, wrth y rhai y galwant hwynt gyda'r cyfeillgarwch mwyaf, pa un bynag ai wrth siarad, neu drwy lythyr, a'r rhai ni chawsant eu rhoddi i ereill.

Pan fyddo y *Koosas*, llwyth yn Affrica, yn ewyllysio anrhydeddu unrhyw berson, hwy a roddant enw newydd iddo, ystyr yr hwn ni wya neb ond y person a'i rhydd. Mae yr arwydd hwn o barch yn cael ei roddi mewn modd nodedig i ryw bobl wŷnion a ddelo i'w plith, ac a arosa gyda hwynt dros ryw hyd o amser. Mae yn annirnadwy pa mor fuan yr adwaenir person trwy y wlad wrth ei enw newydd. *Lichtenstein's Travels in Africa.*

Cedwir y ddefod hon hefyd gan lwyth o Indiaid yn Ngogledd America. Rhoddi i ryw un enw newydd, ac yn enwedig yr eiddynt eu hunain, a ystyriant hwy fel yr anrhydedd mwyaf a allant roddi; a hwy a'i cadwant i anwyliaid neillduol. Dechreu-

ant gydag araeth, yn yr hon yr eglurant y rheswm dros enwi y person. Yna gofynant iddo a dderbyn efê yr enw, ac os cânt ateb cadarnhaol, canant, mewn modd hynod iawn, y gân a ganant wrth enwi eu plant, a phan orphenant hîno, ysgydwant ddwy-law â'r person, ac a'i galwant wrth ei enw newydd. *Scaliger de Emend. Temp. lib. 5, 6.*

Dat. 4. 10. *Ac yn bwrw eu coronau ger bron yr orseddfainc.* Gellir egluro yr amgylchiad hwn trwy amrywiol o amgylchiadau a goffeir mewn hanesyddiaeth. Josephus (*Ant. lib. 15, cap. 10*), wrth adrodd am Herod Fawr, wrth fyned i gyfarfod Augustus Cesar, wedi ei fuddugoliaeth ar Marc Antony, plaid yr hwn yr oedd Herod wedi goleddu, a ddywed iddo, cyn myned i mewn i'r ddinas, a dyfod i bresenoldeb yr ymerawdwr, gymmeryd ymaith ei goron, ac wedi iddo wneuthur ei ymesgusodiad, i Cesar erchi iddo ei gwisgo drachefn. Gwnaeth Tigranes, brenin Armenia, yr un modd i Pompey. *Cicero, Orat. P. Sextio, Plutarch. Vit. Pompey, fol. 209.* Tiridates, yn y modd hwn, a dalodd warogaeth i Nero, gan osod yr arwyddion o'i freninoldeb wrth ddelw Cesar, i'w derbyn drachefn o'i law ef. *Tacitus Ann, lib. 15, p. 258, edit. Paris, 1608.*

Yn urddiad y *Cesars*, pan ddeuai yr ymerawdwr i dderbyn yr ordinhad, efê a osodai heibio ei goron. *Constantuzene, lib. 1.*

"Cafodd y rhyfelgyrch byr hwn ei derfynu drwy ymostyngiad personol Abool Fyze Khan, yr hwn, yn cael ei ganlyn gan holl wŷr ei lys, a aeth i babell Nadir Shah, ac a osododd ei goron i lawr, a'r arwyddion ereill o freninoldeb, wrth draed y gorchfygwr, yr hwn a bennododd iddo le anrhydeddus yn y gynulleidfa, ac mewn ychydig o ddyddiau wedi hynny a'i hadferodd i'w orsedd." *Malcolm's History of Persia, vol. 2, p. 91.*

Dat. 19. 10. *Mi a syrthiais wrth ei draed ef, i'w addoli ef.* Ymddengys fod hyn yn weithred o ymostyngiad, a delid yn gyffredin i wŷr mawrion yn y Dwyrain, a'r hon yn awr a gyflawnid dan argraffiadau mwy difrifol na'r rhai a wnaed gan bresenoldeb tywysogion a brenhinoedd. Mae Mr. Bruce fel hyn yn disgrifio y seremoni y cyfeirir ati. "Y seremoni nodedig yn yr hon y mae y ddwy genedl hynny, y Persiaid a'r Abyssiniaid, yn cytuno, yw y seremoni o wrogaeth, yr hon a gedwir yn ofalus yn Abyssinia hyd y dydd hwn, mor fynych ag yr elo dynion i mewn i bresenoldeb y penadur. Nid yn unig mae penlinio, ond syrthio i lawr yn hollol yn y seremoni hon ;

ar y cyntaf syrthir ar y penliniau, yna ar gledrau y dwylaw, yna plygir y pen a'r corph nes y cyffyrddo y talcen â'r llawr; ac os bydd y dyn yn dysgwyl ateb, efe a erys yn yr agwedd hōno nes y gorchymyno y brenin, neu ryw un drosto, iddo godi." *Travels, vol. 3, p. 270.*

"Ni a aethom tuag at yr ymerawdwr à'n peroriaeth yn canu, nes y daethom o fewn yn nghylch wyth llathen iddo, pan y disgynodd yr hen benadur oddiar ei geffyl, ac y syrthiodd ar y llawr i weddio, ac efe a barhaodd dros rai munudau a'i wyneb mor agos at y ddaear, fel pan ddaethom i fynu ato, yr oedd llwch yn aros ar ei drwyn." *Stewart's Journey to Mequinez.*

Dat. 19. 16. *Ac y mae, ganddo ar ei wisg ac ar ei forddwyd enw wedi ei ysgrifenu, Brenin brenhinoedd, ac Arglwydd arglwyddi.* Mae y lleni a anfonir yn flynyddol o Cairo i Mecca, i'w gosod o amgylch y tŷ santaidd, fel y geilw y Mohammedaniaid ef, yn cael eu brodiaw (*embroidered*) oll drosodd â llythrenau aur, y rhai ydynt o ran hyd, lled, a thrwch, gymmaint a bys dyn. *Thevenot, part 1, p. 149.*

Ymddengys ei fod yn heu arferiad yn mysg amrywiol o genhedloedd, i addurno delwau eu duwiau, eu tywysogion, y gorchfygwyr yn eu chwareuyddiaethau cyhoedd, a phersonau nodedig ereill, âg ysgrifeniadau arnynt, yn gosod allan eu henwau, eu cymmeriad, neu ryw amgylchiad a weithredai er bri iddynt. Mae amrywiol o ddelwau o'r fath i'w gweled eto, ac ysgrifeniadau arnynt, naill ai ar y wisg neu ar un o'r morddwydydd. Mae *Herodotus (lib. 2, cap. 106)* yn coffau am ddwy ddelw i Sesostris, brenin yr Aiff, wedi eu tori mewn creigiau yn Ionia, wedi iddo orchfygu y wlad hōno, a'r geiriau canlynol, wedi eu cerfio ar y ddwyfron, yn cyrhaedd o un ysgwydd i'r llall: *Εγὼ τῆνός τῆν χάρην ἠμῶσι τοῖσι θεοῖσι ἐκτίσαμεν, Mi a orchfygais y wlad hon trwy nerth fy mreichiau.* Mae *Gruter (p. 989, num. 3)* wedi cyhoeddi delw noeth wedi ei gwneuthur o fynor, yr hon a dybir fod yn gosod allan ryw ymerawdwr Rhufeinig, neu y cyffelyb, yr hwn a gawsai ei wneuthur yn dduw gan Hadrian, ag ysgrifenedig ar du mewn y forddwyd ddehau, wedi ei hysgrifenu tuag i fynu yn unionsyth, mewn llythyrenau Rhufeinig, ac yn cynnwys enwau tri pherson. Gerllaw y ddelw, ar yr un ochr iddi, saif tarian hirgul ac enwau tri o bersonau ereill arni, wedi eu hysgrifenu o amgylch ar yr ymyl, mewn llythyrenau o'r un dull. *Coffeir (Appendix to Dempster's Etruria Regalis, tom. 2, tab. 93)*



am ddelw gwraig wedi ei gwneuthur o bres, wedi ei gwisgo mewn hugan laes i lawr hyd y traed, a gwisg feraeh drosti, ar du dehau yr hon y mae ysgrifen yn unionsyth tuag i fynu, yn llythyrenau Etruria\*, yn cyrhaedd rhan o'r wisg isaf. Tybir, oddiwirth y goron sydd ar y pen, a phethau ereill perthynol iddi, ei bod wedi ei bwriadu i arddangos duw yr Etruriaid. Sonia *Montfaucon* am ddelw gwrryw wedi ei gwneuthur o'r un defnydd, wedi ei gwisgo mewn hugan, a thros hōno wisg arall yn cyrhaedd hyd hanner y coesau, ar waelod yr hon y mae ysgrifen, yn iaith Etruria, ar hyd yr ymyl. Gellir dywedyd yn gyffelyb am ddelw menyw arall o fynor, wedi ei gwisgo mewn hugan hir, a mantell dros hōno, yr hon, yn syrthio oddiar yr ysgwyddau ar ochr pob braich, a wna agoriad ar y ddwyfron; mae ysgrifen, yn iaith Etruria, yr hon a reda yn gylch yn groes i'r corph, fel y darlunir hi gan *Montfaucon*. Ond yn ol *Dempster*, rheda yr ysgrifen dros y rhan hōno o'r fantell ag sydd yn cuddio y fraich ddehau, ac y mae yn fwy darllenadwy nag yw yn y blaenaf. Mae hefyd gan y ddau ysgrifenydd hyn, ddwy ddelw gwrryw wedi eu coronni â lawryf, y rhai a eilw *Montfaucon* yn ymdrechwyr, gan fod y lawryf yn arwydd o fuddugoliaeth. Ond mae *Bonarota* yn tybied fod un o honynt yn ddelw Apollo, am wddf yr hon y mae cadwyn, gwisg wedi ei throi o amgylch y fraich ddehau, a breichled ar y fraich aswy, a math o botasau am y coesau hyd eu hanner: ar y rhan arall o'r corph, lle y mae yn noeth, y mae ymadroddion wedi eu hysgrifenu tuag i waered, mewn dwy linell, ar y tu mewn i'r forddwyd aswy. Ar y ddelw arall mae y rhan isaf o'r corph wedi ei wisgo mewn gwisg laes, ac ysgrifen arni ar y forddwyd ddehau, mewn llythyrenau Rhufeinig, y rhai y mae *Bonarota* wedi eu gosod allan mewn modd mwy eglur nag yr ymddangosant yn *Montfaucon*: POMPORIO VIRIO I. At y rhai hyn gellir chwanegu o *Montfaucon* ddelw ymdrechwr noeth, wedi ei gwneuthur o fynor, a thalaith o amgylch ei ben, yn arwydd o fuddugoliaeth. Y mae wedi ei thynu mewn dwy ffordd, y naill yn dangos tu cefn, y llall yn dangos tu blaen y corff; ar yr olaf y mae mewn llythyrenau Groeg, ΚΑΦΙΣΟΔΟΡΟΣ am ΚΑΦΙΣΟΔΩΡΟΣ wedi eu hysgrifenu tuag i fynu yn unionsyth ar y tu allan i'r forddwyd aswy; ac ar y blaenaf y mae yr enw ΑΙΧΑΑΜΙΟΥ yn yr un llythyrenau a sefyllfa ar y forddwyd

\* *Etruria*, rhan o'r Itdal.

ddehau: y rhai hyn yn nghyd a wnant un yagrifen yn arwyddo *Caphisolorus filius Æschlamii*. Dichon mai digon fydd coffau am un ddelw arall o'r fath hyn, am yr hon y sonia *Montfaucon* a *Dempster*. Delw bachgen ydyw, wedi ei gwneuthur o bres, ac addurn pres ar lun calon yn crogi ar y ddwyfron, addurn ar bob braich a phob coes, aderyn yn ei law ddehau, ac ymadrodd yn llythyrenau Etruria, yn dechreu ar ran uchaf y forddwyd ddehau ar y tu mewn, ac yn myned i waered hyd ganol y goes. Tybia *Dempster* fod hon yn un o'r delwau hyny a gyssegrid i'r *lares*\* pan ddeuai bechgyn i oedran addfedrwydd. *Vid. Phil. Rubeni*.

## PENNOD XIII.

### AMAETHYDDIAETH.

GEN. 41. 47. *A'r ddaear a gnydiodd yn ddyrneidiau.* "Myfi a wêlais hyn. Mi a dynais, mewn modd diofal, ychydig o belydyr (*stalks*) allan o faes lle y tyfai yd yn dew. Ni a gyfrifasom rifedi y pelydyr y rhai a dyfent ar un gronyn o hâd, gan dynu y naill wraidd oddiwrth y llall, mewn trefn i weled nad oedd ond un planhigyn. Yr oedd i'r cyntaf saith baladyr; i'r nesaf dri; i'r nesaf naw; yna deunaw; yna pedwar-ar-ddeg; a phob paladyr yn dwyn tywysen." *Jowett's Christian Researches*, p. 167.

Lef. 23. 10. *Pan ddelych i'r tir a roddaf i chwi, a medi o honoch ei gynhauaf, yna dygwch ysgub blaen-ffrwyth eich cynhauaf at yr offeiriad.* "Wrth weled y fintai, un o'r gweithwyr a redodd oddiwrth ei gymdeithion, nesaodd atom, ac a safodd ar ei ddwyllaw, a'i draed i fynu i'r awyr, a rhoddodd arwyddion creill o lawenydd, yna cyflwynodd i mi dywysen o yd a blodeuyn fel offrwm o flaen-ffrwyth y flwyddyn. Gweddill o arferiad hen iawn, yw yr offrwm cwhwfan a'r dywysen o yd, a orchymynasid i'r Israeliaid gan Moses. Ni a roisom am danynt ddyrnaid o fâthau bychain o alcan, ac a atebasom y floedd a swniasai o'r maes, trwy floeddiadau o'r fintai." *Buckingham's Travels in Mesopotamia*, p. 24.

Num. 13. 23. *A daethant hyd ddyffryn Escol; a thorasant oddiyno gangen âg un sup o rawnwin, ac a'i dygasant ar drosoel*

\* *Lares*, math o dduwiau teuluaid yn mysg y Paganiaid.

*rhong dau.* “Ymddengys na roddwyd heibio fyth y gwaith o drin y winwydden yn y wlad hon. Y grawnwin, y rhai ydynt wŷnion, ac yn lled helaeth, nid ydynt, pa fodd bynag, lawer yn fwy eu maintioli na'r rhai sydd yn Ewrop. Ymdeagys eu bod felly yn unig yn y gymmydogaeth hon, canys o fewn y pellder o chwech milltir yn unig i'r dehau, y mae y dyffryn a elwid Escol, yr hwn a ganmolir yn yr Ysgrhythyr am ei ffrwythlondeb ac am ei fod yn dwyn grawnwin mawrion iawn. Mewn rhanau ereill hefyd o Syria, gwelais rawnwin o faintioli mor anghyffredin, fel y byddai swp o honynt yn ddigon o faich i un dyn. Nid yw yn rhyfedd mewn un modd, gan hyny, pan fu i'r yspiwyr a anfonasid gan Moses i edrych gwlad yr addewid, ddychwelyd i roddi hanes iddo am ei ffrwythlondeb, fod dau o honynt yn ofynol i ddwyn swp o rawnwin, yr hwn a ddygasant gyda hwynt yn crogi ar drosol a osodasid ar eu hysgwyddau.” *Manti's Travels, vol. 3, p. 134.*

Yn Rudesheim, ar lanau y Rhine \* loyw, medd *Riesbeck*, “Cawsom ein gwahodd gan wr eglwysig o Mentz † i wledd ardderchog. Wedi ciniaw, ein llettywr a'n harweinodd mewn trefn i'w barlawr helaeth, drysau yr hwn a agorwyd yn ddisymwth, a daeth i mewn gwmpeni o beroriaethwyr, yn cael eu canlyn gan ddwy ferch drwsiadus, y rhai a ddygasant i mewn swp mawr o rawnwin, ar fwrdd yn cael ei guddio â lliain tég : yr oedd ochrau y bwrdd wedi cael eu haddurno â blodau. Hwyl a roddasant y swp grawnwin yn nghanol y parlawr, ar fath o orsedd, yr hon a godwyd i fwrdd; ac mi a ganfyddais yn awr fod fy llettywr yn cadw gwledd y swp grawnwin addfed cyntaf yn ei winllan; arferiad a gedwid, ymddengys, yn y modd mwyaf manwl gan holl drigolion cyfoethog y wlad hon.” *Pinkerton's Collection, part. 24, p. 259.*

Mae llawer ag ydynt yn llygad-dystion yn sicrhau i ni, fod y gwinwydd a'r sypiau grawnwin yn Palestine, o faintioli ag sydd bron yn anghredadwy. Dywed *Stephan Schultz*, “Yn Beitdjin, pentref gerllaw Ptolemais, cymmerasom ein swpper dan winwydden fawr, paladyr yr hon oedd agos yn droedfedd a hanner mewn tryfesur, ei huchder yn nghylch deg troedfedd ar hugain

\* *Rhine*, afon fawr yn tarddu yn Switzerland, ac wedi croesi rhan o'r Almaen, y mae yn rhanu yn ddwy gangen; mae un o honynt yn cael ei cholli yn y tywod, a'r llall yn rhedeg i'r Morwe, gerllaw Dort, yn Holland.

† *Mentz*, dinas helaeth yn yr Almaen.

ac yr oedd â'i changau a'i blagur yn cuddio bwthyn ag oedd yn fwy na hanner can troedfedd o hyd a lled. Mae sypiau y grawnwin hyn mor fawrion fel y pwysant o ddeg i ddeuddeg pwys, a gellir cymharu y grawnwin i'n eiryn ni. Mae un o'r cyfryw sypiau yn cael ei dori ymaith a'i osod ar fwrdd, o amgylch yr hwn yr eisteddant, a phob un a gymmer gynnifer o'r grawn ag a fyno." *Forster*, yn ei Eiriadur Hebreig (dan y gair Escol), a ddywed, "ei fod ef yn adnabod mynach yn Nurnburg, o'r enw Acacius, yr hwn oedd wedi anneddu wyth mlynedd yn Palestine, ac oedd hefyd wedi pregethu yn Hebron, lle y gwelsai sypiau o rawnwin ag oeddynt gymmaint ag a allasai dau ddyn eu dwyn gyda rhwyddineb." *Christopher Neitzchutz*, yr hwn a deithiodd drwy Palestine yn y flwyddyn 1634, wrth lefaru am ei deithiau ar y mynyddoedd Iuddewig, a ddywed, "Mae y mynyddoedd hyn yn lled uchel, a'r sefyllfa yn hyfryd iawn; ac mi a allaf ddywedyd mewn gwirionedd, i mi weled a bwyta sypiau o rawnwin ag oeddynt bob un yn dri chwarter llathen o hyd, a'r grawnwin yn ddau hyd cymmal bys." Dywed *Reland*, (*Palestine*, p. 351), "i farsiaidiwr, yr hwn a fuasai byw amrywiol o flynyddoedd yn Rama, sicrhau iddo, iddo ef weled yno sypiau o rawnwin y rhai a bwysent ddeg pwys bob un." Mae gwinwydd a grawnwin o faintioli anarferol i'w gweled mewn lleoedd ereill yn y Dwyrain. Dywed *Strabo* (*Geography*, b. 2, p. 73), "fod yn Margiana, gwlad i'r dehau-orllewin o fôr Caspian, yr hon yn awr a elwir Ghilan, winwydd y rhai na all dau ddyn ond yn brin eu rhychwantu (*span*), sypiau grawn pa rai ydynt o hyd anarferol." *Olearius*, yn 1637, a welodd winwydden yn y parth hwn, paladyr yr hon oedd mor braffed a chorff dyn. Efe a ddywed fod yn Iran fath o rawnwin a elwir *Enkuri ali deresi*, y rhai ydynt o liw llwydgoch, a chymmaint ag eiryn yr Ispaan. Nid o herwydd pwys y swp grawnwin yn hollol yr oeddynt yn ei ddwyn rhwng dau, oud fel na chawsai ei niw- eidio trwy gael ei wasgu, wrth gael ei ddwyn i wersyll Israel.

Deut. 25. 4. *Na chau safn yr ých tra fyddo yn dyrnu.* Mae y Tartariaid yn curo eu hýd allan mor fuan ag y casglont ef; a hwy a wnant felly yn y modd rhyfedd canlynol. Ar ol iddynt ddewis man gwaestad, hwy a sicrhânt bawl yn y ddaear, gan osod yr ýd yn gylch o'i amgylch, dros gymmaint o dir ag a wna wyth neu naw llathen o dryfesur: yna hwy a gylymant geffyl gerfydd rheffyn hir wrth bawl, so a barhânt i'w yru o am-

gylch ar hyd yr ŷd, hyd nes y dirwyno y rheffyn am y pawl; wedi hyn, hwy a droant oi ben y ffordd arall, a gyrrant ef ar hyd yr ŷd nes y dattodo y rheffyn drachefn. *Clarke's Travels*, vol. 1, p. 527.

"Mae cymmysg o ddefodau y Dwyrain ac eiddo y Gorllewin i'w weled weithiau yn China. Yn nghymydogoeth Tong-choo-foo, gellir gwled fod yr ŷd weithiau yn cael ei ddyrnu â fiust gyffredin Ewrop, ac weithiau yn cael ei wasgu allan drwy fod anifeiliaid yn sathru ar yr ysgub, yn y dull y disgrifir hyn gan ysgrifenywyr Dwyreiniol." *Macartney's Embassy*, vol. 2, p. 278.

Arferir y dull hwn hefyd yn Bootan\*, ar ymylau Thibet. Dywed Cadben Turner, "Wedi i'r cynhauaf gael ei gasglu i mewn, gwelsom hwynt yn dyrnu yr ŷd; yr oedd wedi ei daenu ar hyd y llawr yn gylch, ac yr oedd ychain yn cael eu gyru drosto i'w sathru." *Embassy to Thibet*, p. 184. *Chandler's Travels in Asia Minor*, p. 40.

Deut. 28. 24. Yr *Arghwydd a rydd yn lle gwlaw dy ddacar, lwech a lludw*. Hanes o eiddo Sir T. Roe (*Embassy*, p. 373) a eglura lawer ar hyn. "Mae y gwynt weithiau yn yr India yn chwythu yn uchel iawn mewn tymhorau sychion a phoethion, gan godi i'r awyr i uchder mawr gymylau tewion o lwch a thywod. Mae y cawodydd sychion hyn yn blino yn rhyfedd bawb ag y syrthiant yn eu plith; maent yn ddigon i'w taraw oll â dallineb yn y fan. Hwy a lanwant eu llygaid, eu clustiau, eu ffroenau, a'u geneuau hefyd, os na wnant eu gwyllo yn ofalus; gan chwilio pob man, o fewn yn gystal ag allan, fel nad oes gymmaint a thwll clo mewn un math o gist, oni bydd gorchudd drosto, na bydd wedi derbyn rhyw gymmaint o'r llwch i mewn."

"Cawsom ein blino yn fawr gan dywod, gan ei fod mor ysgafn fel yr oedd yr awel leiaf yn ei godi, pan y gweithiai yn y fath fodd fel y treiddiai drwy y dillad hyd y croen, dros bob rhan o'r corph. Anhawdd oedd ei gadw allan o'n llygaid, yr hyn a ymdrechais ei wneuthur drwy osod gwê deg o sidan dan fy mhen-wisg, a'i gadael i grogi yn llaes dros fy wyneb;

\* *Bootan*, talaeth helaeth iawn yn ngogledd Hindwstan, yn Asia, yr hon y mae ei thir, gan mwyaf, yn ffrwythlon, a'i thrigolion yn lliosog. Mae y tai ynddi wedi eu hadeiladu ar byst, ac esgynir iddynt ar hyd ysgolion; cauir y rhanau isaf i mewn, oed arferir hwynt yn ystordai, ac yn lle i gadw anifeiliaid.

ond cefais fod y feddyginiaeth yn waeth na'r clefyd." *Parson's Travels*, p. 101.

Mae tywod yr anialwch mor ysgafn yn Mekran\*, fel, pan osodir hwynt ar y llaw, mai prin y maent i'w teimlo. Mae y tywod ag sydd yn ehedeg yn yr awyr yn blino llawer iawn ar deithwyr; mae y gwynt yn ei yru drostynt, nes y mae yn llanw eu llygaid, eu clustiau, a'u geneuau, ac y mae yn peri teimlad rhyfedd o anhyfryd. *Kinisir Geog. Memoir of the Persian Empire*, p. 222.

Barn. 6. 38. *Ac felly y bu; canys cyfododd yn fore dranoeth, ac a sypiodd y cnu yn nghyd, ac a wasgodd writh o'r cnu, lonaid phiol o ddwfr.* Dichon yr ymddengys ychydig yn rhyfedd i ni, y rhai a breswylwn yn yr hinsoddau gogleddol hyn, lle nad oes fawr o wlith, pa fodd y gallasai cnu Gideon, mewn un noson, dderbyn cymmaint o wlith, fel pan ddaeth efe i'w gwasgu, iddo gael ynddi lonaid phiol o ddwfr. Irwin, yn ei fordaith i fynu ar hyd y Môr Coch, pan ar draethau Arabia, a ddywed, "Er fod yn anhawdd i ni gadw ein hunain yn oer yn ystod y dydd, nid peth hawdd yw diffynu ein cyrff rhag lleithder y nos, pan y mae y gwynt yn llwythog o'r gwllith trymaf a syrthiodd erioed; yr ydym yn gorwedd yn agored i'r holl bwys o wlith, ac y mae y cochlau yn y rhai yr ymdrown, mor wlyb yn y bore a phe byddent wedi eu glychu yn y môr." P. 87.

Ruth 2. 4. *Ac wele Boaz a ddaeth o Bethlehem, ac a ddywelodd writh y medelwyr, Yr Arghoydd a fyddo gyda chwi; a hwythau a ddywedasant wrtho ef, Yr Arghoydd a'th fendithio.* Y fath, medd Esob *Patrick*, oedd duwioldeb yr hen amser-oedd, fel yr arferent weddio ar i Dduw lwyddo llafur y rhai a welent yn gweithio; a hwythau a arferent yr un gweddiau droe y rhai a ddangosent fel hyn eu hewyllys da iddynt. Arferid hyn hefyd yn mysg y paganiaid, yn enwedig yn amser cynhauaf, yr hwn ni ddechreuent drwy osod y crymman yn yr yd, nes y gweddiid ar Ceres †.

2 Sam. 24. 18. *Llawr-dyrnu.* Nid oedd y lloriau-dyrnu, yn mysg yr Iuddewon gynt, megys nad ydynt yn y dydd hwn yn y Dwyrain, and darnau gwastad o dir allan, lle y sethrid

\* *Mekran*, neu *Makran*, talaeth helaeth yn Asia.

† *Ceres*, merch Sadwrn ac Ops, yr hon oedd dduwies mewn brl mawr yn mysg y paganiaid. Ystyriant mai hi oedd wedi dyfoisio yd, a ffurdd i drin y ddaear; ac mai hi oedd yn peri llwydd ar eu llafur.

yr ŷd allan gan ychain. Fel hyn ymddengys fod llawr-dyrnu Gideon (Barn. 6. 37) allan; megys hefyd yr oedd eiddo Arafnah y Jebusiad; pe amgen ni buasai yn lle priodol i adeiladu allor ac offrymu aberth. Yn Hosea 13. 3, darllenwn am *fân-us a chwaler gan gorwynt* allan o'r llawr-dyrnu. Ymddengys mai yr amgylchiad hwn o fod y llawr-dyrnu yn agored i gyffroad y gwynt, yw y prif reswm o'i enw Hebreig; yr hyn a all gael ei egluro yn mhellach drwy y disgrifiad a rydd Hesiod (*Opera et Dies*. 1, 597) i'w lafurwr, i *ddyrrnu ei ŷd mewn lle digon agored i'r gwynt*. Oddiwirth yr hanes uchod ymddengys y gallasai *llawr-dyrnu* (yr hwn yn ein Beiblau ni a gyfieithir *llannerch*) yn hawdd fod *gerllaw* drws porth Samaria, ac y gallasai fod yn lle pur gyfleus i frenin Israel a brenin Judah wrando y proffwydi ynddo. Gwel 1 Bren. 22. 10; 2 Cron. 18. 9; Salm 1. 4. *Shaw's Travels*, p. 139, 2nd edit.

1 Bren. 4. 25. *Ac yr oedd Judah ac Israel yn preswyllo yn ddiogel, bob un dan ei winwydden a than ei ffygysbren*. Ceir fod planigfeydd o goed o amgylch tai yn fuddiol iawn mewn gwledydd poethion, i roddi iddynt ychydig o oerder hyfryd. Ymddengys fod yr Israeliaid gynt wedi defnyddio y moddion hyn, a thebygol iddynt blanu coed ffirwythau, yn hytrach na choed ereill, i gyrrhaedd yr amcan hwn.

"Eu harferiad mewn llawer o leoedd," medd capelydd Syr *Thomas Roe*, p. 399, wrth lefaru am wlad brenin Mogul, yw "planu o amgylch, ac yn mhlith eu hadeiladu, goed ag ydynt yn tyfu yn uchel a llydain, cysgod y rhai a gadwant eu tai yn llawer oerach nag y byddent hebddynt. Sylwais ar hyn mewn modd neillduol, pan oeddwn yn barod i fyned i mewn i Amadavar; canys ymddangosai i ni ein bod yn myned i mewn i goed yn hytrach nag i ddinas." Gwel hefyd *Morier's Journey through Persia*, p. 155.

"Yn ddioed wedi myned i mewn, cefais fy arwain i fuarth yr Aga\*, yr hwn a gefais yn mygu myglys dan winwydden, yn cael ei gylchynu gan geffylau, gweision, a chŵn, yn mysg pa rai y gwelais un o gŵn adar y wlad hon." *Turner's Tour in the Levant*, vol. 2, p. 152.

Yr hancs a rydd y *Baron du Tott* am bentrefi yr Aifft, a ddengys eu bod hwy yn cael eu cysgodi mewn modd lled gyffelyb.

\* *Aga*, swyddog milwraidd yn mysg y Tyrciaid.

*Part 4, p. 63.* “Pa le bynag y gall y llif gyrhaedd, yno y mae yr anneddau wedi cael eu hadeiladu ar fryniau bychain wedi eu codi i'r perwyl hwnw, y rhai a wasanaethant yn sylfaen i'r holl dai a safant yn nghyd, a'r rhai y dyfeisir iddynt gymmeryd cyn lleied o le ag sy ddichonadwy, fel y gallont gadw yr holl dir a allont i'w drin. Mae y gocheliad hwn yn angenrheidiol, fel na byddo i'r dwfr olchi ymaith y muriau, y rhai a wneir yn unig o bridd.

“Mae y pentrefi yn wastadol yn cael eu cylchynu gan rifedi mawrion o dyrau bychain, y rhai a fwriedir i wahodd y colommenod yno, mewn trefn i gael eu tom. Mae hefyd gerllaw pob pentref goedwig fechan o balmwydd, yr hon sydd yn feddiant cyffredin. Y coed hyn a gynnysgaeddant y trigolion â ffrwythau at eu gwasanaeth, a dail i wneuthur basgedi, rhestogau, a phethau ereill o'r fath. Mae ffyrdd cerig bychain, y rhai ydynt wedi eu codi ychydig uwchlaw y llif, ar hyd y rhai y gellir myned o un pentref i'r llall tra y parhau y llif.” Deut. 34. 3; 2 Chron. 28. 15; Eze. 15. 6.

2 Bren. 6. 25. *Tom colommenod.* “Telid llawer iawn o ofal gynt am fagu a dwyn i fynu golommenod, gan fod eu tom yn dwyn i mewn gyllid blynyddol o gynnrych un colommendy yn unig yn agos i ddau cant o *tomaums*. Hwy a ddefnyddiant y gwrtaith hwn i amrywiol o ddybenion, ac yn mysg rhai ereill, rhoddir ef ar y gwelyau melon yn Ispahan; a bernir mai o herwydd hyn y mae melon y parth hwnw yn rhagori ar rai pob parth arall. Yr oeddynt hefyd yn yr hen amseroedd yn tynu *saltpetre* o'r tom hwn, i'r dyben i wneuthur pylor gwn; yr hwn, ddau ganrif a aethant heibio, nad oedd ond prin wedi ei ddwyn i mewn i blith darpariadau rhyfel yn Persia.” *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 451.*

“Tom colommenod yw y gwrtaith drutaf a arfera y Persiaid; a chan eu bod yn ei ddefnyddio agos oll ar y gwelyau *melons*, tebygol yw mai ar y cyfrif hwnw y mae *melons* Ispahan gymmaint yn well na rhai y dinasoedd ereill. Mae y cyllid oddiwrth golommendy yn nghylch can *tomaum* yn flynyddol; a gwerth mawr y dom hwn, yr hwn sydd mor fuddiol at godi ffrwyth ag sydd yn anheggorol at hanfodaeth y brodorion yn amser poethder mawr yr haf, a rydd, tebygol, ryw oleuni ar y rhan hono o'r Ysgrythyr, lle y dywedir yn hanes newyn Samaria, fod pedwar-edd ran cab o dom colommenod yn cael ei werthu am bum siel



o arian, 2 Bren. 6. 25." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 141.

1 Cron. 27. 25. *Ac ar drysorau y brenin yr oedd Asmafeth, mab Adiel; ac ar y trysorau yn y meusydd.* Yr oedd ydleoedd tan-ddaeareol yn bethau cyffredin yn y Dwyrain. Mae yr un canlynol yn hanes manwl am y rhai a ddefnyddir yn awr gan yr Ethiopiaid.—Ar ol y cynhauaf arferai yr Ethiopiaid osod eu hŷd mewn ydleoedd tan-ddaeareol, y rhai ydynt byllau wedi eu cloddio yn y ddaear, lle y cedwir yr yd dros gryn lawer o amser. Mae yr arferiaid yn hen iawn, a dylai fod yn gyffredinol yn mhob gwlad boeth, yn cael ei phreswyllo gan bobl grwydrawl. I gadw yr yd rhag lleithder, hwy a wisgant y pyllau hyn â gwellt; pan fyddo yr ydle wedi ei lanw, hwy a'i cuddiant â cherig, ar y rhai y rhoddant bridd nes y bydd yno grŷg bon-braff blaenfain, dros yr hwn y rhed y dwfr os dygwydda i wlaw syrthio. Yn mysg y bobl gyfoethocaf, y tadau yn gyffredin a lanwant un ydle ar enedigaeth pob plenty, ac a'i gwagbant pan briodo. Mi a welais yd wedi cael ei gadw yn y dull hwn dros bump ar hugain o flynyddau. Yr oedd wedi colli ei wŷni. Pan, er mwyn cyfleusdra, neu wrth orchymyn yr ymerawdwr, y mae yr Ethiopiaid yn gorfod newid eu hanneddleoedd, ac heb allu dwyn eu hŷd gyda hwynt, hwy a godant ar yr ydleoedd hyn ychydig o gerig yn arwydd i ddangos pa le y byddont; er hyn mynych y cânt gryn drafferth i'w cael allan. Yn awr arferant ddal sylw ar y ddaear ar godiad yr haul, pan godo tARTH tew o honynt. Fel hyn hwy a ganfyddant pa le y byddo yr ydle, ar yr hwn y mae yr haul wedi cael effaith gref, fel y mae rhyw gymmaint o wres yn codi oddiwrth yr yd ag sydd yn cael ei gau i fynu." *Chenier's Researches, &c.*, vol. 3, p. 219.

Salm 1. 4. *Mân us yr hwn a chwal y gwynt ymaith.* Rhaid i ni gofio yma fod y lloriau dyrnu allan dan yr awyr, ar y rhai y mae yr yd, nid yn cael ei ddyrnu fel gyda ni, ond yn cael ei sathru allan, weithian â math o gâr (*sledge*), mewn ffordd ag y mae y gwellt ar yr un pryd yn cael ei dori yn fân iawn. "Pan fyddo y gwellt wedi ei dori yn ddigon mân, hwy a roddant ychwaneg o yd ar y llawr, ac yn y diwedd ysgarant yr yd oddiwrth y gwellt drwy ei dafu i fynu i'r awyr â rhaw brân, fel y byddo i'r gwynt yru y gwellt ychydig yn mbellach, fel na syrth yn y fan ond yr yd pur." *Thevenot's Travels, part. 2, p. 1, c. 5, p. 81.*

Salm 126. 5, 6. *Yr hwn sydd yn myned rhagddo, ac yn wyllo, gan ddwyn hâd gwerthfawr.* Ysgrifenydd hanes dadfeiliau Balbec\*, wrth lefaru am y dyffryn yn yr hwn y saif hi, a sylwa nad oes ynddo nemawr o goed; ac a chwanea, "Er fod cysgod yn beth mor werthfawr yn y Dwyrain, eto ni welir ond ychydig o blangfeydd coed yn Twrci. Mae y preswylwyr yn cael eu digaloni oddiwrth lafur, yr hwn y mae y mwynhad a'r lles o hono mor bell ac ansicr, mewn gwlad yn yr hon y mae hyd yn nod ffrwythau blynyddol eu diwydrwydd mor amheus. Yn Palestine gwelsom yn fynych y llafurwr yn hau, a chyfaill arfog yn cyd-gerdded âg ef, i'w gadw rhag cael ei *yspeilio o'r had.*" Yr oedd yr Israeliaid y rhai a ddychwelasant o Babilon ar y cyhoeddiad o ryddhâd gan Cyrus, mewn amgylchiadau cyffelyb i amaethwyr yn hau eu hŷd yn nghanol gelynyion ac yspeilwyr. Yr oedd eu gwaith yn ail-adeiladu eu trefi a'u teml yn debyg i hau; ond yr oedd ganddynt reswm i ofni y buasai i'r cenhedloedd cymydogol ddymchwelyd eu hymdrechiadau, Neh. 4. 7. Mewn cyferbyniad i'r ofn hwn, y Salmydd a esyd allan obaith, ac efallai, a *broffwyda*, y buasai canlyniad da i'r dechreuadau hyn i ail-boblogi y wlad.

Wrth lefaru am ryw Arabiaid a gyfarfu efe gerllaw mynyddoedd Gilead, efe a ddywed, "Llafurwyr oedd y gwŷr hyn, ac yr oeddynt wedi bod yn trin eu tir, ac yn awr yn dychwelyd oddiwrth eu llafur. Gan eu bod yn byw yn hollol annibynol ar y llywodraethwyr, nid oes terfynau yn nodi un rhan o'r tir fel eu meddiant personol. Mae y fath helaethrwydd o dir da o'u hamgylch, fel mai yr unig arwydd o hawl i ryw ddarn neillduol o dir, yw ei fod wedi ei aredig a'i hau, yr hyn a rydd hawl i'r person a wna hyny i ffrwythau y darn hwnw y cynhauaf nesaf. Gyda'u holl orchwyllion gofalant am fod yn arfog, mewn rhan o herwydd fod eu gwlad yn cael ei hanrheithio weithiau gan Arabiaid o'r anialwch o'r tu dwyreiniol, y rhai a ddeuant allan ar geffylau, yn erbyn pa rai y maent yn gorfod ymarfogi a diffynu eu hunain; ac mewn rhan o herwydd mai arferiad eu gwlad yw bod yn arfog, nes yw bod heb arfau o ryw fath neu gilydd yn wastadol yn cael ei

\* *Balbec*, tref yn sefyll wrth odrau mynydd Libanus. Yn ei thu dehau y mae dadfeiliau teml ardderchog a gyswgrasid i'r haul. Cafodd y dref ei dystrywio agos oll gan ddaeargryn yn 1759, ac nid yw yn awr ond lle gwael.

gyfrif yn arwydd o dlodi neu lwfrdra mawr." *Buckingham's Travels in Palestine*, p. 329.

"Yr arwydd mwyaf galarus yn y wlad hon o ffyrnigrwydd y bobl, a gwendid y llywodraeth, yw fod hyd yn nod pobl y wlad, pan yn gweithio, y rhan amlaf yn arfog." *Turner's Tour in the Levant*, vol. 1, p. 263.

"Mi a welais yma un o'r gweithredoedd creulon hyny o eiddo awdurdod camddefnyddiedig, y rhai ydynt mor gyffredin yn y Dwyrain. Wrth rodio dros faes helaeth ac yn nghylch deg ar hugain o weinyddwyr a chaethion, Hassan a ddywedodd wrth y perchenog iddo wneuthur ar fai wrth hau haidd yn y maes, gan y buasai *melons* yn tyfu yn llawer gwell ynddo. Yna efe a dynodd ychydig o hadau *melons* o'i logell, a chan eu rhoddi i'r dyn, dywedodd, 'Gwell fyddai i chwi dori yr haidd, a hau y rhai hyn.' Gan fod yr haidd agos yn addfed, y dyn o ganlyniad a ymesgusododd rhag cydsynio â chais y llywodraethwr. 'Yna mi a'u hauaf drosoch chwi,' ebe yr olaf, ac a orchymynodd i'w bobl yn ddiwed dori yr haidd, a thrin y maes i dderbyn hâd *melons*. Yna llwythwyd bâd â'r haidd, a dygwyd teulu fel hyn i drueni, mewn trefn i'r llywodraethwr gael porthi ei geffylau a'i gamelod dros dri diwrnod ar yr haidd." *Burckhardt's Travels in Nubia*, p. 95.

"Mi a welais aredig dau ddernyn bychain o dir yn mysg y dadfeiliau, i'r dyben o hau yd ynddynt, a'r aradrwyr yn dilyn eu gwaith a'u cleddyfau with eu hochrau. Eu dyben yn dewis y darnau bychain hyn, y rhai oeddynt gauedig o flaen darnau helaethach y tu allan i'r dref, oedd, fel y dywedasant wrthyf, o herwydd eu bod yn fwy diogel; oblegid, o fewn i ychydig bell-der oddiwrth anneddau y llafurwyr, nad allai neb fod yn sicr o fedi yr hyn a hauodd efe ei hun." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 226.

Diar. 11. 26. *Y neb a attalio ei yd, y bobl a'i melliithia; ond bendith fydd ar ben y neb a'i gwertho.* "Credid fod Mirza Ahady, mewn cydweithrediad â mam y tywysog, wedi cymmeryd gafael yn holl yd y wlad; ac, mor fuan ag y cyrhaeddodd efe Shiraz, efe a gyfododd ei bris, yr hyn, o ganlyniad, a achosodd gyfodiad yn mhriis bara; y bobl a aethant yn ffyrnig yn eu trueni. Yn ol y dull cyffredin yn y Dwyrain yn mhob adfyd cyhoedd, dechreusant drwy gau eu masnachdai yn y farchnadfa. Yna hwy a aethant at dŷ y penaeth, gan ofyn iddo am rodidi awd-

urdod allan trwy yr hwn y gallent ladd Mirza Ahady, ac un neu ddau yn chwaneq, y rhai y gwyddent eu bod yn gynnorthwywyr iddo yn y gorchwyl o'u gormesu. Wedi hyn hwy a ymddangosasant oll gyda'u gilydd o flaen porth palas y tywysog, lle yr amlygasant eu gorthrymder mewn modd terfysglyd, a gofynasant mewn modd awdurdodol am i Mirza Ahady gael ei draddodi i fynu iddynt hwy. Anfonwyd gwr cyfrifol allan atynt gan y tywysog i'w tawelu, a phrif-bobydd y ddinas, yr hwn oedd un o'r dynion yr oedd eu bywyd wedi eu bygwth, gydag ef. Mor fuan ag yr ymddangosodd yr olaf, y bobl a'i sarhasant ac a'i hanmharchasant yn y modd mwyaf cyffrous; ond efe a lwyddodd i'w llongyddu, trwy ofyn, Pa drosedd a wnâethum i? Mirza Ahady yw y dyn i'w sarhau; os yw efe yn gwerthu yr ŷd am bris gormodel, rhaid i'r bara o ganlyniad godi. Yn y cyfamser Mirza Ahady a ymguddiodd rhag ffyrnigrwydd y lliaws; ond, yn cael ei gefnogi gan fam y tywysog, ac yn ganlynol gan y tywysog ei hun, efe a adawodd i'r dymhestl gynddeiriogi, ac a aeth rhagddo i ffurfio cyalluniau newyddion i godi chwaneq o arian; gostyngwyd pris y bara dros ychydig o ddiwrnodau, hyd nes y peidiai y terfysg: a chan fod yn ofynol i'r bobl gael rhyw iawn, cafodd holl bobyddion y dref eu casglu yn nghyd, ac mewn lle cyhoedd curwyd hwy ar wadau eu traed." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 103.

"Cawn hanes am dnyged un dyn yn nhŷ yr hwn y cafwyd llawer iawn o ŷd. Rhoddwyd pawl yn nghanol ei ŷdle, wrth yr hwn y rhwymwyd ef, a gadawyd ef i drengu o newyn yn nghanol y cyflawnder hwnw yr hwn y gwrthodasai efe ei ranu rhwng ei gyd-ddinasyddion." *Malcolm's History of Persia*, vol. 2, p. 13.

Caniad Solomon 4. 13—15. *Dy blanhigion sydd berllan o bomgranadau, a ffroyth peraidd, camphir, a nardus; ie, nardus a saffron, calamus a synamon, a phob pren thus; myrrh ac aloes, a phob rhagrol ber-lysiau: ffynnon y gerddi.* Yr oedd dwfr o bwys neillduol i ardd, yn enwedig os cedwid hi at godi planigion peraroglus. Ymddengys hyn yn eglur oddiwrth yr hanes canlynol allan o ysgrifeniadau *Swinbourne (Travels in Spain, p. 252)*:—"Cafodd cymdeithas o lancesau a gwŷr ieuaine bywiog eu dwyn dan rwymedigaeth neillduol i ni yma, am i ni drwy roddi gwobrwy i'r ceidwad, osod mewn trefn eu hofferynau i daenellu dwfr ar y gerddi. Ni all dim fod yn fwy hyfryd na'r taenelliadau hyn ar

ddiwrnod poeth. Ymddangosai fod yr holl flodau yn cael bywiogrwydd newydd; yr afalau euraidd, y citron, a'r afalau melysion hirion, a roddent arogl hyfryd iawn, fel dan gawod o wlaw yn mis Ebrill; a'r cwmpeini oeddynt ddeng waith mor llawen ag oeddynt o'r blaen. Ni a rodiasom dros yn agos i ddwy awr yn mysig y llwyni, nes yr oedd yr arogl hyfryd wedi ein rhoddi mewn pâr-lewyg. Y lle mwyaf dymunol ydyw yn yr hâf i anneddu ynddo; ac mi a dybiwn y gallai poethder yr haf gael ei dymheru nes y byddai yn ddigon hawdd ei oddef, drwy daenellu digon o ddwfr, o'r hwn y mae cyflawnder yn Seville\*.

Esay 1. 30. *Gardd heb ddwfr ynddi.* Yn mharthau poethaf gwledydd Dwyreiniol, mae diwallrwydd gwstadol o ddwfr yn anheborol angenrheidiol at gadw bywyd mewn planigion a llysiau gardd, fel, os bydd hi yn ddiffygiol o hono dros ychydig ddyddiau, pob peth ynddi a lysg gan y poethder, ac a ddystrywir yn hollol. Gan hyny, nid oes un ardd, pa un bynag, yn yg wledydd hyny heb fod iddi y diwallrwydd hwnw, naill ai o ryw afon gymmydogol, neu o ryw gadwfa dwfr yn cael ei llanw o ffynnonau, neu â dwfr gwlaw yn y tymhor priodol.

Moses, wedi iddo ddesgrifio annedd dyn pau newydd gael ei greu, fel gardd wedi ei phlanu o bob pren dymunol yr olwg arno, a da yn fwyd, a chwanega, fel amgylchiad angenrheidiol i gwblhau y drychfeddwl am ardd, ei bod yn cael ei diwallu yn dda â dwfr. Gen. 2. 10; 13. 10. *Ac aeth afon allan o Eden, i ddyfrhau yr ardd.*

Fel y gallo y darlennydd gael golwg eglur ar y matter hwn, mae yn angenrheidiol rhoddi rhyw hanes am y dull o drin y gerddi gyda golwg ar eu dyfrhau. "Mae Damascus," medd Maundrell, "yn cael ei chylchynu â gerddi, i bellder, yn ol y cyfrif cyffredin, ddim llai na deg milltir ar hugain, o amgylch, yr hyn a bair iddi ymddangos fel dinas mewn coed dirfawr. Mae coed ffrwythau o bob math wedi cael eu planu yn dewion yn y gerddi, yn cael eu cadw yn wyrddlas a bywiog â dwfr yr afon Barrady, o'r hwn y mae yno gyflawnder mawr i ddiwallu angen y gerddi a'r ddinas. Mae yr afon cyn dyfod i'r ddinas yn rhanu yn dair ffrwd; o ba rai y mae y fwyaf, yr hon yw yr un ganol, yn rhedeg i Damascus, a derbynir llawer o honi i wahanol

\* *Seville*, dinas enwog yn yr Hispaaen.

gadwfeydd dwfr y ddinas. Y ddwy arall (y rhai y cymmeraf fi mai gwaith celfyddyd ydynt), a dynir o amgylch, un i'r tu dehau, a'r llall i'r tu aswy, gydag ymylau y gerddi, i ba rai y gollyngir hwynt, yn ffrydiau bychain wrth fyned heibio, a gwasgerir hwynt yn y fath fodd rhwng yr holl goedydd lliosog, fel nad oes un o'r gerddi heb ffrwd o ddwfr yn rhedeg trwyddi. Mae yr afon Barrady yn cael ei llyncu i fynw bron i gyd gan y ddinas a'r gerddi; a'r ychydig o honi ag sydd yn rhedeg heibio a una, fel yr hysbyswyd i mi, yn un ffrwd drachefn ar y tu dehau-ddwyrain i'r ddinas, ac ar ol rhedeg ychydig mae yn soddi i'r ddaear cyn cyrhaedd y môr." *Journey*, p. 122. Fel hyn yr oedd pethau yn yr amseroedd gynt, fel y dywed *Strabo* (*lib.* 16), a *Pliny* (5. 18), y rhai a ddywedant, "fod yr afon hon yn cael ei threulio mewn camlasau (*canals*), a'i yfed gan y lle wrth gael ei ddyfrhau."

"Yr olwg hyfrytaf," meed *Maundrell* (*Journey*, p. 39) "ag a geir o'r palas (eiddo penaeth Beroot, gynt Berytus), a'r un a haeddai fwyaf gael ei chofio, yw gardd yr afalau euraidd. Mae yn cynnwys darn pedair-onglog o dir wedi ei ranu i un-ar-bymtheg o betryalau (*squares*) llai, pedwar mewn rhes a rhodfeydd rhyngddynt. Mae y rhodfeydd yn cael eu cysgodi gan breniau lled fawrion yn dwyn afalau euraidd: yr oedd pob un o'r petryalau bychain hyn yn yr ardd ag ymylau cerig iddynt, ac yn y gwaith cerig yr oedd cafnau, wedi eu dyfeisio yn gywrain iawn, at ddwyn dwfr dros yr holl ardd; yr oedd agoriad bychan wedi cael ei dori wrth bob pren, i'r ffrwd wrth fyned heibio ei ddwfrhau." Arferir yn gyffredin, pan wneir planhigfa o goed ffrwythau, i gloddio ffynnon ar y naill du iddi. Mae y ffynnon a'r blanhigfa yn cael eu priodi: wrth gyflawni y seremoni hon, mae preswylwyr yr holl bentref yn ymgasglu, a swm mawr o arian yn fynych yn cael ei dreulio. Mae y ffynnon yn cael ei hystyried fel y gwr, o herwydd y tybir fod ei dyfroedd, cyflawnder o ba rai a roddir i'r planhigion ieuainc, yn ystod y tymhor poeth cyntaf, yn eu meithrin ac yn peri iddynt ffrwytho." *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 56. 252. Mae y gerddi brenhinol yn Ispahan yn cael eu dyfrhau yn yr un modd, yn ol desgrifiad *Kempfer*. Gwel *Salm.* 1. 3. *Jer.* 17. 8. *Diar.* 21. 1. *Preg.* 2. 5, 6.

Esay 18. 2. *Cenhedlaeth yr hon yr yspeiliodd yr afon ei thir.* Mae niwed mawr yn fynych yn cael ei wneuthur i diroedd yn

ymyl afonydd mawrion a chwyrn. Mae amrywiol o ddygwyddiadau o'r fath hyn yn cael eu coffau gan deithwyr, y rhai a ddangosant yn eglur feddwl y prophwyd yn y geiriau hyn. *Somai* a goffâ am un o'r amgylchiadau hyn, o'r hwn yr oedd efe yn llygad-dyst, wrth fyned i waered gyda'r Nilus. Efe a ddywed, "Yr oedd y morwyr ac ereill yn cysgu ar y lan; yr oeddwn i wedi bod dros hanner y nos yn gwylio, ac mi a ymollyngais i gysgu, wedi i mi roddi i fynu y wylidwriaeth i ddau o'm cymdeithion, ond hwythau hefyd a soddasant mewn cwsg. Pan yr oeddem oll yn cysgu, y ffrwd a'n dygodd ymaith gyda ffyrnigrwydd mawr, heb fod neb o honom, te, neb o'r badwyr ag oeddynt ar y lan, yn gweled y modd yr oeddem yn myned i waered gan hwylio wrth drugaredd y ffrwd. Wedi myned fel hyn dros gymmaint â thair milltir, y bâd, yn cael ei yru yn chwimmwrth gan y dwfr, a darawodd mewn modd arswydus wrth y lan, yohydig islaw y fan lle yr oedd y darn mwyaf o dir wedi cwmpo. Yn cael ein deffroi gan yr ysgydwad ffyrnig hwn, canfuasom yn fuan ein sefyllfa beryglus. Ein bâd, yn cael ei daro yn ol gan y tîr, a'i yru ato drachefn gan nerth y dwfr, a drôdd o amgylch yn mhob dull, ac yna efe a darawodd yn erbyn y lan mewn modd mor arswydus fel yr ofnasom y dryllid ef yn chwilfriw. Tywyllwch y nos, y swn dychrynlyd, a barai y darnau mawrion o ddaear yr hwn a glywid yn mhell pan syrthient i'r dwfr; y dwfr trwy hyny a ferwai, ac a afonyddai y bâd, fel y gwnaethpwyd ni yn brudd iawn pan ddeffroasom. Nid oedd dim amser i'w golli: gwnaethum i'm cymdeithion gymmeryd y rhwyfau, y rhai, yn y tywyllwch, ni allem gael mor fuan ag yr ewyllysiem; minau a neidiais at y llyw, a chan galonogi fy morwyr newyddion a dibrofiad, ni a lwyddasom i ddiano rhag taro eilwaith wrth y lan, ac oni buasai i ni allu myned oddiwrth y lan, darfuasai am danom yn anocheladwy; oblegid, wedi i ni ar ol amrywiol o ymdrechion, gael canol yr afon, syrthiodd darn o bridd caled, o faintioli dirfawr, yn y fan ag oeddym newydd adael, yr hwn, pe buasem ni yohydig o funudau yn ddiweddarach cyn symud, a fuasai yn sicr o'n dwyn i'r gwaelod. *Travels in Egypt, vol. 3, p. 148.*

Esay 41. 15. *Dyrnu.* Mae y dull o ddyrnu yr yd yn y Dwyrain, yn gwahaniaethu llawer oddiwrth y dull sydd yn cael ei arfer at hyny mewn gwledydd gorllewinol. Y mae yn cael ei ddesgrifio yn fanwl gan deithwyr, o ysgrifeniadau pa rai y mae

hanesion wedi cael eu rhoddi yma a'u crynhoi at eu gilydd, fel y gall y darllenydd gael drychfeddwl lled eglur ar y matter. Yn Esay 28. 27, 28, coffeir pedair ffordd o ddyrnu, yn y rhai y mae yn cael ei wneuthur gan bedwar math o offerynau, y ffust, yr ôg, y fên, a sathriad anifeiliaid. Yr oedd y ffon neu y ffust yn cael ei defnyddio, medd *Hieron*, at yr ŷd ag oedd yn rhy dyner i gael ei ddyrnu yn y ffyrdd ereill. Yr oedd yr ôg yn cael ei gwneuthur o goed wedi eu gosod yn nghyd mewn modd ag y gallasid eu tynu dros yr ysgubau ŷd wedi eu taenu ar hyd y llawr; arferid ychain neu geffylau i'r perwyl hwnw, ac eisteddai y gyrwr ar yr offeryn. Yr oedd y fên yn lled debyg i'r offeryn blaenorol, ond yr oedd iddi olwynion ag iddynt ddannedd haiarn, neu ymylau fel llif: symudai ar dri rhol-bren (*roller*), wedi eu gwisgo â dannedd haiarn, i dori y gwellt. Yn Syria hwy a ddefnyddiant yr ôg wedi ei gwneuthur yn y modd y ddaagrifiwyd uchod. Yr oedd hon nid yn unig yn gwasgu yr ŷd allan, ond yn tori y gwellt yn fân at fod yn ymborth i anifeiliaid; canys yn ngwledydd y Dwyrain nid oes ganddynt wair. Mae y ffordd olaf yn ddigon adnabyddus oddiwrth gyfraith Moses, yr hon oedd yn gwahardd cau safn yr ŷch pan yn dyrnu, Deut. 25. 4. *Bishop Lowth's Note on Isaiah 28. 27.*

“Wrth ddyrnu eu hŷd, yr Arabiaid a osodant yr ysgubau ar y llawr, ac yna arweiniant drostynt ddau ŷch yn llusgo maen mawr. Nid yw y dull hwn yn annhebyg iawn i'r dull yr arferant ddyrnu yn yr Aipht.” *Niebuhr's Travels, p. 299.*

“Hwy a arferant ychain, fel y gwnelai yr hynafiaid, i ddyrnu yr ŷd, trwy sathru ar yr ysgubau, a llusgo ar eu hol beiriant trwsagl. Nid yw y peiriant hwn, fel yn Arabia, yn faen trolaidd (*cylindrical*), nac yn fwrdd a cherig llymion ynddo, fel yn Syria; ond math o gâr, yn cynnwys tri rhol-bren, a dannedd haiarn ynddo, y rhai a droant ar echeloedd. Mae tyddynwr yn dewis allan ddarn o dir gwastad yn un o'i feusydd, ac efe a ddwg ei ŷd yno yn ysgubau, ar asynod neu ar ddromedariaid. Yna mae dau ŷch yn cael eu gosod dan iau, a'u rhoddi wrth gâr, y gyrwr a gymmer ei le arno, ac a ŷr yr anifeiliaid yn ol ac yn mlaen (mewn cylch yn hytrach) ar hyd yr ysgubau, a rhoddir rhai ereill dan yr iau o bryd i bryd pan fiino y rhai cyntaf. Trwy hyn dryllir llawer iawn ar y gwellt; yna nithir y cwbl, ac fel hyn gwanhau'r yr ŷd pur oddiwrth yr ŷs a'r gwellt. Mae y dull hwn o ddyrnu yr ŷd yn afrwydd ac annghyflus; mae yn dys-



trywio yr us, ac yn niweidio yr ŷd." *Niebuhr's Travels*, vol. 1, p. 89.

Mewn lle arall dywed *Niebuhr* wrthym fod "dwy haen o ŷd yn cael eu dyrnu yn y dydd; a hwy a symudant bob un o honynt wyth o weithiau, â fforch bren, yr hon a alwant hwy *meddre*. Wedi hynny hwy a daflant y gwellt i ganol y cylch, lle y ffurfia grug, yr hwn a gynydda fwy-fwy. Ar ol dyrnu yr haen, hwy a osadant y gwellt yn ol yn y cylch, ac a'i dyrnant fel o'r blaen. Fel hyn daw y gwellt yn fanach fanach bob tro, nes o'r diwedd y byddo yn debyg i wellt wedi ei dori. Wedi hyn, â'r fforch ag sydd newydd gael ei choffau, hwy a daflant y cwbl ryw ychydig o latheni o'r fan hòno, ac yn erbyn y gwynt, yr hwn a ŷr y gwellt yn ol, a'r grawn glân, a'r tywysenau ag na ddyrnwyd a syrthiant oddiwrtho ac a wnant grug arall. Mae dyn yn casglu y talpau pridd a thom, wrth ba rai y byddo gronynau o ŷd wedi glynu, ac yn eu tafu i ogor. Yna hwy a osodant y crug hwn yn yr hwn y cafwyd llawer a dywysenau cyfain, yn gylch, ac a yrant drostynt dros bedair neu bump awr ddeuddeg iau o ychain, nes trwy sathru y byddont wedi gwasgaru y grawn, y rhai a daflant â rhaw i'r awyr i'w glanhau."

"Yr Ethiopiaid a'r Arabiaid a barhânt i sathru allan eu hŷd yn ol hen ddull y Dwyrain. Yn lle ychain, hwy yn fynych a ddefnyddiant fulod a cheffylau. Hwy a'u cylymant yn yr un modd gerfydd eu gyddfau, dri neu bedwar o honynt yn nghyd, ac a'u gyrrant wedi hyny o amgylch y lloriau dyrnu, lle y mae yr ysgubau yn gorwedd wedi eu hagog a'u taenu, yn yr un modd ag y gwneir yn fynych yn ein gwlad ni wrth ddyrmu. Mae hon, yn wir, yn ffordd gyflymach o lawer na'r eiddom ni, ond nid yw mor lân; o herwydd, gan y gwneir hyn allan (Hos. 13. 3), ar unrhyw ddarn o dir gwastad, y mae llawer o bridd a thom yn cael ei gymmeryd i fynu gyda'r ŷd, er pob ymdrech i ochelyd hyny; ar yr un pryd y mae y gwellt, yr hwn yw eu hunig ymborth i anifeiliaid, yn cael ei *ddryllio* drwy hyn, amgylchiad y cyfeirir ato gyda phriodoldeb, 2 Bren. 13. 7, lle y dywedir i frenin Syria wneuthur Israel fel llwch wrth ddyrmu." *Shaw's Travels*, pp. 138, 139, 2nd edit.

Yn Sadakloo, "yr oedd y bobl ar waith yn gwahanu yr haidd oddiwrth ei wellt; a hwy a wnant hyn drwy fath o gâr coed, wrth yr hwn yr oeddynt wedi ieuo dau ŷch. Yr oedd ei du isaf

wedi ei arfogi â cherig llymion, y rhai a oedasid yn rheai gerllaw i'w gilydd. Yr oedd dyn yn sefyll ar ei du uchaf yn gyru yr ychain fel yr oeddynt yn tynu y peiriant yma ac acw dros yr ŷd. Yr oedd menyw yn gwasanaethu, a chanddi raw bren fawr, â'r hon y taflai hi yr ysgubau dan y càr fel yr elai o amgylch." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 1, p. 158.*

"Mae y gorchwyl o ddyrnu yn cael ei gyflawni â pheiriant a wnaethpwyd o goed, yn yr hwn y mae dau rol-bren wedi eu gosod ochr yn ochr, y rhai ydynt yn troi. Mae math o ddannedd mawrion wedi eu gosod yn dewion ynddynt, ond ddim 'oll o'r un hyd. Mae y rhol-breniau hyn yn gyffelyb i'r rhol-bren ag sydd mewn *organ*; ac y mae eu dannedd, pan syrthio yr ŷd rhyngddynt, yn dryllio y gwellt, ac yn rhyddhau y tywys oddi wrthynt. Rhoddir y peiriant hwn i weithio drwy osod dwy fuwch neu ddau ŷch wrtho, y rhai a yrir gan ddyrnu yn eistedd ar y bwrdd ag sydd uwch ben y rhol-breni. Efe a yr y peiriant hwn o amgylch ar hyd yr ysgubau, gan gadw ychydig oddiwrth ymyl y crug, yn agos i'r hwn y saif dyn yn dal ffôrch yn ei ddwyllaw, â'r hon y teifl efe yr ŷd i gyfarfod â'r rhol-breni. Mae ganddo raw hefyd yn ei ymyl, â'r hon y symud efe i'r naill du yr ŷd ag sydd wedi myned eisioes dan yr olwyn. Mae yno hefyd ddyrnu ereill, a chanddynt offer cyffelyb, â'r rhai y taflant y defnyddiau drylliedig i'r awyr. Fel hyn y gwynt a ddyrnu yr us ymaith, a'r grawn a syrth i'r llawr. A chodir yr ŷd fel hyn i'r gwynt nes y byddo wedi ei nithio yn lân, pan y cesglir ef, y dygir ef adref, ac y rhoddir ef i gadw at wasanaeth mewn ystenu pridd mawrion. Mae y gwellt hefyd yn cael ei gadw gyda gofal, fel yr unig ymborth sydd i'r ceffylau a'r mulod dros y gauaf. Ond tra yr edrychwn ar ddull y patriarchiaid o drin eu tir, ac ar yr anifail cryf, ond addfwyn, yr hwn oedd, dros gynifer o oesau, wedi bod yn llaw ddehau dyn yn ei lafurwaith. nid allwn lai na pharchu y ddeddf dyner hõno a ddywedai, '*Na chau safn yr ŷch sydd yn dyrnu yr ŷd.*'" *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 2, p. 80.*

Esay 47. 14. *Wele, hwy a fyddant fel sofr; y tân a'u llysg hwynt.* Peth arferol iawn yn y Dwyrain, yw llosgi y sofr a'r glaswellt, mewn trefn i ddystrywio y pryfed. Fel hyn *Hanway* (*History of English Trade, vol. 1, p. 68*), wrth lesaru am breswylwyr anialwch Tartary, a ddywed iddynt "ddyfod i'r anial-

woh yn y mis cyntaf o'r gauaf, a bod y preswylwyr ag ydynt yn nesaf ato, yn fynych yn gwrteithio darnau o dir drwy losgi y glaswellt, y rhai a dyfant yn uchaf iawn." Geiriau ein Hiachawdwr hefyd a gyfeiriant at hyn, pan ddywed efe, "*Am hyny os dillada Duw felly lysieuyn y maes, yr hwn sydd heddyo, ac y foru a fwrir i'r ffwrn,*" Mat. 6. 30.

Essay 49. 9—11. *Yn yr holl uchel-fanau y bydd eu porfa hwynt; efe a'u harwain wrth ffynnonau dyfroedd.* "Y mae tir teg ag y byddo porfa dda arno, a chyflawnder o ddwfr yn rhedeg trwyddo, yn cael ei ystyried yn werthfawr iawn gan yr *Eelauts*, a hwy a ddygant eu praidd i'r rhanau uchaf o'r mynyddoedd lle y gellir cael cyflawnder o'r bendithion hyn. Rhydd hyn, efallai, nerth newydd i'r addewidion a roddir gan Essay i'r Cenhedloedd, Essay 49. 9—11." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 120.

Hosea 2. 6. *Mi a gauaf i fynu dy ffordd di â drain.* Fod gwrychoedd yn cael eu codi i fod yn ddiffyniad, a bod yn anhawdd, os nid yn annichonadwy, tori trwyddynt, a gynnwysir yn eglur yn yr ymadrodd hwn, yr hwn a gymmerwyd oddi-wrth arferiad pobl y Dwyrain. Fel hyn hysbysa *Du Tett* (vol. 2, p. 312), "fod ffigysbren yr India, o'r hon y gwneir y gwrychoedd, yn gwasanaethu fel cae nad ellir myned drosto, i ddiogelu y meusydd." Felly hefyd y dywed teithiwr diweddar: "Fel yr oeddem yn marchogaeth trwy Rihhah, canfuasom ei bod yn sefydliad yn nghylch hanner cant o dai, oll yn wael iawn mewn ymddangosiad, a phob un yn cael ei ddiogelu â chae drain o'i flaen, ac yr oedd cae cyffelyb yn amgylchu yr holl dref. Dyma un o'r moddion mwyaf effeithiol a allasant gael i'w cadw rhag rhuthriadau yr Arabiaid ag ydynt yn marchogaeth ar gefylau, yr unig elynion ag sydd ganddynt i'w hofni; canys ni ddaw y ceffyl gerllaw iddynt rhag iddo ymfaglu yn y drain hyn, ac ni allai y marchogwr, pe disgynai, fyned drostynt, na'u symud i wneuthur ffordd rhyngddynt, heb gymmorth oddiwrth ryw un o fewn." *Buckingham's Travels in Palestine*, p. 301.

Mat. 13. 4. *Ac fel yr oedd efe yn hau, peth a syrthiodd ar fa y ffordd, a'r adar a ddaethant ac a'i difasant.* Nid oes un dyryswech yn yr amgylchiad hwn yn ein golwg ni arno, ond efe a darawai feddwl un o bobl y Dwyrain yn fwy grymus â'r eiddom ni. Canys dywed *Thevenot* wrthym, "ar y ffordd hono mi a welais beth pur hyfryd, yr hwn sydd gyffredin yn yr holl wlad hono,—gwelais amrywiol o bobl y wlad yn rhedeg

o amgylch y meusydd ŷd, yn bloeddio allan yn uchel, ac yn awr ac eilwaith yn gwneuthur cymmaint o swm ag a allent â'u fflangellau; a hyn oll i yru yr adar ymaith, y rhai a ddi-faent lawer o'r ŷd. Pan welont haid o honynt yn dyfod o dir cymmydogaethol, fel na byddo iddynt ddiagyn ar yr eiddynt hwy, hwy a ddyblant eu bloeddiadau, i beri iddynt fyned yn mbhellach, a hwy a wnant hyn bob bore a hwyr. Y gwirionedd yw, y mae cynnifer o adar y tŷ yn Persia, fel y dystrywiant lawer iawn; ac y mae bwbachod mor bell oddiwrth eu brawychu, fel y disgynant arnynt."

"Ni a esgynasom i wastadedd lled uchel, lle yr oedd tyddynwyr yn hau, ac yr oedd rhai miloedd o adar bychain yn gorchuddio y llawr, fel y gwna y colommenod gwylltion yn yr Aipht, gan godi llawer iawn o'r ŷd a deflid i'r cwysi, yr hwn ni chuddir drwy lyfnu fel yn Ewrop." *Buckingham's Travels in Palestine*, p. 143.

Mat. 24. 41. *Dwy a fydd yn malu mewn melin, y naill a gymmerir a'r llall a adewir.* Yn mysg amgylchiadau ereill ag a ddangosant ddiolfalwch, y byd ar ddyfodiad Crist, dywedir, *Dwy a fydd yn malu mewn melin, y naill a gymmerir a'r llall a adewir.* "Mae y rhan amlaf o deuluoedd yn malu eu hŷd gartref; mae ganddynt ddau faen malu o faintioli cymhedrol, i'r perwyl hwnw. Yr un uchaf a droir o amgylch â choes fechan o bren neu o haiarn, wedi ei gosod yn ei ymyl. Pan fyddo y maen hwn yn sawr, neu pan fyddont mewn brys, yna galwant berson arall i mewn i gynnorthwo. Peth arferol yw fod y menywod wrthynt eu hunain gyda'r gorchwyl hwn, gan eistedd y naill gyferbyn a'r llall, a'r meini rhyngddynt." *Shaw's Travels*, p. 297. Oddiwrth hyn hefyd gallwn weled priodoldeb yr ymadrodd o *eistedd y tu ol*, neu *fod ar ol y felin*, Exod. 11. 5.

"Ar doriad y dydd, yn holl drefi a phentrefi yr Hindwaid, y mae y melinau llaw ar waith, pan y mae y gwasanaethwyr a'r gwragedd gweddwon yn malu digon at gynhaliaeth y teulu y diwrnod hwnw. Y mae melin wynt yn Bombay at falu ŷd, ond nid wyf fi yn cofio weled un arall yn India, lle y maent yn arfer malu gartref, yr hyn a wneir yn wastad gan y menywod, y rhai a ymosodant at eu gorchwyl bob bore, yn enwedig y gwragedd gweddwon Hindwaidd diymgeledd; y rhai ydynt wedi eu dyosg o bob addurn, a'u penau wedi eu heillio, a hwythau wedi eu darostwng bron i gyfiwr o gaethwasanaeth.

Rhaid fod arferiad cyffelyb iawn yn Judea, oddiwrth alarnad dwys y prophwyd, wrth gyfeirio at yr amgylchiad hwn, Esay 47. 1, 5, "Disgyn, ac eistedd yn y llwch, ti forwyn-ferch Babilon: eistedd ar lawr, ti ferch y Caldeaid, canys ni'th alwant mwŷ yn dyner ac yn foethus; cymmer y meini mēlin a mala flawd; eistedd yn ddystaw, a dos i dywyllwch, ti ferch y Caldeaid; canys ni'th alwant mwy yn arglwyddes y teyrnasoedd." Fel hyn, gan fod y menywod Hindwaidd, y rhai a fuant, efallai, yn ardderchogrwydd y teulu, yn cael eu darostwng ar farwol-aeth eu gwŷr, nid rhyfedd yw eu bod yn dewis y crug ang-laddol o flaen y cyfryw gyflwr o ddiraddiad; a rhaid i ni dafu mantell cariad dros y wraig weddw ieuanc, yr hon sydd yn dianc rhag y cyflwr hwnw o weddwod y dedfrydir hi iddo gan y fath gyfreithiau creulon ac annoeth." *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 1, p. 210.

Mae caledwaith y tŷ, megis malu ŷd, pobi bara, a chyrchu dwfr, yn gyffredin yn cael ei bennodi i'r menywod. *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 178. *Clarke's Travels*, vol. 2, pp. 344, 432.

Iago 5. 7. *Y gwlaw cynnar a'r diweddar.* Yn ein hinsawdd ni, lle y mae hi yn gwlawio yn mhob tymhor o'r flwyddyn, nid oes genym ni un drychfeddwl am "wlaw cynnar a diweddar;" ond nid oes dim yn fwy natural na'r rhanad hwn mewn hinsawdd fel eiddo Palestine, lle, yn misoedd yr haf, nad yw ond anfynych, os un amser, yn gwlawio. Ar ol y cyhydedd hydrefol (*autumnal equinox*), yn nghylch amser hau, pan oedd yr Iuddewon yn dechreu eu blwyddyn wlddol, yr oedd y gwlaw hydrefol, neu wlaw y gauaf, yn dechreu; y diweddar-wlaw oedd yr hwn a syrthiai yn Mawrth ac Ebrill, tuag amser y cynhauaf. "Y gwlaw," medd Korte (*Supplement to his Travels in the Holy Land*, p. 170), "yr hwn sydd yn syrthio yn Hydref, Tachwedd, a Rhagfyr, a elwir y cynnar-wlaw, a'r hwn a ddaw yn Mawrth ac Ebrill, y diweddar-wlaw. Gyda golwg ar y diweddar-wlaw hwn, gellir sylwi, fod amryw flynyddoedd yn nghylch amser y gwres mwyaf, pan nad ydyw yn gwlawio ond dros ychydig o oriau, neu hanner diwrnod, neu o bellaf, dros ddau neu dri diwrnod yn olynol. Mae y gwlaw hwn yn fuddiol iawn i'r nellu (*rice* tebyg iawn i'n haidd ni) ag sydd ar ei draed; yr hwn sydd yn dechreu addfedu, ac nad oes arno angen dim yn chwaneg ond y cyfryw wlychfa dda, i wneuthur y grawn yn llawnach a chadarnach, ac i'w addfedu. Mae y gwlaw hwn, gan hyny, yr hwn sydd yn dyfod yn y tymhor poeth, yn wahanol iawn oddiwrth y gwlaw sydd yn y

tymhor gwlawog, ac y mae yn ffafriol iawn i yd ar ei draed. Yn y tymhor gwlawog, ar ddiwedd y flwyddyn, mor fuan ag y dechreuo wlawio yn drwm, ac y dechreuo y tîr drwy hyny dyneru, a dyfod yn gymhwys i'r aradr, nid yw y tyddynwr yn colli dim amser cyn dechreu trin ei dir a hau ei rawn.

## PENNOD XIV.

### ANIFEILIAID.

GEN. 13. 2. *Ac Abram oedd gyfoethog iawn o anifeiliaid, ac o arian ac aur.* Gan fod Abraham yn gyfoethog o arian ac aur yn gystal ag o anifeiliaid, yr oedd efe yn alluog i fynu danteithion bywyd yn gystal a thywysogion diweddar yr Arabiaid. Gallasid gwneuthur hyn mewn rhan drwy gyfnewid pethau yn gystal a thrwy brynu; yn y naill ffordd a'r llall yr oedd ganddo ef lawer o gyfleusderau i wneuthur hyny.

Dywed Dr. *Russell* wrthym (*vol.* 1, *p.* 175) fod pobl Aleppo yn cael eu diwallu â'r rhan fwyaf o'u hymenyn, eu caws, ac anifeiliaid at eu lladd, gan yr Arabiaid, y Turcomaniaid\*, &c., y rhai ydynt yn teithio o amgylch y wlad, a'u da a'u defaid gyda hwynt, fel y gwnelai y patriarchiaid gynt. Yr oedd y patriarchiaid, yn ddiamau, yn diwallu hen ddinasoedd Canaanu mewn modd cyffelyb â'r pethau hyn. Llefara Hamor yn bendant am eu gwaith yn masnachu â'i bobl ef. Gen. 34. 21.

Tra y mae yr Arabiaid yn derbyn arian am eu nwyddau, mae eu traul hwy yn fechan iawn; fel y mae eu tywysogion yn gyfoethog o arian ac aur, yn gystal ag o anifeiliaid, a hwy a gasglant lawer iawn o'r metteloedd gwerthfawr hyn; fel hyn y mae *la Roque* yn sylwi, yn amser Pliny, fod golud y Parthiaid a'r Rhufeiniaid mewn ystyr yn cael eu toddi yn mysg yr Arabiaid, gan eu bod hwy yn troi pob peth yn arian, heb ymadael â dim o hono drachefn. *Voy. dans. la Pal.* p. 157.

Gen. 22. 3. *A gyfrwyodd ei asyn.* Nid oes un lle i feddwl

\* *Turcomaniaid*, pobl yn Asia, ag ydynt yn siarad y rhan Dyrcaidd o iaith Tartary. Maent yn preswyllo y rhan ddwyreiniol o fynydd Caucasus.

fod cyfrwyau gynt yn y Dwyrain yn gyffelyb i'r eiddom ni. Nid oedd y cyfrwy yn adnabyddus i'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid hyd yn mhen llawer o oesau ar ol y Barnwyr Iuddewig. "Ni wyddai un genedl o hynafedd am wasanaeth cyfrwyau na gwartholion." *Goguet, Origin of Laws, vol. 3, p. 172, English edition.* Ac hyd yn nod yn ein hamserau ein hunain dywed *Hasselquist*, pan yn Alexandria, "Mi a brynais asyn, a chyfrwy Arabaidd, yr hwn ni welais ei fath erioed o'r blaen; nid oedd y cyfrwy ond clustog: porthynai ffrwyn ardderchog i'r asyn." *Travels, p. 52.* Ond ymddengys fod hyd yn nod y glustog yn ddiwygiad o'r hen gyfrwyau dwyreiniol, y rhai nid oeddynt, tebygol, ond darn o huling (*rug*) wedi ei rwymo wrth yr anifail.

Yn lle cyfrwyau, yr hynafiaid a ddefnyddient fath o huling nen frethyn ceffylau, yr hwn a eilw y Groegiaid *σάγν*, a'r Lladinwyr *sagum*. Mae yr huling hwn i'w weled ar geffylau darluniedig ar golofn Trajan, ac ar lawer o hen gof-adeiladau ereill. Y Rhufeiniaid hefyd a alwent yr huling hwn yn *strata*, y dyfeisiad o ba un, yn nghyda ffrwynau, a briodola Pliny i un Pelethronius. Gwel *Beckman's History of Invention and Discoveries, vol. 2, p. 247.*

Gen. 41. 2. *Wele, yn esgyn o'r afon, saith o wartheg teg yr olwg.* Mae y gair Hebreig *Icor*, yr hwn a gyfieithir yma afon, (gan Luther, dwfr,) yn briodol yn air perthynol i'r Aipht, yn golygu afon, yn wir, ond yn cael ei gymhwyso yn unig at yr afon hōno a lifa drwy yr Aifft, sef y Nilus. Nid yw yr arwyddion dan ba rai y mae y brenin yn gweled y saith mlynedd o lawnder, yn gystal a'r rhai hyny o brinder, mewn un modd yn ddamweiniol nac anmherthynasol. Mae yr *ŷch*, yn ysgrifeniadau arwyddol cyssegredig yr Aiphtiaid (*hieroglyphics*), yn arwyddo amaethyddiaeth, a chynhaliaeth, fel y mae *Clements* o *Alexandria* yn sicrhau i ni (*Stromata, b. 5, p. 413*). Pharaoh a welodd yr ychain neu y gwartheg yn dyfod allan o'r Nilus, o herwydd fod ffrwythlondeb yr Aipht (oblegid diffyg digon o wlaw) yn dibynu yn hollol ar orlifaid yr afon hōno. Hi a ddechreu a godi yn y Gwanwyn, ac a gynnydda yn raddol, fel, yn ystod yr haf, y mae yr holl wlad yn ymddangos fel môr. Yn nghylech y cyhydedd hydrefol, dechreu a dwfr leihau, fel, yn mis Hydref, y mae yr afon wedi dychwelyd agos i gyd i'w gwely arferol. Wedi i'r dwfr dychwelyd, ceir gweled y tir oll yn orchuddiedig â llaid tew a thywyll, yr hwn a elwir gan *Hasselquist* yn glai tywod-

lyd. Mae y llaid hwn yn wrtaith mor dda, fel, cyn yr haur ynddo, y rhaid cymmysgu tywod âg ef, ac er hyny, yn ol Maillet, y mae yn dwyn ffrwyth, peth ar ei bummed ar hugain a pheth ar ei ddegfed ar hugain.

“Mae holl gynhaliaeth yr Aipht, mewn ystyr naturiol a gwladol,” medd Volney, “yn dibynu ar y Nilus, yr hon ei hunan a'i diwalla â'r pêth naturiol mwyaf angenrheidiol, sef dwfr. Mae y Nilus yn gwasgaru ymborth i'r tir i beri tyfiant yn mhob man. Yn ystod y tri mis y mae y dwfr yn cuddio y tir, mae y ddaear yn yfed i mewn gymmaint o ddwfr ag 'sydd yn angenrheidiol dros y rhan arall o'r flwyddyn. Oni bae gorlifiad y Nilus, ni ellid trin ond rhan fechan o wlad yr Aipht, a dim o hyny heb lawer o draul. Gan hyny gellir ystyried yr afon yn achos naturiol o gyflawnder, - happusrwydd, ac hyd yn nod bywyd yno.”

Exod. 3. 1. *Efe a yrodd y praidd i'r tu cefn i'r anialwch.* Pobl ag ydynt ofalus am eu porfeydd mewn trefn i'w diffynu rhag gormeswyr, ac yn nghylch eu hawl i gytir neu am y rhifedi o anifeiliaid a borant yno, a allant feddwl ei fod yn beth rhyfedd fod Abraham a Lot, y Ceneaid a'r Rechabiaid, yn cael eu goddef i symud i fynu ac i waered, a phorthi eu da a'u defaid heb gael eu hafonyddu, mewn gwledydd preswylledig, yn gystal, ag mewn anialwch. Ond mae yr hen arferiad hon yn parhau o hyd yn Palestine, yr hon, er ei bod yn anaml ei thrigolion, y mae cynnifer o breswylwyr, tebygol, yn ei threfi ag oedd yn amser Abraham. Mae llawer o bobl yn byw yn Barbary, ac mewn lleoedd ereill, yn yr un modd. *Maillet* (*Lett.* 1, p. 24) a hysbysa i ni, “heblaw trigolion brodorol yr Aipht, gan y rhai y mae anneddau sefydlog, ac a lanwant bentrefi helaeth a lliosog, fod yno hefyd yn y rhan hono o'r wlad ag sydd nesaf at yr anialwch, ac hyd yn nod yn y parthau a ymylant ar yr afon Nilus, yn fynych fath o bobl grwydrawl, y rhai a drigant mewn pebyll ac a newidiant eu hannedd, yn ol fel y byddo diffyg porfa neu amrywiaeth y tymhorau yn effeithio arnynt. Gelwir y bobl hyn *Bedouin Arabs*; a galleu gyfrif fod uwchlaw dwy filiwn o honynt yn yr Aipht. Mae rhai yn cadw ar y mynyddoedd, ac yn mhell oddiwrth y dinasoedd a'r pentrefi, ond yn wastadol lle y mae yn hawdd iddynt gael dwfr. Ereill a sefydlant eu pebyll, y rhai ydynt isel a gwael iawn, yn nghymydogoeth lleoedd a gyfanneddir, lle y goddefir iddynt,



am ychydig o dâl, i borthi eu praidd. Mae y bobl hyd yn nod yn rhoddi iddynt beth tir i'w drin at eu gwasanaeth eu hunain, dan yr ammod o fod iddynt fyw yn heddychol â'r bobl. I ochelyd un math o aflonyddwch, hwy a dreiddiant i'r anialwch, lle, trwy eu cynnildeb mawr, a'r wybodaeth sydd ganddynt am y lleoedd y mae dwfr ynddynt, y gallant fyw amrywiol o fis-oedd heb nemawr o anhawsdra. Nid oes olwg hyfrytach yn y byd, na'r olwg yn misoedd Tachwedd, Rhagfyr, a Ionawr, ar y meusydd mawrion hyny lle y mae y glaswellt, yr hwn sydd mor uchel a phen dyn, mor dew fel y gall anifail wedi iddo orwedd ynddo, gael digon o hono heb godi, o fewn ei gyrhaedd, i ddi-wallu ei angen dros ddiwrnod cyfan, oll braidd wedi eu cuddio gan bebyll, dynion, ac anifeiliaid. Ac, yn wir, ar yr amser hwn o'r fwyddyn y mae y *Bedouins* yn heidio i'r Aipht, o gymmaint ag o naw i ddeuddeg ugain milltir o bellder, mewn trefn i borthi eu camelod a'u ceffylau yno. Y dreth a ofynir ganddynt am y caniatad hwn a dalant â gwlan, neu â rhai defaid, y rhai a werthant yn gystal a'r wyn, neu rai camelod ieuaino, â pha rai yr ymadawant. Gan eu bod yn cynnefino â byw yn gynnwl, y maent yn byw ar ychydig, ac mae peth bychan iawn yn ddigon i'w cynnal. Ar ol iddynt dreulio rhyw gymmaint o amser yn nghymydogoeth y Nilus, hwy a neillduant i'r anialwch, drwy ba un, ar hyd ffyrdd â pha rai y maent hwy yn adnabyddus, yr ânt i ardaloedd ereill, i drigo yno mewn modd cyffelyb dros rai misoedd o'r fwyddyn, nes y dychwelo y tymhor cyffredin i'w galw i'r Aipht drachefn.

“Nid yw cytir y gwledydd hyn wedi ei briodoli i unrhyw bentref yn neillduol, ond yn gorwedd yn agored i bawb.” *Relandi, Palest. p. 261.*

Exodus 23. 19. *Na ferwa fyn yn llaeth ei fam.* Mae y gwaharddiad hwn wedi ei seilio ar egwyddor eglur o ddynoliaeth, a chafodd ei fwriadu i wrth-weithredu arferiad annaturiol, yr hon yr oedd yr Israëliaid naill ai wedi ei mabwysiadu, neu mewn perygl o wneuthur felly, oddiwrth eu cymmydogion. Un ffordd i barotoi y mynod at eu bwyta, oedd eu herwi mewn llaeth; ac at hyn, o herwydd ei moethusder hwy a dde-wisent laeth y fam. Mae y Deddf-rodwr Dwyfol, pa fodd bynag, yn gwahardd y ddefod hon, ac yn eu cyfyngu at y ffordd hono o drin mynod at eu bwyta, yr hon a allent arfer mewn modd di-niwed. Mae hyn yn beth cyffredin mewn gwledydd dwyreiniol

hyd y dydd hwn. "Ni a ddisgynasom wrth babel y penaeth, gan yr hwn y derbyniwyd ni oll, ac y gwahoddwyd ni i gymmeryd cysgod dros y nos gydag ef. Yn uniongyrchol wedi i ni orphwys, parotowyd pryd o fwyd i ni, y brif-ddysglaid o ba un oedd mŷn ieuanc wedi ei ferwi mewn llaeth." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 7.

Exodus 29. 22. *Y gloren.* Neu gynffon fawr un math o ddefaid yn y Dwyrain. *Russell (History of Aleppo, p. 51)*, ar ol sylwi eu bod yn y wlad 'hono yn llawer amlach na'r rhai y mae cynffonau llai iddynt, a chwanega, "Mae y gynffon hon yn llydan a mawr iawn, a'i blaen yn troi i fynu. Y mae hi o ddefnydd ag sydd rhwng gwêr a mêr, ac ni fwyteir hi wrthi ei hun, ond yn gymysgedig â chig teneu mewn amrywiol o'u dysgleidiau, ac arferir hi hefyd yn fynych yn lle ymenyn. Mae dafad gyffredin o'r rhywogaeth hon, heb y pen, y traed, y croen, a'r perfedd, yn pwysu yn nghylch tri ugain neu dri ugain a deg o bwysi, o ba rai y mae y gynffon yn bymtheg pwys neu chwaneg; ond y rhai ydynt o'r dosparth mwyaf, ac wedi cael eu tewychu, a bwysant weithiau uwchlaw cant a hanner o bwysi, a chynffon y rhai hyn a bwysa yn nghylch hanner can pwys. Gan fod y defaid mawrion hyn, yn nghymydog-aeth Aleppo, yn cael eu cadw mewn buarthau, nid ydynt mewn perygl o niweidio eu cynffonau; ond mewn rhai lleoedd ereill, lle y maent yn pori mewn meusydd, mae y bugeiliaid yn gorfod gosod darn o fwrdd teneu danynt, fel na byddo iddynt gael eu dryllio gan y drain a'r mieri, gan nad ydynt oddidanynt yn orchuddiedig â gwlan tew fel sydd ar y tu uchaf iddynt. Rhoddir dan rai o honynt olwynion bychain, fel y byddo yn hawddach llusgo y byrddau hyn ar eu hol." Gwel hefyd *Turner's Tour in the Levant, vol. 3, p. 450*. Mae y ddyfais hon cyn hyned a Herodotus, yr hwn sydd yn ei choffau yn bendant, lib. 3, cap. 115. Maent yn gwneuthur *ceir* bychain, ac yn sicrhau un o honynt dan gynffon pob dafad. Cyttuna hyn â hanes a rydd *Abbi Mariti (Travels through Cyprus, vol. 1, p. 36)*. "Mae cig y defaid yn iraidd a thyner. Mae cynffonau rhai o honynt, y rhai ydynt yn flasus neill-duol, yn pwysu deg pwys a deugain." Dengys hyn i ni y rheswm paham, yn yr ebyrth Lefiaidd, y gorchymynid llosgi y gynffon yn wastad â than. Gwel *Bochart, vol. 2. p. 494*.

Lef. 15. 17. *Pob croen.* Y rheswm ag a barodd i bobl y Dwyrain yn gyffredinol, ag oeddynt yn bugeilio anifeiliaid, i

beidio cysgu allan dan yr awyr, a bair iddynt, tebygol, i beidio eistedd na gorwedd yn eu pebyll ar y ddaear laith, ond i ddefnyddio rhyw fath o garpedau. Y rhai tlotaf yn mysg yr Arabiaid yn ein dyddiau ni a ddefnyddiant restogau yn eu pebyll; a thrigolion ereill yn y gwledydd hyny, y rhai a hoffant yr hen dduil gwledig o fyw, a ddefnyddiant groen geifr, yr hyn a all roddi eglurhad ar rai ymadroddion yn llyfrau Moses, y rhai a berthynant i ddull yr Israeliaid o fyw yn yr anialwch. *Dr. Richard Chandler (Travels in Greece, p. 103)* a ddywed wrthym, iddo weled rhai mynachod Mohammedanaidd yn Athen yn eistedd ar grwyn geifr; ac iddo wedi hyny gael ei arwain i ystafell mewn modd cyffelyb, a'r un fath o garpedau ynddi, lle y cafodd efe bibell a *choffee* gyda'r prif fynach, pp. 103, 104.

"Yn yr amserau diweddar hyn, y mae mynachod Mohammedanaidd yn hoffi dull gwledig iawn o fyw, ac weithiau hyd yn nod yn arfer llymdostedd atynt eu hunain yn eu gwisgiad a'u bywioliaeth. Gan fod y mynachod y rhai yr ymwelodd *Dr. Chandler* â hwynt yn eistedd ar grwyn geifr, ac nad arferent un math arall o garped i roesawi y rhai a ymwelent â hwynt, felly ymddengys fod yr Israeliaid yn yr anialwch yn defnyddio crwyn fel *mattressi* i orwedd arnynt, a gallwn dybied gan hyny y defnyddient hwynt hefyd ar hyd y dydd i eistedd arnynt yn lle carpedau."

Rhaid fod crwyn geifr yn gystal ag eiddo defaid, yn bethau gwerthfawr iawn yn eu plith hwynt, ac fel y cyfryw yr oedd yr offeirad yr hwn a offrymai unrhyw boeth-offrwm i gael ei groen. Lef. 7. 8.

Nid yw y *Bedouin Arabs* yn awr, pa fodd bynag, yn anghynefin â'r carpedau harddach hyny y rhai a arferir yn nhai pobl gyfoethog yn y gwledydd hyny, ond mae eu tywysogion yn eu defnyddio yn eu pebyll. Felly y bu i *D'Arvieux* gael penaeth mawr Mynydd Carmel yn eistedd yn ei babel ar garped Twrci, pan yr ymwelodd efe âg ef wrth orchymyn brenin Ffrainc (*Voy. dans. la Palestine, p. 6*); a *De la Roque*, wrth roddi hanes am y daith hon, a ddesgrifia dywysogion yr Arabiaid fel yn eistedd ar *fattressi* a charpedau. *Harmer, vol. 1, p. 189.*

Deut. 33. 17. *Ei brydferthwch sydd debyg i gyntafanedig ei fch.* Wrth gymharu llwydd *Josepph* i gyntafanedig *fch*, y pethau a olygir ydynt nerth a grym. *Mr. Brown* a goffâ (*Journey to*

*Dar fur, chap. 1*) am gymhariaeth gyffelyb yr hon sydd yn awr mewn arferiad yn llys ymerawdwr Twrci, lle, yn ystod gwrandeddiad cyhoedd, y mae canmolydd cyflogedig yn sefyll ar ddeheu-law y penadur, yn gwaeddi allan, "Gwelwch y *buffalo*, hiliogaeth y *buffalo*, tarw y teirw, y cawrfil o nerth rhagorol, yr ymerawdwr Abd-el-rachmanal-rashid."

Barn. 5. 10. *Y rhai sydd yn marchogaeth ar asenod gwynion, y rhai sydd yn eistedd mewn barn, ac yn rhodio ar hyd y ffordd, llafaroch.* "Ni a gyfarfuasom ryw ddiwrnod â thyrfa rwysgfawr yn cynnwys teulu yn dychwelyd o Mecca. Yr oedd tabyrddau a phibellau yn cyhoeddi yr amgylchiad gorfoleddus. Hen wr gwyn ei farf, yn marchogaeth ar asen wên, a agorai y ffordd mewn modd anrhydeddus; a'r dynion a'i cyfarfyddent, a'r rhai a gyd-deithient âg ef, a roddent eu breichiau atm ei wddf, ac yr oeddynt bron a'i dynu i lawr a'u hanerchiadau. Efe a ganlynid gan ei dair gwraig, pob un yn marchogaeth ar gamel uchel: y menywod ag oeddynt o'u cydnabod a redent gyda hwynt ar bob tu, ac a blygent weithiau i'w hanerch. Yr oedd y menywod o hyd yn gwneuthur chwibaniad gwichlyd. Annichonadwy, wrth edrych ar yr hen wr, oedd peidio meddwl am yr ymadrodd yn Barnwyr 5. 10." *Jowett's Christian Researches, p. 168.*

Barn. 14. 5, 6. *Yna Samson a aeth i wared, ac wele, genaw llew yn rhoio yn ei gyfarfod ef, ac ysbryd yr Arghwydd a ddaeth yn rymus arno ef, ac efe a hollodd y llew, fel yr holltid mynn, ac nid oedd dim yn ei law ef.* Mae anghraifft yn yr amseroedd diweddar o fod dyn heb arfau yn cynyg ymdrechu â llew yn cael ei hadrodd gan *Poiet*. (*Travels in Barbary, vol. 1, p. 218.*) "Mewn gwrsyll perthynol i'r *Bedouin Arabs*, yr oedd llew wedi ymaflyd mewn buwch. Ethiopiad ieuanc a dafodd ei hun ar yr anifail ffyrnig, i dynu yr ysglyfaeth oddiwrtho, ac i'w lindagu ef yn ei freichiau, ond ni ollyngai y llew ei ysglyfaeth. Tad y dyn ieuanc a frysiodd i'r fan, a chanddo fath o chwyn-gaib yn ei law; ac wrth amcanu at y llew, efe a darawodd law ei fab, ac a dorodd ymaith dri o'i fysedd. Cawsant lawer o drafferth i waredu yr ysglyfaeth oddiwrth y llew. Mi a welais y dyn ieuanc hwn, pan dan law y meddyg." Yr oedd Dafydd, yn ol 1 Sam. 17. 34, pan yn fugail, wedi ymladd unwaith â llew, a phryd arall âg arth, ac wedi gwaredu yr ysglyfaeth oddiwrthynt. "Mae yr Arabiaid," medd *Thevenot* (*Travels, vol. 2, chap. 13, p. 113*),

“mor bell oddiwrth ofni y llew, fel os cânt ond yn unig brea yn eu llaw, yr ymlidiant ac y lladdant ef.” Dywed *Tellez*. (*History of Ethiopia*, b. 1, chap. 14) fod bugail Abyssinaidd unwaith wedi lladd llew o faintioli anarferol â dau bawl yn unig. Yn sicr mae angen mwy na glewder cyffredin at hyny, a phriodolir hyny i Samson yn yr hanes uchod; canys dywedir i ysbryd yr Arglwydd ddyfod arno ef,—hyny yw, iddo gael ei gynhyrfu â glewder goruwch-naturiol, a chael ei gynnysgaeddu â nerth anarferol.

1 Sam. 6. 4. *Llygod*. Er mor fychain yw llygod, y maent weithiau wedi bod yn drallodus iawn, ac hyd yn nod yn ddinystriol iawn yn ngwlad Palestine. Cawn grybwylliad yn hanes William, Archesgob Tyrus, am ddinystyr a wnaethant yn nechreud y ddeuddegfed canrif. “Cafodd math o gyfarfod o yrrosyngiad ei gadw yn Naplouse\*, yn y flwyddyn 1120, lle yr oedd pump rheol ar hugain wedi eu ffurfio er diwygio moesau y Cristionogion oeddynt yn ac o amgylch Jerusalem, y rhai y tybid eu bod wedi digio Duw nes dwyn arnynt yr adfydau o ddaeargryn, rhyfel, a newyn.” Yr olaf a briodola yr Archesgob i waith locustiaid a llygod, y rhai oeddynt dros bedair blynedd yn nghyd wedi dystyrio ffrwythau y ddaear yn y fath fodd, fel yr achoswyd diffyg ymborth. Yr amser arferol y mae y llygod yn niweidio yr yd, yw ar ei waith yn tarddu allan. *Scheuchzer's Physica Sacra, in loc.*

1 Sam. 9. 3. *A dywedodd Cis wrth Saul ei fab, Cymmer yn awr un o'r llanciau gyda thi, a chyfod, úos, cais yr asynod*. Yr hanes canlynol, wrth ei gymharu â'r amgylchiadau a goffeir yn y bennod hon, yn nghylch y neges ar yr hon yr anfonwyd Saul, a eglura 'lawer arnynt. “Mae gan bob perchenog ei nod ei hun, yr hwn sydd yn cael ei losgi i forddwydydd ceffylau, ychain, a dromedariaid, a rhoddir lliw hefyd ar wlan y ddaear. Cedwir yr olaf gerllaw annedd y perchenog; ond y rhywogaethau ereill a unant yn, ddiadellau, a thua'r gwanwyn gyrrir hwynt i'r gwastadedd, lle y gadewir hwynt i fyned o amgylch wrth eu hewylls

\* *Naplouse*, tref yn ngwlad Canaan, yr hen Sichein. Hi a saif mewn dyffryn bras, rhwng mynydd Gerizim a mynydd Ebal, ac mewn gwlad lawn o angenrheidiau bywyd. Gerllaw iddi y mae ffynnon Jacob, ac amrywïol o feddau wedi eu naddu yn y graig. Yma y claddwyd Eleazar, Joshua, ac ereill o'r hen enwogion. Y mae o fewn yn nghylch deg milltir ar hugain i'r gogledd i Jerusalem.

hyd y gauaf. Ar ddyneſtad y tymhor hwn, hwy a'u ceisiant, ac a'u gyrant tua'u betudai. Mae gan y Tartar ag sydd wrth y gorchwyl hwn, yn fynych, feithder o dir, yr hwn, o'r naill ddyffryn i'r llall, sydd yn ddeg neu bymtheg ar hugain o filltiroedd o led, ac yn nghylch can milltir o hyd, eto ni wŷr efe pa ffordd i fyned, ac nid yw mewn gofid o herwydd hyny. Efe a esyd mewn ewd chwech pwys o flawd miled wedi ei rostio, yr hyn sydd yn ddigon i'w ddiwallu dros ddeg diwrnod ar hugain. Wedi darparu fel hyn efe a â ar gefn ei geffyl, ac nid erys nes y machludo yr haul, yna efe a esyd faich wrth ei anifail, ac a'i gâd i 'bori; efe ei hun a swppera, ac wedi hyny efe a orwedd i lawr i gysgu; bore dranoeth efe a gyfyd, ac a ddilyn ei daith. Mae yn ofalus, pa fodd bynag, wrth fyned yn mlaen, i sylwi pan welo ôl traed anifeiliaid. Efe a hysbysa y datguddiedigaethau hyn i'r personau a gyfarfyddo, os byddant ar yr un neges; ac yntau a dderbyn y cyfryw hysbysrwydd oddiwrthynt hwythau a allo fod yn gynnorthwyol iddo i gyrhaedd ei amcan." *Baron Du Tott, vol. 1, part 3, p. 4.*

1 Cron. 12. 8. *Meggs igrchod ar y mynyddoedd.* I egluro yr ymadrodd hwn, gallwn sylwi yn ol Tystiolaeth *Dr. Russell (Natural History of Aleppo, p. 54)*, fod y ddau fath o *antelopes\** ag sydd yn nghymydogoeth Aleppo, yn Syria, "mor rhyfeddol o gyfflym, fel mai anfynych y gall y milgwn, er yn dda iawn, eu dal, heb gymhorth hebog, oddieithr mewn tir tyner a gwlyb." Yr amgylchiad canlynol a ddengys y serch cryf ag sydd mewn rhai o'r Arabiaid at y creaduriaid hyn. "Merch ieuanc Arabaidd a ddygodd *antelope* ieuanc i'w werthu, yr hwn a brynwyd gan farsiantwr Groegaidd, pabell yr hwn oedd nesaf ataf fi, am hanner *piastre*. Yr oedd hi wedi tyllu y ddwy glust, yn mhob un o ba rai yr oedd hi wedi gosod dau ddarn bychan o ysnoden sidan coch. Hi a ddywedodd wrth y prynwr, gan y gallai efe rodio o amgylch, ac yfed llaeth, y gallai efe ei fagu; ac na buasai hi yn ei werthu, oni buasai fod arni eisiau arian i bryn ysnoden, yr hyn ni allai ei mham roddi iddi; yna gan gusanu y creadur yn y fath fodd nes yr oedd hi bron a'i fygu, hi a'i rhoddodd i fynu a'r dagrau ar ei gruddiau, ac a redodd ymaith. Y marsiantwr a orchymynodd iddo gael ei ladd, a'i drin at swpper. Yn niwedd yr hwyr, y ferch fechan a ddaeth i ganu yn iach y

\* *Antelopes* (byched dynys). Anifeiliaid o rywogaeth yr afr, y rhai ydynt wedi llosg yn Persia.

tro olaf i'w thegan bychan, yn gwybod ein bod i fyned ymaith ar doriad y dydd dranoeth. Pan ddywedwyd wrthi ei fod wedi ei ladd, ymddangosai iddi fyned i syndod mawr, gan ddywedyd fod yn annichonadwy i neb allu bod mor greulon a lladd y fath greadur hardd. Pan ddangoswyd ef iddi, a'i wddf wedi ei dori, hi a dorodd allan i wylo, tafodd yr arian i wyneb y dyn, a rhedodd ymaith dan wylo." *Parson's Travels*, p. 117.

Job 30. 1. *Ond yn awr y rhai sy ieuangach na mi sy yn fy ngwatwar, y rhai y diystyrason eu tadau i'w gosod gyda chwen fy nefaid.* Mae y dull cellweirus a diystyrlyd hwn o lefaru yn ffynu o hyd yn y Dwyrain. Mae yr un ganlynol yn anghraiff neillduol o hono: "Fateh Ali Shah a foddlonodd ei hun un diwrnod ar ol cweryl yn mysg ei weinidogion, trwy ddywedyd wrthynt yn gyhoedd y rhoddai esfe eu teitlau ar rai o'i gwn; gan alw un yn Sedr-aazem," &c. *Sir W. Ouseley's Travels in the East*, vol. 3, p. 368.

Salm 9. 15. *Yn y rhwyd a guddiasant y daliwyd eu troed eu hun.* Mae y gymhariaeth hon wedi cael ei chymmeryd oddiwrth y gorchwyl o ddal anifeiliaid gwylltion, wrth raffau neu rwydau cryfion. *Lichtenstein*, wrth lefaru am y dull o hela rhai (anifeiliaid *Travels in Southern Africa*, vol. 1, p. 444), a ddywed, "Maent yn dal llawer o anifeiliaid wrth hela mewn rhwydau; mewn cymmydogaethau coediog, maent yn fynych yn gwneuthur caeau isel, o rai milltiroedd o hyd, yn y rhai y gadawant agoriadau; yn yr agoriadau hyn, drwy y rhai y mae yr anifeiliaid yn cynnyg dianc, maent yn cuddio rhwydau, y rhai a gyfleir mewn modd mor gywrain, fel y delir yr anifail ynddynt gerfydd un o'i goesau, ac nad all ymddadrus." Hefyd y mae llewod a chawrfilod yn cael eu dal yn y modd hwn; yr olaf o ba rai, pan fyddont wedi cael eu dwyn drwy dân, neu gan gawrfilod dofion, i le cul, lle ni allant droi yn ol, a ddelir drwy dafu rhaff am eu traed.

Rhaffau a chylymau rhedegog a feddylir wrth yr ymadroddion cyffelybiaethol, *maglau angau*, 1 Sam. 22. 6, y rhai a arferai pobl yr hen fyd wrth hela ac wrth frwydro. Cyfieithir y gair weithiau *rhwyd*, fel yn yr ymadrodd hwn. *Arrian*, yn ei draethawd ar helwriaeth, a ddywed, i Cyrus gyfarfod âg anifeiliaid gwylltion yn ngwastadedd Arabia, y rhai oeddynt mor gyftym, fel nad oedd neb o'i wŷr meirch ef yn alluog i'w dal. Er hynny yr oedd rhai Lybiaid ieuainc, hyd yn nod bechgyn wyth mlwydd

oed, neu ddim llawer henach, yn marchogaeth ar eu ceffylau, heb gyfrwy na ffrwyn, yn eu dylun hyd nes y gallent dasfu rhaff, ag arni gwllwm rhedegog, am danynt, ac fel hyn eu dal. Efe a rydd gyfarwyddiadau i ddilyn ceirw â cheffylau a thwn wedi eu dysgu at hyn, nes y gellir naill ai eu saethu â saethau, neu eu cymmeryd yn fyw, drwy dasfu rhaff ag arni gwllwm rhedegog. Y rhai hyn ydynt y maglau cryfion a olyga *Pollux*, pan lefara efe am yr asynod gwylltion; yn un o'r rhai hyn y daliwyd Habis, gordderch-fab un o hen frenhinoedd Ispaen. Cafodd hwn ei fwrw allan pan yn blentyn, a gadawodd ewig iddo i'w sugno; wrth dyfu yn mysg y ceirw, efe a gyrhaeddodd eu buandra hwynt, fel y ffoai gyda hwynt ar hyd y mynyddoedd, ac y croesai y fforesti, hyd nes o'r diwedd y daliwyd ef mewn un o'r cylymau rhedegog hyn. Yn yr un dull arferai y *Guasos* (un o genhedloedd brodorol Peru) ddal y dyn mwyaf bywiog a gochelgar yr un mor hawdd ag y dalient ryw anifail. Rhyw fôr-ladron Seisnig a nesasant unwaith at eu traeth, gan feddwl y gallasant yru y *Guanos* ymaith â'u harfau tân; yr olaf a dasflasant eu cylymau rhedegog at y llongau, ac felty a dynasant i'r lan y rhai ni chwympasant i lawr yn ddioed. Un o'r rhai a ddaliwyd a ddiangodd yn fyw, er iddo gael ei lusgo fel hyn o'r bâd i'r lan, o herwydd nad oedd i'r cwllwm afael diogel; ond cafodd gryn anhawsdra i ymddadrus. Dywedir am bobl ag oeddynt yn byw gerllaw y Môr Caspian, nad oedd ganddynt un arf ond cwllwm rhedegog a chleddyfan (*dagger*), i ladd âg un y rhai a dalient â'r llall.

Salm 22. 13. *Agorasant arnaf eu genau, fel llew rheibus a rhuadwy.* "Mae y cyfryw nosweithiau, mi a wn drwy brofiad a brynais yn ddrud, yn ffafriol i'r llew ysglyfaethus, ac fel yn rhoddi eondra iddo ag nad yw yn feddu ond yn anaml ar amserau ereill. Gan gymmeryd fy fantais o'r amhrefn a'r terfysg i'r rhai y teflir anifeiliaid ereill gan yr elfenau ymrysonus, y rhai ni wnant argraff arno ef, efe a ymesyd arnynt gyda llai o ocheliad nag arferol. Cafwyd yn awr fod hyn yn wirionedd, canys yn mhen ychydig wedi naw, tra yr oedd pawb o honom yn gorwedd yn y pedrolfeni, dechreuodd y cwn gyfarth ac udo; yr ychain oll yn ddisymmwth a ddechreusant ymdrechu i ymryddhau, a dangos yr anesmwythder rhyfeddol hwnw, yr hwn mewn modd eglur iawn a ddangosai i ni fod llew gerllaw. Mae rhywbeth, tebygol, yn arogl y creadnr hwn ag sydd yn hollol



wahanol i eiddo rhai ereill, wrth yf hwn, pan y mae efe yn nesau, yn enwedig os bydd rhyngddynt a'r gwynt, y mae ei ysglyfaeth yn deall ei fod yn nesau, ac yn cael rhybudd i ffoi. Y tuedd naturiol hwn at ffoi a wnaeth i'n hychain ymdrechu myned yn rhydd; ond, fel y bu dda i ni, grym yr harnais a'u rhwystrodd i wneuthur felly. Eto yr oedd eu hymdrechion i yrryddhau mor nerthol, fel y bu fy mhedrol-fen i agos a chael ei dymchwelyd; ac nid diogel, dros beth amser, oedd aros ynddi. Mae tân yn gyffredin yn ddigon i gadw y llew yn mhell; ond yr oedd yr eiddom ni yn awr wedi ei ddiffoddi gan y gwlaw, o herwydd yr hyn efe a ddaeth yn agos i ni. Er ein cysur, cafodd taniad o rai gynau wrth amcan, effaith nid yn unig i'w gadw ef draw, ond i lonyddu yr ychain mewn mesur mawr. Dywed yr Hottentotiaid fod gan ychain ddigon o ddeall i wybod fod gollwng ergydion o ynau, yn y cyfryw amgylchiadau, i'r perwyl o gadw eu gelynyon dychrynlyd draw; ond pa beth bynag a all fod tyb y creaduriaid hyn yn nghylch y peth, y fath yn sicr yw yr effaith a wneir arnynt, fel y gwelais i fy hun ar amgylchiadau ereill wedi hyny. Dichon fod rhyw anian-ddeddf (*instinct*) ag sydd ynddynt, yn eu galluogi i ddeall fod y llew yn ymadael pan danier gynau. Gallem ddeall oddiwrth gyfarthiad anarferol y cwn, ei fod ef yn rhodio o'n hamgylch hyd hanner nos; ond ei ofnau i ymdrechu â dyn oeddynt yr unig rwystr iddo gymmeryd ei ysglyfaeth; ac yn cael fel hyn y diffynid ef yn rhy gadarn, efe o'r diwedd a aeth ymaith." *Burchell's Travels in Southern Africa*, vol. 1, p. 450.

Salm 22. 16. *Canys cwn a'm cylchynasant*. "Mae y ci," medd *Poiret (Travels in Barbary, vol. 1, p. 253)*, "yn colli yn Barbary, fel y gwna yn gyffredinol yn y Dwyrain, ran o'r rhinweddau cymdeithasgar hyny ag sydd yn ei wneuthur ef yn gyfaill dyn. Nid yw efe yno yn greadur teuluaid, addfwyn, dengar, ffyddlon, a chryf ei serch at ei feistr, a phob amser yn barod i'w ddiffynnu, hyd yn nod ar draul ei fywyd ei hun. Yn mysg yr Arabiaid y mae yn greulon, gwaedlyd, yn wastadol yn newynog, ac ddim yn ymddangos un amser yn cael ei ddigoni. Mae ei edrychiad yn ffyrnig, a'r olwg arno yn anhardd ac annymunol. Mae yr Ethiopiaid yn wir yn rhoddi iddo le mewn congl o'u pabell; ond dyna y cwbl. Nid ydynt un amser yn ei fawrhau, nid ydynt un amser yn tafu dim iddo i'w fwyta. Y driniaeth hon, yn fy nhyb i, yw yr achos o ddiffatterwch y cwn am eu

meistri. Yn fynych iawn nid oes ganddynt un meist'r. Hwy a ddewisant babell fel noddfa; goddefir iddynt aros yno, ond ni chymmerir mwy o sylw o honynt. Mae burgynod asian; a'r cyffelyb; yn ddigon da iddynt, os gallant ond tori eu newyn arnynt. Maent yn deneu, gwael, a phrin y mae ganddynt ddim bola. Maent yn heddychol â'u gilydd; anfyfych y cnoant eu gilydd; ond hwy a unant yn erbyn y dyeithr a nesao at babell yr Arabiaid, ymosodant yn ffyrnig i'w erbyn, ac a'i drylliant os na bydd iddo geisio diogelwch drwy ffoi rhag y llu newynllyd hwn. Pe byddai person yn analluog i ddiffynu ei hun, neu fod mor anffodus a chwympo, byddai mewn perygl o gael ei ddifa, canys y mae y cwn hyn yn awyddus iawn am gnawd dynion." *D'Arvieux (Manners of the Bedouin Arabs, p. 86)* a sylwa hefyd, fod y *Bedouin Arabs* ya cadw llawer o gwn, y rhai a redant yn ac o amgylch eu gwersylloedd, ac a ddechreuant gyfarth wrth glywed y swm lleiaf, ac atebant eu gilydd. "Nid yw y cwn hyn," medd efe, "yn arfer gweled pobl yn rhodio o amgylch yn hwyr yn y nos, ac yr wyf fi yn credu y dryllient ddyn a anturiai nesu at y gwersyll." "Yn Morocco," medd Hüet (*Travels, p. 294*), "mae amledd mawr o gwn; ac megis mai prin y mae gan y rhan amlaf o'r Negroaid ddigon i fyw arno eu hunain, llawer llai digon i borthi eu cwn, hwy a'u goddefant i orwedd ar hyd yr heolydd mor newynog fel mai prin y gallant ddal yn nghyd; ac y maent bron a chael eu difa gan chwain a phryfed. Ond y cwn hyn, y rhai aad ydynt, yn symud yn' ystod y dydd, er y sethrir arnynt yn fynych, ydynt mor anoddefol yn y nos, nid yn unig am eu bod yn cyfarth ac yn udo, ond hefyd am eu bod mor ffyrnig, ac yn eysgu cyn lleied, fel na all neb fyned ar hyd yr heol heb wyliwr gydag ef."

"Yn ystod fy nhaith faith drwy y ddinas erchyll a thrymaidd hon (Alexandria, yn yr Aipht), nid oedd dim yma a debygai i Ewrop ond trydar a bywiogrwydd adar y tô. Nid oedd y ci yma i'w weled fel cyfaill dyn, fel ei gydymaith serohog a ffyddlon. Mae efe yma mewn cyflwr pruddafdd, ac yn anadnabyddus i wr y tŷ dan gronglwyd yr hwn yr erys, wedi ei dori ymaith oddiwrth gyfeillach â dyn; nid yw efe yn adnabod yr hwn y mae efe yn diffynu ei dŷ, ac efe a fwyty ei gorph gyda'r tawelwch mwyaf. Yr amgylchiad canlynol a ddesgrifia ei gymmeriad yn gyflawn. Ar hwyr y dydd ar yr hwn y daethom i mewn i Alexandria, mi a aethum i'm llong i gael lleiniau glân. Yr oedd oddeutu unarddeg o'r gloch yn y nos pan ddaethum dra-

chefn i'r lan, ac yr oeddwn fáltir a banner oddiwrth fy lletty. Yr oeddwn yn rhwym i fyned drwy ddinas a gymmerasid ond yn unig oddiar y bore hwnw drwy ruthr, ac yn yr hon nid adwaenwn un heol. Ni allaswn drwy unrhyw wobwr ddenu fy ngwas i adael ei fâd a dyfod gyda mi. Mi a ddechreuais fy nhaith wrthyf fy hun, ac a aethum drwy y fyrwent, gan mai am y ffordd hon yr oedd genyf fwyaf o amcan. Pan ddaethum at y tai cyntaf, ymosodwyd arnaf gan lu o gwn ffyrnig, y rhai a wnaethant eu hymosodiad o'r drysau, a'r heolydd, a nenu y tai; a'r cyfarth a adseiniat o dŷ i dŷ, oddiwrth un teulu at y llall. Sylwais yn fuan, pa fodd bynag, nad oedd y rhyfel a gyhoeddais yn fy érbyn wedi ei ssilio ar unrhyw undeb; canys mor fuan ag y gadewais diriogaeth yr ymosodwyr, gyrwyd hwy yn ol gan rai ereill, y rhai a'm derbyniasant ar eu terfynau. Nid oedd dim i leihau tywyllwch y nos ond y ser, a rhyw dywyniadau y rhai ydynt yn wastadal yn y nos yn yr hinsawdd hwn. I oehelyd cyfarthiad y ewn, ac i gymmeryd ffordd yr hon y gwyddwn nad allai fy arwain ar gyfeiliorn, mi a adewais yr heolydd, ac a benderfynais fyned ar hyd y traeth; ond muriau a choed yn gorwedd ar hyd y llawr, y rhai a gyrhaeddent hyd y môr, a rwystrent fy ffordd. Wedi i mi ymlusgo drwy dwfr, i ddiane rhag y cwn, a dringo dros y muriau lle yr oedd y môr yn rhy ddwfn, wedi gwanhau drwy ofal a thrafferth, ac yn wlyb drosof, cyrhaeddais un o'n gwyliedyddion ynghylch hanner nos, gan ystyried mai y ci yw y mwyaf dychrynlyd o blâu yr Aiff." *Denon's Tour in Upper and Lower Egypt, p. 32.*

Salm 35. 7. *Heb achos y cuddiasant eu rhwyd i mi mewn pydew.* Llefaryd hyn mewn cyspiriad at yr arferiad o gloddio pydewau, a gosod rhwydau ynddynt at ddal anifeiliaid gwylltion; maent yn cael eu cuddio â gweilt, neu lwch, neu ryw bethau cyffelyb, fel na chanfyddir hwynt.

Cadben Knox (*Historical Relation of Ceylon, part 1, chap. 6*) a ddywed fod trigolion yr ynys hono yn dal y baedd gwyllt mewn pydewau wedi eu cloddio i ddyfnder cyflew, a pholion llymion wedi eu sicrhau yn ddirgel o'u mewn.

"Yr Arabiaid a gloddiant bydewau lle y sylwant fod y llewod yn arfer cyrchu, ac a'u gorchuddiant yn ysgafn â chyrs, neu gangau bychain coed; ac fel hyn hwy a'u twyllant ac a'u daliant yn fynych. Sylwa Pliny ar yr un arferiad." *Shaw's Travels, p. 172, 4to.*

Salm 59. 6. *Dychwelant gyda'r hwy, cyfarthant fel cwn, amgylchant y ddinas.* Cyfeiria hyn, tebygol, at udiad y ci, yr hwn yw y swm mwyaf anhyfryd a wna y creadur hwnw. Yr oedd udiad cwn yn cael ei ystyried yn beth daroganol yn mysg yr hynafiaid, a chyfrifir hyny yn fynych ganddynt hwy yn mysg rhyfeddodau. Dywed Virgil i'r rhyfeddod hwn gymmeryd lle ar farwolaeth Cesar.

Mr. Park (*Travels in Africa*, p. 88) a ddywed, "Rhai o'r ani-feiliaid hyn (bleiddiaid a *hyenas*) a dalasant ymweliad â ni ar hwyr y 27ain. Deallodd y cwn eu bod yn mesu at y pentref; ac ar yr amgylchiad hwn, er syndod, ni chyfarthodd y cwn, ond udasant yn y modd mwyaf truenus." Gan hyny yr oedd yn naturiol iawn i bobl ag oeddynt mor ofergoelus a'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid, i frawychu o herwydd y fath ddygwyddiad, ac i'w ystyried fel amgylchiad daroganus; canys ymddengys ei fod mewn gwirionedd yn dangos dychryn mawr yn y ci. Yn nhraddodiadau yr Iuddewon, y mae hanesion rhyfedd iawn gan y rabbiniaid am wahanol ymddygiadau cwn mewn tref, weithiau yn chwyrnu ac yn udo, ac ar amserau yn llawen a llawn chwareu. Yn esboniad *Bechai o Bump Llyfr Moses*, y mae yr ymadrodd canlynol:—"Ein rabbiniaid parchus ni gynt a ddywedent, pan udo y cwn, yna y daw angel marwolaeth i'r ddinas; ond pan y byddo y cwn yn chwareu, yna y daw Elias i'r ddinas." Ac mewn esboniad o'r un llyfrau gan un o'r rabbiniaid, mae geiriau fel hyn:—"Ein rabbiniaid parchus ni gynt a ddywedasant, pan byddo angel marwolaeth yn dyfod i ddinas, fod y cwn yn udo; ac mi a welais ei fod wedi ei ysgrifenu gan rabbi Jehuda, y Cyfiawn, ar amser pan udodd ci, ac y gwasgodd ei gynffon rhwng ei gluniau, ac y rhedodd o'r neilldu, rhag ofn angel marwolaeth; daeth rhyw ddyn, ac a droediodd y ci yn ol i'r lle o ba un y daethai allan, ond y ci a fu farw yn ddioed." Pa un a gymmerodd yr Iuddewon eu tyb am yr achos o udiad cwn oddiwrth genhedloedd ereill, neu a gymmerodd cenhedloedd ereill yr eiddynt hwy oddiwrth yr Iuddewon, sydd yn fatter na ellir yn awr ei benderfynu; ond y mae yn beth ag sy'n wirionedd, ac, efallai, yn rhyfedd iawn, fod tyb gyffelyb i hon yn ffynu yn mysg y werin bron o bob cenedl ar y ddaear. *Plutarch (Tract on Superstition)* a ddywed, "Cafodd Aristomedus, brenin y Messeniaid, mewn rhyfel a gadwai yn mlaen â'r Lacedemoniaid, ei frawychu gymmaint gan sygythion y prophwydi, pan udai y cwn fel

bleiddiaid, ac y tyfasai llysietuyn gwyllt gerllaw aelwyd ei dŷ, fel y lladdodd efe ei hun ntewn llewyg o anobaith.”

Salm 59. 14. *Cwn.* Er nad yw cwn yn cael eu goddef yn y tai yn y Dwyrain, a bod pobl yn ofalus iawn i'w gochelyd, rhag iddynt gael eu halogi ganddynt, y mae rhifedi mawrion o honynt yn eu heolydd. Ni pherthynant i bersonau neillduol, ac ni phorthir hwynt yn rheolaidd, ond casglant eu hymborth fel y gallant. *Travels of Ali Bey, vol. 2, p. 44.* Pa fodd bynag, ystyrir fod yn iawn gofalu ychydig am danynt; ac y mae pobl haelionus yn fynych yn rhoddi arian i gigyddion ac ereill am eu porthi; a gâd rhai gymmyn-roddion ar eu marwolaeth i'r dybenion hyny. *Le Bruyn, tom. 1, p. 361.* Ymddengys yr edrychid yn anmbarchus ar gwn yn mysg yr Iuddewon, 1 Sam. 17. 43; 2 Bren. 8. 13, eto yr oedd ganddynt lawer o honynt yn eu dinasoedd. Nid oeddynt yn cael eu cau yn eu tai na'u buarthau, ond ymddengys eu bod yn gorfod myned i geisio eu hymborth lle y gallent ei gael. Salm 69. 6, 14, 15. Ymddengys y gorchymynid, er nid yn uniongyrchol, i'r Iuddewon ofalu rhyw gymmaint am danynt. Exod. 22. 31.

Dywed *Busbequius*, fod y Tyrciaid yn cyfrif y ci yn greadur afaa a budr, ac am hyny eu bod yn ei yru oddiwrthynt; nad yw y creaduriaid hyn yno yn perthyn i neb yn neillduol, a'u bod yn gwylio yr heolydd a'r cymmydogaethau yn hytrach na phersonau neillduol, ac yn byw ar yr hyn a deflir allan.”

Yn heolydd Caercystenyn, y mae rhifedi anghredadwy o gwn, y rhai yr ymddengys eu bod oll o'r un rhywogaeth, yn lled debyg i'r cwn defaid ni. Maent yn peri aflonyddwch mawr. Mae udiadau y creaduriaid newynog hyn, y rhai ydynt bron trengu o eisiau ymborth, yn ystod y nos yn wir ddychrynllyd. Gan nad oes ganddynt feistri i ofalu am danynt, maent yn gorfod myned o amgylch i geisio eu hymborth, yr hwn a grafant allan o'r budreddi a fwrir o'r tai. Mae yr awdurdodau mor esgeulus am lendid, fel mai y cwn a'r fwlturiaid sydd yn glanhau mwyaf ar yr heolydd yn Nghaercystenyn. *Wittman's Travels in Turkey, p. 17.*

“Mae y cwn, y rhai ydynt liosog yn mhob tref a phentref yn India, yn cymmeryd ymaith bob math o friw-fwyd. Maent yn aml, trystfawr, a thrallodus, yn enwedig i deithwyr. Nid oes ganddynt berchenogion; maent yn gyffredin yn byw ar elusen, ac ni leddir hwynt un amser. Maent yn fynych yn

myned allan yn heidiau i hela, fel y *jackals*\*, i'r rhai y maent yn debyg mewn llawer o ystyriaethau ereill." *Forbes's Oriental Memoirs*, vol. 3, p. 67.

"Y cwn, y rhai ydynt yn llai ffawdus na'r cathod, nid oes ganddynt feistri; gadewir hwynt i fyned ar hyd yr heolydd, a chymmeryd rhyw ymborth a allont gasglu. Maent yn lliosog iawn, a saethwyd llawer o gannoedd o honynt gan y Ffrancod mewn gwahanol drefi. Maent yn ffyrnig iawn yn Alexandria, gan eu bod yn rhywogaeth gymmysglyd rhwng y ci a'r *jackal*. Ymosodwyd arnaf ganddynt fwy nag unwaith yn y nos, wrth fyned heibio i dir claddu." *Walpole's Memoirs of Turkey*, vol. 1, p. 397.

*Dr. Russell* a sylwa yn nghylch Aleppo (*Nat. Hist.*, p. 60), fod cwn yn aml yn eu heolydd heb berchenogion iddynt, ac yn byw ar y pethau mwyaf braenllyd.

Salm 144. 13. *Fel y byddo ein defaid yn dwyn miloedd a myrddiwn yn ein heolydd.* Mae defaid yn nodedig am eu ffirwythlondeb mawr, o herwydd yr hyn dywedir eu bod yn dwyn miloedd a myrddiwn, sef, rhifedi dirfawr; a dywedir y gwisgir y dolydd â defaid, Salm 65. 13. Dangosodd *Bochart* (vol. 2, pp. 432, 510) fod defaid y Dwyrain nid yn unig yn dwyn dau oen (*Caniad Solomon*, 4. 12), ond weithiau dri neu bedwar ar y tro, a hyny ddwy waith yn y flwyddyn. Sylwa Syr Thomas Brown hefyd, (*Miscellany Tracts*), y "rhaid i ni beidio barnu am ddefaid Canaan wrth yr eiddom ein hunain. Mae defaid y wlad hono yn fynych yn dwyn dau oen, ac weithiau dri neu bedwar."

Diar. 22. 13. *Medd y diog, Y mae llew allan; fe'm lleddir yn nghanol yr heolydd.* Mae y dyn diog yn hoffi cysgu; ac, i guddio ei ddiogi, efe a ddefnyddia yr eagus, pan fyddo efe i fyned allan ar doriad y wawr yn y bore, ac i ddilyn ei alwedigaeth, y gallai efe syrthio yn ysglyfaeth i ryw greadur gwyllt ag sydd yn rhodio o amgylch yn ystod y nos. Pan dywylllo hi, y mae y bobl yn y Dwyrain yn eau eu hunain i mewn yn eu tai, rhag ofn anifeiliaid gwylltion. Fel hyn y mae *Alvarez*, yn ei lianes am Ethiopia, yn dywedyd, "mor fuan ag y tywylllo hi, nid oes un dyn i'w weled allan yn Abyssinia, rhag ofn creaduriaid gwylltion, o ba rai y mae y wlad yn llawn."

Diar. 26. 13. *Y mae llew mawr ar y ffordd, medd y diog,*

\* *Jackals*. Creaduriaid bychain mewn gwledydd anial, y rhai y dywedir eu bod yn codi ei ysglyfaeth i'r llew.

*y mae llew yn yr heolydd.* “Yr oedd dau Hottentotiad, a’u pedrolfeni, yn prysuro o’n blaen, fel y gallent fod y cyntaf i ddyfod at y dwfr; ond nid oeddem wedi colli ein golwg fawr o amser arnynt wedi toriad y wawr, eyn i un o honynt ddyfod yn ol mewn brys mawr am gymmorth i yru o’u ffordd lew mawr yr hwn a welsent yn gorwedd o’u blaen yn eu ffordd. Yr oeddynt hwy wedi ymdrechgu ei yru ymaith, eto yr oeddynt mewn gormod o fraw i danio arno, rhag iddynt, gan nad oedd yn ddigon goleu, fethu yn eu hamcan, ac iddo ef ddychwelyd y moes iddynt drwy lamu arnynt. Er na wnelai y creadur eu boddio drwy fyned o’r ffordd, efe a’u ffafriodd â rhuad, yr hyn a effeithiodd i beri iddynt hwy sefyll yn ol nes y daethom ni i fynu atynt, pan barodd swm cynnifer o bedrolfeni yn nesau, iddo fyned ymaith heb ein hafionyddu.” *Burchell’s Travels in Southern Africa, vol. 1, p. 306.*

Esay 1. 3. *Yr fych a edwyn ei feddiannydd.* Mewn gwahanol barthau o Rwssia, mor fuan ag y codo yr haul, mae y bugail yn feunyddiol yn chwythu ei gorn. Pan raddir yr arwydd adnabyddus hwn, agorir drysau yr holl feudai, yna mae y ceffylau, y mulod, yr asynod, y geifr, y gwartheg, &c., yn ufuddhau i’r gorchymyn heb anewyllysgarwch. Mor fuan ag y crynhoir hwynt at eu gilydd, efe a â o’u blaen, a hwythau gyda’r rhwyddineb mwyaf a ganlynant eu harweinydd i’r cyfryw feusydd ag a welo efe yn fwyaf cyfleus iddynt. Wrth ail arwydd hwy a arweinir i’r dwfr, a thrwy drydydd arwydd arweinir hwynt adref drachefn; pan yr â pob un i’w le priodol, heb yr anhresn lleiaf. *Nature Delineated, vol. 3, p. 25.*

Esay 5. 28. *Carnau ei feirch.* “Mae pedoli ceffylau drwy hoelio llafnau o haiarn wrth y carnau, yn beth hollol ddiweddar; ac yr oedd yn anadnabyddus i’r hynafiaid, fel yr ymddengys oddiwrth ddystawrwydd yr ysgrifenwyr Groegaidd a Rhufeinig, yn enwedig y rhai sydd yn ymdrin â meddyginiaeth ceffylau, y rhai ni allent beidio son am beth mor eglur. Yr oedd y pedolau o ledr ac o haiarn, ag a goffeir; y pedolau o aur ac o arian, â’r rhai y pedolodd Nero a Poppea eu mulod, a’r rhai a arferid yn achlysurol i arbed carnau anifeiliaid tyner, neu a ddefnyddid oddiar falchder, yn wahanol iawn; yr oeddynt yn cael eu gwneuthur i fyned am yr holl garn, fel y mae esgid dyn yn myned am ei droed; a rhwymid hwynt am y troed. O herwydd hyn yr oedd cryfder a chadernid carn ceffyl o lawer mwy pwys gyda

hwynt na chyda ni, a chyfrifid hyny y peth penaf mewn ceffyl da. O herwydd y diffyg o'r diffyniad celfyddydawl hwn i'r carn, yr hwn sydd gan ein ceffylau ni, llefara Amos (6. 12) am waith meirch yn rhedeg ar graig fel peth yr un mor annichonadwy ag yw aredig y graig âg ychain. Rhaid ystyried yr amgylchiadau hyn, mewn trefn i weled grym a phriodoldeb y dull yn yr hwn y gesyd y prophwyd allan nerth a rhagoriaeth gwŷr meirch Babilon, y rhai a wnant i fynu ran fawr o nerth y fyddin Assyr-iaidd. *Bishop Lowth.*

Esay 13. 14. *Hi a fydd megys ewig wedi ei tharfu.* Mae hela yr *antelope* yn ddifyrwch ag sydd mewn bri mawr yn y Dwyrain; ond, o herwydd buandra anarferol y creadur hwn, gorchwyl anhawdd iawn ydyw. Pan frawychir hi gyntaf, hi a â fel saeth oddiar y bwa, ac a âd y ceffyl hela goreu a'r ci cyflymaf yn mhell ar ol. Mae yr heliwr yn gorfod cymmeryd cymmorth hebog ag a fyddo wedi ei ddsygu at y gorchwyl, i afaelyd yn y creadur, a rhwystro ei gerddediad, fel y caffo y cwn amser i ddyfod i mewn. *Dr. Russell (History of Aleppo, vol. 2, p. 153)*, a ddeagrifia eu dull yn hela yr *antelope* fel hyn:—"Hwy a oddefant wŷr ceffylau, heb fod cwn gyda hwynt, os deuant yn araf, i nesu gerllaw iddynt, ac nid ymddangosant yn sylwi llawer ar fintai o deithwyr a elo heibio o fewn i ychydig bellder iddynt; ond y funud y brawychont, hwy a lamant ymaith, gan edrych yn ol yn awr ac eil-waith; ac os gwelant y dylunir hwynt, gosodant eu cyrn yn ol, agos i gyffwrdd â'u hysgwyddau, a ffoant gyda chyflymdra ag sydd braidd yn anghredadwy. Pan ymddangoso cwn, brawychant yn ddi-oed; o herwydd hyn yr helwyr a ymdrechant ddyfod mor agos ag y gallont at yr *antelope* yn ddirgel, cyn y gollyngont y cwn ymaith; ac yna, gan wasgu yn mlaen â'u holl nerth, gollyngant yr hebog, yr hwn, wedi cael ei ddsygu i afaelyd yn nghern y creadur, a rwystra ei fynediad, nes y caffo y milgwn amser i ddyfod i mewn."

Esay 13. 21, 22. *Ond anifeiliaid gwyllion yr anialwch a or-weddant yno, &c.* "Canfuwyd neuadd o faintioli dirfawr yn nghylch dechreuad y canrif diweddaf, yr hon a guddiasid dan ddadfeiliau ei nen bwysig. Y colofnau ardderchog ag a fuont yn cynnal i fynu ei mydau (*roofs*); y delwau ag a fuont yn addurno ei chonglau; a'r mynor hardd ag oedd yn ei phalmant, a gafwyd yn y llwch, a chawsant eu cymmeryd ymaith yn ddi-oed gan berchenog y tir i addurno ei balas a'i ystafelloedd.



Mae y neuadd hon yn awr wedi cael ei glanhau; a gwelir ynddi feithder mawr o fur noeth, a lle helaeth yn y canol yn cael ei orchuddio gan chwyn. Fel yr oeddym yn sefyll yn sylwi ar ei helaethrwydd, a'i gwahanol ranau, neidiodd cadnaw o dwll, yr hwn a fuasai unwaith yn ffenestr yn un pen, ac wedi croesi y canol, dringodd i fynu ar hyd y mur drylliedig ar y tu arall, ac a ddiflanodd yn y dyrysni. Yr olwg hon ar anghyfannedd-dra a ymddangosai bron yn gyflawniad o'r rhagdy-wediad arswydus hwnw, Esay 13. 21, 22." *Eustace's Classical Tour, vol. 1, p. 379.*

Esay 21. 7. *Cerbyd camelod.* Yn mysq y Tartariaid yn y Crimea\*, ni a welsom lawer o fualau (*buffalos*) a chamelod; cyfarfuasom âg amrywiol o'r olaf yn tynu mewn ceir ag iddyn: ddau olwyn, gwasanaeth yr hwn y tybiwn i nad ydynt mor gymhwys ato ag at ddwyn beichiau. Ac er y coffeir am gerbyd camelod gan Esay, nid wyf fi yn cofio i mi glywed am y fath arferiad mewn un lle arall. *Bishop Heber's Note on Clarke's Travels in the Crimea, p. 576.*

Esay 32. 20. *Gwyn eich byd y rhai a hauoch ger llaw pob dyfroedd; y rhai a yrwch droed yr fch a'r asyn yno.* Dywed *Chardin*, "Mae hyn yn ateb yn gywir i'r dull o blanu *rice*, canys hwy a'i hauant ar y dwfr; a chyn hau, tra y mae y ddaear yn orchuddiedig gan ddwfr, hwy a gymmerant ychain a cheffylau ac asynod i sathru y tir: â y creaduriaid hyn yn fynych i ddwfr hyd hanner eu coesau wrth y gorchwyl hwn; a dyma y ffordd i barotoi y tir at dderbyn yr hâd. Megys y maent yn hau y *rice* ar y dwfr, felly y maent yn ei drawsblanu yn y dwfr." *Harmer, vol. 1, p. 280.*

"Mae tir *rice* yn cael ei orlifo o amser hau agos hyd amser cynhauaf. Bwrir yr hâd yn gyffredin ar y dwfr. Pan byddo y planhigion *rice* yn nghylch dwy droedfedd o uchder, maent yn cael eu trawsblanu." *Dr. Clarke's Travels in Egypt, vol. 3, p. 30.*

"Mae *rice* yn cael ei hau, yn y rhan isaf o'r Aipht, o fis Mawrth hyd fis Mai. Yn ystod gorlifiaid y Nilus, gorchuddir y meusydd gan ei dwfr; ac mewn trefn i'w gadw yno cyhyd ag y gellir, codir cloddiau bychain o amgylch pob macs, i'w attal i redeg ymaith. Mae ffosydd at ddwyn diwallrwydd newydd; canys, mewn trefn i beri i'r planhigyn gynnyddu, rhaid dyfrhau i

\* *Crimea.* Ardal yn neheudir Rwsia, nid yn mbell oddiwrth y Mor Du

wraidd yn barhaus. Mae y tir yn oael ei wlychu yn y fath fodd, fel mewn rhai lleoedd y sodda personau at eu hanner. Mae *rice* agos chwech 'mis cyn y delo i addfedrwydd, a thorir ef i lawr yn gyffredin tua chanol Tachwedd. Yn yr Aipht ni wyddant am wasanaeth y *ffust*; i wahanu y grawn oddiwrth y gwellt, y mae y trigolion yn paratoi, â chymmysg o ddaear a thom colommenod, lorïau helaeth, wedi eu curo yn dda, a'u gwneuthur yn lân iawn. Taenant y *rice* arnynt yn haenau tewion. Mae ganddynt fath o gâr-llusg (*sledge*); mae yn gyffelyb o ran ei ddull i'r ceir-llusg a ddefnyddir at symud beichiau yn heolydd ein dinasoedd ni. Rhwng dau olwyn, neu ddwy ochr, y car hwn, y mae tair rhes o olwynion bychain, oll o haiarn. Mae eisteddfa drosgl wedi ei gwneuthur ar y câr, lle yr eistedd dyn yn gyru dau fêch, y rhai ydynt wedi eu gosod wrth y peiriant, ae ânt yn mlaen yn araf o amgylch, dros bob rhan o'r crug *rice*, nes y byddo y grawn oll wedi ei gael oddiar y gwellt. Pan byddo wedi ei ddyrnu fel hyn, lledir ef allan dan yr awyr i sychu. Mewn trefn i'w droi, rhodia amrywiol o bobl ochr yn ochr drwyddo, a phob un o honynt â'i droed a wna gwys yn yr haen, ac fel hyn hwy a droant y cwbl, fel y caiff y rhan isaf ei sychu." *Sonnini's Travels in Upper and Lower Egypt*, p. 145.

Esay 63. 13, 14. *Yr hwn a'u harweiniodd hwynt trwy y dyfnderau, fel march yn yr anialwch, fel na thrangwyddant? Fel y disgyn anifail i'r duffryn, y gwna ysbryd yr Arghoydd iddo orphwys: felly y tywysaist dy bobl i wneuthur i' enw gogoneddus.* Mae y gyffelybiaeth a ddefnyddir yma gan y prophwyd wedi ei chymmeryd oddiwrth ymddygiad yr Arabiaid gwylltion yn dianc rhag, ac yn gochelyd cael eu dilyn gan eu gelynyon.

Mae y ceffylau Arabaidd yn awr yn nodedig am y cyflymdra gyda pha un y diangant o gyrhaedd tywysogion cryfion; y rhai weithiau a gynnygiasant eu dilyn. Yr oedd gan benaeth mawr Mynydd Carmel gaseg nodedig; canys ymddengys eu bod yn dewis cesig i farchogaeth arnynt o flaen y meirch, ac hyd yn nod o flaen ceffylau dyspaddedig, fel yn fwy addas iddynt; o herwydd eu bod yn ddystawach, yn fwy llonydd, yn well i oddef blinder, newyn, a syched, rhinweddau ag y maent wedi cael allan drwy brofiad eu bod yn eu meddu i raddau helaethach na'r rhai gwrryw; ni buasai efe yn ymadael â'r gaseg hon am bum mil o goronau; o herwydd yr oedd hi wedi ei ddwyn ef dros dri

dîwrnod a thair nos yn olynol heb fwyta nac yfed, a thrwy hyn wedi ei waredu ef o law y rhai a'i dylynt. *Voy. dans la Pal., ch. 11, p. 163.*

Mae y cyfryw hanes am farçh yr anialwch yn cymmeryd ymaith bob gwaeledd oddiar y rhan hon o ddarluniad y prophwyd (adn. 13), a rhydd y bywiogrwydd mwyaf yn y desgrifiad o'r dygiad o Israel drwy y Môr Coch, a'u gwarediad oddiwrth Pharaoh, pan ymlidiodd efe ar eu hol, a chydag ef fyddin fawr, ac mewn ffyrnigrwydd mawr; eto hwy a ddygwyd ymaith, drwy gyfryngiad dwyfol ag oedd yn debyg i waith Arabiaid yr anialwch yn fynych mewn modd rhyfeddol, o ddwylaw y tywysogion cryfion hyn ag ydynt weithiau wedi cynnyg eu goddiweddyd; yn enwedig pan chwanegom, fod ceffylau ereill y Dwyrain yn arfer symud yn araf, gyda rhwysg mawr, eu bod yn cael eu harnaisio mewn modd gwych iawn. Yn y dull olaf hwn y mae y Tyrciaid yn arfer marchogaeth, medd *Niebuhr*, tra mai am gyflymdra y mae Arabiaid yr anialwch yn gofalu mwyaf.

Os nad ydynt mor ddiogel ar eu traed a'r mul, yr hyn a gadarnha *Dr. Shaw* (p. 166), rhydd hyn reswn am y cofiad a wneir yn yr adnod hon na thrangwyddant, wrth gymharu gwaredigaeth Israel rhag Pharaoh, i waith Arabiaid yr anialwch yn dianc, o herwydd ei sydynrwydd; gan nodi ar yr un pryd na ddygwyddodd un ddamwain iddynt yn yr enciliad hwn, yr hyn, weithiau, a ddygwydd i'r ceffylau sicraf ar eu traed.

Gyda golwg ar fynediad diadellau i waered i'r dyffryn, gellir ei ddeall mewn dwy ffordd, ond pob un o honynt yn barhad o'r un gymhariaeth—gwaith yr Arabiaid yn dianc rhag eu hymlidwyr.

“Y maent yn symud pan gaffont fraw,” medd *D'Arvicur*, “mewn yn nghylch dwy awr o amser, gan yru ymaith gyda hwynt eu da a'u defaid, gan gymmeryd eu teuluoedd gyda hwynt, a gosod eu dodrefn ar gefnau mulod, neu gamelod, a myned yn ddiwed i'r anialwch.” Megys y gwneir hyn i ddiogelu eu hunain rhag eu hymlidwyr, pa mor gyfleus a hyfryd bynag y gall y bryniau fod iddynt at borthi eu hanifeiliaid, rhaid fod ymneillduo yn fwy hyfryd, ar y cyfryw achlysuron, i ryw dyffryn dirgel, fel y gallont fod yn fwy cuddiedig oddiwrth eu gelynion, y rhai a allant ymdrechgu eu dilyn. At hyn, tebygol, y mae y prophwyd yn cyfeirio yma.

I'r cyfryw leoedd y mae Arabiaid Barbary yn ymneillduo pan ewyllysiont fod yn guddiedig, yn ol *Dr. Shaw*, yr hwn a ddywed

Wrthym iddynt, "yn nghylch hanner y prydawn ddechrau edrych allan am wersylloedd yr Arabiaid, y rhai, i attal y fath fanteioedd â hwynt i fyw ar eu traul heb dalu dim, a gymmerent ofal i wersyllu mewn coedydd, dyffrnoedd, neu yn y lleoedd lleiaf amlwg; ac, yn wir, oddieithr iddynt ganfod eu diadellau, mwg eu pebyll, neu glywed eu cwn yn cyfarth, mai drwy anhawsdra mawr y deuent o hyd iddynt, os er chwilio y caent hwynt allan yn y diwedd."

Jer. 4. 7. *Y llew a ddaeth i fynu o'i loches.* "Wedi i ni gyda brys ymarfogi, a gadael Philip i ofalu am y pedrolfeni, ni a aethom yn fywiog rhag ein blaen drwy y dyrysni. Gwelem yn aml iawn ôl traed dirfawr yr *hippopotamus*. Yr oedd *Gert*, yr hwn ni welsai y creadur hwn erioed, yn mwynhau y fer-daith hon gymmaint a minau, ac yr oeddem yn awyddus am foddio ein cywrain-ymofyngarwch. Yr oedd efe wedi teithio llai nag un o'r dynion ereill, ac am hyny yr oedd yn dysgwyl gweled mwy o bethau newyddion. Wrth fyned rhag ein blaen, yr oedd ein holl siarad am fuwch y môr, fel y galwai y trefedigion y creadur hwn; a chan fod ein meddwl gymmaint arno, ni sylwasom ond ychydig ar y blodau a addurnent ymyl ein llwybr, nac ar yr adar a gyd-byncient ar gangau y coed uwch ein penau. Ond yn sydyn efe a safodd, a chan waeddi allan mewn cryn fraw, Edrychwch yma, Syr. Mi a edrychais, ac a welais ôl traed llew a fuasai yn ddiweddar, yn nghylch awr yn ol, yn ol ein tyb ni, yn yfed dwfr yn yr afon. Terfynodd hyn ein siarad am yr *hippopotamus*, ac yn awr â llais is, ac mewn dull mwy difrifol, ni siaradai efe am ddim ond llewod, a'r perygl i ddyn fod wrtho ei hun mewn lle mor goediog. Y lle hwnw, yr hwn ychydig o funudau yn ol yr edrychid arno, fel lle hyfryd a chysgodawg, yn awr a ystyrid fel ymguddfa llewod a'r holl fwystfilod ysglyfaethus." *Burchell's Travels in Southern Africa, vol. 1, p. 49.*

Jer. 49. 19. *Wela, fel llew y daw i fynu oddiworth ymchwydd yr Iorddonen.* Mae y gymhariaeth a arfera y prophwyd yn y geiriau hyn yn cael ei gwneuthur yn eglur gan yr hanes a rydd Mr. Maundrell am afon yr Iorddonen. "Ar ol disgyn," medd efe, "dros geulan nesaf allan yr Iorddonen, y mae yn nghylch yr wythfed ran o filltir o dir gwastad cyn y deuer at geulan briodol yr afon. Mae yr ail geulan hon yn cael ei gorchuddio yn y fath fodd gan goed a dyrysni, fel na ellir gweled y dwfr hyd nes yr

elir trwyddynt. Yn y dyrynsi hwn gynt (a dywedir yr un peth am dano yn y dyddiau hyn) arferai amrywiol fathau o fwystfilod rhaius lechu, y rhai a yrid allan o'u llochesau gan ymchwydd yr Iorddonen, yr hon a roddodd achlysur i'r gymhariaeth hon.\* *Journey from Aleppo to Jerusalem, p. 82.* Dywedir gan un arall hefyd fod llewod yn ddirifedi yn crwydro drwy yr hesg a'r manwydd ar geulanaŷ afonydd Mesopotamia.

Dywed *Niebuhr*, "Mae ceulanaŷ yr Euphrates, mewn rhai manau, yn isel iawn, lle y mae llawer iawn o frwyn, ac afndra mawr o faeddod gwylltion."

"Mae dyrynsi tew, gan rwyaf, dros y tir gwastad ar hyd ymyl yr Iorddonen, lle y caiff anifeiliaid gwylltion gysgod rhagorol; ac megys y gall yr Iorddonen lifo dros ei cheulanaŷ, pan gyfodo hi gan y gwlaw, hyd nes y gorchuddio y gwastadedd isaf hwn, er na chyrhaeddai hi y geulan uchaf, tebygol iawn fod y llewod yn cael eu gyru allan oddi-yma gan y llif, yr hyn a roddodd achlysur i'r gymhariaeth a arfera y prophwyd." *Buckingham's Travels in Palestine, p. 314.*

Mewn rhai lleoedd mae glanaŷ yr Iorddonen yn cael eu gorchuddio gan ddyrynsi, fel y mae peth anhawsdra i un fyned drwyddynt, a dyfod i olwg y dwfr. Dywed teithwyr ereill fod y coed hyn yn ymguddfa i lewod a chreaduriaid ysglyfaethus ereill, y rhai a yrir allan ar amser gorfliad yr ason.

Dan. 6. 7. *Bwrw i ffau y llewod.* Yn *Morocco*\* mae gan y brenin ffau llewod, i'r hon y mae dynion, yn enwedig Iuddewon, weithiau yn cael eu bwrw; ond y mae yr olaf yn gyffredin yn dyfod allan heb gael eu niweidio, oblegid mai Iuddewon yw ceidwaid yr anifeiliaid hyn, y rhai a allant, heb berygl, fod gyda hwynt, a ffon yn eu llaw, ond iddynt ofala myned allan yn ngwysg eu cefnau, gan na oddef y llew i neb droi ei gefn arno. Nid yw yr Iuddewon ereill yn goddef i'w brodyr fod yn hwy na thros nos yn mysg y llewod, o herwydd yn amgen y gallent fyned yn rhy newynog; ond hwy a'u prynant ág arian, yr hyn yn wir yw amcan y brenin." *Host's Account of Morocco, p. 290.* Rhydd yr un hanesydd, mewn lle arall, y desgrifiad canlynol o ffau y llewod. "Yn un pen o'r palas brenhinol mae lle i estrysiaid a'u rhai bychain; a thu hwnt i'r pen arall, rhyngddo a'r mynyddoedd, mae ffau llewod helaeth, yr hon sydd dwl petryal helaeth yn y ddaear, a rhaniad ynddo, yn nghanol

\* *Morocco.* Ymerodraeth helaeth yn *Affica.*

yr hwn y mae drws, yr hwn y mae yr Iuddewon, y rhai ydynt yn gorfod eu cynal a'u cadw am ddim, yn gallu ei agor a'i gau oddifynu, ac y maent yn denu y llewod, drwy osod bwyd o'u blaen, o un rhan i'r llall, fel y gallont lanhau y llall. Nid oes tŷ uwchben, a gall dynion edrych i lawr dros y mur, yr hwn sydd lathen a chwarter o uchder."

Hab. 1. 8. *A'u meirch sydd fuanach na'r lleopardiaid.* Dywedir fod lleopardiaid, wedi eu dofi a'u dysgu i hela, yn cael eu dysgu i'r perwyl hwnw yn y Dwyrain, ac y daliant eu hysglyfaeth gyda chyflymdra rhyfeddol. Dywed *Le Bruyn* wrthym, iddo ef yn fynych weled y rhaglaw Tyrcaidd yn Gaza yn myned i hela *jackals*, o ba rai y mae rhifedi mawr yn y wlad hono, drwy ddefnyddio lleopard i'w dal, at yr hyn yr hyfforddasid ef o'i ieuenctyd. Yr heliwr a'i ceidw o'i flaen ar ei geffyl, a phan gyfarfyddo efe â *jackal*, y lleopard a neidia i lawr, ac a ymlusga yn mlaen hyd nes y tybio ei fod o fewn cyrhaedd iddo, ac yna efe a neidia arno, gan dafu ei hun 17 neu 18 troedfedd bob naid.

"Mae ganddynt ffordd ryfedd i hela *antelopes* mewn gwahanol barthau o deyrnas Guzerat, yn Hindwstan, â lleopardiaid, y rhai a hyfforddir at hyny. Mae yr helwyr ar gefnau ceffylau. Mae y lleopard yn cael ei fwgydu, a'i osod mewn cart gorchuddiedig, yr hwn a lusgir gan ychain; mae y ceidwad hefyd yn y cart yn orchuddiedig, yn dal y ffrwyn drwy ddrws dellt. Hwy a ânt rhagddynt yn araf, a'r heliwr yn cadw gryn bellder o'r tu ol. Gan fod *antelopes* yn liosog yn y wlad hon, nid ydynt yn hir cyn y gwelont rai o honynt. Gwelir hwynt yn gyffredin yn barau, ac weithiau yn ddiadelloedd. Mor fuan ag y gwelo y dyn yn y cart un o honynt, efe a esyd lumman coch bychan allan yn y pen ol i'r cart yn arwydd i'r heliwr, ac a â yn ei flaen. Yr *antelopes*, gan nad ofnant yr ychain a'r cart, a barhant i bori; pan ddelo y cart gerllaw, efe a saif; yna y dyn a dŷn ymait h y mwgwd oddiam lygaid y lleopard, ac a ddengys iddo yr *antelopes*, y rhai y mae bob amser yn awyddus i'w dilyn. Efe yna a ollyngir yn rhydd, ac a neidia allan o'r cart i'w plith. Yna y tynir y llumman i mewn, a'r heliwr a yra yn mlaen. Y lleopard yn wastad a neilldua ryw un allan, ac ni thry ar y ddehau na'r sawy i ddal un arall, er iddo syrthio yn ei ffordd. Yr *antelope*, ar y cyntaf, a reda lawer yn gynt na'r lleopard; ond yn cael ei frawychu, efe yn fynych a neidia i fynu: yr yna-

drechlon hyn a'i gwanyoha ef; pan y mae y llewpard yn dylun yn mlaen yn barhaus, nes y goddiwedda ei ysglyfaeth, pan y gwthia efe ef i lawr, yr ymeifi yn ei wddf, ac y sugna ei waed nes y digonir ef. Y ceidwad a ddwg aelod o gig dafad yn wastad yn y cart, yr hwn a defir i'r llewpard wedi iddo sugno y gwaed, pe amgen ni ollyngai ei afael nes y torai ei newyn. Dygwydda weithiau nad yw y ceidwad yn dyfod yn mlaen mewn pryd i attal i'r *antelope* gael ei ddryllio. Rheda rhai o'r *antelopes* dros dri chwarter awr, ereill ni redant hanner yr amser hwnw; a dygwydda yn fynych ei fod o herwydd ei fraw yn cael ei ddal yn gynt. Mor fuan ag y torir newyn y llewpard, efe a arweinir yn hawdd i'r cart, i'r hwn y neidia; ac y mae mor llonydd ag oen." *Parson's Travels in Asia*, p. 254.

Os oedd y ffordd hon o hela mewn arferiad yn amser Habaccuc, yr oedd y gyffelybiaeth yn ddigon adnabyddus i'r bobl gyffredin.

Zeph. 2. 14. *A diadellau a orwedlant yn ei chanol hi, holl anifeiliaid y cenhedloedd: y pelican a'r dylluan hesyd a lettyant ar gap, neu golofn, y drws.* Mae Chardin, wrth ddesgrifio colofnau ardderchog a welodd efe yn Persepolis, yn dywedyd fod ciconiaid (*storks*—adar a berchir gan y Persiaid) yn gwneuthur eu nythau ar ben y colofnau hyn gyda hydtra mawr, ac nad oeddynt mewn un perygl o gael eu hafonyddu.

"Yn bresennol y mae pentref Bournabat yn cael ei wneuthur i fynu o dai heirdd, a adeiladwyd yn ol dull Ewrop, y rhai a berthynant i farsiaidwyr Smyrna. Mae ynddo un lle agored, yn cael ei amgylchu gan fasnachdai gwychion, a'i gysgodi gan amrywiol o hen gedrwydd mawrion, ar gangau y rhai y mae nythau ciconiaid. Yr oedd yr adar hyn wedi dyfod o'r lle y treulient y gauaf ynddo ychydig cyn i ni fyned i Asia. Yr oeddynt yn symud o amgylch ar hyd nenau gwastad y tai, ac hyd yn nod ar hyd yr heolydd, heb gael dim aflonyddwch. Y fath, yn wir, yw hoffder y ciconiaid yn nhrigfa dyn, fel nad wyf fi yn cofio gweled eu nythau mewn un pren pell oddiwrth drigle dyn; ac y maent yn adeiladu hyd yn nod ar benau temlau Mohammedanaidd a thai annedd. Mae teithwyr, wrth rodio drwy ganol dadfeilau hen ddinasoedd, yn fynych yn cael eu cyffroi gan swn uchel rhai o'r adar teuluaid hyn, y rhai a safant ar weddill rhyw golofn, neu ar babell bugail." *Hobhouse's Journey through Albania*, p. 640.

Zech. 14. 20. *Ffrwynau y meirch.* "Yn y wlad hon y mae y rhywogaeth ardderchocaf o geffylau Arabia; mewn rhyfel neu er mwyn rhwysg y defnyddir hwynt yma yn benaf. Mae gan y llywodraethwr amrywiol o honynt, y rhai y mae yn hoff iawn genyf edrych arnynt. Bychâin ydynt, ond hardd eu golwg, a bywiog iawn. Cefais gyfle i weled hyn ddoe, pan wnaeth y gwŷr meirch eu hymddangosiad yn y betryal fawr. Yr oedd y ceffylau wedi eu trwsio yn hardd iawn, wedi eu haddurno âg aur, ac âg arian, crogai clychau o amgylch eu gyddfau, &c. Yr oedd y marchogion mewn dillad Tyrcaidd gwychion nodedig. Yr oedd yr olwg yn foddhaol iawn.

Mat. 21. 7. *A hwy a ddygasant yr asen, a'r ebol, ac a ddodasant eu dillad arnynt, ac a'i gosodasant ef i eistedd ar hyny.* "Y bobl y rhai oeddynt ar waith yn trin y tir yn y gymmydog-aeth a'n gwelsant yn glanio, ac a ddygasant eu hasynod gwaelion heb gyfrwyau na ffrwynau, i'n cynnorthwyo i ddyfod drwy y tywod. Yn lle cyfrwyau, hwy a ddefnyddiasant eu dillad gwlan, y rhai a blygasant ac a roddasant ar gefnau yr anifeiliaid; yr oedd gwaith gyru wrthynt yn hytrach na dal i mewn, ac yr oedd yn rhaid eu curo a'u symbylu mewn trefn i fyned rhagom ar ein taith." *Richardson's Travels, vol. 1, p. 120.*

Luc 2. 8. *Ac yr oedd yn y wlad hono fugeiliaid yn tros yn y maes, ac yn gwylid eu praidd liw nos.* Mae llawer o lwythau yn y Dwyrain yn cau eu diadelloedd i mewn dros y nos. *Lichtenstein*, wrth lefaru am y Caffariaid, a ddywed fod ganddynt le-oedd yn nghymydog-aeth eu bythod, lle y cauir eu hanifeiliaid i mewn dros y nos, i'w diogelu hwynt rhag bwystfilod rheibus. Mewn rhai pentrefi mae ganddynt le helaeth wedi ei gau i mewn i'w holl anifeiliaid, yr hwn yn y dydd, pan fyddo yr anifeiliaid yn eu porfa, a wasanaetha at ddybenion ereill.

Ioan 10. 3. *Y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henw.* "Wrth fyned allan yn y prydawn, daethum at y fan lle y cauent eu hanifeiliaid i mewn; yr oedd yno ddwy ferch yn godro y defaid. Yn gweled fod yno fwy na hanner cant o ddefaid, a bod y rhai a odrasid yn fuan yn ymgymysgu â'r lleill, gofynais iddynt pa fodd y gallent eu gwahaniaethu mor hawdd. "Oh," meddent hwy, "ni a'u hadwaenwn hwynt oll wrth eu henw." Yr ateb hwn ar unwaith a ddygodd i'm cof ac a egurodd y rhan werthfawr hono yn nghymmeriad yr Arglwydd



Iesu, Bugail mawr y defaid, y mae efe yn galw ei ddefaid ei hun erbyn eu henu. *Dr. Henderson's Iceland, vol. 1, p. 189.*

Ioan 10. 11. *Myfi yw y bugail da.* Fod y gymhariaeth hon yn berthynol iawn gyda golwg ar y personau yr ymddyddanai Crist â hwynt, a ymddengys oddiwrth sefyllfa a defodau y wlad. Yr oedd y rhan fwyaf o'u cyfoeth hwy yno yn gynnwysedig mewn defaid, ac y mae hanes Jacob a Dafydd yn enwedig, yn brofion nad oedd y gwaith o gadw y rhai hyn yn cael ei roddi yn gyffredin i weision a dyeithriaid. Yr oedd y plant yn y teulu, te, y meistri a'r perchenogion eu hunain, yn cymmeryd y gorchwyl hwn, ac yn ystyried nad oedd edrych at eu praidd yn waith anweddus iddynt hwy mewn un modd. Oddiwrth hyn, tebygol, y daeth y gymhariaeth gyffredin o alw brenhinoedd yn fugeiliaid eu pobl; o herwydd hyn hefyd yr oedd y prophwydi yn disgrifio y Messiah yn nghymmeriad bugail; a Christ, i ddangos mai efe oedd y person a fwriedid, a gymhwysa y cymmeriad iddo ei hun. Yr oedd dull y bugail o lywodraethu ei ddefaid yn y Dwyrain yn wahanol oddiwrth yr hyn ydyw gyda ni. Darllenwn am ei waith yn myned o'u blaen, yn eu harwain, yn galw ei ddefaid, ac am eu gwaith hwy yn ei ganlyn ac yn adnabod ei lais. Diau yr arferent hwy y cyfryw ffyrdd, er nad arferir hwynt gyda ni, wrth drin ein defaid. Gwel *Gen. 29. 9; 1 Sam. 16. 11, a 17. 15; 2 Sam. 12. 23.*

Mae pobl deheudir Affrica wedi dysgu hyd yn nod gwartheg ac yohain i ufuddhau chwibaniad. "Ychydig cyn machludiad haul, yr oedd yr holl wastadedd yn orchuddiedig gan anifeiliaid, y rhai yn ddiadelloedd lliosog a ddygasid i mewn i bob cwr, mewn ufudd-dod i orchymyn a roddasid drwy fath neillduol o chwibaniad â'r genau; â math arall o chwibaniad, y gwartheg blithion a neillduwyd oddiwrthynt. Mae y gorchwyl hwn, a thrin y laethdŷ, yn rhan o waith y gwrrywiad. Yn y bore, â math arall o chwibaniad, anfonir hwynt allan i bori. Yn wir, ymddangosai y bobl a'u hanifeiliaid yn deall eu gilydd yn berffaith." *Barrow's Travels in Africa, vol. 1, p. 131.*

"Maent weithiau yn defnyddio chwibanogl fechan wedi ei gwneuthur o asgwrn rhyw anifail, at roddi y cyfarwyddiadau angenrheidiol i'r anifeiliaid pan yn mhell."

"Mae y rhai ieuainc yn y teulu weithiau yn cael eu gosod i fagu hwyaid; mae yr adar hurtion hyn yma yn cyrhaedd gradd

whyfedd o addysg. Mae weithiau mewn un llestr lawer o gannoedd, y rhai, fel anifeiliaid pobl deheudir Affrica, ar yr arwydd o chwibaniad, a neidiant i'r dwfr, neu i'r glanau i gael bwyd, a chwibaniad arall a'u dwg yn ol." *Barrow's Travels in China*, p. 559.

Dywed haneswyr diweddar fod pobl Lapland yn rhoddi enwau i'w hyddod; pan oedd teithiwr yn y wlad hono yn chwennyachu cael hyddod i ddilyn ei daith, i feistr diadell chwythu mewn udgorn, yr hyn yn ddioed a ddygodd 16 neu 17 o'r creaduriaid hyn at ei fwthyn. Pan oedd pob peth wedi ei barotoi at ymadael, bu i'r perchenog sisial rhyw eiriau i'w clustiau, yr hyn, ebe efe, a fwriedid i hysbysu iddynt i ba ffordd yr oeddynt i fyned, ac yr oedd arferiad wedi gwneuthur eu clustiau yn gynnefin â'r swm hwarw, fel y dechreuasant eu taith mor fusa ag y derbyniodd pob un ei gyfarwyddyd.

## PENNOD XV.

### ADAR, TRYCHFILOD, AC YMLUSGIAID.

GEN. 49. 17. *Dan fydd sarff ar y ffordd, a neidr ar y lloibr, yn brathu sodlau y march, fel y syrthio ei farchog yn ol.* "Yr oeddwn yn brysio yn mlaen, pan yn sydyn y safodd fy nghamel danaf. Mi a lefarais wrtho, ond heb lwyddiant; mi a'i symbylais yn dyner, ond yn ofer; o'r diwedd tarewais ef, ac efe yn ddioed a fwriodd ei hun i'r naill du, gan fy nhafu i gryn bellder. Fy nhywswyr a redasant i fynu, nid i'm cynnorthwyo i, ond i weled a oedd y camel wedi ei niweidio; a dywedasant wrthyf, heb betrusder, oni buasai fy mod yn talu cymmaint o arian am wasanaeth eu camel, y cawswn dalu yn fy mherson fy hun; fod camel o fwy o wasanaeth i Arab na bywyd Cristion; ac na buasai yn llai trosedd i mi guro eu gwragedd a'u plant. Dyma y camel a daenellasad â llwch santaid; a'r achos o'n cweryl oedd, ei fod yn gwrthod myned heibio neidr fechan ag oedd wedi ymdorchi yn ymyl y ffordd."

Deut. 1. 44. *Ac a'ch gmlidiasant fel y gwpai gwenyn.* Mae gwenyn weithiau yn wrthwynebwyd dychrynlyd iawn. Hwy a fuont mor drallodus mewn rhai parthau o Crete, fel, yn ol *Pliny*, y bu i'r trigolion orfod gadael eu hanneddau. Dywed *Aellan* fod

rhai lleoedd gynt yn Scythia nad ellid myned iddynt o herwydd yr heidiau lliosog o wenyng ag oedd yn eu blind. Mr. Park a adrodda i rai o'i gymdeithion mewn modd annoeth gynyg yspeilio haid lliosog, yr hon a gawsant yn eu ffordd. Y creaduriaid bychain cyffroedig a ruthasant allan i ddiffynu eu meddiant, ac a ymosodasant arnynt gyda'r fath ffyrnigrwydd, fel yn fuan y bu raid i'r holl gwmpeni, yn wŷr, ceffylau, ac asynod, frasgamu ymaith â'u holl nerth. Ni adferodd y ceffylau byth, a brathwyd, lliaws o'r asynod mor greulon, fel y buont feirw y dydd canlynol.

1 Sam. 26. 20. *Megis un yn hela petriŷ yn y mynyddoedd.* "Yn nghylch pedwar o'r gloch yn y prydnewn, daethom i'r dyffryn yn yr hwn yr oedd gwersyll Mahannah wedi ei osod. Bu raid i'r Arabiaid holi cyn y gallent gael allan pa le i droi at y gwersyll; ac megis na buasant yn absennol ond ychydig o ddyddiau, gellir ffurfio rhyw ddrychfeddwl oddiwrth yr amgylchiad hwn am yr anhawsdra i ymosod ar y llwythau yn yr anialwch. Fel yr oeddym yn nesau, gwelsom orchwyl difyrus a diwyd iawn: yr oedd y merched yn canu, a'r plant yn brysur yn rhedeg ar ol y petrysiaid ieuainc i'w dal â chwn, gan nad allent eto ehedeg ond ychydig o bellder ar y tro." *Irby and Mangles's Travels in Egypt, &c., p. 260.*

Job 39. 13. *Adenydd a phlu i'r estrys.* Defnyddir plu yr heron a'r estrys yn awr yn ngwledydd y Dwyrain, fel addurniadau, ac yn enwedig mewn amser o lawenydd: rhesymol yw meddwl fod yr un arferiad gynt, ac, efallai, mor bell yn ol ag amser Job.

Mae y Tyrciaid, y rhai ydynt yn rhyfedd am rwysg, yn arfer y ddau fath hyn o blu ar ryw ddyddiau nodedig. Dywed haneswyr eu bod pan yn gwneuthur ymddangosiad rhwysgfawr, megys ar ddydd coroniad, yn gwisgo plu estrys ar y naill du i'w penwisgoedd; a bod ceffylau blaen yr ymerawdwr yn cael eu haddurno â phlu heron. A dywed haneswyr fod yr ymerawdwr ei hun ar achlysuron cyhoedd yn rhoddi plu yr heron yn ei benwisg. Pan welodd *Thevenot* ef yn marchog mewn rhwysg, i gyfarfod â chennadwr a anfonasid ato oddiwrth ymerawdwr Mogul, efe a wisgai yn ei benwisg ddau o blu yr heron, yn addurnedig â meini; un a'i ben i fynu a'r llall a'i ben i waered.

Arferir plu yr estrys mor gyffredin, fel y dywed *Maillet*, yn yr hanes a rydd am yr hyn a ddygir i'r Aipht gan y minteioedd

masnachwyr o Nubia, ei fod yn un o'r nwyddau a ddygir yno gan y masnachwyr, y rhai a ddygant gyda hwynt farsiaeth Ethiopia. "Anhawdd ydyw i un allu credu," medd efe, "y fath gyfoeth sydd gan y marsiandwyr hyn. O amrywiol barthau o Affrica, hwy a ddygant yma lwch aur, dahnedd cawrfilod, plu estrysiaid, ac amrywiaeth mawr o nwyddau ereill. Ond saif y fasnach yn benaf mewn dwy neu dair mil o negroaid, y rhai a ddwg y *caravans* i'w gwerthu yn yr Aifft, pob un o ba rai, a'u cymmeryd gyda'u gilydd, a gostia i'w feistr ddim llai na dau can *livre* \*.

Nid yw plu yr *heron*, pa fodd bynag, yn arwydd gwahaniaethol o freninoldeb, ac nid tywysogion a'u ceffylau yn unig a addurnir â hwynt; gwelodd *Thevenot* hwynt ar ben rhaglawn newydd yr Aipht pan ddaeth efe i mewn i Cairo. "Efe a wisgai benwisg a dau o blu *heron* yn sefyll yn syth ynddi. 'Ond mewn amser o lwyddiant yn unig, yr wyf fi yn meddwl, y gwisgir hwynt."

Megys y defnyddir plu yn mysg y Tyrciaid, felly defnyddid hwynt yn mysg yr Arabiaid hefyd yn ddiweddar. Pan roddodd *De la Roque* ei hun yn ngwisg Arab o radd uchel, yr oedd ganddo bluen estrys gerllaw pen ei waywffon; a phan gafodd y boneddigion Ffrengig y rhai a ymwelsant â brenin Yemen, yn achos y masnach mewn *coffee*, olwg ar yr orymdaith a'i canlynai ef i'w le o áddoliad, ar y dydd santaidd yn mysg y Mohammedaniaid, hwy a welsant hanner cant o geffylau 'wedi eu trwsio yn wych iawn, a chynnifer a hyny o gamelod, i'r rhai yr oedd gwisgiad hardd, a thuswau mawrion o blu estrysiaid ar eu penau. Yr oedd hyn oll er mwyn rhwysg, ac anrhydedd i'r dydd santaidd; canys nid oeddynt ond yn cael eu harwain o'i flaen, ac amrywiol o weithiau o amgylch y fan lle yr addolai efe, ac ni wnaed un gwasanaeth arall â hwynt.

Esay 34. 15. *Y fwlturiaid a ymgasglant yno hefyd, pob un gyd-a'i gymmar.* "Ar gorph ých marw gwelais amrywiol o fwlturiaid mawrion, yn ymborthi yn dawel iawn gyda rhifedi o frain. Gan mai dyma y tro cyntaf i mi weled y rhywogaeth hwn, sylwais yn fanwl iawn, drwy yspieन्द्रrych, ar ddull yr adar hyn. Yr oeddynt o faintioli mawr, yn araf eu symudiadau, a thrymaidd eu golwg, gan fod eu plu yn ddú, ac ymddangosent fel anifeiliaid rheibus, yn hytrach na fel rhai o drigolion pluog yr awyr.

\* *Livre*. Deryn o arian Ffrengig, gwerth oddentu 20 cent o'n harian ni.

Pan nad ydynt allan yn ceisio eu hysglyfaeth, ceidw yr adar hyn mewn rhyw graig anhygyrch, gan eistedd bron heb un symudiad mewn rhyw ddystawrwydd pruddaidd dros ddyddiau yn olynol, oddieithr i arogl rhyw ysgerbwd o bell, neu i newyn beri iddynt fyned allan, neu esgyn i fynu i barthau uchaf yr awyr, lle, allan o olwg, yr erys dros oriau, yn gwylio am arogl ymborth. Rhaid fod gan yr adar hyn arogliaid i raddau perffeithiach nag y gallwn ni ddychymygu." *Burchell's Travels in Southern Africa, vol. 1, p. 377.*

Jer. 8. 7: *Yr aran.* Mae symudiad adar ar amser neillduol bob blwyddyn, er ei fod yn codi oddiar aniantdeddf ynddynt, er hyny yn dangos gofal goruwch-reolawl y Creawdwr. Mae hanes yr aran yn rhoddi prawf nodedig o hyn. "Yn ddiwed wedi i ni lania, synwyd a boddiwyd ni gan haidd o adar, y rhai a welsom ar y cyntaf fel brycheuyn tywyll bychan yn yr awyr, yr hwn yn raddol a fwyhaodd fel yr oedd yn nesu, nes iddynt ddyfod mor agos fel y gallem sylwi ar eu dull yn ehedeg. Hwyl a aent rhagddynt drwy yr awyr mewn math o hanner cylch, yn yr hwn yr oedd amrywiol o gylchau bychain. Gall- esid meddwl eu bod yn barhaus yn ymgystadlu â'u gilydd; gwelem y rhai olaf yn myned yn mlaenaf, a'r rhai blaenaf yn myned yn olaf; ac eto y cwbl gyda'r fath drefn, fel pe buasent yn gweithredu wrth gynllun rhag-osodedig, yn yr hwn y deallai ac y cyflawnai pob un ei ran gyda rhwyddineb a manylwch, y naill o honynt fel y llall. Yr oeddynt yn rhy uchel, yn yr awyr i ni glywed swm eu hadenydd, na deall yn sicr pa rywogaeth o adar oeddynt; ond barnem mai aranod (*cranes*) oeddynt. Hwyl a ehedent o'r gogledd i'r deheu, gan ddylyn llwybr yr afon, mor bell ag y gallai ein golwg ni eu canlyn." *Richardson's Travels along the Mediterranean, vol. 1, p. 378.*

Jer. 8. 7. *Y ciconia yn yr awyr a edwyn ei dymhorau.* "Mae amledd mawr o giconiaid yn dyfod yma, i Bagdad, oddeutu canol Mawrth, ac yn dychwelyd drachefn ryw amser yn Gorphenhaf a'u rhai bychain gyda hwynt, y rhai a ddeorir yma. Gwnant eu nythau ar benau yr adeiladau uchaf, megis ar golofnau y temlau Mohammedanaidd. Ynghylch canol Mehefin dechreu- ant ddysgu eu rhai ieuainc i ehedeg, a'r rhieni yn wastad yn gweini, ac oddeutu diwedd y mis dechreuant estyn eu ehediadau, a gwelir hwyl yn myned ymaith yn gynar yn y bore, ac ddim yn dychwelyd hyd yr hwyl: hwyl a wnant hyn yn wastad yn dri neu bedwar

dosparth; mewn modd rheolaidd iawn. Ynghylch canol Gorphenhaf, hwy a unant oll oddeutu dwy awr cyn machludiad haul yn dri neu bedwar dosparth; yna hwy a esgynant yn uwch nag arferol, ac a ânt amrywiol o weithiau o amgylch y ddinas, a'r wlad o amgylch. Hwy a wnant hyn bob dydd mor rheolaidd, a chyda'r fath ufudd-dod i'w penaeth, yr hwn yn wastad sydd wrtho ei hun o'r blaen, fel y mae yr olwg arnynt yn hyfrydwch a syndod i bob edrychwr. O'r diwedd daeth y 25ain o Orphenhaf, y dydd ar yr hwn yr ymadawsant dros y flwyddyn hon. Yn gynar yn y bore, hwy a ymgynullasant, ac a ymffurfiasant yn bedwar dosparth, ac a ehedasant yn araf ac isel o amgylch y ddinas; yna, parhausant i ehedeg dros yehydig o amser yn agos i'w gilydd, fel pe buasant yn ymgynghori, ac ynghylch wyth o'r gloch, ehedasant ymaith yn syth a chyflym tua'r gogledd-orllewin."

"Y ciconiaid a ymwelant bob blwyddyn â Thwrci; hwy a ddeuant yno yn rhifedi dirfawr oddeutu canol Mawrth, ac yn wastad yn y nos. Hwy a drefnant eu taith yn rheolaidd iawn; anfonant eu hyspiwyr o'u blaen, y rhai a ymddangosant ddiwrnod neu ddau o flaen corph y fyddin, ac yna dychwelant i roddi eu hanes i mewn, wedi hynny daw yr holl liaws yn mlaen. Yn gynar yn mis Hydref ymadawsant yn yr un modd, fel na all neb wybod o ba le y deuant nag i ba le yr ânt. Sylwyd eu bod yn y nos yn gadael yr holl bentrefi, a gwelwyd hwynt yn yr awyr fel cymyl-eu dirfawr. Ni adawant un ar ol ond y rhai a analluogwyd drwy wendid neu ddamwain i ehedeg. Person yr hwn, ar amser eu hymadawiad, a arferai ddyfod o ganol y wlad, a ddywedodd wrthyf, iddo ef, pan ar ei daith y flwyddyn flaenorol, welod miboedd, a channoedd o filoedd o honynt, gerllaw glan afon, a'u bod yn flynyddol yn ymgasglu yno, a phan welo y penciwodod fod ei holl fyddin wedi ymgynull, efe wrth arwydd priodol a'u gesyd i gychwyn, gan adael, fel y tybir, ryw rai pennodedig i ddwyn y crwydriaid yn mlaen." *Travels in Turkey, Italy, and Russia, by Thomas Macgill, p. 125.*

Ar ein ffordd o Tenedos\*, oddeutu diwedd Awst neu ddechreu Medi, cawsom ein difyru yn fawr gan finteioedd o aranod, a ehedent yn uchel yn yr awyr o Thrace, i auafu, fel y tybiem ni, yn yr Aipht. Yr oedd rhifedi ac amrywiaeth eu byddinoedd, eu helaethrwydd, a'u trefn, yn rhyfedd iawn." *Chandler's Travels, p. 21.*

\* Tenedos. Un o nysoedd yr Archipelago.

“Ar y nawfed o Fawrth, gwëlsom gwmpëini o arahod yn dychwelyd o’u gauafie, gan ehedeg mewn trefn dros Smyrna tua’r gogledd. Un arall a ganlynodd yn fuan, ac yna amrywiol o honynt, rhai yn y dydd, pan welir hwynt yn newid eu dull a’u tywysydd; rhai wrth oleu y lloer, pan y clywir hwynt yn yr awyr yn rhoddi arwyddion uchel i’w gilydd.”

Jer. 51. 27. *Gwnewch i feirch ddyfod i fynu cyn amled a’r lindys blewog.* Tybir yn gyffredin fod y geiriau hyn yn cyfeirio at yr arfogaeth â’r hwn y gwisgai yr hynafiaid benau eu meirch, o herwydd y tybid eu bod yn tebygu i benau y lindys. Ffyna yr arferiad hon eto mewn rhai parthau o’r byd. “Yr oedd negroaid y llywodraethwr, sef y blaenoriaid a’r anwyliaid, y rhai oll a godasid i’r radd hōno o herwydd rhyw weithred o wroldeb, wedi cael eu gwisgo âg arfau, a wnaethid o gadwyn haiarn, y rhai a’u cuddient o’r gwddf hyd y penliniau, gan ranu ar y tu ol, a myned dros bob tu i’r cefyl. Yr oedd gan ambell un o honynt helmet, neu benwisg, o’r un defnydd, a darnau dres yr en, oll yn ddigon cryf i gadw ymaith ergyd gwaywffon. Yr oedd penau eu cefylau hefyd yn cael eu diffynu â llafnau o haiarn, pres, ac arian, gan adael tyllau ynddynt digon i lygaid yr anifail.” *Durham and Clapperton’s Recent Discoveries in Africa*, p. 62.

Dat. 9. 3. *Ysgorpionau.* Mae yr ysgorpion yn, yr hinsoddau poethion yn droedfedd o hyd. Nid ymddengys fod un creadur yn y greadigaeth ag ynddo y fath dymer ddigofus ag sydd ynddi hi. Pan gymmerir rhai o’r ymlusgiaid hyn, hwy a weithredant eu cynddaredd yn erbyn y gwydr yn yr hwn y rhoddir hwynt; cynygiant frathu pren pan osoder ef gerllaw iddynt; brathant greaduriaid ereill a gyfyngir gyda hwynt, heb un cyffroad i hyny; ac y maent yn elynion creulon i’w gilydd. Un *Maupertius* a osododd gant o honynt yn nghyd mewn gwydr; hwy yn ddi-oed a ymosodasant mewn modd ffyrnig i ddystrywio eu gilydd; yn mhen ychydig o ddiwrnodau nid oedd ond pedair ar ddeg o honynt wedi eu gadael, y rhai oeddynt wedi lladd a difa y lleill oll. Haerir am yr ysgorpion, pan mewn cyfyngder ac anobaith, y gwna hi ddyfetha ei hun. Dywedir eu bod yn fynych yn Gibraltar yn cymmeryd ysgorpion a fyddo newydd gael ei dal, ac yn ei chylchynu â marwor tanllyd, a phan welo fod yn armbosibl iddi ddianc, y bratha ei hun ar y tu ol i’w phen, fel y trenga yn ddi-oed. Gwel Deut. 8. 15; Eze. 2. 6; Luc 11. 12. Mewn rhai o drefi yr Eidal, ac yn Neheudir Ffrainc, yr ysgorpion yw

un o'r pethau sydd yn blino dynolryw fwyaf; eto nid yw eu drygnawsedd yn Ewrop ond bychan mewn cymhariaeth i'r hyn ydyw yn Affrica ac yn y Dwyrain.

Yn Corfu\*, "y bore cyntaf wedi ein dyfodiad, mor fuan ag y deffroais, gwelais ysgorpion yn fy nghlustog. Nid yw brathiad yr ysgorpion yn farwol yn ngwlad Groeg, ond mae ganddynt feddyg-iniaeth ag sydd yn ei wella yn hawdd. Dywedir ond i'r ysgorpion ei hun gael ei dryllio a'i gwasgu, a'i gosod yn ddioed ar yr archoll, y gwna ei iachau yn fuan. Mae y gwenwyn yn gryfach pa boethaf fyddo yr hinsawdd neu yr hin. Mewn rhai parthau o Affrica mae eu brathiad yn farwolaeth sicr; ac y mae tref Peccaria yn cael ei gadael gan ei thrigolion yn ystod yr haf, o herwydd yr amledd mawr o ysgorpionau sydd yno. Yn y gauaf maent yn agos mewn cyflwr cysglyd, ac mae eu brathiad yn llai gwenwynig. Dywedir os bydd i ysgorpion, pan yn cael ei chylchynu gan farwor tanlyd, weled nad all ddianc, y tery ei hun ar ei chefn â'i cholyn, ac y trenga yn unipngyrchol. Yr yohydig ysgorpionau a welais i yn ngwlad Groeg oeddynt yn nghylch dwy fodfedd o hyd, ac yn gyffredin yn ddû. Maent yn lliosog iawn yn yr Eidal, ac yn myned i dai mor fuan ag y dechreuo y gwlaw hydrefol." *Dodwell's Tour through Greece, vol. 1, p. 29.*

## PENNOD XVI.

### FFRWYTH A GWIN.

GEN. 49. 22. *Joseph fydd gangen ffrwythlon, cangen ffrwythlon wrth ffynnon, ceinciau yn cerdded ar hyd mur.* "Tua'r gogledd a'r gorllewin y mae amrywiol o behtrefi yn mhlith perllanau a gwinllanoedd helaeth, yr olaf o ba rai yn gyffredin a amgylchir â muriau. Y gwinllanwyr Persiaidd a wnant a allont i beri i'r winwydden redeg i fynu ar hyd y mur, a chyrchu drosodd ar y tu arall, yr hyn a wnant drwy gylmu cerrig wrth flaen y cangau. Mae y winwydden, yn enwedig yn Twroi a Groeg, yn fynych yn cael ei harwain i redeg ar hyd delltwaith o amgylch ffynnon,

\* *Corfu.* Tref mewn ynys o'r enw a berthynai gynt i Twroi, ond yn 1819, daeth dan lywodraeth Frydain.



lle; yn ngwres y dydd, yr ymgasgla teuluoedd cyfain, ac yr eisteddant dan y cysgod.” *Morier's Second Journey through Persia*, p. 232.

Josua 9. 4. *Costrelau gwin*. Dywed *Chardin* wrthym, fod yr Arabiaid, a phawb ag ydynt yn byw bywyd crwydrawl, yn cadw eu dwfr, eu llaeth, a gwlybyrau ereill, mewn costrelau lledr. “Maent yn cadw yn fwy blasus ynddynt nag y gwnaent yn amgen. Gwneir y costrelau lledr hyn o grwyn geifr. Pan leddir yr anifail, torant ymaith ei ben, ac yna tynant ef allan o'r croen heb agor ei fol. Yna hwy a wniant y tyllau a wnawd drwy dori y coesau a'r gyffon ymaith, ac ar ol ei lenwi, hwy a'i eilymant. Nid yw y cenhedloedd hyn, na phobl y wlad yn Persia, un amser yn myned i daith, heb gostrelaid fechan o ddwfr yn crogi wrth eu hochrau. Gwneir y costrelau lledr mawrion o grwyn bychod geifr, a'r rhai bychain, y rhai a wasanaethant i ddwyn dwfr ar hyd y ffordd, a wneir o grwyn mynod.”

Mynych y mae y costrelau hyn, pan yn hen ac wedi cael eu defnyddio yn aml, yn rhwygo; ond gellir eu hadgyweirio. Hwy a wnant hyn, medd *Chardin*, “weithiau drwy osod darn i mewn; ac weithiau drwy gylmu yn nghyd y darn a rwygodd.” Rhydd *Maundrell* i ni hanes cyffelyb. Pan yn llefaru am fynachlog Roeg-aidd yn Syria, dywed, “Y person a welsom ni yn gwasanaethu wrth yr allor yn ei wisg offeiriadol frodiawg, a ddygodd i ni dranoeth, ar ei gefn ei hun, fŷn, a llonaid croen gafr o win, fel anrheg o'r fynachlog.” Defnyddir y costrelau hyn eto yn yr Ispaen. Rhydd Mr. *Bruce* ddesgrifiad o'r *girba*, yr hwn yr ymddengys ei fod yn llestr o'r un fath a'r rhai a goffawyd yn awr, ond yn unig ei fod lawer yn fwy. Croen fŷch yw y *girba*, wedi ei dori yn betryal, a'r ymylau wedi eu gwneio yn nghyd mewn modd celfydd iawn, â dau wniad, y rhai ni ollyngant y dwfr allan. Mae agoriad yn cael ei adael yn mhen y *girba*, cyffelyb i dwll baril, yr hwn, pan y byddo y *girba* yn llawn, a gylmir. Mae y *girba* yn gyffredin yn dal triugain galwyn, ac y mae dau o honynt yn faich camel. Maent yna yn cael eu hiro ar y tu allan â saim (*grease*), i attal y dwfr rhag gweithio allan, a rhag iddo gael ei anweddu (*evaporate*) drwy wres yr haul, yr hyn, yn wir, a ddygwyddodd i ni ddwywaith, fel y buom mewn perygl o drengu mewn syched.”

Wrth adael yr Aipht, mae y dwfr yn gyffredin yn cael ei ddwyn mewn crwyn geifr, wedi eu trin i'r perwyl hwnw; ond

ni all un croen yn hollol attal anweddiad. Ar eu taith o Soudan\* i'r Aipht, mae y bobl yn fynych yn defnyddio crwyn ychain, wedi eu gwneuthur ar ddull sachau mawrion, a'u tymheru yn briodol â phŷg gwlyb neu olew. Mae dau o'r rhai hyn yn faich camel. Mae y rhai hyn yn cadw y dwfr mewn gwell cyflwr at ei yfed na'r rhai llai, a gwerthir y sachau hyn am brisoedd da yn yr Aipht; mae pâr o'r fath oreu o houynt weithiau yn costio o \$40 i \$45; hwy yn gyffredin a ddefnyddir i ddwyn dwfr o'r afon i wahanol drefi. Ni oddefir i'r camelod gyfranogi o'r ystôr hwn, yr hwn, ar ol yr holl ofal a gymmerir o hono sydd yn fynych yn ffaidd iawn o herwydd y pŷg gwlyb, y llaid sydd yn y dwfr, y gwres, &c. Mae chwech o'r crwyn lleiaf, neu bedwar o'r rhai mwyaf, yn cael eu hystyried yn ddigon i bedwar o bersonau dros gynnifer a hyny o ddyddiau." *Brown's Travels in Egypt*, p. 252. Llefara Homer am fod gwin yn cael ei ddwyn mewn croen gafr.

Barn. 9. 27. *Sangasant eu grawnwin.* Yn y Dwyrain maent yn parhau i sathru eu grawnwin yn ol yr hen ddull. "Awst 20, 1765, yr oedd cynhauaf y grawnwin yn awr wedi dechreu, a gwesgid y grawnwin i gael gwin; yr oedd dyn, a'i draed a'i goesau yn noethion, yn sathru y ffrwythau mewn math o gelwrn, ac yr oedd twll gerllaw y gwaelod, a llestr dano i dderbyn y gwlybwr." *Chandler's Travels in Greece*, p. 2.

2 Sam. 6. 19. *Gwin.* "Yn fath o ddysglaid olaf, cafodd rhai cnau Ffrengig a ffigys eu dwyn i ni, heblaw rhyw beth rhyfedd iawn arafl, cyffelyb, tebygol, i win sych yr hynafiaid, yr hwn y dywedir eu bod yn ei gadw yn deisenau. Gallasid galw y pethau a gymmerasom ni yn awr yn deisenau gwin. Yr oeddynt o ddull *cucumber*, ac wedi eu gwneuthur o nôdd gweithiedig y grawnwin wedi ei wneuthur yn *jelly*, ac yn y cyflwr hwn rhoddid ef o amgylch edef cnewyllyn cneuen Ffrengig; deuai tu allan y *jelly* yn galetach wrth sychu, ac efe a gadwai, meddent, yn fiasus a da dros amrywiol o fisoedd; ac yr oedd yn beth hyfryd iawn bob amser, a chymwys iawn i bersonau gweinion ac afiach, a gallasid ei gadw mewn lle bychan, ac yr oedd yn hawdd i'w ddwyn heb berygl ei niweidio ar daith." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 137.

\* *Soudan.* Gwlad helaeth yn nghanol Affrica, drwy ba un y mab yr afon Niger yn rhedeg, o herwydd yr hyn gelwir hi yn broseunol Nigritia.

Salm 80: 10. *Ei changhenau oedd fel cedrwydd rhagorol.* Dr. Lowth a gynyg y darlleniad canlynol o'r adnod hon:

Ei chysgod a guddiodd y mynyddoedd,  
A'i changhenau a guddiasant gedrwydd Duw.

Ymddengys mai y gymhariaeth a ddefnyddir yw gwinwydden hoywdeg, yn dringo i fynu hyd yn nod ar hyd y cedrwydd uchaf, ac yn cuddio eu penau. Gellir caniatáu hyn yn y disgrifiad o winwydden gymhariaethol, yr hon a osodir allan fel yn estyn ei changau hyd y môr, a'i blagur hyd yr afon, yn enwedig pan ystyrir yr hyn a ddywed *Kaempfer* am rai gwinwydd tŷmor. Dywed haneswyr fod rhai o'r gwinwydd gerllaw Algiers yn dringo i fynu i ben coed uchel iawn, ac yn ymestyn at rai ereill; a *Beverley*, yn ei hanes am *Virginia*, a ddywed iddo ef weled coed mawrion yn cael eu cuddio gan un winwydden, a'r gwinwydd hyn yn cael eu cuddio agos oll gan y grawnwin. Gall gwaith y winwydden yn cuddio y cedrwydd gael ei fwriadu i arwyddo drychfeddwl, nid yn unig am ei helaethrwydd, ond hefyd am ei goruchafiaeth. Mae un o brydyddion Groeg o herwydd hyn wedi disgrifio y winwydden fel meistres y prenau.

“Nid yw y gwinwydd yn cael eu trin yn y rhan holl o Asia yn yr un modd ag yn ngwledydd y gwin, lle y mae pob planhigyn yn cael ei ysgythru bob blwyddyn; yma gwneir iddynt ddringo rhyw bren uchel, megys pren plymys; y cangau bychain gafaelawl a gyrhaeddant ranau uchaf y pren, a'r pren fel hyn a ymddengys wedi ei lwytho â dau fath o ffrwyth. Nid all dim ymddangos yn fwy ardderchog na phren yn y cyflwr hwn.” *Beaufort's Karamania*, p. 49.

Desgrifir y genedl Iuddewig dan y gymhariaeth o winwydden wedi ei mudo gan Dduw o'r Aipht i wlad Canaan, lle y gosalwyd am dani ganddo ef, ac y tyfodd yn brydferth, ac y lledodd ei changau dros yr holl wiad. Pan y dywedir yn y geiriau uchod fod y winwydden hon “wedi cuddio cedrwydd Duw â'i changhenau,” (cansys felly y cyfieithodd Luther hwynt); hyn yw, y cedrwydd uchaf a mwyaf rhagorol, y rhai a barant fraw â'u hymddangosiad, mae y gymhariaeth wedi ei chymmyrd oddiwrth yr amgylchiad o fod y gwinwydd yn y gwledydd deheuol yn arfer dringo coed. “Nid oes dim yn hyfrytach,” medd un hanesydd, “na'r olwg ar dyfiant y winwydden yn nhalaeth Ghilan yn Persia. Ni ffyna hi ond mewn ardaloedd coediog, pa un bynag ai gwaa-

tad neu ar ychydig o godiad y byddont. Ar ochrau y mynyddoedd yn gyffredin y ceir yr amledd mwyaf o honynt. Yno hwy a droant o amgylch y coed uchaf, yn uwch nag y gall yr olwg eu dilyn, ac y mae eu cangau, y rhai ydynt cyn braffed a braich dyn, yn lledu ac yn dyrsu yn eu gilydd yn y fath fodd, fel, yn y manau lle y tyfant oreu, y mae yn anhawdd myned drwydynt." Dywedir yr un peth am winwydd Iberia, yn Georgia yn Asia. "Nid yw y gwinwydd yma," medd un hanesydd, "yn cael eu trin, ac ni ofelir fawr am danynt, ond gadewir hwynt iddynt eu hunain, a hwy yn gyffredin a ddringant ar hyd gangau y derw a choed ereill."

Esay 1. 8. *Lluesty mewn gwinllan.* Bwthyn oedd hwn a godid at wasanaeth dros ychydig o amser; yr oedd yn cael ei guddio â changau, gwellt, tywarch, a phethau cyffelyb, er cael cysgod rhag gwres y dydd, ac oerfel a gwlith y nos, i'r gwylwyr a gadwent yr ardd, neu y winllan, dros y tymhor y byddai y ffrwythau yn addfedu (Job 27. 18) ac yn cael ei symud yn fuan wedi iddo wasanaethu y dyben hwnw. Yr oedd pobl y Dwyrain, tebygol, yn gorfod cadw y cyfryw wyladwriaeth yn barhaus i ddiffynu y ffrwythau rhag y *jackals*. Mae y creaduriaid bychain hyn yn lliosog iawn yn ngwlad Canaan, yn enwedig yn amser cynhauf y gwinllanoedd, ac maent yn fynych yn dystrywio gwinllanoedd cyfain, a gerddi o gucumerau.

Dywed *Mr. Forbes* fod y bobl mewn llawer o barthau o Hindwstan, yn nechreuad yr hin gwlawog, yn planu llawer o bompionau, cucumerau, &c., y rhai, drwy y tymhor hwnw, ydynt brif ymborth y trigolion. Ni heuir hwynt mewn gwelyau gerddi, fel yn Ewrop, ond mewn meusydd a gwastadedd helaeth, agored i gael eu difrodi gan ddynion ac anifeiliaid. Yn nghanol y maes mae twmpath yn cael ei godi, a bwthyn ar ei ben, yn yr hwn y mae lle i un dyn ymguddio oddiwrth erwindeb yr hin. Yno, yn nghanol gwlawogydd a gwyntoedd tymhestlog, mae rhyw ddyn tlawd yn cael ei osod i aros wrtho ei hun, ddydd a nos, i ddiffynu y cnwd rhag lladron o wahanol fathau, ond yn enwedig rhag eppaod, y rhai a ymgynullant yn finteioedd lliosog. O'r bwthyn hwn y gwyliwr a rydd arwydd i'r pentref agosaf, a'r trigolion a ddeuant ac a'u gyrant ymaith. Nid oes fawr o leoedd yn fwy annymunol na bwthyn fel hwn, agored, dros dri neu bedwar mis, i daranau, mellt, a gwlaw.

Esay 58. 11. *Ti a fyddi fel gardd wedi ei dyfrhau, ac fel*

*fynnon ddufr, yr hon ni phalla ei dyfroedd.* Y dull yr arferid dyfrhau tir, pa un bynag a ddefnyddid ef: fel gerddi neu yn amgen, a ymddengys oddiworth yr hanesion canlynol. "Mewn llawer o leoedd gerllaw i'r afon y mae darnau hyfryd o dir gwastad yn y rhai yr heuir gwenith a haidd, a'r rhai a ddyfrheir drwy gymhorth peiriannau, y rhai, ar ol eu gosod unwaith yn eu lle, a weithiant heb ddim llafur gyda hwynt, drwy nerth dwfr yr afon. Mi a welais saith o'r peiriannau hyn, yn nghylch milltir neu ychydig yn chwaneg oddiworth eu gilydd, pump ar un tu a dau ar y tu arall i'r afon, yn Mesopotamia, yn Syria. Yr oedd i ddau o honynt chwech olwyn; nid oedd i'r pump ereill ond dau. Mae mur cadarn yn cael ei adeiladu yn ymyl yr afon, a'r olwynion hyn yn cael eu gosod ar echelau cedyrn; piserau pridd, yn dal yn nghylch hanner galwyn bob un, yn cael eu sefydlu ynddynt, ac o'r rhai hyn y mae weithiau dri-ugain mewn un olwyn. Wrth fod yr olwyn yn troi gan y dwfr, mae y piserau hyn yn cael eu llenwi, a'u tywallt wedi hyni i fath o ddyfr-ffos a wnaed i'r perwyl o ddwyn y dwfr i'r meusydd; ac y mae hefyd ganddynt lawer o ffosydd bychain yn cymmeryd y dwfr o'r brif-ffos, fel y caffo y dwfr ei wasgaru i wahanol ranau y meusydd. Os na bydd y tir yn wastad, gwneir ef felly. Mae yr olwynion hyn, tra mewn cywair, yn gweithio o hyd; ac mae yn hawdd eu hadgyweirio, pan fyddo angen, gan fod pob olwyn ar echel o'i eiddo ei hun. Pan fernir fod y tir wedi cael ei ddyfrhau yn ddigonol, attelir yr olwynion." *Parson's Travels.*

Oni bac y peiriannau hyn i godi dwfr, ni byddai i'r tiroedd ffrwythlon ddim ond un cnwd yn y flwyddyn, o herwydd yn y misoedd poethion, o ganol Mai hyd Hydref, ni byddai dim gwyrddlas i'w weled; pan, drwy gymhorth y ddyfais hon er cael diwallrwydd beunyddiol o ddwfr i redeg drwy y meusydd, maent oll yn cael eu gwneuthur yn gynnyrchiol, a'r gweirgloddiau yn cael eu cadw yn leision. Dywed Diodorus Siculus y defnyddid peiriant cyffelyb i'r rhai hyn er cael diwallrwydd o ddwfr o'r afon i'r gerddi llethrog yn Babilon.

Mae olwynion mawrion cyffelyb i'r rhai uchod yn cael eu defnyddio hefyd ar yr Orontes, yr afon fwyaf yn Syria. Dywed teithiwr iddo weled yn ei daith o Aleppo i Damascus, ddeunaw o honynt wedi eu gosod i godi dwfr o'r afon a'i dasu i ddyfr-ffosydd a wnaed i'w ddwyn i'r gerddi y tu allan i'r dref.

“Megys y gellir meddwl nad yw yr afon o honi ei hun yn llifo yn y fath fodd ag y byddo y dwfr yn myned dros yr holl dir mewn modd cyfartal, fel y byddo ei angen, mae y trigolion yn gorfod myned i draul fawr i dori dyfr-ffosydd o un pen o'r Aipht i'r Wall, fel y mae bron i bob tref a phentref ei chamlas, yr hwn a agorir ar amserau neillduol, ac felly dygir y dwfr i'r lleoedd pellaf. Ni oddefir i'r dyfr-ffosydd neu y camlasau hyn gael eu hagar hyd nes y codo yr afon i ryw uchder pennodedig, na'r pryd hwnw oll ar unwaith; rhag felly i rai tiroedd gael gormod o ddwfr, a rhai ereill rhy fach; ond agorir hwynt yn ol rhyw reolau a bennodwyd at hyny.” *Thompson's Travels into Egypt.* Yr un teithiwr, wrth ddesgrifio y ffyrdd i wneuthur gorlifiad y Nilus yn llesiol, a ddywed, “Gwneir hyn yn benaf drwy dori rhifedi mawr o gamlasau, o ba rai y gorlifir y tiroedd, ac nid oll o gorph y Nilus, lle y mae y glanau yn uchel; ond mewn modd gwahanol lle y maent yn isel, yn enwedig yn Delta. Dygir y camlasau dros y tiroedd uchaf, fel y gallo y dyfroedd redeg o honynt i'r rhai isaf; ac o'r camlasau mawrion dygir hwynt allan i rai bychain, a tywysir hwynt felly dros yr holl wlad. Megys y mae ganddynt ddyfr-gloddiau i gadw y dwfr allan o'r camlasau hyd yr amser priodol i'w ollwng i mewn, felly mewn rhai lleoedd mae ganddynt ddyfseisiau i'w gadw i mewn ar ol i'r Nilus dreio, ac weithiau mewn rhyw lynoedd, o ba rai y gallant ei ollwng dros eu tiroedd pan fynont. Pa fodd bynag, megys y mae rhai parthau o'r wlad yn gorwedd yn rhy uchel i gael eu dyfrhau o'r camlasau, a bod amrywiol o'u gerddi a'u planigfeydd yn gofyn mwy o wlybrwydd nag a dderbyniant o orlifiad blynyddol y Nilus, hwy a ddefnyddiant amrywiaeth o foddion i godi dwfr o'r afon, yr hwn a gedwir mewn pydewau a wnaed i'r perwyl hwnw. Gwnelid hyn gynt drwy gymhorth troell (*screw*) Archimedes, neu fath o sugnedydd ag sydd yn awr yn anadnabyddus; ond yn awr mewn rhai lleoedd yno hwy a ddefnyddiant olwynion a droir gan ychain, a phiserau pridd wedi eu sicrhau wrthynt mewn gwahanol fanau, y rhai yn nhro yr olwynion a lapwant, ac a ymdywalltant i bydew a wnaed i dderbyn y dwfr. Ac mae ganddynt fath arall, a weithir gan ddau ddyn, i'r perwyl hwn. Mae peiriannau o'r ddau fath hyn yn cael eu gosod ar hyd lan y Nilus, y fath flaenaf yn benaf yn y rhan isaf o'r Aipht, a'r llall yn y rhan uchaf; gan fod yr anhawsdra i godi dwfr yn cynnyddu pa uchaf

yr elom i fynu. Pan byddo angen gwlybrwydd ar rai o'u gerddi, neu eu planigfeydd, tywysir y dwfr i'r dwfr-ffosydd, ac oddiyno o gylch y gwelyau yn ffrydiau bychain, y rhai y gall y garddwr eu haital yn hawdd drwy godi clawdd bychan i'w herbyn â'i droed, ac yna efe a dry y ffrwd y ffordd y myno, yn ol fel y gwelo angen. Fel hyn y mae ganddynt y gerddi hyfrytaf a ffrwythlonaf yn yr holl fyd." Mae yn yr India hefyd fath o beiriant o wneuthuriad hawdd iawn; y mae wedi ei osod mewn ffordd fel y gall dyn wrth gerdded ar hyd *bamboo*, neu fath o gorsen lled hir, wedi ei gosod ar draws pren, godi dwfr o gryn ddyfnder; ac mae efe yn gyffredin tra wrth y gorchwyl esmwyth hwn yn ymddifyru â chân, ac mae ei gyfaill ag sydd yn derbyn y dwfr yn gwneuthur yr un modd. Dywed un haneswr fod peiriannau cyffelyb i'r un uchod yn cael eu defnyddio mewn rhai lleoedd yn y rhanau uchaf o'r Aipht hefyd, ddim yn mhell oddiwrth Cairo. Efe a ddywed, "Nid oes yma wastadedd fel o amgylch Delta, a manau gwrteithiedig creill yn mharthau isaf yr Aipht, y rhai a ddyfrheir mewn ffyrdd hawdd. Yr oedd yr afon yn llifo ar hyd ei gwely naturiol rhwng dau lan serth. Mewn trefn i ireiddio eu tiroedd, mae y trigolion yn gorfod defnyddio peiriannau i godi dwfr: Gwneir y rhai hyn o drosolion wedi eu gosod ar bren croes, wrth y rhai y mae celyrnau, wedi eu gosod. Mae dyn wedi ei hanner orchuddio â bratiau, gan ddifyru ei hun drwy ganu, yn treulio yr holl ddiwrnod i gadw un o'r trosolion hyn ar waith, a thywallt y dwfr i gafaau a dwfr-ffosydd a wnaed i'w dderbyn, drwy y rhai y dygir of i'r planigfeydd. O herwydd bod yr afon yn rhedeg yn ddwfa mewn rhai lleoedd, mae llawer o drafferth yn ofynol cyn cael y dwfr i wyneb y ddaear." Mewn parthau ereill o'r Aipht mae ganddynt ffyrdd gwahanol at godi dwfr.

Jer. 48. 11. *Tywalltwyd o lestr i lestr.* Oddiwrth sylw o eiddo Abbe Mariti, ymddengys fod newid y llestri, yn y rhai y cadwent y gwin, yn beth arferol yn Cyprus. Gwneir hyn i'w wellhau. Efe a ddywed, "Mae y gwinoedd hyn yn cael eu gwerthu yn gyffredin yn y fan, wrth y llwyth. Pan ddygir y gwin o'r wlad i'r dref, rhaid ei osod mewn llestri; yn y rhai y mae gwaelodion; a dylid sylwi nad oes dim yn tueddu cymmaint er ei ddwyn i berffeithrwydd, a'i dynu i lestr arall, ond gofalu na wneir hyn cyn pen blwyddyn wedi ei osod yn y llestri."

Dywed Chardin, "Maent yn fynych yn tywallt gwin o lestr i lestr yn y Dwyrain; canys ar ol iddynt ddechreu llestr, rhaid

iddynt yn ddioced ei dywallt i lestr llai, neu i gostreli, os amgen efe a sura."

Marc 14. 3. *A phan oedd efe yn Bethania, yn nhŷ Simon y gwahan-glywffus, ac efe yn eistedd i fwyta, daeth gwraig a chanddi fluch [Saesonaeg, alabaster box] o enaint o nard gwlyb gwerthfawr, a hi a dorodd y bluch, ac a'i tywalltodd ar ei ben ef.* Dywed Chardin fod y Persiaid weithiau yn symud eu gwin mewn crwyn geifr wedi eu pygo, a thra y mae y croen yn dda, nad yw y gwin yn cael ei niweidio, ac nad oes blas y pŷg arno. Ar amserau ereill eu bod yn ei anfon mewn costreli, gyddfau y rhai a lenwir â chottwm, ar yr hwn y rhoddir cwyr toddedig, mewn modd ag a gadwo yr awyr allan. Wedi hyn hwy a'i rhoddant mewn cistiau, mewn gwellt, ac a anfonant eu gwin rhagorol i lawer o leoedd pellenig, i China a Japan.

"Mae y crwyn geifr yn cael eu gwnio mewn modd hardd a manwl iawn, fel y daliont ac y cadwont y gwin newydd, yr hwn yn y pentrefi ni roddir un amser mewn un gostrel arall, ac anfynych y pery yn hwy na hyd y cynhauaf nesaf."

Y Rhufeiniaid gynt a arferent bŷg i ddiogelu eu llestri gwin. Dywedir y gwnelid hyn yn ol un o orchymynion Cato. Ond er y gallasid defnyddio pŷg, a phethau geirwon cyffelyb i gau i fynu eu llestri gwin, diau fod y llestri a ddalient eu peraroglau yn cael eu cau i fynu â chwyr, neu ryw beth cyffelyb, gan eu bod yn fychain, ac wedi eu gwneuthur o *alabaster* a defnyddiau gwerthfawr ereill, ar y rhai ni buasai pŷg yn weddus. I gymhwyso hyn at eiriau Marc, gellir sylwi fod un awdwr, wrth son am agoryd llestr gwin, drwy dori y cwyr a'i diogelai, yn dywedyd iddynt *dori y llestr*.

Ni ellir meddwl fod yr awdwr hwn yn golygu i'r llestr pridd ei hun gael ei dori yn ddrylliau, ond yn unig i'r hyn ag oedd yn ei gau i fynu gael ei gymmeryd ymaith, ac i'r dyben hwn yr oedd yn angenrheidiol *tori y cwyr*. Yn y modd hwn, yn ddiau, yr ydym i ddeall y geiriau hyn o eiddo Marc, *fel yr oedd yr Iesu yn eistedd i fwyta, i wraig ddyfod a chanddi fluch alabaster o enaint o nard gwlyb gwerthfawr, ac iddi dori y bluch, a'i dywallt ar ei ben ef.*

Mae yr eneinniau, y rhai a brisir mor gyffredinol yn Asia, yn cael eu cadw mewn costreli bychain, a blychau o *onyx* neu *alabaster*; ac mae cryn fasnach yddynt. Tebygol mai cyffelyb i



un o'r rhai hyn oedd y blwch a ddefnyddiodd Mair dduwiol ar yr achlysur hwn.

"Mae tywallt olew pèr ei arogl ar y pen yn beth cyffredin yn y wlad hon. Ar ddiwedd gwyl Doorga, mae yr Hindwaid yn addoli rhyw ddosparth o ferched gweddwon, ac yn mysg seremoniau ereill, maent yn tywallt olew pèr ei arogl ar eu penau." *Ward's Views of the Hindoos, vol. 2, p. 337.*

Luc 5. 39. *Hen win.* Yn yr Almaen; hyd yn ddiweddar, hwy a arferent gladdu llestri pridd wedi eu llenwi â gwin, ar enedig-aeth pob plentyn, ddim i'w cymmeryd i fynu hyd ei briodas. Yr hen yw y gwin gweithiedig, meddwawl; yr un newydd yw yr un melus nad yw yn feddwawl. Mae gwin yn cael ei goffau er yr oesau cyntaf gan haneswyr a phrydyddion, ac ymddengys ei fod yn un o'r cynnyrhion cyntaf oddiwrth lysiau. Daeth y grawnwin ar y cyntaf yn ymborth buddiol iawn, ac mae y nôdd a wesgir o honynt yn ddiod oerawl. Daeth y nôdd hwn, drwy gael ei weithio, yn fwy hyfryd, a thybid ei fod yn cryfhau ac yn bywhau yr ysbryd ar ol llafur. Daeth yf' Indiaid i ganfod fod rhinweddau cyffelyb yn y palmwydd; ar y cyntaf hwy a dorent y rhisgl, mewn trefn i allu yfed y ddiod oerawl a redai o honynt; ond cawsant allan yn fuan ei bod, drwy gael ei chadw mewn llestri, yn myned yn gryfach.

## PENNOD XVII.

### BREHINOEDD A LLYWODRAETH.

GEN. 47. 23. *Prynais chwi heddyw, a'ch tir i Pharaoh.* Mae yr hanes a rydd *Diouorus Siculus* am hen ffurf-lywodraeth yr Aipht, yn cadarnhau yr hyn a ddywedir yma. Efo a ddywed fod y tir wedi cael ei ranu yn dair rhan; perthynai un ran i'r offeiriad,—â'r rhan hon hwy a ddarparent yr holl aberthau, ac a gynhalient holl weinidogion crefydd. Perthynai yr ail ran i'r brenin, i gynnal ei lys a'i deulu, a diwallu holl draul rhyfel. Perthynai y gweddill o'r tir i'r bobl, y rhai yr ymadangosai eu bod oll yn filwyr, yn rhwym, ar draul y brenin, i wasanaethu yn mhob rhyfel er amddiffyniad y wladwriaeth.

"Yn nghylch y trydydd ar hugain o Awst, dechreu a tyddynwyr aredig y tir yn nghymmydogaeth Ispahan. Hen aradwr, yr

hwn oedd gyda'i waith gerllaw pentref Sheristan, a ddywedodd wrthym, fod y maes yr oedd efe yn ei aredig yn perthyn i'r llywodraeth, ond ei fod ef yn ei rentu gan y llywodraeth ar yr ammodau canlynol:—yr oedd efe yn darparu ei ychain a'i aradr ei hun, a'r llywodraethwr yr hâd a'r tir. Yn y cynhauaf yr oedd y llywodraethwr i gael tair rhan o bedair o'r cynyrch, ac yntau ei hun y bedwaredd ran. Deallasom wedi hyny fod y cwbl o'r tir o amgylch Ispahan yn cael ei rentu yn yr un modd." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 154.

Yn China, ystyrir yr ymerawdwr fel perchenog y tir. Syr G. Staunton y cenhadwr (*ambassador*) a ddywed, i fawredd nodedig gael ei ddangos pan ymwelodd efe â China, ac 'nad ymddangosai fod un draul yn cael ei harbed wrth ymddwyn at y genhadiaeth; a bod yr ymerawdwr yn cymmeryd yr holl draul arno ei hun; oddiar ystyriaeth, mai ei eiddo a'i annedd ef oedd yr holl ymerodraeth, yn yr hon y byddai yn balliant mewn llettygarwch i oddef ymwelydd (canys fel y cyfryw yr ystyrir cenhadwr yn wastad gan y Chineaid) i fod yn y draul leiaf ato ei hun, na'i gymdeithion, tra yr arosai yno.

Dywed *Herodotus*, i Sesostriŷ wneuthur rhanaid rheolaidd o dir-oedd yr Aipht; efe a bennododd i bob Aiphtwr ddarn petryal o dir, a thynid ei gyllid ef oddiwrth y rhent, yr hon a dalai pob un iddo ef. Pwy bynag a ddyoddefai oddiwrth orlifiad y Nilus, caniateid iddo wneuthur ei golled yn hysbys i'r brenin; yr oedd swyddwyr pennodedig i chwilio i amgylchiadau ei golled, fel na threthid up dyn uwchlaw ei allu. Yn yr un modd y trethi a delir gan dyddynwr Chineaid, a delir yn ol iddo yn fynych gan yr ymerawdwr os dygwydda gorlifiad; ond mae rhyw swyddwyr priodol yn wastad yn ymweled â'r fan, fel y gellir gwybod pa faint o niwed a wnawd, cyn y rhodder dim yn ol.

Dywed *Holderness* fod y gyfraith yn nghylch meddiant yn y Crimea, yf hwn a berthyna i Rwsia, yn aros agos fel y sefydlwyd hi yr amser y darostyngwyd y lle. Mae pob gwryw a sefydlo ar etifeddiaeth yn rhwym o rodri i'r perchenog lafur wyth diwrnod yn y flwyddyn. Yn dâl am hyn, mae efe yn cael porfa i'w holl geffylau, dŵ, &c. Am ba dir bynag a aredo efe, rhydd y ddegfed ran o'r cynyrch i berchenog y tir; ac am wair, yn ol y llawnder a fyddo, o'r dtydedd ran i'r hanner. Rhaid cludo y gwair a'r ŷd at dŷ y perchenog, yr hwn a ei hun i'r maes i weled eu bod yn cael eu hanfon.

Cy:una yr hanes hwn â'r hyn a ddywed *Herodotus* a *Diodorus Siculus* am y trefniad o'r tiroedd a berthynant i'r offeiriaid yn yr Aipht. Yr oedd i bob teml, neu i bob sefydliad o offeiriaid, lawer o diroedd, y rhai a fuasant yn diriogaeth berthynol i'r lle, ac yn ganlynol yn feddiant cyffredin i'r holl sefydliad. Yr oedd y tiroedd hyn yn cael eu gosod am rent cymhedrol, ac o'r cyllid ffurfid trysor cyffredin, y trefniad o ba un a ymddiriedid i bersonau neillduol, y rhai hefyd oeddynt offeiriaid. O'r trysor cyffredin hwn, telid at gynnal teuluoedd yr offeiriaid a berthynai i bob teml. Triuir iddynt yn feunyddiol gynnifer o ddysgleidiau, o'r cyfryw fwydydd, ag y mae eu hegwyddorion yn ganiatau iddynt fwyta, a rhoddir rhyw gymmaint o win iddynt, fel na raid iddynt dreulio dim o'u heiddo personol eu hunain at eu cynhaliaeth. Yr oedd y tiroedd hyn o'r eiddynt yn rhydd oddiwrtb bob treth.

Exod. 1. 11. *Am hyny gosodasant arnynt feistriaid gwaith, i'w gorthrymu â'u beichiau.* Ceir fod mesurau cyffelyb o drawsarglwyddiaeth yn y Dwyrain mewn amserau diweddarach. Dywed *Robert Knox*, fod brenin Ceylon yn fynych yn gosod ei bobl wrth weithiau mawrion, y rhai a gymmerent amrywiol o flynyddau i'w gorphen, fel y gallai eu harfer at wasanaeth, ac fel hyn eu rhwystro i wrthryfela i'w erbyn, yr hyn, efallai, a wnaethent, pe buasai ganddynt lai o waith. O herwydd hyn ni oddefai i'w bobl fod un amser yn segur, ond gofalai yn wastad am ryw waith iddynt i'w wneuthur. A cheir hanes am lawer o lywodraethwyr creulon ag ydynt wedi gormesu eu deiliaid, fel na byddai iddynt, o herwydd cael eu cadwyno yn barhaus wrth waith caled, gael amser i ddyfeisio ffordd i wrthryfela. *Tarquin falch*, o herwydd ei anhyder yn mhobl Rhufain, a'u rhoddodd i dori camlasau dan y ddaear yn y ddinas.

Deut. 21. 19. *Porth.* Pyrth dinasoedd yn y dyddiau hyny, a throes lawer o oesau wedi hyny, oeddynt leoedd barn, ac i gyrchu iddynt yn gyffredin. Yma yr elai llywodraethwyr a henuriaid y ddinas i wrando achwyniadau, gweinyddu cyfiawnder, trosglwyddo teitlau i etifeddiaethau, ac, yn fyr, i drefnu pob matter cyhoedd yn y lle. Gyda golwg ar hyn y llefarwyd y geiriau hyny, *Nis gwaradwyddir hwynt pan ymddyddanant â'r gelynion yn y porth*, Salm 127. 5. Tebygol yw fod yr ystafell; neu y neuadd, lle yr eisteddai yr ynadon, uwchben y porth, o herwydd dywedir i *Beaz fyned i fynu i'r porth*; ac ymddengys mai y rhcswm iddi gael ei

hadeiladu yno, oedd, cyfleusdra. y trigolion, y rhai oeddynt gan mwyaf yn llafurwyr, ac yn gorfod myned a dyfod bob dydd drwy y porth, fel y gallent gaél eu galw i mewn pa bryd bynag y byddai eu hangen mewn unrhyw achos.

Yn Morocco, y porth o hyd yw y lle y cedwir barn ynddo. "Mae yr holl achwyniadau yn cael eu dwyn, yn y lle cyntaf, at y llywodraethwr, yr hwn, i'r perwyl hwnw, a dreulia rai oriau bob dydd yn mhorth y ddinas, mewn rhan er mwyn cael awyr iach, ac mewn rhan er cael gweled y rhai a ânt heibio, ac, yn ddiweddaf, i gadw defod a ffynodd yn hir, o gadw barn yno. Mae y porth wedi cael ei drefnu at hyn; wedi ei adeiladu fel ystafell betryal, a dau ddrws iddo, y rhai nid oeddynt y naill ar gyfer y llall, ond un ar y naill ochr, ac un ar y llall, mewn dull fel yr oedd eistedd-leoedd ar y tu arall. Yn y modd hwn eisteddodd Dafydd rhwng dau borth. 2 Sam. 18. 24."

1 Sam. 4. 13. *A phan ddaeth efe, wela Eli yn eistedd ar eisteddfa gerllaw y ffordd yn dysgwyl.* Dewisasid y sefyllfa hon gan Eli fel yn fwyaf cymhwys i'w amgylchiadau; ond gallasai hyn fod hefyd mewn cydffurfiad âg arferiad a ffynai, gan fod y cyfryw sefyllfaoedd yn gyhoedd ac agored. Fel hyn cawn fod lle cyffelyb yn cael ei ddefnyddio at weinyddu cyfiawnder. Dywed un hanesydd, wrth lefaru am ei daith drwy ddeheudir India, yr Aipht, a lleoedd ereill cyffiniol, "Mi a yfais y cwppanaid arferol o *goffee*, ac wedi cymmeryd fy nghanad gyda chyn lleied o ddefod ag a ddangosais i mi, cychwynais tua phalas y llywodraethwr, lle yr oedd ei swyddog yn trin matterion. Yr oedd yn eistedd y tu allan i'r porth, ar gareg ar y llawr, ac yr oedd ar waith yn barnu, ac yn y diwedd dedfrydai Arabiad, gwr hen iawn, am archolli colommen ddôf."

1 Bren. 10. 5. *A'i esgynfa ar hyd yr hon yr âi efe i fynu i dŷ yr Argiwydd.* Oddiwirth y geiriau hyn gallwn weled fod yr esgynfa hon wedi ei gosod at wasanaeth Solomon yn unig. Fel hyn, dywedir wrthym gan Syr *George Staunton*, "ar ci fynediad i'r babel, i ymerawdwr China fyned yn ddioced i'r orsedd ar hyd risiau a bennodasid iddo ef ei hun yn unig." Efe hefyd a hysbysa, fod "un brif-ffordd yn cael ei pheunodi at wasanaeth yr ymerawdwr ei hun yn unig; fod hōno wedi cael ei gwneuthur yn hollol wastad a llyfn; fod pydewau wedi eu gwneuthur yn ymylau y ffordd frenhinol, i ddal dwfr at ei thaeu-

ellu hi yn achlysurol, mewn trefn i gadw y llwch i lawr. Yn gyd-ochrog âg eiddo yr ymerawdwr yr oedd ffordd arall, ddim yn gwbl mor lydan, nac yn cael ei dysgub mor fynych na chyda chymmaint o ofal, ond yn hollol gyfleus a diogel. Bwriedid hon i weision ei fawrhydi ymerodrol; a thros hon caniatayd i'r cenhadwr Brutanaidd fyned. Yr oedd pawb teithwyr ereill yn cael eu cau allan o'r ddwy ffordd hyn, ac yn gorfod gwneuthur eu ffordd fel y gallent." *Vol. 2, p. 279.*

1 Bren. 10. 20. *Ni wnaethpwyd y fath yn un deyrnas.* Mewn coesau diweddarach darllenwn am orseddfainc ag oeddynt heirdd ac ardderchog iawn. Dywed un hanesydd fod gorseddfainc brenhinoedd Parthia o aur, yn cael ei hamgylchu gan bedair colofn o aur, wedi eu haddurno â meini gwerthfawr. Brenhinoedd Persia a eisteddent mewn barn dan winwydden o aur, (a choed ereill o aur,) syppiau grawn pa rai a wnaed o amrywiol o fathau o feini gwerthfawr.

Gellir chwaneu yma yr hanes canlynol am orseddfainc nodedig brenin Mogul:—"Mae gan frenin Mogul saith gorseddfainc, wedi eu haddurno oll drosodd â pherlau o wahanol fathau. Ond y fwyaf yw yr un a adeiladwyd yn nghyntedd cyntaf y palas; y mae yn chwech troedfedd o hyd a phedair o led. Mi a gyfrifais ynghylch cant ac wyth o ruddenau (*rubies*) ar hyd yr orseddfainc hono; y lleiaf o honynt a bwysai gant carat; ond y mae rhai a bwysant ddau cymmaint. Cyfrifais hefyd 140 o wyrddfeini (*emeralds*), ag a bwysent, rai o honynt, dri ugain carat.

"Mae y tu isaf i'r nen wedi ei addurno oll â pherlau, a rhes o berlau o gylch yr ymyl. Ar ben y nen, yr hon a wnawd fel mwd (*arch*), y mae pawyn, a'i gynffon ar led, wedi ei wneuthur oll o feini sapphir a meini ereill cyffelyb; mae y corph o aur, wedi ei addurno âg amrywiol o emau; a rhudden fawr a addurna ei ddwyfron, wrth yr hon y croga perl gwerthfawr pwysig iawn. Ar bob tu i'r pawyn y mae dau flodeuglwm uchel wedi eu gwneuthur o amrywiol fathau o flodau, oll o aur ac wedi eu trwsio yn hardd. Pan eisteddo y brenin ar yr orseddfainc, mae gem dryloyw, bwysig iawn yn cael ei hamgylchu â rhuddenau a gwyrddfeini, wedi eu gosod yn y fath fodd ag y gwnant olwg y brenin yn ardderchog iawn. Mae deuddeg colofn yn dal y nen i fynu, y rhai ydynt wedi eu haddurno â rhesi o berlau. Yn y pellter o ynghylch pedair troedfedd, ar ddau du yr orseddfainc, y mae dwy gysgod-len wedi eu gosod, coesau y rhai ydynt ynghylch wyth

troedfedd o uchder, wedi eu gorchuddio â *diamonds*; mae y cysgod-leni eu hunain o *velvet* coch, ac wedi eu harddu â pherlau. Dyma yr orsedd y dywedir i Timur ddechreu, ac i Shah Johan orphen, a dywedir iddi gostio *chwech miliwn, chwech cant a phedwar ugain a saith o filoedd, a phum cant o bunnoedd (£6,687,500) o arian Lloggr.*" *Tavernier's Indian Travels.*

Mr. *Morier*, wrth ddesgrifio ei ymweliad â brenin Persia, a ddywed, "Yr oedd efe yn eistedd ar fath o orseddfainc a elwid gorseddfainc y pawyn, yr hon a saif dair troedfedd oddiwrth y llawr, ac a ymddengys yn betryal hir o wyth troedfedd o led a deuddeg o hyd. Ni allem ni weled ond pen ac ysgwyddau y brenin yn unig, gan fod y rhan arall o'i gorph yn cael ei orchuddio gan ranau uchaf yr orsedd, ar gonglau pa un yr oedd amrywiol o addurniadau. Mae y cefn yn lled uchel; ar bob tu y mae dwy golofn betryal, ar ba rai y mae adar, y rhai a fwriedir, tebygol, i arwyddo pawynod, ac arnynt feini gwerthfawr o bob math, a daliant rudden yn eu pigau. Mae rhan uchaf yr orseddfainc wedi ei gwneuthur i fynu o emau, y rhai a ddysgleiriant yn rhyfedd iawn. Dygwyddodd yn anhappus ein bod ni mor bell oddiwrth yr orseddfainc, ac nad oedd y goleuni yn ffafriol, fel nad allem ddirnad llawer am ei defnyddiau cyffredin. Dywedwyd wrthym, pa fodd bynag, ei bod wedi ei gorchuddio â llafnau o aur, wedi eu gwychu â gwyrddfeini y rhai yn gyffredin a ddefnyddir mewn ddréfn addurnedig yn Persia. Dywedir iddi gostio *can' mil o tomans.*

2 Bren. 11. 1. *Hi a gyfododd, ac a ddifethodd yr holl hâd brenhinol.* "Yr oedd penaduriaeth annibynol, mewn un teulu o Iuddewon, wedi cael ei gadw yn wastad ar fynydd Samen, ac yr oedd y palas brenhinol ar graig uchel, a elwid Craig yr Iuddew. Yr oedd amrywiol o fynyddoedd anhygyrch ereill yn gwasanaethu fel amddiffynfeydd naturiol i'r bobl hyn, y rhai yn awr oeddynt wedi dyfod yn lliosog, drwy chwaneigiadau mynychr o nerth o wlad Canaan ac Arabia, lleoedd o ba rai y cawsai yr Iuddewon eu gyru ymaith. Gideon a Judith oeddynt bryd hyn yn frenin a brenhines yr Iuddewon; a'u merch Judith oedd fenyw o brydferthwch mawr, a thalentau nodedig at ddichellion; yr oedd wedi priodi â llywodraethwr talaeth fechan, a elwid Bugna, gerllaw Lasta; yr oedd y naill a'r llall o'r gwledydd hyn hefyd wedi myned yn lled lawn o Iuddewiaeth. Yr oedd Judith wedi gwneuthur plaid mor gref, fel y penderfynodd hi

wneuthur cyrygiad at ddymchwelyd y Grefydd Gristionogol, a chyda hi y dyluniad yn llinell Solomon. Yr oedd plant y teulu brenhinol, ar y pryd hwn, yn ol yr hen gyfraith, yn cael eu cadw ar fynydd ag oedd bron yn anhygyrch, a elwid Damo, yn Tigre. Teyrnasiad 'byr, marwolaeth sydyn ac annysgwyladwy y brenin diweddar, Aizor, a'r difrod a'r haint a ledasai yn y llys a'r brif ddinas, a chyflwr gwan Del Naad, yr hwn oedd i olynu Aizor, a'r hwn oedd yn faban; o herwydd yr holl amgylchiadau hyn yn nghyd, meddylodd Judith mai yn awr oedd yr amser i gyfleu ei theulu ar yr orseddfainc, a sefydlu ei chrefydd, drwy ddiwreiddio teulu Solomon. Yn ganlynol, hi a ymosododd ar Graig Damo, ac a laddodd yr holl dywysogion yno, dywedir, bedwar cant o rifedi. Rhai pendefigion yn y lle yr oedd y brenin ieuanc, Del Naad, yn awr yr unig dywysog o'i deulu, pan glywsant am y llofruddiaeth yn Damo, a'i symudasant ef i'r dalaeth ufudd a grymus hono Shoa, a thrwy hyn cadwyd y teulu brenhinol, i gael ei adferyd drachefn." *Bruce's Travels, vol. 3, p. 526.* Mae yr hanes hon yn debyg iawn i'r un a goffeir yn y bennod hon,—gwaith Athaliah yn dyfetha yr holl deulu brenhinol, a gwaredigaeth ryfedd Joas.

2 Bren. 18. 19. *A Rabsaceh a ddynedodd wrthyni, Dywedoch yn awr wrth Hezeciah, Fel hyn y dywedodd y brenin mawr, brenin Assyria.* "Yr oedd Mirza Zekey yn ts-ygrifenydd y llywodraeth, a chyfrifid ef yn un o'r rhai oferaf, yn gystal ag un o'r rhai mwyaf gofalus o weinidogion y llys. Yr oedd araith a wnaeth efe wrth y cenhadwr yn ystod ei ymweliad yn ddesgrifiadol iawn o'r dyn; canys wrth lefaru am y brenin, llofodd allan, 'Aroswech, aroswech, hyd nes y gweloch Kebleh Alum, yna, yn wir, chwi a gewch weled brenin. Mae efe ynddo ei hun yn baradwys, mae efe yn llawni gostyngëiddrwydd atoch 'chwi; fel prawf o hyn efe a'm hanfonodd i, person o radd uwch nag a anfonwyd erioed o'r blaen at un cenhadwr blaenorol, i'ch tywys chwi ato ef." *Morier's Second Journey through Persia, p. 91.*

*Kebleh* yw y fan y try y Mohammedaniaid ato mewn gweddi. *Alum*, y byd. Mae hwn yn un o' deitlau cyffredin brenin Persia; a hwn yw yr un yr anerchir ef wrtho yn fwyaf cyffredin gan ei ddeiliaid.

"Hyat Saib, llywodraethwr Bidanore, wedi iddo ddarfod gofyn ei res faith o ofyniadau, a droodd ei ymddyddan at destyn arall,

dŷm llai na'i feistr a'i arglwydd mawr, Hyder, am yr hwn yr ymdrechasai weithio ynof feddwl mawr os nid arswydus, gan ddangos mawredd ei anrhydedd, ei gyfoeth, a helaethrwydd a gwycheder ei diriogaethau; a chan ddesgrifio, mewn ymadroddion chwyddedig, rifedi ei luoedd, ei dalentau milwraidd, ei gynheddfau eryfion, ac, yn ol ei hanes ef, ei gynheddfau digyffelyb, ei alluoedd i orchfygu a llywodraethu y cenhedloedd, ac uwchlaw y cwbl ei rinweddau hawddgar, tynerwch ei galon, ei ddeall rhagorol, &c. Wedi iddo fel hyn, gyda zel a ffyddlondeb, ymdrechu fy ennill i barchu ei arglwydd a'i feistr, ac i'r perwyl hwnw briodoli pob perffeithrwydd iddo ag y gellir tybied eu bod wedi eu rhanu rhwng yr holl frenhinoedd a'r llywodraethwyr ag a fu oddiar enedigaeth Crist, a rhoddi i bob un ei ran, efe a drodd at y llywodraethwr Seisnig, ac a ymdrechodd ddangos i mi mor ffol ac anfuddiol oedd ein gwaith yn cynnyg attal ei gynnydd ef, yr hwn a gymharodd efe i eiddo y môr, i dymhestl, i ffrwd, i gerddediad a ffyrnigrwydd llew; i bob peth ag a allai dychymmyg dwyreiniol gael gafael ynddo i osod allan wychder a gallu anorchfygol." *Campbell's Travels in India*, pp. 3. 49.

2 Bren. 25. 7. *Ac a dynasant lygaid Zedeciah.* Gwnawd hyn, tebygol, gyda golwg i analluogi y brenin i esgyn byth mwy i'r orseddfainc. Fel hyn yr oedd cyfraith yn Persia hyd yn ddiweddar, nad allai dyn dall esgyn i'r orseddfainc. O herwydd hyn arferid y ddefod greulon, ag oedd yn gyffredin yn amser *Chardin*, o ymddifadu meibion a pherthynasau gwryw brenin Persiaidd, y rhai ni oddefid iddynt ddyfod i'r llywodraeth, o'u golwg. I lawr hyd amser Abbas, yr hwn a deyrnasodd yn 1642, cafodd hyn ei wneyd, yn ol tystiolaeth *Chardin*, yn unig drwy dynu llafn pres poeth o flaen y llygaid. "Ond nid oedd y golwg yn cael ei ddystrywio mor llwyr fel nad oedd y person a ddallid yn cael wedi hyny ryw ychydig o lewyrch, a chyflawnid y weithred yn fynych mor ffafriol fel y gadewid y golwg i ryw radd. Yn ystod teyrnasiad Abbas II., un o frodyr y tywysog hwn unwaith a ymwelodd â'i fodryb a'i nai, palas pa rai sydd unedig â thrigfa yr Ellmyn (*Dutch*). Wedi iddo arwyddo dymuniad i ymweled â'r dyeithriaid hyn, hysbyswyd hyn iddynt, a hwy a wahoddwyd i dreulio prydawn, a chymeryd swpper gyda hwynt. Brawd y brenin a ddygodd amrywiol o dywysogion ereill a ddallesi'd gydag ef, a phan ddygwyd canwyllau i mewn, sylwyd eu bod yn gwybod hyny. Gofynwyd iddynt a oeddynt yn gweled rhywbeth. Atebodd brawd y brenin



yn gadarnhaol, a chwanegodd y gallasai efe weled digon i rodiog heb ffon. Clywwyd hyn, er tristwch, gan un o yspiwyr y llys, y rhai a roddasid ar waith i wyllo holl symudiadau y bobl fawrion. Yn ol arferiad y bobl hyn, efe a adroddodd hyny mewn modd maleisus wrth y brenin, ac mewn modd nad allasai lai na'i unesmwytho. "Pa fodd," eb efe, "y gall y bobl ddeillion hyn ymffrostio y gallant weled? Mi a rwystraf hyny;" ac yn ddioced archodd dynu eu llygaid, yr hyn a wnawd drwy ddefnyddio blaen bidawg i'r perwyl hwnw. "Mae y Persiaid," medd *Chardin*, mewn lle arall, "yn ystyried eu ffordd o drin plant y teulu brenhinol, yn dyner a chanmoladwy; gan na roddant hwynt i farwolaeth fel y gwna y Tyrciaid. Hwy a ddywedant fod ymddifadu y tywysogion hyn o'u golwg yn beth goddefadwy, i ddiogelu y wladwriaeth rhag terfysg; ond ni feiddiant eu rhoddi i farwolaeth o herwydd dau reswm; y cyntaf yw, fod y gyfraith yn gwahardd tywallt gwaed gwirion; yr ail yw, y gallai y rhai a adewid yn fyw farw yn ddfblant, a phe na byddai perthynasau ereill, y darfyddai yr holl deulu cyfreithlon."

Neh. 3. 7. *Gorseddfa y llywydd*. Er yr ymddengys fod gorseddfa a mawredd brenhinol yn eiriau a berthynant i'w gilydd, yn anwahanol, eto caniatayd weithiau y faint o eistedd ar orseddfa i rai, nad oeddynt yn frenhinoedd, yn enwedig i rai llywodraethwyr ar daleithiau helaeth. Yr ydym yn darllen am orseddfa y llywydd oedd tu yma i'r afon,—gorseddfa, mewn geiriau ereill, y llywydd dros frenin Persia ar y tu gorllewinol i'r Euphrates.

Felly dywed Dr. *Herbelot* wrthym, i frenin Persia roddi i lywodraethwr un o'i daleithiau ganiatad i eistedd mewn cadair wedi ei goreuro, pan weinyddai gyfiawnder, yr hwn sawredd a ganiatayd iddo a herwydd pwys y sefyllfa oedd ganddo, i'r hyn yr oedd y cadweidiad o ryw fynedfa bwysig iawn wedi ei roddi. Bu y dalaeth hon, medd efe, yn cael ei galw wrth enw a arwyddai, yr orseddfa aur. At yr hyn y chwanega efe, i'r faint hon gael ei chaniatau i lywodraethwyr y dalaeth hon, o herwydd ei bod y lle drwy yr hwn yr oedd y cenhedloedd gogleddol yn arfer gwneuthur eu ffordd i Persia; o herwydd hyn hefyd codwyd gwrthglawdd mawr yno. P. 157.

Salm 72. 9—11. *Ei elynion a lyfant y lloch*. Yn yr hanes a rydd Mr. *Hugh Boyd* am ei genhadiaeth ef at frenin Candy yn Ceylon, mae ymadroddion a eglurant mewn modd nodedig

lawn y rhan hon o'r Salm, a dengys gyda pha fath weniaith a pharch gostyngedig y nesaid at benaeth dwyreiniol.

Wrth ddesgrifio ei ddygiad at y<sup>o</sup> brenin, efe a ddywed, "Y symudiad o'r llen oedd yr arwydd am ein hymostyngiadau. Yr oedd cytundeb nad oedd raid i mi wneuthur dim ond penlinio. Fy nghymdeithion yn ddioed a ddechreusant gyflawni yr eiddynt hwy, y rhai oeddynt yn y radd berffeithiaf o ymostyngiad dwyreiniol. Hwyl agos yn llythrenol a lyfasant y llwch; bwriasant eu hunain i lawr nes oedd eu gwynebau bron cyffwrdd â'r llawr cerig, a thafasant allan eu coesau a'u breichiau; yna gan godi ar eu penliniau, hwy a adroddasant ryw ffurf o eiriau o'r ystyr mwyaf chwyddedig ag a allesid ddyfeisio:—bod i ben brenin y brenhin-oedd gyrhaedd tu hwnt i'r haul; bod iddo fyw mil o flynydd-oedd, &c."

"Y dosbarth isaf o bobl yn Japan hefyd a ddangosasant yr un arwyddion o barch i ni ag i dywysogion, plygu eu penau tua'r ddaear, ac hyd yn nod troi eu cefnau weithiau arnom, i arwyddo yr ystyrient ni mor uchel, fel, yn eu gwaeledd dirfawr hwynt, eu bod hwy yn annheilwng o gael edrych arnom. Pa le bynag yr elai eu tywysogion heibio, byddai pawb yn hollol ddystaw, y bobl ar y ffordd a syrthient ar y ddaear, mewn trefa i ddangos eu parch." *Thunberg's Travels*. "Yr offeiriad ei hun a dywys y pererinion, neu a orchymyn i'w was fyned gyda hwynt i ddangos iddynt yr amrywiol demlau, a dywedyd wrthynt enwau y duwiau i ba rai yr adeiladasid hwynt, ac wedi i hyn gael ei wneuthur, efe ei hun a'u dwg o flaen prif deml Tensio Dai Sin, lle, gyda gostyngedd rwydd mawr, y bwriant eu hunain ar y llawr, ac yn y sefyllfa isel hon gwnant eu hymbiliau o flaen y duw grymus hwn, gan osod allan eu hangenion, a gweddio am happusrwydd, cyfoeth, iechyd, a hir einioes." *Kaempfer's Japan*.

"Pan newidiai y brenin ei drigfa, neu y teithiai, henuriaid ei lwyth a ymgynullent, ac a ddygent o'i flaen deyrnwialen, a phicell a math o lumman arni, i roddi rhybudd am ddynesiad y brenin, i bawb a allent fod yn teithio ar y ffordd, fel y gallent dalu iddo y gwarogaeth arferol, yr hyn a wnelid drwy fwrw eu hunain ar y llawr o'i flaen, a sychu ymaith y llwch oddiwrth ei draed ef a chyrau eu dillad, a'u cusanu hwynt." *Glasse's Canary Isles*, p. 147.

Diar. 16. 4. *Digofaint y brenin sydd megys cennad angau.*

Pan byddo gelynion gwr mawr wedi ennill digon o awdurdod gyda'r tywysog i gael gwarant er ei roddi i farwolaeth, mae dienyddiwr yn cael ei anfon ato, yr hwn "a ddengys iddo y gorchymyn sydd ganddo i ddwyn ei ben yn ol. Y llall a gymmer warant yr ymerawdwr Tyraidd, ac a'i cusana, ac, wedi cyflwyno ei olchiadau, a dywedyd ei weddiau, efe yn rhwydd a rydd i fynu ei ben. Fel hyn mewn modd dall hwy a ufuddhant i orchymyn yr ymerawdwr, ac ni chynnyg y gweision un amser rwystro y cenad, er y daw yn fynych heb ond ychydig neu neb gydag ef." *Thevenot, cap. 46.* Cymmerai y tywysogion Iuddewig ddull lled cyffelyb, Benaiah oedd cenad Solomon i roddi Adonijah i farwolaeth, 1 Bren. 2. 25. Cenad, mewn modd cyffelyb, a dorodd ben Ioan Fedyddiwr yn y carchar, Mat. 14. 10. Caniateir gan hyny fod grym mawr yn y geiriau, *cenad angau, os* deallwn ni hwynt am genad y tywysogion Iuddewig.

Caniad Solomon 8. 6. *Gosod fi megys sel ar dy fraich.* Mewn hen gân Bersiaidd, a elwid Llyfr y Brenhinoedd, mae hanes am wron o'r enw Roostum. Dywedir pan dderbyniodd Sohrab, mab y gwron hwn, ei archoll farwol oddiwrth ei dad, pan oedd y naill a'r llall yn anadnabyddus i'w gilydd, iddo ddryllio ei wisg arfau, a dangos y sêl a *osodasai* ei fam *ar ei fraich*, pan ddatguddiodd hi iddo yr amgylchiad o'i enedigaeth ddirgel, ac y gorchymynodd iddo geisio ei dad. Yr olwg ar ei sêl ei hun a wnaeth Roostum yn hollol orphwyllog. *Sir John Malcolm's History of Persia, vol. 1, p. 37.*

Esay 10. 1. *Gwae y rhai sydd yn gwneuthur deddfau ansir.* Mae y dull o wneuthur deddfau yn y Dwyrain yn gwahaniaethu oddiwrth ein dull ni; ysgrifenir hwynt yn gyntaf, ac yna yr ynad a'u cadarnhâ neu a'u diddyma. Dywed *D'Arvicuz* wrthym, pan byddo Arabia yn ewyllysio cael ffafr, ei fod yn myned at yr ysgrifenydd, yr hwn a ysgrifena y ddeddf yn ol dymuniad y dyn. Os bydd i'r llywodraethwr ganiatau y ffafr, efe a esyd ei sêl ar y papyr, os na wna, efe a'i dychwel yn ddrylliedig i'r deisyfwr. Fel hyn gallwn weled yn mha beth yr oedd drygioni y personau hyny y rhai a ysgrifinent y deddfau hyn i gael eu cadarnhau neu eu diddymu gan wŷr mawrion. Nid oedd yr olaf ond yn unig ond yn cadarnhau neu yn gwrthod, pan yr oedd yr holl annghyfiawnder a'r drygioni cynnwysedig yn y deddfau hyny yn dechreu gyda'r deisyfwr a'r ysgrifenydd, y rhai a allent wrth drefnu matterion dwyllo eu llywodraethwr.

Dan. 2. 4. *O frenin, bydd fyw yn dragywydd.* Ymddengys yn amlwg iawn fod yr hen ddymuniad a'r anerchiad hwn wedi codi oddiwrth hen dyb, y byddai i'r rhai a ennillent ffafr a thru-garedd drwy y Messiah addawedig fyw *mewn gwirionedd* yn dragywydd, ac y caent nid yn unig gymmaint, ond mwy o allu i fod yn wasanaethgar ar ol hyn, nag sydd ganddynt ar y ddaear. *King's Morsels of Criticisms.*

"Pan ddaethom i olwg y brenin, nydni oll a dynasom ein hetiau, ac a blygasom yn isel; yna nydni a ddaliasom ein dwylaw i fynu tua'r nefoedd, fel pe buasem yn gweddio dros y brenin, ac wedi hyny aethom yn mlaen tua'r ffynnon, lle yr adroddodd y swyddog ein henwau, heb un teitl o barch, gan derfynu, 'Hwy a ddaethant o Ewrop fel cenhadau at eich mawrhydi; cuffed eich anffodion chwi eu troi arnaf fi.' Arferir rhyw ffurf o weddi fel hon yn wastad wrth anerch y brenin. Mae yn cyfateb i, *O frenin, bydd fyw yn dragywydd!* yr hon a arferai y Persiaid gynt." *Elphinstone's Account of the Kingdom of Caubul, p. 49.*

"Mae uchafiad yn rhoddi bendith i isafiad, drwy ddywedyd wrtho, pan byddo yr olaf wrth y weithred o dalu parch iddo, 'Hir einioes i ti!' Mae dyn tlawd hefyd, wrth fyned i bresenoldeb brenin i geisio ffafr, yn defnyddio yr un anerchiad. 'O dad, tydi wyt gynhaliath y diymgeledd, bydded i ti fyw yn hen!'" *Ward's View of the Hindoos, vol. 2, p. 333.*

Mat. 9. 9. *Yn eistedd wrth y dollfa.* Yr oedd gan y publicanod dai neu fythod wedi eu hadeiladu iddynt wrth ben y'pontydd, wrth eneuau afonydd, ac ar lan y môr, lle y cymmerent doll gan deithwyr wrth fyned yn ol ac yn mlaen. Gan hyny darllenwn am docynau (*tickets*) neu seliau publicanod, y rhai pan dalai dynion doh ar un tu i'r afon, a roddid iddynt gan y publican i ddangos i'r hwn a eisteddai ar y tu arall eu bod wedi talu. Ar y rhai yr ysgrifenedwy lythyren fawr, mwy na'r rhai oedd mewn arferiad cyffredin.

"Yn Persepolis y mae tollwyr wedi eu gosod i godi toll ar y marsiandwyr; a'r rhai yn gyffredin a gaslawnant eu swydd gyda chymmaint o greulondeb ac ocræth, fel y ffeiddir hwynt gan bawb teithwyr. Mae y tollau yn cael eu rhentu allan, gan hyny mae ocræth yn canlyn; ac megys nad yw y rhan amlaf o'r tollwyr yn derbyn un gyflog ond yr hyn a'allont godi uwchlaw yr hyn sydd ddyledus oddiwrth y teithiwr, gellir gweld yr hys

a achlysurau eu trahauser hwy ar y naill law, a'r casineb sydd atynt ar y llall." *Morier's Second Journey through Persia*, p. 70.

Act. 12. 21. *Gwedi gwisgo dillad brenhinol.* "Ar yr un tu, ond yr agos i'r ffenestri, yr oedd tri ysgrifenydd: yr oedd y rhai hyn ar ein llaw aswy ni pan yr oeddem yn sefyll y tu ol i gadair y cenhadwr; tra ar ein llaw ddeheu, gerllaw y drws, yr oedd pedwar o'r prif weinidogion, a'r tywysog, yr hwn a ddaethai gyda ni o'r palas. Tu hwnt iddynt hwy, tuag ochr aswy yr orseddfainc, yr oedd rhes o bump neu chwech o swyddwyr, yn mysg y rhai yr oedd un yn dal coron ardderchog, yr hon yr ymddangosai nad oedd disgleirdeb ei pherlau, yn llai nag eiddo yr hon a harddai ben y penadur mor neillduol. Un arall o'r swyddwyr hyny a ddygai yn ei law gleddyf y llywodraeth; un arall a ddaliai y bwa brenhinol; un arall a ddaliai darian; ac un arall a ddaliai ddysgl arian yn yr hon yr oedd *diamonds* a gwahanol fathau o feini gwerthfawr o faintioli a dysgleirdeb rhyfedd. Gallaswn ganfod fod gwisg y brenin o fîw ysgarlad; ond yr oedd yn anhawdd deall yn sicr pa beth oedd ei defnydd, o herwydd yr amltra o berlau oedd yn ei chuddio mewn amryw- iol o fanau, a'r lliaws o emau oedd yn dysgleirio o amgylch; ymddangosai fod yr orsedd aur wedi ei harddu ar ei hochrau a meini gwerthfawr o bob lliw dichonadwy, ac yr oedd y cefn yn debyg i haul gogoneddus, ac yr oedd *diamonds*, *garnets*, gwyrdd-feini, a rhuddenau, wedi eu gosod i efelychu ei belydr. O bethau cyffelyb hefyd yr oedd coron fawr ac ardderchog y penadur wedi ei gwneuthur; a'r ddau lun aderyn ag oeddynt yn addurno yr orseddfainc, un ar bob tu ar ei hyagwyddau addurniedig." *Sir William Ouseley's Travels in the East*, vol. 3, p. 131.

Act. 22. 23. *Yr oeddynt yn llafain, ac yn burw eu dillad, ac yn taflu llwch i'r awyr.* Ymddengys fod tebygolrwydd mawr rhwng ymddygiad yr Iuddewon, pan aeth cadben y gwarchodlu Rhufeinig i'r deml, ac ymddygiad pobl y wlad yn Persia, pan elont i'r llys i achwyn ar y llywodraethwyr dan y rhai y maent yn byw, pan yn cael eu gorthrymu mewn modd anoddefadwy. Syr *John Chardin* a ddywed wrthym am danynt, eu bod yn dwyn eu hachwyn- iadau yn erbyn eu llywodraethwyr yn finteioedd, yn cynnwys amrywiol o gannoedd, ac weithiau fil o wŷr; hwy a ânt at y porth hwnw i'r palas gerllaw yr hwn y mae eu tywysog yn debyg o fod, lle yr unant i wneuthur y llefau mwyaf erohyll,

dryllio eu dillad, a thafu llwch i'r awyr, a chan ofyn cyfiawnder ar yr un pryd. Y brenin, pan glywo y llefau hyn, a enfynd i ofyn pa beth yw yr achos o honynt. Y bobl a roddant eu hachwyniad mewn ysgrifen, ar hyn efe a hysbysa iddynt y rhydd efo y matter i law y cyfryw neu y cyfryw un i'w chwilio. Mewn canlyniad i hyn, mae cyfiawnder yn gyffredin yn cael ei wneuthur iddynt.

Gwnawd hyn mewn dirmyg, fel y cawn Simei yn gweithredu at Dafydd, 2 Sam. 16. 13. Dywed haneswyr yr arfera yr Arabiaid wneuthur hyn, pan osodant allan eu dirmyg ar ddynd wrth lefaru, a'u casineb at yr hyn a ddywedo.

“Hwy a ymddangosasant yn fwy eiddigedus o honof ar fy ymddangosiad yn eu plith na neb a welswn o'r blaen. Llefent o bob parth, ‘Anrheg! anrheg!’ cyn y goddefent i mi edrych ar eu teml. Un, ag oedd yn ffyrnicach na'r lleill, a daflodd lwch i'r awyr, arwydd o lid a hêr, rhedodd am ei darian, a daeth ataf gan ddawnsio, udo, a tharo y darian â blaen y waywffon, i'm brawychu. Anrheg, pa fodd bynag, a'i tawelodd.” *Light's Travels in Egypt.*

## PENNOD XVIII.

### RHYFEL.

GEN. 14. 15. *Ac efe a ymranodd yn eu herbryn hwy i'w nos, efe a'i weision, ac a'u tarawodd, ac a'u hynliodd.* Mae y dull y mae yr Arabiaid yn blino y minteioedd marsiandwyr yn y Dwyrain, yn cael ei ddesgrifio fel hyn gan *Chardin*. Efe a ddywed wrthym mai eu dull o ryfela â marsiandwyr a'u hyspeilio, yw, cadw wrth eu hochrau, neu eu canlyn, yn agos neu yn mhell, yn ol eu nerth, yr hyn a ellir yn hawdd wneuthur yn Arabia, llae mae gwas-tadedd helaeth, ac yn y nos hwy yn ddystaw a syrthiant ar y gwersyll, ac a ddygant ymaith ysglyfaeth o un rhan o hono cyn y byddo y rhan arall dan arfau.

Gen. 32. 6. *Y mae efe yn dyfod i'th gyfarfod di, a phedwar tant o wŷr gydag ef.* Dywed *Capper*, swyddog milwraidd, fel hyn am wersyll Arabaidd: “Oddiar y bryn hwn gallm wedd yn eglur, yn y pellder o ynghylch tair milltir, lu mawr o Arab-

iaid, y rhai, gan fod eu teuluoedd a'u diadelloedd ganddynt gyda hwynt, a ymddangosent yn gyffelyb i wersyll y patrieirch. Hwy ar y cyntaf a anfonasant fintai o ynghylch pedwar cant o wŷr tuag atom, ond yn cael ein bod wedi trefnu i'w derbyn, ni ddaeth ond pump yn unig yn mlaen, gan ymddangos yn ewyllysio ymddyddan â ni; wrth weled hyn, ninau hefyd a anfonasom bump o'n gwŷr ar draed i'w cyfarfod. Cymmerodd cylafareddiad byr le, ac yna daeth y ddwy blaid i'n gwersyll, a derbyniwyd hwynt gyda moesgarwch mawr gan ein penaeth. Trödd allan mai *Bedouins* oeddynt, dan lywodraeth penaeth arall, a'u bod oll yn nghyd oddeutu ugain mil mewn rhifedi, a chyfrif gwragedd a phlant. Wedi llawer o gylafareddu, cytunodd ein penaeth ni dalu ychydig o deyrnged am bob camel yn dwyn marsiandiaeth; ond gwrthododd dalu am y rhai a ddygent bebyll a lluniaeth. Hwy a addawsant anfon mintai amddiffynol gyda ni, hyd nes y byddem allan o bob perygl oddiwrth eu minteioedd gwasgareidig hwynt."

Gen. 32. 7. *Yna Jacob a ofnodd yn fawr, a chyfyng oedd arno; ac efe a ranodd y bobl oedd gydag ef, a'r defaid, a'r eidionau, a'r camelod, yn ddwy fintai.* Ymddengys mai nid Jacob a ddyfeisiodd y ffordd hon gyntaf; ond gellir tybied fod minteioedd llicosog o farsiaidwyr ar yr amser hwnw yn cymmeryd y gofal hwn yn erbyn ymosodiad gelymion. Dywed Syr *H. Blount* iddo ef deithio mewn *caravan*, neu fintai o'r fath, yr hon a ranodd ei hun yn ddwy ran; i un rhan fyned o'r blaen, i yspeilwyr ymosod arni, ei threchgu mewn brwydr, a'i hyspeilio, ond i'r llall ddianc heb gael niwed.

Gen. 42. 9. *Ysptiwyr ydych.* Mae drwgdyb fel hon yn cael ei lletya o hyd gan yr Arabiaid gyda golwg ar deithwyr. Dywed *Shaw* fod yr Arabiaid yn cymmeryd pob dyfodiad (*foreigner*) yn yepiwr, yr hwn a ddaw i chwilio eu gwlad, canys dysgir hwynt o'u hieuenctyd, eu bod ryw ddiwrnod i ddyfod dan lywodraeth y Cristionogien. Ond nid anfynych y defnyddir yr eagus hwn yn ffordd i orthrymu; fel y mae teithwyr yn cael eu hunain mewn sefyllfa debyg iawn i'r un ag yr oedd brodyr Joseph ynddi. *Rassouf*, yr hwn a aeth o Bir i Bagdad ar hyd lan yr Euphrates, yn y flwyddyn 1574, a ddywed, "Wedi i ni lanio yn Racca, tref yn Asia, berthynol i'r Tyrciaid, swyddeg y tollŷ a ymddangosodd yn ddiwed ar geffyll ar y traeth, ac a orchymynodd i'r meistyr Tyrciaidd a seolai y béd roddi i fynu ei arfau, ei bioell, a'i fwa;

yr hyn y gwrthododd efe ei wneuthur, am na ddygwyddodd hyny iddo erioed o'r blaen; ar hyn aethant i'r fath ddadl ffyrnig, fel yr ymosodasant ar eu gilydd, ac oni buasai i'r personau oedd yn bresennol gyfryngu, gallasai y canlyniadau fod yn druenus. Y rheswm i swyddog y tollŷ fod mor ddigofus, yn benaf, oedd i ni beidio myned a'n nwyddau i dref a orweddai daith pedwar diwrnod yn mhellach yn mlaen ar yr afon gyflym Tigris, a'u rhoddi yno, o herwydd y derbyniasai efe yno gymmaint yn chwaneg o doll. Ond gan nad oedd y Tyrciad yn gofalu am dano, ac o herwydd nad oedd ganddo yn y llong ddim ond ŷd, efe yn y diwedd a'i gadawodd ef, ac a ddaeth atom ni ein dau fel dyeithriaid, gan ddychymygu y buasai yn ein brawychu ni yn gynt i dalu yr hyn a ofynai; efe gan hyny a orwedodd i lawr rhyngom ni yr holl noson ar y bwrdd, rhag ofn i ni gymmeryd rhyw nwyddau allan o'r llong; efe hefyd a arferodd iaith amharchus, a dywedodd, gan nad oeddem ni, fel dyfodiaid, yn cael caniatad i deithio drwy y gwledydd hyn, fod yn rhaid iddo ef dybied i ni ddyfod yma er mwyn cael gwybodaeth helaethach am y wlad, yn fwy nag i un dyben arall; fod ganddo ef, gan hyny, ddigon o achos i rwystro ein nwyddau, a'n hanfon fel yspiwyr i Gaercystenyn, at ei feistr grasusaf yr ymerawdwr, i fod yn gaethion iddo." Dygwyddodd amgylchiad cyffelyb iddynt eilwaith ar yr un daith. "Ar y ffordd cyn i ni ddyfod i Anah, canfyddais yn eglur fod amrywiol o'm cymdeithion, i ba rai y cawswn fy nghymmeradwyo yn neillduol fel dyn dyeithr yn Aleppo, yn fy ngadael, ac yn dechreu siarad â meistr y llong, yr hwn a anesid yn y dref hono, ynghylch fy ngosod i allan i'r ynadon yno, drwy bersonau ereill, fel nad ymddangosai fod ganddynt hwy law yn y peth, fel yspiwr, yr hwn yn ofalus a chwiliwn ac a gymmerwn sylw manwl ar bob lle a thref; yr hyn, pa fodd bynag, a wnawd yn benaf i'm brawychu, fel y gallent wneuthur mwy o ysglyfaeth o honof."

Num. 23. 24. *Ac yfed gwaed y lladdedigion.* Cadben *Franklin*, yr hwn a ymwelodd â *Shiraz* yn *Persia*, a ddywed, "i berson yno sicrhau iddo ef weled milwr nid yn unig yn golchi ei ddwylaw yn ngwaed rhyw ddyd a laddesid, ond yn cymmeryd rhyw gymmaint o hono yn ei ddwylaw, yn yfed ychydig o hono, ac yn golchi ei farf â'r gweddill, gan waeddi allan, *Shooker Allah*, neu diolch i Dduw. Y dyn anwaraidd hwn, drwy y weithred hon, a fwriadai gymmeradwyo ei hun i'r anghenfil a wasanaethai,



fel 'un a ymhyfyrdai mewn yfed gwaed gelynyon ei benaeth." *Malcolm's History of Persia.*

Num. 35. 13. *Ac o'r dinasoedd y rhai a roddwch, chweck fydd i chwi yn ddinasoedd noddfa.* "Mae gan y cenhedloedd Indiaidd yn ngogledd America, y rhan amlaf o honynt, naill ai tŷ neu dref noddfa, lle y mae diogelwch sicr i ddynd-leiddiad, neu gaethwas, os gall fyned i mewn uwpaith. Y *Cheerake*, er yn awr yn hynod o lygredig, a gadwant y ddeddf hon o hyd mor ddihalog, fel y goddefant i'w tref hoff y fraint o ddiffynu llofrudd gwirfoddol, ond anfynych y goddefant iddo ddychwelyd adref wedi hyny yn ddiogel. Hwy a ddialant waed am waed, oddieithr mewn rhyw amgylchiadau neillduol iawn. Mae y llofrudd weithiau yn cael ei brynu. Mae bron yn mhob cenedl Indiaidd amrywiol o drefi heddychol, y rhai a elwir trefi anwyl, hen, santaidd, a gwynion (gwyn gyda hwynt yw yr arwydd o heddwch, cyfeillgarwch, llwyddiant, hapusrwydd, purdeb, &c.). Ymddengys eu bod gynt yn drefi noddfa, canys nid yw eu pobl henaf yn cofio fod gwaed un amser yn cael ei dywallt ynddynt, er eu bod yn fynych yn gyru pobl o honynt ac yn eu rhoddi i farwolaeih mewn lleoedd ereill." *Adair's Indians.*

"Mae marchdŷ y brenin yn cael ei ystyried yn un o'r lleoedd santeiddiolaf o bob noddfa. Yn ystod y teyrnasiad presennol, pendefig o'r radd uchaf yn y deyrnas, yr hwn a amcanasai at yr orsedd, a gymmerodd noddfa yn y marchdŷ brenhinol, ac a arosodd yno nes iddo gael maddeuant am ei drosedd. Mae y llwythau milwraidd yn Persia yn wastad wedi edrych ar y noddfa hon gyda'r parch mwyaf coelgrefyddol. Dywedant na bydd i geffyl byth ddwyn dyn a droseddo yn erbyn y noddfa hon, i suddugoliaeth." *Malcolm's History of Persia.* A dywedant i'r holl anffodion a ddygwyddasant i ryw un o'r tywysogion yno, ddygwydd o herwydd iddo ddianrhydeddu ei farchdŷ, drwy roddi i farwolaeith ddyn a gymmerasai noddfa yno. Rhaid i'r penadur yn marchdŷ yr hwn y cymmero troseddwr noddfa, ei borthi ef cyhyd ag yr aroso yno; ond gellir ei ladd y funud cyn y cyrhaeddo y noddfa, ac ar y funud ar ol iddo ei adael; ond tra yno, ni ellir cyffwrdd hyd yn nod â chaethwas a laddodd ei feistr. Y lle o ddiogelwch yw wrth ben y ceffyl.

Deut. 7. 2. *A tharo o honot ti hwynt, gan ddirodi difroda hwynt.* Mae anghreiffitiau o ddiwreiddiad cenhedloedd heblaw

eiddo y Canaanaid. Schah Abbas a ddiwreiddiodd drigolion amrywiol o bentrefi yn Persia, am eu drygioni ffaidd. *Ambassador's Travels.*

Yr oedd gan y Rhufeiniaid amrywiol o ffyrdd i ddyfetha pobl o'u gwlad. Y person a gondemnid i alltudiaeth, a gollai holl freintiau dinesydd, ac a fforfediai bob math o feddiant. Weithiau dedfrydid dyn i gael ei symud i ryw bellder pennodedig o Rufain, ond os na osodid unrhyw ddirwy, ni chymmerid ymaith un fraint arall. Gan Augustus y dyfeisiwyd alltudiaeth. Y fath lemaf o gosp ydoedd. Y person a gondemnid a yrid ymaith mewn cadwynau, dyosgid ef o'i holl feddiannau, a chyfyngid ef i ryw ynys neu ryw le anghroesawgar.

Josua 10. 24. *Nesewch, gosodwch eich traed ar yddfau y brenhinoedd hyn.* Yr oedd hyn yn ddangosiad o fuddugoliaeth ar wrthwynebwr, aa rferid yn fynych iawn. Ar ol adrodd yr amgylchiadau blaenorol i'r ymdrech rhwng Dioxippus a Horratas, a dangos y modd yn yr hwn y bu i'r cyntaf orchfygu yr olaf, dywedir, "Dioxippus a'i daliodd ef, taflodd ei draed oddiar y llawr, a bwriodd ef ar y ddaear â nerth mawr. Yna efe a osododd ei draed ar ei wddf, tynodd ei gleddyf, a chan godi ei gnwpa, yr oedd yn nghylch taro allan ymenydd y gwron dymchwledig, oni buasai i'r brenin ei rwystro." Dywedir i Sapor osod ei draed ar wddf *Valerian*, pan esgynodd ar ei geffyl, ac, ar ol caethiwed maith, iddo ei flingo. Genghiz Chan a daflodd y bwyd oddiar ei fwrdd i wraig, brenhines gaeth, y penadur bachaf ag a orchfygasai. Tywysog yr hwn unwaith a aeth yn erbyn Bagdad, a rwymodd olynydd Mohammed yn mysg ei gwn. Dangosodd penaduriaid creill arwyddion cyffelyb o'u goruchafiaeth.

Barn. 9. 53. *A rhyw wraig a daflodd ddarn o faen melin ar ben Abimelech.* "Ebrill y 9fed, galwyd ni oll i fynu, a hysbyswyd i ni yr ymosodid ar y muriau, ac y dringid hwynt mewn pump o leocdd gwahanol, er ei bod mor dywyll fel nad oedd na lleuad na ser i'w gweled; eto y goruchwyliwr a holl foneddigion y weithfa (oddieithr gwr boneddig ieuanc yr hwn a fu mor hynaws ag aros i mi) a godasant yn ddioed, ac a wnaethant y goreu o'u ffordd tua gwddf yr afon. Yn ein ffordd, y gwragedd a dafiasant lechau a cherig atom oddiar benau y tai, er i ni alw arnynt yn yr iaith Arabaidd am beidio, gan mai Sæson oeddem. Atebasant ein bod yn dywedyd celwydd, ac mai Persiaid oeddem mewn dill-

ad Saeson. Bu raid i ni anturio yn mlaen, a buom mor ffawdus a dianc heb gael ein curo ar ein penau, er i ni dderbyn llawer o ergydion ar ein breichiau a'n hysgwyddau, creithiau y rhai a welid dros rai dyddiau." *Parson's Travels in Egypt.*

Brrn..15. 8. *Ac efe a aeth i waered, ac a arosodd yn nghoppa craig Etam.* Ymddengys y cyrchir eto i greigiau fel lleoedd o ddiogelwch, ac y daliant warchae. Dywed hanesydd, "Ymerawdwr Twrci, yn ewyllysio dal tywysog, a roddodd orchymyn i un arall ei gymmeryd yn garcharor; efe yn ganlynol a ddaeth i chwilio am dano, gyda byddin newydd, i ran o fynydd Libanus, lle y mae y pentref Gesin, ac yn agos ato y graig yr hon a wasaethodd i'r tywysog yn lle i neillduo. Y tywysog arall a wasgodd gymmaint arno, fel y bu raid i'r tywysog anffodus hwn gau ei hun i fynu mewn agen craig fawr, efe ac ychydig o'i swyddwyr. Ei ymlydydd a warchaeodd arno yma dros amrywiol o fisoedd, ac yr oedd yn myned i chwythu y graig yn ddarnau pan roddodd y tywysog ei hun i fynu."

1 Sam. 7. 5. *A dywedodd Samuel, Cesglwch holl Israel i Mispheh, a mi a weddiaf drosoch chwi at yr Arglwydd.* Wrth ystyr-ied dygwyddiadau rhyfel, peth arferol gynt oedd cyflawni crefyddolderau difrifol iawn cyn myned allan i frwydr; ac ymddengys fod lleoedd wedi eu gosod yn neillduol i'r perwyl hwn, 1 Maccab. 3. 46. Ymddengys i Samuël gasglu y bobl i Mispheh, mewn trefn i'w parotoi at ryfel â'r Philistiaid. Dichon yr hanes canlynol o eiddo *Pococke* wasanaethu i egluro yr arferiad hon. "Gerllaw Cairo, yn nghymydogaelh claddfa berthynol i feibion rhai rhaglawniaid, ar fryn, y mae adeilad cadarn o gerig, yn nghylch tair troedfedd o led, a deg gris iddo, ac y mae yn y pen yn nghylch tair troedfedd betryal, ar yr hwn y mae y tywysog yn myned i weddio ar unrhyw achlysuron annghyffredin, pan elo yr holl bobl allan ar ddechreu y rhyfel, ac yma, yn yr Aipht, pan na byddo y Nilus yn codi fel y dysgwylliont iddi wneuthur; ac y mae ganddynt le cyffelyb y tu allan i'r holl drefi drwy Twrci."

1 Sam. 12. 19, 20. *Ac ni chaed gŵf drwy' holl wlad Israel, canys dywedasai y Philistiaid, Rhag gwneuthur o'r Hebraeid glleddyfau neu waywffyn: ond holl Israel a aent i waered at y Philistiaid, i flaenllymu bob un ei swch.* Mae cyfrwysdra y Philistiaid wedi cael ei efelychu mewn amseroedd diweddar. "Mulei Ismael a aeth yn mhellach tu ag at lwyr ddarostwng y parthau

hyn o Affrica nag yr aethai ei flaenoriaid. Yn wir Mulei Rashid fywiog, ei frawd a'i flaenor, a osododd sail yr annibynoldeb hwn, ond torwyd ef ymaith yn uchder ei fywiogrwydd, trwy i'w geffyl redeg ag ef ymaith mewn modd mor ffyrnig fel y tarawodd ei ymennydd allan yn erbyn pren. Ond y tywysog hwn a ddygodd liaws o Arabiaid ac Affricaniaid cryfion, y rhai yr arferasai brenin Morocca, Fez, &c., blygu iddynt, i'r fath gyflwr, fel y buasai yn werth eu bywyd iddynt gadw unrhyw offeryn yn eu holl bentref, yn chwaneg na chylllell fechan, a hōno heb un blaen, â'r hon y torent wddf dafad neu greadur arall, pan mewn perygl o farw; rhag iddo farw a'r gwaed ynddo, a bod yn annglyfreithlon yn fwyd." *Morgan's History of Algiers.*

Gweithredodd Porsenna yn y modd hwn yn yr heddwch a ganiataodd efe i'r Rhufeiniaid, gan beidio goddef i ddim haiarn gael ei weithio at amaethyddiaeth. Gwnaeth y Caldeaid yr un modd â'r Iuddewon yn amser Nebuchodonosor; dygasant ymaith yr holl grefftwyr, 2 Bren. 24. 14; Jer. 24. 1, a 29. 2. A Cyrus a driniodd y Lydiaid yn yr un modd.

1 Sam. 17. 51. *Yna y rhedodd Dafydd, ac a safodd ar y Philistiad, ac a gymmerth ei gleddyf ef, ac a'i tynodd o'r wain, ac a dorodd ei ben ef âg ef.* Niebuhr yr hanesydd a grybwylla am weithred gyffelyb iawn, pan y sonia am waith mab penaeth Arabaidd yn lladd gelyn a chydymgeisydd ei dad, ac, yn ol arferiad yr Arabiaid, yn tori ei ben ef, ac yn ei ddwyn mewn gorfoledd at ei dad. Mewn sylw-nod, efe a ddywed, fod tori ymaith ben gelyn lladdedig yn hen arferiad.

1 Sam. 26. 13, 14. *Yna Dafydd a aeth i'r tu hwnt, ac a safodd ar ben y mynydd o hirbell (ac encyd fawr rhyngddynt). A Dafydd a lefodd ar y bobl, ac ar Abner fab Ner, gan udywedyd, Oni atebi di, Abner? Yna Abner a atebodd, ac a ddywedodd, Pwy ydwyt ti sy yn llefain ar y brenin? "Tra yr arosai y fyddin yn y fan hon, Mr. Pearce a aeth allan, a rhai cyfeillion gydag ef, i'r dyben o gymmeryd ymaith rai anifeiliaid y rhai y gwyddent eu bod yn cael eu dirgelu yn y gymmydogaeth. Yn yr amcan hwn hwy a lwyddasant, a chwasant feddiant o fwy na thri chant o ychain; ond effeithiwyd hyn gyda llawer o golled, o herwydd dyfais a arferwyd gan Guebra Guro, ac yn nghylch pedwar ar ddeg o'i wŷr, y rhai a osodasant eu hunain yn eu lledorwedd ar ben craig, yr hon oedd yn anhygyrch, o ba le y lladdasant bob dyn a ddaeth o*

fewn cyrhaedd ergyd gŵn. Bu Mr. Pearce unwaith mor agos i'r lle peryglus hwn, fel y gallai ddeall pob gair a lefarid gan Guebra Guro wrth ei gymdeithion; ac efe a'i clywodd yn eglur yn gorchymyn i'w wyr beidio saethu ato ef nac Ayto Tesfos, gan ddywedyd wrthynt ar yr un pryd, gyda rhyw foesgarwch anwaraidd dycyethr, am gadw allan o gyrhaedd ei ŷnau, gan ei fod ef yn awyddus na wnelid un niwed iddynt hwy yn bersonol, gan eu hanerch yn hynaws fel cyfeillion. Pan adroddodd Mr. Pearce yr hanes hwn wrthyf, tarawyd fi yn ddioced gan y tebygolrwydd sy rhyngddo â rhai o'r hanesion a gawn yn yr Hen Destament, yn cawedig yr un am waith Dafydd yn sefyll ar ben mynydd o hirbell, ac yn llefain ar y bobl ac ar Abner, *Oni atebi di, Abner? Ac yn awr edrychiwch pa le y mae gwayrffon y brenin, a'r llestr dwfr oedd wrth ei obenydd ef.* Ni all darlennydd cyfarwydd â'r ysgrythyrau, yr wyf fi yn meddwl, lai na gweléd tebygolrwydd yn yr hanes hwn rhwng ymarferiadau y bobl hyn ac eiddo yr Iuddewon, cyn amser teyrnasiad Solomon, ar yr hwn amser y bu i'r gyfeillach a ffurfiwyd gan Solomon â chenhedloedd ereill, a'r moethau a ddygwyd i mewn drwy hyn, newid cymmeriad yr Iuddewon, mewn mesur mawr. Yn ystod fy arosiad yn Abyssinia, yr oeddwn yn gweléd cymmaint o debygolrwydd rhwng y ddiwy genedl, fel na allwn lai na dychymygu weithiau fy mod yn trigo yn mysg yr Israeliaid, a'm bod wedi syrthio yn ol rai miloedd o flynyddoedd, i amser pan oedd y brenin ei hun yn fugail, a thywysogion y tir yn myned allan gan farchogaeth ar fulod, a gwaywffyn a ffyn taff ganddynt, i ryfela â'r Philistiaid." *Salt's Voyage to Abyssinia, p. 305.*

2 Sam. 2. 16. *A phob un a ymasfodd yn mhen eu gilydd.* Hwy a wnaethant hyn gerfydd y gwallt neu y farf, 2 Sam. 20. 9. Dywed Plutarch wrthym, pan oedd pob peth wedi eu parotoi i frwydr, i gadbeniaid Alexander ofyn iddo, a oedd ganddo ef ryw beth arall i'w orchymyn iddynt? Dim, eb efe, ond fod i'r Macedoniaid gael eu barfau. Un o honynt yn rhyfeddu pa beth a allasai olygu wrth hyn, Alexander a ddywedodd, Oni wyddoch chi nad oes gwell gafael mewn brwydr na'r farf?

"Ar ein gwaith yn dyfod gerllaw y pentref, mi a arosais i gopio argraff, ac a anfonais fy ngweision yn mlaen i barotoi llety a darpariaeth i ni. Pa fodd bynag, tynwyd fy sylw yn fuan gan lefain gwragedd a phlant. Wrth fyned i'r pentref, cefais y bobl yn taffu coed a cherig at fy ngweision, a'r offeiriad yn

cefnogi yr ymosodwyr. O'r diwedd un o honynt, wedi iddo dderbyn archoll ar ei fraich oddiwrth gareg fawr, a ymaflodd yn marf yr offeiriad, ac a dynodd ei gleddyf, a thebygol y buasai, drwy ryw weithred fyrbwyll, yn peryglu ein bywydau oll, oni buasai i mi ddyfod yno ar y funud, a gosod terfyn ar y oweryl." *Dodwell's Tour through Greece.*

2 Sam. 20. 9, 10. *Dywedodd Joab wrth Amasa, A wyt ti yn llawen, fy mrawd? A llaw ddehau Joab a ymaflodd yn marf Amasa i'w gusanu ef. Ond ni ddaliodd Amasa ar y cleddyf oedd yn llaw Joab: felly efe a'i tarawodd ef âg ef dan y bummed ais, ac a ollyngodd ei berfedd ef i'r llawr, ac nid ail darawodd ef. "Maent yn hynod o ddiofn mewn ymosodiad, a marchogant i fynu at wynebau eu gelynion gydag ysgafnder a llawenydd fel i wledd, neu megys i gyfarfod â chyfeillion oddiwrth y rhai y gwahanwyd hwynt yn hir; yna hwy a lefant, Heddwch fydd i chwi! heddwch angau, yr hwn sydd i ganlyn y waywffon sydd yn cydfyned â'r anerchiad. Mae brathiadau angeuol yn cael eu rhoddi a'u derbyn, â geiriau o gariad ar y gwefusau." *Waddington and Handbury's Journal of a Visit to some parts of Ethiopia.**

1 Bren. 14. 10. *Y gwarchaedig (Saesneg, cauedig) a'r gweddilledig.* Weithiau pan y mae tywysog llwyddiannus wedi ymdrechgu dyfetha y teulu brenhinol diweddar, mae rhai o honynt wedi dianc rhag y lladdfa, a diogelu eu hunain mewn amddiffynfa neu le o ddirgeledd, tra y mae ereill wedi ceisio noddfa mewn gwledydd dycieithr, o ba le y maent wedi peri llawer o anesmwythder i'r trawsfeddiannwr. Mae y gair *cauedig*, yn fwyaf neillduol yn cyfeirio at yr amgylchiad cyntaf o'r rhai hyn; megys yn nghadweidiad Joas, rhag Athalia mewn ystafell ddirgel yn y deml, 2 Bren. 11. Mae amgylchiadau cyffelyb wedi cymmeryd lle mewn amseroedd diweddar. Dywed un hanesydd, "Er fod mwy na deng mlynedd ar hugain wedi myned heiblo ér marwolacth yr ymerawdwr Achmet, tad yr ymerawdwr newydd, nid oedd efe yn y cyfamser wedi cyrhaedd nemawr o wybodaeth na diwygiad. *Yn gauedig* yn ystod yr holl amser hwn, yn yr ystafelloedd a bennodasid iddo, a chanddo rai eunuchiaid a menywod i weini iddo, gan mai yr un oed oedd efe a'r tywysogion ag yr oedd hawl ganddynt i deyrnasu o'i flaen, ni welai efe fawr o le i obeithio am gael dyfod i'r orsedd; ac yr oedd ganddo reswm i fod yn anesmwyth o herwydd amgylchiadau ereill."

“ Yn nes i'r dehau, y mae mynydd Derva Damo, un o'r am-ddiffynfeydd nodedig hyny y rhai, yn yr amser cyntaf ag y mae genym hanes am Abyssinia, a wasanaethai fel carchar i ganghenau ieuangaf y teulu brenhinol a lywodraethai.” *Salt's Voyage to Abyssinia*, p. 248. Pan oedd Dafydd mewn perygl, efe a gadwodd arno (1 Chron. 12. 1) yn Ziglag, ond ddim mor gaeth fel na wnelai ruthriadau allan yn fynych. Mewn amserau diweddar, mae personau o ddisgyniad brenhinol wedi cael eu gadael yn *weddill*, pan dorwyd ymaith y lleill o'r teulu, o herwydd nad ofnid dim affonyddwch oddiwrthynt oblegid rhyw arnghymmwyder at hyny yn eu meddyliau na'u cyrph. Dallineb a gadwodd fywyd tywysog Persiaidd yn yr unfed canrif ar bymtheg, pan roddodd ei frawd y lleill o'i frodyr oll i farwolaeth. Rhydd yr hanes hwn gymmorth i ni ddeall 2 Bren. 14. 26, a Deut. 32. 36.

1 Bren. 22. 30. *A brenin Israel a newidiodd ei ddillad, ac a aeth i'r rhyfel.* Ni cholodd un tywysog erioed ei fywyd mewn brwydr yn Abyssinia cyn dyfodiad yr Ewropiaid yno, pan yr ymddengys i'r arferiadau o ysgymuno a llofruddio eu penaduriaid, gael eu dwyn i mewn ar yr un pryd. Gall y darlennydd weled yn yr hanes hwn ddwy anghraifft o'r parch hwn yn cael ei gadw; un Fasil, cyn myned i frwydr, a ddymunodd i'r brenin wisgo ei wisg frenhinol, rhag, os nad adwaenid ef, y gallai gael ei ladd gan y dyn dyeithr Galla. Dro arall, y brenin a newidiodd ei ddillad dair gwaith mewn un diwrnod, ac ymladdodd â'r gelynyion dros gryn amser. Yr arwyddion hyn o freninoldeb, yw ceffyl gwŷn, a chlychau arian bychain wrth ei ben, tarian arian, a llain wen o sidan neu fwslin gwŷn teg, yr hwn a glylmir am y pen, ac a adewir i syrthio yn ol ar y cefn.” *Bruce's Travels.* Ahab a roddodd heibio ei ddillad brenhinol, ac felly dyeithriodd ei hun, gan fyned i'r perygl mwyaf.

2 Bren. 10. 8. *A chennad a ddaeth, ac'a fynegodd iddo, Hwy a ddygasant benau meibion y brenin. Dynododd yntau, gosodwch hwynt yn ddau bentwr wrth ddros y porth hyd y bore.* “ Yn ystod y frwydr hon rhoddwyd rhyw gymmaint o arian am bob un o benau y gelynyion a ddygid at y tywysog; ac y mae yn hysbys i rai carcharorion, wedi i'r frwydr fyned heibio, gael eu rhoddi i farwolaeth mewn gwaed oer, fel y byddai i'r penau, y rhai a anfonid yn ddioced at y brenin, ac a roddid yn bentyrau wrth borth y palas, wneuthur ymddangosiad mwy golygus.” *Marier's Second Journey through Persia.*

“Mae y penau yn cael eu rhoddi yn bentwr ar y pryd, ac wedi hyny yn cael eu gosod i harddu muriau y palas brenhinol, rhai o ba rai sydd yn ddwy filltir o gwmpas, ac ydynt yn fynyeh yn gofyn adnewyddiad o'r addurniadau hyn.” *Dr. M'cLeod's Voyage to Africa*, p. 60.

“Daethom at balas y rhāglaw yn yr hwn yr anneddai llywydd arall. Y peth cyntaf a dynodd ein sylw oedd chwech pen gwaedlyd, yn crogi yn rhes o flaen y ddyfodfa i mewn; ac, megys pè na buasai yr olwg arswydus hon yn ddigonol o honi ei hun i ddryllio y teimladau, yr oedd yn cael ei mwyhau gan yr angenrheidrwydd o estyn cam drostynt, mewn trefn i fyned i'r cyntedd. Penau rhyw swyddogion milwraidd oeddynt, ag oeddynt wedi anturio grwgnach yn erbyn y llywodraethwr (*Dey*).” *Panante's Narrative of a Residence in Algiers*. “Rhāglaw Diarbeck\* a anfonodd i Gaercystenyn hysbysrwydd am amgylchiadau rhyfelgyrch yn erbyn y gwrthryfelwyr yn Mardin. Gyda'r hysbysiad hwn anfonwyd mil o benau, wedi eu tori ymaith oddiwrth gyrph y gorchfygedig. Mae yr arwyddion rhyfedd hyn o fuddugoliaeth wedi cael eu gosod, fel arferol, wrth borth y palas. Cafodd y Tartariad yr hwn a'u dygodd arwydd o barch mawr; anfonwyd anrhegion i'r rhāglaw hefyd.—Caercystenyn, Rhag. 15.” *Literary Panorama*.

Mae pentwr o benau, o rifedi neillduol o droedfeddi o amgylchedd, yn cael ei ofyn weithiau yn Persia; ac mae y dienyddwyr mor ddiotal am gyfyngderau rhai ereill, fel y dewisant ben o ryw ymddangosiad nodedig, a barf hir iddo, i addurno y pen uchaf iddo. Dywed Syr *J. Malcolm*, pan fu i Timour gymmeryd Ispahan, fod yn annichonadwy rhifo y lladdedigion, ond i gyfrif gael ei gymmeryd o driugain a deg o filoedd o benau, y rhai a fwriwyd yn bentyrau, fel cof-arwyddion o ymddial anwaraidd.” “Tair wythnos cyn i ni ddyfod i Cattaro, yn Awstria, yr oeddynt wedi cael rhyw frwydrau â'r Tyrciaid, ac yr oeddynt wedi dwyn adref amrywiol o'u penau, y rhai a chwaneigwyd at y pentwr o flaen tŷ yr esgob.” *Dodwell's Tour through Greece*.

2 Cron. 35. 24. *Ei weision a'i tymasant ef i'r cerbyd, ac a'i gosodasant ef yn yr ail gerbyd yr hwn oedd ganddo. Megys*

\* *Diarbeck*, neu *Diarbekir*, talaeth yn Asia, berthynol i'r Tyrciaid, yn gerwedd rhwng y Tigris a'r Euphrates.



y mao gan yr holl gadbeniaid geffylau segur, fel os diffygia un y gallant gymmeryd un arall, yr hyn, fel y dengys *Bochart*, oedd yr hen arferiad mewn rhyfel; felly pan ymladdent mewn cerbydau, yr oedd ganddynt un gwag yn eu canlyn, i'r hwn y gallent fynd os troi y llall allan yn anfuddiol neu annghyfleus.

Yn Cyprus, "ni a aethom i gyntedd palas y llywodraethwr, ac a welsom amrywiol o geffylau wedi eu gwisgo yn gostus iawn, yn sefyll heb neb yn gofalu am danynt, pob un wedi ei sicrhau â chadwyn wrth ei glun flaen, ac wrth bawl yn y ddaear. Arferir gwneuthur fel hyn yn holl gynteddau palasau y rhaglawiaid.

Ezra 8. 21. *I geisio ganddo ef ffordd union i ni, ac i'n plant ac i'n golud oll.* "Yr oedd yr holl ddyffryn wedi ei guddio gan bebyll y pererinion; canrys ychydig iawn, mewn cymhariaeth i'r holl rifedi, a allent gael llety yn yr adeilad, Yr oedd y gwa-hanol wersylloedd hyn, yn ol eu trefi neu eu hardaloedd, wedi eu gosod ychydig oddiwrth eu gilydd, pob un dan ei lumman priodol ei hun. Yr oedd eu hanifeiliaid yn pori o amgylch, a'r bobl a ofalent am danynt oeddynt yn eu dillad dwyreiniol cyntefig. Ymddangosai gwragedd, yn dwyn dwfr o'r nentydd, ac yr oedd plant yn chwareu o amgylch drysau y pebyll. Tua'r hwyr, y lliaws crefyddol hwn, yn nghylch un cant ar ddeg o leiaf, a ddechreuasant eu gweddiau hwyrol, gan eu bloeddio allan, ac yr oedd eu gwaith yn canu hymnau, i'r hyn yr oedd y creigiau yn adscinio, bron yn ddigon i syfrdanu dyn. Ar rai amserau yn ystod y cyflawniad o'u crefyddolderau, yr oedd gynau yn cael eu tanio, y naill ddosparth yn ateb y llall, fel pe buasai hyny yn rhyw arwydd pennodedig. Yr oedd y cymmysg hwn o ymarferiadau milwraidd a rhai crefyddol, yn beth ddyethr iawn i Ewropiaid yn y pedwerydd canrif ar bymtheg; er y gallasai fod yn beth digon cyffredin yn y trydydd canrif ar ddeg, yn amser rhyfel y groes, pan yr oedd pob milwr yn dwyn ar ei wisg arwyddion pererin. Ond y cof yn mha wlad y gwelais y pethau hyn, a ddygodd o flaen llygaid fy meddwl olwg wahanol iawn. Yr oeddwn yn nhir y Mediaid, ar y fan i'r hwn y dygwyd y deg llwyth yn gaeth, yn nghylch dwy fil o flynyddoedd yn ol; ac o'r hwn, yn nghyflawnder yr amser, y caaglwyd y gweddillion gwasgaredig, (wedi y dychweliad cyntaf, oyn Grist, 536, wrth orchymyn Cyrus,) ac y tywyswyd hwynt yn ol

i'w gwlad frodorol, wrth orchymyn Artaxerxes y brenin, pan gasglodd Ezra hwynt yn nghyd at yr afon sydd yn rhedeg i Ahafah, ac yno arosasant yn eu pebyll dri diwrnod: ac efe a fwiodd olwg ar y bobl ac ar yr offeiriaid. Ac efe a gyhoeddodd ympryd yno, fel y gallent gystuddio eu hunain ger bron Duw, i geisio ganddo ef ffordd uniawn iddynt hwy, i'w rhai bychain; ac i'w golud. A'r Arglwydd a fu foddlon iddynt, ac n'u gwaredodd o law y gelyn, ac o law y rhai a gynllwynent iddynt ar y ffordd. Ac Ezra, a'r rhai oeddynt gydag ef, a ddaethant i Jerusalem., Ni a welwn yn yr hanes hwn, o lyfr Ezra, pen. 8, fod llwythau gwylltion y mynyddoedd yn cael eu hystyried fel lladron pen ffordd; ac na chaffai gorchymynion oddiwrth y brenin er cael mymediad diogel, fwy o effaith yn y dyddiau hyny nag yn y dyddiau presenol, er diogelu mintai o fasnachwyr cyfoethog rhag y rhai a gynllwynant er cael cyfle i yspeilio. Cnd rhaid i mi addef, fod rhai pethau yn y gwersyll o'm blaen, y rhai a derfysgant y tebygolrwydd rhyngddynt a'r llu a blygent i osodiad gwir dduwiol ysgrifenydd santiaid Israel. Wedi i'r weddi hwyrol Fohammedanaidd fyned drosodd, yr oedd yno swm o fath arall; terfysg a llawenydd ofer, yn fwy fel parotoad at ffair nag at addoliad, gan ddangos a'r unwaith y gwahanineth mewn ysbryd rhwng dwy grefydd. Mewn un, rhodiai y gyfraith foesol law yn llaw â'r un seremonïol; ac yr oedd y gorchymyn i addoli yr unig Dduw, mewn purdeb calon, ac yn fanwl o ran ymarweddiad, yn cael ei gadarnhau yn wastadol drwy aflwydd neu lwydd y bobl; a gwelwn y cydnabyddid hyny yn y llawenydd gweddus a gostyngedig hwnw wrth gael maddeuant â'r hwn y dychwelodd yr Israeliaid i wlad eu teml. Ond yma ymddangosai mai y cyflawniad o ryw ddefodau oedd y cwbl. Yr oedd pregethwyr y lluaus yn dal allan, pa nesaf y deuent at y temlau y rhai y cyrchent atynt, fod eu pechodau mewn cyfartalwch yn ymadael â hwynt; ac fel hyn, bob cam yr aent rhagddynt, fod y baich yn dyfod o hyd yn ysgafnach, nes bo i'r gronyn lleiaf fyned ymaith y funud y syrthiont i lawr o flaen bedd-adail y prophwyd neu y sant; ac o'r man santiaid hwnw cyfodant yn hollol rydd, ac yn fynych yn rhy barod i ddechreu rhedeg dan faich newydd, i gael ei symud ymaith yr un mor hawdd." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia, vol. 2, p. 147.*

Salm 7. 13. *Efe a drefnodd ei saethau yn erbyn yr erlidwyr. Gallid darllen y geiriau hyn gyda mwy o gywirdeb, "Efe a wna*

l'w saethau losgi." Mae y drychfeddwl wedi ei gymmeryd oddi wrth y cyfryw saethau tanlyd ag a ddesgrifir gan *Ammianus Marcellinus*, 23. 4. Yr oeddynt yn cael eu gwneuthur o gorsen gau, wrth ben isaf yr hon, wrth y blaen, y sicrheid llestr crwn haiarn bychan, at ddal defnyddiau llosgadwy, fel y mae y cyfryw saeth yn debyg i gogail (*distaff*). Yr oedd y gorsen, fel y dywed yr awdwr uchod, yn cael ei llanw â math o fyg-glai (*bitumen*); a phan ollyngid y saeth oddiar fwa llaes (canys os gollyngid hi oddiar un tŷn, diffoddai y tŷn), hi a darawai resi y gelynyon, a'r fflam a gynneuai y cwbl a ddeuai yn ei ffordd; gwnelsai tywallt dŵfr ar y tŷn gynnyddu ei gynddeiriogrwydd; nid oedd un ffordd l'w ddiffodd ond drwy dafu pridd arno. Mae saethau cyffelyb, ar y rhai yr oedd pŷg yn cael ei roddi, a thân yn cael ei osod ynddynt, yn cael eu desgrifio gan *Livy*; a dywed iddynt gael eu defnyddio gan drigolion dinas Saguntum\*, pan warchaewyd arnynt gan y Rhufeiniaid. Mae cyfeiriad at y fath saethau yn Ephes. 6. 16.

Salm 20. 5. *Dyrchafwn faner yn enw ein Duw*. Yr oedd y banerau y rhai oeddynt gynt mewn cymmaint o arferiad, yn rhan o drwsiad milwraidd. Dygid hwynt mewn amser rhyfel i gasglu, cyfarwyddo, gwahaniaethu, a gwroli, y byddinoedd. Dichon yr arferid hwynt at ddybenion ereill hefyd. Gallasai fod dyddiau o lawenydd, a gorymdeithiau gwychion, yn cael eu gwahaniaethu yn y modd hwn. Dichon nad yw geiriau y Salmydd ond cymhar-iaethol; ond os deallir hwynt yn llythrenol, gellir diffynu y gymhariaeth o godi baner yn enw yr Arglwydd, gan gydnabod et ogoniant, ac erfyn am ei ffafr, oddiwrth arferiad a geir mewn amrywiol o leoedd, i'r rhai y dichon iddi gael ei throsglwyddo o Judea. Dywed Mr. *Turner*, wrth son am *Tibet*, yr "arferu rhyw un dros y bobl yno esgyn i'r mynydd bob mis; pan y gesyd i fynu faner wen, ac y cyflawna ryw seremoniau crefyddol, er enhill ffafr y *devota*, neu y bôd anweledig, duw y lle, yr hwn y dywedir ei fod yn ehedeg o amgylch pen y mynydd, gan roddi da a drwg wrth ei ewyllys i bob peth o'i amgylch.

Salm 45. 3. *Gwisg dy gleddyf ar dy glun*. Cleddyfau y Dwyrain, llafnau y rhai ydynt lydain iawn, a wisgid dan eu morddwyd pan deithient ar geffylau. Sylwa *Chardin* ar yr amgylchiadau hyn. Efe a ddywed fod rhai o bobl y Dwyrain yn gwisgo eu cleddyfau yn llaes, a bod y Tyrciaid pan yn marchogaeth yn eu

\* *Saguntum*, tref enwag unwaith yn yr Ispen, lle yn awr y mis *Macedonia*.

gwisgo ar y morddwydydd. Sonia yr adnod hon, a Can. Sol. 3. 8, am eu gwisgo yn yr un modd. Dywedir fod y Gauliaid gynt yn gwisgo cleddyf hir yn crogi ar eu morddwyd ddehau.

Yr oedd gwisgo y cleddyf brenhinol gyda brenhinoedd Persia, yn gadarnhad difrifol y cawsai yr offeryn hwnw ei ddefnyddio er diffyniad eu ffydd.

“Gofal cyntaf tywysog Tyrcaidd, pan ddelo i'r orsedd, yw, gadael i'w farf dyfu, at yr hyn y chwanegodd Sultan Mustapha, y lliwiad o honi yn ddû, mewn trefn iddi fod yn amlycach ar ddydd ei goroniad, pan yr oedd efe i wisgo y cleddyf, defod drwy yr hon yr oedd efe i gymmeryd yr orsedd.” *Baron Du Tott, vol. 1, p. 117.*

“Yn mhen ychydig o ddyddiau Mohammed Jaffer a gafodd ei gyhoeddi gan y tywysog yn llywodraethwr, ar y pryd, hyd nes y deuai ei frawd, a gwisgwyd ef â'r anrhydedd hwn drwy wregysu cleddyf ar ei forddwyd, anrhydedd ag y derbyniodd efe gydag anewyllysgarwch, yr hwn, efallai, nad oedd oll yn rhagrithiol.” *Morier's Journey through Persia, p. 25.*

Salm 60. 4. *Rhoddaist faner i'r rhai a'th ofnanti, i'w dyrchafu o herwydd y gwirionedd.* Mae pobl y Dwyrain yn ddiweddar yn ystyried y rhoddiad o faner yn wystl sicr o ddiffyniad. Dywed *Albert Aquensis* wrthym, pan gymmerwyd Jerusalem yn 1099, i ynghylch 300 o'r Saraceniaid fyned i ben rhyw adeilad uchel, a deisyf yn daer am faddeuant; ond na ellid eu denu drwy unrhyw addewidion am ddiogelwch i ddyfod i waered, hyd nes y derbyniasant faner oddiwrth un o benaethiaid rhyfel y groes, fel gwytl o fywyd. Ni bu hi, yn wir, o un lles iddynt, fel y sylwa yr hanesydd hwnw, canys eu hymddygiad a achlysuorodd y fath ddigofaint, fel y dystrywiwyd hwynt oll. Yn faner, tebygol eu bod gynt yn defnyddio gwaywffon yn unig, wedi ei harddu yn briodol, i'w gwahaniaethu oddiwrth waywffon gyffredin. Dywed *Albert*, mai gwaywffon hir iawnt, wedi ei gorchuddio oll drosti âg aur (un arall ag a rydd hanes rhyfeloedd y groes, a chwanega, fod pelen aur wrth un pen iddi) oedd baner tywysogion yr Aipht ar yr amser hwnw, ac y dygid hi o flaen eu byddinoedd.

Diar. 17. 19. *Yr hon a wnelo ei ddwrws yn uchel sydd yn ceisio niwed.* Mae yr Arabiaid yn arfer marchogaeth i dai y rhai y bwriadant eu haffonyddu. I attal hyn, dywed *Thevenot* nad oedd drws y tŷ lle yr oedd y marsiandwyr Ffrengig yn

byw yn Rama yn dair troedfedd o uchder, a bod holl ddrysau y dref hōno yr un mor isel. Yn gyson â'r hanes hwn *Abbe Mariti*, wrih lefaru am ei dderbyniad ef i fynachlog gerllaw Jerusalem, a ddywed, "Mae y fynedfa mor isel fel mai prin y gall ceffyl fyned i mewn; a chaur hi â drws haiarn, yr hwn a sicrheir yn gadarn o'r tu mewn. Mor fuan ag yr aethom i mewn, cafodd drachefn ei sicrhau âg amrywiol o fyllt a barau o haiarn,—gofal ag sydd yn angenrheidiol iawn mewn lle anial, agored i ruthriadau ac ymosodiadau ffyrnig yr Arabiaid."—*Travels through Palestine*. Mr. *Drummond* a ddywed, "fod yr Arabiaid tlodion a thruenus yn y wlad o amgylch Roudge yn Syria, yn gorfod naddu eu tai allan o'r graig, a *thori drysau bychain iawn*, fel na wneler hwynt yn ystablau i geffylau y Tyrciaid, wrth fyned a dyfod heibio." Ac fel hyn, yn hir o'i flaen ef, y dywedai *Sandys*, "Yn Gaza, yn Palestine, ni a letyasom dan fwd mewn cyntedd bychan, a'n hasynod gyda ni. *Yr oedd y drws yn isel iawn*, fel y mae yr holl ddrysau yno a berthynant i Gristionogion, i *rwstro rhuthriad disymwth y Tyrciaid trahaus*." Byddai dyrchafu y drws, gan hyny, yn geisio dinystr.

"Nid yw drws dyn tlawd ond prin yn dair troedfedd o uchder; gwneir ef felly i rwystro gweision y gwŷr mawrion rhag dyfod i mewn ar eu ceffylau; yr hyn, pan byddont yn myned i gyflawni unrhyw weithred orthrymus, ni phetrusant wneuthur. Ond ad-waenir annedd dyn o awdurdod wrth ei ddrws, yr hwn yn gyffredin a ddyrchefir mewn cyfartalwch i oferedd ei berchenog. Mae drws uchel yn un o arwyddion breninoldeb, megys y gwelir wrth yr adeiladau brenhinol yn Ispahan a Chaercystenyn. Yr un modd yr oedd pethau gynt; coffeir yn yr ysgrythyrau am byrth Jerusalem, Seion, &c., a'r arwydd hwn o wychder yn cael ei gysylltu wrthynt."

Jer. 3. 2. *Ti a eisteddaist ar y ffyrdd iddynt hwy, megys Arabiaid yn yr anialoch*. Mae *Chardin* wedi rhoddi desgrifiad bywiog iawn o'r awydd gyda'r hwn y mae yr Arabiaid yn dysgwyl am y *caravans*, neu y minteioedd marsiandwyr neu bererinton; eu bod yn edrych o'u hamgylch i bob man, gan godi eu hunain ar eu ceffylau, a rhedeg yma ac acw i weled a allant ganfod dim mwg, neu lwch, neu ôlion ar y llawr, neu unrhyw arwyddion ereill fod pobl yn myned heibio."

"Yr Arabiaid, y rhai a wasanaethant fel tywyswyr dros y mynyddoedd hyn, a ddyfeisiasant ffyrdd hynod i dynu anrhegion

bychain oddiwrth y teithiwr. Hwy a ddisgynant ar ryw fanau neillduol, ac a ofynant anrheg. Os gwrthodir hi, hwy a gasglant grug o dywod, ac a'u ffurfiant i ddull bedd, ac yna gan osod careg wrth bob pen, hwy a arwyddant i'r teithiwr fod ei fedd yn cael ei wneuthur; gan olygu nad oes dim diogelwch iddo yn hwy yn yr anialwch creigiog hwn. Mae y rhan amlaf yn dewis talu rhyw ychydig yn hytrach na bod eu bedd yn cael ei dori o flaen eu llygaid. Pa fodd bynag, yr oedd amrywiol o feddau o'r fath hyn yn wasgaredig ar hyd y gwastadedd." *Burchard's Travels in Nubia.*

Jer. 50. 42. *Eu llef fel môr a rua.* Llefara y prophwyd am lef rhyfel â'r hon yr ymesyd y byddinoedd gelymol ar eu gilydd. Y *Cossacks* ar gyffiniau Rwsia, y Rwsiaid, y Tartariaid, a'r Tyrciaid, a godant ryw lef arswydus wrth ymosod, gan obeithio brawychu y gelymion. Dywedir am y Caffariaid yn Neheudir Affrica, pan ânt i frwydr, fod y ddwy fyddin yn nesu at eu gilydd gyda llefau uchel, ac y deuant o fewn deg a thriugain neu bedwar ugain o gamrau."

Jer. 51. 31. *Rhedegwr a red i gyfarfod â rhedegwr, a chennad i gyfarfod â chennad, i fynegi i frenin Babilon oresgyn ei ddinas ef o'i chw.* "Mae yr ymadroddion canlynol i raddau mwy neu lai yn rhoddi goleuni ar y dull o roddi hysbysrwydd drwy genhadau, ac amcan y tyrau y sonir am danynt yn 1 Sam. 4. 12; Esay 21. 4, 5. Yr oedd y brys-negesyddion y rhai a ddefnyddiai y Mexicanaid yn fynych, yn defnyddio gwahanol arwyddion, yn ol-natur yr hysbysrwydd neu y matter y byddent yn ei gylch. Os newydd a ddygid fod y Mexicanaid wedi colli brwydr, gwisgai y negesydd ei wallt yn llaes ac annhrefnus; ac heb lefaru gair wrth neb, elai yn mlaen i'r palas, lle, gan benlinio o flaen y brenin, yr adroddai yr hyn a gymmerasai le. Fel y dygiti newyddion yn gynt, yr oedd ar holl brif-ffyrdd y deyrnas dyrar bychain, ynghylch chwech milltir oddiwrth eu gilydd, lle yr oedd negeswyr yn wastadol yn dysgwyl yn barod i gyohwyn ymaithe gyda brys. Mor fuan ag y cychwynai un negeswr, rhedai mor gyflym ag y gallai at y tŵr cyntaf, lle yr hysbysai i un arall ei gennadwri; wedi ei derbyn, cychwynai yr ail heb aros at y tŵr nesaf; ac fel hyn, gyda ohyflymdra didor, dygid hysbysrwydd yn fuan iawn o un lle i'r llall." *Cullen's Mexico.*

Y peth cyntaf yn mysg Indiaid Deheudir America, pan gytuner ar ryfel, yw rhoddi rhybudd i'r gwahanol lwythau i ymgynull;

a hwy a alwant hyn yn ollwng y saeth, o herwydd fod y rhybudd yn myned o un pentref i'r llall gyda'r dystawrwydd a'r buandra mwyaf. Yn y rhybuddion hyn hwy a nodant y nos y bwriadant wneuthur yr ymosodiad, ac anfonant yr hysbysrwydd hwn i'r Indiaid ag ydynt yn trigo yn nhiriogaethau yr Ispañaiaid. Ac o'r lliaws a gymmerwyd i fynu dan y ddrwg-dybiaeth eu bod yn genhadau, nid oes un o honynt erioed wedi datguddio eu trefniadau.

"Yn mharthau gogleddol China, gwelsom lawer o dyrau a elwid tai y rhedegwyr, wedi eu codi o fewn i ryw ychydig bell-der oddiwrth eu gilydd, a phawl yn eu penau ar yr hwn y crogai llumman yr ymerawdwr. Mae y lleoedd hyn yn cael eu gwyllo gan ychydig o filwyr, y rhai a redant o un i'r llall gyda chyflymdra mawr, gan ddwyn llythyrâu a negeseuon a berthynant i'r ymerawdwr. Mae y tyrau wedi eu codi yn y fath fodd fel y mae y naill mewn golwg i'r llall; a thrwy arwyddion, gallant roddi hysbysrwydd gyda'r cyflymdra mwyaf a ellir ddychymygu, am unrhyw ddygwyddiad pwysig a gymmero le yn y rhanau pellaf o'r ymerodraeth. Mae y naill dŵr yn nghylch dwy filltir a hanner oddiwrth y llall." *Bell's Travels.*

"Ar bentir y mae tŵr petryal, a thri arall, yn sefyll yn nghylch tair milltir oddiwrth eu gilydd, ar res o fynyddoedd ag sydd mewn cysylltiad â'r pentwr hwn. Dywedant iddynt gael eu hadeiladu yn dyrau gwylled, i roddi rhybudd am unrhyw elynion arfog a ddeuent i'r golwg. Bu unwaith yn y gymydogoeth hon (ynghylch taith deg diwrnod o Bagdad) ddinas fawr, ond ni allais i gael gwybod yr enw, ac amrywiol o drefi a phentrefi mawrion. Yr oeddem yn canfod darnau mawrion o *alabaster* yn gorwedd ar y llawr, yma a thraw dros lawer o filliroedd, ond ni allem ganfod gwythenau o hono. Yr oedd ein ffordd dros y tair awr olaf o'r dydd hwn yn arwain i'r dehau-ddwyrain, dros dir diffwrth, cyffelyb i'r hwn y gwersyllem arno. Gwelir amrywiol o fryniau bychain, ar y rhai y mae dadfeiliau adeiladau. Yr oedd pebyll yr Arabiaid yn dyfod i'r golwg bob hanner awr." *Parson's Travels in Asia.*

Mae y dull o anfon hysbysrwydd fel y canlyn: "Yn y pell-der o bob deg neu ddeuddeg milltir, yn ol y tir, y mae tŵr gwyllo wedi ei godi, yn yr hwn y cyflewyd pump neu chwech o ddynion, o ba rai y mae dau neu dri yn hynod fel rhedegwyr. Y dyn cyataf ag a gychwyno fel negeaydd, mor fuan ag y delo

i olwg y tŵr cyntaf, efe a leda wddf-liain ar ben ei ffon, os bydd yn ddydd; os yn nos, efe a dania law-ddryll; yna yn ddioced gwneir dyn arall yn barod, yr hyn a wneir drwy roddi olew ar ei gymmalau. Gan fod y dyn yn noeth, oddieithr lliain o amgylch ei ganol, gallant ei barotoi yn fuan iawn. Y dyn hwn a gymmer y gennadwri oddiwrth y cyntaf; ac fel hyn anfonir hi yn mlaen o un tŵr i un arall. Hwy a redant o un tŵr i'r llall mewn awr." *Parson's Travels in Asia.*

Ezec. 29. 18. *Pob pen a foelwyd.* "Yn ystod rhyfel a gymmerodd le ynghylch wyth mlynedd yn ol, rhwng gwahanol lwythau o Arabiaid, a anueddent rhwng Cairo a Casseir, dygwyddodd fod mintai o un o'r ddwy blaid yn aros yma, hwy a'u teuluoedd. Daeth mintai o'u gelynion arnynt yn annysgwyliaidau un bore, tra yr oeddynt yn nhŷ eu penaeth yn yfed coffee. Lladdwyd saith neu wyth o honynt. Y penaeth ei hun, hen wr, yn gweled fod yn annichonadwy diano, a eisteddodd i lawr wrth y tân; daeth tywysydd y gelynion yn mlaen, ac a archodd iddo dynu ymaith ei benwisg, fel y caffai ei arbed. Yr hen bennaeth boneddigaidd, yn hytrach na gwneuthur yr hyn, yn ol tybiau ei lwyth, a lychwinasai ei gymmeriad dros byth wedi hyny, a lefodd, 'Ni ddynoethaf fy mhen o flaen fy ngelynion;' a lladdwyd ef yn ddioced â thrywaniad gwaywffion." *Burchard's Travels in Syria.*

Dan. 5. 20. *Efe a ddisgynwyd o orseddfa ei frenhiniaeth.* "Yn 1714, yn nechreuad Ebrill, yn wythnos y Pasg, pan yr oedd pobl Wallachio â'u holl sylw ar seremonïau eglwys Groeg, rhaglaw o eiddo ymerawdwr Twrci a ddaeth i Buckorest, a chanddo osgordd o gant o wŷr. Efe a anfonodd at y llywodraethwr i hysbysu iddo ei fod ef ar ei ffordd i Hotim, ar neges bwysig iawn berthynol i'r llywodraeth, ac na chaffai ond amser i ymweled âg ef bore dranoeth, ac wedi hyny y byddai raid iddo ymadael. Yn ganlyniol, efe a aeth dranoeth i'r palas, ac wrth fyned i mewn i gell y llywodraethwr, yr hwn a safai i'w dderbyn, efe a osododd wddf-liain dŷ ar ei ysgwydd ef, yn gyson â'r drefn gyffredin o ddiswyddo personau mewn sefyllfaoedd uchel yn Twrci." *Wilkinson's Account of Wallachia and Moldavia.*

"Gorphenhaf 14. Heddyw, y llywodraethwyr a ddiagynasant y rhaglaw oddiar ei orseddfa; amgylchiad a ddygwydda yn fyrych pan elont i'w gasau. Gwneir hyn heb ddim aflonyddwch, na llawer o seremoni. Mae swyddog uchel, yn cael ei ganlyn gan swyddogion ereill, yn myned i ddrws neuadd palas y rhaglaw,



yn y castell, gan ofyn am gael ei weled, yr hyn ni nacceir un amser, yna efe a â yn mlaen mewn modd parchus at y rhaglaw, a chan godi i fynu gongl yr esmwythfainc yr eistedda efe arni, efe a erfynia arno ymneillduo, gan nad yw hwnw i fod yn lle iddo ef yn hwy; mae y rhaglaw yn gwrthod codi; y swyddog drachefn a ddeisyf arno godi, efe o hyd a wrthyd; yna erchir i ddau filwr ei godi a'i arwain allan o'r neuadd, lle y mae ceffyl yn barod wedi ei gyfrwyo iddo, a gweision, a gwneir iddo adael y castell yn ddioed. Ar yr achlysuron hyn tywysir ef dan wyladwriaeth i'r ddinas, i ryw dŷ wedi ei ddodrefau yn wych iawn, a'i deyrnasiad a derfyna." *Parson's Travels in Asia.*

Hab. 1. 8. *Eu marchogion a ymdanant.* Yr hanes a rydd *Baron Du Tott* am y dull yn yr hwn yr ymddygodd byddin Dartaidd yn ddiweddar a eglura lawer ar yr ymadrodd hwn.

"Tywysogion y fyddin a benderfynasant yn eu cyngor i drydedd ran o'r fyddin, yr hon a wnaethid i fynu o wirfoddiaid, fyned dros yr afon ar ganol y nos, *ymranu* i amrywiol o ddosparthau, ac *ymranu* eilwaith, ac fel hyn orchuddio Serbia Newydd, yn Twrci, llosgi y pentrefi, yr ŷd, a'r gwair, a chaethgludo trigolion y wlad. Y rhan arall o'r fyddin, mewn trefn i ddylyn y cynllun gosodedig, a ddylynasant y ffordd a dorasid iddynt gan y dosparth hwn drwy yr eira. Ni a ganlynasom y ffordd hon nes y daethom i fan lle yr ymranai yn *saih cangen*, ni a gadwasom rhag ein blaen, gan ofalu peidio ymgymysgu â'r *dosparthau* ereill, y rhai a welem yma a thraw, ac nid oedd mewn rhai o honynt ond dau neu dri o wŷr meirch. Gwelem anifeiliaid wedi meirw yn yr eira ar y gwastadedd; a'r mwg ag oedd yn codi mewn *ugain o fanau eisioes*, a wnelai yr olwg yn ddychrynlyd iawn, ac a ddangosai fod tânau wedi eu cynneu y rhai a ddfrodent Serbia Newydd."

Col. 2. 15. *Efe a'u harddangosodd hwy ar gyhoedd, gan ymorfoleddu arnynt arni hi.* Yr orymdaith ardderchocaf a welodd yr hynafiaid erioed, oedd un o eiddo y Rhufeiniaid. Ar ol enill brwydr nodedig, y rhai mwyaf clodfawr o'r carcharorion rhyfel, yn nghyda'u gwragedd a'u plant, a arweiniwyd mewn cadwynau, o flaen cerbyd y penciwod, drwy heolydd Rhufain; ac yr oedd esgynfeydd wedi eu codi yn mhob lle, a'r manau cyhoedd wedi eu llenwi o bersonau a ymdyrent i edrych ar yr olwg.

Dat. 9. 7. *Meirch wedi eu paratoi i ryfel.* "Y Mamelukiaid, y rhai a wisgant eu barfau yn hirion, ac i'r rhai y mae cyrph

cryfion, a arferent gymmaint o gyfrwysdra yn eu holl frwydrau, fel wedi iddynt wneuthur eu hymosodiad cyntaf â'u gwaywffyn, yn mhen ychydig wedi hyny, gyda bywiogrwydd rhyfeddol, defnyddient eu bwâu a'u saethau, gan drefnu eu holl arfau yn ôl fel y byddai y rhyfel a'r tir yn gofyn. Yr oedd eu œffylau yn gryfion a glewion; ac yr oeddynt yn cymmeryd dysg mor dda, fel wrth ryw eiriau neu arwyddion o eiddo eu marchogion, y buasant, a'u dannedd, yn codi saeth, gwaywffion, neu ryw beth cyffelyb oddiar y llawr; ac fel pe buasant yn adnabod y gelynion, rhedent arnynt a'u safnau yn agored, ac ymosodent arnynt â'u traed, a daethant wrth ymarfer i beidio ofni dim. Yr oedd y ceffylau glewion hyn yn cael eu trwsio yn gyffredin â ffrwynau arian, cyfrwyau gwychion, eu gyddfau a'u dwyfronau yn cael eu gorchuddio â llafnau o haiarn. Boddlonai y marchogwr ei hun âg arfau diaddurn, a dwyfroneg o haiarn. Y rhai penaf a chyfoethocaf o honynt a ddefnyddient helm; nid oedd gan ereill ond gorchudd o liain am eu penau, wedi ei blygu yn amrywiol o dyrch, yn hwn tybient eu hunain yn ddiogel ddigon rhag ergydion cyffredin; y milwyr cyffredin a ddefnyddient fath o gapiau ag oeddynt mor dewion fel nad allai cleddyf yn hawdd iawn fyned drwyddynt." *Knolles's History of the Turks.*

Dat. 19. 17, 18. *Deuwch ac ymgesgluch yn nghyd, fel y bwyt-  
taoch gig brenhinoedd, a chig pen-capteniaid, a chig y cedyrn, a  
chig meirch, a'r rhai sydd yn eistedd arnynt, bychain a mawrion.*  
"Yr oedd yr afon yn rhanu y byddinoedd, ac ni allai ein lluoedd  
lluaddedig ni ddylyn gwyr meirch yn ffoi; gan hyny ni a deithiasom  
ychydig yn mhellach, ac a wersyllasom gerllaw Hossamlee, ar  
dir yr hwn y buasai y gelynion yn ddiweddar yn gorphwys, y  
rhai, mewn dysgwyliad am danom, a dorasant i lawr y coed, a  
ddystrywiasant y pentref, ac a losgasant yr holl yd a'r gwair ag  
na allasant ei ddwyn ymaith; y gwastadedd cylchynol, wedi ei  
ddiosg o'i addurniadau gwyrddion, a guddiasid â chelaneddau  
braenllyd a lludw; y gwynt poeth yn chwythu oddiar y pethau  
drewllyd hyn, ac yn gwasgaru y lludw yn mysg ein pebyll, a  
wnaeth ein lle yn hynod o anhyfryd. Yn ystod y nos, *hyenas,  
jackals*, a chreaduriaid ysglyfaethus o amrywiol fathau, yn cael  
eu tynu gan yr arogl, a grwydrent ar hyd y maes gan wneuthur  
swn erchyll; bore dranoeth gwelem rifedi o fwlturiaid, barcut-  
anod, ac adar ysglyfaethus ereill, yn hōni eu hawl i gyfran o'r  
meirw." *Forbes's Oriental Memoirs.*

## PENNOD XIX.

## COSPEDIGAETHAU.

GEN. 37. 24. *A chymmerasant ef, a thaflasant i bydew.* Yr hyn a feddylir yma wrth bydew, yw cadwfa (*reservoir*) wag wedi ei chloddio yn y ddaear, yn yr hon y cesglir dwfr gwlaw, o ba rai y mae llawer yn anialwch Arabia. *Rauwolf*, wrth son am anialwch Mesopotamia, a ddywed, "fod y camelod wedi eu llwytho, heblaw âg angenrheidiau ereill, yn benaf â dwfr, i'w hadfywio hwy a'u hanifeiliaid yn ngwres mawr yr haul, o herwydd nad ydynt yn fynych yn cyfarfod â ffynonau na nentydd wrth groesi yr anialwch, er y gallant wrth ddamwain gyfarfod â *phydewau*, y rhai ydynt gan mwyaf heb ddwfr; canys nid oes ynddynt ddwfr ond yr hyn a redo iddynt yn amser gwlaw."

Lef. 24. 19, 20. *A phan wnelo un anaf ar ei gymmylog, fel y gwnaeth, gwneler iddo.* Nid yw y dyb o fod gan bob dyn hawl i wneuthur cyfiawnder iddo ei hun, ac mai ei ddyledswydd yw hyny, ac y dylai ddial ei hun am y niweidiau a wneler iddo, wedi ei dileu o blith yr Affghaniaid, pobl yn India, i'r dehau o Cashmere, ag y tybir eu bod wedi disgyn oddiwrth yr Iuddewon, (*Asiatic Researches, vol. 2, p. 69,*) ac ni ddeallir ond yn amherffaith hawl cymdeithas i attal nwydau personau, a chymmeryd oddiwrthynt y gorchwyl o wneuthur iawn am niweidiau, a chospi troseddau; neu os deallant hi, anfynych y gweithredant yn ol yr hawl hon; canys, er yn y rhan amlaf o fanau yn eu gwlad y gellir cael cyfiawnder yn awr drwy foddion ereill, ac er y pregetha eu gweinidogion yn mhob lle yn erbyn i ddyn gymmeryd y gyfraith yn ei law ei hun, ac y gwaherddir hyny gan y llywodraeth, eto, ymddengys hyny yn gyfreithlon ac anhwydeddus yn ngolwg y bobl. Ystyrir fod gan y blaid a niweidiwyd hawl i fynu ad-daliad manwl oddiwrth y troseddwr. Os bydd y troseddwr allan o'i gyraedd, efe a all dywallt ei gynddaredd ar ryw berthynas, a gall, mewn rhai amgylchiadau, ei dywallt ar unrhyw un o'i lwyth. Os na ddygwydd un cyfleusdra, iddo weithredu yr hawl hon ar y pryd, gall oedi tywallt ei lid dros flynyddoedd; ond cyfrifant ef yn beth gwarthus i esgeuluso neu roddi hyny heibip yn hollol; ac mae yn ddyledswydd ar ei berthynasau, ac weithiau ar ei lwyth, ei gynnorthwyo i fynu ad-daliad. *Elphinstone's Caubul, p. 166.*

Brodorion ynysydd Canary, a labyddient y rhai a ferthid yn haeddu angau; ond am droseddau llai, arferent gyfraith ad-daliad. *Glasse's Canary Islands*, p. 71. Yn mysg Indiaid America, os byddai i fachgen wrth saethu adar, ddygwydd archolli bachgen arall, er ei fod allan o'i olwg, ac na byddai yr archoll ond ys-gafn, rhaid oedd i 'hwnw neu ryw un o'i deulu ei archolli yntau yn yr un modd. *Adair's North American Indians*.

Num. 35. 19. *Dialydd y gwaed a ladd y llawruddiog*. Yr hanesion canlynol a ddangosant mor fanwl y glyna pobl y Dwyrain wrth yr egwyddor o ddial am farwolaeth eu perthynasau a'u cyf-eillion.

"Yn mysg y Circassiaid\*, mae holl berthynasau y llofruddion yn cael eu hystyried fel yn euog. Yr arferiad erchyll hon o ddial gwaed perthynasau sydd yn dechreu y rhan amlaf o gwerylon yn mhlith y llwythau hyn; ac y mae yn achlysuero llawer o dywallt gwaed yn eu plith; canys os na phwrcasir maddeuant, neu os na cheir ef drwy fod rhai o'r ddau deulu yn priodi â'u gilydd, y mae yr egwyddor o ymddial yn cael ei dwyn yn mlaen i genhedlaethau dyllynol. Os caiff y syched am ymddial ei dori â rhyw bris a delir i deulu y marw, mae y cyfryw bris yn cael ei alw yn werth gwaed; ond y mae rhai llwythau yn eu plith na dderbyniant y pris hwn, o herwydd bod cyfraith osodedig yn eu mysg, i ofyn gwaed am waed." *Pallas's Travels*, vol. 1, p. 405.

"Nid oes gan y Nubiaid† fawr drychfeddwl am lywodraeth, na chyfraith, na chrefydd. Nid adwaenant un meistr, er fod un yn cael yr enw o lywodraethwr ar y wlad. Hwy a gymmerant yn eu llaw eu hunain wneuthur iawn am niweidiau a wneler iddynt, drwy ymddial, yr hyn, mewn achos o dywallt gwaed, y dysgwylant o genhedlaeth i genhedlaeth am gyfle i'w wneuthur, hyd nes y dielir am waed drwy dywallt gwaed. O herwydd hyn maent yn gorfod bod yn wastadol ar eu gwyliaidwriaeth ac yn arfog; ac yn y dull hwn y mae hyd yn nod eu llafur beunyddiol yn cael ei ddwyn yn mlaen; mae hyd yn nod y bechgyn yn arfog."

Dywed *Burchardt* hefyd am y Nubiaid, "Os bydd i un o hon- ynt ladd un arall, ei fod yn rhwymedig i dalu y ddyled o waed i deulu y trengedig, a dirwy i'r llywodraethwyr, o chwech camel

\* *Circassiaid*.—Cenedl liosog yn Asia, yn trigo yn nghymydogasth y Mor Du.

† *Nubiaid*.—Trigolion Nubia, gwlad lled helaeth yn Affrica, i'r deheu o'r Aipht, ac i'r gorllewin o'r Mor Coch.

buwch, a saith dafad, neu y cymmerir hwynt oddiar ei berthynasau. Mae i bob archoll a roddir ddirwy gosodedig, yr hon a wneir i fynu o ddefaid, a phethau ereill, ond yn gwahaniaethu o ran ei gwerth yn ol y rhanau o'r corph a archollir."

*Malcolm*, hanesydd arall, a ddywed am danynt fel y canlyn: "Pan lofruddier gwr neu wraig, y funud, y datguddier y person gan yr hwn y cyflawnwyd y weithred, mae etifedd y trengedig yn gofyn cael dial am y gwaed. Mae tystion yn cael eu holi, ac os profir yr euogrwydd, traddodir, y troseddwr i'w ddwylaw, i'w drin fel y dewiso. Mae gan y dialydd hawl i faddeu iddo, derbyn swm o arian fel gwerth gwaed, neu ei roddi i farwolaeth. Ychydig o flynyddau yn ol, Sais a drigai mewn tref yn Persia, a welodd dri pherson yn cael eu traddodi i ddwylaw perthynasau y dynion llofruddiedig. Hwyl a arweiniasant y trueiniaid i fynwent, lle y rhoddasant hwynt i farwolaeth; ond y rhan o'r dienyddiad ag a ymddangosai yn fwyaf pwysig, oedd gwneuthur i blant bychain y llofruddiedig drywanu y llofruddion a chyllill; a throchi eu dwylaw bychain yn ngwaed llofruddwyr eu tad. Gwnawd i'r tywysogion ieuangaf o'r teulu brenhinol ag a allent ddal cleddyfan, frathu llofruddion Aga Mohammed Khan. Pan ddienyddiwyd hwynt, olynnydd Nadir Shah a anfonodd un o lofruddion y penadur hwnw i'w fenywod, y rhai, yn ol, yr hanes, a lawenychent am gael cyfle i'w ddienyddio."

Mae yr arferiad hon, pa fodd bynag y gall fod wedi cael ei chadarnhau gan gynnefnidra, a'r boddiad o ysbryd dialeddol a drygnawsus, yn ddrygionus a niweidiol. Y mae yn hanfodi o dan lywodraethau annibynol a gormesol, ond ni all ffynu lle y mae rhyddid a chyfiawnder yn llywodraethu. Dylid ei gwrthwynebu yn ofalus, o herwydd ei bod yn rhoddi cyfleusdra i weithredu nwydau hunanol, a dial yn afresymol, mewn rhai amgylchiadau. Mae lledaeniad gwybodaeth, yn enwdeg y wybodaeth o Gristionogaeth, yn tueddu i ddiwreiddio y fath arferiadau, a sefydlu yn eu lle gyfreithiau cyfiawn a diduedd, y gweinyddiad priodol o ba rai yw y diogelwch goreu i ryddid a meddiant.

Josuah 7. 24, 25. *A Josuah a gymmerth Achan, a'i feibion hefyd, a'i ferched, ac a'u llabyddiasant â meini.* "Mae yr arferiad o gynnwys teuluoedd cyfain yn y gosp ddyledus i'w penau, wedi cymmeryd lle yn yr India Ddwyreiniol a Deheudir America. Pan gydfwriadodd brenin Ava yn erbyn brenin Pegu, ei nai, brenin Pegu a gyhoeddodd ryfel yn erbyn brenin Ava, ac a

orchymynodd fod i'w bendefigion (wrth gyfarwyddyd y rhai y llofruddiasid un o'i genhadau ef) gael eu carcharu, a'u llosgi yn fyw ar esgyn-lawr, a'u gwragedd a'u plant gyda hwynt; yr hyn a welais i, medd un hanesydd, ac yr oedd eu llefau yn druenus iawn." *Haris's Travels*, vol. 1, p. 279.

Dysgwn hefyd oddiwrth hen baentiadau o eiddo y Mexicanaid. mai y fath oedd eu harfer hwythau. Mewn un o honynt y mae Antonio de Mendoza yn cael ei arddangos yn llywodraethwr talaeth, yn cael ei lindagu am wrthryfela yn erbyn ei benadur, a'i holl deulu yn dyoddef gydag ef.

Barn. 1. 7. *Wedi tori bodiau eu dwylaw a'u traed.* Fod hon yn hen ffordd o drin gelynion a ymddengys oddiwrth Aelian, yr hwn a ddywed i'r "Atheniaid, wrth gyfarwyddyd un o'u cynghorwyr, wneuthur deddf fod i fawd llaw ddehau holl drigolion ynys Aegina gael ei dori, fel yr analluogid hwynt byth wedi hynny i ddal gwaywffon, ond y gallent er hyny ddal rhwyf." Yr oedd yn arferiad yn mysg y Rhufeiniaid hyny y rhai na hoffent fywyd milwraidd, dori ymaith eu bodiau eu hunain, fel na buasent yn alluog i wasanaethu yn y fyddin. Rhieni, weithiau, a dorent ymaith fodiau eu plant, fel na elwid hwynt i'r fyddin. Dywed Suetonius i bendefig Rhufeinig, yr hwn a dorasai ymaith fodiau ei ddau fab, fel na elwid hwynt at fywyd milwraidd, gael ei werthu yn gyhoeddus, efe a'i feddiannau, wrth orchymyn Augustus. Sylwa *Calmet*, fod gair yn yr iaith Italaidd, *paltrone*, yr hwn a arwydda un ag y mae ei fawd wedi ei dori ymaith, i osod allan filwr heb ddewrder.

"Mae yn syndod at ba gynnifer o orchwylion y mae bysedd y traed yn cael eu gosod yn India: Y bobl yno a'u galwant bysedd ail-law. Yn ei dŷ ei hun, mae yr Hindwad yn eu defnyddio i sicrhau ei sandalau wrth ei draed â botwm, yr hwn a osodir ar ddau o'r bysedd canol. Y gwinedydd, os nad yw efe yn gosod ei edafedd yn ei nodwydd â hwynt, yn sicr y mae yn eu defnyddio at droi ei edafedd. Mae y cogydd yn dal ei gyllell â bysedd ei draed tra y mae yn tori pysgod, &c. Y saer, y gwedydd, &c., ni allent wneuthur hebddynt; ac y mae gan bron bob brodor ugain o orchwylion gwahanol i'w gwneuthur â bysedd ei draed." *Ward's View of the Hindoos.*

Yr ydym ni yn synu o herwydd annheimpladrwydd Adonibezee, yr hwn a dorodd ymaith fodiau dwylaw a thraed ei gaethion; ond llawer llymach yw y creulondeb a arferai rhai o'r Indiaid

yn eu rhyfeloedd. Cafodd trigolion un dref eu tueddu i roddi eu hunain i fynu, rhag ofn i'w trwynau gael eu tori ymaith, fel eiddo trigolion rhyw dref arall yno, ac hefyd eu llaw ddehau; creulondeb â'r hwn y bygythiasai eu gelynion hwynt, oddieithr iddynt roddi eu hunain i fynu mewn pum niwrnod.

“Wedi i'r foneddiges hon ymadael, dygwyd ciniaw, ond yn lle bwyta yn nghyd fel o'r blaen, ffurfiwyd ni yn awr yn ddau ddosparth gwahanol. Dygwyd aderyn dôf i mi ar stôl wrthyf fy hun; yna dygwyd cawgeidiau helaeth o wenith wedi ei ferwi ac olew i'm dau ymwelwr Cristionogol a'm tywyswyr. Wedi i'r rhai hyn ddarhod, daeth gwr y tŷ, ei frodyr, a'u plant, ac a gyfranogasant o fwyd cyffelyb; ac yn olaf oll daeth y wraig ieuanc, wrthi ei hun, yr hon a neillduodd i gongl o'r ystafell a'r dysglau ganddi o ba rai y bwytasom ni, ac a'u glanhaodd oll, fel na chollasid dim, ac felly hi a ymborthodd mewn ystyr, ar y briwsion a syrthiai oddiar fwrdd ei gwr.” *Buckingham's Travels among the Arab Tribes*, p. 142.

Barn. 3. 31. *Ac ar ei ol ef y bu Samgar mab Anath; ac efe a darawodd o'r Philistiaid chwe-channwr ag irai ychain.* Mae gan Mr. *Maundrell* sylw yr hwn ar unwaith a eglura yr amgylchiad hwn, ac a symud bob dyrswch yn ei gylch. Efe a ddywed, “Yr oedd pobl y wlad yn mhob man yn awr wrth eu gwaith yn aredig ar y meusydd, mewn trefn i gael hau cottwm. Yr oeddynt yn arfer irai o faintioli anarferol. Wrth festr amrywiol o honynt, cefais eu bod yn nghylch wyth troedfedd o hyd, ac yn y pen praffaf yn chwech modfedd o amgylchedd. Yr oedd yn y pen lleiaf swmbwl llym i yru yr ychain âg ef, ac yn y pen arall yr oedd pâl feehan, o haiarn, gref a thrwchus, at lanhau yr aradr oddiwrth y clai a lynai wrthi wrth weithio. Oni allwn ni oddiwrth hyn ddychymygu mai âg irai gyffelyb i un o'r rhai hyn y gwnaeth Samgar y fath laddfa ofnadwy ag y sonir am dani, Barn. 3. 31? Yr wyf yn hyderus y byddai i bwy bynag a welai un o'r offerynau hyn, farnu nad yw yn arf llai anghymmwys, ond, efallai, ei bod yn fwy cymmwys na chleddyf, at y cyfryw orchwyl, a'r cyfryw offeryn a welais i yn cael ei ddefnyddio yn mhob man drwy y gymmydogaeth hon, ac hefyd yn Syria; a'r rheswm am hyn yw, mai yr un dyn sydd yn gyru yr ychain ag sydd yn dal ac yn trin yr aradr, yr hyn a'i gwna yn angenrheidiol iddynt ddefnyddio y cyfryw offeryn fel na byddo yn ofynol iddynt ddwyn dau offeryn.”

“Gerllaw Tyrus yr oeddynt yn aredig y tir i dderbyn ŷd. Yr oedd ychain wedi eu ieuo yn bârau i'r perwyl hwn, ac yr oedd yr eryd yn fychain ac o'r cyfryw wneuthuriad, fel yr oedd yn angenrheidiol i ddwy o honynt ganlyn eu gilydd yn yr un gwys, fel y gwnaent yn wastadol. Yr oedd yr aradwr yn dal yr aradr âg un llaw, ac yn dwyn yn y llaw arall irai o saith neu wyth troedfedd o hyd, a swmbwl haiarn llym yn un pen iddi, ac yn y llall lafn o'r un defnydd. Nid oedd angen ond un dyn i ganlyn pob aradr, o herwydd fod yr hwn a'i daliai hi âg un llaw yn gyru yr ychain â blaen yr irai, ac yn bwrw ymaith y pridd oddiwrth y swch â'r pen arall, yr hwn oedd fel pâl.” *Buckingham's Travels in Palestine, p. 57.*

Barn. 16. 21. *Ond y Philistiaid a'i daliasant ef, ac a dynasant ei lygaid ef.* Gyda'r Groegiaid a phobl Asia, nid oeddynt, yn gyffredin, yn tynu allan y llygaid, pan y dywedir eu bod yn tynu eu llygaid, neu yn eu dallu, fel y dychymyga rhai, ond gwnaent hyn drwy ddal llafn o haiarn poeth o'u blaen. Arferir y ffordd hon eto yn Asia.—*Modern Universal History.* Yn ol *Chardin*, pa fodd bynag, yr oeddynt weithiau yn trywanu ac yn dystrywio canwyll y llygad ar y cyfryw achlysuron. Dywed *Thevenot*, eu bod ar rai achlysuron yn tynu y llygaid allan yn gyfain â blaen cleddyf byr, ac yn eu dwyn at y brenin mewn cawg.” Ac efe a chwanega, “Gan fod y brenin yn anfon y neb a fydd i gyflawni y swydd greulon hōno, fod rhai tywysogion yn cael eu cigyddio yn y fath fodd gan ddynion anfedrus, fel y mae y driniaeth yn costio eu bywydau iddynt.”

Yn Persia nid yw yn beth anarferol fod y brenin yn oospi rhyw ddinas neu dalaeth a wrthryfelo, drwy godi dirwy o gynifer o bwysi o lygaid; ac y mae ei ddiennyddwyr, o ganlyniad, yn myned ac yn tynu allan lygaid pob un a gyfarfyddont, hyd nes y caffont y pwys gofynedig. *Malcolm's History of Persia.*

1 Sam. 11. 2. *I mi gael tynu pob llygad dehau i chwi.* Yr oedd yr arferiad greulon hon yn gyffredin iawn gynt yn y Dwyrain, a hi a ffyna hyd yn nod eto mewn rhai lleoedd. Mr. *Hanway* a rydd amrywiol o anghreiffitiau o honi. “Cyn hir wedi i mi adael Persia, tynwyd allan lygaid Mohammed Khan.” “Diwedd y gorchwyl erchyll hwn o gospi, oedd gorchymyn fod i lygaid y dyn anffodus hwn gael eu tynu allan. Pan oedd y milwyr yn ei lusgo er cael cyflawni y gorchwyl hwn, efe a erfyniodd am gael dyoddef marwolaeth yn hytrach.” “Torwyd ym-



aith farf Sadoc Aga, irwyd ei wyneb â thom, a thynwyd allan ei lygaid." "Pan yr oeddym yn nesu at Astrabad, cyfarfuasom âg amrywiol o wŷr meirch arfog, yn dwyn adref y bobl, llygaid y rhai a dynasid allan, a'r gwaed eto yn rhedeg i lawr dros eu wynebâu."

1 Sam. 17. 44. *Rhoddaf dy gnawd i ehediaid y nefoedd, ac i anifeiliaid y maes.* Yn Ashantee, gwlad eang yn Affrica, pan gaffo un o'r deiliaid ei ddiennyddio am drosedd, mae y corph a'r pen yn cael eu dwyn allan o'r dref gan rai o gaethion y brenin, y rhai ydynt wedi eu pennodi i'r perwyl hwnw, ac yn cael eu taffu lle y gallo anifeiliaid gwylltion eu difa. Ond os bydd y trengedig o radd uchel, mae rhai o'i gyfeillion yn ymguddio yn y fan lle y gwyddant y caiff ei gorff ei ddwyn, ac yn ei brynu gan y caethion hyn. "Ni a rodiasom i Assafoo am ynghylch deuddeg o'r gloch; yr oedd y fwlturiaid yn ehedeg uwchben dau gorff marw y rhai y torasid eu penau ymaith; prin yr oeddynt wedi oeri." *Bodwin's Ashantee.*

2 Sam. 3. 34. *Dy ddwyllaw nid oeddynt yn rhwym, ac nid oedd dy draed wedi eu rhoddi mewn egwydydd.* Yr oedd traed yn gystal a dwylaw troseddwyd yn cael eu diogelu yn gyffredin pan ddygid hwynt allan i gael eu cospi. Fel hyn parh oedd Irwin yn mharth uchaf yr Aipht, lle y drwg-driniodd rhyw Arabiaid ef, un o ba rai a gospwyd am hyny, efe a ddywed wrthym, i'r carcharor gael ei osod yn ei sefyll ar y llawr, a'i ddwyllaw wedi eu cylymu yn nghyd, a'i draed wedi eu cylymu yn yr un modd. Y dienyddwr a safodd o'i flaen, ac â phren byr efe a'i tarawodd ar ei benliniau. Mae y boen a achosir drwy hyn mor llym fel na all un dyn ei oddef yn hir.

2 Sam. 4. 12. *A Dafydd a orchymynodd i'w lanciau, a hwy a'u lladdasant hwy, ac a dorasant eu dwylaw hwynt a'u traed, ac a'u crogasant hwy uwchben y llyn yn Hebron.* Mewn amserau o anesmwythder a therfysg, maent yn fynych yn tori ymaith ddwyllaw a thraed pobl, ac wedi hyny yn eu hanmharchu hwy yn gystal a'r pen. Y foneddiges *M. W. Montague*, wrth lefaru am weinidogion y llywodraeth yn Twrci, a ddywed, "Os bydd i weinidog anfodloni y bobl, efe a gaiff, cyn pen tair awr o amser wedi hyny, ei lusgo hyd yn nod o freichiau ei feistr. Hwy a dorant ymaith ei ddwyllaw, ei ben, a'i draed, a thefir hwynt o flaen porth y palas, gyda'r holl barch a ddichon fod, tra y mae yr ymerawdwr (i'r hwn y professant hwy roddi anrhy-

dedd annherfynol) yn eistedd yn grynedig yn ei ystafell." Fel hyn y talwyd i feibion Rimmon am ladd Isboæth.

2 Sam. 10. 4. *A eilliodd hanner eu barfau hwynt.* Mae tori ymaith y farf yn arwydd neillduol o waradwydd yn mysg yr Arabiaid. Gwnelai llawer o honynt ddewis angau o flaen y driniaeth hon. Megys y tybiant ei cholli yn gospedigaeth drom, hwy a ânt mor bell a deisyf er ei mwyn. *Er mwyn eich barf, er mwyn bywyd eich barf gnewech hyny. Duw a galwo eich barf fendigaid.* Pan yn son am y gwerth a osodant ar beth, dywédant, *Mae yn fwy o werth na'i farf ef.* Dengys y pethau hyn rym y drychfeddwl hwnw o eiddo Ezeziel (pen. 5. adn. 1. 5), lle y cymharir trigolion Jerusalem i *wallt y pen a'r farf.* Arwyddir ynddynt, er iddynt fod mor anwyl gan Dduw ag oedd y farf gan yr Iuddewon, eto y caent eu dyfetha.—*Harmer, vol. 2, p. 55.* Pan gynnygiodd Pedr fawr wareiddio y Rwssiaid, a dwyn i'w plith foesau a dulliau rhanau ereill o Ewrop, mwy boneddigaidd eu dulliau, yr anhawsdra mwyaf oedd cael ganddynt dori eu barfau, a llawer o'r rhai y bu raid iddynt gydsynio â'r gorchymyn hwn, a dystiasant y fath barch mawr i'w barfau, fel yr archasant gael eu claddu gyda hwynt. *Irwin* hefyd a ddywed, wrth roddi hanes ei daith i fynu ar hyd y Môr Coch, wrth arwyddo cytundeb â llywodraethwr Yambo, iddynt dyngu i'w barfau, y llw difrifolaf ag a allant gymmeryd.—*Buckingham's Travels in Palestine.* Sonia hanesydd arall am Arabiad. yr hwn, pan wedi derbyn archoll yn ei ên, a ddewisodd beryglu ei fywyd yn hytrach na goddef i'w law-feddyg dori ei farf. Oddiwrth yr holl hanesion hyn, gellir canfod yn hawdd y fath sarhad mawr oedd yr hyn a wnaeth Hanun i weision Dafydd. Un o'r cospedigaethau mwyaf gwarthus am lwfrdra yn Sparta, oedd fod i'r rhai a droent eu cefnau yn nydd brwydr, orfod rhodio allan ag un hanner o'u barfau wedi ei eillio, a'r hanner arall heb ei eillio. Pobl y Dwyrain a ystyrient y farf yn anrhydeddus, o herwydd ei bod yn gwahaniaethu gwrrywiad oddiwrth fenywod, a'i bod yn nod dynion rhydd mewn cyferbyniad i gaethion.

Yr oedd hyn, hyd o fewn ychydig oesau yn ol, y sarhad mwyaf a allesid gynyg yn Persia. Shah Abbas, brenin y wlad hono, wedi ymgynddeiriogi o herwydd fod ymerawdwr Hindwstan mewn modd esgeulus wedi ei anerch ef wrth deitl llawer is na'r teitl Shah-in-Shah, neu Frenin y brenhinoedd, a orchymynodd eillio barf y cenhadau, a'u hanfon adref at eu meist'r."

“Un o gellweirwyr y rhaglaw a feddylodd un diwrnod, er difyrwch, am eillio ei farf, yr hyn nad yw yn beth o bwys bychan yn mysg y Tyrciaid, canys byddai yn well gan rai o honynt, yr wyf yn credu, i'w penau gael eu tori ymaith na'u barfau. Yn y cyflwr hwn efe a aeth adref at ei deulu, y rhai a'i gwthiasant ef allan dros y drws, a'r fath oedd y gwarth o dori y farf, fel na wnelai ei gyd-gellweirwyr fwyta gydag ef nes iddi dyfu drachefn.” *Belzoni's Researches in Egypt.*

Dywed Syr *W. Ouseley*, yn hanes ei *deithiau drwy y Dwyrain*, iddo weled dyn canol oed yr hwn oedd wedi lliwio ei farf âg amrywiol o liwiau gwahanol, a bod yr olwg ar ei farf yn ddeythr iawn.

1 Sam. 15. 33. *A Samuel a ddarniodd Agag.* Dygwyddodd dwy anghraifft yn ddiweddar o'r dull hwn o gospi. Mae y teithiwr *Mr. Bruce* yn dywedyd,—“Wrth fyned ar draws y farchnadle, gwelais *Za Mariam*, drysawr y, penaeth, a thri o ddynion ganddo wedi eu rhwymo, un o ba rai yr ymosodai i'w dori yn ddarnau; ac wrth' fy ngweled yn rhedeg yn groes i'r lle, gan wasgu fy ffroenau, efe a alwodd arnaf, ac a erfyniodd arnaf aros hyd nes y darniai efe y ddau arall, o herwydd fod arno angen siarad â mi; fel pe buasai yn nghylch rhyw orchwyl cyffredin.” Dywed *Light*, yn hanes ei deithiau,—“Cafodd *Djezzar* reswm i ddrwgdybied fod twyll yn ymddygiad rhai o swyddwyr ei lys; a chan na allai gael allan pwy oedd y troseddwyr, gorchymynodd i ynghylch hanner cant neu driugain o honynt gael eu dal, eu dyosg yn noethion, a'u gosod ar y llawr; ac yna rhoddwyd dau filwr wrth bob un, y rhai a arehwyd i'w darnio â'u cleddyfau.

2 Sam. 17. 18. *Hwy a aethant ymaith ill dau yn fuan, ac a ddaethant i dŷ gwr yn Bahurim, ac iddo ef yr oedd pydew yn ei gyntedd, a hwy a aethant i waered yno.* Mae pydewau wedi cael eu defnyddio fel ymguddfeydd ac fel carcharau.

“Ar ddau dro gwahanol, cafodd *Midhee Ulee Khan* ei garcharu mewn pydew dros ddwy flynedd, a chafodd waredigaeth bob tro drwy i derfysg godi ac aflonyddu ei wrthwynebwyr.” *Waring's Tour to Sheeraz.*

1 Bren. 21. 23. *Y cwn a fwyty Jezebel.* *Mr. Bruce*, pan yn *Gondar\**, a welodd olwg gyffelyb iawn i waith y cwn yn dyfetha *Jezebel*. Efe a ddywed,—“Cafodd cyrph y rhai a ladd-

\* *Gonder*.—Prif-ddinas *Abyssinia* yn *Affrica*.

wyd a'r cleddyf eu darnio, a'u gwasgaru ar hyd yr heolydd, gan y gwarefunid iddynt gael eu claddu. Yr oeddwn yn annedwydd iawn, ac yn cael fy ngyru i iselder mawr, wrth weled fy nghwn hela, y rhai a ollyngwyd yn rhydd ddwywaith drwy esgeulusdra fy ngweision, yn dwyn i'r cyntedd benau a breichiau dynion lladdedig, a'r hyn ni allwn mewn un ffordd ei rwystro ond drwy ddystrywio y cwn." Efe hefyd a chwanea, i'r brenin ofyn iddo yr achos o'i olwg bruddaidd, a'i ymddangosiad afiach, ac iddo ddywedyd wrtho, mai yr achos oedd dienyddiad tri o ddynion, yr hyn a welsai yn ddiweddar; o herwydd fod yr *Azenas*, yn cael eu tynu i'r lle gan yr amledd o furgynod oedd yno, yn ei rwystro i fyned heibio yn y nos yn ddiogel o'r palas, ac o herwydd fod y cwn yn rhedeg i'w dŷ ef pan fynent, i fwyta darnau o gelaneddau dynion. Eglura yr hanes hwn hefyd barodrwydd y cwn i lyfu gwaed Ahab (1 Bren. 22. 38); a chyda golwg ar hyn y llefara y prophwyd Jeremi, 15. 3.—*Mi a osodaf arnynt y cleddyf i ladd, a'r cwn i larpio.*

2 Cron. 25. 12. *Ac a'u tafiasant hwynt o ben y craig.* Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid, yn gystal a'r Iuddewon, yn arfer y ffordd hon o gospi. Yn ngwlad Groeg, yr oedd y cyfryw ag oeddynt yn euog o gysegr-ladrad, yn cael eu harwain i ben craig, ac yn cael eu tafu i lawr bendramwnrwl. Yr oedd y Rhufeiniaid yn rhoddi y gosp hon ar amrywiol o ddrwgweithredwyr. Mr. *Pitts*, yn ei hanes am y Mohammedaniaid, a ddywed mai eu dull cyffredin yn Twrci, mewn lle a elwir *Constantine*\*, tref a saif ar ben craig uchel, o gospi troseddwy'r mawrion, yw eu gwthio dros y craig.

Pan ddaeth Zukee Khan † i Yezdikhaust ‡, efe a orchymynodd i'r trigolion dalu swm o arian a berthynai i'r llywodraeth, y rhai yr haerai efe eu bod wedi eu dirgelu; ac ar eu gwaith hwy yn gwadu pob gwybodaeth am yr arian hyn, ac yn dadleu analluogrwydd i dalu y swm a ofynid, efe a orchymynodd i ddeu-

\* *Constantine*, neu *Constautia*.—Tref helaeth yn nhiriogaeth Algiers, yn Africa.

† *Zukee Khan*.—Tywysog yr hwn a wnaeth gynygiad at yr orsedd mewn talaeth yn Persia, yn y flwyddyn 1779, a'r hwn, yn nghyda'i gydymgolwyr, a barasant lawer o dywalk gwaed o byny hyd y flwyddyn 1783, pan y daeth Aga Mohammed Khan i'r orsedd.

‡ *Yezdikhaust*.—Tref yn Persia, yn Asia, a saif ar ben craig uchel arth iawn.

naw o'r gwŷr penaf yn y dref gael eu tafu dros glogwyn, yr hwn oedd dan ffenestr wrth yr hon yr eisteddai efe." *Malcolm's History of Persia.*

Dywed hanesydd arall am yr amgylchiad hwn,—“Yn ystod yr ymdrech gwladwriaethol a gymmerodd le ar farwolaeth Kerim Khan, Zuckee Khan, yr hwn oedd wedi trawsfeddiannu gorsedd y deyrnas, a'r hwn oedd yn ormeswr mor erchyll ag a waradwyddodd yr hiliogaeth ddynol erioed, ar ei ddyfodiad i Yezdikhaust o Shiraz, ar ei ffordd i Ispahan, yn ddisymwth a ofynodd swm o arian gan yr ynadon, ag oedd yn ddyledus i'r llywodraeth, y rhai yr haerai efe eu bod wedi eu dirgelu. Hwy a wadasant fod y cyfryw swm yn ddyledus, ac a haerasant nad oeddynt wedi cuddio dim arian, ac na allent gasglu y swm a ofynid. Wrth gael y dinasyddion anffodus yn ddiysagog yn ngwirionedd yr hyn a ddywedent, heb ychwaneg o drafferth ynghylch y matter, efe a archodd fod i ryw nifer o honynt gael eu dwyn i ben y graig, gerllaw i'r ffenestr wrth yr hon yr eisteddai efe, ac yn ddioed eu chwyrnafu dros y clogwyn. Ufuddhawyd iddo; ac yr oedd deunaw neu bedwar-ar-bymtheg o'r personau anrhydeddusaf yn y dref yn mhen ychydig o funudau i'w gweled yn y gwaelod yn gorwedd ar y llawr wedi eu dryllio mewn modd arswydus.”

Esther 7. 7. *A'r brenin a gyfododd yn ei ddigllonedd o gyfeddach y gwin, ac a aeth i ardd y palas.* Dywed Tavernier, “Pan byddo brenin Persia yn gorchymyn i ddyn gael ei ddienyddio, ac yna yn codi, ao yn myned i ystafell un o'r benywod, mae hyn yn arwydd nad oes lle i ddysgwyl am drugaredd.” Ond yr oedd hyd yn nod codiad sydyn y brenin mewn digllonedd, yr un peth a phe buasai yn cyhoeddi dedfryd marwolaeth. Adrodda Olearius anghraifft o hyn y gymmerodd le pan yr oedd efe yn Persia. Schah Sefi a gymmerodd dramgwydd unwaith o herwydd rhyw ddigrif-eiriau anmhrydlon y rhai a ddywedodd un o'i anwyliad yn ei wydd. Y brenin yn ddioed a gyfododd ac a ymneillduodd, oddiwrth yr hyn gwelodd yr anwyliad fod ei fywyd wedi ei ffurfedu. Efe a aeth adref mewn terfysg, ac yn mhen ychydig o oriau wedi hyn y brenin a anfonodd am ei ben.

Job 16. 10. *Tarawaist fy ngenau yn ddirmygus.* Oddiwrth yr hanesion canlynol, ymddengys fod y driniaeth hon yn niweidiol iawn. “Digiodd Davage yn fawr; ac ni allwn i wneuthur mwy na'i ddenu i ddyfod i'r weithfa ar neges' tra y bŷm i yno; o her-

wydd fod Mr. Pringle, yn an!o'i nwydan poethlon, wedi ei daro yn ei gern â gwadn ei yslopan (*slipper*); y sarhad mwyaf a ellir ei roddi i un o bobl Asia, yn mysg y rhai yr ystyrir fod cyffwrdd â gwada y troed yn anfri." *Lord Valentia's Voyages and Travels.*

Yn ngwersyll y Mahrattiaid\*, yr hwn a berthynai i Scinda, cafodd ei brif weinidog ei lofruddio yn gyhoeddus yn y farchnadle. Cafodd ei wragedd, fel yr arferir gwneuthur ar y cyfryw achlysuron, eu dyosg o'r cwbl a feddent; ac anfonwyd am yr un oedd mewn mwyaf o barch gydag ef i'r llys, a churwyd hi yn chwerv yn mhresenoldeb gwraig Scinda, yr hon a chwanegodd at yr anfri, drwy roddi iddi amrywiol o ergydion ei hun â'i hyslopan. *Brough-ton's Letters from a Mahratta Camp.*

Dywed Syr W. Ouseley am un dyn pan yn analluog i gael rhyw arian a ofynai ei benaeth ganddo, i'r penaeth ei waradwyddo, ei daro ar ei wyneb, ac â sawdl uchel yslopan bren, o amgylch yr hwn yr oedd haiarn, iddo daro allan amrywiol o'i ddannedd.

Mae yr Hindwad, wrth ymgadw yn fanwl rhag oig a diodydd meddwawl, yn dyfod drwy hyny mor hynaws ei dymber, fel y gall ddyoddef braidd unrhyw beth heb gael ei gynhyrfu, oddieithr cael ei guro âg yslopan, wedi i ddyn ei thynu oddiar ei droed a phoeri ynddi. Arswydir hyn yn fwy nag unrhyw sarhad; ac nid ystyrir ef yn llai gwaradwyddus na phoeri yn y gwyneb, neu dafu llaid a thom ar hyd dyn yn mysg Ewropiaid.

Diar. 11. 1. *Clorianau annghywir sydd ffaidd gan yr Arglwydd; ond careg union sydd foddlon ganddo ef.* Mae llymdostedd mawr yn fynych wedi cael ei weithredu yn erbyn y rhai a ddaliwyd yn y twyll y cyfeirir yma ato. "Swyddog trefawl yn sylwi un bore ar wraig, nid un o frodorion y dref, ya dwyn gyda hi ddarn mawr o gaws, a ofynodd pa le y prynasai hi ef; a hi yn anwybodus o enw y gwerthydd, a'i harweiniodd ef i'r masnachdŷ; a'r swyddog yn drwgdybio nad oedd yn llawn pwys, a'i gosododd yn y clorian, ac yn ddioed cadarnhawyd ei ddrwgdyb; yna efe a orchymynodd i'w ganlynwyr dori o'r rhan mwyaf cnawdog o gorph y masnachwr gymmaint ag a wnelai y caws yn llawn pwys. Cyflawnwyd y gorchymyn yn ddioed, a'r dyoddefydd a waedodd i farwolaeth." *Joliffe's Letters from Palestine.*

Diar. 16. 14. *Digofaint y brenin sydd megys cennad angau.*

\* *Mahrattiaid.*—Pobl lleog yn Hindwstan, yn Asia:

"Yr oedd y dyoddefydd yn yr anghraifft hon wedi ei oed mewn swydd o ymddiried, ac wedi myned allan o Gaercystenyn. Tra yr oedd efe ar ei ddychweiliad o Mecca, anfonwyd swyddog o'r brif ddinas, a gorohymynwyd iddo dori ei ben ef, a'i anfon yn ddiwed i Gaercystenyn. Dygwyd ei ddedfryd i weithrediad cyn iddo gyrrhaedd Damascus." *Irby and Mangle's Travels in Egypt.*

Esay 50. 6. *Fy nghorph a roddais i'r curvoyr, a'm cernau i'r rhai a dynai'r blew; ni chualdais fy wyneb oddiwrth waradwydd a phoerodd.* Mae Mr. Hanway yn coffau amgylchiad nad yw yn gwahaniaethu ond ychydig, os dim, oddiwrth yr un y cyfeirir ato gan y prophwyd. "Dygwyd carharor, yr hwn yr oedd dau ddam o bren wedi eu gosod ar feinder ei goes; yr oedd hefyd bren trwm wedi ei osod am ei wddf. Y penciwdod a ofynodd i mi, Ai y dyn hwnw oedd wedi cymmeryd fy nwyddau? Mi a ddywedais wrtho nad oeddwn yn cofio ei weled o'r blaen. Efe a holwyd dros beth amser, ac o'r diwedd gorohymynwyd iddo gael ei guro â choed, yr hyn a wnawd gan ddau filwr gyda'r fath lymdra, fel pe buasant yn bwriadu ei ladd. Yna gorohymynwyd i'r milwyr boeri yn ei wyneb, gweithred a ystyrid gynt yn sarhad mawr. Hyn, a thori y farf, a ddygodd i'm cof y dyoddefiadau a goffeir yn yr hanes prophwydoliaethol am ein Iaohawdwr, Esay 50. 6.

"Sadoc Aga a anfonwyd yn garcharor i Astrabad—torwyd ym-aith ei farf, rhwbiwyd tom yn ei wyneb, a thynwyd ei lygaid allan. Ar ei waith yn llefaru mewn geiriau cryfion y rhai ydynt naturiol i ysbryd gwrol, y penciwdod a arodd iddo gael ei daro yn groes i'w enau â phren i'w ddystewi; yr hyn a wnaethpwyd gyda'r fath nerth fel y rhuthrodd y gwaed allan."

Jer. 29. 18. *Ac mi a'u rhoddaf i gael eu symud i holl deyrnasoddd y ddacar.* Mae symud pobl neu genhedloedd o'u gwlad wedi cael ei arfer gan orchfygwyr diweddar. Fel hyn yn y flwyddyn 796, Charlemagne a symudodd y Saxoniaid o'u gwlad eu hun, mewn trefn i'w rhwymo i barhau yn ffyddlon iddo ef, i wahanol barthau o'i deyrnas. Poblogwyd eu gwlad eu hunain â gwahanol lwythau ereill. Trefnodd Abbas y cyntaf, yr hwn a esgynodd i orsedd Persia yn y flwyddyn 1565, i symud trigolion y lleoedd a orchfygasai o un wlad i un arall, gyda golwg at ragflaenu peryglon oddiwrth eu hanfoddlonrwydd. *Hansay's Revolutions of Persia.*

Dyfeisia tywysogion Asia yn fynych symud eu deiliaid o un

wlad i un arall, weithiau gyda golwg at gael milwyr ffyddlon, mewn rhyw ran neillduol o'r wlad, ond yn fwyaf cyffredin i dori nerth rhyw genedl wrthryfelgar.

Jer. 37. 15. *Am hyny y tywysogion a ddigiasant wrth Jeremiah, ac a'i tarawsant ef, ac a'i rhoddasant yn y carchardy yn nhŷ Jonathan yr ysgrifenydd; oblegid hwnw a wnaethpwyd yn garchardy.* "Nid yw y carcharau yn y Dwyrain yn adeiladau cyhoedd i'r perwyl hwnw, ond rhanau o dai y barnwyr sydd yn profi drwgweithredwyr ydynt. Gan fod llywodraethwr a blaenor tref, neu gadben y gwylwyr, yn carcharu y rhai a gyhuddir yn eu tai eu hunain, maent yn neillduo rhan o honynt i'r perwyl hwn pan oeddir hwynt yn y swyddau hyny, a dewisant yn geidwaid y rhai ffyddlonaf o'u gwasanaethwyr."—*Chardin.* Yn y carcharau Dwyrainiol, mae awdurdod yn oael ei roddi i'r ceidwad i drid ei garcharorion fel y gwelo yn dda; y cwbl a ofynir ganddo ef yw dwyn ei garcharorion yn mlaen pan alwer am danynt. "Nid oes ganddynt leoedd gwahanol i wahanol ddosparthau o ddrwgweithredwyr. Nid yw y barnwyr yn blino eu hunain ynghylch pa le y cyfyngir y carcharorion, na pha fodd y triair hwynt; hwy a'i hystyriant yn unig fel lle o ddiogelwch; a'r owbl a ofynant hwy gan y ceidwad yw, fod y carcharor i'w gael pan ymofynar am dano. O ran pethau ereill, mae efe yn ben i wneuthur fel y rhyng, i'w drin yn dda neu yn ddrwg; i'w osod mewn haiarn neu beidio; i'w gau i fynu yn gaeth, neu i'w gadw mewn mwy o ryddid; i oddef pobl i ddyfod ato, neu i beidio gadael neb i'w weled. Os caiff y ceidwad a'i weision wobrau helaeth, pe byddai y carcharor y dyhiryn mwyaf yn y byd, efe a gaiff letya yn ystafelloedd y ceidwad, ac yn y goreu o honynt; ac, yn y gwrthwyneb, os rhydd y rhai a garcharant ddyn fwy o anrhegion i'r ceidwad, neu os bydd ganddo ef fwy o barch iddynt hwy, efe a ddrin y carcharor gyda'r annynoldeb mwyaf."—*Chardin.* I egluro hyn efe a rydd i ni hanes y driniaeth a gafodd marsianawr Armeniaidd mawr. "Cafodd ei drin ar y cyntaf gyda'r tynerwech mwyaf, wrth ei fod yn rhoddi i'r ceidwad anrhegion lled werthfawr, nes iddo gael ei gneifio yn lled dda o bryd i bryd, yna, ar waith y rhai a ddylynent ar yr Armeniaid yn rhoddi anrheg werthfawr yn gyntaf i'r barnwr, ac wedi hynny i'r ceidwad, lleihawyd breintiau y carcharor, yna cyfyngwyd arno, ac wedi hynny trinwyd ef gyda'r fath annynoldeb, fel na ohanataid iddo yfed uwchlaw unwaith bob



pedair awr ar hugain, a hyny yn yr amser poethaf yn yr haf, ac ni oddefid i neb ddyfod yn agos iddo, ond gweision y carchar, ac o'r diwedd taffwyd ef i ddaeardf, lle, mewn chwarter awr, y dygwyd ef i foddloni i'r hyn yr oedd yr holl lymdostedd hyn yn cael ei fwriadu i'w weithio ef iddo."

Ezec. 28. 25. *Dy drwyn a'th glustiau a dynant ymaith.* Mae y creulonderau hyn yn cael eu harferyd eto yn fynych dan rai o frenhinoedd annibynol y gwledydd Dwyreiniol. "Ein gweision, yn eu rhyfelgyrch i'r pentref, ni chwasant ond hen wraig yn fyw, a'i chlustiau wedi eu tori ymaith. Mae y rhaglaw yn prynu clustiau dynion am hanner cant o *biasters* yr un, yr hyn a dywys i fil o greulonderau afreidiol, ac a wna eu rhyfeloedd yn farbar-aidd iawn; ond mae y drefn hon yn galluogi ei uchder i gasglu rhifedi mawr o glustiau, y rhai a enfyn efe i waered i'w dad, fel profion o'i lwyddiant." *Waddington and Hanbury's Journal of a Visit to some parts of Ethiopia*, p. 118.

Dan. 2. 14. *Pen-distain y brenin.* Y gair Hebreig a arwydda penaeth y dienyddwyr, neu benaeth y rhai a gyflawnent ddedfrydau marwolaeth. "Penaeth gwŷr meirch Schiraz, yr hwn a awdur-dodwyd i ddal y tywysog, oedd Mahomet-Chan, yr hwn a lanwai swydd bwysig, sef bod yn brif-ddienyddwr."—*Morier's Journey to Persia*. Dywed Hanway nad oedd y swyddog hwn ond yn unig yn dal drwgweithredwyr; a dywed amrywiol o awdwyr fod y swydd hon yn rhoddi bri ar yr hwn a fyddai ynddi. Ymddengys fod pobl y Dwyrain yn edrych yn wahanol ar y swydd hon i'r modd y gwna Ewropiaid. Dywed un hanesydd fod "dienyddwyr yn Georgia yn gyfoethog iawn, a bod personau o radd uchel yn cymmeryd y swydd hon. Maent yn mhell oddiwrth feddwl ei bod yn waradwyddus, fel y gwna pobl rhanau ereill o'r byd, oblegid y mae hi yno yn dwyn teitl anrhydeddus i'r teulu. Y bobl yno a ymfrostitiant fod amrywiol o ddienyddwyr wedi bod o'u teulu hwy gynt; a hwy a ſant yn hyn ar yr egwyddor, nad oes dim yn fwy anrhydeddus na gwneuthur cyfiawnder, heb yr hyn ni allai neb fyw yn ddiogel."

Dan. 3. 6. *Yr hwn ni syrthio, ac ni addolo, yr awr hwno a furir i ganol ffwrn o dân poeth.* Nid oedd y dull hwn o oed i farwolaeth yn anarferol yn y Dwyrain mewn amseroedd diweddar. Mae *Chardin* yn hanes ei deithiau, wrth sefaru am y dulliau mwyaf cyffredin o gospi â marwolaeth, yn dywedyd,—“Ond y mae eto ffordd neillduol o oed i farwolaeth y cyfryw ag a drosoddasant

mewn matterion gwladol, bod yn euog o ddefnyddio pwysau anghyfreithlon, a phethau cyffelyb. Mae ceginwyr (*cooks*) yn cael eu gosod ar bêr, a'u rhoio wrth dân araf (gwel Jer. 29. 22); pobyddion a defir i fwrn boeth. Yn ystod y sychder yn 1668, mi a welais y cyfryw ffyrnau wedi eu twymo yn y betryal frenhinol yn Ispahan, i frawychu y pobyddion, a'u rhwystro i gymmeryd mantais o herwydd y cyfyngder cyffredinol."

Dan. 6. 24. *Yna y gorchymynodd y brenin, a hwy a ddygasant y gwŷr hyny a gshuddasent Ddaniel, ac a'u bwriasant i ffau y llewod, hwy, a'u plant, a'u gwragedd.* "Mae y milwyr cofrestredig yn cael eu cyfran o ŷd, ond ddim cyflog, ac maent yn byw yn benaf ar anrhaith. Mae teuluoedd y milwyr hyn yn cael eu cadw yn ofalus yn y gwahanol barthau fel gwystlon am ymddygiad da eu perthynasau; ac mae unrhyw gamymddygiad ar eu rhan hwy, neu enciliad, yn wastadol yn peri dystryw i'w teuluoedd, y rhai a osodir mewn bwthyn o wellt, ac a losgir yn fyw. Mae llawer o esiamplau arswydus o'r fath wedi dygwydd yn ddiweddar. Mae y trefniad hwn o eiddo y genedl yn rhwymo pob dosparth wrth eu llummanau yn mhob amgylchiad pwysig, ac yn rheswm dros eu gwrthsafiad tyn." *Modern Traveller: Birman.*

Nahum 2. 10. *Eu hwynebau hwynt oll a gasglant barddu* [neu *dduoch*]. Mr. Harmer a ystyria y duwch hwn fel effaith newyn a syched; ond Calmet a'i cyfeiria at yr arferiad o roddi parddu ar y gwyneb. Nid ymddengys y gorchwyl hwn, pa fodd bynag, yn gyson â'r brys a'r braw sydd wrth ffoi. Ymddengys y gellir cael gwell goleuni ar hyn oddiwrth yr hanesion canlynol, nag sydd yn y golygiadau blaenorol:—"Yr oedd Kumeil, mab Ziyad, yn ddyn o ffraethineb mawr. Un diwrnod Hejage a wnaeth iddo ddyfod o'i flaen, ac a'i gwaradwyddodd, o herwydd iddo yn y cyfryw ardd, o flaen y cyfryw a'r cyfryw bersonau, arfer amrywiol o regfeydd i'w erbyn ef, gan ddywedyd, *Yr Arglwydd a dduo ei wyneb*; hyny yw, *a'i llanwo â chywilydd a gwaradwydd*; a dymuno fod ei wddf wedi ei dori, a'i waed wedi ei dywallt."—*Ockley's History of the Saracens.* Coffeir am amgylchiad diweddarach o'r un fath gan Mr. Antes yn ei sylwadau ar *Foesau a Defodau yr Aiphtiaid*. Wedi crybwyll am y dull y cawsai efe ei drin yn ystod ei arosiad yn yr Aipht gan Osman Bey, efe a ddywed,— "Gofynwyd i mi rai gweithiau, a oedd ddim yn ddichonadwy dwyn y cyfryw ddyhiryn dan gosp cyfraith? Pwy bynag a wyr ryw-

beth am y *Begs*\* a'r *Mamelukes*†, a welant yn amlwg na ellir gwneuthur hyny, ac y byddai cynyg at hyny yn beth peryglus. Ar yr amser hwnw Ibrahim a Murah oeddynt y rhai mwyaf grymus yn mysg y *begs*. Pe buaswn i yn achwyn wrthynt hwy, a chydag achwyn yn rhoddi anrheg iddynt o ugain neu o hyny i hanner can *dollar* (canys ni buasai swm llai yn ateb y dyben), efallai y buasent yn mayned mor bell a deoli Osman Bey o Cairo; ond buasent, efallai, yn ei alw yn ol yn mhen ychydig o fisoedd, yn enwedig os caffent fod hyny yn angenrheidiol er cadarnhau eu plaid yn erbyn rhai ereill. Pe buasai i'r *bey* hwn fy nghyfarfod i yn yr heol, dichon na buasai fy mhen yn ddiogel ar fy nghorph. Gwyddai Ibrahim a Murah ryw beth am damaf; ond pan glywsant yr holl fatter, hwy yn unig a ddywedasant am Osman Bey, *Duo a dduo ei wyneb*.

Mat. 14. 11. *A dygwyrdd ei ben ef mewn dysgl*. Cyfarfyddir mewn hanesyddiaeth âg anghreiffitiau cyffelyb o greulondob di-deimlad. Marc Antony a barodd i benau y rhai a fwriasai efe allan o noddod y gyfraith, gael eu dwyn iddo tra yr oedd wrth ei fwrdd, ac efe a ddifyrodd ei lygaid dros gryn amser â'r olwg druenus hono. Pen Cicero oedd un o'r rhai a ddygwyrdd iddo, ac efe a archodd iddo gael ei osod ar yr areithfa lle y buasai Cicero yn areithio yn ei erbyn ef.

"Seljook, brenin Persia, ryw dro pan yn feddw, a orchymynodd i un o'i gaethion dori ymaith ben ei frenhines. Ufuddhawyd i'r arch oreulon, a phen y frenhines brydferth hon a ddygwyrdd mewn dysgl aur i'w phriod meddw, pan oedd yn eistedd ac yn gloddesta gyda'i gyfeillion llygredig." *Malcolm's History of Persia*.

Mae anghreiffitiau cyffelyb i'w cael mewn hanesion diweddarach am wledydd y Dwyrain. Shah Sefi, yr hwn a lywodraethodd Persia yn y rhan gyntaf o'r eilfed canrif ar bymtheg, a benderfynodd symud o'r ffordd dywysog Schiraz, yr hwn a ddaethai yn rhy rymus iddo, a'i dri mab hynaf gydag ef. Hwy a wahoddwyd i ddyfod i'r brif ddinas i wledd fawr yn y llys, yr hon oedd i barhau dri diwrnod; y tad a ymesgusododd o herwydd ei henaint, ond daeth y meibion. Ar y trydydd dydd y brenin a ymneillduodd o'r neuadd heb ddywedyd un gair. Yn mhen hanner awr

\* *Begs*.—Llywodraethwyr taleithiau yn ymerodraeth Twrei.

† *Mamelukes*.—Llywodraethwyr o bobl a fu unwaith yn Illoeg iawn, ac yn helaeth eu hawddurdod yn yr Aifat.

wedi hyny, daeth tri dyn arfog i'r ystafell, ac a dorasant ymaith benau tri mab y tywysog, gosodasant hwynt mewn dysgl, ac a'u cyflwynasant hwynt i'r brenin, yr hwn a archodd fod iddynt gael eu dangos i'r tad, ac ar ol gwneuthur hyn, iddynt dori ymaith ei ben yntau. Ar ol cyflawni y gorchymyn hwn, rhoddwyd pen y tad gyda phenau ei dri mab, a chyflwynwyd y ddyagl drachefn i'r brenin, yr hwn a'i hanfonodd i'r hen frenhines. *Tavernier's Travels.*

Mat. 24. 51. *Ac a'i gwahana, neu a'i tyr ef.* Mae llawer o anghreiffiau mewn hen ysgrifeniadau o'r dull hwn o ddienyddio drwgweithredwyr, ac arferir ef hyd yn hyn gan rai cenhedloedd, yn enwedig gan rai Ethiopiaid yn Barbary, fel y sicrheir i ni gan Dr. *Shaw*. Dywed *Calmet*, nad oedd y gospedigaeith hon yn anadnabyddus yn mysg yr Hebraeid. Tebygol iddi ddyfod ar y cyntaf oddiwrth y Persiaid neu y Caldeaid. Arferir hi eto yn mysg rhai cenhedloedd. Rhoddid y dyn anffodus mewn math o arch, a llifid ef ar ei hyd yn y modd y llifir darn o bren. Parisates, brenin Persia, a barodd i Roxana gael ei lifo yn fyw yn ddwy ran. Dywed *Valerius Maximus* fod y Thraciaid weithiau yn gwneuthur i rai dynion fyned dan y driniaeth hon yn fyw. Yr oedd cyfreithiau y deuddeg llech, y rhai a fenthyciodd y Rhufeiniaid oddiar y Groegiaid, yn condemnio dynion am ryw droseddau i ddyoddef oosp y llif; ond yr oedd y eyflawniad o'r ddedfryd hon mor anfynych, fel y dywed *Aulus Gellius* nad oedd neb yn cofio ei gweled yn cael ei harferyd. Dywed *Herodotus* i Sabacus, brenin yr Aipht, dderbyn gorchymyn mewn breuddwyd i dori yn ddau holl offeiriaid yr Aipht. Caius Galigula, yr ymerawdwr, yn fynych a gondemniai rai mathau o bobl i gael eu llifio yn ddau drwy eu canol. Mae *Baldwin*, yn yr hanes a gasglodd efe am drefn y llywodraeth Rufeinig o gospi am droseddau, yn dywedyd fod un gyfraith ag a oddefai i gorph dyledwr gael ei dori yn ddarnau, a'i ranu yn mysg ei ofynwyr yn y diffyg o daliad.

Y llywodraethwr Misitra, gerllaw hen Sparta, wedi iddo gael ei dwyll-wobrwyo gan Mohammed yr all, i roddi y tŵr i fynu iddo ef, mor fuan ag y gosododd efe ei hun yn meddiant yr ymerawdwr, aroddodd yr ymerawdwr iddo gael ei lifo yn ddau drwy y canol.

Cafodd mynach o dalaeith yn Tuscan, yn yr Eidal, ei lifo yn ddau o'i ben i waered, yn Cairo, yn yr Aipht.

"Wrth fyned yn mlaen â'i hanes, efe a ddywedodd wrthym, mai y swm ag oedd wedi ei frawychu ef gymmaint, pan yr

oedd yn aros yn mysg y creigiau a lychwinasid â gwaed, oedd y cyflawniad o greulondeb newydd o eiddo y trawsfeddiannwr. Wedi edrych ar y cyflawniad o'i ddedfryd ar y deunaw dinesydd, honiadau y rhai y pendertynasai beidio eu credu, Nackee Khan a anfonodd yn ddioed am ddyn crefyddol, a elwid Saied Hassan, yr hwn a ystyrid yn ddoethwr y lle, ac yr oedd yn cael ei garu yn fawr gan y bobl o herwydd ei elusenau. 'Rhaid fod y dyn hwn,' ebe y Khan, 'gan ei fod yn un o hiliogaeth y prophwyd, yn gwybod y gwirionedd, ac efe a ddywed i mi. Efe a gaiff chwilio allan am y rhai a allant dalu yr arian i mi, ac a wnant hyny. Ond gan fod yr ateb a roddwyd gan Saied gonest, yr un yn gywir a'r hwn a roddasid gan y rhai anffodus a ddiennyddiasid eisioes, nid oedd derfyn i lidiawgrwydd y gormeswr, a chan godi oddiar ei eisteddle, efe a orchymynodd i'r hen wr crefyddol gael ei rwygo yn ei bresenoldeb, ac yna ei dasfu dros y graig, i amlhau y cof-arwyddion ag oedd isod o'i ddialedd." *Sir R. K. Porter's Travels in Persia.*

Mat. 26. 67. *Yna y poerasant yn ei wyneb.* Yr oedd yr ang-raiff hon o ddirmyg a gwaradwydd a gynygiwyd i Grist, ar yr un pryd yn ddangosiad o falais ac mewn cydffurfiad â defod. Mae hon yn arferiad wedi disgyn i genhedlaethau diweddar, canya, yn y flwyddyn 1744, pan gafodd gwrthryfelwr ag oedd yn garcharor ei ddwyn gerbron penciwod Nadir Shah, "archwyd i'r milwyr boeri yn ei wyneb, peth a ystyrid yn anmharch er yn fore iawn yn y Dwyrain." *Hanway's Travels.*

Y Tyrciaid, yn gystal a chenhedloedd Dwyreiniol ereill, nid arferant un ffordd arall yn fynych i osod allan lidiawgrwydd, ond poeri ar y llawr. A allem ni ddim gweled rheswm yn hyn paham y gwnaeth Crist, wrth iachau y dall a'r byddar, boeri ar y ddaear? Ioan 9. 6; Marc 7. 33, a 8. 23.

"Tua'r hwyr, daeth yr hin yn wyntog, a hoffasai y llywydd gyfyngu ei hwyliau llydain; rhoddwyd rhai o'r dynion, gan hyny, ar waith i'r perwyl hwnw. Yn y cyfamser drylliiodd un o'r hwyliau, a mawr oedd y terfysg a gymmerodd le. Yn ei ganol, cynnygiodd un o honom ni gynnorthwyo, ac hyd yn nod lefaru wrth yr hen lywydd. Ei lidiawgrwydd wrth gael ei anerch gan anffyddiaid ar amser peryglus fel hwn, a aeth dros bob terfyn. Efe a boeredd yn gyntaf ar fwrdd y llestr, yna i'r môr, gan briodoli y ddamwain yn hollol i'n presenoldeb ni ar y bwrdd, a mellidithio

yr holl hiliogaeth o Gristionogion, fel awdwyr yr holl anffawd a gawsai efe erioed." *Clarke.*

Mat. 27. 25. *Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant.* Traethir rhegfeydd yn fynych fel adroddiadau o falais a dialedd. I'r arfer hon mae rhai o bobl y Dwyrain yn fynych yn ymollwng. "Ni a gyfarfuasom yma âg un a fu gynt yn arweinydd i ni, efe a anerchodd y gweision, ac ymddangosai fod yn dda ganddo ein gweled, ac efe yn ddioed a ymdrechodd gael lluniaeth i ni. Ni a sylwasom ar un o bobl Nubia yn derbyn troedriad chwerw gan gamel, ac yr oedd ei ffordd o ddangos ei lidiawgrwydd o herwydd hyny yn ddifyrus iawn. Efe yn ddioed a syrthiodd ar ei benliniau; ac ar ol cyhoeddi amrywiol o felldithion i fod ar ben santaidd y camel a droseddasai i'w erbyn, efe a dafiodd i'r awyr gryn lawer o dywod, o'r rhai y syrthiodd y rhan amlaf, arno ei hun. Mi a welais yn fynych gwerylon yn mÿsg yr Arabiaid yn cael eu dwyn yn mlaen yn yr un modd." *Waddington and Hanbury's Journal of a Visit to some parts of Ethiopia.*

Luc 4. 29. *Ac a'i dygasant ef hyd ar ael y bryn yr hwn yr oedd eu dinas wedi ei hadeiladu arno, ar fedr ei furw ef bendramwnwgl i lawr.* "Ni a aethom allan i weled y bryn oddiar yr hwn yr oedd trigolion Nazareth yn ewyllysio bwrw Crist i lawr pan bregethodd efe iddynt. Mynydd uchel cerigog yw hwn, yn sefyll o fewn hyd yohydig o ergydion gŵn i Nazareth, yr hwn sydd yn cynwys cerig calch o'r fath ag sydd yn gyffredin yma, ac yn cael ei orhuddio gan blanhigion prydferth. Ar ei ben, ar y tu deheuol, y mae Craig Serth, yr hwn y dywedir yw y man o herwydd yr hwn y mae y bryn yn enwog. Mae yr olwg ar y graig hon yn ddychrynllyd, a hawdd iawn yw cymmeryd ymaith fywyd dyn drwy ei dafu drosti."—*Hasselquist's Voyages.* "Wedi ciniaw ni a aethom allan i daith fechan, mewn trefn i gael gweled y lle a alwant hwy Mynydd y tafu bendramwnwgl, hyny yw, ael y bryn oddiar ba un yr amcanodd y Nazareaid dafu ein Iachawdwr bendigedig, wedi iddynt ymgynhyrfu i'w erbyn o herwydd y bregeth a bregethasai efe iddynt. Mae y clogwyn hwn o leiaf filltir a hanner o Nazareth, tua'r deheuol. Wrth fyned ato yr ydych yn gyntaf yn croesi y dyffryn yn yr hwn y saif Nazareth, ac yna ar ol myned i waered ddwy neu dair o ystadau drwy le cyfng rhwng dwy graig, yr ydych wedi hyny yn dringo ar hyd ffordd fer ond anhawdd iawn, ar y llaw ddeheuol, ar ben pa un y cewch gareg fawr yn gorwedd ar ynyl clogwyn, droes yr hwn, dywedir, y bwriadid ein Harglwydd

bendigedig i lawr, gan ei gymmydogion cyffroedig, oni buasai iddo ddianc o'u dwylaw. Mae yn y gareg amrywiol o dyllau hychain, yn debyg i ôlion bysedd wedi eu gwrthio iddi; dywed y maynachod mai ôlion bysedd Crist yw y rhai hyn, y rhai a wnaeth efe wrth wrthwynebu ffyrnigrwydd y bobl."—*Maunderell*. Rhydd Mr. Buckingham hanes cyffelyb.

• Act. 15. 10. *Iau ar war*. Nid yw yr ymadroddion "goesod iau ar war un," 1 Bren. 12. 4, a "thori yr iau," Gen. 27. 40; Lef. 26. 13; Essay 9. 4—10. 27, wedi eu cymameryd oddiwrth anifeiliaid yn tynau, ond oddiwrth garcharorion y rhai a gyfyngid â iau. Pan giniauwodd Hanway gyda'r gweinidog Persiaidd, Behbud Chan, dygwyd carcharor i mewn wedi cniaw, wrth goesau yr hwn yr oedd dau ddarn o bren, ac yr oedd iau am ei wddf, ac yr oedd ei fraich aswy wedi ei ohlymu wrth un pen iddi, fel pan ewyllysiai efe estawytho ei fraich, yr oedd ei wddf yn cael ei wasgu yn fwy. Gwel Mat. 11. 29; 1 Tim. 6. 1; Galat. 5. 1.

Act. 16. 24. *A wnaeth eu traed hwy yn sicr yn y cyffion*. Tybir yn gyffredia mai y *cippi*, neu ddarnau mawrion o goed, a arferid gan y Rhufeiniaid, oedd y cyffion hyn, y rhai nid yn unig a lwythent goesau carcharorion, ond weithiau a'u hestynent mewn modd poenus iawn; fel y mae yn debyg iawn fod sefyllfa Paul a Silas yma yn fwy poenus nag yw eiddo troeddwr a fyddo yn eistedd yn y cyffion, y fath ag a arferir gyda ni, yn enwedig os oeddynt (yr hyn sydd yn debygol iawn eu bod) yn gorwedd ar eu cefnau noethion, y rhai a fflangellasid mor ddiweddar, ar y llawr tomlyd a chaled; yr hyn a ddangys eu tymher lawen, yr hon a osodwyd allan drwy ganiadau o fawl, gymmaint yn fwy nodedig. Mae Beza yn golygu mai math o gyffion a elwid *numella* oeddynt, yn y rhai yr oedd y traed a'r gwddf yn cael eu sicrhau yn y sefyllfa fwyaf anesamwyth ag y gellir braidd ddychymygu.

*Cyffion* ag ynddynt *bun tuoll*, drwy ddau o ba rai y rhoddid y traed, drwy ddau arall y rhoddid y dwylaw, a thrwy y llall ben carcharor, ac felly y oedwid ef yn y cyflwr annaturiol hwn, rhaid eu bod yn achosi poen ag oedd mewn gwirionedd yn annyoddeffol. Llefara haneswyr am gyffion o'r fath.

Yn China, mae y *Kan-ghe*, neu yr wddf-dorch bren, a arferir i gopsi am ladrad, yn fath o rigawd (*pillory*) a ellir ddwya u un lle i'r llall, wedi ei wneuthur i fynn o ddian ddarn o bren, a thwll wedi ei wneuthur yn ei ganol, fel y gallu gwddf y

troeddwr gael lle ynddo; ac y mae y pren hwn o'r fath drwch fel na all y carcharor weled ei draed ei hun, na chodi ei law at ei enau, fel y mae yn ddyledus i ryw un arall am ei ym-borth. Mae yn cael ei wneuthur yn drymnoch neu yn ysgafnach yn ol natur y troedd, neu y ffafir a ddangosir at y troeddwr. Mae yr ysgafnaf ynghylch deugain neu hanner can pwys, ac y mae rhai o honynt hyd yn nod yn ddau cant o bwysau.

Act. 23. 2. *Ananias a archodd i'r rhai oedd yn sefyll yn ei ymyl, ei daro ef ar ei enau.* "Gelwch ar y swyddwyr," ebe y brenin, "a churwch y dyhirod hyd nes y byddont feirw. Y swyddwyr a ddaethant, ac a'u curasant yn ffyrnig; a phan gynnygient hwy ddywedyd unrhyw beth er amddiffyn eu hunain, hwy a'u tarawent ar eu geneuau âg esgid, sawdl yr hon oedd wedi ei bedoli â haiarn."—*Morier's Second Journey through Persia.* Ystyrid yr esgid yn wastadol fel yn aflan, ac ni oddefid iddi gael ei dwyn un amser i le cysegredig neu barchus; ac y mae i un gael ei guro â hi yn ddarostyngiad i'r gwaradwydd mwyaf.

Dywed *Morier* mewn lle arall, "Mor fuan ag y daeth y cenhadwr i mewn, efe a barodd i'r prif droseddwyr gael eu cospi drwy gael eu curó yn ei bresenoldeb; a'r rhai oeddynt wedi dywedyd eu meddyliau yn lled helaeth, efe a'u tarawodd ar eu geneuau âg esgid, yr hyn, yn eu dull cyffredin hwy o siarad, a alwant, bwyta esgid."

*Mr. Dubois*, yn ei ddesgrifiad o bobl yn India, a ddywed, "Yr anmharoh mwyaf o un peth, a'r anhawddaf i'w oddef, yw i un gael ei daro âg esgid neu sandal Hindwad. Mae derbyn troed-iad, os bydd yr esgid ar y troed, yn niwed o natur mor anfaddeuol, fel y byddai i ddyn ddyoddef diarddeliad o'r *caste*, neu y radd, neu y llwyth, y perthyna iddo, ag a blygai iddo heb dderbyn rhyw iawn cyfartal. Mae hyd yn nod bygwth dyn âg ergyd sandal yn cael ei ystyried yn drosedd, ac yn galw am gosp.

Rhuf. 7. 24. *Pwy a'm gwared i oddiwrth gorph y farwolaeth hon?* "Ys truan o ddyn wyf fi! yw fy ngwaedd yn fynych yn y cyfryw amgylchiadau, heb gynhaliaeth na chynhyrriad gwell nag a all y gyfraith roddi i mi. *Pwy a'm hachub i?* gaethwas truenus y fath ag ydwyf, *oddiwrth gorph y farwolaeth hon*, oddiwrth y baich beunyddiol hwn ag wyf yn ddwyn o amgylch gyda mi, a'r hwn sydd yn bwysig a ffiâidd fel corph marw wedi ei swymo wrth gorph byw, i gael ei lusgo gydag ef pa le bynag



yr elo?" Fel hyn y mae y geiriau yn cael eu haralleirio gan *Dr. Doddsridge*, wrth y rhai y rhydd.efe y sylw.nod canlynol:—  
 “Mae yn ddigon adnabyddus fod rhai hen ysgrifwrwyr yn coffau hyn fel creulondeb a arferid gan rai gormeswyr at gaethion anffodus a syrthient i’w dwylaw: a darluniad mwy grymus a chynwysfawr o’r amgylchiad a nodir ni all yn sicr ddyfod i feddwl dyn.” I’r fath greulondeb gael ei arferyd unwaith sydd sicr oddiwrth ysgrifeniadau Virgil ac ereill.

Dywed *Neale*, yn hanes ei daith drwy yr Almaen, “mai gwaith drwgweithredwyr cyffredin yw glanhau yr heolydd ac adgyweirio caerau Brunn. Hwy a weithiant yn bârau, a phan ar unfhyw bryd y trengo rhyw un yn ystod y dydd, mae ei gydymaith dan rywmau i lusgo ei gorph o amgylch hyd fachludiad haul, pan y rhyddheir ef, ond ddim yn gynt.”

Heb. 11. 35. *A ddiennyddiwyd* [neu *a arteithiwyd*]. Nid ymddengys y penderfynir pa un a oedd yr *arteithio* y llefarir yma am dano yn ffordd o gospi yn wahanol oddiwrth ereill, neu pa un a ydyw y gair i’w gymmeryd mewn ystyr cyffredinol am bob math o gospedigaethau a marwolaethau gorthrechol. Dywed *Doddsridge* fod y gair gwreiddiol yn arwyddo math neillduol o artaith, yr hwn a elwid *tympanum*, drwy yr hwn yr oedd dynion yn cael eu hestyn yn y modd mwyaf ffyrnig, ac yna eu curu, drwy yr hyn y rhoddid poen llym iddynt, pan yr oedd yr holl ranau yn cael eu hestyn yn y fath fodd.

“Ar y 15fed o Dachwedd, 1779, cafodd Mr. Antes, wrth ddychwelyd o wib-daith fechan i Cairo, ei ddal gan rai o weinyddion Osman Bey, un o benaethiaid y *Mamelukes*; ac, ar ol ei ddyoeg o’i ddillad, hwy a ofynasant arian ganddo; a chan uad oedd arian ganddo, hwy a’i llusgasant o flaen y *bey*, gan ddywedyd wrtho mai Ewropiad ydoedd, oddiwrth yr hwn y gallai gael rhywbeth. Mewn trefn i dynu arian oddiwrtho, gorchymynodd y *bey* iddo gael ei guro. Hwy yn gyntaf a’i tafasant ar y llawr ar ei wyneb, ac yna plygasant ei gluniau, fel yr oedd gwadnau ei draed i fynu. Yna hwy a ddygasant ffon gref, yn nghylch chwech troedfedd o hyd, a chadwyn haiarn wedi ei sicrhau o un pen i’r llall iddi. Hwy a dafasant y gadwyn hon am ei draed o amgylch ei figyrnau, ac a’u dirwynasant hwynt yn nghyd. Safodd dau ddyn, un ar bob tu iddo, a chanddynt ffyn wedi eu paratoi, hwy a ddaliasant i fynu wadnau ei draed â’r pren y soniwyd am dano. Pan wedi ei osod yn y dull hwn,

swyddog a sisialodd yn ei glust. "Na chymmerwch eich *bastinado*, neu eich curo; rhoddwch iddo fil o *ddollars*, ac efe a'ch gollwng yn rhydd." Mr. Antes, ddim yn ewyllysio rhoddi i fynu yr arian a dderbyniasai am nwyddau marsiandwyr ereill, a wrthododd. Y ddau ddyn yna a ddechreuasant guro gwadnau ei draed, ar y cyntaf yn gymmedrol; ond pan wrthodwyd ail ymfyniad am arian, a'r pryd hwnw yr oeddynt yn gofyn dwy fil o *ddollars*, dechreuasant guro yn drymach, ac yr oedd pob ergyd fel ergyd haiarn poeth. Yn tybied na allent gael dim arian, ac yn meddwl y gallasai fod ganddo ryw nwyddau dymunol, ymfynwyd âg ef y drydedd waith gan y swyddog; efe a ddywedodd wrtho fod ganddo wn gwych iawn, wedi ei addurno âg arian, ei fod yn ei lety, ac y rhoddai hwnw. Y *bey* a ofynodd pa beth a gnygiai efe? Y swyddog gyda diystyrwch a ddywedodd, *Bir esfabina*; hyny yw, un gŵn; gyda'r hyn y *bey* a ddywedodd, *Etrup il kulp*,—Curwch y ci. Yna hwy a ddechreuasant guro â'u holl nerth. Ar y cyntaf, yr oedd y poen yn ddirfawr; ond yn mhen ychydig o amser aeth ei deimlad yn farwaidd, a'r un peth bron fuasai iddynt guro sach o wllân. Yn gweled nad oedd dim i'w gael oddiwrtho, ac yn gwybod na wnaethai ddim i haeddu cosp, y *bey* a orchymynodd iddynt ei ollwng yn rhydd. Un o'r gweinyddwyr a enneiniodd ei draed ef, ac a rwymodd frataiu am danynt, a'i gosododd ef ar asyn, ac a'i tywysodd i'w dŷ yn Cairo, ac a'i gosododd ar ei wely, lle y gorweddodd chwech wythnos cyn iddo allu cerdded, hyd yn nod wrth ffyn baglau; a bu chwydd yn ei figyrnau dros fwy na thair blynedd; ac er, pan ysgrifennodd efe yr hanes hwn, fod ugain mlynedd wedi myned heibio er pan gawsai y driniaeth hon, yr oedd wedi effeithio cym-maint ar ei draed a'i figyrnau, fel, ar unrhyw ymdrech mawr yr arferent chwyddo." *Mr. Antes's Observations on the Manners of the Egyptians.*

Heb. 11. 37. *A grwydrasant mewn crwyn defaid a chrwyn gafr.* I gadarnhau yr hyn a ddywedir yma, mae genym dystiolaeth *Clement*, yn ei Epistol cyntaf at y Corinthiaid. "Byddwn efelychwyr i'r rhai a aethant o amgylch mewn crwyn defaid a chrwyn geifr, gan bregethu dyfodiad Crist. Elias, Eliseus, ac Ezeziel, y prophwydi, ydym yn feddwl." Gwel 2 Bren. 1. 8; Zech. 13. 4. Ymddengys fod cau drwgweithredwyr, mewn crwyn, ac fel hyn eu rhoddi i farwolaeth, wedi bod yn gospedigaeth yn ynys Zora. Yno "arferent ddienyddio drwgweithredwyr yn y modd

canlynol:—rhoddir am darynt groen *buffalo*, newydd gael ei gymmeryd oddiar yr anifail, a gwŵir ef yn dŷn; wrth sychu, bydd yn tynhau, ac yn gwasgu y corph i'r fath radd, fel y mae y dyoddeffydd yn cael ei analluogi i gynorthwyo ei hun mewn un modd, ac fel hyn yn trengu mewn modd truenus."—*Marco Polo's Travels*. Yn hanes Sindh\*, dywedir wrthym i'r gosp hon gael ei rhoddi gan bennaeth Bagdad ar un o'i benciwdodau, yr hwn a gyhuddasid gan rai tywysogesau ag oeddynt yn gaethion iddo, o drosedd erchyll. Cynddeiriogodd y penadur hwnw yn fawr wrtho o herwydd y sarhad hwn o ba un y tybid fod y penciwdod yn euog, ac efe a anfonodd orchymyn at y penciwdod ag oedd yn nesaf iddo mewn awdurdod, i wntio y cyfryw benciwdod mewn croen newydd gael ei gymmeryd oddiam anifail, a'i anfon fel hyny ato ef. Er yn gwybod ei fod yn ddiueug, efe a oddefodd i gosp annghyfiawn a chreulon ei benadur gael ei rhoddi arno ei hun, ac a fu farw ar y trydydd dydd.

Dywed *Morier* yn hanes ei daith drwy Persia,—“Yr oedd tri dyn wedi cael eu condemnio i ddyoddef marwolaeth gan y tywysog am ladrad: torwyd pen un, chwythwyd yr ail i fynu, a thorwyd y trydydd drwyddo, a chrogwyd y ddwy ran o'i gorph un wrth bob un o'r ddau borth y cyrchid mwyaf drwyddynt i'r ddinas, fel rhybudd i ladron ereill. Dangoswyd y drych truenus hwn dros dri diwrnod. Mae hyn mewn rhyw radd yn egluro hen arferiad, a goffeir yn achos Saul, 1 Sam. 31. 10, corph yr hwn a sicrhwyd wrth fur Beth-San gan y Philistiaid. Mae gair am y gosp-edigaeth hon, yr hwn a arwydda tori y corph yn ddau, ar ei hyd, â ohleddyf, gan ddechreu rhwng y cluniau, a therfynu yn ochr y pen.”

## PENNOD XX.

### CREFYDD.

GEN. 4. 4. *Ac o'u brasder hwynt.* Dywed Josephus mai llacth a rhai cyntafanedig y praidd oedd yr aberth hwn. Gair Hebreig

\* *Sindh*.—Talaeth eang yn Hindwstan. Yn Gorphenhaf, Awst. a Meei, yr amser ag y syrth gwlaw mewn rhanau ereill o India, ond nad oes dim yma, ond gerllaw y mor, mae y gwynt o herwydd hyn yn afiach iawn. Mae ganddynt ffordd i gael awyr i'w tai, drwy agoriadau yn eu penau, fel simnoiau bychain. Nid oes ond ychydig o leodd yn fwy afiach i Ewropeiaid.

yn cael ei wneuthur i fynu o'r un llythyrenau, ond rhoddi atynt fogailliaid gwahanol, a arwydda llaeth; ac mae Grotius, a rhai gwŷr dysgedig ereill, wedi barnu fod llaeth yn rhan o'r offrwm. Arferai yr Aiphtiaid aberthu llaeth i'w duwiau.

Ymddengys fod cyfiwyno offrymau i'r duwdod, i osod allan ddiolchgarwch am fuddion a dderbyniwyd, i geisio ei ffaf, neu i ochelyd ei lidiawgrwydd, yn beth arferol nid yn unig yn mysg pob hen genedl, ond yn ein dyddiau ni yn mysg llawer o genhedloedd yr hen fyd a'r byd newydd, er yn gwahaniaethu mewn graddau o wareidd-dra. Fel hyn, pobl anwaraidd America "a gyfiwynant i'w duwiau, fel rhoddion ac offrymau, ŷd eu meuaidd, a'r anifeiliaid a ddaliant wrth hela. Hwyl a daflant fyglys, a llyisiau ereill a ddefnyddiant o eisiau myglys, i'r tân, mewn anrhydedd i'r haul. Hwyl hefyd a daflant offrymau cyffelyb i llynoedd ac afonydd, mewn trefn i anrhydeddu yr ysbrydion a gyflewyd arnynt. Mae pobl ynysocdd Caribs, yn Ngogledd America, yn gosod rhoddion ac offrymau ar allorau yn ymyl eu tai i'r Ysbryd Mawr. Dywedir am yr *Iroquois*, pobl a aneddant ran o Ogledd America, eu bod yn gosod ar nenau eu tai amryw- iol o bethau, megys llestri China, gwddf-gadwynau, tywysenau ŷd wedi eu plethu, ac anifeiliaid weithiau, y rhai a gysegrant i'r haul."

Gen. 28. 22. *A'r gareg yma, yr hon a roddais yn golofn, a fydd yn dŷ Dduw.* Ymddengys yn beth dycyithr i ni fod colofn gareg yn cael ei galw yn *dŷ Dduw*, o herwydd mai i adeilad a fu yn gymmwys i gynnal yr addolwyr yr arferwn ni roddi enw fel hwn. Ond nid fel hyn y gwneir yn mhob rhan o'r byd, fel y dysgwyr oddiwrth yr hanes a rydd Mr. *Symes* am ei genhadaeth i deyrnas Ava. Mae temlau y bobl hyny, er cymmaint yw eu maintioli, yn cael eu hadeiladu heb ddim ceudod ynddynt; ac nid yw yn son ond am ychydig o hen rai ag oeddynt wedi cael eu hadeiladu yn wahanol. Yr hanesyn canlynol a rydd oleuni digonol ar y matter hwn:—

"X gwrthdych sydd yn tynu mwyaf o sylw yn *Pegu*\*, a'r peth sydd yn haeddu mwyaf o sylw, yw yr adeilad ardderchog hwnw, y *Deml Auraid*. Adeilad bonbraff blaenfain yw hwn, wedi ei wneuthur i fynu o briddfeini a chymrwd, heb ddim ceudod na

\* *Pegu*.—Gwlad helaeth a firwythlon yn Asia, ag a fu yn hir yn deyrnas unibynol; ond yn y flwyddyn 1752, y Burmaniaid a'i gwnaethant yn dalaeth o'r ymerodraeth honno.

ffordd mewn iddo o un math; yn wyth-ochrog yn y gwaelod, ac fel wedi ei nydd-droi yn y pen. Mae pob ochr yn y gwaelod yn gant a thriugain a dwy o droedfeddi o fesur; ac mae yr adeilad o'r gwaelod i'r pen, yn dri chant a thriugain o droedfeddi. Mae rhodfeydd wedi eu gwneuthur ar hyd ei ochrau, uwchben yr uchaf o ba rai, ar y tu gogleddol, y mae coed wedi eu gosod i wneuthur cysgod i'r addolwyr, y rhai a ddeuant o ranau pell o'r wlad. Mae amrywiol o feinciau gerllaw gwaelod yr adeilad, ar y rhai y mae y dyn a ddelo i weddio yn rhoddi ei offrwm, yr hwn, yn gyffredin, a wnaethpwyd i fynu o *rice* wedi eu berwi, dysglaid o fwydydd melusion, cnau cocoa wedi eu trin mewn olew. Ar ol rhoddi yr offrwm, nid yw yr addolwr yn gofalu pa beth a ddaw o hono; mae y brain a'r cwn gwylltion yn fynych yn ei ddifa yn ngwydd y rhoddwr, yr hwn nid yw un amser yn cynyg gyrru y creaduriaid hyny ymaith. Mi a welais lawer o ddysgleidiau o fwyd yn cael eu difa yn y modd hwn, a deallwn mai fel hyn y gwnelid â'r cwbl a ddygid yma.

"Mae teml *Shoedagan*, ynghylch dwy filltir a hanner i'r gogledd o Rangoon\*, yn adeilad ardderchog iawn, er nad ydyw mor uchel, o bump neu ddeg ar hugain o droedfeddi, a theml *Shoemadoo*, yn Pegu. Mae y gwaelod ar yr hwn y saif wedi ei godi ar graig lled uchel, yr hon sydd gryn lawer yn uwch na'r wlad o amgylch. Mae enw y deml hon, yr hwn a arwydda Dagon aur, yn naturiol yn dwyn i gof yr ymadrodd yn yr ysgrhythyr yn yr hwn y sonir am dŷ Dagon, a'i ddelw yn plygu i'r arch santaidd.

Mae llawer o'r hen demlau yn Pagahm † â gwagder yn y gwaelod; mae mwd (*arch*) gadarn yn cynnal yr adeilad pwysig i fynu; ac oddi-fewn mae delw Gandona wedi ei gosod mewn blwch.

Sonia haneswyr hefyd am demlau ag ydynt wedi eu codi ar ddull tyrau bonbraff blaenfain, ac wedi eu haddurno yn odidog, mewn lleoedd ereill.

Exod. 13. 16. *A byld hyny yn arwydd ar dy law, ac yn rhag-talau rhwng dy lygaid.* Mae yr arferiad o wisgo addurniadau rhwng y llygaid ac ar y talcenau i'w gweled yn mysg llawer o genhedloedd Indiaidd. Yn Ngogledd America, peth cyffredin yw

\* *Rangoon*.—Porthladd yn ymerodraeth Burmah, yn Asia.

† *Pagahm*.—Dinas ddadfeiliedig yn Asia, berthynol i lywodraeth Burmah. Bu yn anneddu yma res faith o frenhinædd; a dywed haneswyr iddi gael ei gadael gan y trigolion yn y trydydd canrif ar ddeg, wrth arch ea dawian. Oddiwirth weddillion temlau a welir yma, gellir cael iddi fod unwaith yn ddinas ardderchog iawn.

tori y cnawd mewn rhyw ddull neillduol rhwng y llygaid. Yn Neheudir America, yr oedd taleithion aur yn cael eu gwisgo fel arwyddion o wychder, ac weithiau i'r dyben o frawychu eu gelynion, drwy wneuthur eu golwg yn fwy dychrynlyd. "Yr oedd penau offeiriaid Mexico, yr amser yr aberthent, yn cael eu rhwymo â chareiau o ledr, a'u penau wedi eu harfogi â tharianau bychain o bapur, o amrywiol liwiau."—*Cullen's Mexico*. Dywedir hefyd fod y gwragedd mewn amrywiol o ynysoedd yn gwneuthur amrywiol o doriadau ar eu talcenau. Un o brif addurniadau yr Indiaid gerllaw angorfa St. Augustine yn Ngogledd America, oedd llafn mawr, megys darn o asgwrn, neu ifori, yn wŷn hollol, ar eu talcenau. Dywed *Kaempher* fod yr eilun yn y deml odidocaf a welodd efe yn Japan, yn ngogledd Asia, wedi ei haddurno âg aur drosti, oddieithr darn lled helaeth ar y talcen.

Dywed *Wittman* fod y Tyrciaid yn dwyn o amgylch gyda hwynt, yn y gwerysll ac yn y maes, yn gystal ag yn mhob sefyllfa arall, ryw ysgrifau swynol, y rhai ydynt adnodau o'r Koran yn fwyaf cyffredin, i'r rhai y priodolant rinweddau anarferol, gan eu hystyried yn ddiffyniad rhag pob perygl y gallont fyned iddo.

I amddiffyn eu hunain rhag gweithrediadau duwiau israddol, y rhai a osodir allan fel ysbrydion drwg, a gallu y rhai nid ydyw yn anorchfygadwy, mae pobl Ceylon yn gwisgo ysgrifau swynol o amrywiol o fathau; a defnyddiant laweroedd o gyfarreddion i'w cadw rhag effeithiau dewiniaeth, yr hwn y tybiant ei fod yn ymosod arnynt o bob tu.

Mae pobl Scandinavia,\* yn wastadol yn priodoli rhyw rinwedd dirgelaidd i lythyrenau yr hen Gothiaid a'r Daniaid. Dywedir fod Odin, eu dyfeisiwr, yn gwybod y ffordd drwydynt hwy i godi y meirw. Yr oedd ganddynt lythyrenau i enill buddugoliaeth, i gadw rhag gwenwyn, i gynnorthwyo gwragedd mewn gwewyr, i iachau clefydau corphorol, i yru meddyliau drwg o'r fynwes, i symud ymaith brudd-der, ac i dyneru llym-dostedd gwraig draws.

Exod. 25. 10. *A gwnant arch*. Cyfarfyddir â phethau wedi eu gwneuthur mewn efelychiad o'r arwyddlun hwn a wnaed wrth orchymyn Dwyfol, yn mysg amrywiol o genhedloedd Paganauidd, yn yr amserau gynt ac yn y rhai diweddar. Dywed *Tacitus* wrthym, fod trigolion gogledd yr Almaen, a'r hen Saxoniaid, yn gyffredinol yn addoli Herthum, hyny yw, y ddaear fel mam,

\* *Scandinavia*.—Enw a roddid gynt i Sweden, Denmark, a Norway, a'r ynysoedd sydd yn y Baltia.

ae y credent ei bod yn ymyraeth âg achosion dynion, ac yn ymweled â chenhedloedd; bod cludai (*vehicle*) wedi ei chysegru iddi, mewn llwyn santaidd, mewn ynays. Yr oedd y cludai hono wedi ei chuddio â gwisg, a'r offeiriad, a hwy yn unig, a odedfid i gyffwrdd â hi, y rhai a ganfyddent pan byddai y dduwies yn myned i'r lle dirgel hwn, a chyda pharch mawr hwy a ganlyntent ei chludai, yr hon a lusgid gan wartheg. Pan byddai y dduwies ar ei thaith, cedwid dyddiau llawen yn mhob lle y plygai hi i ymweled âg ef. Nid aent i un rhyfel, nid ymyrent âg arfau, hwy a glöent eu harfau. Ni byddai yn y dyddiau hyny ond heddwch a llonyddwch; ni byddai blas ar ddim arall hyd nes yr arweiniai 'yr un offeiriad y dduwies, wedi iddi gael ei digoni â chyfeillach marwolion, i'w theml."

Yr oedd y Mexicanaid yn arddangos eu duw penaf ar lun dyn yn eistedd ar orsedd, yn cael ei gynal gan belen o liw glas goleu, yr hon a alwent hwy yn nefoedd. Yr oedd pedwar pawl yn dyfod allan o ddwy ochr y belen, ar benau y rhai yr oedd penau seirph wedi eu cerfio; yr oedd y cwbl yn gwneuthur elor, yr hon a ddygai yr offeiriad ar eu hyagwyddau bryd bynag y dangosid y ddelw yn gyhoeddus.

Yn hanes mordaith *Cook* o gylch y byd, dywedir fod gan drigolion Huahine, un o'r ynysydd a ganfuwyd yn ddiweddar yn Môr y Dehau, fath o gist, caudad yr hon oedd wedi ei wario arni yn ofalus, a'r hon oedd wedi cael ei thoi yn hardd iawn â dail. Yr oedd wedi ei gosod ar ddau bawl, yn sefyll ar fydau (*arches*) o goed, wedi eu cerfio yn hardd iawn. Ymddengys fod y ddau bawl wedi eu gosod i'w symud hi o le i le, yn y dull y sýmudir elud-gadair (*sedan-chair*): yr oedd twll yn un pen iddi. Ar un tro pan welodd Mr. *Banks* y gist hon, yr oedd y twll hwn wedi cael ei gau â darn o liain, wrth yr hyn y barnai efe fod rhywbeth ynddi ar yr amser hwnw. Ar dro arall gwelwyd hi â'r twll yn agored, ac wrth edrych i mewn, canfu ei bod yn wag. Mae y gist hon yn ei hymddangosiad yn debyg iawn i'r hyn yr ymddengys fod arch yr Arglwydd yn mysg yr Iuddewon; a'r hyn sydd eto yn fwy hynod yw, eu bod yn ei galw wrth yr enw *Ewharre no Eatu*, neu dŷ Dduw. Ond er y gallai y bachgen pan ofynwyd iddo ddywedyd ei henw, ni allai ddywedyd ei harwyddocad na'i dyben.

Pan byddo brenin Travancore, yn neheudir Hindwstan, yn myned allan i edrych cyflwr ei amddiffynfeydd, mae wyth Brahmin yn

dwyn gydag ef babell betryal yn crogi ar bawl; y mae wedi ei chuddio â lliain melyn, canys y mae *melyn* mewn cymmaint o fri yn mysg yr Indiaid ag oedd *coch* gynt yn mysg yr Aiphtiaid.

Lef. 16. 22. *A'r buoch a ddog eu holl anwiredd hwynt arno, i dir neillduaeth: am hyny hebrynged efe'r buoch i'r anjalwoch.* Mae hen ddefod yn mysg yr Indiaid, yn yr hon y dygid ceffyl ac yr aberthid ef, mewn modd cyffelyb i'r hyn a orchymynid gan gyfraith Moses. Mae y ceffyl a aberthir felly, yn cael ei ystyried yn lle yr aberthwr, mae yn dwyn ei bechodau ef gydag ef i'r anialwch, lle y mae yn cael ei droi i redeg yn benrhydd, (ac, oddiwrth yr anghraifft hon ymddengys nad, oeddynt yn wastadol yn arfer y gyllell aberthu), ac mae yn dyfod yn aberth iawnol am y pechodau hyny. Dywed Mr. *Halhed*, wrth son am ddeddfau yr Hindwaid, fod y seremoni hon yn dwyn i gof am y *buoch diangol* yn mysg yr Israeliaid; ac, yn wir, nid hyn yw yr unig debygolrwydd rhwng y gyfundraeth Hindwaidd a'r un Foesenaidd yn nghylch duwinyddiaeth. Gellir chwanegu yma hanes arall cyffelyb, mewn rhyw ystyr, o eiddo Mr. Bruce:— “Cawsom allan fod cweryl wedi cymmeryd lle rhwng y gwarchodlu a phobl y dref, ac iddynt fod yn ymladd dros rai dyddiau, a bod y rhan fwyaf o'r angenrheidiau rhyfel ag oedd yn y dref, wedi eu treulio wrth hyny; ond bu i hen bobl y ddwy blaid gytuno, na fuasai i neb gael eu beio ar y naill du na'r llall, ond fod i'r holl fai gael ei roddi ar *gamel*. Cafodd *camel*, gan hyny, ei ddal, a'i ddwyn *i'r tu allan i'r dref*, ac yno, wedi i amrywiol o'r ddwy blaid gyfarfod, hwy a roddasant yr holl fai ar y *camel* am y cwbl ag oedd y naill blaid a'r llall wedi ei wneuthur. Dywedasant fod y camel wedi lladd dynion; ei fod wedi bygwth gosod y dref ar dân; ei fod wedi bygwth llosgi tŷ y llywodraethwr, a'r castell hefyd; ei fod ef wedi melldithio ymerawdwr Twrci a phenâeth Mecca, penaduriaid y ddwy blaid; o bod y creadur diniwed wedi bygwth dystrywio y gwenith ag oedd yn cael ei ddwyn i Mecca. Wedi iddynt dreulio rhan fawr o'r prydawn i feio y camel, pan dybiwyd fod mesur ei anwiredd yn llawn, daeth pob un o honynt ac a'i trywanodd ef â'i waywffon, gan ei ddiolfrydi drwy fath o weddi, a rhoddi mil o felldithion ar ei ben, wedi hyny dychwelodd pawb wedi cael eu boddioni am yr holl gamweddau a dderbyniasent oddiwrth y *camel!*

Num. 31. 23. *Glân fydd; efe a lanheir.* Yn yr hanes canlynol cawn grybwylliad cyffrous iawn am y dull o aberthu a



arferir yn mysq yr Hindwaid. Mae y bobl yn ymgynnull o amgylch careg fawr ynghylch pedair troedfedd o uchder, ac mewn trwch ynghylch praffder dyn lled fawr am ei ganol. Galwent hon y gareg santaid, ac ar y tu ol iddi, i'r gogledd, yr oedd mur. Mae y gareg hon yn arddangos Imra, yr unig Dduw. I'r dehau i'r gareg y mae tân yn llosgi, yr hwn a wneir o binwydd, y rhai a deflir arno yn tr, i'r dyben o wneuthur llawer o fwg. Safai offeiriad o flaen y tân, ac o'i du ol yntau safai yr addolwyr yn rhes. Dygir dwfr iddo, â'r hwn y golcha efe ei ddwyllaw, a chan gymmeryd peth o hono i fynu yn ei ddwyllaw, efe a'i teifi dair gwaith drwy y mwg ar y gareg, gan ddywedyd bob tro, Bydd lân; yna efe a deifi lonaid ei law o ddwfr ar yr aberth, sef gafr, neu fuwch fynychaf, ac a ddywed, Bydd lân. Yna, gan gymmeryd peth dwfr, ac adrodd rhyw eiriau yn arwyddo, Derbyn yr aberth, efe a'i tywallt ef i glust ddehau yr aberth. Os bydd i'r anifail yn awr droi ei ben i fynu tua'r nefeodd, mae hyn yn arwydd o gymmeradwyaeth. Ar ol rhai seremonïau ereill, yr offeiriad a ladd yr aberth, a chan dderbyn y gwaed yn ei ddwyllaw, efe a oddef i ychydig o hono ddyferu i'r tân, ac a deifi y gweddill ar y gareg.

1 Sam. 5. 4. *A phen Dagon a dwy gledr ei ddwyllaw oedd wedi tori ar y trothwy.* Yr oedd y dinystr a ddygwyddodd i Dagon yma gerbron arch yr Arglwydd yn dangos yn amlwg oferedd eilunod, a nerth anorchfygol Duw. Mae amgylchiadau y dinystriad hwn yn nodedig; a dichon y gellir gweled ynddynt gydffurfiad â'r dull yn yr hwn yr arferai gwahanol genhedloedd drih duwiau eu gilydd. Cafodd Dagon nid yn unig ei dafu i lawr, ond hefyd ei ddryllio, a chafwyd rhai o'r darnau ar y trothwy. Mae amgylchiad yn cael ei goffau gan *Maurice* yn ei hanes am Hindwstan, yr hwn a ymddengys, mewn rhai pethau, yn debyg i'r hyn a goffeir am Dagon. Wrth lesaru am ddinystr yr eilun mewn teml yn y wlad hono, efe a ddywed, i ddarnau o'r eilun drylliedig gael eu gwasgaru i'r ymrywiol demlau Mohammedanaidd yn Mecca, yn Medina, a Gazna, i gael eu taffu wrth *drothwy* eu pyrth, ac i gael eu sathru gan Fohammedanaid crefyddol a selog. Yn y naill anghraifft a'r llall ymddengys fod sefyllfa y darnau wrth y *trothwy* yn arwyddo buddugoliaeth gyflawn y rhai a orchfygasant yr eilunod; a dichon yr arferent fel hyn osod allan ddiystyrwch a bychandra.

“Mae y brenin yn myned yn rheolaidd i'r deml, pan y mae

ei ddiffyngor yn cymmyrd meddiant o bob agoriad, a drws drwy y rhai y mae efe i fyned. Ni oddefir i neb fyned i mewn gydag ef, oblegid y mae efe y pryd hwnw ar ei draed, oddieithr dau o swyddogion ystafell ei wely, y rhai a'i cynnaliant ef. Mae efe yn cusanu trothwy ac ystlysbost drws y deml, y grisiau o flaen yr allor, ac yna yn dychwelyd." *Bruce's Travels.*

2 Sam. 6. 15. *A Dafydd a holl dŷ Israel a ddygasant arch yr Arglwydd, drwy floddest.* Ymddengys fod y Groegiaid yn arfer bloddestau o flaen eu duwiau. Y gair a arferai y Groegiaid am y bloddestau hyn, a arwyddai bloeddio gan lawenydd. Mae y fath lawenydd a hwn yn cael ei arfer gan yr Abyssiniaid, ar hwyr y dydd yr adgyfododd ein Harglwydd, pan y mae gwŷr a gwragedd yn bloeddio, yn curo eu dwylaw, ac yn dawnsio wrth swm amrywiol o offer peroriaeth hyd nes y gwawrio y dydd, a hyn oll yn eu temlau.

"Ar ein taith y dydd diweddf cawsom gyfleusdra i ymddyddan âg un o froderion y wlad hon, yr hwn a oddiweddassom ar y ffordd. Mi a ddysgnais oddiwrtho ef fod y floedd uchel, yr hon oedd ryw-beth yn debyg i'r mynychiad cyflym o'r gair, *el*, neu *lel, lel, lel, lel*, â'r hon y bu i'r gwragedd, y rhai oeddynt yn benaf o'r llwythau Arabaidd, ein croesawi ni, fel yn gosod allan eu llawenydd, yr un â'r hon a arferent yn ystod seremoni alarus ang-ladd." *Sir W. Ouseley's Travels in the East.*

Mae gwragedd Ethiopiaidd, i ddangos eu llawenydd, yn croesawi pob gwestwr drwy floeddio allan yn nghyd amrywiol o weithiau, *loo, loo, loo*. Yn eu hangladdau hefyd, ac ar achlysuron pruddaidd ereill, hwy a wnant yr un swm, ond yn unig yn fwy trwm a chau, a rhwng eu bloddestau rhoddant ocheneidiau dwysion."—*Shaw's Travels.* Mae gwragedd Abyssinia yn arfer croesawi dy-cithriaid drwy lefain allan, *heli, li, li, li, li*; a gwragedd yn yr Aipt 'a lefant allan, *luy, luy, luy*.

Os bu i Dafydd wrth ddawnsio ar yr achlysur hwn ddefnyddio rhyw gân santaidd, neu Salm, megys, er angrafft, Salm 68, cawn eglurhad o'r ymddygiad oddiwrth yr hanes canlynol am amgylchiad a ddygwyddodd i Cadben Wilson yn un o ynysoedd Pelew, yn y Môr Tawelog, pan oedd y broderion yn cadw dydd gwyl, wedi cymmyrd bád rhyfel. "Hwy a addurnasant eu hunain â dail, wedi eu tori yn gareuon, cyffelyb i'n hysnodenau ni, y rhai gan eu bod o liw melyn, a ymddangosent yn hardd iawn ar eu crwya duon hwynt; yna wedi iddynt ffurfio eu hunain yn gylch-

oedd, un o fewn y llall, dyn mewn oed a ddechreuodd gân, ac ar ei waith yn ei therfynu, yr holl ddawns-wyr a unasant, ac a ddawnsiasant oll ar unwaith; yna canwyd cân arall, a dawnsiwyd ar ei diwedd; ac fel hyn aethant rhagddynt nes iddynt bob un ganu ei gân, ar ddiwedd pa un y dawnsiwyd. Nid oeddynt yn neidio llawer wrth ddawnsio, ond yn unig troi eu hunain ychydig o'r naill du i'r llall."

1 Bren. 8. 44. *Os gweddia dy bobl tua ffordd y ddinas a dde-wisaist ti, a'r tŷ yr hwn a adeiledaist i'th enw di.* "Wrth ddeddf a wnawd yn y 18fed flwyddyn i'r ymerawdwr Adrian, cafodd yr Iuddewon eu gwahardd nid yn unig i fyned i mewn i ddinas Jerusalem (yr hon bryd hyny a elwid *Elia*), ond hyd yn nod i droi eu golwg ati; yr hyn, tebygol, a gyfeiriai at yr arferiad o droi eu wynebau tua'r ddinas santaidd pan yn gweddio.

"Mi a sylwais fod Mecca, gwlad eu prophwyd, ac o'r hon, yn ol eu drychfeddwl hwy, y gwasgerid iachawdwriaeth iddynt, yn gorwedd tua'r deheu, ac o herwydd hyny hwy a weddient gan droi eu wynebau tua'r parth hwnw." *Marii's Travels.*

Dywed *Cullen* fod y Mexicanaid yn gyffredin yn gweddio ar eu penliniau, a'u wynebau tua'r dwyrain, ac am hyny, adeiladent eu haddoldai â'u drysau tua'r gorllewin.

"Yn yr hanes a gawn am bobl bryniau Ganow, yn *Asia*, cawn grybwylliad fod arferiad gyffelyb yn ffynu. "Mae eu dull o dyngu yn ddirifol iawn; cymmerir y llw ar gareg, yr hon a anerechant yn gyntaf, yna, â'u dwylaw wedi eu huno a'u dyrchafu, a'u llygaid yn cael eu gosod yn sefydlog tua'r bryniau, hwy a alwant ar *Mahadeva* yn y modd mwyaf dirifol, gan ddywedyd am iddo fod yn dyst ar yr hyn a lefarant, ac y gwyr efe pa un a ydynt yn ŵywedyd y gwir ai peidio. Yna hwy a gyffyrddant â'r gareg drachefn, gydag ymddangosiad o'r ofn mwyaf, a phlygant eu penau iddo, gan alw drachefn ar *Mahadeva*. Hwy hefyd, wrth adrodd eu llw, a edrychant yn ddiysgog tua'r bryniau, ac a gadwant eu llaw ddeheu ar y gareg. Y dyn cyntaf a gymmerodd ei lw o'm blaen i, ei ddull a'm tarawodd â myndod; effeithiodd dirifoldeb y dyn gymmaint ar fy ysgrifenydd, fel yr oedd bron yn methu ysgrifenu. Yr wyf yn deall mai eu cred yn gyffredin yw, fod eu duw yn trigo yn y bryniau; ac er yr ymddengys y grediniaeth hon a'r braw mawr hwn o'edd ynddynt rhagddo yn amghyson â'u gilydd, mae y bobl hyn yn ofni

eu duw yn fawr ; ofnant iddo eu cospi am eu camymddygiad pan gyrchont i'r bryniau.

Teithiwr, wrth roddi hanes ei daith i Gaercystenyn, a ddywed, "Yn nghylch awr cyn codiad haul, y person ag oedd yn trin ein bwyd, a barotôdd ein coffee, ac yna a neillduodd i gongl o'r ystafell; ac yna, yn y modd mwyaf tawel, wedi iddo gyflawni y golchiadau angenrheidiol, efe a ledodd ei wisg ar y llawr, ac a ddechreuodd ar ei weddïau. Efe a drôdd tua'r dwyrain, ac er i amrywiol o bersonau ddyfod i mewn i'r ystafell, a'myned allan o honi, yn ystod yr amser y bu efe gyda'i grefyddolderau, ymddangosai fod ei feddwl yn gyflawn ar ei waith; ac efe a gyfododd, ac a benliniodd, ac a fwrïodd ei hun i lawr gyda chymmaint o ymddangosiad o sobrwydd a phe buasai yn gweddio yn y deml saptaid ei hun yn Mecca.

Salm 84. 3. *Aderyn y tŷ hefyd a gafodd dŷ, a'r wrenol nyth iddi lle y gesyd ei chywion, sef dy allorau di, O Arghwydd y lluoedd.* Yr oedd yr Ibis, yr hwn sydd yn fath o giconia, ag sydd yn difa seirph, yn cael ei fawrhau gymmaint yn yr Aipht, fel y goddefid iddo aros mewn adeiladau cysegredig. Gellir gweled rhywbeth cyffelyb hefyd yn Persia. O fewn ŷun o'u temïau y mae mab brenin wedi cael ei gladdu, yr hwn a alwent hwy yn sant; o flaen y deml y mae cyntedd, a choed wedi eu planu ynddo, ar y rhai y mae amrywiol o giconiaid i'w gweled, y rhai a lechant o amgylch yno drwy yr holl flwyddyn.

Wrth allorau Jehofah yr ydym i ddeall y deml. Cyfeiria y geiriau, mae yn debygol, at arferiad ag oedd yn mysg llawer o hen gefthedloedd, nad oedd adar a adeiladent eu nythau ar y temlau, neu o fewn eu terfynau, i gael eu gyru ymaith, llawer llai i gael eu lladd, ond i gael anneddu yn dawel a diofn yno. Mae traddodiad gan Herodotus, pan fu i un Aristodikus aflonyddu nythau adar teml Kumæ, a chymmeryd y thai ieuainc o honynt, i lais o ganol y deml lefaru y geiriau hyn,—“Y dyhiraf o ddynion, pa fodd y beiddiaist wneuthur y fath beth? gyru ymaith y rhai a geisient noddfa yn fy nheml i?” Yr Atheniaid a gyn-ddeiriogasant gymmaint wrth un Atarbes, yr hwn a laddasai aderyn y tŷ yr hwn a adeiladasai ei nyth ar deml Æsculapius, fel y lladdasant ef. Yn mysg yr Arabiaid, y rhai a berthynant yn nes i'r Iuddewon, mae adar ag ydynt yn adeiladu eu nythau ar y deml yn Mecca, yn cael eu hystyried yn haeddu diogelwch er yr oesau cyntaf. Bardd Arabaidd a dwng “i'r cysegr sydd yn rhoddi cys-

god i'r adar a'i ceisiant yno." Dywed *Niebuhr* fod y colommenod yn cael lloches ar demlau y Mohammedaniaid, ac ar fedd-adeiladau eu prophwydi, yn eu hamrywiol ddinasoedd.

Salm 137. 6. *Glyned fy nhafod wrth dafnod fy ngenau oni chofiaf di; oni chofiaf di Jerusalem goruwch fy llawenydd penaf.* Wrth fyned i fynu i'r synagog, synais wrth weled ymddangosiad gwael y tai ar ddau du yr heolydd, yn gystal ag wrth weled tlodi y trigolion. Mae'r olwg ar Iuddew tlawd yn Jerusalem a rhywbeth ynddi sydd yn gyffrous iawn. Mae calon y bobl hyn, yn mha wlad bynag y byddont yn orwydro, o hyd yn troi ati fel dinas eu gorphwysdra addawedig. Hwyl a hoffant ei dadfeiliau, ac a gusanant y llwch er ei mwyn. Jerusalem yw y canolbwynt o amgylch yr hwn y mae meibion deoledig Judah yn adeiladu, mewn dychymyg, drigfanau eu mawredd mewn oesoedd dyfodol. Yn mha wlad bynag y byddont, dymuniad calon Iuddewon yw cael eu claddu yn Jerusalem. Yno y dychwelant o'r Ispañ a Portugal, o'r Aipht a Barbary, a gwledydd ereill i'r rhai y gwasgarwyd hwynt; a phan, ar ol eu holl hiraeth, a'u holl ymdrech i fyned drwy anhawsderau bywyd, y gwelwn hwynt yn dlawd, yn ddall, a noeth, yn heolydd dinas yr hon a fu unwaith eu dinas happus hwy, sef Sion, rhaid fod gan y dyn hwnw galon oer yr hwn ni theimla o herwydd eu dyoddefiadau, yr hwn nid enfyn weddi at Dduw am iddo drugarhau wrth dywyllwch Judah, ac i Seren ddydd Bethlehem godi yn eu calonau.

Ezec: 9. 4. *Nôd i'r y talcenau.* Mr. *Maurice*, wrth lefaru am seremonïau crefyddol yr Hindwaid, a ddywed, "cyn y gallont fyned i mewn i'r deml fawr, fod defod anhebgorol angenrheidiol yn cael ei chyflawni, yr hyn a ellir wneuthur yn unig â llaw Brahmin, sef gosod nôd ar eu talcenau, o wahanol liwiau, yn ol fel y byddont yn perthyn i Veeshnu, neu Seeva. Os teml berthynol i Veeshnu fydd hi, mae y talcenau yn cael eu nodi â llinell mewn un ffordd, a'r lliw a arferir yw fermilion. Os teml i Seeva fydd hi, gwneir llinell mewn ffordd arall, a'r lliw a arferir yw saffron. Ond gan fod y ddwy blaid neu sect hyn yn cael eu rhanu eto i lawer o blëidiau bychain, mae maintioli a dull y llinell yn gwahaniaethu yn ol eu graddau. Gyda golwg ar y nôd, rhaid i mi sylwi ei fod yn cael ei arfer yn gynar iawn yn Asia, ar dalcenau gweision. Cyfeirir ato yn y geiriau hyn o eiddo Ezeziel, lle y mae yr Hollalluog yn gorchymyn i'w angylion *fyned drwy ganol y*

*ddinas, a nodi nôd ar dalcenau y dynion sydd yn ocheneidio am y ffeidd-dra a wneir yn ei chanol hi. Cyfeirir at yr un peth yn Dat. 7. 3."*

Rhydd Mr. *Forbes* hefyd hanes cyffelyb am y seremoni hon. "Wedi iddynt fyned drwy eu golchiadau crefyddol, mae yr Hindwaid yn derbyn ar eu talcenau nôd, naill ai eiddo Veeshnu neu ciddo Seeva. Mae y nôd, yr hwn a roddir gan Frahmin, yn gwahaniaethu mewn dull a lliw, yn ol y blaidd neu y sêct a ddewisant; mae un yn cael ei roddi ar hyd y talcen, a'r llall yn groes iddo. Yn mysg yr amrywiol bethau ag sydd yn y lliwiau, y mae tom gwartheg yn cael ei roddi; ac mae y tom hwn yn cael ei ystyried yn gysegredig neillduol."

Dywed Mr. *Ward* hefyd "fod gan y gwahanol bleidiau yn mysg yr Hindwaid nôd i'w gwahaniaethu, wrth yr hwn yr adwaenir hwy. Mae y lliw yn cael ei wneuthur o wahanol ddefnyddiau, a'r nôd yn cael ei roddi ar y talcen. Nôd rhai llwythau o Hindwaid yw dwy linell gam i waered dros y trwyn, yn rhedeg oddiwrth ddwy linell union ar y talcen. Mae rhai ereill o honynt yn gwneuthur eu nôd ryw beth yn wahanol yn ei ddull. Gwnant y nôd hwn â llŷs (*slime*) y Ganges, lludw tom gwartheg, &c.

Hab. 2. 20. *Ond yr Arglwydd sydd yn ei deml santiaidd; y ddaciar oll, gostegu di ger ei fron ef.* Mae dystawrwydd yn arwydd o barch ac ymostyngiad. Mewn llysoedd dwyreiniol mae y dystawrwydd mwyaf yn flynu yn mysg y gwylwyr, y swyddwyr, a'r gwŷr mawrion a weinyddant i'w tywysogion; maent yn sefyll mewn agwedd wyl, lonydd, a diysgog, yr hyn a rydd i ni ryw ddrychfeddwl am y dystawrwydd y llefara Habacuc am dano. Mae arglwydd *Baltimore*, yn hanes ei daith i'r Dwyrain, yn coffau amgylchiad a rydd eglurhad ar y geiriau hyn. Efe a hysbysa i ni, fod yr ymerawdwr ar ryw wyl nodedig yn Nghaercystenyn, yn myned i deml Sultan Ahmed. Mae yr orymdaith sydd yn myned allan o'r palas ar yr achlysur hwn, yn un o'r rhai harddaf a welir yn Ewrop. Mae yn cynnwys holl bendifigion, a blaenoriaid y bobl, a'r swyddogion milwraidd a fyddo yn y ddinas, y rhai a ânt i dalu eu parch i'r ymerawdwr. Hwyl a ddechreuant ddyfod allan am bedwar o'r gloch yn y bore, ac a barhant i wneuthur felly hyd yn nghylch naw. Pan ymddangoso yr ymerawdwr, y mae dystawrwydd sobr yn mysg pawb. Mae milwyr yn gwisgo yr heolydd o'r palas i'r deml. Y maent heb un arf o un math; hwy a safant â'u dwylaw y naill yn groes.

i'r llall, ac ymgyrmanant i'r ymerawdwr a'r rhaglafiaid yn unig, y rhai a ddychwelant y moes.

Zech. 14. 16. *A bydd i bob un a adawer o'r holl genhedloedd a ddaethant yn erbyn Jerusalem, fyned i fynu o flwyddyn i flwyddyn, i addoli y Brenin, ac i gadw gwyl y pebyll.* Yr oedd yr Iuddewon yn ymweled yn flynyddol â'r deml. Ffynai yr un ddefod yn mysg cenhedloedd ereill. Mae sect grefyddol yn Japan, a elwir *Sintoists* yn myned ar bererindod i Isje unwaith yn y flwyddyn, neu o leiaf unwaith yn eu bywyd. Gelwir y pererindod hwn *sanga*, sef, myned neu esgyn i fynu i'r deml, ac mae y gair hwn i'w ddeall yn unig am fyned i fynu i deml ardderchog Tensio Dai Sin, sef, duw mawr ymerodrol y cenhedlaethau nefol. Tensio Dai Sin yw y mwyaf o holl dduwiau y Japaniaid\*, a'r gwrthddrych blaenaf ac uchaf a addola y Sintoist. *Kaempher's Japan.*

Yn ynys Titicaca, ar y llyn o'r enw hwn yn Mexico, safai unwaith un o'r temlau ardderchocaf yn yr holl ymerodraeth. Heblaw y llafnau o aur ac arian â'r rhai yr oedd ei muriau wedi cael eu haddurno, yr oedd ynddi lawer iawn o olud; yr oedd holl drigolion y taleithiau a ddibynent ar yx ymerodraeth dan rwympau i ymweled â hi unwaith yn y flwyddyn, ac offrymu rhyw rodd; gan hyny hwy yn wastadol a ddygent mewn cyfartalwch i'w brwdfrydedd a'u sefyllfa, aur, arian, neu berlau. *Uloa's Voyage.*

Mat. 6. 5. *Gweddio yn nghonglau yr heolydd.* Tebygol fod yr arferiad a nodir yma gan ein Iachawdwr, yn gyffredin ar yr amser hwnw yn mysg y rhai a hoffent rwysg yn eu crefyddolderau, a'r rhai a ewyllysient dynu sylw rhai ereill. Amlwg yw nad oedd yr arferiad yn cael ei chyfyngu i un lle, o herwydd ceir hanes am dani yn mysg gwahanol genhedloedd. Coffâ *Aaron Hill* ei bod yn mysg y Tyrciaid.—“Y cyfryw o'r Tyrciaid ag a fyddont ar y ffordd fawr, neu gyda rhyw orchwyl fel nad allant fyned i'r deml Fohammedanaidd, ar yr oriau pennodedig at weddio, ydynt er hyny yn rhwym i gyflawni y ddyledswydd hono: ac ni chafwyd eu bod un amser yn esgeuluso hyny, pa waith bynag fyddo ganddynt mewn llaw ar y pryd, ond hwy, yn ddioced

\* *Japaniaid.*—Pobl ymerodraeth helaeth yn y rhan ddwyreiniol o Asia. Mae y bobl hyn yn baganiaid, ond nid oes ganddynt ddelwau yn eu temlau; ac maent yn ofalus rhag i longau dysithr ddwyn delwau i'r wlad. Os, wrth chwilio longau, y ceir delwau, neu lyfrau, hoesgir hwynt yn ddioced.

pan glywont y rhybudd yn cael ei roddi, a weddiant yn y fan lle y byddont; os bydd milwr yn tywys rhyw wr dyleithr drwy y ddinas, ac iddo glywed y rhybudd yn cael ei roddi o'r clych-dai, efe a dry o amgyleh, ac a saif yn llonydd, ac a rydd arwydd â'i law i'r teithiwr y rhaid iddo fod yn amyneddgar dros ychydig; yna efe a dŷn ei law-liain allan, a'i lleda ar y llawr, a eistedd arno â'i goesau yn groes i'w gilydd, ac a ddywed ei weddïau, pe byddai yn y *farchnadfa*. Wedi iddo orphen, efe a gyfyd yn fywiog i fynu, a anercha y person y cymmerasai arno ei dywys, ac a â yn mlaen ar ei daith, gan ddywedyd mewn modd mwyn-aidd, Tyred, fy anwylyd, canlyn fi." Dichon mai priodol yw chwaneu, fod y fath arferiad a hon yn gyffredin drwy y Dwyrain. "Mae yr Hindwaid a'r Mohammedaniaid yn cyflawni eu crefyddolderau yn y lleoedd mwyaf cyhoeddus; megys wrth y manau lle y mae pobl yn dyfod i fynu oddiar afonydd, yn yr heolydd cyhoedd, ac ar fyrddau badau, heb un ymgais at ddirgelu eu hunain." *Ward's View of the Hindoos*.

Dywed *Richardson* fod "hen Dyrciad yn falch neillduol ar farf wên hir, grudd a phen wedi eu heillio yn daclus. Peth cyffredin yw fod y cyfryw bersonau i'w gweled, pan wedi myned yn lled hen, yn codi eu hunain i fynu i eisteddleoedd cerig, a chanddynt ddernyn o garped Persia danynt, yn nghongl un o'r heolydd, neu o flaen eu marchnadleoedd, yn cribo eu barfau, yn mygu eu pibellau, neu yn yfed coffee, a chanddynt biser a dwfr-ynddo yn eu hymyl, neu yn dywedyd eu gweddïau, neu yn darllen y *Coran*."

Mat. 6. 7. *Pan weddioch, na fyddwch siaradus, fel y cenhedl-oedd; canys y maent hwy yn tybied y cânt eu gurandaw am eu haml-eiriau*. Mae yr hanes canlynol yn ein cynnysgaeddu âg eglurhad ar yr ymddygiad ag y mae ein Harglwydd mor briodol ac mewn modd mor gryf yn gondemnio yn fawr. "Bore drannoeth, y 27ain, ni a gychwynasom drachefn, mor fuan ag yr aeth ein harweinyddion drwy eu gweddïau. Gydag un o honynt yr oedd hwn yn orchwyl hir a phwysig iawn; efe yn gyffredin a dreuliai awr yn yr ymarferiad hwn bob bore, a chymmaint a hyny yn yr hwyr, heblaw bod yn fanwl iawn yn y cyflawniad o'r ddyledswydd hon ar oriau gosodedig at weddio yn ystod y dydd. Nid oedd yn sicr yn gweddio yn ddirgel, gan ymddyddan â'i galon, ond gwaeddai yn uchel â'i holl nerth, a llefarai y geiriau mor fuan ag y gallai ei dafod eu rhoddi allan. Yr oedd



ffurf a geiriau ei weddi yr un ag eiddo y lleill, ond yr oedd y gwr da hwn wedi gwneuthur adduned yr adroddai ryw eiriau neillduol yn y weddi ryw rifedi pennodol o weithiau, bob hwyr a bore. Er anghraifft, efe a ymrwymai i adrodd y gair Rabboni, gair ag a etyb i'r gair Arglwydd gyda ni, gant neu ddau cant o weithiau, ddwywaith yn y dydd; ac yn ganlynol, efe a gyflawnai y gorchwyl hwnw yn nghlyw yr holl gyfeillion; ac ar ei liniau, weithiau a'i wyneb yn ddiysgog tua'r nesoedd, ac ar brydiau ereill plygai tua'r llawr, ac a lefai allan Rabboni, Rabboni. Rabboni, Rabboni, &c., mor fuan ag y gallai swnio y geiriau y naill ar ol y llall, fel plentyn yn yr ysgol yn myned dros ei wers, nid fel dyn yr hwn, gan weddio â'r galon, ac â'r deall hefyd, a erys yn hwy ar ei liniau pan yn ngwres crefyddolder, enaid yr hwn sydd wedi enyn fel fflam gan ei Greawdwr, ac yn cyfeillachu â'i Dduw fel Jacob, ni wna ei ollwng hyd nes y gwnelo ei fendithia. Wedi iddo fyned dros ei gyfrif gyda'r gair Rabboni, efe a aeth rhagddo at y cyflawniad o'i addunedau ereill mewn modd cyffelyb. Allah houakbar, y Duw mwyaf, efallai, a ddeuai yn nesaf; ac efe a elai yn mlaen gyda hwn fel o'r blaen, Allah houakbar, Allah houakbar, Allah houakbar, &c., gan adrodd y geiriau mor fuan ag y gallai. Wedi gorphen gyda'r rhai hyn, cymmerai rai ereill, geiriau yn arwyddo, Trwy gynnorthwy Duw, Gogoniant i Dduw, neu eiriau cyffelyb, ac efe a'u hadroddai gynnifer o weithiau ag yr addunedasai wneuthur. Y rhifedi cyffredin o weithiau i adrodd rhyw eiriau neillduol yw tair ar ddeg ar hugain; ac y mae rhif-restr (*bead-roll*) Mohammedaniaid wedi cael ei threfnu i uteb hyny. Yr oedd clywed y dyn hwn yn dywedyd ei weddiau, yr amrywiaeth mawr o leisiau a arferai, ei waith yn rhedeg dros ei eiriau mor gyflym, yn cael effaith ddyeithr ar feddwl y rhai a'i clywent; gallasai dyeithraid feddwl ei fod yn gwneuthur gwawd o grefyddoler; ond efe a edrychai yn sobr a difrifol iawn, ac ymddangosai â'i holl feddwl ar y cyflawniad o'i ddyledswydd. Ei holl gydwladwyr a farnent yn dda am ei grefyddolderau, ac ni ddangosent un tuedd i wenu o herwydd ei ddull dyeithr; yn y gwrthwyneb, hwy a ddywedent ei fod yn ddyn cyfoethog iawn, ac y byddai yn dywysog mawr. Mae eu parch hwy gymmaint i weddi, fel na chaffai ceeraeth yn ei chylch ddim ei oddef yn mysg y Mohammedaniaid; ac wrth anerch yr Hollalluog, ni oddefir iddynt arfer unrhyw eiriau yn gosod allan un rhan o'r corph dynol, nac un gwrth.

ddrych gweledig; gan ystyried fod hyn yn ffaidd gan Dduw, ac yn fath o eilunaddoliaeth. Mae ganddynt bump amser gosodedig at weddio, toriad y wawr, pan ddywedant ddwy weddi, canol dydd, pan y dywedant bedair gweddi; yn nghylch tri o'r gloch, pan y dywedant hefyd bedair gweddi; yn yr hwyr pan yn dechreu tywyllu, pan y dywedant dair gweddi; hanner awr wedi wyth o'r gloch, pan y dywedant bedair gweddi. Wrth gyflawni eu golch-iadau cyn eu gweddiau, hwy a ddechreuant gyda'r dwylaw, y rhai a olchant dair gwaith; yna y genau dair gwaith, ac a dafiant allan y dwfr; wedi iddynt chwythu a glanhau y trwyn, hwy a'i golchant dair gwaith; yr wyneb a'r llygaid dair gwaith; yna hwy a dynant linell oddiwrth yr aelïau at y clustiau, y rhai y gofalañt eu glanhau a'u golchi; yna rhoddant eu dwylaw gwlybion ar eu gyddfau y tu ol; yna hwy a olchant eu breichiau dair gwaith; yn olaf oll, golchant eu traed, a holl fudreddi y corph. Yna maent wedi eu puro, yn ol fel y mae eu crefydd yn gofyn anerch eu Gwneuthurwr. *Richardson's Travels along the Mediterranean.*

Mat. 21. 13. *Ysgrifenydd, Tŷ gweddi y gelwir fy nhŷ i; eithr chwi a'i gwnaethoch yn ogof lladron.* "Yr oedd y mosque, neu y deml Fohammedanaidd, ar yr amser yr aethom ni drwy y lle yn llawn o bobl, er nad oedd y rhai hyn yn addolwyr, ac nad un o orïau cyffredin gweddïau cyhoeddus ydoedd. Yr oedd rhai o'r bobl wedi ymgasglu i fygau eu pibellau, ereill at chwareuyddiaeth, ac ereill at fasnachu, ond sicr yw na ddaethai neb o honynt yn nghyd i weddio. Yr oedd y deml hon, yn wir, yn gyflêlyb i'r hyn y gallwn gredu fod y deml yn Jerusalem, pan y cafodd y rhai a werthent ychain, a defaid, a cholommenod, a'r newidwyr arian, y rhai a eisteddent yno, eu gyru allan gan Grist, ũ sflangell o sŵn-reffynau, ac y dymchwelwyd eu byrddau. Yn fyr, yr oedd yn lle o ymgyrchiad cyffredin, yn dŷ marsiandiaeth, fel yr oedd teml yr Iuddewon wedi dyfod yn amser y Messiah." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes.*

Act. 3. 1. *Yr awr weddi.* Yr oedd gan yr Iuddewon orïau gosodedig at weddi yn gyhoedd ac yn ddairgel. Arferai Daniel weddio dair gwaith yn y dydd, Dan. 6. 10; ac arferai Dafydd hefyd wneuthur fel hyn, Salm 55. 17; oddiwrth ba leoedd gallwn ddyagu nid yn unig pa mor fynych, ond ar ba orïau o'r dydd y cyflawnid y ddyledswydd hono yn gyffredin. Tybid yn gyffredin fod y weddi foreol a'r un hwyrol ar amser offrymiad

yr aberth boreol a hwyr, hyny yw, a'r drydedd a'r nawfed awr; ac yr oedd y weddi ganol dydd ar y chwechfed awr, neu ddeuddeg o'r gloch. Ni chawn un pennodiad yn yr yagrythyr am oriau gosodedig at weddi. Dywed yr Iuddewon iddynt eu derbyn oddiwrth y patrieirch:—yr awr gyntaf oddiwrth Abraham, yr ail oddiwrth Isaac, a'r drydedd oddiwrth Jacob.

• Oddiwrth yr Iuddewon y Mohammedaniaid a fenthyciasant eu horiau gweddi, gan amlhau eu rhifedi o dair i bump, y rhai y mae yr holl Fohammedaniaid yn rhwym i'w cadw. Mae y gyntaf yn y bore cyn codiad haul; yr ail ar ol i ganol dydd *fyned* heibio, ac i'r haul ddechreu disgyn oddiar ei bwynt uchaf yn y ffurfafen; y drydedd yn y prydnhawn, cyn machludiad haul; y bedwaredd yn yr hwyr wedi machludiad haul, a chyrf i'r dydd ddarfod; y bummed wedi i'r dydd ddarfod, a chyn y wyliaid-wriaeth gyntaf o'r nos. At y rhai hyn y mae rhai o'u rhai mwyaf selog yn chwaneu dwy arall, y gyntaf awr a hanner wedi i'r dydd ddarfod, a'r llall ar ganol nos; ond edrychir ar y rhai hyn i'w cadw neu beidio yn ol eu hewyllys; cadwai Mohammed hwynt, ond ni orchymynir hwynt gan ei gyfraith. *Salé's Koran.*

Cyhoeddir yr awr weddi oddiar nen rhyw dŷ cyhoedd. *Sir R. K. Porter's Travels in Persia.*

Oddiar barch i'r deml, dywedai trigolion Jerusalem, *myned* i *fynu i'r deml*; yn yr un modd ag y dywedai yr holl Israeliadaid oddiar barch i wlad Canaan, *myned i fynu i Jerusalem*. Ar un amser pan yr oedd Syria yn ddarostyngedig i benaethiaid a drigent yn yr Aipht, y rhai a elent o Syria i'r Aipht, a ddywedent eu bod yn myned i fynu i'r Aipht. Yr apostolion, pa fodd bynag, nid aethant i mewn i'r deml ei hun, ond i'r cyntedd nesaf allan, yr hwn a elwid cyntedd y gwragedd, oblegid ni oddefid iddynt fyned yn mhellach. Yn y cyntedd hwn yr ymgasglai y bobl i weddio, y gwrrywaid i waered, a'r benywod i fynu mewn lloflydd.

Act. 19. 24. *Temlau arian i Ddiana.* Cyfrifid teml Diana yn Ephesus yn un o saith rhyfeddod y byd. Y temlau hyn oeddynt arddangosiadau bychain o'r deml, a'r dduwies o'i mewn.

Dywed *Clarke* "fod *ispa* y Groegiaid, yn gystal a phebyll y cenedloedd dwyreiniol, weithiau, nid yn unig yn symudadwy, ond hefyd mor fychain, fel nad oedd y cistiau yn y rhai yr arferent eu rhoddi pan ar deithiau, ond prin yn fwy na blwch trewlwch. Mae temlau symudadwy yn gyffredin iawn yn *Rwssia*, ac

yn yr holl wledydd a broffesant grefydd Eglwys Groeg; maent yn cael eu gwneuthur naill ai o goed neu o fettel, a dau ddrws bychan i'w plygu arnynt, y rhai a agorir pan fyddo yr eilun i gael ei addoli. Mae yr arferiad o'u defnyddio wedi ei chadw ynmysg y Pabyddion."

Galat. 3. 1. *Fwy a'ch llygad-dynodd, neu a'ch rheibiodd?* Ni ddylid dychymygu fod yr apostol, drwy yr arferiad o'r ymadrodd hwn, yn rhoddi un cefnogaeth i'r cyfeiliornad cyffredin a ffynai, nid yn unig ynmysg y paganiaid, ond ynmysg rhai o'r Cristionogion mwyaf anwybodus ac ofergoelus, sef rheibio â'r llygad. Nid yw iaith yr apostol ond geiriau cryfion i ddangos ei syndod o herwydd ymadawiad y Galatiaid oddiwrth burdeb yr esengyl. Y mae y geiriau, pa fodd hynag, yn dwyn ar gof i ni yr arferiadau hyny o eiddo y paganiaid, y rhai y llefarir am danynt gan amrywiol o ysgrifenwyr. Credant y gall niwed mawr gael ei wneyd â llygad drwg, neu â golwg cenfigenllyd a maleisus. Mae *Pliny* yn coffau hanes allan o waith *Isigonus*, "fod rhyw swynwyr ynmysg y Triballiaid a'r Illyriaid, y rhai a allent â'u golwg reibio a lladd y rhai yr edrychent arnynt dros gryn amser, yn enwedig os gwneleant felly â llygad digllon."

*Tystia Shaw* "nad oes nn genedl ar y ddaear mor ofergoelus a'r Arabiaid, a bod y Mohammedaniaid felly yn gyffredinol. Crogant o amgylch gyddfau eu plant lun llaw agored, y llaw ddehau yn gyffredin, yr hwn y mae y Tyrciaid a'r Ethiopiaid yn baentio ar eu llongau a'u tai, fel moddion i gadw rhag swyn llygad drwg; oblegid y mae pump gyda hwy yn rhifedi anffodus, a "phump yn eich llygaid," yw eu diareb hwynt am felldithio a herio. Mae rhai wedi tyfu i fynu ychydig, yn dwyn gyda hwynt ryw ymadrodd o'r Coran, yr hwn a osodant ar eu dwyfron, neu a wniant dan eu penwisg, i attal rheibiaeth, ac i ddiogelu eu hunain rhag afiechyd ac anffodion. Hwyl a dybiant fod rhinweddau yr ysgrifau swynol hyn mor gyffredinol, fel y crogant hwynt hyd yn nod am yddfau eu hanifeiliaid, megis eu ceffylau, ac anifeiliaid ereill at ddwyn beichiau.

Heb. 1. 14. *Onid ysbrydion gwasanaethgar ydynt hwy oll, wedi eu danfon i wasanaethu er mwyn y rhai a gânt etifeddu iachawd-wriaeth?* Ynmysg y llwythau Indiaidd yn Ngogledd America, gelwir ysbrydion da wrth enwau a arwyddant gwylwyr dynion, a thybir fod gan bob dyn ei dduw ymgeleddol ei hun. Bernir, pa fodd

bynag, nad yw y duwiau ymgeleddol hyn yn cymmeryd dynion das eu nawdd hyd nes y gwnelir rhyw beth i haeddu y ffafr. Rhiant, a fyddo yn ewyllysio cael duw noddol i'w blentyn, yn gyntaf a ddau ei wnech, ac a wna iddo ymprydio dros amrywiol o ddyddiau. Yn ystod yr amser hwn dysgwylir i'r ysbryd ddatguddio ei hun iddo mewn breuddwyd; ac ar y cyfrif hwn holir y plentyn yn ofalus bob bore ynghylch gweledigaethau y nos flaenorol. Pa beth bynag y dygwyddo i'r plentyn freuddwydio am dano fynychaf, hyd yn nod pe dygwyddai ei fod yn ben aderyn, troed anifail, neu unrhyw beth o'r fath fwyaf distadl, daw yn arwydd drwy yr hwn y mae y duw noddol yn datguddio ei hun. Mae y llun hwn yn cael ei gymmeryd gan y dyn, yn lle y duw; oedwir y ddelw hon gyda'r gofal mwyaf; ceidw hi yn barhaus gydag ef fel ei gydymaith, ar bob amgylchiad pwysig yn enwedig; ac efe a ymgynghora â hi yn feunyddiol ac â'i haddola.

Mae un Mr. *Heckewelder* yn dywedyd fod yr un ddefod yn mysg yr Indiaid, a'i bod, yn wir, yn gyffredinol yn mysg yr Indiaid y buasai efe yn gydnabyddus â hwynt, wrth egwyddori plant. Trwy ryw foddion rhoddant feddwl y plentyn mewn cyflwr o aflonyddwch, hyd nes peri breuddwydion a gweledigaethau yn y nos, drwy y rhai yr haerant fod y bachgen yn derbyn rhyw addysgiadau oddiwrth ryw ysbrydion neu fodau anadnabyddus gyda golwg ar ei ymddygiad mewn amser i ddyfod; yr hysbysir iddo ei dynged, yn nghyda'r rhyfeddodau y mae i'w cyflawni yn ei daith drwy y byd. Pan byddo bachgen yn cael ei egwyddori fel hyn, mae yn cael ei osod i gymmeryd meddyginiaeth dros beth amser, ac yna i ymprydio dros ychydig o amser, ac naill ai yn cael ei gadw heb gymmeryd dim ymborth o un math, neu rhaid iddo lyncu y meddyginiaethau cryfaf a ffeiddiaf, ac weithiau gwneir iddo yfed rhyw wlybyroedd meddwawl, hyd nes y caffo ei feddwl ei ddyrsu gymmaint, fel y gwelo, neu y dychymygo ei fod yn gweled, gwledigaethau, a'i fod yn cael breuddwydion anngyffredin, at ba rai y mae ei feddwl yn cael ei barotoi yn mlaen llaw. Efe a ddychymyga ei hun yn ehedeg drwy yr awyr, neu yn rhodio dan y ddaear, yn neidio o un bryn i'r llall yn groes i'r dyffryn oddidano, yn ymladd ac yn gorchfygu cawri ac anghenfilod, ac yn dymchwelyd lluoedd cyfain â'i fraich ei hun. Yna y mae yn cael cyfeillach â'r ysbrydion noddawl, y rhai a hysbysant iddo beth oedd efe cyn iddo gael ei eni; a pha beth a fydd wedi iddo farw.

Rhoddir ei dynged yn y bywyd hwn yn gyflawn o'i flaen; yr ysbryd a ddywed wrtho beth yw ei waith i fod ar ol hyn, pa un a fydd efe yn rhyfelwr glew, yn heliwr grymus, yn feddyg, yn ddewin, neu yn brophwyd. Mae rhai ag ydynt yn hōni eu bod yn dysgu yn y ffordd hon, amser a dull eu marwolaeth. Ar ol i fachgen gael ei egwyddori fel hyn, mae enw yn cael ei roddi iddo yn gyfatebol i'r gweledigaethau a welodd, ac i'r dynged a dybir fod o'i flaen. Y bachgen, yn tybied fod yr hyn a ddygwyddodd iddo pan yn y terfysg meddwl hwn, yn wirionedd, a â allan i'r byd â chanddo ryw feddyliau uchel am dano ei hun, wedi cael ei lenwi â gwroldeb at y gorchwylion mwyaf peryglus."

Hysbysa *Jarvis* i ni, "fod plentyn, mor fuan ag yr hysbysir iddo beth yw natur a dull ei dduw noddol, yn cael ei addysgu yn ofalus ynghylch y rhwymedigaethau y mae danynt i wneuthur gwarogaeth iddo; i ddylyn ei gyngor, yr hwn a roddwyd iddo mewn breuddwydion; i deilyngu ei ffafrau; i hyderu yn gadarn yn ei ofal; ac i arswydo rhag canlyniadau ei anfoddlonrwydd. O herwydd hyn, pan fyddo un o'r *Iroquois* yn myned allan i ryfel, neu i hela, efe a ddwg ddelw *okki*, neu ei dduw noddol, gydag ef mor ofalus a'i arfau. Yn y nos y mae pob un yn gosod ei ddelw ymgeleddol ar y cae a fyddo yn cylchynu eu gwersyll, a'r wyneb wedi ei droi oddiwrth y parth i'r hwn y bwriada y rhyfelwyr neu yr helwyr fyned. Yna pob un a weddia ar ei ddelw dros awr, ac a wna felly hefyd yn y bore, cyn yr elo allan i'w ffordd. Wedi cyflawni y gwasanaeth hwn, efe a orwedd i lawr i orphwys, ac a gysga mewn tawelwch, gan gredu yn gadarn y bydd i'w ysbryd gymmeryd arno yr holl ddyledswydd o gadw gwyliadwriaeth, ac nad oes ganddo ef ddim i'w ofni."

2 Pedr 1. 19. *Megys goleuni yn llewyrchu mewn lle tywyll.* Mae y gyffelybiaeth a arferir yn y lle hwn wedi cael ei chymmeryd, fel y tybiai *Lackimacheri*, oddiwrth y rhan hōno o'r deml a elwid y cyssegr santaidd. Yn y lle hwn, i'r hwn ni oddefid goleuni y dydd i ddyfod, yr oedd tywyllwch trymaidd yn wastadol, nid oedd yno ond goleuni gwan lampau canwyllbren ag iddo saith cangen. Bob bore, cyn toriad y dydd, yr oedd offeiriad yn myned i ran uchel o'r deml, i sylwi ar doriad y wawr. Mor fuan ag y canfyddai efe hi, efe a lefai allan,—Mae hi yn dyddhau. Gyda hynny yr offeiriaid a fyddent i wasanaethu yn y cyssegr y dydd hwnw, a lanhaent y canwyllbren, ac a ddiffoddent bedair o'r lampau,

canyys yn ystod y dydd, nid oedd ond tair lamp i losgi, fel yr hysbysa Josephus i ni. Yn yr hwyr goleuid yr holl saith, a hwy a losgent drwy y nos hyd nes y gwawriai y bore.

Nid ydym i ryfeddu fod tu mewn y deml Iuddewig yn dywyll, canys yr oedd yn nhemlau yr holl genhedloedd ereill dywyllwch rhyfedd, yr hwn a darawai fraw ar bawb. Nid oedd i deml odidog Minerva yn Athen, y Parthenon, yr hon a dröodd y Mohammedaniaid yn deml iddynt hwy, ddim o oleuni y dydd yn cael ei dderbyn. Dywëd un hanesydd,—“Yn y flwyddyn 1675, pan aethym i mewn i'r deml Fohammedanaidd, ni ryfeddais, fel y gwnaeth ereill, o herwydd ei thywyllwch. Yr ychydig oleuni oedd ynddi, a ddeuai o'r cefn, lle yr oedd agoriad bychan a wnaethai y Cristionogion ar ryw achlysur. Yn oesoedd Paganiaeth, nid oedd i'r deml hon ddim goleuni ond yr hyn a ddeuai i mewn drwy y drws, a'r hwn ni lewyrchai oll yn y rhanau nesaf i mewn. Mi a synwn yn hytrach o herwydd fod ffenestri yma, gan mai anfynych iawn y gwelir hwynt yn yr hen demlau. Nid oes i deml Theseus hefyd yn Athen ddim goleuni ond yr hyn a geir drwy ddau neu dri agoriad, y rhai a wnaethai y Groegiaid, mewn modd anhrefnus, yn y nen, o herwydd yr ewyllsient ddefnyddio y deml hon fel addoldy, a hawdd yw gweled nad allai goleuni yn yr hen amserau ddyfod i mewn ond drwy y drws. Dychymygid, yn ddi-amau, fod tywyllwch mewn temlau yn taro y rhai a ddeuent i mewn iddynt â braw parchus. Dengys hyn hefyd y dyben o arferyd lampau mewn temlau.”

Dat. 9. 20. *Fel nad addolent gythreuliaid.* Mr. Ives, yn hanes ei daith drwy Persia, a rydd yr hanes rhyfedd canlynol am y gwaith o addoli cythreuliaid. “Y bobl hyn (y *Sanjackiaid*, cenedl yn preswyllo yn y wlad o amgylch Mossul, yr hen Ninefeh) a broffesasant Gristionogaeth unwaith, wedi hyny Mohammedaniaeth, ac yn olaf oll *ddiafliaeth*. Hwy a ddywedant ei fod yn wir fod gan y diafol yn bresennol gweryl â Duw, ond y daw yr amser pan, wedi i falchder ei galon gael ei ddarostwng, y plyga efe i'r Goruchaf, ac y bydd i'r diafol, gan nad yw y Duwdod yn anghymmodadwy, gael maddeuant llawn am ei holl gamweddau, ac y bydd iddo ef a'r rhai oll a dalasant sylw iddo yn ystod ei waradwydd, gael eu derbyn i mewn i'r trigfanau dedwydd. Dyma sail eu go-baith hwy; a hwy a dybiant fod y cynnyg hwn am y nefoedd yn un gwell na hyderu yn eu haeddiant eu hunain, neu haeddian:

blaenor unrhyw grefydd arall pa bynag. Hwy a edrychant ar berson y diafol fel yn gysegredig, a phan gadarnhaont unrhyw beth yn ddifrifol, hwy a wnant hyny yn ei enw ef. Hwy a gopent bob gair anmharchus am dano ef, â marwolaeth, oni bae fod y llywodraeth Dyrcaidd yn eu hattal. Pa bryd bynag y llefarant am dano, gwnant hyny gyda'r parch mwyaf; a hwy yn wastadol a osodant o flaen ei enw ef ryw deitl cyfartal i'r enw o uchder neu arglwydd." Y *Benjanaiid*, yn yr Iudia Ddwyreiniol, a lanwant eu temlau, neu eu *pagodas*, â'i ddelwau ef, wedi eu gwneuthur yn y modd mwyaf erchyll. Mae gan frenin Calicut, yn neillduol, deml wedi ei lleawi â'r darluniadau mwyaf dychrynlyd o'r diafol, yn yr hon nid oes goleuni ond y llewyrch gwan a rydd amrywiol o lampau. Yn nghanol y deml hon, yr hon sydd fath o ogof, y mae gorseddfaine o gopr, ar yr hon y mae diafol wedi ei ffurfio o'r un defnydd, yn eistedd, a choron, wedi ei gwneuthur yn amrywiol o resi, ar ei ben, a thri chorn mawr, a phedwar o rai ereill, yn dyfod allan o'i dalcen. Mae iddo enau helaeth yn agored, o ba un y daw pedwar dant fel dannedd baedd. Mae ar ei ên farf hir ac erchyll. Mae iddo drwyn cam, llygaid ceimion, wyneb yn ennyn mewn modd dychrynlyd, bysedd ceimion fel ewinedd adar ysglyfaethus, a phalfau iddo yn hytrach na thraed. Ei fronau a grogant ar ei fol, lle y mae ei ddwyllaw wedi eu gosod mewn agwedd esgeulus. O'i fol cyfyd pen arall, gwrthunach, os dichonadwy, na'r cyntaf, a dau gorn, a thafod anferthol o hyd yn crogi allan, ac o'i du ol y mae cynffon fel eiddo buwch. Ar ei dafod ac yn ei law y mae dau ddarlun, agos yn grynon, y rhai, medd yr Indiaid, ydynt eneidiau ag y mae efe yn barotoi i'w difa."

Addolwyr y diafol y rhai a goffawyd gan *Ives*, a gafwyd hefyd gan *Niebuhr* yn yr un wlad, mewn pentref rhwng Bagdad a Mosul, yn sefyll yn ymyl y Zab fawr (afon ag sydd yn ymarllwys i'r Tigris). Mae y pentref hwn, medd efe, yn cael ei breswyllo yn hollol gan bobl a elwir Isidaniaid, a Dauâsiniaid. Megys nad yw y Tyrciaid yn caniatâf rhyddid llawn i bobl i grefydda ond yn unig i'r rhai âg ydynt yn meddiannu llyfrau cysegredig, hyny yw, Mohammedaniaid, Cristionogion, ac Iuddewon, mae yr Isidaniaid yn gorfod cadw egwyddorion eu crefydd yn ddirgel iawn. Hwy gan hyny a alwant eu hunain yn Fohammedaniaid, Cristionogion, neu Iuddewon, yn ol y blaid y byddo yr hwn fyddo yn eu holi yn perthyn iddi. Mae rhai yn eu cyhuddo o addoli y



diafol dan yr enw Tschellebi, hyny yw, Arglwydd; dywed ereill y dangosant barch mawr i'r haul a'r tân, mai paganiaid heb eu trin ydynt, a bod defodau erchyll ganddynt. Sicrhâ rhai nad yw y Dauâsiniaid yn addoli y diafol; ond y gwasanaethant Dduw yn unig fel Creawdwr a Noddwr holl ddynolryw. Ni lefarant am Satan, ac ni fynant i'w enw gael ei goffau. Hwy a ddywedant ei fod yn beth yr un mor anmhriodol i ddyn gymmeryd rhan yn y cweryl rhwng Duw ac angel syrthiedig, ag a fyddai i ddyn gwledig waradwyddo a mellidithio gwas i un o'r swyddogion Tyrc-aid a fyddo wedi syrthio i warth. Nad yw Duw wedi gofyn ein cymmorth ni i gospi Satan am ei anufudd-dod, y dichon iddo ddygwydd ei dderbyn i'w ffafr drachefn, ac yna y byddai i ni gywilyddio ger bron brawdle Duw, pe byddai i ni, heb gael ein galw, ddirmygu un o'i angylion ef; gan hyny mai y peth goreu yw peidio blino ein hunain ynghylch y diafol; ond ymdrechu peidio tynu anfoddlonrwydd Duw arnom ein hunain. Pan elo yr Isidaniaid i Mosul, nid yw yr ynadon yn eu hafonyddu, hyd yn nod os byddant yn adnabyddus. Mae y bobl gyffredin, pa fodd bynag, yn cynnyg tynu arian oddiwrthynt. Pan gynnygiont werthu wyau neu ymenyn iddynt, hwy a ymdrechant gael y pethau i'w dwylaw, ac yna dadl-euant ynghylch y pris, neu o herwydd y peth hwn neu y peth arall, sarhant Satan â'u holl nerth; ar yr hyn y mae y Dauâsiniaid mor foneddigaidd fel y gadawant y cwbl ar ol, yn hytrach nag y gwrandawant ar y diafol yn cael ei anmharchu. Ond yn y gwledydd lle y maent hwy y bobl luosocaf, ni oddefir i neb regu, oddieithr ei fod yn dewis cael ei guro, neu, efallai, golli ei fywyd o herwydd hyny.

---

## PENNOD XXI.

### AMSER A THYMHORAU.

GEN. 15. 12. *Wela ddychryn, a thyoyllni mawr yn syrthio arno ef.* Y mae yn ddiarnheul gysylltiad naturiol rhwng tywyllach, a'r ofn yr hwn a weithia efe mor gyffredin yn nynolryw, yn enwedig yn y rhan anwybodus, a'r rhai a wareiddiwyd leiaf o honynt. Cynnorthwyir hyn yn fawr iawn gan ddiffyg gwybodaeth, ac ofergoelledd. Dywed *Irby* a *Mangles*, yn hanes eu taith drwy yr Aipht,—“Wedi i ni ymlochi a chin-

iawa ar fara a chaws, ni a aethom allan i ddychwelyd at y llong, a'n tywyswyr yn ein hannog i fod yn gyflym, rhag i'r nos ein dal. Dywedasant fod seirph ac ymlusgiaid gwenwynig ereill, yn dyfod i waered yn wastadol yn y nos i yfed dwfr, ac yr ofnent rhag i ni sathru arnynt. Dywedasant hefyd y buasai i ni gyfarfod âg yspeilwyr yn y nos. Mae y bobl hyn yn ofalus iawn rhag cael eu dal yn y tywyllwch. Yr wyf yn cofio pan oeddem yn Dendera, i'n gwasanaethwr, yr hwn oedd Arabiad, frysio ymaith a'n gadael ar ol, pan yn tybied y buasem yn hwyr cyn cyrhaedd ein båd. A pha bryd bynag yr elai ein goleuni allan mewn bedd-adail neu deml, yr Arabiaid yn wastadol a gurent eu dwylaw, ac a wnaent swm i gadw eu hysbrydoedd i fynu, hyd oni cheffid goleuni."

Exod. 10. 21. *Estyn dy law tua'r nefoedd, fel y byddo tywyllwch ar dir yr Aipht, tywyllwch a aller ei deimlo.* Yr hanesion canlynol a roddant eglurhad nodedig a chywir ar y plâ hwn o dywyllwch. Dywedir fod y tywyllwch yn gyfryw ag a ellid ei deimlo. Ni e'llir egluro hyn yn fwy amlwg na thrwy dybied fod yn cyd-fyned âg ef gawod fawr o lwch neu dywod mân, y rhai a dreiddient i bob man, a'r rhai y rhaid eu bod yn chwaneu at y blinder o dywyllwch hollol. Cofeir hefyd fod meibion Israel yn cael eu bendithio â goleuni yn eu trigfanau; a gellir egluro y rhan hon o'r wyrth ar y dyb o'u bod hwy yn trigo o hyd yn Ramases, yr hon a gawsai ei rhoddi iddynt ar eu sefydliad cyntaf yn yr Aipht, Gen. 47. 11. Canys gan fod Ramases gryn bellder oddiwrth Memphis, gallasai fod (megys y rhanau hyny o Persia ag nad effeithiodd y cwmwl arnynt wrth fyned heibio) tu hwnt i derfynau y tywyllwch a barasai Duw i ddyfod ar yr Aipht.

"Mawrth 15fed, 1775, am bedwar o'r gloch, yn Bussora, a'r haul bryd hyny yn tywynu yn ddysglaer, dechreuodd tywyllwch hollol mewn munudyn, pan yr ymaflodd braw arswydus yn mhob dyn yn y ddinas, a'r bobl yn rhedeg yn ol ac yn mlaen drwy yr heolydd, gan fyned ar draws eu gilydd yn y dychryn mwyaf, tra yr oedd y rhai oeddynt yn y tai yn rhedeg allan mewn syndod, mewn amheuaeth pa un ai diffyg ar yr haul ydoedd neu ddiwedd y byd. Yn fuan wedi hyn y cwmwl dŷ, yr hwn a barasai y tywyllwch, a nesaodd at y ddinas, yn cael ei ragflaenu gan swm mor uchel ag a glywais i erioed yn y dymmestl fwyaf. Canlynwyd hwn gan y fath gorwynt nerthol, yn gymmysgedig â

llwch, fel na allai un dyn yn yr heolydd sefyll ar ei draed; **happus** oedd y rhai a allent gael, neu a gawsent eisioes, le o ddiogelwch; tra yr oedd y rhai nad oeddynt mor ffodus yn gorfod bwrw eu hunain i lawr yn y fan y byddent, lle yr oeddynt mewn perygl o fygu, gan i'r gwynt barhau llawn ugain munud, a'r tywyllwch hollol hanner awr. Yr oedd y dymmestl mor gref, a'r tywod mor dreiddgar, fel y cafodd pob ystafell yn y weithfa Frutanaidd ei chuddio ganddynt, er i ni ofalu cau y drysau a'r ffenestri ar ymddangosiad cyntaf y tywyllwch, a chyneu canwyllau. Am hanner awr wedi pump, aeth y cwmwl heibio i'r ddinas, ac mewn munudyn tywynodd yr haul allan; nid oedd gwynt i'w glywed, ni syrthiai y llwch, ond yr oedd y cwbl yn dawel a hyfryd drachefn. Aeth pawb o honom ag oeddynt yn y weithfa allan i'r uchel-rodfa, a gwelsom fod y cwmwl wedi myned yn hollol dros yr afon, a'i fod y pryd hwnw yn Persia, lle yr ymddangosai ei fod yn gorchuddio llawn ddeg milltir ar hugain o led, ond pa gymmaint mewn hyd ni allem farnu. Elai rhag ei flaen mewn modd cyflym iawn, ac eto bu hanner awr yn myned dros y ddinas. Efe a ddaeth o'r gogledd-orllewin, ac a aeth yn union yn mlaen i'r dehau-ddwyrain. Swyddogion badau y teithwyr a ddaethant i'r lan mor fuan ag yr aeth y cwmwl dros eu llongau, ac a dystiasant fod y gwynt mor rymus, a'r llwch mor dreiddiol, fel nad allai un dyn sefyll ar fyrddau y llestri; ac wedi i'r dymmestl fyned drosodd, fod pob lle drwy y llongau wedi ei orchuddio â llwch. Ni welwyd y fath amgylchiad erioed o'r blaen yn nghof y dyn hynaf sydd yn awr yn byw yn Bussora." *Parson's Travels.*

"Yn y prydawn yr oedd y terfyngylch i'r dwyrain yn dew a niwliog, a'r Ethiopiaid, a ragddywedent fod gwynt tywodlyd i fod; yr hwn yn ganlynol a ddechreuodd y bore canlynol, ac a barhaodd, heb nemawr orphwysiad, dros ddau ddiwrnod. Nid oedd grym y gwynt ynddo ei hun yn fawr iawn; yr oedd yn gyfryw ag y buasai morwr yn alw yn wynt cymmedrol; ond yr oedd y cyflawnder o lwch a thywod a ddygid o'i flaen yn gyfryw ag a dywyllai yr holl ffurfafen. Efe a ysgubai o'r dwyrain i'r gorllewin, fel ffrwd dew barhaus, ac yr oedd yr awyr ar amserau mor dywyll ac mor llawn o dywod, fel mai anhawdd oedd canfod y pebyll cymmydogaethol. Megys y mae yr Ethiopiaid yn wastadol yn trin eu bwyd allan o'u tai, syrthiodd llawer o dywod yn mysg y bwydydd. Glynai llawer o'r tywod wrth y croen pan wedi ei ireiddio ychydig gan chwys, a ffurfient bylor gwallt rhad a chy-

ffredinol. Yr Ethiopiaid a droent liain o amgylch eu gwynebau i'w hattal i dynu y tywod i mewn; ac yn wastadol troant eu cefnau ar y gwynt pan edrychont i fynu, fel na syrthio y tywod i'w llygaid." *Parker's Travels*.

"Mae y gwynt, yr hwn sydd yn gyffredin yn gryf, yn dwyn gydag ef y llwch tég hwn yn fath gymmlau, fel y gwelais yr haul yn cael ei dywyllu ganddynt, dros gryn amser, fel nad allwn, dros rai munudau, wahaniaethu dyn oddiwrth geffyl, pan yn sefyll ar y tu arall i'r heol oddiwrthyf. Mae y llwch hwn yn cael ei ddwyn mor bell gyda'r gwynt oddiar y tir, fel y bûm, yn y pellder o ddwy filltir a hanner ar y môr, bron cael fy mygu ganddo. Y tro cyntaf y gwelais y cymmlau hyn, bernais eu bod yn rhagredewyr daeargryn." *Macgill's Travels in Turkey*.

Num. 11. 32. *Yna y cododd y bobl y dydd hwnw oll, a'r nos oll.* Yn ystod goleu dysglær y lleuad yn nechreu y nos yn Bombay, gellir darllen llyfr wedi ei argraphu â'r llythyrenau lleiaf heb un anhawsdra, os bydd yr awyr yn ddigymmlau.

Yn ynysoedd yr India Orllewinol, "mae y nosweithiau yn hyfryd iawn; mae rhyw ardderchogrwydd yn llewyrch y lleuad ag sydd yn anadnabyddus yn Ewrop. Gellir darllen y llythyrenau manaf wrth ei goleuni; ac yn ystod ei habsennoldeb, mae dysgleirdeb y llwybr llaethog yn rhoddi i'r teithiwr y goleuni angenrheidiol, yr hyn sydd fantais fawr, o herwydd fod y nos yno yn cau i mewn mor ddisymmwrth." *Mavor's History of America*.

1 Sam. 20. 24. *Pan ddaeth y dydd cyntaf o'r mis (neu y newydd-loer), y brenin a eisteddodd i fwyta, bwyd.* "Ni buasai un Persiad yn foddlon i ddechreu taith, nac unrhyw beth arall o bwys, hyd nes y buasid yn canfod y newydd-loer. Yn fore ar y pedwerydd ar bymtheg cyhoeddwyd mewn modd llawen fod hyn wedi cymmeryd lle. Cafodd y dydd, gan hyny, ei ystyried fel dydd gwyl bwysig, a'i dreulio gan y gwir gredinwyr mewn glythineb, llosgi myglis, a phob math o bleserau cnawdol. Yr oedd perthynasau, cyfeillion, a chydaddiaid, yn anfon anrhegion i'w gilydd, ac yn cael eu cynnyg gan wasanaethwyr i'w meistri gyda moesgarwch mawr; a dywedent, Bydded yr ŵyl hon yn llwyddiannus i chwi. Ar yr achlysuron hyn nid yw y rhoddion yn wastadol o werth mawr ynddynt eu hunain; ond firwythau, blodeuyn, neu damaid o flasus-fwyd, a wasanaetha yn arwydd o barch a oswyllys da." *Sir W. Ouseley's Travels*.

2 Bren. 9. 17. *A gwyliwr oedd yn sefyll ar y mur, yn Jexroel,*

ac a ganfu fintai Jehu pan oedd efe yn dyfod, ac a ddywedodd, Yr ydwyf fi yn gweled mintai. Yn yr hanes canlynol cawn grybwylliad am amgylchiadau cyffelyb iawn i'r rhai a goffeir yn y bennod hon am Jehu :—" Llawer o amgylchiadau perthynol i'n sefyllfa bresennol a wnant i ni feddwl am fod ar y môr mewn llong marsiandiwr heb ddiffyniad yn amser rhyfel, pan y mae pob llong a welir o bell yn cael ei chymmeryd fel gelyn, ac y mae pob llygad yn craffu arni. Yr oedd personau i edrych allan wedi eu gosod ar uchel-rodfeydd y tai, ac ar y carneddau o ddadfeiliau a godasid mewn amrywiol fanau yn y dref; ac anfonwyd cenhadau ganddynt amrywiol o weithiau i dŷ y llywodraethwr i hysbysu beth a welent. Daeth un dyn, er anghraifft, i ddywedyd fod tri dyn ar gefylau mewn golwg tua'r dehau, yn myned tua'r gorllewin. Daeth un arall yn fuan wedi hyny i ddywedyd eu bod yn gweled tri dyn ar draed yn y parth gorllewinol, yn ymddangos yn dyfod i'r ffordd hon. Yna daeth hysbysiad arall, yn crybwyll i ddau ddyn, dyeithriad, y rhai a aethent ar gefylau drwy Suwarrow heb aros, ynghylch awr cyn hyny, gael eu hattal gan yr yspeilwyr ag oeddynt yn y parth dwyreiniol, gan y rhai y dyogasid hwynt, a'u bod yn awr yn dychwelyd i'r dref ar eu traed; gwelwyd yr holl amgylchiadau hyn yn eglur oddiar uchel-rodfeydd tŷ y llywodraethwr, ac heb yspienddrych; yr oedd golwg y bobl hyn wedi dyfod, drwy arferiad, mor gryf a hyny. Cymmerodd y pethau hyn le ar dir gwastad, dair milldir o leiaf oddiwrth y fan lle y sylwid arnynt." *Buckingham's Travels among the Arab Tribes.*

Job 3. 5. *Dued y diwrnod* (neu, *tywyllhoch y diwrnod*) *a'i dychryno.* Arferid cyfrif diwrnodau o gystudd yn dduon; cyfrifir diwrnodau o lwyddiant yn wŷnion. "O'r diwedd, y cadben ffyddlon hwnw, yn ddechreu bod yn ofnus ynghylch ein diogelwch, a ymgynghorodd â dewin yn ein cylch. Yn ateb, cafodd nad oeddem ond yn cael ein cadw yn ol o herwydd afiechyd un o'r cymdeithion, ac y byddem yn fuan yma. Er cysur, cyflawnwyd rhagddywediadau y dewin. Ac megys yr oedd ein morwyr yn sicrhau i ni fod dydd ein dychweliad yn ddydd gwŷn iddynt hwy, buasai yn beth anniolchgar i beidio cyfaddef ei fod yn ddydd gwŷn i ninnau hefyd." *Waddington and Hanbury's Journal of a Visit to some parts of Ethiopia.*

Salm 72. 5. *Tra fyddo haul a lleuad y'th ofnant, yn oes oesoedd.* Un Davy, yn ei hanes am Ceylon, a rydd yr hanes canlynol :—" Ar yr amser goodedig at ddechreu y flwyddyn newydd, yr hwn,

yn mysg y Singalesiaid, sydd yn wastadol yn Ebrill, y brenin a eisteddodd ar ei orsedd mewn rhwysg, yn cael ei gylchynu gan ei benaethiaid, a chyhoeddwyd yr amgylchiad i'r bobl mewn modd priodol. Ar yr awr bennodedig at yr ail seremoni, benywod ieuaino perthynol i ryw deuluocedd neillduol, a chanddynt ganwyllau cŵyr goleuedig yn eu dwylaw, a dysgl arian yn cynnwys *rice* heb eu trin, a dwfr, a safent mewn ychydig o bellder oddi wrth y brenin; a phan drôdd efe ei wyneb tua'r deheu-ddwyrain, a chanddo fath o ddail dan ei draod, a math arall o ddail yn ei law, ac y rhoddodd ryw nôdd meddyginiaethol ar ei ben a'i gorph, hwy a leasant dair gwaith, "Bydded cynnydd oes i'n pennadur ni o bum mil o flynyddoedd! bydded cynnydd oes cyhyd ag y parhao yr haul a'r lleuad! bydded cynnydd oes cyhyd ag y parhao y nefoedd a'r ddaear! Cyflawnwyd y rhan hon o'r seremoni gan y penaethiaid a'r bobl fawrion hefyd mewn modd mor debyg i hyn ag oedd ddichonadwy."

Salm 104. 5. *Gwnai dywyllwch, a nos fydd.* "Yn ddiweddi wedi i ni lanio, ni a gyflogasom geffylau i fyned a ni i Fanskong, lle deg milltir a hanner yn mhellach, lle y daethom i westy mor brydferth, a lle yr oeddem wedi ein darostwng gymmaint gan gwsig, fel y gorphwysasom dros ychydig o oriau i ysgrifenu hanes ein taith, heb ganwyllau, am hanner awr wedi canol nos, wrth oleuni nad ellid ei alw yn oleuni y cyfnos (*twilight*); yr oedd yn hytrach yn ddysgleirdeb canol dydd, yn cael ei daro yn ol mor gryf gan y muriau a'r tai, fel yr oedd yn boenus i'n llygaid, ac ni a ddechreuasom yn fuan ganfod, yr hyn nid ystyriasom erioed o'r blaen, fod tywyllwch yn un o roddion haelionus Rhagluniaeth, gwerth yr hwn, fel y mae yn tueddu at orphwysdra, nid ydym yn deimlo hyd nes y peidio yn hollol a dychwelyd. Nid oedd oloriau ar y ffenestri, a da fuasai genym pe cawsem fod heb y dysgleirdeb parhaus a'n cylchynai! Pan gauasom ein llygaid, dychymygem eu bod yn agored o hyd. Nyni hyd yn nod a rwymasom ein llaw-lieiniau ar ein llygaid; ond rhyw weddill o ddysgleirdeb, fel goleuni cryf, a'n blinai ac a'n gorthrymai. Dyoddefasom fwy wedi hyny o herwydd yr anghyfleusdra hwn; ac er fod arferiad yn peri ein bod yn dyoddef llai o'i herwydd, yr oedd yn flinder ag yr achwynem oll o'i blegid, a gorfoleddem o herwydd tywyllni yr hydref fel cysur a bendith." *Clarke's Travels.*

Salm 110. 3. *O groth y'wawr (neu, y bore) y mae gwllith dy onedigaeth i ti. Mae y gwanwyn yn cael ei ddesgrifio mewn*

modd hyfryd iawn mewn llinellau, a roddwyd i ni gan *Chardis* allan o waith ysgrifenydd dwyreiniol:

Y gwanwyn a ddengys ei hun a *thulip* yn ei law, yr hwn yn ei ddull sydd debyg i phiol,  
 I roddi tywalltiad o ddyferynau ar fedd-adail y brenin sydd yn gorwedd yn y *Negf.*  
 Ar y dydd cyntaf o'r un flwyddyn, Ali, wedi cael ei osod ar orsedd y prophwyd, A wnaeth wyl y dydd cyntaf o'r flwyddyn yn un ogonoddas.

Nid un at yfed o honi yw y phiol yr hon y cyfeirir yma ati, ond llestr i roddi allan yr hyn a fyddo ynddo yn ddyferion; arferir y cyfryw lestri yn fynych yn y Dwyrain at daenellu y rhai yr ewylliasant eu hanrhydeddu â dwfr peraidd ei arogl. Yr oedd-ynt weithiau, medd *Niebuhr*, yn cael eu gwneuthur fel costrelau ag iddynt yddfau hirion.

Y gwlith a ymddengys yn ddyferion yn y bore, ac fel y delo y, dydd yn mlaen hwy a ddifianant. Cyfeiria yr Ysgrhythrau yn fynych at yr amgylchiad hwn, Exod. 16. 13; Hos. 6. 4. Dechreuant yn gyntaf ymddangos ar ddynesiad hin boeth. Nid rhyfedd, gan hyny, yw, fod ymddangosiad y dyferion hyfryd a bywhaol hyn o eiddo y bore, yn cael eu dwyn i mewn wrth ddesgrifio y gwanwyn.

Mae y cyfeiriad hefyd at ddull y Dwyrain o leihau dychryn claddfeydd y meirw, yn ddifyrus iawn i'r dychymmyg, ac yn brydfferthwch yn y desgrifiad hwn. Hwy a arferent wasgaru blodau a llysiau hyfryd, neu ddail coed, ar feddau eu cyfeillion; ond mwy na hany, dywed *Dr. Shaw* wrthym fod blodau yn fynych yn cael eu planu yn y tir a fyddai rhwng eu beddau, yr hwn ar amserau ereill a orchuddid â llechau. Rhydd rhai ysgrifenwyr ereill hanesion cyffelyb. Yn awr, yn y cyfryw amgylchiadau, rhaid fod yr un parch i'r meirw ag sydd yn arwain pobl y, gwledydd hyn i ymweled â'u beddau, ac i'w cuddio â blodau, yn eu cynhyrfu i ddyfrhau y llysiau hyny a blenir ar neu gerllaw y beddau hyn, ar amser sych, fel y blodeuont ac y rhoddont eu harogl. Gyda golwg ar y cyfryw drefnidiaeth, darlunir y gwanwyn yma fel yn cuddio bedd Ali â dyferion adfywiol o wllith, tywysog ag y rhydd Persiaid y parch mwyaf i'w goffadwriaeth.

Mae hyn, pa fodd bynag, i gael ei ystyried fel addurniad prydyddol, canys nid yw bedd Ali yn gorwedd yn agored i'r gwllith na'r gwllaw, ond y mae dan gysgod y deml odidocaf, yr hon y dywedir fod ei nen a'i dau dŵr, wedi eu cuddio â'r defnyddiau mwyaf gwerthfawr o unrhyw nen yn y byd; mae yno gopr

wedi ei wisgo âg aur, yr hwn a wna iddo ymddangos yn hynod o ardderchog, yn enwedig pan dywyno yr haul. *Niebuhr*.

Salm 121. 6. *Ni' th dery yr haul y dydd*. Dywed *Walpole* "fod *Sabnes*, a'r trefi a safant ar du dwyreiniol a gogledd-ddwyreiniol ynys Cyprus, yn ddarostyngedig i awyr mor beryglus, fel yn *Mehfin* a *Gorphenhaf*, y syrth personau yn ebyrth i'r clefyd a elwir ergyd yr haul, os anturiant allan ar ganol dydd heb ofalu cymmeryd cysgodlen. Mae y trigolion, yn enwedig y graddau isaf, yn troi gwisg am eu penau fel pe baent yn agored i'r tywydd llymaf yn y gauaf. Hwy yn wastadol a guddiant eu penau â *thurban*, dros yr hwn, yn eu teithiau, y rhoddant *shawl* dew, wedi ei phlygu lawer gwaith."

"*M. Betzer*," medd *Mr. Turner*, "oedd yr unig esampl a welais i o ganlyniadau dychrynlyd y clefyd hwn, sef, ergyd yr haul. Yr oedd efe ynghylch hanner can mlwydd oed, a chawsai ei daro rai blynyddau yn ol yn ngwlad Groeg. Yr oedd yr effaith yr un ag eiddo ergyd y parlys; yr oedd wedi ei ddwyn ef bron i gyflwr o wiriondeb, ac yr oedd wedi gwneuthur ei olwg yn debyg i eiddo un yn y cyflwr hwnw. Crogai ei dafod allan o'i enau, ac yr oedd ei olwg yn isel a digalon."

Salm 121. 6. *Na'r lleuad y nos*. Mae *Scheuchzer* yn sylwi fod oerfel llym y nosweithiau yn y Dwyrain yn cael ei briodoli gan yr hynafiaid i ddylanwad y lleuad, yr hon hefyd a dybient hwy oedd yr achos o'r gwllith. Dywed hanesydd arall, fod mammaethod yn arfer cuddio y babanod a fyddai dan eu gofal rhag dylanwad y lleuad, fel na byddai iddynt hwy, fel coed gwlybion y rhai a gamant mewn gwres, gael aelodau ccimion o herwydd cyflawnder gormodol o wlybrwydd. Mae hefyd yn ddigon adnabyddus, medd efe, fod yr hwn a gysgai allan dan lewyrch y lleuad, yn teimlo yn drymaidd pan ddeffroai, ac fel pe buasai wedi cael ei amddifadu o'i synwrau, ac fel yn cael ei wasgu gan bwys y gwlybrwydd a ymledai dros ei holl gorph. Yr oedd yr un dyb am effeithiau niweidiol goleuni y lleuad ar y corph dynol, yn ffynnu yn yr India Ddwyreiniol mewn amserau diweddar. Hanesydd, yn ei ddesgrifiad o'r Dwyrain, a ddywed, "Rhaid i ddyn yma, yn *Batavia*, gymmeryd gofal mawr am beidio cysgu yn llewyrch y lleuad heb orchudd drosto. Mi a welais lawer o bobl, gyddfau y rhai a aethant yn gam, fel yr edrychent yn fwy i'r naill ochr nag o'u blaen. Ni phenderfynaf fi pa un a ydyw hyny i



gael ei briodoli i ddylanwad y lleuad, fel y dychymyga pobl, ai peidio.

Mae yr un dyb am effeithiau niweidiol goleuni y lleuad, yn ffynnu mewn rhai o barthau deheuol Ewrop. Gwr boneddig Seisnig, pan yn rhodio ar un hwyr yn ngardd pendefig Portugaidd yn Lisbon, a gafodd ei gynghori yn ddirifol iawn gan y perchenog i roddi ei het ar ei ben, i'w ddiffynu rhag pelydr y lleuad. Dywedir fod y pysgodwyr yn Sicily yn cuddio, yn ystod y nos, y pysgod a fyddant yn osod allan i sychu ar lan y môr, gan gadarnhau fod pelydr y lleuad yn peri iddynt ddrewi.

Preg. 12. 4. *A'i gyfodi wrth lais yr aderyn.* Mae adar teulu-aid, yn enwedig y ceiliog a'r iâr, yn cael eu dwyn yn barhaus i'r farchnad yn Aleppo, medd *Russell*. At ganiad cyntaf ceiliog y tŷ yn y bore, yr hwn sydd cyn toriad y dydd, y cyfeirja Solomon yma, tebygol. Desgrifia hyn, mewn modd bywiog iawn, barod-rwydd yr hen wr i ymadael â'i wely anesmwyth, gan fod hyn yn llawer boreach na'r amser cyffredin at godi. Yn y Dwyrain peth cyffredin oedd i bawb, ag oeddynt ieuainc ac iachus, yn gys-tal a'r hen, godi gyda'r wawr. "Yn y wlad hon," medd *Chandler*, wrth son am Asia Leiaf, "o herwydd y poethder, arferir cyfodi gyda'r wawr. Yn nghylch toriad y dydd, ni a dderbyniasom oddiwrth Roegwr, i'r hwn yr oedd barf anrhydeddus, yr hwn a weithredai fel swyddog perthynol i fasnach Ffrainc yn y lle hwn, anrheg o ffrwythau, y rhai a gymmerasom, gyda phethau ereill, yn forefydd."

Esay 21. 11. *Y gwyllydd, beth am y nos?* Mae dyn yn cael ei gadw at daro y gloch yn India; a'r ffordd a arferir i gael allan yr amser, yw yr hyn a ganlyn:—"Mae y peiriant a'r hwn y mae yr oriau yn cael eu mesur a'u cyhoeddi, yn cael ei wneuthur o fath o badell fettel ar ddull cloch, ac yn cael ei chrogi mewn ffordd ag y gellir ei tharo yn hawdd â gordd bren fechan gan y dyn sydd i ofalu am yr amser, yr hwn a dery yr oriau fel y delont i ben. Mae yn dyfod i wybod pen yr awr oddiwrth fath o gwppan teneu o bres, yn ngwaelod yr hwn y mae tyllau; rhoddir ef ar wyneb dwfr mewn llestr helaeth, lle nad allo dim ei aflonyddu. Y dwfr a weithia i fynu iddo, ac a'i sodda mewn awr o amser, at yr hyn y mae y cwppan hwn wedi cael ei gymhwyso gan naturiaethwr, wrth reol a arferir i'r perwyl hwn yn India."

Dywedir yn yr *Asiatic Researches*, eu bod drwy gymmorth yr

offeryn hwn yn gallu mesur yr amser drwy y nos a'r dydd; a rhoddant ar y badell hon un, dau, tri, &c., o ergydion, yn ol yr oriau. Mae chwech neu wyth o bersonau yn ofynol i weini gyda'r offeryn hwn; tri neu bedwar yn y dydd, a'r un rhifedi yn y nos; fel nad all ond pobl gyfoethog gadw un; ond mae yr un hwnw yn wasanaethgar iawn i breswylwyr ereill y lle i gyrchu ato er cael gwybod yr amser.

Tybir fod rhywbeth cyffelyb yn cael ei arferyd gynt yn Persia, canys dywed *Josephus* i'r ymerawdwr Artaxerxes ofyn i'r rhai y perthynai iddynt hysbysu iddo, pa awr o'r nos ydoedd. Mae yn ymddangos hefyd fod gan y Rhufeiniaid wŷr ieuainc ar waith i hysbysu yr awr. Archodd Nero i hyn gael ei wneuthur wrth ei fwrdd, fel y gallai y gwahoddedigion fod yn fwy prysur i fwynhau yr hyn a fyddai yn ol o'r amser. Achwyna *Martial*,—"Ni roddodd y bachgen rybudd i chwi am y bummed awr, ac eto chwi a ddeuwch i fod yn westwr i mi."

*Juvenal*, wrth gyfrif anfanteision henaint, a chwanega,—“Rhaid i'r bachgen sydd yn dyfod i ddywedyd yr oriau, floeddio yn uchel i'w glustiau cyn y clywo.”

Yr oedd y gywiliadwriaethau milwraidd yn cael eu cyhoeddi drwy udganu mewn udgorn.

Esay 38: 12. *Torais ymaith fy hoedl megys gwehydd.* Mae Mr. *Harmer* yn meddwl y gall y gymhariaeth a ddefnyddir yma fod wedi ei chymmyrd oddiwrth wauad (*weaving*) carped yn llawn o flodau ac addurniadau ereill; ac y dichon mai yr ystyr yw, yn union fel y mae gwehydd, wedi iddo wau llawer o addurniadau mewn darn o garped, yn sydyn yn ei dorï ymaith, tra y mae y lluniau yn dyfod i'r golwg yn hardd a phrydferth, a'r edrychwr yn dysgwyl iddo fyned rhagddo yn ei waith; felly, ar ol amrywiol o ymdriniaethau hyfryd yn ystod bywyd, ei fod yn ddisymmwth ac yn annysgwyl-iadwy yn dyfod i ben. Yr oedd pobl y Dwyrain yn rhoddi eu hunain ar waith nid yn unig mewn brwydwaith (*embroidery*) gwerthfawr, ond mewn gwneuthur carpedau yn llawn o flodau a lluniau heirdd ereill. Rhydd *Dr. Shaw* hanes i ni am y carpedau hyn. “Mae llawer iawn o garpedau y rhai ydynt lawer yn arwach na'r rhai a wneir yn Twrci, yn cael eu gwneuthur yma, a rhai o wahanol faintioli. Ond y gangen benaf o'u llaw-weithyddiaeth yw gwneuthur math o wrthbanau. Y benywod yn unig sydd ar waith gyda'r rhai hyn, y rhai nid arferant y wennol, ond a arweiniant bob edaf â'u bysedd.” Dywed *Sir John Chardin* fod gan y Persiaid fath

e waith edau a nodwydd gwahanol iawn; yr hanes a rydd efe andano sydd fel y canlyn:—"Mae eu dilladwyr hwynt yn sicr yn rhagori ar yr eiddom ni yn eu gwriadwaith. Hwylwyr a wnant garpedau, clustogau, cysgod-lèni i ddrysau, a darnau ereill o waith at wasanaeth tai, o frethyn llaw-ban (*fell*), yn yr hwn y gwnant y lluniau a fynont. Gwneir y rhai hyn mor gywrain, fel y gallai dyn dybied fod y lluniau wedi cael eu paentio. Edrychwch mor graff ag y mynoch, ni ellwch weled y cysylltiadau."

Ezec. 38. 2. *Gwyliedydd*. Ni a ddarllenwn am wyliedyddion mewn amrywion o fanau yn yr Ysgrhythrau. Exod. 14. 24; Salm. 127. 1, a 130. 6; Can. Sol. 3. 3, 7. Yn Persia, y gwylwyr, y rhai ydynt ofalus iawn yn y nos, ni oddefant i neb fyned drwy yr heolydd heb lusern. Hwylwyr a rodiant yn barhaus drwy yr heolydd, er mwyn attal drygioni a lladrad, gyda gofal a manylwch mawr, gan eu bod yn gorfod gwneuthur i fynu golled y rhai a yspeilir. Dywedir i Schah Abbas, yn awyddus i wneuthur prawf o ofal y bobl hyn, oddef cymmyrd ei ddal ganddynt, ac y cawsai ei ddwyn i garchar oni buasai i un o honynt ei adnabod, yr hwn a ddatguddiodd i'r lleill pwy ydoedd; yna iddynt oll syrthio o'i flaen i ofyn ei faddeuant. Ond efe a ddangosodd foddlonrwydd mawr yn eu gofal, ac a ddywedodd wrthynt iddynt wneuthur eu dyledswydd; ei fod ef yn frenin yn y dydd, ond fod y cadweidiad a dawelwch yn y nos yn dibynu arnynt hwylwyr. Mae cyfrifoldeb y gwylwyr yn Persia yn egluro yr hyn a ddywedir yn adn. 8, os na buasai i'r gwyliedydd rybuddio yr annuwiol, y gofynasid ei waed ar ei law ef.

## PENNOD XXII.

### MEDDYGINIAETH.

Exod. 15. 26. *Myf iw yr Arghwydd dy Iachawdur di*. Clarke, yn hanes ei daith i chwilio am ddechreuad yr afon Missouri, a ddywed,—“Y Mandaniaid ydynt genedl ar lanau yr afon, ac yn uwch i fynu na'r Ricarasiaid. Hwylwyr a gredant mewn un Ysbryd Mawr, yr hwn sydd yn rheoli eu tyngedion, ac sydd, yn ol eu meddwl hwylwyr, mewn cysylltiad â'r galfyddyd o feddyginiaeth: mae Ysbryd Mawr yn gyfystyr â meddyginiaeth fawr, yr hwn

yw yr enw a roddant hwy i bob peth na ddeallant. Mae pob un o honynt yn dewis iddo ei hun y gwrthrych a addola, yr hwn a elwir ei *feddyginiaeth*, a rhyw fod anweledig ydyw, neu, yn fwy cyffredin, rhyw amfail ydyw, yr hwn sydd yn dyfod yn noddwr iddo, ac yn eiriolwr drosto gyda'r Ysbryd Mawr; ac i gael ei heddwch ef, gwneir pob ymdrech, ac aberthir pob ystyr-iaeth. 'Yr oeddwn i yn ddiweddar yn berchen dau geffyl ar byntheq,' ebe Mandaniad wrthym un diwrnod, 'ond mi a'u hoff-rymais oll i'm meddyginiaeth, ac yr wyf yn awr yn dlawd.' Yr oedd mewn gwirionedd wedi cymmeryd ei holl geffylau i'r gwastad-odd, ac wedi eu troi yn rhyddion, wedi eu hoffrymu i'w feddyginiaeth, ac wedi eu gadael am byth. Y cyssylltiad hwn o weithrediad anadnabyddus â gweithrediad meddyginiaeth, yr esampl fwyaf deimladwy o'r fath weithrediad ag oeddynt hwy wedi sylwi arni, nid yw yn annaturiol, ac ymddengys ei fod yn gyffredinol yn mysg yr holl lwythau Indiaidd yn y parth hwn o America. Y cenhedloedd ar y tu gorllewinol i'r Mynyddoedd Creigiog, er fod eu hiaith yn hollol wahanol, ac nad oedd ond ychydig o ymdrin-iaeth rhyngddynt a'r Indiaid Dwyreiniol, a wnant ddefnydd o'r un gymhariaeth."

Mat. 4. 24, 25. *Hwy a ddygasant yr holl rai drwg eu hwyl —ac efe a'u hiachaodd hwyl.* "Y newydd fod meddyg o wlad dramor," medd Morier, yn hanes ei ail daith drwy Persia, "yn myhed drwy y wlad, a aeth yn gyflym iawn ar led; a phob pryd y gorphwysem, llenwid ein gwersyll â chleifion, nid yn unig â rhai o'r pentref gerllaw y fan lle y gwersyllem, ond o'r holl bentrefi cymmydogaethol. Daeth llawer daith amrywiol o ddiwrnodau i ymgynghori â'n meddyg ni, a dygid y cleifion ato er pob anhawsdra ac anghyfleusdra; dygwyd rhai ar asynod, a chlustogau danynt, yn cael eu cynnal i fynu gan eu perthynasau; ereill ar gamelod, cerddediad garw y rhai a raid fod yn boenus iawn i unrhyw ddyn mewn afiechyd. Gellir meddwl fod afiechyd yn aaffawd fawr mewn gwlad lle nad oes cym-morth meddygol i'w gael, nac un cludai ar olwynion i ddwyn dyn i ymofyn am esmwythâd pan fyddo gerllaw. Mae y parch mwyaf yn ddyledus i'r meddygon a berthynent, nid yn unig i'n cenhadiaeth ni, ond i'r lleill oll a fuont o'n blaen, am yr hynawseidd a'r dynoliaeth â'r rhai y diwallasant eisiau y bobl dlodion hyn. Hwy nid yn unig a wasgarasant eu meddygin-iaethau yn rhad, ond rhoddasant eu medrusrwydd, eu hamser,

a'u brwdfrydedd, yn rhad, am yr hyn, er goffid, ni bu pawb mor ddiolohgar ag y dylasant fod."

Marc 8. 23. *Wedi iddo boeri ar ei llygaid ef, a doddi ei ddywylaw arno, efe a ofynodd, a oedd efe yn gweled dim? Fod poeredd neu aliw (saliva), yn cael ei ystyried yn effeithiol i beri iachâd oddiwrth rai clefydau corphorol, sydd dyb ddiweddar yn gystal a hen. Lightfoot, wrth sylwi ar Ioan 9, a goffâ ryw ymadrodd Iuddewig ynghylch y matter hwn, ac a nodâ yr esampl ganlynol:— "A oes dim rhyw wraig yn eich plith chwî," ebe Rabbi Meir, "yn fedrus mewn dywedyd rhyw swynion uwchben llygaid?" Y wraig a ddywedodd, "Rabbi, nid wyf fi yn fedrus." "Pa fodd bynag," eb efe, "poera di saith waith ar fy llygaid i, a mi a iacheir." Mae yr amgylchiad canlynol yn un diweddar:—Cadben Light, yn hanes ei daith i fynu gyda'r Nilus, yn Mai, 1814, a ddywed, "Yn ystod fy ymweliad, gwelais hen wr yn cynnyg gwellhau un o'r brodorion, yr hwn a ddaethai ato o herwydd poen yn ei ben, o herwydd yr hwn y dyoddesai lawer iawn; a wnaeth hyn yn y modd canlynol:—y dyn claf a eisteddai gerllaw yr hen wr, yr hwn, gan osod ei fysedd a'i fawd ar dalcen y dyn claf, a'u tynodd yn nghyd yn raddol, gan grimpio (*pinch*) y croen wrth dynu ei fysedd yn nghyd, dywedyd gweddi, poeri ar y llawr, ac, yn olaf, ar y rhan boenus. Buwyd wrth hyn oddeutu chwarter awr, a'r dyn claf a gyfododd, wedi ei argyhoeddi yn drwyadl y byddai yn iach yn fuan."*

Dywed yr un teithiwr, mewn lle arall,—“Ymddengys fod rhyw barch ofergoelus yn cael ei dalu gan yr Aiphtiaid i'r dull hwn o iachau; canys yn Erment, yr hen Hermonthis, daeth hen wraig ataf i geisio meddyginiaeth rhag olefyd yn y llygaid, ac ar fy ngwaith yn rhoddi iddi ryw gyfarwyddiadau nad oedd hi yn gymmeradwyo, hi a ddeisyfodd arnaf boeri arnynt. Mi a wnaethum felly, a hi a aeth ymaith gan fy mendithio, gan fod yn hyderus hollol gyda golwg ar sicrwydd am wellhad.” Dywed Clarke fod y Groegiaid, ar unrhyw fraw disymwth, yn poeri i'w mynwesau eu hunain.

Mr. *Buckingham*, yn hanes ei daith drwy wlad Canaan, a ddywed,—“Yn ein ffordd yn ol, cyfarfuasom â chwmpeni o'r Moslemaid, y rhai, yn cymmeryd, o herwydd fy ngwiag a'r *turban* gwyn oedd am fy mhen, fy mod o'r un ffydd a hwynt, a'n hanerchasant yn y dull arferol, yr hyn a wnaethum inau yn ol heb betrusder; ond

brawychwyd ein tywysydd gymmairt o herwydd y derbyniad a'r rhoddiad o anerchiadau gwaharddedig rhwng Mohammedaniad a Christian, fel y dywedodd ei fod yn hyderus y terfynasai mewn rhyw ddamwain anffodus i ni. I ragflaenu hyn, efe, o'i ben ei hun, a gymmerodd gareg fawr oddiar yr heol, ac wedi iddo boeri arni, efe a drödd y rhan hòno o honi tua'r gogledd, gan adrodd gweddi Arabaidd fer ar yr un pryd."

Luc 17. 12. *A phan oedd efe yn myned i mewn i ryw dref, cyfarfu âg ef ddeg o wŷr gwahangleifon.* "Mae ar lanau yr afon Camboga, yn Tonquin, yn Asia," medd *Dampier* yn hanes ei fordaith o amgylch y byd, "lawer o bentrefi. Pan nesaem at un o honynt, deuai cardoteion yn gyffredin at ein llestr, mewn badau bychain a wnaed o frigau coed, i ba rai yr elai y dwfr mewn gwahanol fanau, er eu bod wedi eu dwbio â chlai y tu mewn a'r tu allan. Pobl dlodion oeddynt, yn cael eu cystuddio â'r gwahanglwyf, y rhai, o herwydd y clefyd hwn, ydynt yn gorfod byw wrthynt eu hunain, ond caniateir iddynt ofyn elusen. Mor fuan ag y daethant o hyd golwg i ni, hwy a ddechreuasant gwyno yn y modd mwyaf truenus; pan hwyliasom heibio iddynt, ni a roddasom beth *rice* iddynt, y rhai a dderbyniasant gyda'r llawepydd mwyaf."

Ioan 9. 6. *Efe a boeredd ar lawr, ac a wnaeth glai o'r poeryn.* Sylwa Mr. *Wootton*, i hyn gael ei wneuthur i ddangos ei awdurdod dwyfol, wrth arfer moddion ag oeddynt, yn ol golwg rheswm dynol, y mwyaf anmhrifodol, a hyny hefyd ar y Sabboth, yn hollol groes i reol a sefydlasid gan yr Iuddewon, yr hon, er yn dda ac un-iawn ynddi ei hun, oedd yn ofergoelus a chreulon pan yn cael ei ohymhwyso at y gwaith o iachau ar y dydd Sabboth. Dywed *Maimonides* y gwaherddid yn neillduol osod poeredd dyn heb fwy a bwyd ar neu yn llygaid dyn dall ar y dydd Sabboth. Nid yr Iuddewon oeddynt yr unig bobl ag oeddynt mewn modd ofergoelus yn defnyddio poeredd. Yr oedd yn cael ei ystyried gan y Groegiaid fel swyn rhag rheibiaeth. Yr oedd yr un dyb gan y Rhufeiniaid am ðano. Ar y dydd y caffai plentyn ei enwi (yr wythfed i ferched, ac i feibion y nawfed, wedi eu genedigaeth), y famgu, neu fodryb, gan gerdded o amgylch, a rwbiai boeredd ar ðalcen y baban.

*Dodwell*, yn hanes ei daith drwy wlad Groeg, a ddywed,—“Yr oeddwn yn edrych o amgylch wrth fwthyn, i'r hwn y cawswn fy ngwahodd yn gartdig, a lle y cawswn ffrwythau a gwin i'w cymmeryd. Yr oedd dau blantyn hardd nodedig, meibion fy llettywr,

yu ohwareu o amgylch y bwthyn; ac megys yr oeddwn yn ewyllysio boddio y rhieni, yr oeddwn yn helaeth yn y canmoliaeth a roddwn i'w plant. Ond wedi i mi eu canmol ddwywaith neu dair, hen wraig, yr hon y tybiwn i mai y famgu ydoedd, a darawyd gan ing a braw, ac wedi neidio i fynu, hi a lusgodd y plant ataf, ac a ddeisyfodd arnaf boeri yn eu wynebau. Y cais hynod hwn a wnaeth i mi synu cym-maint, fel y bernais nad oedd yr hen wraig yn ei synwrau. Ond ei thaerineb hi a gefnogwyd ac a rymuswyd yn fuan gan dad a mam y bechgyn. Dygwyddodd, er fy nghysur, fod Groegiad yn fy ymyl, yr hwn a eglurodd i mi, mewn trefn i ddystrywio effeithiau drwg y canmoliaeth gormodol a roddaswn i'r plant, mai yr unig feddyg-iniaeth oedd i mi boeri yn eu wynebau. Nid allwn yn hwy wrthod cydsynio â'u cais, ac yn ganlynol mi a gyflawnais y swydd an-hyfyd mewn modd mor gymmedrol ag oedd ddichonadwy. Ond ni foddlonodd hyn y bobl ofergoelus hyn; ac mi a synwn wrth weled y modd tawel yn yr hwn y dyoddefai y plant y driniaeth aflan hon, dan yr hon, tebygol, yr oedd eu prydferthwch wedi ei ddwyn lawer gwaith. Yna y fam a gymmerodd beth llwch oddiar y llawr, a'i cymmysgodd âg olew o lamp ag oedd yn llosgi o flaen darlun y forwyn, a gosododd beth o hono ar eu talcenau. Yna ni a ymadawsom mewn heddwch perffaith; ond hwy a erfyniasant arnaf beidio canmol eu plant byth mwy."

Act. 10. 11, 12. *Dygid at y cleifon, oddiwrth ei gorph ef, nap-cynau neu foledau, a'r clefydau a ymadawai â hwynt. Morier,* wrth grybwyll am ei daith drwy Persia, a ddywed,—“O fewn i ychydig o bellder, gerllaw ochr y ffordd, gwelsom y lle y cladd-asid sant Persiaidd, yn cael ei amgylchu â muriau geirwon iawn. Gerllaw iddo tyfai perth fechan, ar yr hon yr oedd amrywiol o fratiau a darnau o wisgoedd wedi eu cylymu. Dychymyga y Persiaid fod y bratiau hyn, o herwydd eu bod gerllaw i'r sant, yn derbyn rhyw rinweddau nodedig i gadw rhag afiechyd; cymmerant rai o honynt ymaith, gan roddi rhai ereill yn eu lle; a hwy a rwymant y rhai hyn ar ryw ran o'u personau, fel swynion. A' ni ddichon fod rhyw gyfeiriad pell yn yr arferiad hon at Act. 19. 11, 12?” Josaphat Barbaro, teithiwr yr hwn a fu drwy Persia yn y flwyddyn 1474, a ddywed fod yr arferiad hon yno yr amser hwnw.

Turner, wrth roddi hanes am ei daith drwy y Dwyrain, a ddywed, “Mi a aethum rai gweithiau i fynu ac i waered ar hyd ymyl yr afon, yn y ddinas hon, Damietta, a rhodiais ar hyd y meus-

ydd tua'r dehau. Mi a eisteddais i lawr wrth fedd-adail sant Tyrcaidd, yr hanes am yr hwn sydd mewn bri mawr yn mysg y Tyrcaid, ond sydd mor warthus fel na ellir myned heibio iddo yn ddisylw. Yr oedd yn byw yn amser Marchogion Malta, ac, yn ddigofus wrth weled cynnifer o wir gredinwyr yn ochen-aidio dan gadwynau anffyddiaid, efe a wnaeth ei hun yn fâd, ynghylch pedair troedfedd o hŷd, yn yr hwn y gwnaeth efe amrywiol o fordeithiau i Malta, ac a ddygodd ymaith mewn modd lladradaidd un o'r caethion Tyrcaidd ar y tro. Mi a welais y båd drwy y ffenestr yn crogi uwchben y bedd-adail. Mae y bedd yn cael ei gysgodi gan bren sycamor o faintioli anferthol, wrth gorph yr hwn y mae pob Mohammed selog yn sicrhau rhai o'i wallt, â hoel. Mae y pren wedi cael ei orchuddio â'r offrymau hyn."

Mr. *Buckingham*, hefyd, a ddywed, "Gerllaw Tiberias ni a aethom heibio i hen bren yn sefyll yn nghanol dadfeiliau, â sylwasom fod bratiau o bob lliw yn crogi ar ei ganghenau, y rhai, yn ddiaw, oeddynt offrymau rhai yn dysgwyl neu wedi cael llesâd oddiwrth y ffynnonau yn ymyl y rhai y safai."

Dywed hanesydd arall fod yr Arabiaid, cyn y gadawont y bedd, yn codi lluman angladdol, yr hon a wneir i fynu yn gyffredin o ddarn o ddillad y trengedig, yn crogi ar ben pren.

## PENNOD XXIII.

### ANGLADDAU.

GEN. 23. 9. *Ar rodidi o hono ef i mi yr ogof Macphela, yn feddiant beddrod.* Dyma yr esampl hynaf a gawn am gladdfa berthynol i deulu, neu fedd etifeddol mewn ogof. Yn y rhan fynyddig, yn neheudir gwlad Canaan, mae llawer o ogofau naturiol mewn creigiau, y rhai y gellir yn hawdd eu gwneuthur yn lleoedd helaeth at gladdu. Mae i'w cael yn awr yn Syria, gwlad Canaan, a'r Aipht, lawer o leoedd claddu o'r fath hyn, y rhai a ddesgrifiwyd yn fynych gan deithwyr wedi iddynt ymweled â'r gwledydd hyny. Mae y beddau hyn wedi cael eu llunio mewn amrywiol o ddulliau. Mae y ffordd iddynt weithiau yn myned i'r goriwaered; y rhai a wneir yn ochrau y mynyddoedd, mae y



ffordd a arwain iddynt yn wastad. Yn yr Aipht, hefyd, y mae llawer o feddau agored; rhai a redant mewn modd gwastad i'r gmaig, ond y mae y rhan amlaf o'r tyllau yn y rhai y mae y cyrph perarogledig, yn uniawnserth, a rhaid i un ollwng ei hun iddynt drwy y tyllau hyn. Yn ngwlad Canaan a' Syria, yn y gwrthwyneb, y mae y beddau yn wahanol; mae grisiau yn arwain i waered iddynt, ac maent yn awr, y rhan amlaf o honynt, wedi eu gorchuddio â dadfeiliau. Mae mewn amrywiol o honynt lawer o ystafelloedd, a mynedfa yn arwain o un i'r llall; mewn rhai o honynt mae yr ystafelloedd nesaf i mewn yn ddyfuach na'r rhai nesaf allan, a rhaid disgyn ar hyd grisiau wrth fyned iddynt. Mae yr ystafelloedd hyn, rhai o ba rai a ellir weled hyd y dydd hwn, yn lled helaeth. Yn y rhan amlaf o honynt, y mae gwag-leoedd, chwech neu saith troedfedd o hŷd, wedi eu gwneuthur yn yr ochrau o amgylch, i dderbyn y cyrph meirwon; mewn rhai ereill o honynt mae llechau cerig o'r un hŷd, wedi eu sicrhau yn y mur; weithiau amrywiol o honynt, y ffaith uwchlaw y llall, ar y rhai y rhoddid y cyrph meirwon; mewn ambell un o honynt mae eiroh (*coffins*) cerig, i bob un o ba rai y mae caudad. Yn gyffelyb i hyn y disgrifir beddau yn y Talmud, neu lyfr traddodiadau yr Iuddewon; yn unig fod rhag-ystafell a gwag-leoedd yn muriau y beddau petryal, y rhai a allant fod yn wahanol yn eu rhifedi.

Gen. 50. 1. *Yna y syrthiodd Joseph ar wyneb ei dad, ac a'i cusanodd ef.* "Coffeidid y meirw, y pryd hwnw, ac yn ystod yr adroddiad o'r gwasanaeth angladdol; ac mor fuan ag yr elai yr offeiriad ymaith, deuai llawer, a chan roddi eu dwylaw ar ddwy ochr yr arch agored, cusanent ruddiau a thalcen y trengedig gyda theimlad neillduol. Pan byddo esgob farw, ac y caffo ei osod yn yr eglwys, daw yr holl gynulleidfa, ac a gyflawnant y seremoni hon." *Jowett's Christian Researches.*

Gen. 50. 10. *Gularasant â galar mawr, a thwm iawn.* "Dyma yn gywir ddull pobl Asia, yn enwedig y gwragedd. Mae eu teimladau o lawenydd neu o ofid yn llewygon hollol, ac maent yn y llewygon hyn yn afreolus. Pan byddo rhyw un o honynt yn dychwelyd o daith bell, neu yn marw, mae ei deulu yn tori allan mewn llefau a ellir glywed o bell; ac adnewyddir hyn ar wahanol amserau, a phery dros lawer o ddyddiau, yn ol grym y teimlad. Mae y llefau hyn yn hir pan ddygwyddo marwolaeth, ac y maent yn ddychrynlyd, canys y mae eu galar yn anobaith hollol, ac yn

ddarlun o uffern. Yr oeddwn yn Hettys, yn y flwyddyn 1676, yn Ispahan, gerllaw y betryal frenhinol. Gwraig y tŷ nesaf i'm tŷ i a fu farw yn yr amser hwnw; y funud y trengodd hi, yr holl deulu, yn yr hwn yr oedd 25 neu 30 o ddyinion, a ddechreuasant lefain yn y fath fodd grymus, fel y brawychwyd fi yn fawr, a bŵm uwchlaw dwy awr cyn i mi ymadferyd. Y llefau hyn a barhânt dros amser maith, yna peidiant oll ar unwaith; dechreuant yna yn ddisymwth, ar doriad y dydd, ac oll yn nghyd. Y sydynrwydd hwn sydd mor frawychus a bod y llais yn uwch ac yn llymach nag y gallai un ddychymygu. Hwyl a barhausant yn y dull ffyrnig hwn o alaru dros ddeugain niwrnod, nid o hyd yn yr un graddau, ond yn lleihau o ddydd i ddydd. Y prydlau yr oeddynt yn llefain hwyaf ac yn fwyaf ffyrnig, oedd, pan yr oeddynt yn golchi y corph, pan yn ei berarogli, pan yn ei ddwyn i'w gladdu, ac wrth gymmeryd cyfrif o'r meddiannau a'u rhannu. Nid ydych i feddwl fod y rhai oeddynt bron hollti eu cegau wrth lefain allan, yn wylo cymmaint; nid oedd y rhan amlaf o honynt yn tywallt un deigrin drwy yr holl seremoni." *Chardin.*

Lef. 19. 28. *Na wnewch doriadau yn eich cnawd am un marw.* Oddiwyth y gorchymyn hwn gallwn gasglu fod yr arferiad o wneuthur archollion o barch i'r marw yn ffyn, os nid yn mysg yr Iuddewon eu hunain, o leiaf yn mhlith y cenhedloedd y cyfeillachent â hwynt. Ar farwblaeth eu brenhinoedd, yr oedd y Lacedemoniaid yn arfer ymgasglu yn nghyd, pan y dangosai pob gradd a rhyw eu tristwch drwy dori y cnawd oddiar eu talonau â g offerynau llymion. Mae y profion canlynol o'r arferiad ryfeddol hon i'w cael yn 'mysg llwythau ag ydynt yn wasgaredig iawn oddiwyth eu gilydd. Dywed Mr. *Carver*, yn hanes ei daith yn Ngogledd America, fel y canlyn:—"Mae un dull o alaru am y meirw, yn mysg y Naudowessiaid, yn wahanol iawn i'r dull ag y sylwais i arno yn mhlith y cenhedloedd ereill ag yr asthwn drwy eu gwledydd. Y gwŷr, i ddangos mor fawr oedd eu galar, a drywanent eu breichiau uwchlaw y penelin â saethau, o herwydd yr hyn yr oedd creithiau i'w gweled ar bob gradd i raddau mwy neu lai; ac mae y gwragedd yn archolli eu coesau â darnau llymion o gallestr, hyd nes y llifo cyflawnder o waed.

Numeri 5. 2. *Gorchymyn i feibion Israel, anfon allan o'r gwercysyll—bob un a haloger wrth y marw.* *Lucian*, wrth son am Syria, a ddywed, "Nid oedd yr ofn rhag cael halogedigaeth drwy gy-

ffwrdd â choroph marw yn ffynnu yn mysg yr Iuddewon yn unig, ond ffynai hefyd yn mhlith cenhedloedd ereill; a'r ofn hwn, mewn rhai angreiffiau, a barai ocheliadau gwrthun iawn. Pwy bynag a welai gorph marw, rhaid iddo beidio ymweled a theml Hierapolis hyd y dydd canlynol; ac ar ol puredigaeth, ni oddefir i berthynasau y marw ddyfod i mewn i'r deml dros ddeg diwrnod ar hugain."

"Yn Japan," medd *Thunberg*, "maent yn ymgadw oddiwrth gig, anhawdd iawn ganddynt dywallt gwaed, ac ni chyffyrddant â choroph marw. Pan drosedd rhyw un gyda golwg ar un o'r pethau hyn, ystyrir ef yn arian dros ryw amser, hwy neu fyrach, yn ol amgylchiadau."

"Pan byddo dyn o radd uchel farw, hyd yn nod os bydd plentyn a berthyna i deulu urddasol farw, efe a gedwir, heb ei gladdu, oddieithr iddo farw o ryw haint neu glefyd ffiadd. Hwy a dynant y perfedd allan, ac a sychant y corph, gan ei eneinio o fewn ac oddiallan âg olew pêr ei arogl, ac eneinir ef yn fynych. Y person a gyflawna y swydd hon a gyfrifir yn arian, ac ni oddefir iddo gyffwrdd âg un math o ymborth, na phorthi ei hun dros fis." *Missionary Voyage.*

Num. 19. 11. *A gyffyrddo â choroph marw dyn, arian fydd saith niwrnod.* Cawn hanes rhyfedd am ryw dybiau oedd gan rai paganiaid yn ddiweddar, ynghylch halogedigaeth oddiwrth y meirw, ac am eu seremonïau yn ei gylch, yn hanes trydedd mor-daith Caëben Cook. Wrth son am wibdaith fechan a gymmerodd yn un o'r nynsoedd yn y Môr Tawellog, efe a ddywed,—“Ar y wibdaith hon, cyfarfuasom âg oddeutu chwech o wragedd mewn un lle ar swpper. Wrth weled dwy o honynt yn cael eu porthi gan y lleill, gofynasom y rheswm am hyny; a hwy a atebasant, *Taboo Nattee.* Wrth holi yn mhellach, deallasom fod un o honynt, ynghylch dau fis cyn hyny, wedi golchi corph penaeth, ar ar y cyfrif hwnw nad oedd hi i gyffwrdd âg unrhyw swyd â'i dwylaw dros bum mis. Yr oedd y llall wedi cyflawni yr un swydd i gorph person arall o radd is, ac yr oedd yn awr dan yr un caethiwed, ond ddim dros amser cyhyd. Mewn lle arall gerllaw, gwelsom wraig arall yn cael ei phorthi, a deallasom ei bod hi wedi cynnorthwyo i olchi corph y papaeth a goffawyd uchod.”

“Ar ddiwedd yr amser, y person ysgymunedig a ymolcha yn un o'u golohfeydd, y rhai ydynt byllau budron, y rhañ amlaf o

honynt o ddwfr hallt—(cymharer Num. 19. 19)—yna hi a ymddengys o flaen y brenin, ac ar ol ymostwng iddo yn y dull arferol, hi a ymeifl yn ei droed, ac a'i gesyd ar ei dwyfron, ar ei hysgwyddau, a rhanau ereill o'i choroph. Yna efe a gyffwrdd â'i hysgwyddau hi, ac wedi hyn hi a â ymaith, wedi ei phuro oddi wrth ei haflendid."

Ffyna tybiau cyffelyb am aflendid o herwydd cyffwrdd â choroph marw yn mysg y Japaniaid. "Pwy bynag," medd *Kaempfer*, "a laddo anifail, neu a fyddo yn bresennol ar ddiennyddiad drwgweithredwr, neu a fyddo gerllaw dyn yn marw, neu a elo i dŷ lle y byddo coroph marw, mae yn aflan dros yr holl ddiwrnod. Ond nid oes dim yn halogi cymmaint â marwolaeth tad, a'r perthynasau agosaf. Pa nesaf y byddo y berthynas, mwyaf ydyw yr aflendid. Yn ol y rheol hon y mae yr holl seremonïau mewn galar a neillduaeth yn cael eu trefnu."

Josua 24. 30. *A hwy a'i claddasant ef yn nherfyn ei etifeddiaeth, o fewn Tinnath-serah, yr hon sydd yn mynydd Ephraim, o du y gogledd i fynydd Gaas. Burckhardt*, wrth roddi hanes ei daith drwy Syria, a ddywed,—“Yn yr hwyr ni a aethom rhag ein blaen yn nyffryn Aleyat, tua'r gogledd-orllewin. Ar ein llaw ddehau yr oedd mynydd, ar ben yr hwn y mae bedd tywysog, yr hwn a berchir yn fawr gan y *Bedouins*, y rhai a gyrchant yn fynych ato, ac a aberthant ddefaid yno. Mae yr arferiad yn mysg y *Bedouins* o gladdu saint ar aelïau mynyddoedd, yn cytuno âg arferiad gyffelyb o eiddo yr Israeliaid. Nid oes ond ychydig o'r llwythau Bedouinaidd, ag nad oes ganddynt un neu chwaneig o feddau saint noddawl, er bri i ba rai yr offrymant ebyrth. Dechreuodd yr arferiad, tebygol, yn eu hen addoliad eilunaddolaidd, a chadwyd hi mewn rhyw fesur yn yr ebyrth y gorchymynodd Mohammed eu hoffrymu, ar wylïau mawrion yr Islam.”

1 Sam. 15. 12. *Daeth Saul i Carmel, ac wela, efe a osododd iddo le.* Yn y lle hwn mae y Deg-a-thriugain yn darllen *χσιρα*, *llaw*, tebygol o herwydd i'r cof-arwydd o fuddugoliaeth gael ei wneuthur ar lun llaw fawr, (yr arwydd o awdurdod), wedi ei chodi ar golofn. Yr oedd y colofnau coffadwriaethol hyn yn cael eu harfer yn fynych gynt; ac yr oedd llun llaw, drwy ei ystyr arwyddocaol, yn addas iawn i gadw coffadwriaeth am fuddugoliaeth. *Niebuhr*, wrth lefaru am deml Ali, yn Mesched-Ali, yn Asia, a ddywed,—“Ar ben y tŵr, lle yn gyffredin ar deml Dyrcaidd, y

mae llun lloer yn ei chyfiwr cynnyddol, neu ddim ond pawl, fod yma law yn estynedig allan, i arddangos llaw Ali."

1 Sam. 25. 1. *Ac a'i claddasant ef yn ei dŷ yn Ramah.* *Joseph*, wrth son am Syria, a ddywed,—“Tra yn rhodio allan un hwyr, gyda mab fy llettywr, i weled gardd a berthynai i'w dad, ag oedd ychydig oddiwrth y tŷ, efe a nododd allan i mi gerllaw iddi, adeilad fechan o gerig, a ymddangosai fel tŷ, gan chwaneu yn ddifrifol iawn, Beddrod ein teulu ni ydyw. Nid oedd i'r adeilad ddrws na ffenestr. Efe yma a gyfeiriodd fy sylw at rifedi mawr o adeiladau cyffelyb o fewn i yohydig bellder, y rhai, i olwg y llygad, a ymddangosant yn gywir fel tai, ond y rhai ydynt anneddau teuluaidd i'r meirw. Ymddangosiad trymaidd iawn sydd iddynt, yr hyn a wnaeth iddo ef frawychu wrth egluro eu gwaaanaeth i mi. Ymddengys fod eu muriau, y rhai y rhaid eu hagoryd bob tro y cleddir un o aelodau y teulu, yn dywedyd, Tŷ anhyfryd yw hwn, i'r hwn nid yw ymwelwyr yn hoffi cyrchu yn fintoioedd, ond bob yn un ac un, bydd rhaid iddynt fyned i mewn, ac nid oes un a elo i mewn, un amser yn dyfod allan drachefn. Dichon fod yr arferiad hon, yr hon a ffynna yn sawr mewn rhai parthau, yn hen iawn, ac y gall egluro rhyw ymadrôddion yn yr Ysgrhythrau. 1 Bren. 2. 34; Job 30. 23; Diar. 2. 18, 19; a 7. 27; a 9. 18.”

2 Sam. 1. 18. *Dywedodd hefyd am ddysgu meibion Judah i saethu â bwa.* Cafodd y geiriau hyn yn gyffredin eu deall am waith Jonathan yn dysgu meibion Judah i saethu â bwa. Ond tebygol ei fod yn well eglurhad ar y geiriau, mai y bwa yw yr alarnad a draethodd Dafydd ar farwolaeth Jonathan; a'i bod yn cael ei galw felly, oblegid iddo gyfarfod â'i angau odddiwrth fwa. Bydd i'r hanesyn canlynol, yr hwn a ddesgrifia orymdaith angladdol a wnaed i fynu o wragedd, i gadw mewn cof farwolaeth marsiandwr, a elwid Mahomet, yn Cosire, yn Arabia, lle y lladdesid ef gan ddau Arabiad, y rhai a ymosodasant arno â chleddyfau, egluro y darluniad hwn. Wrth lesaru am lofruddiad Mahomet, dywed Mr. *Irwin*,—“Y weithred erchyll a gyflawnwyd yn ddiweddar gerllaw Cosiere, a roddodd achlysur i orymdaith alarus o wragedd, y rhai a aethant drwy wahanol heolydd Ginnah, ac a roddent allan lesau pruddaidd o herwydd marwolaeth Mahomet. Yn y canol yr oedd menyw berthynol i'w deulu ef, yr hon a ddygai gleddyf noeth yn ei llaw, i arwyddo yr offeryn drwy ba un y syrthiasai y trengedig. Mewn amrywiol o leocdd, gorphwys-

oedd yr crymdaith, a dawnsiasant o amgylch y cleddyf wrth swm peroriaeth symbolau, &c. Hwy a orphwysasant amser hir o flaen ein tŷ ni, aô un o'r menywod a wnaeth awgrym bygythiol ar un o'n gwasanaethwyr, yr hyn a gytuna â'r rhybudd a gawsom i gadw i mewn yn y tai. Byddai yn beth digon peryglus i un wynebu y cydymdeithion terfysgelyd hyn, dadwrdd parhaus ac ystumiau gwrthun y rhai a roddent iddynt ymddangosiad dyeithr iawn." Oddiworth yr arferiad hon o ddwyn mewn gorymdaith angladdol yr offeryn drwy yr hwn y cyfarfu y trengedig â'i angau, ymddengys yn debygol i'r alarnad a wnaeth Dafydd am Jonathan gael ei galw y bwa, a chael ei chanu gan feibion Juda mewn gorymdeithiau angladdol.

2 Sam. 14. 14. *Canys gan farw yr ydym ni yn marw, ac g'dym fel dyfroedd wedi eu tywallt ar y ddaear, y rhai ni chesglir.* "Mae y corph yn awr," medd Jowett, wrth son am gyffiniau Môr y Canoldir, "yn cael ei ddwyn i'r fynwent. Pan godwyd llech i fynu, canfuasom fod y fynwent yn gau odditanodd. Rhoddwyd y corph mewn arch waslach o bren, a gostyngwyd ef i'r bedd. Ni sylwais iddynt daenu pridd arno, fel y gwnawn ni; ond, yn lle hyn, offeirad a orphenodd y seremoni drwy dywallt gwydraid o ddwfr ar y corph. Ni ddeallais beth a arwyddai hyn; ond dygodd i'm cof yr ymadroddion cyffrous hyny, *Gan farw yr ydym ni yn marw, &c.*

Yn hanesion y Cyndeithasau Cenhadol (*Missionary Register*) am 1822, crybwyllir am seremontau angladdawl y bobl yn Ceylon. Hwy a losgant gorph y trengedig. Ar ol desgrifio y crug a barotoir i ddifa corph gwraig a'i phlentyn, a'r gwr yn bresennol, yn cael ei ganlyn fel yr arferir gwneuthur, gan eilliwr y teulu, dywedir, "Erbyn hyn yr oedd y gwr a'r eilliwr wedi dychwelyd, y gwr yn dwyn ar ei ysgwydd badellaid o ddwfr, gan mai efe oedd y perthynas nesaf. Gan ei dal yn ei law aswy, efe a rodiodd dair gwaith o amgylch y crug. Rhodiodd yr eilliwr ar ei ol ef, gan ddal ei law ddehau ar ei du ol, a tharo y badell, yn awr ac eilwaith, â blaen bilwg dyrysi a ddaliai efe yn ei law. Parai pob ergyd i'r dwfr lifo i waered yn firwd fechan. Wedi myned o amgylch dair gwaith, safodd y gwr gweddw a'i gefn at ben y corph, ac a fwriodd y badell i lawr o'i flaen, drwy yr hyn y drylliwyd hi."

1 Bren. 2. 10. *Felly Dafydd a hunodd gyda'i dadau, ac a gladdwdd yn ninas Dafydd.* Yn gyffredin cleddid y meirw y tu

allan i'r dinasoedd dwyreiniol, a chan mai dyma yr arferiad yn gyffredin, ni wahaniaethid oddiwrthi, ond ar 'achlysuron neillduol iawn. Yr oedd bod i un gael ei gladdu o fewn dinas, yn arwydd o anrhydedd nodedig. Un hanesydd, wrth won am daleithiau Barbary, a ddywed, "Ar bob tu i'r heol, ar y tu allan i'r porth, y mae llawer iawn o feddau. Mae eiddo y rhaglaw a'r ts-raglawiaid yn cael eu hadeiladu gerllaw porth y ddinas. Maent yn nghylch deg neu ddeuddeg troedfedd o uchder, yn cael eu gwylgachu yn gywrain iawn, ac wedi eu hadeiladu ar ddull nen-dŵr (*dome*). Hali Dey, fel arwydd nodedig o barch, a gafodd ei gladdu mewn bedd o fewn y ddinas. Cafodd ei fedd ei addurno dros ddeugain niwrnod, yn olynol, â blodau, a'i amgylchu gan bobl, y rhai a anfonent i fynu weddïau at Dduw dros ei enaid. Cyfrifid y *dey* hwn yn sant, ac yn anwyliad neillduol o eiddo y nefoedd, o herwydd iddo farw o farwolaeth naturiol; dedwyddwch na chaffai ond ychydig o'r ts-raglawiaid (*deys*) er pan sefydlwyd hwynt yn Algiers."

2 Cron. 33. 20. *Claddasant ef yn ei dŷ ei hun.* Tebygol iddynt ei gladdu yn ngardd ei dŷ. Yr oedd hyn yn gyson âg arferiad yr Iuddewon, 2 Bren. 21. 18. Yn y cyfryw le y claddwyd Crist. Yr oedd gan y Rhufeiniaid feddau weithiau yn eu gerddi. Cafodd yr ymerawdwr Galba ei gladdu yn ei ardd; ac felly y cafodd Cyrus, brenin Persia. Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn fynych yn claddu eu meirw yn eu tai eu hunain. Gorchymynid i'r Thebaniaid, cyn yr adeiladent dŷ, adeiladu bedd yn y lle.

Salm 56. 8. *Dod fy nagrau yn dy gostrel.* Ymddengys fod y geiriau hyn yn arwyddo fod yr arferiad o osod dagrau yn yr *ampullæ*, math o ystenau, adnabyddus iawn yn mysg y Rhufeiniaid, yn cymmeryd lle gynt yn mysg cenhedloedd dwyreiniol, ac yn enwedig yr Hebreaid. Yr oedd yr ystenau (*urns*) hyn yn cael eu gwneuthur o wahanol ddefnyddiau, rhai o wydr, rhai o bridd, fel y tystia haneswyr, y rhai a grybwyllant hefyd am eu gwahanol ddulliau. Cyfleid yr ystenau hyn ar feddau y meirwon, fel cof-arwyddion o ofid a serch eu perthynasau a'u cyfeillion gorfucheddol. Mae yn anhawdd deall y geiriau hyn o eiddo y Salmydd, ond gyda golwg ar yr arferiad hon. Os caniateir hyn, yr ystyr a fydd, *Bydded fy nghyfyngder, a'r dagrau a dywalltas o'i herwydd, yn wastadol ger dy fron di, i'th gynhyrfu i gofio yn dymer am danaf, ac i ddadleu â thi am i ti ganiatau i mi y cymmorth y safaf mewn angen am dano.*

Wrth son am y Persiaid, dywed *Morier* fel y canlyn: "Mewn rhai o'u cynulleidfaoedd galarus, arfero offeiriad fyned o amgylch bob person pan yn mawredd ei ofid, â darn o gottwm yn ei law, â'r hwn y casgla efe y dagrau yn ofalus, a'r rhai wedi hyny a wasga efe i gostrel, gan eu cadw gyda'r gofal mwyaf. Mae hyn, yn ymarferol, yn egluro yr ymadroddion hyny yn Salm 56. 8, *Dod fy nagrau yn dy gostrel*. Creda rhai Persiaid, pan byddai dyn yn loesau angau, a phob meddyginiaeth arall wedi methu, fod dyferyn o ddagrau, wedi eu casglu yn y modd hwnw, wrth gael ei osod yn ngenau y dyn, yn ei adfywio; ac at y cyfryw ddyben y cesglir hwynt."

Salm 91. 5. *Y saeth a chedo y dydd*. Wrth y saeth yma y golygir yr haint. Arabiad a lefara fel hyn am dami:—"Yr oeddwn i yn ewyllysio symud i awyr llai heintus. Derbyniais oddiwrth Solyman, yr ymerawdwr, y gennadwri hon,—fod yr ymerawdwr yn rhyfeddu pa beth a olygwn, wrth ewyllysio symud fy annedd. Onid saeth Duw yw haint, yr hwn yn wastadol a dery ei nôd? Os mŷn Duw ymweled â mi â hi, pa fodd y gallaf ei gochelyd? 'Onid yw y pla,' eb efe, 'yn fy mhalas i? ac eto nid wyf yn meddwl am symud.'" *Busbequius*.

Gosodir ahan yr un dyb gan *Smith*, yn ei sylwadau ar y Tyrciaid. "Beth," meddant hwy," onid saeth yr Hollalluog yw y pla? Ac a allwn ni ddianc rhag yr ergyd a gyfeiria efe atom? Onid yw ei law ef yn ddylsgog i daro y person yr amceno ato? A allwn ni redeg o'i olwg ef, a thu hwnt i'w gyrhaedd?" Dywed hanesydd arall, wrth son am yr ymerawdwr Curroon, "Cafodd ei ymerodraeth y flwyddyn hon ei harcholli â'r saethau hyny o eiddo Duw, y plâ, yr haint, a'r newyn, mewn modd mwy dychrynlyd nag a welwyd er ys mil o flynyddoedd cyn hyn. Gwel Ezec. 5. 16.

Salm 141. 7. *Y mae ein hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd*. Pa un a fwriadwyd yr ymadroddion hyn i gael eu deall yn gymhariaethol neu yn llythyrenol, adrodda Mr. *Bruce* amgylchiad a ddengys y gallant gael eu gwirio yn llythyrenol. "Am bump o'r gloch, gadawsom *Garigana*, ac aethom rhagom ar ein taith, gan gyrchu i'r dwyrain o *North*, ac am chwarter awr wedi chwech yn yr hwyr, daethom i bentref o'r enw hwnw, trigolion yr hwn oeddynt oll wedi trengu y flwyddyn flaenorol gan newyn; ac yr oedd eu hesgyrn heb eu claddu, ac yn wasgaredig ar hyd wyneb y tir lle y safasai y pentref yn flaenorol. Gwersyllasom yn mysg esgyrn



y meirw; ni ellid cael un man yn rhydd oddiwrthynt." I'r Iuddewon rhaid fod y fath olwg yn ddychrynllyd iawn, gan fod y diffyg o gladdedigaeth yn cael ei ystyried yr adfyd mwyaf a allasai ddygwydd iddynt.

"*Tacitus*, wrth son am y byddinoedd a dorwyd ymaith gan Harminius, yn yr Almaen, ac a adawyd ar wyneb y maes, a ddywed fod yr esgyrn yno yn mhen chwech mlynedd wedi hyny, pan ddygodd Germanicus ei fyddin i'r un lle. "Yn nghanol y maes, yr oedd esgyrn wedi gwynu, yn wasgaredig neu yn bentyrau, yn ol fel yr oedd y fyddin yn ffoi neu yn sefyll i wrthwynebu. Yn eu plith yr oedd darnau o offer drylliedig i'w gweled, ac aelodau ceffylau."

Haneswyr, wrth son am Affrica, a ddywedant,—“Gerllaw ffynnonau Omah, mae rhifedi mawr o benglogau dynion, neu ddarnau o honynt, yn wasgaredig ar hyd y tywod. Mae yr olwg ar benglogau gwynion, a darnau ereill o gyrph dynion, yn gyfryw un ag a dery fraw ar lawer.”

“Yn ystod y ddau ddiwrnod diweddaf, aethom heibio i yn nghylch o driugain i bedwar ugain neu chwaneg o yegerbydau (*skeletons*) bob dydd; ond yr oedd y rhai a orweddent o amgylch y ffynnonau yn El Hammar mor lluosog fel na allasid yn hawdd eu cyfrif.”

Esay 15. 2. *A phob barf wedi ei heillio.* Arferid yn y Dwyrain eillio, tori, neu dynu y farf mewn gofid mawr. Arwydda *Herodotus* fod pob cenedl, oddieithr yr Aiphtiaid, yn gwneuthur felly. Dywed *Suetonius*, pan ddaeth y newydd am farwolaeth Germanicus, i'r tywysogion dyeithriol dori eu barsau, yn arwydd o'r tristwch mwyaf. Gwel Ezra 9. 3; Jer. 41. 5, a 48. 37.

Esay 22. 16. *Fel yr hwn a drychai ei fedd yn uchel, ac a naddai iddo ei hun drigfa mewn craig.* Yn y llythyrau a ygrifenodd Mr. *Carnes*, o'r Dwyrain, dywed fel y canlyn,—“Wrth ddychwelyd i Thebes, ni a gychwynasom yn fore, i ymwelod â beddau y brenhinoedd. Maent yn gorwedd mewn math o gylch, a ffurfiwyd gan benau y mynyddoedd. Yn nghanol hwn y mae bwlch dwfn, ac yn ei waelod y mae y mynedfeydd i'r anneddau hyn o eiddo y meirw. Wedi myned i waered ar hyd rhes o risiau, agorwyd drws y bedd mwyaf, a chwasmor ffordd ya ein harwain i amrywiol o ystafelloedd. Yr oedd yr ystafelloedd yn bedair ar ddeg mewn rhifedi, wedi eu naddu allan o'r craig; yr oedd y muriau a'r nen wedi eu cuddio â lluniau wedi eu gwne-

thur yn y modd perffeithiaf. Cadwasant eu prydfferthwch, mewn rhan o herwydd fod yr awyr oddiallan wedi ei gadw oddiwrth-ynt, ac, hefyd, am fod y gofal mwyaf wedi ei gymmeryd i beidio eu niweidio. Ymddangosai y lliwiau mor gryfion ac eglur a phe na buasant wedi eu rhoddi yno ond er ys ychydig o flynyddau yn ol. Yr oedd y lluniau wedi eu tori yn dëg a dwfn yn y graig, rhai yn lās dwfn, rhai yn felyn, rhai yn goch, a chymmysg o wŷn ynddynt. Maent mewn rhai manau yn fychain, mewn manau ereill yn dair neu bedair troedfedd o uchder. Mae yr amlra hwn o liwiau, weithiau, yn dangos cynnydd y celfyddydau, neu gynnrychion amaethyddiaeth. Mewn un parth, gwelwch orymdaith crefyddol maith; mewn lle arall, brenin yn eistedd ar ei orsedd, wedi ei wisgo yn ei ddillad ardderchog, ac yn rhoddi gwrandauiad i'w ddeiliaid; neu ddarluniad o farwolaeth, lle y mae corph wedi ei osod ar elor, a galarwyr yn ei ganlyn. Gwelir yno hefyd lun amrywiol o anifeiliaid, gymmaint ag ydynt pan yn fyw, a rhifedi mawr o seirph, a lliwiau a dulliau eu cyrph wedi eu gosod allan yn brydferth iawn, ac yn enwedig un *boa* o faintioli mawr. Mewn rhai o'r ystafelloedd, nid yw yr addurniadau ar y muriau a'r nen ond mewn rhan wedi eu gwneuthur, ac amlwg yw i'r gwaith gael ei adael heb ei orphen."

Esay 26. 19. *Dy feirw a fyddant byw, fel fy nghorph i yr adgyfodant.* Arferiad hen iawn yw planu llysiau a blodau o amgylch beddau y meirwon. A allasai yr arferiad hon ddim dechreu oddiwrth y grediniaeth o'r athrawiaeth o adgyfodiad, neu, efallai, oddiwrth y geiriau uchod?

Mae y gwragedd yn yr Aipht, yn ol tystiolaeth *Maillet*, yn myned, o leiaf, ddau ddiwrnod yn yr wythnos i weddio ac i wylo wrth feddau y meirw; a'r arferiad y pryd hwnw yw, taflu ar y bedd fath o lysieuyn, yr hwn a eilw yr Arabiaid *riban*, yr hwn yw ein *basil* peraidd ni. Hwy a'u cuddiant hefyd â dail y palmwydd. Defnyddir *myrtle*, hefyd i addurno y beddau. Gwelodd *Chandler* rai yn Asia Leiaf, y rhai yr oedd cangen o *fyrtle* wedi ei phlanu wrth ben a thraed pob un o honynt. *Dalla-way*, wrth roi hanes Caercystenyn yn yr amser gynt ac yn ddiweddar, a desgrifio bedd-adeiladau y Tyrciaid, a ddywed,—“Gan fod hyd yn nod y bedd gwaelaf yn cael ei nodi allan drwy fod cypreswydd yn cael eu planu wrth y pen a'r traed, mae llawer iawn o'r coed hyn i'w gweled o bob maintioli. Mae beddau y gwyr i'w hadnabod wrth fod llun *turban* atnynt, yr hon, fel co-

ronig (*coronet*) gyda ni, a ddynoda radd y trengedig. Ar feddau y menywod y mae pen crwn. Mae llythyrenau aur cywrain iawn yn cael eu rhoddi arnynt, ar waelod dŷ. Rhwng rhai o'r beddau hyn y mae cist addurnedig o gareg yn cael ei gosod, wedi ei llenwi o bridd, yn yr hwn y plenir llysiau a blodau pêr eu harogl. Mae y rhai hyn yn cael eu trin yn rheolaidd gan fenywod perthynol i'r teulu, y rhai a ymgynnullant yn dyrfaeodd at y ddyledswydd hönö."

"Mae y menywod," medd *Walpole*, "yn fanol iawn yn eu hymweliadau â heddau eu perthynasau; yn mhob bedd-adail y mae llestr pridd bychan, wedi ei osod i mewn yn un pen; yn y llestr hwn cedwir yn barhaus gangen o *fyrle*, neu ryw blanhigyn bychan arall, ar yr hwn y tywallant ddwfr yn unig, a chadwant ef gyda'r gofal mwyaf."

Dywed *Rauwolf*,—"Maent yn rhoddi *myrtles* gwyrddion mewn tyllau bychain o amgylch y beddau; a thybiant fod eu perthynasau yn happus tra y parhao y rhai hyn yn wyrddion ac y *cadwont eu lliw*."

"Y Nubiaid," medd *Burckhardt*, yn hanes ei daith yn Nubia, "a osodant lestr pridd wrth ochr pob bedd, yr hwn a lanwant o ddwfr y funud y cleddir y trengedig, a gadawant ef yno. Cuddir y bedd ei hun â cherig mân o amrywiol liwiau, a phlenir dwy balmwydden wrth bob pen i'r bedd. Fel hyn daw yr arwydd o fuddugoliaeth, yn Nubia, yn arwydd o farwolaeth."

*Raffles*, yn ei hanes am Java, a ddywed,—“Mae y corph yn cael ei gladdu yn ol dull y Mohammedaniaid, a phlenir pren yn gyffredin wrth ei ochr. Arfero perthynasau y trengedig yn gyffredinol amrywiol o weithiau yn y flwyddyn daenu blodau pêr eu harogl ar y bedd, y rhai a godir yn unig i'r perwyl hwn.”

Mae *Holderness*, yn yr hanes a rydd efe am y Tartariaid, yn dywedyd,—“Maent yn cynnal gŵyl yn flynyddol i gadw coffadwriaeth am farwolaeth eu perthynasau, ar ba achlysur y mae holl fenywod a merchod y pentref yn ymweled â'r bedd. Mae y perthynasau nesaf yn aros i ddarllen a gweddio wrth y bedd dros yn nghylch awr, ac mae y menywod ereill yn trefnu eu hunain o fewn ychydig bellder; wedi gorphen gyda'r gweddiau, mae pawb yn eistedd i lawr yn nghyd yn ngolwg y bedd, pan y mae teisenau o fara yn cael eu rhanu yn mysg y cwmpeini.”

Jer. 16. 8. *Na ddos i dŷ gwledd, i eistedd gyda hwynt i fwyta ac i yfed. Y mae gwneuthur gwledd angladdol yn hen ffordd o*

anrhydeddu y meirw, ac arferir hi eto yn y Dwyrain. Dywed *Chardin*, "Mae y Cristionogion dwyreiniol o hyd yn gwneúthur gwleddoedd o'r fath hyn, yn ol arferiad a gymmerasant oddiwŷth yr Iuddewon; ac mi a fŷm lawer gwaith yn bresennol ynddynt yn mysg yr Armeniaid yn Persia." Llefara y seithfed adnod am y darpariadau y rhai yr arferent eu hanfon i dŷ y trengedig, ac am yr iechyd a arferent yfed i'r gorfucheddwy'r perthynol i'r teulu, gan ddymuno i'r trengedig fod yn aberth dros bechodau y teulu. Cedwir yr un arferiad gyda golwg ar fwyta yn mysg yr Ethiopiaid. Fel hyn, *bara dgnion*, Ezech. 24. 14, a arwydda y bara a fyddai cymmydogion, perthynasau, a chyfeillion, yn anfon i alarwyr. *Harmér.*

*Burckhardt*, hefyd, yn hanes ei daith drwy Nubia, a ddywed, "Wrth farhogaeth yn mlaen, gwahoddwyd ni i wledd ang-laddol gan breswylwyr tŷ a berthynai i ryw berthynasau i dywyogion Nubia. Yr oedd y perchenog wedi marw ychydig o ddyddiau cyn hyny mewn lle ychydig o'r fan; ar y derbynriad o'r newydd am ei farwolaeth, yr oedd ei berthynasau yma wedi lladd buwch, a'r hon yr oeddynt yn gwledda yr holl gymmydogion. Yn y pelder o ddwy filltir o'r pentref, cyfarfyddais â gwragedd yn dwyn dysgleidiau o'r bwyd ar eu penau; yr oedd y rhai hyn wedi bod yn derbyn eu cyfran o'r darpariadau. Ni leddir gwartheg ond gan bobl o radd uchel, ar farwolaeth perthynas agos. Boddlona y bobl yn gyffredin ar ddafad, neu afr, cig y rhai a renir yn yr un modd. Nid yw y dosbarth tlotaf ond yn rhanu ychydig o fara wrth fedd y trengedig."

Dywed yr un hanesydd mewn lle arall, "Efe a'm harweiniodd i dŷ lle y cefais rifedi mawr o bobl wedi ymgasglu i gadw coffadwriaeth am ryw berthynas ag oedd wedi marw yn ddiweddar. Yr oedd un dyn yn darllen yn y Coran â llais isel. Daeth un arall o uwch gradd nag ef i mewn wedi hyny, dyfodiad yr hwn oedd yr arwydd i adrodd ymadroddion o'r Coran, mewn can-iadau uchel, yn y modd yr arferir gwneuthur yn y Dwyrain, yn yr hyn yr unais i â hwynt. Parhawyd gyda hyn dros yn nghylch hanner awr, hyd nes y dygwyd ciniaw i mewn, yr hwn oedd yn gyflawn iawn, gon fod buwch wedi cael ei lladd ar yr achlysur. Wedi gwneuthur pryd da o fwyd, dechrenasom drachefn ar ddarllen. Dygodd un yn mlaen fagedaŷd o gerig mân gwynion, uwchben y rhai y darllenwyd amrywiol o weddïau. Yr oedd

y cerig mân hyn wedi cael eu bwriadu i gael eu gwaagaru ar fedd-adaill y trengedig, yn y dull y gwelsom lawer gwaith eu bod wedi gwnethur ar fedd-adeiladau newydd gael eu codi. Wrth ymofyn ynghylch yr arferiad hon, y darlennydd a ddywedodd wrthyf, ei bod yn weithred haeddiannol iawn, nad oedd angenrheidrwydd neillduol am dani; ond y tybid y gallasai fod yn dda gan enaid y trengedig, pan yn ymweled â'r bedd-adaill ar ol hyn, gael y cerig mân hyn, mewn trefn i'w defnyddio fel gleiniau (*beads*) wrth gyfeirio ei weddïau at y Creawdwr."

Syr R. K. Porter, yn hanes ei daith drwy Persia, a grybwylla am arferiad gyffelyb. "Yn ngŵyl y dyfroedd," medd efe, "yn Persia, ynmysg tystiolaethau lawer ereill o ewyllys da, mae wyau, wedi eu lliwio neu eu goreuro, yn cael eu rhoddi gan y naill i'r llall gan y dyrfa gynnulledig yn yr ŵyl, yn yr un modd ag y rhoddir hwynt gan y naill i'r llall ar ŵyl y Pasg gan aelodau eglwys Groeg.

Ezec. 39. 15. *A'r tramwywyr a gynniweiriant drwy y tir, pan welo un asgwrn dyn, efe a gyfyd nod wrtho, hyd oni chladdo y claddwyr ef yn nuffryn Hamon-gog.* Dr. Shaw, wrth lefaru am yr Arabiaid gwylltion, a ddywed,—“Mae ynddynt oll yr un tueddiad, pa bryd bynag y caffont gyfle priodol neu brofedigaeth, at yspeilio, dyosg, a llofruddio, nid yn unig dyeithriaid, ond y naill y llall hefyd. I brofi hyn, ni raid i mi ond yn unig cofâu yr amrywiol bentyrau o esgyrn a gyfarfuasom mewn llawer o fanau yn Barbary ac yn ngwlad Canaan, y rhai, o bryd i bryd, a godwyd (fel cynnifer o arwyddion, Ezec. 39. 15) uwchben teithwyr wedi cael eu llofruddio yn greulon fel hyn; mae yr Arabiaid, yn ol arferiad ofergoelus yn eu plith, yn taffu bob un ei gareg atynt, pa bryd bynag yr ânt heibio iddynt.” Gwel Josua 7. 26, a 8. 29; 2 Sam. 18. 17.

Joel 3. 2. *Casglaf yr holl genhedloedd, a dygaf hwynt i wacred i ddyffryn Jehosaphat.* “Mae yn awr yn bryd i fyned dros yr afon Cedron, ac ymweled â dyffryn Jehosaphat, fel y gelwir ef yn gyffredin, ond yr hwn yn y bedwaredd bennod ar bymtheg o Jeremia, a elwir dyffryn mab Hinnom, neu ddyffryn Tophet, yr hwn sydd wrth ddrws porth y cŵyrain, disgrifiad a etyb yn gywir i sefyllfa dyffryn Jehosaphat gyda golwg ar Jerusalem. Tir gwaetad cerigog ydyw, gan mwyaf o hono, ag ynddo ddarnau yma a thraw o dir priddlyd. Mae yn estyn o'r pentref bychan Siloa i'r

gogledd, rhwng yr afon Cedron a mynydd neu Fryn yr Olewydd, ac y mae yn gorwedd i'r dwyrain o Jerusalem. Gelwir ef gan Josephus dyffryn Cedron. Iuddewon Jerusalem gynt, ac hefyd ya ddiweddar, a'i defnyddient yn gladdfa. Mae ynghylch hanner milltir o afon Cedron i Fynydd yr Olewydd, a cherllaw yr un pellter o Siloa i erddi Gethsemanc. Y ffyrdd i Fynydd yr Olewydd, Bethania, Jericho, y Môr Marw, ac afon yr Iorrdonen, a ânt drwyddo. Mae yn llawn o feddau yn mhob cwr, wedi eu naddu yn y graig; mae rhai o honynt yn helaeth, yn arwyddo sefyllfa uchel eu hen berchenogion; ond mae y rhan amlaf yn fychain ac o faintioli cyffredin. Mae ymadroddion Hebreig ar hyd-ddynt yn eu cuddio, lawer o honynt, o amseriad ac ystyr y rhai yr wyf yr hollol anwybodus, megys yr wyf o'r iaith yn yr hon y maent." *Richardson's Travels along the Mediterranean.*

Marc 5. 8. *Yn ochain llawer.* Mae yr arferiad o rod-di galar-wragedd, crefft y rhai yw galaru, yn ffynu o hyd yn y Dwyrain. *Shaw*, wrth lefaru am angladdau yr Ethiopiaid, a ddywed,—“Mae amrywiol o fenywod cyflogedig i weithredu ar yr achlysuron hyn, y rhai, fel y galar-wragedd gynt, ydynt sedrus yn y grefft o alaru, Amos 5. 16, ac yn gyfarwydd iawn yn yr ymadroddion pruddaidd hyn (hyny yw, fel y sylwasai efe o'r blaen, bloeddio allan yn nghyd amrywiol o weithiau, *loo, loo, loo*, mewn llais dwfn cau, yn nghyda rhoddi allan amrywiol o ocheneidiau fel pe deuent o waelod y bol). Ac yn wir maent yn cyflawni eu gorchwyl gyda'r fath leisiau, ystumiau, a chynhyrfaeau priodol, fel mai anfynych y methant gyffroi y gynulleidfa i ryw radd anarferol o feddylgarwch a thristwch. Effeithid yn rhyfedd iawn lawer gwaith ar y bobl yn y weithfa Seisnig gan y galar-nadau hyn, pa bryd bynag y caffent eu gwneuthur yn y tai gymmydogol.” Rhydd *Niebuhr* hanes cyffelyb:—“Perthynasau gwraig Mohammedan marw, ddim yn tybied y gallent eu hunain alaru yn ddigonol am dano, neu yn cael y gorchwyl o alaru o hyd yn rhy boenus, yn gyffredin a gysflogant i'r perwyl hwn rai gwragedd ag a ddeallant y grefft hon, a'r rhai a roddant allan lefau alaethus o'r funud y byddo y dyn farw hyd nes y cleddir ef.” Gwel Jer. 9. 17, 18.

Mae bod lliaws yn ymgasglu yn nghyd i fan lle y byddo personau yn ddiweddar wedi marw, ac yn galaru am danynt mewn modd trystfawr, yn beth arferol eto yn y Dwyrain, ac ymddengys

yr ystyrir hyny yn anrhydedd a wneir i'r trengedig. Dywed *Chardin* fod y lluaws a ymgynnulla i fanau lle y byddo personau meirw yn gorwedd, yn anghredadwy mewn rhifedi. Rheda pawb yno, cyfoethog a thlawd; a'r cyntaf yn enwedig a wna swm dyeithr.

Yn mysg amrywiol o haneswyr, wrth son am wledydd Dwyr-einiol, *Clarke*, yn hanes ei daith, a ddywed,—“Yr hwyr cyntaf wedi ein symudiad i'n hannedd newydd, difyrwyd ni gan fath o beroriaeth o leisiau dynion, y cyfryw ag na chlywsem ni erioed o'r blaen ei gyffelyb. Dechreuodd yn nghylch gostyngiad haul, a pharhaodd, heb ond ychydig o orphwysdra, nid yn unig yr holl nos hōno, ond drwy amrywiol o'r nosweithiau a'r dyddiau canlynol. Yr oeddem ar y cyntaf mewn dyrswch pa un a oedd y swm a glywem yn ddangosiad o lawenydd neu o alar. Math o gynghanedd yn gymmysgedig âg ysgrechau, eto yn cael ei reoleiddio âg ergydion ar dympanau, yn awr a chwyddai ar y glust, ac yna gostyngai mewn modd mwynaid. Mynychid hyn yn barhaus, ac fel y clywem y swm yn darfod, clywem ef yn cael ei adnewyddu gyda nerth mwy. Wedi i ni holi yn nghylch yr achos, dywedwyd wrthym nad oedd yn ddim mwy na'r seremoni arferol wrth alaru am berson wedi marw, drwy gymmorth menywod at alaru, y rhai a gyffogid ar yr achlysur. Ni a anfonasom ein cyfieithydd i'r tŷ o'r hwn y deuai y swm allan, gan ddy-muno arno i sylwi yn neillduo! ar y geiriau a ddefnyddid gan y cantorion yn eu galarnad. Efe a ddywedodd wrthym, ar ei ddychweliad, y gallasem, os barnem hyny yn briodol, eu cael i gyflawni y seremoni yn ein hystafelloedd ein hunain; mai gwragedd oedd yn canu, ag oeddynt wedi cael eu cyflogi i ganu a galaru yn y modd hwn; pa gyfoethocaf fyddai y teulu, lliosocaf fyddai y personau cyflogedig, ac, o ganlyniad, uwchaf oll fyddai eu galarnadau; fod y cantoresau hyn yn gwneuthur yr ystumiau mwyaf dychrynlyd; fod eu gwallt ar led, eu dillad yn ddrylliedig, a'u gwynebau wedi eu dwbio â phaent a thom; fod gwragedd ereill yn dyfod yn eu lle weithiau i gyflawni yr un gorchwyl; ac fel hyn gellir cynnal y seremoni dros unrhyw hyd o amser. Un o brif ranau y seremoni yw, cymmysgu â'u hudfeydd y cyfryw ymadroddion mewn modd galarus o glod a thosturi, y fath hanes cyffrous am alwcdigaethau, meddiannau, a chymmeriad y trengedig, a'r fath ymfyniad yn nghylch ei resymau am adael y rhai,

yn ystod bywyd, y profesai eu caru, ag a allant gynhyrfu dagrau ac ocheneidiau y perthynasau a'r cyfeillion cynnulledig o amgylch y corph."

Yr oedd yr un arferiad yn mysg y Tartariaid; a cheir hi yn mysg hyd yn nod pobl *Greenland*. "Mae y gwragedd yn parhau yn hir i wylo a galaru. Mae eu hudfa oll mewn un llais, fel pe byddai offeryn yn chwareu mewn modd cryf. Gorphwysant ychydig yn awr ac eilwaith." *Crantz's History of Greenland*. Gwel 2 Cron. 65. 25; Barn. 11. 39, 40.

Mat. 8. 28. *Ac wedi ei ddyfod ef i'r lan arall, i wlad y Gergesiaid, dau ddiestig a gyfarfuant âg ef, y rhai a ddeuent o'r beddau.* Dywed Mr. *Light*, yn hanes ei deithiau, "Gan na thueddid fi f dderbyn y cynnygion a wnaed i mi i aros yn Tiberias, gadewais y lle yn fore dranoeth, yr llog o Fedi, aethum gydag ymyl y llyn, sethrais ar y tir nodedig am y gwyrrth yn nghylch yr ysbryd aflan, yr hwn a fwriwyd allan gan ein Iachawdwr i blith y moch. Mae y beddau i'w gweled eto yn null ogofau, ar ochrau y brynau ag sydd yn ymyl y llyn; ac oddiwrrth eu hymddangosiad hyll gellir yn briodol eu hystyried fel anneddau dynion ffyrnig iawn, rhai dieffig; gorweddant yn y pellder o fwy na milltir oddiwrrth y dref bresennol." Mr. *Buckingham*, yn hanes ei deithiau yn ngwlad Canaan, a ddywed, "Oddiwrrth y bedd hwn ni a aethom at un ag oedd eto yn fwy perffaith, yr hwn oedd wedi ei lanhau yn llwyr, ac a ddefnyddid yn awr fel tŷ i anneddu ynddo. Er fod menywod y tŷ i mewn, caniatawyd i ninau fyned i mewn, a disgynasom ar hyd tair gris, ac yr oedd naill ai pydew neu fedd dwfn ar y llaw ddehau i'r grisiau. Yr oedd y mŵd (*arch*) uwchben y drws i'w gweled, ac yr oedd wedi ei haddurno â cherfiadau ar ddull blodau; yr oedd y drws yn ddwy ran, ac yr oedd dolen y ddôr-forthwyl (*knocker*) yn aros, er fod y ddôr-forthwyl ei hun wedi syrthio ymaith. Yr oedd y drws yn troi yn rhwydd ar ei golyn, a chawsom ryddid i'w agoryd a'i gau fel y mynem. Yr oedd y bedd oddeutu wyth troedfedd o uchder yn y tu mewn, o herwydd yr oedd disgyniad lled fawr o'r trothwy i'r llawr. Yr oedd mewn maintioli oddeutu deuddeg ystâd petryal; ond megys nad oedd goleuni yn dyfod i mewn ond drwy y drws, nid allem ni weled pa un a oedd ystafell yn nes i mewn ai peidio, fel yr oedd mewn rhai o'r lleill. Yr oedd y lle hwn, yr hwn a



fuasai unwaith yn annedd y meirw, wedi cael ei wneuthur yn drigfa ddiogel, oer, a chyflens i'r byw."

Mae y beddau yn fynych yn lleoedd ag y try teithwyr blinedig iddynt pan yn cael eu goddiweddyd gan y nos; ac y maent hefyd yn lleoedd ag yr ymguddia lladron a llofruddion ynddynt, y rhai a ruthorant allan i gyflawni eu difrodiadau nosawl.

Mat. 23. 27. *Tebyg ydych chiwi i feddau wedi eu gwynnu, y rhai sydd yn ymddangos yn deg oddiallan, ond oddimewn sydd yn llawn o esgyrn y meirw, a phob aflendid.* Mae teithwyr ag a fuont drwy wledydd y Dwyrain, yn rhoddi desgrifiad manwl o feddau yr hynafiaid. Rhydd *Shaw* yr hanes canlynol am danynt: "Oddieithr ychydig bersonau y rhai a gleddir o fewn terfynau rhyw deml, mae y cyrph yn cael eu dwyn allan i ryw ychydig o bellder oddiwrth y dinasoedd a'r pentrefi, lle y mae helaethrwydd o dir wedi cael ei drefnu yn dir claddu. Mae i bob teulu ei ran neillduol o hono, wedi ei furio i mewn fel gardd, lle y mae esgyrn eu hynafiaid wedi cael aros dros lawer o genhedlaethau heb gael eu hafonyddu; canys yn y lleoedd hyn a gair i mewn, y mae pob bedd ar wahan, a chareg wedi ei gosod yn syth wrth y pen ac wrth y traed, âg enw y person sydd yn gorwedd, yno wedi ei gerfio arni; yn y tir rhwng y beddau y mae blodau yn cael eu planu, neu cuddir ef â llechau teneuon. Mae beddau y prifddinasyddion yn cael eu gwahaniaethu yn mhellach drwy fod ystafelloedd petryal neu dyrau yn cael eu hadeiladu arnynt, Marc 5. 3. Yn awr, gan fod yr holl fathau gwahanol hyn o feddau, yn nghyda'r muriau a'u cylchynant, yn cael eu cadw yn wastadol yn lân, eu gwyn-galchu, a'u prydferthu, parhânt hyd y dydd hwn i fod yn esponiad godidog ar y geiriau hyny o eiddo ein Iachawdwr, yn y rhai y llesara efe am addurno beddau, Mat. 23. 29, a thrachefn, adn. 27, lle y cymhara efe yr ysgrifenyddion, y Pharisaeid, a'r rhagrithwyr, i feddau wedi eu gwynnu." Mae yr hyn a adroddwyd yma yn rhoddi i ni esponiad ar Mat. 8. 28, lle y sonir am y rhai dieffig y rhai a *ddeuent o'r beddau*. Mae yn amlwg y gallent drigo mewn lleoedd ag oeddynt wedi eu gwneuthur fel ystafelloedd.

Dichon mai priodol fyddai chwanegu at y dyfyniad uchod, mai peth arferol oedd planu llysiau a blodau naill ai ar neu gerllaw y bedd. Mae y gwragedd yn yr Aipht, yn ol *Maillet*, yn myned "o leiaf ddau ddiwrnod o'r wythnos i weddio ac i wylu wrth

feddau y meirw; ac arferant y pryd hwnw dafu ar y beddau fath o lysieuyn a eilw yr Arabiaid *riban* neu *rihan*, a'r hwn yw ein *basil* peraidd ni. Maent yn eu cuddio hefyd â dail palm-wydden." Mae y *myrtle*, yr hwn a ddefnyddiwyd lawer gwaith ar achlysuron gorfoleddus, yn cael ei ddefnyddio gan bobl y Dwyrain i addurno beddau y meirw; canys dywed *Dr. Chandler* wrthym, iddo ef yn ei deithiau yn Asia Leiaf, gael allan rai beddau Tyrcaidd yno, wrth ben a thraed pob un o ba rai yr oedd *myrtle* wedi ei blanu. Mae *Rauwolf* yn son am yr un amgylchiad. Yn Aleppo, y mae *myrtles* lawer iawn yn tyfu, y rhai y mae y bobl yn eu planu ac yn eu dwyn i fynu yn ofalus iawn, o herwydd eu bod yn brydferth, ac yn aros yn hir yn wyrddlas, i'w gosod o amgylch eu beddau.

*Mr. Blunt* a grybwylla sylw ynghylch y matter hwn, a wnaethai efe. "Pan rodder maen mynor ar gorph marw, mae twll, oddeutu llathen o hŷd, a throedfedd o led, yn cael ei dori yn nghanol y maen; yn hwnw maent yn planu y cyfryw flodau ag sydd yn parhau yn wyrddlas o hyd drwy y flwyddyn, y rhai yr'ymddengys eu bod yn tyfu o'r corph marw, gan feddwl drwy hyny ei ddwyn drachefn i weithrediad, er nad yn y dosparth o greaduriaid teimladwy, eto yn y dosparth llysteuog, yr hwn yw y dosparth nesaf, a'r hwn sydd, fe allai, yn ddyrchafiad uwchlaw y llwch."

Arferai yr Iuddewon osod calch gwŷn ar eu beddau, fel y gellid eu hadnabod, ac y gallai offeiriaid, Nazareaid, a theithwyr eu gochelyd, rhag eu halogi. Yn awr, o herwydd fod y gwllaw yn golchi y calch hwn ymaith, ar y dydd oyntaf o fis Adar (Chwefror), yr amser yr arferent adgyweirio y prif-flyrdd, hwy hefyd a roddent galch ar eu beddau; a gwnaent felly hyd yn amser eu gwyliau. Hwyl a ddefnyddiant bridd-galch (*chalk*), oblegid yr ymddangosai yn wŷn fel esgyrn.

*Mr. Forbes*, yn ei hanes am y Dwyrain, a ddywed fel y canlyn: "Ar ein dyfodiad i Betwah, lle ag y dywedwyd wrthym ei fod unwaith yn rhaŷ o faesdrefi Ahmedabad, yn Hindwstan, ond oedd yn awr yn bentref wrtho ei hun, bum milltir oddiwrth furiau y ddinas, arweiniwyd ni i betryal helaeth, yn yr hon yr oedd amrywiol o feddau Mohammedaniaid, a rhai bedd-adeiladau ardderchog iawn; rhai o fynor gwŷn, rhai ersill o gerig, wedi eu cuddio â defnydd gwŷn fel *alabaster*, ac wedi ei gaboli yn ofalus iawn;

Yr oedd y nen-dyrau yn cael eu cynnal gan golofnau heirdd iawn, y rhai oeddynt wedi eu haddurno mewn modd godidog, ac yr oedd y palmant wedi ei drefnu mewn modd prydferth, cyffelyb i'r hwn oedd yn Rhufain gynt. Mae y gwaith ar y ffenestri yn gyffelyb i'r gwaith *Gothic* a welir ar rai ffenestri mewn eglwysi cadeiriol yn Ewrop; ac y mae y nen-dyrau bychain ag sydd ar bob bedd-adail, o fynor tég, wedi cael eu haddurno â lluniau ffrwythau, ac hefyd â meini gwerthfawr; maent wedi eu trwsio mor hardd ag y trwsir blychau trelwch yn Ewrop. Mae y beddau bychain ag ydynt yn nghanol yr adeilad, wedi eu haddurno âg aur ac arian, ac mae wyau estrysiaid a lampau wedi eu crogi arnynt o amgylch: mae y lampau yn cael eu cadw i losgi yn feunyddiol gan bersonau a gynelir yno i'r perwyl hwnw."

Dywed un hanesydd mewn lle arall,—“Gerllaw y rhan amlaf o'r dihasoedd Mohammedanaidd yn Asia, y mae claddfeydd helaeth, gan na oddefir i un fod tu fewn i'r muriau. Yn y claddfeydd hyn, y mae amrywiol o demlau prydferth, weithiau yn cael eu cynnal i fynu gan golofnau heirdd, ac yn agored ar bob tu; mae rhai ereill yn gauedig fel ystafell mewn bedd heb ddim ond un drws iddi; mae i bob un fedd-adail o fynor yn y canol, dan yr hwn rhoddwyd corph y tröngedig. Mae y teithiwr blinedig yn fynych yn cael cysgod yn y claddfeydd hyn, pan yn cael ei ddal gan y nos, ac heb un lle gwell i'w gael; ac mae eu cilfachau hefyd yn ymguddfeydd i ladron a llofruddion, y rhai a rutherant allan o honynt i gyflawni eu difrodiadau yn y nos.”

Mewn lle arall rhydd yr un gwr i ni yr hanes canlynol:—“Cefais hyfrydwch mawr wrth edrych ar y bedd-adeiladau ardderohog yn Betwah, ond sierhaodd rhai o'r bobl i mi eu bod lawer yn waelach na'r rhai oeddynt yn Agra a Delhi, lle yr oedd eyfoeth a gwychder ymerodrol wedi uno i addurno bedd-adeiladau y tywysogion Mogulaidd, ac eiddo eu tywysogegau. Y mynor tecaf a allesid gael oedd y defnydd mwyaf cyffredin yn yr adeiladau godidog hyn; canys y rhanau addurniadol, y rhai oeddynt fwäau ag arnynt luniau ffrwythau a blodau yn eu lliwiau naturiol, a wnelid i fynu yn hollol o feini gwerthfawr, megys *agates cornelians*, &c., y rhai ydynt mor ardderchog a'r darnau cywreimaf o'r mynor amryliw yn Florence, yn yr Eidal. Mor rymus mae y rhai hyn yn dwyn ar gof i ni wirionedd a phrydferthweh yr iaith gyfelybiaethol yn yr Ysgrythyr Santaidd, pan yn addaw lla-

wenydd mawr ac ysbrydol drwy gyffelyblaethau a gymmerwyd oddi-wrth balasau dwyreiniol." Essay 54. 12; Dat. 21. 11.

*Beaufort*, hanesydd arall, wrth lefaru am danynt, a ddywed,—“Y beddau ydynt adeiladau bychain, yn sefyll bob un wrtho ei hun, a chan mwyaf o'r un maintioll, er yn gwahaniaethu yn maintioli eu gwahanol ranau. Mae mŵd (*arch*) wedi ei gwneuthur yn y nen, a'r muriau wedi eu dwbio â *plaster*, yn yr hwn y mae gronynau bychain o briddfeini cochion wedi eu llosgi. Mae yn mhob bedd ddwy ystafell; mae yr un nesaf i mewn wedi ei rhanu yn gelloedd, neu wag-leoedd i dderbyn y cyrph, ac mae yn yr un nesaf allan wag-leoedd bychain, fel pe buasent wedi eu bwriadu i osod yr offrymau angladdol arnynt, neu yr ystenu a ddalient y lludw. Dichon fod y rhag-ystafelloedd hyn wedi cael eu bwriadu hefyd i'r galarwyr gyflawni eu seremonïau a galaru ynddynt. Maent wedi eu haddurno mewn modd godidog iawn.”

*Irby a Mangles*, yn hanes eu tethiau yn yr Aipht, a roddant yr hanes canlynol am y beddau dwyreiniol:—“Ar y tu arall i'r afon, ar fryn bychan, y mae bedd tywysog (*sheikh*) yn cael ei gylchynu â mur petryal, o fewn yr hwn yr oedd rhai coed. Mae yn yr Aipht a Syria rifedi mawr o'r beddau hyn, y rhai a adeilada yr Arabiaid er coffadwriaeth am unrhyw ddyn y tybiont ei fod wedi byw bywyd santaidd; canys y mae y teitl *sheikh* yn cael ei roddi nid yn unig i'w penaethiaid, ond hefyd i'w saint. Mae y bedd-adeiladau hyn, yn gyffredin, yn cael eu codi ar ryw le amlwg; yn fynych ar ben rhyw fynydd. Y bedd sydd ystafell fechan â nen-dŵr iddi, wedi ei wynu oddiallan; oddimewn y mae rhestog (*mat*) ac ystenaïd o ddwfr, fel y byddo i'r rhai a neillduant yno i gyflawni eu crefyddolderau, allu ymolchi.”

Mat. 27. 10. *Maes y crochenydd* Mae yn gorwedd o'r tu allan yn ymyl mur y ddinas, ar y gongl ddeheu-ddwyrain, yn nghylch milltir oddiwrth y deml. “Ar y tu gorllewinol i ddyffryn mab Hinnom,” medd *Maundrell*, “y mae lle a elwid gynt Maes y Crochenydd, ac wedi hyny Maes y Gwaed, ond yn awr Campo Sancto. Nid yw ond darn bychan o dir, ynghylch deg llathen ar hugain o hyd, a phymtheg o led; ar hanner yr hwn y saif adeilad petryal, wedi ei godi i fynu yn esgyrn-dŷ. Y mae hi yn ddeuddeg llathen o uchder. I'r adeilad hwn gollyngir cyrph meirwon i waered drwy y pen, yn yr hwn y mae pump twll wedi eu gadael yn agored i'r perwyl hwnw, drwy y rhai y gellir eu gweled mewn gwahanol raddau o bydriad.”

Mae crochanau pridd yn gyffredin iawn drwy holl Asia; ac oddiwrth yr hyn a ddarllenwn am faes y crochenydd, ymddengys iddynt fod yn gyffredin yn India, lle y neillduid tiroedd at eu gwneuthur. Yn India mae y tir yn cael ei roddi gan y perchonog, ac o herwydd hyny mae efe yn cael ei ddiwallu a chrochanau am bris isel. Paham y cafodd maes y crochenydd ei ddewis o flaen un arall yn dir claddu, a ellir gasglu oddiwrth yr hanes canlynol; canys, yn ol pob tebygolrwydd, yr oedd yr un achosion ag oeddynt yn ei anghymhwysu i gael ei droi yn dir ŷd, yn bodoli i'r un graddau yn ngwlad Canaan. Tir claddu oedd un o'r ychydig ddybenion at ba rai y gallasid ei droi.

"Teithiasom," medd *Parson*, "dros un awr ar ddeg heddyw, a'r chwech olaf heb orphwys. Ymddangosai fod y tir y teithiasom drosto wedi ei daenu drosodd â darnau o lestri pridd gwyrddion, y rhai oeddynt mor lliosog fel y gallasid casglu pentyrau mawrion o honynt cyn myned rhag ein blaen filltir o dir. Ymfynais yn nghylch yr achlysur o'r darnau hyn; a'r hysbwrwydd a gawsom gan y rhai a'n tywysent, oedd, fod y rhan fwyaf o'r gwastadedd, mewn oesau blaenorol, yn cael ei breswyllo gan grochenyddion; o herwydd bod yn y tir yr amser hwnw, fel sydd yn awr, lawer o glai glâs at eu gwasanaeth; iddynt symud eu gweithfeydd o le i le, fel yr oeddynt yn difa y clai, neu fel yr oedd eu hamgylchiadau yn gofyn. Mae y bobl yn awr yn Bagdad yn gwneuthur y fath hyn o lestri pridd, a ñiw glâs dysglaer arnynt. Pan dywyno yr haul, ymddengys fel gwyrdd gwyrd, yr hwn sydd yn niweidiol iawn i'r llygaid. Ni allant aredig y tir hwn, o herwydd dryllid traed anifeiliaid a dynion wrth ei drin."

Luc 11. 47. *Beddau y prophwydi*. Mr. *Buckingham*, yn hanes ei daith drwy Wlad Canaan, a ddywed, "Ni a ymwelsom â'r lle a elwir yn feddau y prophwydi, y rhai oeddynt gerllaw y fan lle yr arosasom. Ni a esgynasom drwy dwll i ogof a wnaethid gan ddynion mewn rhyw oes; yr oedd yr ogof yn lled helaeth, a mynedfeydd troiog o un lle i'r llall ynddi; ac yr oedd fel dyrys-dŷ tan-ddaearol. Yr oedd y nen yn cael ei chynnal i fynu gan ddarnau o'r graig, a adawsid ar ddull muriau a cholofnau afreolaidd, y rhai yr ymddangosai eu bod wedi cael eu *plastro* unwaith; ac oddiwrth y ceuedd a welem mewn llawer o fanau yn y muriau, nid oeddem yn amheu na bu yr ogof hon ryw amser yn lle claddu; ond pa un a gafodd rhai o'r prophwydi eu claddu yma,

ac os do, pa rai o honynt a gladdwyd yma, nid oes grybwylliad hyd yn nod mewn traddodiad, ond yn unig yn yr enw a roddir ar y lle."

Ioan 11. 19. *A llawer o'r Iuddewon a ddaethent at Martha a Mair, i'w cysuro hwy am eu brawd.* Dywed yr un teithiwr yn hanes ei daith yn mysg y llwythau Arabaidd, "Ddim yn mhell oddiwrth y fan lle y gŵrphwysasom i fwynhau yr olwg hyfryd oedd ar y wlad, yr oedd ciaddfa helaeth, lle y sylwasom ar yr arferiad ag sydd yn mhlith y cenhedloedd dwyreiniol, o ymweled & beddau eu cyfeillion. Yr oedd y beddau wedi eu llunio gyda gofal mawr, a'u prydferthu gyda chywreinrwydd anarferol; ac wrth droed pob bedd yr oedd llestr pridd bychan, yn yr hwn yr oedd cangen o bren *myrtle*, yr hwn a ddyfrheid yn rheolaidd bob dydd gan y cyfaill galarus a ymwelai âg ef. Trwy yr holl gladdfa helaeth hon, ni sylwasom ar un bedd yr hwn nid oedd yr arwydd hwn o barch a galar wedi ei osod wrtho; ac yn wasgaredig yn mysg y beddau, mewn gwahanol barthau o'r gladdfa, ni a welsom o ugain i ddeg ar hugain o bleidiau o fenywod, yn eistedd gerllaw gweddillion parchus rhyw berthynas neu gyfaill newydd ymadael, ar ol yr hwn yr oedd tristwch mawr, ac naill ai yn dyfrhau y planhigion *myrtle*, neu yn taenu blodau ar hyd y tir glâs oedd gerllaw eu penau."

Ioan 11. 38. *Yna yr Iesu drachefn a rid!fanodd ynddo ei hunan, ac a ddaeth at y bedd. Ac ogof oedd, a maen oedd wedi ei ddodi arno.* "Ar y tu dehau i'r ffordd y mae bedd Lazarus, wedi ei dori o'r graig. Cymmerasom ganwyllau gyda ni, digynasom ar hyd deg neu ddeuddeg o risiau cerig, a daethom i waelod y bedd. Yn nghanol yr ogof mae bedd, ychydig o droedfeddi o ddyfnder, ac yn ddigon helaeth i dderbyn un corph yn unig. Gall amrywiol o bersonau sefyll yn gysurus yn yr ogof o amgylch y bedd. Felly ni bu i Lazarus, pan yr adferwyd ef, ddisgyn, fel y tybia rhai, o fedd a dorasid mewn mur, ond cyfododd o fedd wedi ei dori yn ngwaelod yr ogof. Nid yw y goleuni a ddaw i mewn drwy y pen yn cyrhaeddyd i'r gwaelod. Yr oedd yr hen baentiadau i ddarlunio yr adgyfodiad hwn, tebygol, yn ffyddlon, wrth ei osod allan wrth oleu ffagl. Nid oes lle i amau mai hwn yw y bedd. Ni allasid anghofio sefyllfa Bethania, a dyma yr unig fedd yn yr holl gymmydogaeth." *Carne's Letters from the East.*

Am y bedd hwn, dywed Mr. Turner, yn hanes ei daith drwy y

Dwyrain,—“Pentref gwael yw Bethania, yn cynwys oddeutu deugain neu hanner cant o fythod truenus, ac yn cael ei breswyllo gan Arabiaid yn unig. Mae yn sefyll ar fynydd creigiog, yn cael ei drin yn dda, ac yn dwyn olewydd a ffigyswydd, a ffâ, y rhai, dros yr holl wlad, ydynt addfed i'r cynhauaf. Y bedd y tybir ei fod yn fedd Lazarus, sydd ogof yn y graig, i'r hwn y disgynasom ar hyd chwech ar hugain o risiau geirwon. Yn ngwaelod y rhai hyn, mewn ystafell fechan, gwelsom ddrws bychan ar y llawr; disgynasom ar hyd dwy ris fawr, a chan blygu i fyned drwy fynyddfa isel, oddeutu pum troedfedd o hyd, daethom i'r bedd, yr hwn nid yw wedi ei naddu o'r graig, ond wedi ei adeiladu â cherig mawrion, a mŵd uwch ei ben. Cefais ei fod yn saith troedfedd a phedair modfedd un ffordd, ac yn wyth troedfedd a dwy fodfedd a hanner y ffordd arall, ac yn ddeg troedfedd o uchder. Mae yn ei ddull garw dechreuol, yn perthyn i'r Pabyddion, y rhai a gyflawnant eu gwasanaeth crefyddol ynddo yn achlysurol. Daw ychydig o oleuni i mewn iddo drwy ddau dwll bychan yn y graig.”

## PENNOD XXIV.

### AMRYWIAETH.

GEN. 3. 7. *Yn noethion*, “Yr oedd yn hawdd canfod,” medd *Morier*, wrth grybwyll am ei daith drwy Persia, “fod braw mawr yn y brodorion wrth sylwi ar ddiofalwch rhai wrth ddyosg i ymolchi; amgylchiad ag oedd yn fwy rhyfedd o herwydd y gellid meddwl y buasai i fynychrwydd ymolchi yn eu plith, eu harwain i fod yn ddiofal ynghylch gweddeidd-dra. Maent yn brawychu yn fawr rhag noethni hollol; ac er y dywedwyd wrthym am rai o'r gweithredoedd ffiائد a gyflawnid weithiau yn y golchfeydd hyn, eto yn yr amrywiol olchfeydd yr ymwelais i â hwynt, yn Persia ac yn Twrci, yr oeddwn yn cael fy nharo â syndod yn wastadol o herwydd y priodoldeb a'r gweddeidd-dra mawr y gofalai y Mohammedaniaid am danynt yn eu hymddygiad, a'u cyflymdra a'u deheurwydd neillduol wrth ddyosg eu dillad er gwisgo eu dillad at fyned i'r olchfa, fel nad ymddangosent yn anweddaidd.” *Sonia Herodotus* am y cywilydd mawr a deimlai y Lydiaid pan welid hwynt yn noethion.

“Y *Fakeers*,” medd haneswyr, “ydynt lwyth lled helaeth yn Hindwstan. Maent yn fath o athronyddion (*philosophers*), ac felly yn byw ar haelioni y llwythau ereill yn Hindwstan. Maent yn gyffredin yn hollol noeth, a’r rhan amlaf o honynt yn ddynion mawrion a gol-ygus. Maent yn derbyn proselytiaid oddiwrth y llwythau ereill, yn enwedig gwŷr ieuainc o alluoedd gwychion, a hwy a gymmerant drafferth fawr i’w haddysgu yn eu dirgeledigaethau. Yr athronyddion hyn a ymunant yn fynych yn finteioedd arfog mawrion, ac a gyflawnant bererindodau at yr afonydd saintaidd a’r temlau clodfawr; ond y maent yn fwy tebyg i fyddinoedd yn myned drwy daleithiau, na chynulleidfa o saint mewn gorymdaith tua theml, ac yn fynych rhoddant y gwledydd yr ânt drwyddynt dan dreth at au cynnalïaeth hwy.”

Gen. 14. 22. *Ac Abraham a ddywedodd wrth frenin Sodoma, Dyrchefais fy llaw at yr Arglwydd Dduw Goruchaf.* “Bore drancoeth,” medd *Carnes*, yn ei lythyrau o’r Dwyrain, “cyn codiad haul, yr oeddynt yn barod i ymadael i’w gwersyll, yr hwn oedd daith dau neu dri diwrnod o bellder. Ni a hysbysasom i Hassan ein hofn yn nghylch eu hymddygiad atom ni, pan ddyrchafodd y penaeth ei law ddehau tua’r nefoedd, ac y tyngodd i Allah na ddyoddefem un niwed tra y byddem dan ei awdurdod ef: llw na thorir ond anfynych ganddynt.”

Gen. 15. 5. *Ac efe a’i dug ef allan, ac a ddywedodd, Golyga yn awr y nefoedd, a rhif y ser, o gelli eu cyfrif hwynt: dywedodd hefyd wrtho, Felly y bydd dy hâd di.* Cawn grybwylliad yn yr hanes canlynol am gymhariaeth gyffelyb i’r hon y gosodir allan rifedi hiliogaeth Abraham drwyddi. “Nid oes un genedl,” medd *Burckhardt*, “yn gyffelyb i’r *Bedouins* am arfer gormodiaith wrth lefaru am bethau. Gofyner i un o honynt a fyddo yn perthyn i lwyth o dri chant o bebyll, ynghylch rhifedi ei frodyr, ac efe a gymmer ddyrnaid o dywod ac a’i bwrw i’r awyr, neu efe a gyf-eriria at y ser, ac a ddywed eu bod yn ddirifedi.”

Gen. 21. 23. *Twng wrthyf fi yma i Dduw.* Ymddengys fod y fath hyn o lw nid yn unig yn gyffredin yn amser Abraham, ond ei fod hefyd wedi disgyn drwy amrywiol o genhedlaethau ac oes-oedd yn y Dwyrain. Pan oedd Mr. *Bruce* yn *Shekh Ammer*, efe a ddeisyfodd nodded y llywodraethwr wrth fyned rhagddo ar ei daith. Wrth lefaru am y bobl ag oeddynt wedi ymgynnull ar yr amser hwnw yn ei dŷ ef, efe a ddywed,—“Daeth y bobl



fawrion yn eu plith; ac, ar ol uno dwylaw, adroddasant fath o weddi, am oddeutu dwy funud, drwy yr hon y gosodasant allan eu hunain a'u plant yn felldigedig, os byth y dyrchafent eu dwylaw i'm herbyn yn yr anialwch; neu ce byddai i mi neu fy eiddo ffoi atynt hwy am noddfa, os na byddai iddynt hwy fy niffynu ar berygl eu bywydau eu hunain a'u teuluoedd, a'u meddiannau, neu yn ol eu dull cryf hwy o'i osod allan, hyd angau y plentyn gwrryw olaf yn eu plith. Gwel hefyd Gen. 26. 28, 29.

Gen. 42. 15. *Myn einioes Pharaoh.* Mae y rhan amlaf o awdwyr yn cymmyrd hyn fel llw, yr hwn y rhydd *Selden* eglurhad da ar ei ddechreuad. Efe a sylwa i enwau duwiau gael eu rhoddi i frenhinoedd yn gynnar iawn, o herwydd rhagoroldeb eu rhinweddau gwronaidd, y rhai a'u gwneient gynt yn gwmmwynaswyr mawrion i ddynolryw; oddiwrth hyny y cododd yr arferiad o dyngu iddynt; yr hon, medd Eben Ezra, a barhâi yn ei amser ef, oddeutu y flwyddyn 1170, pan lywodraethid yr Aipht gan olynwyr Mohammed. Os tyngai un dyn i ben y brenin, a chael iddo dyngu yn dwyllodrus, cospid ef a marwolaeth."

Er mor ddeieithr y gall y llw a arferodd Joseph ymddangos i ni, mae o hyd yn cael ei arferyd yn y Dwyrain. Dywed *Mr. Hanway*, mai y llw mwyaf santaidd yn mysg y *Persiaid*, yw, "Myn pen y brenin." Yn hanes teithiau rhai cenhadau, crybwyllir am yr arferiad o hono. "Nid oedd ond triugain o gefyllau i bedwar ugain a deg o bersonau. Y tywysydd a dyngodd i ben y brenin, yr hwn yw y llw mwyaf yn mysg y Persiaid; nad allai efe mew'n un modd gael chwaneg." *Thevenot* a ddywed,— "Nid yw ei ddeiliaid un amser yn edrych arno ond gydag ofn a dychryn; ac y mae ganddynt y fath barch iddo, a rhoddant y fath ufudd-dod dall i'w holl orchymynion, fel, pa mor anghyfreithlon bynag y byddont, y gwnant eu cyflawni, er yn erbyn cyfraith Duw a natur; ie, os tyngans i ben y brenin, mae eu llw yn gadarnach na phe byddent yn tyngu i'r cwbl sydd yn santaidd yn y nef ac ar y ddaear. Mae y brenin beunydd yn aiarad am dano ei hun yn y tryddydd person, ac yn synych yn tyngu i'w ben ei hun. Hefyd, *I enaid y brenin; I farwolaeth y brenin.* A'r ymadroddion hyn, y rhai ydynt mew'n arferiad parhau gan yr holl Bersiaid, a ddygant i'n cof eiriau Joseph wrth ei frodyr, *Myn einioes Pharaoh.*

Mae y Tyrciaid yn meddwl fod pawb dyeithriaid, ag a fyddo yn ymofyn ynghylch ysgrifeniadau a cherfiadau, yn chwilio am drysorau. "Pan holwyd fi ynghylch hyn yn *Balbec*," medd *Burckhardt*, "mi a atebais, nid yw trysorau y wlad hon dan wyneb y ddaear, hwy a ddeuant oddiwrth Dduw, ac y maent ar wyneb y ddaear. Gweithiwch eich meusydd, a hsuwch hwynt, a chwi a gewch y trysor mwyaf mewn cynhauaf helaeth. Hwythau a atebasant, "Myn eich einioes," yr hwn sydd lw cyffredin, "daw gwirionedd o'ch gwefusau."

Gen. 48. 14. *Ac Israel a estynodd ei law ddehau, ac a'i gosododd ar ben Ephraim.* "Mi a ymdrechais," medd yr hanesydd a enwyd uchod, "i'w rwymo' ef drwy y llw mwyaf difrifol a arferid gan y *Bedouins*; gan osod ei law ddehau ar ben ei fachgen bychan, ac ar draed blaen ei gaseg, efe a dyngodd y gwnelsai am y swm hwnw (pymtheg piaster) fy nhywys i ei hun, neu beri i mi gael fy nhywys, at yr Arabiaid oedd yn y lle y soniem am dano, o ba le y gallwn i obeithio cael rhyw ddull cysurus i fyned yn ddiogel i'r Aipht."

Exod. 1. 11. *Am hyny y gosodasant arnynt feistriaid gwaith, f'w gorthrymu a'u beichiau.* "Yr oedd golwg ddyeithr," medd *Carnes*, "ar wely camlas is-law i mi, lle yr oedd lluaws o Arabiaid, o amrywiol liwiau, yn gweithio yn mhoethder mawr y dydd, tra yr oedd Aiphtwyr, y rhai oeddynt feistriaid gwaith arnynt, a'u sflangellau yn eu dwylaw, yn gofalu am y dull y gweithient. Yr oedd yr olwg hon yn ddarluniad cywir a bywiog o feibion Israel yn cael eu gyru i lafurio gan eu meistri gwaith creulont gynt. Nid oedd y gyflog a roddai *Mahmond* i'r bobl anffodus hyn, y rhai y gwnaethai iddynt adael eu cartref-leoedd a'u teuluoedd, yn y rhan uchaf o'r Aipht, i lafurio yn nghylch y gwaith hwn, ond ceiniog y dydd, a rhyw gyfran fechan o fara; eto y fath yw sirioldeb ysbryd yr Arabiaid, fel yr ant drwy eu gwaith caled gyda llawenydd a chysur."

Exod. 15. 25. *A'r Arglwydd a ddangosodd iddo ef bren; ac efe a'i lwriodd i'r dyfroedd, a'r dyfroedd a bereiddiasant.* "*El-sah*," medd *Bruce*, "sydd bentref lled helaeth, neu dref a llawer o balmwydd wedi eu planu o amgylch; gelwid y lle hwn gynt yn Oasis Parva; ac efe yw y lle pellaf i'r gorllewin ag sydd dan lywodraeth yr Aipht. Mae yno bren a eilw yr Arabiaid *El-sah*, yr hwn sydd debyg iawn i'n draenen wen ni, o ran ei ddull

a'i ffordau. Hwy a ddywedant mai o'r pren hwn y gwnacthid gwialen Moses; pan bereiddiodd efe y dyfroedd yn Mara. A gwialen o'r pren hwn hefyd, meddant hwy, y gwnaeth rhyw dywysog mawr, a elwid 'dinystriwr y Cristionogion, bereiddio y dyfroedd hyn yn El-vah, y rhai oeddynt unwaith yn chwerwon, ac efe a roddodd iddo yr enw oddiwrth y wyrth hono. Mae amrywiol o ffynnonau hyfrýd yn tarddu o'r ddaear yn El-vah, yr hyn a wna y lle hwn yn ffrwythlon a phrydferth, er fod anialwch erchyll yn ei gylchynu yn mhob man. Ymddengys fel ynys yn nghanol y môr." Ein trefedigion ni, y rhai a boblogasant rai parthau o America, a wellasant rinweddau y dwfr a gawsant yno, trwy roddi yndde rai o ganghenau y *sassafras*; ac ymddengys mai y peth cyntaf a dueddodd y Chineaid i ddefnyddio *tea*, oedd gwellhau dwfr eu hafonydd. Fod rhai dyfroedd ereill hefyd yn gofyn am ryw welliant, a bod y gwelliant hwnw yn cael ei amcuanu, a ymddengys oddiwrth yr arferiad ag oedd yn yr Aipht gyda golwg ar ddyfroedd y Nilus. "Y mae dwfr y Nilus," medd *Niebuhr*, "yn wastadol ychydig yn lleidiog; ond drwy gymmeryd *almonds* chwerwon, wedi eu paratoi i'r perwyl mewn golwg, a'u rhwbio ar yr ystenau pridd yn y rhai y cedwir ef, daw y dwfr yn loyw, ysgafn, ac iachus."

Exod. 22. 2. *Lleidr*. Yn Nghaerystenynd mae swyddog perthynol i lywodraeth y ddinas, yn cael ei bennodi wrth y teitl Zyndan Hassekisi, neu geidwad y carchar, yr hwn, mewn gwirionedd, nid yw amgen na blaenor neu ben y lladron. Mae efe yn dal ei swydd yn unig cyhyd ag yr ystyrir ef yn alluog i gyflawni ei dyledswyddau; bernir ei fod yn annghymmwys i barhau yn ei swydd pan ddelo yn analluog i ddal rhyw leidr ag y ceisir ei berson. Mae pobl lleidr, pan ddelir ef gyntaf, yn ymwneud, drwy ei gyfeillion a trwy anrhegion, â'r Zyndan Hassekisi, yr hwn a ddefnyddia ei holl fantais gyda'r awdurdodau uwch, i achub ei fywyd, ac i beri iddo gael ei symud i garchar mawr ystordŷ yr arfau, ac oddiyno yn mhen ychydig o amser efe a ymdrecha ei ryddhau. Yn y cyfamser, enw y lleidr newydd hwn, pob peth a dybir yn ddesgrifiadol o'i berson, a'i ddull neillduol o ladratta, a roddir i lawr gyda manylrwydd mawr yn nghofyfr y Zyndan; ac o'r funud hon gwneir ef yn un o'r frawdoliaeth. Mae lleidr ag nad yw fel hyn wedi gosod ei hun dan nodded a diffyniad y Zyndan Hassekisi, yn sicr o gael ei ddienyddio y tro cyntaf y profir ef yn euog. Mae y Zyndan Hassekisi a'i swyddogion yn

ystyried eu hunain dan rwymau mawrion i unrhyw ddydd a roddo hysbysrwydd iddynt ei fod wedi cael ei yspeilio, oblegid nid yn unig y mae yr hwn sydd yn weithredol wedi cyflawni y lladrad dan rwymau i roddi iddynt hwy ran o'r pethau a yspeiliodd, ond yr hwn a ddelir ar dybiaeth, er ei fod yn ddieuog, ni all gael ei ryddhad heb dalu am dano. Mae yn hysbys fod pob lleidr yn rhagori mewn rhyw ffordd neillduol, ac mae y dyn a ddelo i roddi hysbysrwydd iddo gael ei yspeilio, yn cael ei holi yn fanwl yn nghylch yr amgylchiadau. Mae y Zyndan yn gwysio o'i flaen y lladron hyay y rhai y gwyddis eu bod yn dilyn y dull hwnw perthynol i'w crefft, a cheir allan y person euog yn fuan, a dygir ef i gyfaddefiad. Mae y pethau a ladratawyd fel hyn yn cael eu hadferyd, ond nid yw y perchenog yn cael ond rhan fechan o honynt, a rhenir y gweddill rhwng y Zyndan a'i swyddogion. Hysbysa Diodorus Siculus i ni fod rhywbeth cyffelyb i hyn yn ffynnu yn yr Aipht. "Mae gan yr Aiphtiaid," medd *Walpole*, "gyfraith hynod iawn yn nghylch lladron. Y rhai a dueddont i gymmeryd y ffordd hon i fyw, maent yn gorfod rhoddi eu henwau yn llechres pen neu flaenor y lladron, i'r hwn y deallir eu bod i ddwyn, yn ddioed, pa beth bynag a ladrataont. Y rhai a yspeiliwyd hefyd, gofynir iddynt hysbysu mewn ysgrifen pa beth fyddont wedi gollu, gan grybwyll y lle o ba un, a'r dydd a'r awr y cymmerwyd ef ymaith. Yn y dull hwn y cwbl a gollir a adferir heb anhawsdra; ac y mae y person a yspeiliwyd, ar ol talu y bedwaredd ran o'r hyn a gollodd, yn ei gael yn ol. Gan y cafwyd allan fod yn annichonadwy rhwystro yr arferiad o ladrata, dysfeisiodd y llywodraeth ffordd i adferyd yr hyn a gollid, wrth dalu pris cymmedrol am hyny."

"Oddiar y gwastadedd hwn i Lhor, ar y prif-ffyrdd ac ar y mynyddoedd uchel, yr oedd lleoedd yn aml yn y rhai y cawsai lladron eu cau i ffynnu er dychryn i ereill, y rhai a allent gyflawni trosedd cyffelyb. Yr oedd mur cerig yn cael ei godi o'u hamgylch hyd eu gyddfau, fel nad oedd dim o honynt yn noeth ond eu penau; ac nid mewn hynawsedd atynt y gadewid hyny, ond fel y byddai iddynt ddyoddef oddiwrth y tywydd ac oddiwrth adar ysglyfaethus, y rhai a ymosodent arnynt hwy fel yr ymosodasant hwythau ar eu cyd-greaduriaid." *Fryer's Travels*.

"Mae corph y dwg-weithredwr," medd *Macdonald*, "weithiau yn cael ei ddarnio drwy gael ei rwymo wrth gangau coed, y rhai a ollyngir yn rhydd wedi hyay; ac yr wyf yn cofio i mi unwaith

weled pedwar lleidr yn cael eu cau i fynu, drwy i fur gael ei godi o'u hamgylch, hyd eu penau, ac fel hyn gadewid hwyt i drengu."

Nid yw y brenin un amser yn maddeu lladrad, ond mae yn gorchymyn i leidr a brofir yn euog gael ei ddiennyddio yn ddiwed. Mae y dull fel y canlyn:—mae blaenau dau bren ieuanc, drwy nerth, yn cael eu dwyn at eu gilydd, a'u rhwymo yn nghyd â rheffynau. Yna mae y drwgweithredwr yn cael ei ddwyn allan, a rhwymir ei draed â rhaffau wrth y brigau. Yna mae y rhaffau a ddalient y cangau yn nghyd yn cael eu tori, ac yn eu gwaith yn myned yn ol i'w lle, maent yn tynu corph y lleidr yn ddarnau, a gadewir y gwahanol aelodau fel hyn i grogi ar y naill brem a'r llall. Mae penderfyniad y brenin i gopi fel hyn, wedi rhoddi diogelwch i'r prif-fyrdd ag nad adwaenid mewn oesau blaenorol."

Dywed *Dodwell*, "Tarawyd ni â syndod nid bychan un diwrnod, pan ddaeth gwas y tŷ i mewn i ddywedyd fod cadben y lladron a'i wŷr yn dymuno cael cydnabyddiaeth â ni; agorwyd y drwa, a daeth i mewn oddeutu dwsin o Albaniaid, golwg y rhai oedd yn wyllt a ffyrnig iawn, ac yr oedd eu gwisgoedd wedi eu haddurno âg aur; ac yr oeddynt yn arfog fel pe buasant yn myned i faes y frwydr. Hwyl a'n hanerehasant drwy-yagogi ychydig ar eu penau, gan osod eu llaw ddehau ar eu dwyfron, a chan arfer y moes-eiriau arferol, *O Δουλος δαε, eich gwasanaethwr, a Πολυχρονα, hir einioes i chiwi*. Hwyl yna a gymmerasant eu lleoedd, ac heb chwaneg o seremoni dechreuasant fygu eu pibellau. Ar ol bod yn ddystaw dros ychydig o funudau, ac edrych ar ein gilydd, cadben y lladron a ddechreuodd ymddyddan, a dywedodd wrthym iddo ef ddyfod yn gyntaf i dalu ei foes, ac yna i gynyg ei wasanaeth ei hun, ac eiddo amrywiol o *Πολικαρι*, neu wŷr dewrion, y rhai oedd dan ei lywodraeth, y rhai a'n canlynent i unrhyw le yr ewyllysiem eu harwain; gan eu bod ar y pryd hwnw yn segur, ac heb ddim i'w wneuthur, a'u bod yn ddiweddar wedi yspeilio y Tyrciaid ar y lan arall, ac wedi dwyn ymaith bob peth gwerthfawr. Dangosom bob cydnabyddiaeth dyledus am gynygion hynaws y cadben, y rhai, pa fodd bynag, yr erfyniasom genad i beidio eu derbyn. Y lladron hyn ydynt Gristionogion Albania, yn Asia, y rhai ydynt am hir amser wedi gweithredu eu doniau difredol yn nhiriogaeth llywodraeth *Joanina*, prif ddinas Albania; ond drwy ddiwydrwydd ei swyddogion maent wedi gorffwrdd ceisio noddfa yn yr ynysydd cymmydogaethol.

Hwy a broffesant nad ydynt yn syrthio ond ar Fohammedaniaid, yn erbyn y rhai y maent yn gwneuthur rhyfel crefyddol tragwyddol mewn efelychiad o ryfelwyr y groes (*crusaders*); maent yn yspeilio ar y moroedd. Angenrheidiol yw hysbyr u nad yw lladrata yn un gwaradwydd yn ngwlad Groeg, lle y dygir y grefft yn mlaen yn drefnus, a chan liaws o ddyinion ffyrnig, y rhai a yspeiliant yn gyhoeddus ar y prif ffyrdd, a gymmerant ddyinion yn garcharorion, y rhai a ollyngant yn rhydd am werth, difrodant bentrefi, a heriant y llywodraeth. Pan ddylynir hwynt gan fyddin gresfach, diangant i'r ynnysoedd, ac awchlymant eu harfau at ymosodiadau ereill."

Exod. 22. 6. *Os tân a dyr allan, ac a gaiff afael mewn drain, fel y difaer dâs o fyd, neu fyd ar ei draed, neu faes, cwbl daled yr hwn a gynneuodd y tân.* Peth cyffredin yn y Dwyrain yw rhoddi y borfa sych ar dân cyn y gwlawogydd hydrefol, ac mae y tânau hyn, yn fynych, yn gwneuthur niweidiau mawrion. Cymmerodd Moses sylw ar dânau o'r fath hyn, a darparodd, drwy gyfraith bendant, fod taledigaeth i gael ei wneuthur am gollodion, gan ddyinion a'u hachlysurent naill ai mewn modd maleisus neu esgeulus. *Chandler*, wrth lefaru am gymmydogaeth Smyrna, a ddywed,—“Yn niwedd mis Gorphénaf dechreuodd cymmylau ymddangos o'r dehau; cafodd yr awyr ei oeri amrywiol o weithiau gan gawodydd a syrthiasent mewn lleoedd ereill, ac yr oedd yn hawdd gweled fod gwlaw gerllaw. *Dyna y tymor i ddisa y glaswelli sych a dyfent ar y mynyddoedd*; ac yr oeddom yn fynych yn gweled y ffamiau yn esgyn yn y gwynt, ac yn lledu mwg tew o amgylch.” Efe hefyd a ddywed am amgylchiad a welsai efe ei hun. Wedi iddo fod yn tynu darlun o le yn Troas, tua diwedd Awst, un diwrnod wedi ciniaw, medd efe, ar waith Tyrciad yn dyfod atom, “efe a wagaodd ei bibell, a gwreichionen o dân a syrthiodd yn ddiarwybod i'r glaswellt, y rhai oeddynt yn hirion, wedi eu crasu gan yr haul, ac yn barod i gynneu. Awel fywiog o wynt yn fuan a gynneuodd dân mawr, yr hwn a wywodd mewn munud y dail ar y coed ag oeddynt yn ei ffordd, gasaelodd yn y coed, a distuodd y cwbl ag oedd o'i flaen gyda chlindarddach a swn mawr iawn. Brawychwyd ni yn fawr o herwydd yr ofnem y llosgid y wlad o'r bron.” Wedi iddynt ymdrechu dros awr, hwy o'r diwedd a'i *diffodasant*. Mae amhriodoldeb yn yr ymadrodd hwn gwerth ei ddiwygio, yn yr arferiad o'r gair *dâs* o fyd ya lla pentwr, yr hwn sydd yn fwy cyson â dull y wlad, eaby

yn y Dwyrain nid oedd y pentyrau ond y trefniad o'r yd mewn modd priodol erbyn cael ei sathru neu ei ddyrnu allan yn ddioced.

"Pan ddaethom ni unwaith eto i Kiemi, cawsom y lle yn adseinio gan lefau dycethriaid yn dyfod o'r ffair. Gwelem fforest ar dân tua'r dwyrain, yn peri fod yr holl ran hōno o'r awyr yn goch iawn. Yr oedd yr olwg hon mor gyffredin i'r trigolion, fel na sylwent hwy ddim arni. Yr oedd y tân yn cyrhaedd dros amrywiol o filltiroedd o dir.

Sonia Porter am amgylchiad cyffelyb. "Yn ystod fy arosiad byr yn Hoblinka," medd efe, "gwelais amgylchiad galarus iawn; ond, fel yr oedd yn happus i'r gymmydogaeth lle yr oeddwn i, yr oedd yn mhell oddiyno; amgylchiad ag sydd yn gwasgaru anghyfanedd-dra, dros beth amser, dros ran helaeth o'r wlad, sef tân yn cymmeryd gafael yn y glaswellt. Mae y damweiniau dychrynlyd hyn yn cymmeryd lle yn gyffredin drwy ddiolfalwch gyrwyr anifeiliaid, neu bersonau yn perthyn i fintoioedd o farsandwyr, y rhai a orphwysant am noswaith ar y gwastadedd; ac wrth ymadael bore dranoeth, a esgeulusant ddiffoddi eu tânau. Mae y marwor poethion yn cael eu dwyn gan y gwynt, neu mewn rhyw ffordd arall, hyd nes ennyn y glaswellt. Tŷr y tân allan yn fflam, a llysg yn mlaen, gan ddifa y cwbl gyda ffyrnigrwydd mawr, ac anhawdd iawn yw ei ddiffoddi. Y tân a welais i yn awr, a ddechreuodd drwy esgeulusdra o'r fath hyn, ac ymdaenodd yn fuan dros helaethrwydd mawr o dir, gan barhau i ddiffodi dros lawer o ddyddiau; a difa yr yd ar ei draed, y tai, a'r cwbl ag oedd ar ei ffordd; yr oedd golwg y tir ar ei ol yn dychrynlyd iawn.

Mewn lle arall dywed yr un hanesydd, "Gerllaw tref Youchokrak, daethom i ganol un arall o'r tânau yn y glaswellt am y rhai y soniais cyn yn awr. Yr oedd yr olwg hon yn fwy arswydus hyd yn nod na'r un a welais o'r blaen. Yno edrychem ar y tân o bell, yma yr oeddem yn ei ganol. Yr oedd y brif-ffordd yn rhydd oddiwrth y tân, o herwydd nad oedd yno ddim i'r tân ymborthi arno; ond o amgylch, yr oedd holl wyneb y ddaear yn cael ei orchuddio â thân symudol. Ymddangosai y ffordd fel yn thanu môr o dân. Nid allai uchder y fflam fod yn fwy na dwy neu dair troedfedd oddiwrth y llawr; ac ar bob tu i'n llwybr yr oedd y mwg yn gyfryw ag y gallem weled drwyddo y tân dychrynlyd dros lawer o dir. Nid oedd awel o wynt yn terfysgu yr awyr; gan hyny yr oedd y tân yn difa wrth fyned rhag ei flaen, gyda diysgogrwydd mawr. Wrth fyned yn mlaen ar ein taith wedi hyny, sylwais ar ddarnau meithlon o dir yn

daon oll, y rhai oeddynt wedi eu duo felly gan y tânau dychrynllyd hyn."

Num. 20. 28. *A bu farw Aaron yno yn mhen y mynydd.* Dywed un hanesydd, wrth grybwyll am ei daith i Gaercysteny, "Gan fyned tua'r dehau-orllewin oddiwrth y palas dadfeiliedig, daethom at odrau Mynydd Hor am dri yn y prydawn, lle, yn dyfod o hyd i fachgen Arabaidd yn bugeilio geifr, efe a gynnygiodd ein tywys i ben y mynydd am wobrw y fechan. Yr oedd y ffordd i fynu yn arw ac anhawdd iawn, a buom awr a hanner yn dringo i fynu ar hyd ochra serth y mynydd. Hen feudwŷ (*hermit*) Arabaidd, ynghylch pedwar ugain mlwydd oed, ag oedd wedi treulio hanner yr amser hwnw ar ben y mynydd, gan fyw ar roddion yr ychydig Fohammedaniaid a gyrchent yno ar bererindod, ac ar elusen bugeiliaid y wlad hono, y rhai a'i diwallent ef â dwfr a llaeth, a'n harweiniodd i mewn i adeilad wên fechan, ar yr hon yr oedd nen-dwr, ag oedd yn cynnwys bedd Aaron. Mae y cof-adail o gerig yn nghylch tair troedfedd o uchder; a'r hen Arabiad, wedi iddo gynneu lamp, a'n harweiniodd i waered ar hyd rhai grisiau, i ystafell wedi ei naddu o'r graig, ond heb ddim anarferol ynddi. Wrth furiau yr ystafell uchaf, lle yr oedd y bedd, yr oedd gleiniau (*beads*), darnau o liain a lledr, offrymau ewyllysgar a adawsid gan rai selog a ymwelsent â'r lle, yn crogi ar un tu, wedi ei osod yn y mur, dangoswyd careg ddû, yr hon y cyfrifid fod ynddi rinweddau mawrion i iachau clefydau, ac iddi gynt wasanaethu yn eisteddfa i'r prophwyd."

Ruth 4. 7. *A hyn oedd ddefod gynt yn Israel, am ryddhad, ac am gyfnewid, i sicrhau pob peth: Gwr a ddyoagai ei esgid, ac a'i rhoddai i'w gymmydog: a hyn oedd dystiolaeth yn Israel.* Nid hawdd yw cael allan ddechreuad y ddefod hon; ond y mae ei hamcan yn eglur; yr oedd yn arwyddocad naturiol ei fod ef yn rhoddi i fynu ei hawl yn y tir, drwy roddi iddo ef ei esgid â'r hon yr arferasai efe rodio arno, fel y gallasai efe fyned i mewn iddo a chymmeryd meddiant ei hun o hono. Yn yr arall-eiriad Caldeig, yn lle *esgid*, y mae *maneg y llaw ddehau*; o herwydd mai yr arferiad bryd hynny oedd rhoddi hono yn lle yr *esgid*; mewn amseroedd diweddarach yr Iuddewon a ddefnyddiant law-liain i'r perwyl hwnw. Un o'u hysgrifenwyr a ddywed, yr ydym yn prynu ac yn cael meddiant yn awr drwy arfer llaw-liain neu orchudd, yn lle *esgid*.

Yr oedd rhoddi maneg yn yr oesau canol yn sermoni wrth roddi



meddiant mewn tiroedd a swyddi. Yn y flwyddyn o oed Crist 1002, cafodd dau esgob eu rhoddi mewn meddiant o'u heagobaethau, drwy dderbyn maneg bob un. Felly yn Lloegr, yn nheyrnasiad Edward yr Ail, yr oedd cymmeryd menyg ymaith yn seremoni o ddiraddiad.

Gyda golwg ar yr *esgid*, fel arwydd i roddi meddiant, dywed *Castell* i ymerawdwr yr Abyssiniaid arferyd y taffiad o esgid fel arwydd o awdurdod. Gwel Salm 60. 8. At yr angreiffiau hyn, gellir yn briodol chwaneu yr un ganlynol: "Yr oedd Childebert yr Ail yn bymtheg mlwydd oed, pan wnaeth Goutram ei ewythr osod allan ei fod yn ei oed, ac yn gymmwys i reoli wrtho ei hun. 'Mi a roddais,' eb efe, 'y waywffon hon yn dy law, fel arwydd i mi roddi i ti fy holl deyrnas.' Ac yna, gan droi at y gynulleidfa dywedodd, 'Chwi a welwch fod fy mab Childebert wedi dyfod yn ddyn; ufuddhewch iddo.'"

1 Sam. 4. 12. *A'i ddillad wedi eu rhwygo, a phridd ar ei ben.* *Morier*, wrth son am ei daith drwy Persia, a ddywed am un dyn fel y canlyn:—"Efe a borthodd ei ofid i raddau mawrion iawn, gan guro ei ddwyfron, ac, yn mysg llefau ereill, efe yn fynych a ddefnyddiodd un ag oedd yn ddesgrifiadol iawn o weithred a fu mewn arferiad gynt i ddangos tristwch, sef penïyru llwch ar y pen. Efe a ddywedodd, Y fath ddaear a ddaeth ar fy mhen i! Efe a fynychodd y llef hon dros fwy na hanner cant o weithiau, mewn llais cwynfanus a thruenus, gan ei ostwng yn raddol hyd nes prin y clywid ef, ac yna ei ddal dros ychydig eilwaith, hyd oni thori allan eilwaith mewn llef newydd."

1 Sam. 26. 20. *Hela petris.* Mae yr hanes a rydd Dr. *Shaw* am y dull y mae yr Arabiaid yn hela petrysiad ac adar ereill, yn rhoddi eaponiad rhagorol ar y geiriau hyn:—"Mae gan yr Arabiaid," medd efe, "ffordd arall sydd yn fwy trafferthus o ddal yr adar hyn; canys wrth weled eu bod yn myned yn weinion a blinedig ar ol cael eu codi yn *ddisymoth* ddwywaith neu dair, hwy yn ddi-oed a redant ar eu hol, ac a'u curant i lawr â'u pastynau." Yn union yn y modd hwn yr oedd Saul yn hela Dafydd,—dyfod yn ddisymwth arno, a'i yru ymaith o amser i amser, mewn gobaith y byddai iddo o'r diwedd, drwy ymosod arno yn fynych, allu ei ddystrywio.

*Egmont* a *Hayman* a roddant hanes am ffordd i ddal giachod yn ngwlad Canaan, ag sydd yn debyg iawn i ffordd yr Arabiaid o ddal petrysiad. Hwy a ddywedant os bydd y cwmpeini yn

llosgog y gellir eu hela ar gefn ceffylau, gan na oddefir iddyn; felly orphwys dŷm hyd nes y blinont gymmaint fel y galler eu dal braidd mewn llaw. Ond mae giachod yn hoffi lleoedd gwlybion. Gallasai Dafydd, gan hyny, gan ei fod ef mewn lleoedd sybion, goffau yn hytrach am y petrysiad, o ba rai y mae mwy o rywogaethau nag un yn y Dwyrain, rhai o ba rai, o leiaf, a lechent mewn lleoedd mynyddig ac anial.

2 Sam. 6. 20. *Un o'r ymfydion.* "Ar ol cryn oediad," medd *Jowett*, wrth grybwyll am ei ymfyniadau yn Syria, "yr hyn a achlysurwyd gan yrwyr y mulod, cychwynasom tua Nazareth. Pan oeddem wedi myned tua dwy filltir oddiwrth byrth y ddinas, cyfarfuasom, ar y gwastadedd, âg ynghylch hanner dwain o Arabiaid yn cael eu blaenori gan fath o ynsyd-ddyn, cyffelyb i'r rhai a goffeir yn 2 Sam. 6. 20, wedi ei wisgo mewn modd mursenaidd, a chanddo ryw fath o offeryn cerdd tri thant, ar yr hwn y canai gan dafu ei hun o ochr i ochr. Pan nesasom ni, hwy oll a ymgasglasant o'i gylch ef, gan waeddi, 'Defod, defod.' Hysbyswyd i ni eu bod yn cynnal priodas un o'r cwmpeini, yr hwn a noddasant allan, ac arwyddasant eu bod yn dysgwyl anrhegau yr achlysur. Y priodfab, ar wyneb yr hwn yr oedd darnau o eurddail, a ymddangosai yn hurtâch nag un o honynt, er yr edrychent ôll yn drymaidd iawn; ac ymddangosai mai ar hwn yr oedd yr holl orchwyl o wneuthur difyrwch yn gorphwys."

Mae Mr. *Buckingham* hefyd, yn hanes ei deithiau yn mysg y llwythau Arabaidd, yn crybwyll am olwg gyffelyb, pan y dywed, "Yn ystod fy nghrwydriad, gwelais ddyn o gorpholaeth mawr, ond gwrthun ei olwg, yn rhodio drwy yr heolydd cyhoeddus, heb un dilledyn am dano. Yr oedd ei ben wedi cael ei eillio yn ddiweddar, ac ymddangosai yn wlyb oll drosto, fel pe buasai wedi dyfod allan o olchfa. Yr oedd gandde wddf byr tew, pen mawr, a llygaid yn sefyll allan, ac yr oedd yn mhob ystyr yn ymddangos fel ynfyd-ddya. Dangosais fy mod yn synu o herwydd yr olwg hon, er y gwyddwn fod y fath olygfeydd yn gyffredin yn Cairo, a threfi y rhan uchaf o'r Aipht; ond yr oedd y peth yn peri cyn lleied o syndod yma, fel nad oedd braidd neb yn sylwi ar y crwydrwr noeth, oddieithr i wneuthur ffordd iddo fyned heibio, a'i anerch gyda pharch weithiau pan yr elai héibio. Sicrhaodd amrywiol o'r trigolion i mi wedi hyny fod yr unrhyw droseddau ar weddeidd-dra yn cael eu cyflawni gan y saint penrhydd hyn (cansys felly yr ystyrir pawb ynfydion) yn Syria, yn gystal ag yn yr

Aiph, a bod gweithredoedd y rhai y mae y canhedloedd mwyaf anwar yn ddirgelu dan gochl y nos, yn cael eu cyflawni gan y bobl hyn yn yr heolydd cyhoedd, wrth liw dydd, tra y byddai y rhai a elent heibio, yn lle dangos eu hanfoddlonrwydd o herwydd y fath sarhad ffaidd ar weddusrwydd a phriodoldeb, yn fynych yn anfon eu gweddiau i fynu tua'r nef am fendith ar y rhai a blygent i'r gwaradwydd hwn; ac, oddiar barch ofeogoelus i bawb ynfyd-ddynion, fel personau dan ofal a thywysiad neillduol y Llaw Ddwyfol, edrychent ar y rhai a ddewisid ganddynt i gyflawni eu chwantau amynt fel yn cael eu ffafrio yn nodedig iawn gan y Rhagluniaeth Ddwyfol."

2 Bren. 19. 7. *Wle fi yn rhoddi arno ef wmi.* Ymddengys i'r dinystr a ddaeth ar Sennacherib a'i fyddin gael ei effeithio gan y gwynt heintus hwnw a elwir y *simoon*. Mae Mr. Bruce yn llefaru fel hyn am dano: "Mor fuan ag y daethom i'r gwastadedd, teimlasom arwyddion cryfion fod y *simoon* gerllaw; ac ynghylch chwarter oyn deuddeg o'r gloch, ein carcharor yn ngyntaf, ac yna Idris, a waeddasant allan, 'Y *simoon*, y *simoon*.' Ni oddefai fy ymfyngarwch i mi syrthio i lawr heb edrych yn fy ol; tua'r dehau, ychydig i'r dwyrain, gwelwn niwl cyffelyb i'r un a welais o'r blaen; ymddangosai yn awr ychydig yn deneuach, a bod ynddo beth glasur; yr oedd fel mwg teneu. Ni a syrthiasom oll ar ein wynebau, a'r *simoon* a aeth heibio gan ysgwyd ychydig. Hi a barhaodd i chwythu yn y dull hwn hyd yn agos i dri o'r gloch; cymmerwyd ni oll yn glaf y noson hono, a phrin y gadawyd nerth ynom i lwytho y camelod, a threfnu ein dodrefn." Mewn lle arall mae Mr. Bruce yn ei ddesgrifio fel yn peri rhyw ddiolfalwch rhyfedd ynghylch bywyd, iddo weithio ynddo ef radd o lwfrdra a llesgedd nad allai eu gorchfygu, ac iddo ddifa ei nerth bron yn llwyr. Oddiwrth yr hanes a rydd amrywiol o deithwyr am dano, ymddengys ei fod yn fynych yn peri angau a phydredd mewn munud. Gan hynny yr oedd yn weithredydd cymmwys iawn i gael ei ddefnyddio i ddystrywio byddin Sennacherib.

"Dygwydda weithlau," medd *Niebuhr*, "yn ystod gwres mawr, fod awel o wynt yn dyfod ag sydd yn fwy llosgawl, a chan fod dynion ac anifeiliaid bryd hynny wedi cael eu llesgâu, mae y cynnydd bychan hwn yn y gwres yn eu hymddifadu yn hollol o anadl."

Neh. 5. 15. *Eu llanciau a arglwyddiaethent ar y bobl.* Mae yn amlwg y cyfeirir yn y geiriau hys at ryw arferiadau gorthu-

rymus. Tebygol y cyfeiriant at y cymmeriad ymaith drwy nerth a thrais o ymborth y bobl gan weision y llywodraethwyr blaenorol. Yn y gwledydd hyn y nid oedd hyn yn beth anaml nac anarferol; gellid coffau amrywiol o anghreiffiau o hyny; pa fodd bynag, gall yr un ganlynol fod yn ddigon. Wedi i ofn y Groegiaid tlodion rhag cael eu hanrheithio, neu eu llwytho yn drymach â beiehiau gan y Tyrciaid, eu rhwystro i ddiwallu *Du Toll* o'u bodd am ei arian, Ali Aga a gymmerodd arno wneuthur hyny, ac ar waith y Moldaviad, sef y Groegwr, yn cymmeryd arno nad oedd yn deall yr iaith Dyrcaidd, efe a'i tarawodd ef i lawr â'i ddwrn, ac a barhaodd i'w droedio tra yr oedd yn ymdrechu codi; yr hyn a'i dygodd i achwyn yn lled rwydd yn yr iaith Dyrcaidd am ei fod yn cael ei guro yn y modd hwnw, pan y gwyddai Ali Aga yn ddigon da mai pobl dlodion oeddynt, y rhai oeddynt yn fynych mewn eisiau angenrheidiau bywyd, ac i ba rai prin y gadawai eu tywysogion iddynt awyr i anadlu ynddo. "Cellwair yr ydwyt ti, gyfaill," ebe Ali Aga; "nid oes arnat ti angen dim, ond cael dy guro ychydig yn amlach. Ond y mae y cwbl yn brydlon iawn. Awn rhagom at ein gorchwyl. Rhaid i mi yn ddioed gael dwy ddafad, dwsin o adar dofion, dwsin o golommenod, hanner can pwys o fura, deugain wns o ymenyn, yn nghyda halen, *pepper*, *nutmeg*, *cinnamon*, *lemons*, gwin, *salad*, ac olew, cyflawnder o honynt oll." Y Moldaviad, a dagrau yn ei lygaid, a atebodd, "Mi a ddywedais wrthyhch eisioes mai pobl dlodion ydym, heb fod genym gymmaint a bara i'w fwyta; pa le y gallwn ni gael *cinnamon*?" Ali Aga a gymmerodd sflangell o dan ei wisg ac a gurodd y Moldaviad hyd nes na allai oddef yn hwy, ond y bu raid iddo ffoi. Yn cael nad oedd gwiw ymbil âg Ali Aga, a bod yn rhaid cael y darpariadau hyn, nid aeth chwarter awr oll heibio, yr amser yn yr hwn yr oedd Ali Aga wedi gorchymyn i'r pethau hyn gael eu dwyn, cyn eu bod oll wedi cael eu dwyn i'r fan. *Forbes's Oriental Memoirs*.

"Yr oedd bron yn dywyll pan gyrhaeddasom ni y dref," medd *Clarke*, "os addas rhoddi y cyfryw enw i bentref gwasgarédig. Ibrahim a farchogodd yn mlaenaf, ac a gasglodd ychydig o'r bobl gyffredin o'i amgylch, y rhai y gallem eu canfod wrth eu gwisgoedd gwynion wedi ymgasglu gerllaw ei geffyl ef. Mewn atebiad i'w ymfyniadau ef ynghylch darpariadau i'r cwmpeini, hwy a atebasant, mewn llais gostyngedig, eu bod wedi difa yr holl ymborth oedd yn eu tai, ac nad oedd ganddynt ddim i'w gynyg. Yn ddioed swa

fflangell Ibrahim o gylch eu penau a'u hysgwyddau, a wnaeth iddynt gredu ei fod ef yn gennad cwmpeini o Dyrchiaid, a hwy a ffoisant i bob ffordd. Dyma yr unig ffordd, eb efe, i beri i'r cwn hyny barotoi unrhyw beth at ein swpper ni. Yr oedd yn syn iawn gweled y modd yr oedd y fath ddyinion cryfion, pob un o ba rai oeddynt yn gryfach nag Ibrahim, yn dyoddef eu fflangellu, a'u gyru o'u tai gan eu harswyd rhag cenedl o Fohammedaniaid hurt a llwfr."

Job 1. 19. *Gwynt mawr a ddaeth oddiar yr anialoch, ac a darawodd wrth bedair congl y tŷ.* "Ar y 25ain," medd Mr. Bruce, "am bedwar o'r gloch yn y prydawn, cychwynasom allan o bontref Nuba, gan fwriadu cyrhaeddyd Bosboch, lle yr oedd bád i groesi y Nilus; ond prin yr oeddem wedi myned rhag ein blaen ddwy fillir i'r gwastadedd, pan y cylchynwyd ni gan gorwynt. Yr oedd y gwastadedd yn dir coch, yr hwn oedd wedi cael ei wlychu yn dda gan gawod y nos o'r blaen. Cafodd y camel anffodus ag oedd yn ei ganol, ei godi i fynu a'i dafu i gryn bellder, fel y drylliwyd amrywiol o'i asenau; er, mor bell ag y gallaswn farnu, nad oeddwn i gerllaw y canol, y corwynt a'm chwyrndafodd inau i lawr ar fy wyneb, fel y ffrydiodd gwaed o'm trwyn. Dygwyddodd yr un ddamwain i ddau o'm gwasanaethwyr. Cawsom ein plastrio oll drosom â llaid, a hyny mor llyfn a phe cawsai ei wneuthur â llwy haiarn (*trowel*). Cymmerodd ymait h y nheimlad a'm hanadl i dros ychydig; ac yr oedd fy ngenau a'm trwyn yn llawn o laid pan ddaethum ataf fy hun. Yr wyf yn barnu fod y tir y cerddai drosto yn nghylch dau cant o droedfeddi. Dystrywiodd un hanner i fwthyn, fel pe toraid ef drwyddo yn ei ganol a chylllell; a gwasgarodd y defnyddiau dros yr holl wastadedd, gan adael i'r hanner arall sefyll."

Job 24. 8. *Gwlychant gan lifeiriant y mynyddoedd; ac o eisiau diddosrwydd y cofleidiant graig.* "Gwynt y gogledd-ddwyrain," medd *Irby* a *Mungles*, "a ddechreuodd yn fuan chwythu gyda grym mawr, ac oerfel anarferol, a disgynodd y fath gawod ydd trymion o eira a gwlaw, fel y bu raid i ni gymmeryd cysgod mewn ogof wrth droed y mynydd, dros yr holl ddiwrnod. Cawsom yma amrywiol o bobl, y rhai oeddynt wedi gwneuthur cynygiadau i fyned drosodd, end yn ofer; ond gan ein bod yn cael anhawsdra i gael lle i'n cefylau—o herwydd bod yr ogof yn fechan, a bron wedi ei llanw cyn i ni ddyfod—symudasom i un helaeth-

ach, er yn un fwy agored i'r hin, e herwydd nad oedd fawr ond lle dan ddarn o graig a grogai drosodd, He y cawsom gysgod i ni ac i'n ceffylau, ac y gwnaethom dân mawr dros y nos."

Job 30. 22. *Yr wyt yn fy nyrchafu i'r gwynt; yr ydwynt yn gwneuthur i mi farchogaeth arno, ac yr ydwynt yn toddi fy syhwedd.* Yn mhlith esponiadau ereill a roddwyd ar y geiriau hyn, mae Golygydd Geiriadur Calmet yn cyfeirio at *ystorm o dywod*, ac yn cyfiawnhau y cymmwysiad o'r fath feddylddrych a'r hanes canlynol allan o waith Mr. Bruce:—"Ar y 14eg, yn nghylch saith o'r gloch yn y bore, gadawsom Assa Haggā, gan fyned yn union tua'r gogledd. Am un o'r gloch disgynasom yn mhlith rhai coed yn Waadi el Halboub, pan yr oeddem wedi myned un filltir ar hugain. Cawsom yma ein brawychu ar unwaith gan olwg ag oedd yn sicr yn un o'r rhai ardderchogaf yn y byd. Yn yr ehangder mawr o ddiffieithwch ag a safai o'r gorllewin hyd y gogledd-orllewin oddiwrthym ni, gwelsom rifedi o *golofnau tywod* anferthol o wahanol faintioli, yn symud weithiau gyda *chrymdra* mawr, brydiau ereill yn myned gydag arafwch ardderchog. Ar droion tybiem y deuent mewn ychydig iawn o funudau i'n gorchuddio; a bu i rai gronynau o dywod ein cyrhaeddyd yn weithredol fwy nag unwaith. Drachefn, aent yn ol hyd nes y byddent braidd o'r golwg, *a'u penau yn cyrhaedd hyd y cymmylau*; eu penau yn fynych a wahanent oddiwrth eu cyrph; ac wedi i'r rhai hyn ddad-gyssylltu unwaith, *gwasgarent yn yr awyr*, ac nid ymddangosent mwy. Torent weithiau gerllaw y canol, fel pe tarawid hwynt gan ergyd magnel mawr. Yn nghylch hanner dydd dechreusasant nesu atom gyda chryn gyflymdra, gan fod y gwynt yn gryf iawn o'r gogledd. Daeth un-ar-ddeg o honynt wrth ein hochrau, yn nghylch y pellder o dair milltir ondiwrthym. Tryfesur (*diameter*) y mwyaf o honynt a ymddangosai i ni, yn y pellder hwnw yn nghylch deg troedfedd. Aethant oddiwrthym gyda gwynt o'r dehau-ddwyrain, gan adael argraff ar fy meddwl i'r hwn ni allaf roddi enw, er yn sicr fod osn yn un cyffyr o hono, yn nghyda chryn lawer o ryfeddod a syndod. Ofer oedd meddwl am ffoi; y ceffyl buanaf, a'r llong gyflymaf, ni allasant fod o un gwasanaeth i'n cymmeryd o'r perygl hwn, a chan fy mcd yn credu hyn, nid allwn symud o'r fan lle y safwn, ond gadael i'r camelod enill cymmaint o dir arnaf fel nad allwn eu goddiweddyd heb anhawsdra." Os goddefir i'r dyfyniad hwn esponio y gyfelybiaeth

a ddefnyddir gan Job, gallwn weled ardderohogrwydd ynddi nad ymddangosai o'r blaen. "Gallwn weled y modd yr oedd Job, yn ei urddasolrwydd, yn cael ei ddyrchafu yn yr awyr, y modd yr oedd yn esgyn mewn gwychder a phwys, hyd nes yr oedd hyd yn nod yn ddychryn i'r rhai a edrychent arno; y modd yr oedd yn marchogaeth ar y gwynt, yr hwn oedd yn peri iddo fyned yn mlaen neu yn ol; ac, wedi y cwbl, pan leihüai y gwynt, y golofn hon o dywod yn cael ei gwasgaru a'i dwyn yn gydwastad âg wyneb y llawr. Ymddengys fod y gymhariaeth hon wedi cael ei chymhwyso yn gywir at feddwl Arabiad, yr hwn y rhaid ei fod wedi gweled gweledigaethau cyffelyb yn y gwledydd o'i amgylch, neu wedi clywed am danynt."

Salt, yn hanes ei fordaith i Abyssinia, a ddywed, "Cyn dynesiad Shummall, neu Sammiel, deuai yr awyr yn wastadol yn drymaidd iawn, am fod llawer o dywod yn cael ei godi gan awelon ar ddull colofnau, a sylwid fod y rhai hyn yn ysgubo mewn gwahanol gyfeiriadau drwy y gwastadedd. Ni chlywais i erioed am un ddamwain yn dygwydd o herwydd y colofnau symudol hyn o dywod, ac nid ymddangosai fod yn y brodorion unrhyw ofn neillduol rhagddynt."

Dywed *Morier*, yn hanes ei ail daith drwy Persia,—“Pan y byddai tawelwch mawr, codai ffrydiau o wynt, a ffurfient gerwyntoedd, y rhai a godent golofnau mawrion o dywod dres y gwastadedd oll. Cafodd y rhai a welsom yn Shiraz eu ffurfio a'u gwasgaru mewn ychydig o funudau. Nid yw y colofnau hyn yn teithio yn mhell; gan mai firwd o awyr sydd yn codi y tywod mewn modd disymmwth, mae y golofn yn dryllio yn fuan. Pa bryd bynag y tarawai un o honynt wrth ein pebyll, gwnelai yn gyffredin gryn niwed, ac yn fynych bwriai hwynt i'r llawr. Ymddangosai y colofnau hyn fel pistylloedd (*water-spouts*) ar y môr, ac efallai eu bod yn cael eu hachosi yn yr un modd."

*Sir W. Ouseley*, yn hanes ei deithiau yn y Dwyrain, a ddywed, "Yr oedd cymmylau, neu yn hytrach colofnau o dywod, yn fynych yn cael eu dwyn gan gorwynt ar hyd y gwastadedd, y rhai oeddynt yn cyrhaeddyd i fynu lawer o gannoedd o latheni, ond, drwy drugaredd, nid oedd eu gwaelodion yn llydain iawn."

Job 37. 9. *O'r deheu y daw corwynt*. *Mr. Buckingham*, yn hanes ei deithiau yn Mesopotamia, a ddywed,—“Yn nghylch yr amser hwn y dechreuasom deimlo oddiwrth y gwynt, yr

hwn, yn dyfod yn awelon byrion a sydyn, yn lle ein hoeri a'n hadfywio, a'n gwasgai yn fwy na'r tawelwch; o herwydd bod pob un o'r awelon hyny fel anwedd poeth a sych o ffwrn, ar y funud yr agorir hi. Yr oedd yr anialwch deheuol yn awi wedi ei guddio â math o niwl tew cochlyd, ddim yn annhebyg i liw yr awyr ar godiad yr haul ar ambell fore gwlawog; ac yn fuan wedi hyny gwelsom golofnau mawrion o dywod yn cael eu chwyrndroi i fynu i'r awyr, ac yn cael eu dwyn yn gryno dros y gwastadedd mewn modd ardderchog ac araf. Aeth un o'r rhai hyn heibio o fewn i ychydig gannoedd o latheni i ni, wedi iddo gael ei yru dros yn nghylch ugain milltir o dir creigiog o'r fan lle y codasai. Ymddangosai ei fod o bedwar ugain i gan troedfedd o drwch, ac yn sicr yr oedd o nerth digonol, drwy ei symudiad cylchdroiog parhaus, i daflu dynion ac anifeiliaid oddiar eu traed, fel os elai am draws mintai dew o deithwyr, ac y caffai ei dori drwy gael ei rwystro, yn ei yrfa, y byddai perygl mawr i'r rhai a gleddid oddidano, gael eu mygu, er, os byddai pobl yn barod ato, na throai allan yn angeuol."

Salm 42. 7. *Pistylloedd*. Am y pistylloedd (*water-spouts*) hyn, dywed un hanesydd fel y canlyn:—"Ymddangosai fod y rhai y cefais i gyfle i edrych arnynt, yn gynnifer o golofnau o ddwfr yn syrthio o'r cymmylau, er y dichon iddynt, o herwydd eu hadlewyrchiad, neu o herwydd y dwfr a ddyfera o honynt, ymddangos weithiau, yn enwedig o bell, yn cael eu sugno i fynu o'r môr. Ond dywed naturiaethwyr, fod rheswm da i foddwl fod mewn rhai o'r goruchion (*meteors*) a elwir pistylloedd, bib fawr yn cael ei ffurfio o ddefnydd y cymmylau chwyldrôawl, yr hon, ryw ffordd neu gilydd, a ymddengys, hyd yn nod pan edrychir arni o agos, yn tynu i fynu ddwfr y môr.

*Johnson*, yn hanes ei daith o India i Loegr, a ddywed,—“Ar y 26ain o Chwefror, galwyd ni i fynu i fwrdd y llong i weléd gweledigaeth ag oedd yn hytrach yn anghyffredin, sef amrywiol o bistylloedd, y rhai a symudent yn araf o'n blaen. Cyn yr amser y gwelwyd hwynt, yr oedd yr hin wedi bod yn dawel a chymmylog, ond teimlid awelon disymmwrth yn fynych o amrywiol barthau, ac hyd yn nod o barthau gwrthwynebol. Mae yr amgylchiadau a ganlynant eu dechreuad, eu parhad, a'u terfyniad, yn fy nhueddu i ystyried eu bod yn deillio oddiwrth achosion gwefrol (*electric causes*), cyffelyb i'r achosion o gorwyntoedd ar y tir, y rhai a deimlir mor fynych pan fyddo yr awyr yn dawel,



rhwng y gwyntocdd oddiar y tir a'r un oddiar y môr yn India, a'r rhai nad ydynt, efallai, yn gryfach yn eu heffeithiau. Nid ymddengys y gwnelai y colofnau hyn, y rhai yr ymddengys eu bod wedi eu gwneuthur i fynu o niwl tew neu darth dyfrllyd, un niwed i long wrth syrthio arni, oddieithr drwy droi rhediad yr hylif gwcfrol (*electric fluid*). Ymddengys fod y pistyll yn cael ei ffurfio yn y modd hwn: gwelir rhyw fan bychan yn y cwmwl yn gwasgu i lawr, yr hwn a ymddengys mor drwchus a'r man tewaf o'r cwmwl; ac mewn man yn y môr, bron yn union odditau, gwelir y dwfr yn berwi i fynu, ac ychydig o niwl o'i amgylch. Ymddengys y fan crybwylledig yn y dwfr yn dywyll yn y canol, a cherllaw ymyl y dwfr, ac nid ymddengys un amser yn codi mwy na deg neu ddeuddeg troedfedd uwchlaw wyneb y dwfr, lle y terfyna fel niwl. Os bydd yr awyr tu hwnt i'r cwmwl yn oleu, ymddengys y pistyll ei hun yn dywyll, ond ddim yn swy felly na'r cwmwl ei hun; ond os bydd yr awyr tu hwnt iddo yn dywyll, ymddengys y pistyll o liw mwg. Pan byddo yn nesu at y dwfr cyffroedig isod, mae y pistyll agos yn union, ond daw yn fuan yn gam fel bwa, yn ol fel y byddo y gwynt, gan ymollwng ychydig o'i flaen; eto nid yw ei drwch yn gyffredin yn ymddangos yn swy na'r man tewaf yn y cwmwl wrth yr hwn y glyna. Derfydd y weledigaeth hon yn rhaniad y golofn, yr hon sydd yn ymadael fel yn cael ei thori ymaith, y pen uchaf yn esgyn i fynu, a'r pen isaf yn ymwasgaru letach letach, ac yn raddol yn diflanu. Gellir sylwi nad yw y golofn yn aros yn yr un fan, ond yn symud fel pe byddai yn cysylltu y cwmwl oll drosto â'r môr dros gryn bellder weithiau. Ar ol i'r pistyll ddiflanu, mae yn fynych wlaw trwm o'r cwmwl."

Salm 77. 19. *Nid adwacnir dy ôl.* *Burckhardt*, yn hanes ei deithiau yn Syria, a ddywed, "Ayd o hyd a dystiai ei sicrwydd fod rhyw un wedi bod gerllaw i ni neithiwr, yr oedd yn gosod cymmaint o hyder yn ngwaith ei gi yn cyfarth; efe gan hyny a'm cynghorodd i brysuero ar hyd fy ffordd yn ol, o herwydd y gallasai rhai Arabiaid weled ôlion ein traed yn y tywod, a'n dilyn mewn ymofyniad am ysglyfaeth. Wrth ymadael, Ayd, yr hwn oedd yn droednoeth, a thraed yr hwn oeddynt wedi dolurio wrth gerdded, a gymmerodd o dan y llwyn o goed *date*, o amgylch yr hwn yr oeddem wedi treulio y nos, bâr o sandalau lledr, y rhai y gwyddai eu bod yn perthynu i gyfaill iddo ag oedd yn

bysgotwr, a'r rhai a guddiasai yr olaf yma hyd ei ddychweliad. Mewn trefn i hysbysu i'r perchenog mai efe a gymmerasai y sandalau, efe a wnaeth ôl ei draed yn y tywod yn ymyl y fan lle yr oeddynt, yr hwn y gwyddai y byddai i'r llall ei adnabod yn ddioed, ac efe a drôdd fysedd ei draed tua'r dehau, i arwyddo ei fod ef wedi myned â'r sandalau i'r ffordd hono." Os yw ôlion y traed yn gosod allan mor eglur y person a'u gwna yn y tywod, a'r llwybr a gymmer efe, yn y fath fodd grymus y mae Asaph yn darlunio mor annirnadwy yw ymddygiad Jehofah, pan y dywed, *Dy ffordd sydd yn y môr, a'th lwybrau yn y dyfroedd mawrion, ac nid adwaenir dy ôl.*

Salm 102. 7. *Fel aderyn y tô, unig ar ben y tŷ.* Mae Brookes (*Nat. Hist., vol. 2, p. 192*) yn dywedyd fel y canlyn am yr aderyn hwn:—"Mae yn gyffredin yn eistedd wrtho ei hun ar benau hen adeiladau a nenau eglwysi, gan ganu yn beraidd iawn, yn enwedig yn y bore; ac aderyn dwyreiniol ydyw."

Diar. 3. 28. *Na ddywed wrth dy gymmydog, cerdda ymaith, a dyred amser arall, ac y foru mi a roddaf, a chennyt beth yn awr.* Richardson, yn hanes ei deithiau gydag ymylau Môr y Canoldir, a ddywed, "Yr oeddynt wedi agoryd a chwilio teml yn Absambul, ac yma cymmerodd amgylchiad anhwyfryd le rhwng y gweithwyr ac Arabiad dialeddgar. Y lle yr oeddem ni yn gweithio ynddo oedd yn union o dan wyneb serth y deml; ac mor fuan ag y dechreuodd y badwyr ar eu gorchwyl, Arabiad, yr hwn oedd wedi cymmeryd meddiant o le yn union uwch eu penau, a ddechreuodd dreiglo cerig mawrion i lawr arnynt. Drwy drugaredd ni niweidiwyd neb; ond bu raid i bawb fyned ymaith yn ddioed, a brawychwyd hwynt yn fawr. Y cerig a dreiglodd efe i waered gyda'r fath ffyrnigrwydd annhosturiol, oeddynt fwy na digon o faintioli i ladd unrhyw ddyn, pe buasant yn cwmpo o uchder llawer llai na'r hwn y taflasai efe hwynt o hono. Pan edrychwyd i fynu, canfuwyd y gelyn yn fuan, ond nid oedd mewn un modd yn arswydo, nac yn amcanu ymddirgelu, ond, yn hyf ac eofn yn ei ymosodiad, bygythiodd adnewyddu ei ergydion as elai unrhyw ddyn at ei orchwyl drachefn. Gorchymynwyd iddo fyned ymaith, ond ni wnelai; yr oedd wedi dewis ei le, ac ni wnelai roddi i fynu y lle manteisiol ag a wnelai un dyn yn gymmar i gynifer. Nid oedd amser i siarad yn hir; gallasai efe gael ei gyanorthwyo gan gannoedd yn fuan, yr hyn a wnelai gylafaredd-

iad yn fwy anffuddiol, a gwrthwynebiad o'n tu ni yn llai effeithiol. Yn ystyried hyn, arglwydd Belmore a archodd i forwr Seisnig, yr hwn erbyn hyn oedd wedi dyfod i fynu a gwn yn ei law, i saethu ergyd a elai heibio iddo o fewn i ychydig bellder oddi wrtho, fel y gallasai glywed ei swn. Ufuddhawyd yn ddioed i'r arch, a gwnaeth hyny iddi blygu i lawr, ac ymguddio tu hwnt i ddarn o'r graig. Saethwyd amrywiol o ergydion ereill ato o barthau ereill, ac efe a ddechreuodd deimlo nad oedd ei le gwbl mor ddiogel ag y tybiasai efe ar y cyntaf ei fod; ac wrth godi yn ei ymguddfa ac edrych tuag atom, a gweled yr un morwr ag a saethasai ato y tro cyntaf, yn awr yn cyfeirio ei wn yn fwy uniongyrchol ato, efe yn ddioed a redodd ymaith. Groegwr cyflym ar ei draed, yr hwn erbyn hyn oedd wedi dringo y graig i fynu, a'i dilynodd ef dros gryn ffordd i'r anialweh, gan ddymuno ei gymmeryd yn garcharor, a thrwy hyny ei rwystro i hysbysu y peth i'w lwyth, na rhoddi i ni un afonyddwch chwanegol, hyd oni chaffem ein boddloni wrth chwilio y deml, ac yna, mewn amser byr, buasem allan o'u cyrhaedd; ond ein Groegwr cyflym, wedi iddo dros amser redeg yr un mor gyflym a'r Arabiad, heb allu ei oddiweddyd, a orfû roddi ei amcan i fynu, a dychwelyd heb ddal ei wrthwynebydd, yr hwn oedd gyflymach nag ef.

“Wrth ymofyn yn nghylch yr achos o'r ymosodiad dyeithur hwn, heb i ddim gael ei wneuthur a ymddangosai yn brofedigaeth iddo i'w wneuthur, a'r hwn a ymddangosai eto yn fwy rhyfedd, gan fod yr Arabiad wedi bod yn hynaws iawn atom yr hwyr o'r blaen, cawsom i'r peth gael ei achlysuero yn y modd canlynol, a bod ein cyfieithydd ni i'w feio am yr holl gweryl. Yr Arabiad hwn oedd berchenog cnwd hyfryd o haidd ag oedd yn tyfu yn ymyl yr afon, gerllaw i'r man lle y tiriassom ni; a chan nad oedd yno ddim porfa, dymunodd arglwydd Belmore i'r cyfieithydd ofyn caniatad ganddo i gael troi y geifr i'w faes ef hyd dranoeth, pan y byddem ni yn myned ymaith, ac y rhoddem iddo dal cyflawn am y niwed a wnelid i'w gnwd ef. Yr Arabiad, mewn modd siriol ac ewyllysgar, a gydsyniodd â hyn, ac a arwyddodd mewn modd moesgar nad allai dwy afr wneuthur dim llawer o niwed i'w fyd ef mewn amser mor fyr; ac efe a aeth ymaith tua'i gartref mewn tymmer happus a boddlongar, ac ymddangosai yn gyfeillgar iawn atom. Ar ei ddychwelliad i ymwelod â ni bore dranoeth, efe a aeth at ein cyfieithydd, ac a ofynodd am y tâl

adlawedig, i wneuthur i fynu ei golled yn y niwed a wnaethid i'w feddiant ef. Y cyfeithydd, yn lle gofyn pa faint ydoedd, a'i foddloni drwy ei dalu, a ymdrechodd ei anfon ymaith, a ymesgusgodi, a dywedyd nad oedd ganddo arian o'i amgylch, gan deisyf arno aros dros ychydig, a bod yn amyneddgar. Yr esgus a'r oediad a'i gwnaethant ef yn hollol ddigllon; efe a ddefnyddiodd iaith anmharchus iawn, gan ddychymygu nad oedd y cyfeithydd, drwy ymdrechu ei anfon ymaith dros ychydig, yn bwriadu talu un pryd iddo; o herwydd, yn eu hymdriniaethau hwy â'u gilydd, pan byddo unrhyw ddyn yn oedi matter fel hwn hyd y foru, yr hwn y gallai yr un cystal ei wneuthur heddyw, maent hwy yn tybied nad oes ganddo unrhyw fwriad difrifol i wneuthur hyny un pryd; ac y mae rhoddi peth heibio hyd y foru yn cael ei gymmeryd, yn fynych gyda hwynt, yr un peth a'i roddi heibio dros byth. A dyma yr ystyr yn yr hwn y cymmerodd efe eiriau y cyfeithydd, a'r cyfryw oedd y dull a gymmerodd i ddial arnom. Wedi cael yr hanes hwn am yr amgylchiad, yr oeddem oll yn teimlo yn ofidus iawn o herwydd yr Arabiad, druan. Yr oedd yn annichonadwy i ni yn awr dalu iddo am ei golled, na rhoddi prawf iddo fod gair Sais gystal a'i arian; ac er y gallasai fod 'aros ychydig' yr un peth ag 'aros byth' yn eu hiaith hwy, nad oedd yr un peth yn yr iaith Seisnig; ac na ddylaisid ymosod ar yr holl gwmpeini o herwydd nad ufuddhaodd y cyfeithydd i orchymyn ei feistr.

Diar. 23. 6. *Llygad drwg*. Pa un a ydyw yr un meddyl-ddrychau i gael eu cyssylltu â'r ymadrodd hwn fel y defnyddir ef gan Solomon, ac fel y deallir ef gan yr Aiphtiaid, nid hawdd yw gwybod, er efallai fod hyny yn deilwng o sylw. Dywed *Pococke* am yr Aiphtiaid, fod "ganddynt barch mawr i'r gelfyddyd a swynyddiaeth, fod ganddynt lyfrau yn ei chylch, ac y tybiant fod rhinwedd rhyfeddol mewn swynion; ond yn enwedig meddyliant fod grym mawr mewn llygad drwg. Pan gaffo plentyn ei ganmol, os na roddwch ryw fendith arno, os na byddant yn ddigon hyderus am eich ewyllys da, hwy a ddefnyddiant swynion yn erbyn llygad drwg; ac yn neillduol pan byddont yn ofni y bydd i unrhyw afwyddiant ganlyn o herwydd y llygad drwg, hwy a daflant halen i'r tân."

"Nid oes un genedl yn y byd," medd Dr. *Shaw*, "yn ymroddi cymmaint i ofergoeldd a'r Arabiaid, neu hyd yn nod y Moham-

medaniaid yn gyffredinol. Maent yn crogi o amgylch gyddfau 'eu plant lun llaw agored, y llaw ddehau yn gyffredin; yr hwn y mae y Tyrciaid a'r Ethiopiaid yn baentio hefyd ar eu llongau a'u tai, fel *swyn yn erbyn llygad drwg*; canys y mae *pump* gyda hwynt yn rhifedi anffodus, a *phump* (gan feddwl eu bysedd) *yn eich llygeid*, yw eu diareb am felldithio a herio. Rhai mewn mwy o oed a ddygant gyda hwynt ryw ymadroddion o'r *Coran*, y rhai (fel y gwnelai yr Iuddewon â'u *phylacterau*, Exod. 13. 16, Num. 15. 38), a roddant ar eu dwyfronau, neu a wnant dan eu penwisgoedd, i attal *rheibiaeth*, ac i ddiogelu eu hunain rhag afiechyd ac anffodion. Maent yn meddwl fod rhinwedd yr ysgrifau a'r swynion hyn mor gyffredinol, fel y crogant hwynt hyd yn nod am yddfaeu eu dâ, eu ceffylau, ac anifeiliaid ereill at ddwyn beichiau."

"Nid yn mysq yr Arabiaid yn unig," medd *Clarke*, "y ceir yr ofergoeledd neillduel o arswydo canlyniadau edrychiad llygad drwg neu un cenfigenus. Mae y Tyrciaid, a chenhedloedd ereill, pobl Uoheldir yr Alban, a phobl Cerniw (*Cornwal*) yn mynwesu yr un dyb. Ond mae yr Arabiaid yn meddwl fod eu hanifeiliaid yn agored i'r rheibiaeth hwn."

*Hobhouse*, yn hanes ei daith drwy Albania, a ddywed,—“Pan aner plentyn, rhoddir ef yn ddioced yn y cryd, a chrogir am ei wddf lawer o ysgrifau swynol; ac y mae telpyn bychan o glai tyner, wedi ei wlychu yn dda mewn ystenaidd o ddwfr; wedi cael ei barotoi yn briodol drwy swynion blaenol, yn cael ei oeddi ar ei dalcen, i ochelyd effeithiau llygad drwg; rheibiaeth niweidiol, yn dyfod oddiwrth olwg *demon* mewn rhyw berson, er ei fod ef ei hun yn anweledig, pan fyddo edrychwz anochelgar yn rhyfeddu rhyw un. Mae y llygad drwg yn cael ei ofni bob amser, a thybir yr effeithia ar bobl o bob oed, y rhai drwy eu llwyddiant y gellir eiddgeddu wrthynt.”

“Mae pob math o ofergoeledd,” medd *Don Raphael*, “yn ffynnu yn mysq yr Arabiaid Bedouinaidd. Maent yn credu yn gadarn yn ngrym edrychiadau drwg, y rhai a darawant y gwrthddrych at y rhai y cyfeirir hwynt; tybiant eu bod yn ei wanhau, yn ei wneuthur yn deneu, yn ei ddystrywio, ac yn ei ddifrodi. Nid oes un diffymiad yn erbyn effeithiau y fath edrychiadau maleisus; nid all dim rwystro eu gweithrediad dinystriol; maent yn gafaclu yr un modd mewn dynion ag mewn anifeiliaid a phethau difwyd. Pan byddo y Bedouinaid yn ewyllysio diffynnu gwrthddrych a fo-

yn agored i'r llygaid weithredu arno, hwy a roddant arno liw goleu, neu gwnant unrhyw beth arall iddo ag a fyddo yn tynu ym-aith sylw, neu yn tueddu i ddystrywio grym y llygad drwg. Dyma y rheswm, méddant, pahan y mae mamau yn paentio wyn-ebau eu babanod newydd eni â manau gleision."

Preg. 7. 1. *Gwell yw enw da nac enaint gwerthfawr.* "Nid oes dim," medd *Jowett*, yn hanes ei ymfyniadau Cristionogol yn Syria, "yn fwy anwyl gan y Drusiaid (llwyth o bobl yn Syria), na'u cymmeriad cyhoedd. Hwyl a esgusodant sarhad, os na bydd neb yn gwybod am dano ond yr hwa a'i cynnygio; a hwyl a oddefant ergydion os bydd hyny yn rhyw fudd iddynt, os na bydd neb yn dyst; ond y sarhad lleiaf a roddir yn gyhoedd, hwyl a ddialant am dano gyda'r ffyrnigrwydd mwyaf. Dyma y peth mwyaf nodedig yn eu cymmeriad fel cenedl. Gall y Drusiaid ymddangos yn anrhydeddus mewn modd cyhoeddus, ond hawdd yw eu temtio i ymddwyn yn wahanol, pan fyddo ganddynt le i feddwl na chaffo eu hymddygiadau eu cyhoeddi. Nid yw rhwymau gwaedoliaeth a chyfeillgarwch yn un grym gyda hwynt; mor fuan ag y delo y mab i faintio, mae yn dechreu cydfwriadu yn erbyn ei dad." Dywed haneswyr ereill am y bobl hyn, fod y meibion yn eu plith yn troseddu yn erbyn diweirdeb eu mamau a'u chwiorydd; ac mai y peth goreu yn eu cymmeriad yw y gyfraith neillduol hono yn nghylch llettygarwch, yr hon sydd yn eu gwahardd i fradychu gwestwr.

Caniad Sol. 2. 1. *Rhosyn.* Yn y Dwyrain mae i'r blodeuyn hwn arogl peraidd iawn, ac y mae yn wastadol wedi cael ei ryfeddu yn fawr. Yr oedd gan yr hen Roegiaid a'r Iuddewon olwg neillduol arno.

Dywed Syr *R. K. Porter* am dano fel y canlyn:—"Nid yw y rhosyn mewn un wlad yn y byd yn tyfu i'r fath berffeithrwydd ag yn Persia; nid yw yn cael ei a'i brisio yn y fath fodd gan y brodorion mewn un wlad arall. Mae llawer o'i blanhigion i'w gweled yn eu gerddi, ac mae eu hystafelloedd yn cael eu hadduno â llestri yn y rhai y mae sypiau o honynt wedi eu cylynnu yn nghyd; ac y mae eu blodau yn cael eu taenu ar hyd ymylau eu golchfeydd. Pan byddo un o'r rhai tlotaf o honynt yn prynu rhywbeth, ag na byddo ond o bris bychan, mae yn ei fwynhau yn llawer gwell os bydd cangen o bren anwyl ei wlad wedi ei osod ynddo."

“Ni a ddaethom,” medd yr un hanesydd, “i bentref bychan hardd iawn, yn cael ei amgylchu gan goed, gerddi, a gwinllan-oedd, i'r hwn y mae y trigolion wedi rhoddi enw hardd, yr hwn a arwydda rhôs-ddwfr. Mae hwn yn enw a hoffa y Persiaid yn fawr, ac a arferant yn fynych pan yr amcanant, mewn modd cymhariaethol, ddesgrifio unrhyw beth hyfryd; a hwy, gan hyny, a'i defnyddiant yn fynych.”

Esay 2. 19. *Tyllau y creigiau, ac ogofau llychlyd.* Mae gwlad Judea, gan ei bod yn fynyddig a chreigiog, yn llawn o ogofau, fel yr ymddengys oddiwrth hanes gwaith Saul yn erlid Dafydd, Yn Engedi, yn neillduol, yr oedd ogof ag oedd mor helaeth, fel y gallai Dafydd a'i chwe' chan' wr ymguddio yn ei hochrau, a Saul fyned i mewn i enau yr ogof heb weled un o honynt yno, 1 Sam. 24. Dywed Josephus wrthym am gwmpeini lliosog o ladron, y rhai, wedi iddynt anrheithio y wlad, a chael eu herlid gan Herod a'i fyddin, a giliasant i ryw ogofau, y rhai oeddynt bron yn anhygyrch, gerllaw Arbela, yn Galilea, lle y cafwyd anhawsdra mawr cyn eu gorchfygu. Yr oedd rhai o'r rhai hyn yn naturiol, ereill yn waith celfyddyd. “Tu hwnt i Damascus,” medd Strabo, “y mae dau fynydd a elwir Trachones (oddiwrth y rhai y mae y wlad yn cael yr enw Trachonitis), ac o'r fan hon, tuag Arabia ac Iturea, y mae rhyw fynyddoedd geirwon, yn y rhai y mae ogofau dyfnion, un o ba raf a ddeil bedair mil o wŷr.” Dywed Tavernier 'am ogof, rhwng Aleppo a Bir, ag a ddeil gerllaw tair mil o geffylau. “Taith tair awr oddiwrth Sidon,” medd Maundrell, “yn nghylch milltir oddiwrth y môr, mae mynydd uchel creigiog yn sefyll, yn ochrau yr hwn y mae llawer o ogofau wedi cael eu naddu, oll yn gwahan-iaethu ychydig y naill oddiwrth y llall. Mae y mynedfeydd iddynt yn nghylch dwy droedfedd betryal; yn y tu mewn y mae yn y rhan amlaf, os nid ynddynt oll, ystafell yn nghylch pedair llathen betryal. Mae yr ogofau tan-ddaearyl hys, yn bedwar cant o rifedi. Gellir barnu, gyda llawer o debygolrwydd o leiaf, i'r lleoedd hyn gael eu llunio at wasanaeth y byw, ac nid i'r meirw. Mae Strabo yn dywedyd fod anneddau rhyw bobl a elwir Troglodytæ yn gyffelyb i'r rhai hyn.”

Esay 17. 13. *Erlidir hwynt fel peiswyn mynydd o flaen y gwynt, ac fel peth yn treiglo o flaen corwynt.* Morier, yn hanes ei daith d-wy Persia, a ddywed,—“Ar y diwrnod cyn i ni gyr-

haeddyd Casvin, tra yr oeddem yn gwersyllu gerllaw pentref Hassanabad, cododd gwynt grymus iawn o'r dwyrain, a elwid Baad Raz;—efe a chwythodd o'r bore hyd yn nghyloh dau o'r gloch yn y prydnhawn, pan y troodd o amgylch i'r gorllewin, ac yna hwy a'i galwent Baad Shehriar. Ar amser y troad, yr oedd corwyntoedd mewn amrywiol o barthau o'r gwastadedd, yn chwythu ar hyd y wlad mewn gwahanol gyfeiriadau, mewn modd ag oedd yn ddychrynlyd iawn. Hwy a ddygent yn eu canol dywod, cangau coed, a sofr y meusydd, ac, yn wir, ymddangosent yn cyssylltu y ddaear a'r cymmylau â'u gilydd. Mae cysondeb y gyffelybiaeth a ddefnyddir gan y prophwyd, Esay, pen. 17. 13, pan yn cyfeirio at yr olwg hon, yn taro meddwl y teithiwr yn y Dwyrain yn rymus iawn."

"Mae corwyntoedd," medd *Belzoni*, wrth grybwyll am ei ymchwiliadau yn yr Aipht, "yn ffynu bob tymmor o'r flwyddyn, ond yn enwedig yn amser y gwynt Camseen, yr hwn a ddechreua yn Ebrill, ac a bery hanner cant o ddyddiau. Mae yn chwythu yn gyffredin o'r dehau-orllewin, ac yn parhau dros bedwar, pump, neu chwech diwrnod, heb droi; mae yn chwythu mor gryf, fel y mae yn codi y tywod i uchder mawr, gan ffurfio cwmwl helaeth, yr hwn sydd mor dew fel y mae yn annichonadwy cadw y llygaid yn agored, os na byddant dan orchudd. Mae yn blino hyd yn nod yr Arabiaid; mae yn gyru y tywod i'r tai drwy bob agen, ac yn llenwi y cwbl ynddynt. Ni all y *caravans* fyned rhagddynt yn yr anialwch; ni all y badau barhau eu mordeithiau; ac mae teithwyr yn gorfod bwyta tywod o'u hanfodd. Mae y cwbl fel cymmysgfa. Mae cryn lawer o dywod a cherig mân yn cael eu codi yn fynych i uchder mawr, ac yn ffurfio colofn o dri ugain neu dri ugain a deg o dryfesur, ac mor dew, fel, pe byddai yn ddiysgog yn yr un lle, yr ymddangosai yn gorph caled. Mae hwn nid yn unig yn troi yn ei gylch ei hun, ond yn rhedeg mewn cyfeiriad amgylchol dros lawer iawn o dir, gan gadw ei hun, weithiau, mewn cyffroad dros hanner awr, a lle y syrthio, mae yn gwneuthur bryn bychan o dywod."

Esay 18. 2. *Ar hyd wyneb y dyfroedd, mewn llestri brwyn. Keppel*, wrth grybwyll am ei daith o India i Loegr, a ddywed,— "Yr oedd ein båd o wneuthuriad neillduol; yr oedd, o ran ei ddull, fel cawell crwn helaeth; yr oedd yr ochrau o helyg, wedi eu ouddio â



math o glai gludiedig (*bitumen*); yr oedd cyrs wedi eu gosod yn y gwaelod. Yr oedd dau ddyn ynddo â rhwyfau byrion ganddynt, y naill yn tynu tuag ato, a'r llall yn gwrthio oddiwrtho. Mae badau cyffelyb i hwn i'w gweled yn gyffredin ar hyd yr Euphrates a'r Tigris, a hwy, efallai, ydynt y gorau a ellir wneuthur at y ffrydiau cryfion ag ydynt gyffredin yn yr afonydd hyn."

Essay 40. 24. *Y corwynt*. "Y dyddiau poethaf yn fynych," medd *Burchell*, yn hanes ei deithiau yn Neheudir Affrica, "ydynt y rhai tawelaf; ac ar y cyfryw amserau yr oedd tawelwch yr awyr yn cael ei derfysgu yn ddisymwth mewn modd anarferol. Yr oedd corwynt yn fynych yn codi i fynu golofnau o dywod i uchder mawr yn yr awyr, ac yn ysgubo dros y gwastadedd gyda ffyrnigrwydd mawr ar ychydig o amser. Gan eu bod yn gyffredin yn ddiniwed, yr oeddern yn cael difyrwch wrth weled y colofnau hirion hyn o dywod yn symud yn gyflym heibio i ni ar hyd y gwastadedd, gan ddwyn i fynu bob defnydd ysgafn i'r uchder o bedwar cant o droedfeddi. Amrywient yn eu cyflymdra wrth deithio; teithient o bump i ddeg milltir yr awr. Anfynych y byddent yn syth yn eu dull, a newidient eu dull ar amserau. Bryd bynag y dygwyddent fyned dros ein tânau, gwasgerid yr holl ludw mewn munud, ac ni adewid ond y darnau trymion o goed. Sylwid weithiau eu bod yn difianu, ac yn mhen munud neu ddwy wedi hyny yn ail ymddangos yn mhellach yn mlaen. Dygwyddai hyn pa bryd bynag yr elent dros dir creigiog, neu ryw fath o dir ar yr hwn ni byddai llwch, neu ddefnyddiau ereill digon ysgafn i'w cymmeryd i fynu yn ei ganol. Weithiau newidient eu lliw yn ol lliw y tir neu y llwch o orwedddai yn eu ffordd; a phan groesent ddarn o wlad lle y byddai y borfa wedi ei llosgi, byddai eu lliw yn ddŵ yn gyffelyb i liw y tir hwnw.

"Ond heddyw nid oedd tawelwch a gwres y dydd, ond arwydd o wynt grymus, yr hwn a ddechreuodd mor fuan ag y machludodd yr haul, ac a barhaodd dros y rhan fwyaf o'r nos. Yr oedd y poethder mawr a'r sychder maith a gawsid, wedi difa holl ireidd-dra y ddaear, ac wedi gwneuthur y tir tywodlyd yn ysgafn, a llychlyd iawn. Yr oedd llawer iawn o'r llwch ysgafn hyn yn cael eu cymmeryd i fynu gan y gwynt, nes llenwi yr holl awyr; lle, mewn uchder mawr, y dygid hwynt ymaith gan y corwynt, ac yr ymddangosent yn gywir fel cymmylau o liw cochlyd; tra yr oedd y gronynau trymaf, wrth ddisgyn, yn ymddangos o bell fel niwl neu wlaw yn cael ei yru gan y gwynt."

## DYFYNIADAU

ALLAN O WAITH PAXTON, &amp;c.

## GWIN.

MAE gwahanol fathau o win yn cael eu gwneuthur yn Syria a gwlad Canaan; nid yw rhai o honyat ond gwaelion iawn; ond y mae ereill, megys y gwin a wneir o rawnwin Escol, yn rhagorol iawn o ran eu blas. Mae gwin melus mewn bri mawr yn y Dwyrain, o herwydd ei fod yn hyfryd i'r archwaeth, yn arioli y meddwl, ac yn cadw yn ei flas dros gryn amser. Dewisid ef gan hynny gan y rhai a ymbleserent mewn yfed, a neillduid ef yn gyffredin at wasanaeth brenhinoedd. Mae y prophwyd Joel, (pen. 3. 18,) yn disgrifio cyflwr o lwyddiant mawr, drwy waith y mynyddoedd yn defnyddu melyswin. Fod y ddiod hyfryd hon yn cael ei bwriadu at wasanaeth brenhinoedd a thywysogion, a phersonau o'r radd uchaf, a ymddengys oddiwrth y geiriau hynny, Esther 1. 7. *Gwin brenhinol lawer, yn ol galla y brenin.* Mae y Deg-a-thriugain yn darllen y geiriau fel hyn: *Gwin melus lawer, y cyfryw ag a yfai y brenin ei hun.* Os oes sail dda i'r meddylddrych hwn, dengys i ni ryw reawm dros ymddygiad y milwyr, y rhai a wylent groes ein Gwaredwr bendigedig wrth ddyoddef; dichon mai mewn gwawd ar ei honiad ef i awdurdod brenhinol, y cynnygiasant hwy finegr iddo, neu win wedi suro, yn lle y gwin melus hyfryd ag a roddid ar fyrddau brenhinoedd a thywysogion. Tystia Luc (pen. 23. 36) mewn geiriau eglur, i hyn gael ei wneuthur mewn gwawd arno. Ei eiriau ef ydynt,—“A'r milwyr hefyd a'i gwatwarasant ef, gan ddyfod ato, a ohynnyg iddo finegr.” Yr oedd gwin, yn yr hwn yr oedd rhyw gyffyrriau meddygol wedi eu rhoddi, yn cael ei roddi i ddrwg-weithredwyr luddewig, cyn eu dienyddiad, i'w hurtio, a lleihau eu teimlad o boen; ond cynnygiwyd finegr i Grist, mewn trefn i fywiocau ei deimlad o boen, a hynny hefyd mewn gwawd ar ei awdurdod brenhinol.

Gwinoedd cochion a brisid fwyaf yn y Dwyrain. Yr oedd y lliw coch yn cael ei ryfeddu gymmaint, fel, pan y byddai yn rhy wŷn, y rhoddent iddo liw dyfnach drwy roddi *saffron* neu *Brazil-wood* ynddo. Trwy sugno y lliw o'r cyfryw gyffyrïau, gellir dywedyd fod y gwin yn gwneuthur ei hun yn gochach; amgylchiad, yn ol tyb Mr. *Harmer*, yr amcana Solomon ei osod allan yn y ddiareb hōno, Diar. 23. 31, *Nac edrych ar y gwin pan byddo coch, pan ddangoso ei liw yn y cwppan, pan ymgynhyrfo yn iawn.* Mae y gair yn arwyddo gweithred a dry ar y gweithredyd ei hun, ac yma chwanega at rym y rhybudd.

Tra yr oedd y Rhufeiniaid a'r Groegiaid wrth win cymmysgedig, yn wastad yn deall gwin wedi ei wanbau â dwfr, yr Hebraid, yn y gwrthwyneb, a ddeallent wrth y cyfryw win un wedi ei wneuthur yn gryfach, ac yn fwy meddwawl, drwy chwanegu ato gyffyrïau mwy grymus, megys mêl, peraroglau, neu win wedi ei dewychu drwy ei ferwi nes y byddai wedi lleihau un rhan o dair, neu i'r hanner, myrrh, a chyffyrïau yn peri cysgadrwydd, &c. Yr oedd y Groegiaid yn gwybod am winoedd wedi eu cymmysgu fel hyn, a phrisir hwynt yn fawr hyd y dydd hwn yn Syria a'r gwledydd cymmydogaethol. Yr oedd y meddwon yn Israel yn dewis y gwin cymmysgedig hwn o flaen un arall; ond dangosir iddynt y canlyniadau arswydus o'i arfer: *I bwy y mae gwae? i bwy y mae ochain? i bwy y mae cynnen? ac i bwy y mae gweliâu heb achos? i bwy y mae llygaid cochion? i'r neb sydd yn ymfyn am win cymmysgedig.* Ac nid oedd moesau y bobl hyn wedi gwellâu yn amser Esau; canys cyfarwyddwyd ef i gyhoeddi "gwae uwchben y rhai a gyfodent yn fore, i ddylyn diod gadarn; y rhai a arosant hyd yr hwyr, hyd oni ennynai y gwin hwynt."

Mae y Salmydd duwiol yn cymmeryd cyffelybiaeth oddiwrth y gwin hwn i osod allan ddigofaint Duw:—*Oblegid y mee phiol yn llaw yr Arglwydd, a'r gwin sydd goch; yn llawn cymmysg, Salm 75. 8.* Mae y prophwyd Esay yn defnyddio yr un gymharïaeth yn un o'i gynghorion:—*Deffro, deffro, cyfo!, Jerusalem, yr hon a yfaist o law yr Arglwydd gwppan ei lidiaogrwydd ef, yfaist waddod y cwppan erchyll, &c, sugnaist ef, Esay 51. 17.* Mae addolwyr y bwystfil a'i ddelw ef yn cael eu bygwth â'r un gosp ofnadwy:—*Hon hefyd a yf o win digofaint Duw, yr hon yn ddi-gymmysg a dywalltwyd yn phiol ei lid ef, Dat. 14. 10.* Yr oedd yr Iuddewon weithiau yn suro eu gwin â sudd y pomgranad: ar-

feriad ag y cyfeiria y ddyweddi ati pan y dywed, *Parwn i' yfed gwin llysieuog o sugn fy mhomgranadau*, Can. 8. 2, neu o win a sudd y ffrwyth hwnw wedi ei gymmysgu ynddo. Wrth gael ei barotoi yn y llwybr hwn, mae yn dyfod yn ddioid oeraidd ac adfywiol yn mhoethder yr hâf; ac o herwydd hyny, yn ddioid gymmeradwy iawn gan bobl y Dwyrain.

Mae y bobl yn y Dwyrain yn cadw eu gwin mewn ystenau pridd, o ba rai nid oes ganddynt un ffordd i'w dynu ymaith yn bur; ac o herwydd hyny y mae yn gyffredin yn dew a lleidiog, o herwydd y gwaelodion ag sydd yn gymmysgedig ynddo. I feddyginiaethu yr anghyfleusdra hwn, maent yn ei hidlo drwy liain; ac at yr arferiad hon, mae yn eglur, y cyfeira y prophwyd pan y dywed,—“Ac Arglwydd y lluoedd a wna i'r holl bobloedd yn y mynydd hwn wledd o basgedigion, o loyw win; o basgedigion breision, ac o loyw win puredig,” *Esay 25. 6.* Cyfeiria ein Hiachawdwr at yr un arferiad yn ei ymddyddan â'r Phariseaid, *Yr ydych yn hidlo gwybedyn, ac yn llyncu camel*, *Mat. 23. 24.* Yn y gwledydd poethion hyny, yr oedd gwybed yn arfer syrthio i'r gwin, os na 'chuddid ef yn ofalus; a daeth hidlo diod yn ddiareb i osod allan fanylwch ynghylch pethau bychain.

Yr oeddynt yn arfer newid y llestri yn y rhai y cedwid y gwin, mewn trefn i'w buro a'i wellâu, a'i gadw rhag suro. Cyfeiria y prophwyd Jeremia at yr arferiad hon, pen. 48. 11, wrth son am Moab, y rhai oeddynt wedi myned yn llygredig anarferol:—“Moab a fu esmwyth arni er ei hieuenctyd, a hi a orphwysodd ar ei gwaddod, ac ni thywalltwyd hi o lestr i lestr, ac nid aeth hi i gaethiwed; am hyny, y safodd ei blâs arni, ac ni newidiodd ei harogl.” Pan byddo yr ymweithiad cyntaf yn ddiffygiol, mae ar y gwin flas cryfach a melusach nag sydd yn naturiol iddo pan byddo yn ei gyflwr gwir winaid; ac oddieithr i ymweithiad pellach gael ei ddwyn yn mlaen, drwy ei gadw yn hwy ar ei waddod ei hun, ni ddaw byth i radd briodol o addfedrwydd, ond bydd yn ymweithio drachefn a thrachefn mewn modd aneffeithiol, ac yn fuan efe a sura. Yr oedd Moab, mewn modd cyffelyb, wedi bod yn genedl gynnyddol, wedi codi i radd uchel o lwyddiant, ac nid oedd wedi dyoddef y chwyldroadau adfydus a llymion, y rhai a brofasai pobl Israel; nid oeddynt hwy wedi cael eu tywallt o lestr i lestr, nid oeddynt wedi myned i gaethiwed, nac wedi gweled eu tiriogaethau yn cael eu rhwygo yn deyrnasoedd gwrthwynebol, ond yr oeddynt wedi cael tawelwch am amser maith.

Yr oedd yr arferiad o oeri gwinoedd âg eira, yn gyffredin yn smyg y cephedloedd dwyreiniol; a'r Rhufeiniaid a'r Groegiaid a'i derbyniasant oddiwrth bobl Asia. Yr oedd eira Libanus, gynt, yn nodedig at dymheru y gwin. Dywed un hanesydd, "Dros yr holl haf, ac yn enwedig yn yr amser poeth yn nyddiau y cwn, a mis Awst, mae eira o natur oer iawn yn cael ei ddwyn o ffynydd Libanus, daith dau neu dri diwrnod, yr hwn, pan gymysger ef â'r gwin, a'i gwna mor oer ag iâ. Cedwir yr eira rhag toddi yn ngwres yr haul, neu gynhesrwydd yr awyr, drwy ei guddio â gwellt.

At yr arferiad hon, ymddengys, y mae Solomon yn cyfeirio yn y ddiareb hōno,—*Megys oerder eira yn amser cynhauaf, yw cennad ffyddlon i'r rhai a'i gyrrant; canys efe a lawenycha enaid ei feistriaid.* Nid allai y pregethwr brenhinol lefaru am gawod o eira yn amser cynhauaf fel peth hyfryd ac adfywiol; buasai, yn y gwrthwyneb, yn anhyfryd iawn, fel yr ydym ni yn cael ei bod yn y wlad hon; rhaid ei ddeall, gan hyny, yn golygu diodydd wedi cael eu hoeri âg eira.

#### DEFODAU WRTH FWYTA AC, YFED.

SALM 23. 5. *Ti a arlwyi ford ger fy mron yn ngwydd fy ngwrthwynebwyr: iraiſt fy mhen âg olew, fy phiol sydd lawn.* Yn Hindwstan, pan byddo dyn cyfoethog ac o radd uchel yn derbyn gwestwr, i'r hwn yr ewyllysia roddi arwyddion neill-duol o barch, efe a dywallt ar ei ddwyllaw a'i freichiau, yn ngwydd yr holl gwmpeni, ryw berarogl hyfryd, gesyd phiol aur yn ei law, ac a dywallt win iddi nes iddo lifo drosodd; gan sicrhau iddo ar yr un pryd, ei fod yn cael pleser mawr wrth ei dderbyn ef i'w dŷ, ac y caiff efe dan ei gronglwyd bob cysur ag a all efe roddi. Y Salmydd, tebygol, a gyfeiria yn y geiriau uchod at yr arferiad hon, yr hon y dichon ei bod unwaith yn gyffredinol drôs wledydd y Dwyrain. Yr oedd yr Arglwydd wedi derbyn y Salmydd yn fore i ffafr; wedi ei godi i'r bri uchaf o sefydha isel iawn; ac hefyd, yr hyn oedd yn anfeidrol well, yr oedd wedi gosod ger ei fron fendithion yr iachawdwriaeth, wedi ei barotoi, drwy dywalltiad helaeth o'i Ysbryd Santaid, i'w anwynhau, a'i reesawi ef yn y modd mwyaf aarhydeddus, drwy

oesod phiol iachawdwriaeth yn ei law, yn agwydd yr holl hobl, a thywallt iddi mewn modd haelionus, y gwin o gysuron nefol.

Yr oedd y Groegiaid a'r Rhufeiniaid gynt yn eistedd wrth eu prydiau bwyd. Byddai bwrdd bychan yn cael ei osod o flaen pob un wrtho ei hun, yn fynych, a'i fwyd a'i ddiod yn cael eu gosod arno. Arferir gwneuthur fel hyn eto yn China, ac efallai, mewn rhai parthau ereill o Asia Fwyaf. Ond, wedi hyny, pan ddaeth dynion yn dyner a mursenaidd, newidiasant eu heisteddleocedd am welyau, fel y gallent fwyta ac yfed gyda mwy o esmwythdra.

Cafodd yr arferiad o ogwyddo neu bwysu i'r naill du, ei dwyn i mewn oddiwrth genhedloedd dwyreiniol, ac yn enwedig o Persia, lle yr ymddengys ei bod mewn arferiad yn fore iawn. Cyfeirir yn yr Hen Destament at y ddau dull; ond cair profion o'r dull o eistedd yn hir cyn i awdwyr sylwi ar y dull arall. Arferid gwneuthur felly yn rheulu Isaac wrth fwyta; canys y mae Jacob yn anerch ei dad fel hyn,—*Cyfod, atohog, eistedd, a bwyta o'm helfa, fel y'm bendithio dy enaid*, Gen. 27. 19. Yn y wledd a wnaeth Joseph i'w frodyr, ymddengys eu bod yn dylun dull eu tadau; canys hwy a "eisteddasant ger ei fron ef, y cyntaf-anedig yn ol ei gyntaf-anedig, a'r ieuangaf yn ol ei ieuencyd," Gen. 43. 33. Yn llys Saul, lawer o oesoedd wedi hyny, eisteddai Abner yn ymyl ei feistr wrth ei fwrdd; ac yr oedd lle wedi ei bennodi i Dafydd, yr hwn mewn modd pwysig a elwir ei eisteddle ef. Megys mai hon, yn ddiarnheuol, yw yr agwedd fwyaf naturiol ac anrhydeddus, felly ymddengys iddi gael ei dewis yn gyffredinol gan y cenhedlaethau o ddynolryw; ac nid hyd ar ol i lawer o oesau fyned heibio, ac i ddyn golli llawer o ragoroldeb ei gymmeriad dechreuol, y dechreuodd efe orwedd ar ei fol yn gydwastad â'r llawr.

Yn mhen oesau daeth dynolryw, mewn rhai gwledydd, i arfer math o welyau o amgylch eu byrddau, fel y gwelwn yn hanes gwledd ardderchog Ahasuerus. Byddai pob gwestwr yn gogwyddo rhan uchaf ei gorph, ac yn pwyso ar ei fraich aswy, ac yn cadw y rhan isaf yn estynedig allan; yr oedd y pen yn cael ei ddal i fynu, a'r cefn weithiau yn cael ei gymaral â chlustogau. Os gorweddai amrywiol o bersonau ar yr un gwely, yna y cyntaf a orweddai ar y pen uchaf, a'i gluniau yn estynedig allan tu ol i gefn yr ail berson; pwysai pen yr ail berson islaw i fynwes y blaenaf, a'i draed tu ol i'r trydydd person; a byddai y lleill mewn modd

cyffelyb ; canys er y cyfrifid ef yn beth gwael yn Rhufain osod mwy na thri neu bedwar ar yr un gwely, eto, hysbysa Cicero i ni, yr arferai y Groegiaid osod pump, ac ya fynych, rifedi mwy, yn yr un gwely. Yr oedd y personau a gerid yn gyffredin yn gorwedd yn mynwes y rhai a'u carent.

Ac am y rheswm hwn, yn ol y dull ag oedd yn ddigon adnabyddus, y dysgybl anwyl a orweddai yn mynwes ei Arglwydd, wrth gadw y Pasg. Gan fod pen yr ail gyferbyn â mynwes y cyntaf, os ewyllysiai efe lefaru wrtho, yn enwedig os byddai y, peth yn gyfrinach, yr oedd yn rhaid iddo bwysu ar ei fynwes. Fel hyn yr Apostol Ioan, ac efe yn ewyllysio llefaru yn gyfrinachol wrth ei Arglwydd, a bwysodd o angenrheidrwydd ar ei fynwes. Ioan 18. 23.

Wrth gyfeillachu, y rhai a lefarent, a godent eu hunain bron yn syth, yn cael eu cynnal felly â chlustogau. Pan fwytaent, codent eu hunain i fynu ar eu penelin, a defnyddient y llaw ddehau ; yr hyn oedd y rheswm fod ein Iachawdwr yn son am law Judas yn y rhif unigol : *Yr hwn a wlych ei law gyda mi y ddysgl, honw a'm bradycha i*, Mat. 26. 23. Y Groegiaid a'r Rhufeiniaid weithiau a ddefnyddient y ddwy law ; ond os oedd yr arferiad hōno yn mysg yr Iuddewon, y llaw ddehau yn gyffredin a ddefnyddid ; pa fodd bynag, pan lefarodd ein Harglwydd y geiriau dan sylw, nid oedd efe a'i ddysgyblion yn defnyddio ond y llaw ddehau.

Cyn yr elai y Groegiaid i wledd, byddent yn ymolchi ac yn ymeneinio ; canys ystyrid ei fod yn beth anweddus iawn i ddyn ymddangos ar y cyfryw achlysur, heb ymlanhau oddiwrth chwys a llwch ; ond y rhai a ddelent o daith, byddent yn cael eu golchi a'u gwisgo â dillad gweddus yn nhŷ yr hwn a'u croesawai, cyn y derbynid hwynt i'r wledd. Hefyd, golchent eu dwylaw cyn yr eisteddent i lawr at eu pryd bwyd. At yr arwyddion arferol hyn o barch, i'r rhai yr oedd hawl gan deithiwr, neu ryw un ag nad oedd ganddo dŷ o'i eiddo ei hun, y cyfeiria ein Harglwydd yn ei ddiffyniad o Mair, pan yn son am ei gwaith hi yn golchi ei draed, ac yn eu heneinio, Luc 7. 44—46. Dywed Homer ei fod yn beth cyffredin hollol yn y dyddiau hyny, i ferched olchi, ac wedi hyny eneinio, traed eu rhieni. Yr oedd yr Iachawdwr yn nghyflwr teithiwr ; nid oedd ganddo ef gartref i ymolchi ac ymeineinio ynddo, cyn yr elai i dŷ Simon, am hyny yr oedd ganddo hawl i achwyn fod yr hwn a'i croesawai yn pallu

yn y parch ag oedd ddyledus iddo fel dyeithr, pan yn mhell oddi-wrth y lle yr arferai aros ynddo.

Yr Iuddewon yn wastadol a olchent eu dwylaw a'u traed cyn ciniaw. Hwy a ystyrient y seremoni hon fel yn hanfodol, yr hyn a ddengys y rheswm am eu syndod, pan welsant ddysgyblion Crist yn eistedd wrth fwrdd heb gadw y seremoni hon: *Paham y mae dy ddysgyblion di yn troseddu traddodiad yr hynafiaid? canys nid ydynt yn golchi eu dwylaw pan fwytaont fara*, Mat. 15. 2. Pan byddent yn golchi eu dwylaw eu hunain, byddent yn eu soddi yn y dwfr hyd yr arddyrnau; ond pan gyflawnai rhai ereill y swydd hon iddynt, gwnelid hyny drwy dywallt dwfr ar y dwylaw."

Dyma oedd rhan o'r gwasanaeth a gyflawnai Eliseus i Elias ei feistr; ac yn mhob angrafft dan y gyfraith, pan gymmwysid dwfr at y corph gan un arall, yr oedd yn cael ei wneuthur, nid drwy soddi, ond drwy dywallt neu daenellu.

Yr oedd y Rhufeiniaid hefyd gynt yn ymolchi cyn bwyta; ac mewn gwleddoedd cyhoedd byddai y gweinyddwyr yn dwyn dwfr i'r gwesteion i olchi eu dwylaw. Yn ol tystiolaeth Virgil, byddai y gwestwyr yn cael eu golchi ar ol iddynt eistedd ar y gwelyau. Golchid eu traed gan eu gweision neu eu gwragedd; ac mewn trefn i hyn, dyosgent eu hesgidiau neu eu sandalau cyn yr eistedd i fwyta; a thebygol yw nad oeddynt yr eu gwisgo hyd nes y gorphenent eu pryd, ac y byddent yn parotoi i adael yr ystafell. Swydd wael oedd golchi y traed, ac am hyny cyflawnid hi yn gyffredin gan forwynion y teulu. Peth arferol oedd cusanu traed y rhai y bernid fod mwy na pharch cyffredin yn ddyledus iddynt. Eelly gweithredodd Mair yn fanwl yn ol arferiad sefydledig, pan mewn gwledd gyhoedd y cyflawnodd hi y swyddi hyn i'w ffachawdwr.

Mewn rhai parthau o'r Dwyrain byddai traed brenhinoedd a thywysogion yn cael eu golchi mewn cawgiau o aur pur. Amasis, un a frenhinoedd yr Aipht, a ddefnyddiodd y cyfryw un. Personau o radd is a ddefnyddient rai o arian, o bridd, neu o bren, yn ol eu cyfoeth. Boddlonai y dosparthau isaf yn mysg yr Iuddewon i'r olaf o'r rhai hyn; yr oedd o ddull hirgul, ac ynddo ef arferent olchi llestri y tŷ. Y cyfryw, tebygol, yn ol yr holl amgylchiadau a nodir gan Ioan, oedd y cawg a ddefnyddiwyd gan ein lachawdwr, pan drwy weithred o ymostyngiad nodedig y golchodd efe draed ei ddysgyblion.



Yr oedd y *towel* a ddefnyddid i sychu y traed wedi eu golchi, yn cael ei ystyried yn arwydd i ddynodi gwasanaethwr. Dywed Suetonius i Caligula, yr ymerawdwr Rhufeinig, oddiar ei falchder, pan ar swpper, oddef i seneddwyr o'r radd uchaf, weithiau, i sefyll wrth ei wely ef, weithiau wrth ei draed, wedi eu gwregysu â *thowel*. Ymddengys, felly, fod y swydd hon yn arwydd o'r gostyngeddwrwydd mwyaf, er nad oedd, efallai, yn hollol ddiraddiad ac anghyson â phob gofal am weddusrwydd. Eto ni wrthododd ein Iachawdwr bendigedig roddi i'w ddysgyblion, ac i Judas Iscariot ei hun, y prawf rhyfeddol hwnw o'i gariad a'i ostyngeddwrwydd. Ar y noswaith ar yr hon y bradychwyd ef i ddwyllaw ei elynion, pan yr oedd ei feddyliau yn gweithredu yn fywiog ar y gogoniant ag oedd iddo gyda'i dad cyn creadigaeth y byd, at yr hwn y gwyddai yn ddigon da ei fod yn mhen ychydig o ddyddiau i ddychwelyd, yn fuddugol ar ei holl elynion, penderfynodd beidio egeuluso un gwasanaeth a allasai dyneru calon Judas, a chadarnhau a chalonogi ei ddysgyblion ereill yn eu dyledswydd; efe a blygodd ac a olchodd y traed ag oeddynt wedi ei ddylun ef mewn llawer taith hirfaith a blin, gan roddi i'w ganlynwyr yn y weithred arwyddocaol hono, ernes o'r anrhydedd uchel ag oedd yn eu haros, a'r llawenydd pur ac uchel ag oedd i sirioli eu calonaau yn ei wasanaeth, a choroni eu llafur ar ol iddynt orphen eu dydd.

"Yr oedd yr esampl o ostyngeddwrwydd a roddodd efe iddynt ar yr achlysur hwn yn ddigyffelyb. Ni ddygwyddodd un anghraifft erioed yn mysg yr Iuddewon o fod arglwydd neu athraw yn golchi traed ei weision neu ei ddysgyblion. Heblaw hyn, nid oedd Mab Duw yn anwybodus o fod y Tad wedi rhoddi pob peth yn ei law ef; a bod enw yn fuan i gael ei roddi iddo, i'r hwn y plygai pob glun, ac y tyngai pob tafod. Eto ni phetrusodd efe olchi traed ei weision ei hun, gan brofi drwy y weithred hon, "na ddaethai efe i'w wasanaethu, ond i wasanaethu." Ac nid i'r llu nefol y plygodd efe, ond i ddynion pechadurus a thruenus, ac hyd yn nod i'w fradychwr erchyll.

Byddai y Rhufeiniaid yn wastad yn dechreu eu gwleddoedd a gweddiau a thywallt diod-offrwm i'w duwiau; yr oedd yr un ddefod, yr hon oedd weddill crefydd bur, yn cael ei chadw bob amser yn mysg y Groegiaid; yr oeddynt mor ystyriol o Ragluniaeth Duw, i'r hwn yr oeddynt yn ddyledus am bob bendith,

fel y meddyliant fod yn anghyfreithlon iddynt fwyta hyd nes yr offryment ran o'u darpariadau fel math o flaen-ffrwyth i'w duwiau.

'Y Rhufeiniaid hefyd a derfynent eu prydiau bwyd yn yr un modd ag y dechreuent hwynt, drwy dywallt diod-offrymau a gweddio. Yr oedd esgeuluso y weithred hon o warogaeth yn cael ei ystyried yn annuwioldeb mawr, yr hwn ni buasai neb ond Epicurus, a'r rhai nad addolent unrhyw dduwiau, yn euog o hono. Yn mysg yr Hebraeid gynt, pen y teulu, neu y person penaf mewn cwmpeini, yn wastad a ddechreuai y pryd bwyd drwy ofyn bendith mewn modd difrifol, ac yna adroddent y drydedd Salm ar hugain. Gofalant am fod tamaid o fara yn aros ar y bwrdd ar ol eu prydiau bwyd. Meistr y tŷ a orehymynai i wydr gael ei olchi, llenwai ef â gwin, a chodai ef i fynu, a dywedai, "Bendithiwn ef o roddion yr hwn y buom yn cyfranogi." Y lleill a atebent, "Bendithiwn ef yr hwn a bentyrodd ei ffafrau arnom." Fel hyn Iuddewon a Phaganiaid wrth eu prydiau bwyd—y blaenaf cyn ac wedi y pryd, yr olaf cyn ac weithiau wedi—a gydnabyddent Ffynnon fawr pob daioni; yn mysg y lliaws aneirif sydd mewn enw yn Gristionogion, y ceir rhai yn esgeuluso neu yn condemnio y gwasanaeth rhesymol i Dduw.

### • ANRHYDEDD YN CAEL EI DALU I'R MEIRW.

Mae y dyledswyddau sydd i'w cyflawni at y meirw wedi cael eu hystyried yn bwysig iawn yn mhob oes, ac yn mysg pob cenedl. Mae hyd yn nod y cenhedloedd mwyaf barbaraid wedi ystyried llwch eu perthynasau ymadawedig, fel yn gysegredig. Elai y Groegiaid mor bell ag anrhydeddu eu gweddillion âg addoliad dwyfol; wrth fedd gelyn, rhoddent i fynu eu holl gasineb ato, a gwaradwyddent duedd i ddywedyd yn ddrwg am y marw, fel yn duedd greulon ac annynol. Byddai terfysgu llwch y marw yn dwyn ytaen ar gymmeriad yr hwn a'i gwnelai, yr hwn nid allai un meithder o amser, na newid mewn amgylchiadau ei symud.

Y tybiau hyn, dan gyfarwyddyd a dylanwad ffydd, a wreiddient yn ddwfn yn nghalon Israeliad crefyddol. Mewn dystaw-

rwydd galarus, efe a eisteddai wrth wely angau ei gyfaill neu ei riant, i gymmeryd ei gyngor olaf, a derbyn ei fendith. Yn credu fod eneidiau dynion da yn cael gradd mwy o fywiogrwydd a dyrchafiad wrth nesu at ddiwedd eu gyrfa, a'u bod yn cael eu ffafrio â golwg eglurach a helaethach ar bethau i ddyfod, efe a ystyriai mai ei ddyledswydd oedd dal ar bob ymadrodd a ddisgynai o wefusau yr hwn a fyddai yn marw, ac yn neillduol sylwi ar y funud bwysig pan y darfyddai bywyd, ac yr ehedai yr enaid i fyd yr ysbrydoedd. Mor fuan ag yr elai yr anadl allan, y berthynas nesaf, neu y cyfaill anwylaf, a roddai i'r corph difwyd gusan ymadawol, fel arwydd o serch at y berthynas ymadawedig. Gwnaeth Joseph felly â'i dad Jacob. Tebygol iddo yn gyntaf gau ei lygaid, fel yr addawsai Duw y cawsai wneuthur, ac yna cusanodd y corph ac ymadawodd âg ef. Yn y pethau hyn y Groegiaid gynt a efelychent yr Iuddewon; pan welent hwy eu cyfeillion a'u perthynasau ar roddi i'fynu eu bywydau, deuent yn agos at eu gwelyau, i ganu yn iach iddynt, ac i ddal ar eu geiriau wrth farw, y rhai nid adroddent un amser heb barch.

Ar ol rhoddi y cusan ymadawol, y cwmpeini a rwygent eu dillad, yr hon sydd arferiad i ten iawn, a'r dangosiad mwyaf o alar yn y cynoesoedd. Nid anghofiai yr Iuddewon y seremoni hon un amser pan ddygwyddai unrhyw amgylchiad galarus. Hwy a dorent y wisg uchaf ar yr ochr ddeheu gymmaint a lled llaw. Yn achos perthynasau agos iawn rhwygir yr holl wisgoedd ar yr ochr ddeheu. Ar ol cau y llygaid, rhwymid y wyneb, ac nid cyfreithlon oedd edrych arno mwy.

Yr oedd y gorchwyl o berarogli corph marw, yn cael ei gyflawni gan yr Aiphtiaid, yn y dull canlynol: byddai yr ymenydd yn cael ei dynu allan, a'r gwagle yn cael ei lenwi â chyffyriau meddygol; yr oedd y perfedd hefyd yn cael eu cymmeryd ymaith, a'r corph yn cael ei lenwi â myrrh, casia, a pheraroglau ereill, mewn trefn i sychu y gwlybyroedd, ac yna cyffeithid ef mewn neitr dros ddeg diwrnod a thriugain. Wedi diwedd yr amser hwn, yr oedd yn cael ei rwymo mewn rhwymau o liain teg, ar y rhai y byddai math o glyd i beri iddynt lynu wrth y corph: ac yna traddodid ef yn gyflawn i berthynasau y trengedig; yr oedd y llinellau yn yr wynebpryd, ac hyd yn nod blew yr amrantau yn cael eu cadw fel yn. Yn y dull hwn yr oedd brenhinoedd Juda yn cael eu perarogli dros lawer o oesau.

Ond pan na byddid yn treulio amser maith gyda'r defodau ang-laddawl, arferent ffordd arall o berarogli. Rhwymment beraroglau am y corph, heb dynu allan yr ymenydd a'r perfedd. Yn y ffordd hon y bwriedid eneinio corph santaid ein Iachawdwr; yr hyn a rwystrwyd drwy ei adgyfodiad. Ymddengys mai y ffordd olaf hon oedd yr hyn a alwai yr hynafiaid yn berarogli; canys sylwa Moses gyda golwg ar Jacob, *Cyflawnwyd iddo ddeugain niwrnod (canys felly y cyflawnir dyddiau y rhai a beraroglr), yna yr Aiphthiaid a'i harwylasant ef ddeng niwrnod a thriugain*, Gen. 50. 2. Yr ydym yn dysgu oddiwrth ddau hanesydd Groegaidd, Herodotus a Diodorus, mai yr amser at arwylio, oedd trá byddai y corph gyda'r peraroglwyr; yr hwn, yn ol Herodotus, oedd ddeg diwrnod a thriugain. Yr oedd yn gorwedd mewn nitr ddeg diwrnod ar hugain, mewn trefn i sychu ei holl wlybyroedd; a thros y deugain ereill (yr amser a goffeir gan Diodorus), eneidid ef a pheraroglaú i'w gadw; yr hyn, gallwn gasglu oddiwrth eiriau Moses, oedd y perarogliad priodol. Yr amgylchiad cyntaf a eglura paham yr arwyloodd yr Aiphthiaid dros Israel driugain a deg o ddyddiau; yr olaf a eglura ystyr y deugain diwrnod a gyflawnwyd i Israel, y rhai oeddynt ddyddiau y rhai a beraroglid.

Gen. 23. 2. *A Sara a fu farw:—ac Abraham a aeth i alaru am Sara; ac i wylfain am dani hi.* Yn mysg y Groegiaid, ar ol i'r corph gael ei wisgo yn ei ddillad bedd, yr oedd yn cael ei osod weithiau ar elor, yr hon a addurnent hwy âg amrywiol fathau o flodau. Y fan lle y cyfeid y corph, oedd, gerllaw drws y tŷ; yna cyrchai cyfeillion y trengedig atynt gan lefain allan yn uchel; defod ag sydd eto i'w chael yn mysg y bobl hyny. *Dr. Chandler*, pan yn teithio yn ngwlad Groeg, a welodd wraig yn eistedd, a drws ei thŷ yn agored, ac yn galaru o herwydd marwolaeth ei gwr; ac mewn lle arall, efe a welodd wraig mewn tŷ, a'r drws yn agored, yn galaru ar ol ei bachgen bychan, corph yr hwn oedd yn gorwedd yn ei hymyl, wedi ei drin, a'i wyneb wedi ei addurno âg eurddail. Cafodd yr arferiad hon o alaru ar ol y meirw, gerllaw drws y tŷ, ei benthycu tebygol, oddiwrth y Syriaid: ac os felly, hi a wasanaetha i egluro ymadrodd tywyll o eiddo Moses, yn nghylch Abraham yn myned i *alaru am Sara, ac i wylfain am dani hi.* Efe a ddaeth allan o'i babell wahanol ei hun, ac a eisteddodd ar y llawr gerllaw ei phabell hi, lle yr oedd ei chorph wedi ei osod, fel y

gallai gyflawni y defodau hyny o alar ag oeddynt ofynedig, o ran gweddeidd-dra a serch, ac a alarodd gan dywallt dagrau an y golled a gawsai.

Tra y byddai y corph yn gorwedd yn y modd hwn, hwy a ar farent edrych yn ofalus ato, rhag i un anmharch gael ei ddangos iddo. Gwel 2 Sam. 21. 10.

O flaen drws y tŷ lle y byddai y corph, yr oedd llestr a dwfr yn cael ei osod fel y gallasai y rhai a fuasent yn ymdrin â'r corph buro eu hunania drwy ymolchi; canys y paganiaid a dybient yr halogid hwynt drwy gyffwrdd â chorph marw, a meddyl-ient nad oedd y tŷ lle y gorweddai yn hollol rydd oddiwrth halogedigaeth. Yr oedd yr un dyb gan y Rhufeiniaid; yn unig eu bod hwy, yn lle gosod llestr a dwfr wrth y drws, yn pennodi un i fyned o amgylch i buro y rhai a fyddent bresennol. Meddylid fod yr awyr a ddeuai oddiwrth gorph marw, yn halogi pob peth yr elai iddo; a dyma y rheswm fod pob llestr agored yn gystal a'r holl dŷ, yn myned dan buredigaeth gyffredinol, yn ddioced ar ol yr angladd. Yn y tybiau a'r defodau hyn, ni a allwn weled ychydig o debygolrwydd i'r cyfreithiau perthynol i gyrph meirw, y rhai a roddwyd o ben Sinai i Israel. *A gyffyrddo â chorph marw dyn, aflan fydd saith niwrnod. Ymlankaed drwy y dwfr hwnw ar y trydydd dydd; a'r seithfed dydd glân fydd.—Dyma'r gyfraith, pan byddo marw dyn mewn pabell; pob un a ddelo i'r babell, a phob un a fyddo yn y babell, fydd aflan saith niwrnod. A phob llestr agored ni byddo cadack wedi ei roymo arno, aflan yw efe.* Num. 19. 11—15.

Ar ol i'r corph fod yn gorwedd yn y tŷ, neu mewn rhyw ys- tafell agored, dros y rhifedi arferol o ddyddiau, gosodid ef mewn arch. Ond yr oedd hyn, pa fodd bynag, yn anrhydedd a gedwid, fynychaf, i bersonau o radd uwch na'r oyffredin; canys ar unrhyw dyb arall, nid hawdd yw cael rheswm dros sylw yr ysgrifenydd ysbrydoledig, i gorph Joseph, wedi iddo gael ei eneinio, gael ei osod mewn arch yn yr Aipht, Gen. 50. 26. Ymddengys fod cyrph y bobl gyffredin yn cael eu claddu yn eu dillad bedd, heb aroh. Dywed Mr. *Buckingham*, yn hanes ei deithiau, iddo ef weled corph, yr hwn oedd wedi ei droi mewn lliain, heb un arch, ei osod ar ddwy raff, a'r rhai hyny wedi eu sicrhau wrth ddau bawl, y rhai a ddygid ar ysgwyddau dau ddyn, gan gadw traed y corph yn mlaenaf. Heb arch y cafodd corph ein Harglwydd bendigedig ei roddi yn y bedd.

Weithiau rhoddid y corph ar elor, yr hon oedd ryw beth yn debyg i arch neu wely, mewn trefn i'w ddwyn i'w gladdu. Ar un o'r fath hyn y dygid mab y wraig weddw o Nain, yr hwn a gododd ein Hiachawdwr tosturiol i fywyd, ac a adferodd i'w fam.

Ond ymddengys fod yr Iuddewon, weithiau, yn dwyn eu cyrph meirwon i'w claddu heb osod dim danynt, fel y gellir casglu oddiwrth yr hanes am Ananias a Sapphira ei wraig: *A'r gwŷr ieuainc a gyfodasant, ac a'i cymmerasant ef, neu a'i rhwymasant ef, ac a'i dygasant allan, ac a'i claddasant*, Act. 5. 6. Ni sonir gair am elor gyda golwg ar y naill na'r llall; ac megys na ddyagwylid am y cyfryw amgylchiad, nid oes lle genym i feddwl fod un ganddynt yn barod. Gellir casglu fod y dull hwn o ddwyn cyrph i'w claddu, yn un cyffredin yn mysg y Groegiaid gynt.

Dichon mai oddiwrth yr Aiphtiaid y dysgodd yr Israeliaid yr arferiad o loegi peraroglau yn eu hangladdau. *A chladdasant Asa yn ei feddrod ei hun, yr hwn a wnaethai efe iddo yn ninas Dafydd, a rhoddasant ef i orwedd mewn gwely a lenwasid â pher-aroglau o amryw rywogaethau, wedi eu guneuthur o waith yr apothecari; a hwy a gynneusasant iddo ef gynneu mawr iawn*, 2 Cron. 16. 14. Dywed Josephus fod angladd Herod yn cael ei ohanlyn gan bum cant o bobl ei dŷ yn dwyn peraroglau. A dywed y Talmud, neu lyfr traddodiadau yr Iuddewon, i bedwar ugain pwys o beraroglau gael eu difa yn angladd Rabbi Gamaliel, un o'u henuriaid. Paham gan hyn y meddylir mai annghredadwy yw i Nicodemus ddwyn myrrh ac aloes, yn nghylch cant pwys, i berarogli corph yr Iesu?

Nid oedd dim, yn marn yr hynafiaid, a wrnelsai i fynu y diffyg o gladdedigaeth; yr oedd cael eu hymddifadu o fedd, yn cael ei gyfrif ganddynt yn un o'r adfydau mwyaf a allasai eu goddi-weddyd. Yn Ngwlad Groeg, nid oedd y person a fuasai yn euog o oddef i hyd yn nod corph dyn dyeithr, a gefnid yn y maes, aros heb ei gladdu, yn cael caniatad i ymddyddan â dynion, nac i ymddangos yn y temlau; ond yr oedd yn cael ei ystyried fel yn halogedig, yn wrthddrych yn haeddu y dialedd Dwyfol, a chael ei ffeiddio gan ddynion. Gwyddai yr Iuddewon gynt, wrth gael eu haddysgu gan yr Arglwydd, nad oedd cyflwr y corph difywyd yn prysuro nac yn arafu dychweliad yr

enaid at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef; ond barnent fod cuddio yn y bedd gorph, yr hwn, fel yr eiddynt eu hunain, a fuasai yn ddiweddar yn annedd enaid rhesymol, yn perthyn i weddeidd-dra a dynoliaeth. Oddiwrth hyn gallwn weled pwys neillduol yn ngeiriau Jeremi, pen. 36. 30. *Ei gelain ef a fwir allan i wres y dydd, ac i rew y nos*; ac yn achwyniad y Salmydd, Sam 141. 7: *Y mae e'n hesgyrn ar wasgar ar fin y bedd, megys un yn tori neu yn hollti coed ar y ddaear.*

Teimlad ag sydd agos yn gyffelyb yw y dymuniad o gael ein claddu yn meddrod ein tadau. Y Groegiaid a ystyrient fod cael eu claddu mewn gwlad estronol yn anffawd fawr, ddim llawer llai na cholli bywyd. Yr oedd dymuniad Jacob am gael ei gladdu yn ei wlad enedigol, yn codi, mewn rhan, oddiar deimlad naturiol y galon ddynol, ac, mewn rhan, oddiar egwyddor grefyddol; yn ddangosiad cryf o'i obaith a'i ffydd, y buasai i addewid Jehofah o roddi Gwlad Canaan i'w hiliogaeth, yn cael ei chyflawni yn ffyddlon mewn amser priodol. Ac mae ei orchymyn i'w feibion, pan bron yn marw, gyda golwg ar hyny, yn dangos mor ddwys y teimlai gyda golwg ar y matter hwn. "Yna y gorchymynodd efe iddynt, ac a ddywedodd wrthynt, Myfi a gesglir at fy mhobl; cleddech fi gyda'm tadau, yn yr ogof sydd yn maes Ephron yr Hethiad; yn yr ogof sydd yn maes Macphelah, yr hon sydd o flaen Mamre, yn ngwlad Canaan, yr hon a brynodd Abraham gyda'r maes gan Ephron yr Hethiad, yn feddiant beddrod." Gen. 49. 29, 30.

Byddai yn yr orymdaith angladdol alarwyr profsedig, y rhai a fyddent yn fedrus iawn yn y grefft o alaru, y rhai a gyflogai cyfeillion y trengedig, i'w cynnorthwyo i ddangos eu galar. Dechreuent y seremoni drwy leisïau isel a gwanllyd hen wragedd, yn y rhai yr ymdrechent, drwy eu swn cwynfanus, beri tristwch yn y rhai a fyddent bresenol. Y plant yn yr heolydd drwy y rhai yr elent, yn fynych a roddent heibio eu chwareuyddiaethau, ac a efelychent y swn, ac unent gyda'r un cymmaint o ddiwylledd yn y galarnadau. "Eithr i ba beth y cyffelybaf y genhedlaeth hon? Cyffelyb yw i blant bychain yn eistedd yn y marchnad-oedd, ac yn llefain wrth eu cyfeillion, ac yn dywedyd, Canasom alarnad i chwi, ac ni chwynfanasom." Mat. 11. 16, 17. Dygid peroriaeth hefyd i mewn i gynnorthwyo lleisïau y galarwyr. Defnyddid udgorn yn angladdau rhai mawrion, a phibell yn ang-

laddau rhai mewn sefyllfa isel. Yr oedd galarwyr cyflogedig mor gynnar a rhyfel Troya, ac efallai, lawer o oesau cyn hyny.

Yn yr Aipht, y mae y dosparth isaf o bobl yn galw gwragedd i mewn, y rhai a chwareuant ar dabwrdd; a gwaith y rhai, fel y galarwyr cyflogedig mewn gwledydd ereill, yw canu tonau galarus gyda swm yr offeryn hwnw, ac ar yr un pryd hwy a wnant ystumiau arswydus ar eu cyrph. Mae y gwragedd hyn yn dilyn y corph at y bedd, yn mhlith perthynasau a chyfeillion y trengedig, y rhai y mae eu gwallt, yn gyffredin, mewn eithaf annhrefn; eu penau wedi eu cuddio â llwch; eu wynebau wedi eu dwbio â lliw glâs, neu wedi eu llychwino â llaid; a hwy a udant fel ynyfdion. Y cyfryw oedd y rhai a gafodd ein Iachawdwr yn nhŷ Jairus, yn gwneuthur y fath gynhwrf o amgylch gwely ei ferch. Yr oedd y galarwyr hyn yn dechreu eu gorchwyl mor fuan ag y trengai y person.

Perthynasau y trengedig yn fynych a dystient eu gofid mewn modd mwy difrifol na hyn, drwy rwygo eu cnawd ar eu breichiau noethion. At yr arferiad wrthân a barbaraid hon, cyfeiria y prophwyd fel hyn: *Oblegid pob pen a fydd moel, a phob barf a dorir; ar bob llaw y bydd rhwygiadau, ac am y llwynau, sach-tian*, Jer. 48. 37. Mewn lle arall, dywed, *Byddant feirw yn y wlad hon, fawr a bychan; ni chleddir hwynt, ni alarir am danynt; nid ymdorir ac nid ymfoelir drostynt*, Jer. 16. 6. Ymddengys fod yr arferiad hon yn gyffredin iawn yn yr Aipht, ac yn mysg yr Israeliaid cyn amser Moses, pe amgen ni buasai yn eu gwahardd drwy gyfraith bendant, *Na wnewch doriadau yn eich cnawd am un marw, ac na roddwch brint nod arnoch: yr Arghwydd ydwyf fi*, Lef. 19. 28. Mae Mr. Harner yn cymmwysu yr arferiad hon at y gweliâu yn nwylaw y prophwyd (Zech. 16. 6), y rhai a roddasai iddo ei hun fel arwydd o'i serch at ryw berson. Ac ymddengys fod Calmet yn meddwl yn nghylch nodau yr Arghwydd Iesu, y rhai a ddygai Paul yn ei gorph, y gallasant fod yn greithiau yr archollion hyny y rhai a roddasai efe ar ei freichiau, fel profion o'i gariad at ei Waredwr. Ond ni ddylid meddwl y buasai un o'r athrawon ysbrydoledig hyn yn anturio dangos eu cariad at unrhyw berson, drwy droeddu cyfraith ddwyfol yn wirfoddol, wedi ei gosod illan mewn geiriau eglur; nac y buasai y fath arwyddion amhennodedig o barch yn cael eu coffau gyda chymmeradwyaeth yn yr Ysgrythyrau Santaidd.



Mae angladdau yr Iuddewon yn Barbary yn cael eu dwyn yn mlaen yn gyffelyb i'r rhai hyny yn Syria. Mae y corph yn cael ei ddwyn gan bedwar i'r gladdfa; yn y rhes flaenaf mae yr offeiriaid yn cerdded, yn nesaf y mae perthynasau y trengedig; ar eu hol hwy daw y rhai a wahoddyd i'r angladd; ac oll yn canu y 49ain Salm. At ganu sobr y galarwyr Iuddewig tuedda Mr. Harmer i gymmwysu geiriau Amos: "Ei ewythr a'i cyfyd i fynu, a'r hwn a'f llysg, i ddwyn yr esgym allan o'r tŷ, ac a ddywed wrth yr hwn a fyddo wrth ystlysau y tŷ, A oes neb eto gyda thi? ac efe a ddywed, Nac oes; yna y dywed yntau, Taw; am na wasanaetha cofio enw yr Arglwydd," Amos. 6. 10. Yn y 49ain Salm, yr addolwr crefyddol a esyd allan ei obaith y bydd i Dduw godi ei bobl i fywyd, ar ol iddynt fod yn hir yn nghyflwr y meirw; ond pan, mewn tŷ mor llawn o drigolion, fel y byddai deg o ddynion ynddo, y byddai iddynt oll drengu drwy y cleddyf, y newyn, a'r haint, fel na byddai i un gael ei adael, onid oedd yn naturiol i'r hwn a chwiliai y drigfa ang-hyfanedd hōno, ddywedyd, pan yn dwyn allan y corph olaf i'w gladdu, "Bydd ddystaw;" nid gweddues yw i ni goffau gofal Duw am Israel, yn ei waith ar ol hyn yn ein codi o feirw, pan y mae efe mewn modd amlwg yn gadael ei bobl! Neu, yn ngeiriau ein cyfieithydd ni: *Taw; am 'na wasanaetha cofio enw yr Arglwydd?* (Harmer, vol. 3, pp. 8, 9). Amlwg yw mai amcan y prophwyd, yw rhybuddio ei bobl fod adfydau cyhoedd yn desau, rhai mor lliosog a llym, ag a wnelai iddynt anghofo y defodau arferol o gladdedigaeth, a chanu un o ganiadau Seion uwchben llwch perthynas wedi ymadael. Ymddengys fod hyn yn cael ei gadarnhau gan ragddywediad yn pen. 8. 3:—"Caniadau y deml a droir yn udo yn y dydd hwnw, medd yr Arglwydd Ddŵw; llawer o gelaneddau a fydd yn mhob lle; bwrir hwynt allan yn ddystaw." Ni bydd neb yn galaru nac yn ochaid; ni bydd neb yn chwythu yr udgorn angladdol, nac yn cyffwrdd â'r bibell a'r tabwrdd; ni bydd neb yn canu cân gwynfanus, neu yn gosod allan eu gobaith am adgyfodiad gwynfydedig, yn iaith yr ysgrythyr. Ni bydd ond anobaith dystaw.

Yr oedd y rhai hyny yn mysg yr Hebreaid ag a allent fyned i'r draul ofynol at hyny, yn naddu eu beddau mewn craig drwy lafur dynion. Yr oedd bwâu yn gyffredin yn cael eu gwneuthur i gynnal y nen i fynu; ac yr oedd rhai o honynt, mor helaeth fel y byddai raid fod colofnau yn dal y nen i fynu. O amgylch yn yr ochrau

byddai celloedd at dderbyn y cyrph. Mae llawer o'r beddau hyn i'w gweled hyd heddyw yn Judea; mae dau, yn enwedig, yn fwy ardderchog na'r lleill oll, ac o herwydd hyny tybir mai beddau y brenhinoedd oeddynt. Mae un o'r rhai hyn yn Jerusalem, ac yn cynnwys pedair ar hugain o gelloedd; mae y llall, yr hon a gynnwys gynnifer a hyny ddwywaith; o'r tu allan i'r ddinas. "Yr ydysh i feddwl," medd Lowth, wrth lefaru am y beddau hyn, "am gell dan-ddaeacol ddirfawr, neu ogof helaeth a thrymaidd, o amgylch ochrau yr hon y mae celloedd i dderbyn y cyrph meirwon. Yma gorwedd y brenhinoedd trengedig mewn cyfiwr o ryw fath o fawredd, cymmwys i'w sefyllfa flaenorol, pob un ym gorwedd ar ei wely, a'i arfau yn ei ymyl, ei gleddyf wrth ei ben, a chyrph ei benaethiaid a'i gymdeithion o'i amgylch."

Pa uchaf y byddai y cyfryw feddau wedi eu tori ym y graig, neu pa fwyaf amlwg fyddai eu sefyllfa, mwyaf y tybid yr anrhydedd o orphwys yno. *Hezeciah a hunodd gyda'i dadau, a chladdasant ef yn yr uchaf o feddau meibion Dafydd*, 2 Cron. 32. 33, i wneuthur anrhydedd iddo. Oferedd Sebna, yr hyn yr anfoddlonodd yr Arglwydd gymmaint wrtho, a ymddangosodd yn ei waith yn paratoi iddo ei hun fedd yn wyneb craig uchel: "Beth sydd i ti yma? a phwy sydd genyt ti yma, pan ddrychaist i ti yma fedd, fel yr hwn a drychai ei fedd yn uchel, ac a naddai iddo ei hun drigfa mewn craig?" *Essay* 22. 16. Mae amrywiol o deithwyr diweddar yn coffau am rai cof-adeiladau yn aros hyd heddyw yn Persia ag ydynt yn hen iawn, y rhai a roddent iddynt hwy feddylddrych eglur am amcan rhwysgafwr Sebna gyda golwg ar ei fedd. Maent yn cynnwys amrywiol o feddau, pob un o honynt wedi ei naddu mewn craig uchel gerllaw y pen; ac mae wyneb y graig tua'r dyffryn islaw iddo, yr hwn yw tu allan y bedd, wedi ei addurno â cherf-waith. Mae rhai o'r beddau hyn yn sefyll yn nghylch deg troedfedd ar hugain oddiwrth y llawr yn y graig serth. *Sonia Diodorus Siculus* am yr hen gof-adeiladau hyn, ac a'u geilw yn feddau brenhinoedd Persia. Mae y beddau hyny yn ynys Rhodes, y rhai yr ymwelodd *Dr. Clarke* â hwynt, yn rhoddi eglurhad mwy nodedig eto ar y testun hwn. "Y maent o ddau fath; y fath gyntaf ydynt feddau wedi eu naddu yn y creigiau serth. Yn mhob ochr mynydd ag a fyddai mor serth fel mai prin yr oedd yn ddichonadwy myned iddo, yno yr ymddangosai fod yr henafiaid wedi cymmeryd mwyaf o drafferth. Mae yn

y cyfryw leodd ystafelloedd i'w gweled wedi eu gweithio mewn modd cywrain, yn y rhai y mae colofnau, pyrth, a drysau, wedi eu cerfio yn hardd, oll o un maen."

Gan nad oedd yr Iuddewon yn defnyddio eirch, hwy a gyflëent eu meirw bob un ar wahan ar fath o feinciau neu gelloedd bychain, wedi eu tori yn ochrau yr ôgofau neu yr ystafelloedd, y rhai a naddasent o'r graig. Rhydd y dull hwn ar feddau yr Iuddewon eglurhad esmwyth ar anhawsdra yn yr hanes am adgyfodiad Lazarus. Mae yr hanesydd ysbrydoledig yn dywedyd, pan lefodd ein Harglwydd â llef uchel, *Lazarus, tyred allan*, i'r hwn a fuasai farw ddyfod allan, yn rhwym ei draed a'i ddwyllaw mewn amdo. Mae gelynyion Datguddiad Dwyfol yn gafaelu yn yr amgylchiad hwn gydag awydd, ac yn gofyn mewn modd buddugol, Pa fodd y gallasai efe ddyfod allan o'r bedd, yr hwn oedd yn rhwym draed a dwyllaw mewn amdo? Ond hawdd yw ateb:—nid yw yr Efengylwr yn meddwl i Lazarus rodio allan o'r bedd, ond yn unig iddo godi yn ei eistedd, yna gosod ei gluniau dros ochr ei fainc neu ei gell, llithro i lawr, a sefyll i fynu ar y llawr; yr hyn a allasai wneuthur yn hawdd, er fod ei freichiau yn rhwym wrth ei gorph, a bod ei goesau wedi eu cylmu yn dŷn wrth eu gŷlydd â'r amwsg a'r rhwymynod â'r rhai y rhwymasid ef. Gan hyn, wedi iddo ddyfod allan, archodd yr Iesu i'w berthynasau ei ollwng yn rhydd, a'i adael i fyned ymaith; amgylchiad ag sydd yn eglur yn cynnwys addefiad yr hanesydd, nad allasai Lazarus rodio hyd nes y cafodd ei ryddhau.

Mae i'r bedd Iuddewig ddrysau, y rhai oeddynt gynt yn cael eu cau â cherig mawrion a llydain, y rhai a dreiglid atynt, a'r rhai nid oedd yn gyfreithlon, yn marn Iuddew, eu symud. Yr oeddynt yn cael eu haddurno â cherfiadau, yn desgrifio amgylchiadau yn mywyd y personau a fyddent wedi eu claddu yno. Fel hyn cafodd y fan lle y gorhwysai llwch Josua, ei alw Timnath-heres, o herwydd fod delw yr haul wedi ei cherfio ar ei fedd, yn goffiadwriaeth iddo ef attal y goleuad hwnw yn ei rediad, hyd nes iddo gael buddugoliaeth gyflawn ar y brenhinoedd cyngreiriol. Yr oedd y cyfryw gerfiadau arwyddocaol yn gyffredin yn y Dwyrain.

Y Groegiaid, a'r Persiaid, a arferent gynt eillio eu penau a thori eu barfau mewn dangosiad o ofid mawr. Yr Iuddewon a chenhedloedd ereill yn Syria, a osodent allan eu tristwch ar

ol eu cyfeillion yn yr un modd. Pan glywodd y patriarch Job am farwolaeth ei blant a'r golled o'i feddiannau, efe a gododd ac a rwygodd ei fantell, ac a syrthiodd i lawr, ac a addolodd, Job. 1. 20; ac yn mhrophwydoliaeth Jeremiah (pen. 41. 5) darllenwn am bedwar ugeinwr, y rhai oeddynt yn myned i alaru am anghyfanedd-dra Jerusalem; wedi eillio eu penau, a rhwygo eu dillad, ac ymdori (mewn gwrthwynebiad uniongyrchol i'r gyfraith ddwyfol), ag offrymau a thus yn eu dwylaw, i'w ddwyn i dŷ yr Arglwydd. Ond yr oedd eillio, pa fodd bynag, ar rai achlysuron, yn arwydd o lawenydd; ac felly, yr oedd gadael y gwallt i dyfu yn hir, yn arferiad gan alarwyr, neu bersonau mewn cystudd. Joseph a eilliai ei hun cyn yr elai i'r palas; a Mephiboseth a adawodd i'w wallt dyfu yn ystod yr amser y bu Dafydd yn ddeoledig o Jerusalem, ond eilliodd ar ei ddychweliad. Nid oedd yr arferiad hon yn anadnabyddus yn mysg y cenhedloedd cymmydogaethol; canys arferai morwyr eillio eu hunain ar eu gwaith yn cael eu gwaredu o longdrylliad.

Y rheswm am y gwahaniaeth hwn, yw arferiad gwahaol genhedloedd; canys lle yr arferid gwisgo gwallt hir, yno galarwyr a eillient eu hunain; ond lle yr arferid gwallt byr, yno yr oedd gwallt hir yn arwydd o alar.

Mewn adfydau cyffredin ni wnaent ond esgeuluso eu gwallt, neu adael iddo grogi i lawr yn llaes ar eu hysgwyddau; mewn gofid trymach hwy a'i torent ymaith; mewn cyffroadau mwy gofidus, disymwth, a grymus, hwy a'i tynent â'u dwylaw. Crybwyllir am y fath adroddiad grymus o ofid yn hanes ymddygiad Ezra, yr hwn a ddesgrifia efe fel hyn: *Pan glywais innau hyn, mi a rwygais fy nillad a'm gwisg, ac a dynais wallt fy mhen a'm barf, ac a eisteddais yn syn*, Ezra 9. 3. Yr oedd y Groegiaid a chenhedloedd ereill o'u hamgylch, yn gosod allan fawredd a grym eu gofid yn yr un modd. Hwy a ymneillduent gymmaint ag oedd ddichonadwy oddiwrth y byd; ymgadwent oddiwrth gyfeddach a gwleddoedd; bwrient o'u tai, fel yn anaddas i'w hamgylchiadau, ac hyd yn nod yn boenus i'w teimladau, bob math o offer cerdd, a pha beth bynag a dueddai i gynhyrfu pleser, neu a ymddangosai yn ddifyrwrch a llawenydd; ni chyrchent i gynulleidfaoedd cyhoedd, ac yn fynych nacaent iddynt eu hunain gysuron a chyfleusderau bywyd; ffeiddient oleuni y nefoedd, a cheisient gysgod ac unigolrwydd neillduedd, y rhai y tybid eu

bod yn dwyn rhyw debygolrwydd i'w hanffodau hwy. Fel hyn brenin Persia a dystodd ei ofid am y ddeddf i'r hon yr oedd ei weinidogion cyfrwys wedi ei fradyohu, a'r hon, oni buasai cyfrngiad gwyrthiol y nefoedd, a droisai allan yn angeuol i'w weinidog mwyaf anwyl: *Yna yr asth y brenin i'w lys, ac a fu y neson honno heb fwyd; ac ni adawodd ddwyn difyrwch o'i flaen.*

Byddai galarwyr yn y Dwyrain yn ymddyosg o'u holl addurniadau, ac yn rhoddi heibio eu holl emau, eu haur, a phob peth ardderchog yn eu dillad. Jehofah ei hun a ofynodd am y prawf hwn o ymostyngiad oddiwrth ei bobl pan wedi troseddu yn yr anialwch: *Am hyny yn awr dyosg dy harddwisg oddiam Janat, fel y gwypwyf beth a wnelwyf i'. A meibion Israel a ddyosgasant eu harddwisg wrth fynydd Horeb, Exod. 33. 5, 6.* Yn hir wedi amser Moses derbyniodd y bobl wrthryfelgar hyny drachefn orchymyn cyffelyb: *Ymddyosgroch, ac ymnoethwch, a gwregyswch sachliain am eich llwynau, Esay 32. 11.* Yr oedd gwisgoedd galarwyr yn wastad yn ddû. Gwahaniaethai y dillad hyn oddiwrth eu rhai cyffredin, nid yn unig mewn lliw, ond mewn gwerth; oblegid gwnelid hwynt o ddefnydd garw ac isel-bris.

Yn Judea, y galarwr a wisgai sachliain; ac felly wisgoedd duon. Os oedd cyrph meirwon yn y Dwyrain yn cael eu hamdoi mewn lliain o'r fath hyn, gwisgai y perthynasau gorfucheddol ef, tebygol, mewn efelychiad o'u cyfeillion ymadawedig; a phobl edifeiriol, drwy ei wisgo, a ymddangosent yn cyfaddef fod eu heuogrwydd yn eu gosod yn agored i farwolaeth. Mae rhai o'r cenedloedd dwyreiniol mewn amserau diweddar, yn claddu mewn lliain teg, ond hysbysa *Chardin* i ni, fod ereill o hyd yn cadw yr arferiad o sachliain i'r perwyl hwnw.

Yr oedd yr arwyddion hyn o alar, mewn amserau o adfydau neu beryglon cyhoedd, yn cael eu hestyn at anifeiliaid a berthynent i'r tai, ac weithiau at bethau difwyd, fel y byddai i bob peth gyd-agweddu, gymmaint ag oedd ddichonadwy, â'r teimlad cyffredin. Pan hysbyswyd i frenin Nineseh rag-ddywediad Jonas, "efe a gyfododd o'i frenhin-fainc, ac a ddyosgodd oddiam dano ei frenhin-wisg, ac a rodde am dano liain sach, ac a eisteddodd mewn lludw. Ac efe o barodd gyhoeddi a dywedyd drwy Nineseh, drwy orchymyn y brenin a'i bendefigion, gan ddywedyd, dyn ac anifail, eidon a dafad, na phrofant ddim, na phorant, ac nad yfant ddwfr. Gwisger dyn ac anifail â sachliain, a galwant ar Dduw yn lew," *Jonah 3. 6—8.* Yr oedd eistedd mewn sachliain

a lludw, yn adroddiad mynych o alar yn ngwledydd y Dwyrain, a phersonau yn cael eu gorchfygu gan ofid, ac yn analluog i ddal dan bwys eu hadfydau, yn fynych a daflent eu hunain ar y ddaear, ac a ymdreiglent mewn llwch; a pha fudraf fyddai y llawr, goreu y gwasanaethai i'w diwyno, ac i ddangos eu tristwch a'u prudd-der.

Yn y modd hwn yr arwyddodd Tamar ei thrallod, wedi iddi gael ei dianrhydeddu gan Amnon. *Hi a gymmerodd ludw ar ei phen*, 2 Sam. 13. 19. A phan ddeallodd Mordecai fod tynged ei genedl wedi ei selio, *efe a roygodd ei ddillad, ac a wisgodd sachliain a lludw*, Esth. 4. 1. Ein Harglwydd bendigedig a gyfeiria at yr un ddefod yn y bygythiad hwnw, "Gwae di, Corazin! gwae di, Bethsaida! canys pe gwnaethid yn Tyrus a Sidon y gweithredoedd nerthol a wnaethpwyd ynot ti, hwy a edifarhasent er ys talm mewn saohliain a lludw," Mat. 11. 21.

Sonir yn fynych hefyd am roddi llwch ar y pen. Pan ddymchwelwyd byddinoedd Israel o flaen Ai, "Josuah a rwygodd ei ddillad, ac a syrthiodd i lawr ar ei wyneb o flaen arch yr Arglwydd, hyd yr hwyr, efe a henuriaid Israel, ac a ddodasant lwch ar eu penau," Jos. 7. 6. A daeth Husai i gyfarfod â'i benadur, pan ffôdd efe o flaen Absalom, wedi rhwygo ei bais, a phridd ar ei ben, 2 Sam. 15. 32. Y galarwr, weithiau, a osodai ei law ar ei ben; canys y prophwyd, wrth ymresymu â'i bobl, a rag-ddywed eu darostyngiad yn y geiriau hyn: "Hefyd, ti a ddeui allan oddi wrtho, a'th ddwylaw ar dy ben; oblegid yr Arglwydd a wrthododd dy hyder di, ac ni lwyddi ynddynt," Jer. 2. 37. Yn yr angreiffitiau a nodwyd uchod, yr oedd pen y galarwr yn noeth; ond hwy, weithiau, a gymmerent y dull gwrthwynebol, a chuddient eu penau mewn cyfyngder mawr, neu pan lwythid hwynt â gwaradwydd. Pan hysbyswyd i Darius fod ei frenhines wedi marw, ac na ddyoddefasai hi un trais oddiwrth Alexander, efe a orchuddiodd ei ben, ac a wylodd dros amser maith; ac yna, gan dafu ymaith y wisg a'i cuddiai ef, efe a ddiolchodd i Dduw am diriondeb a chyfiawnder Alexander. Yr oedd yr arferiad hon yn hen iawn yn Persia; canys pan ddymchwelwyd cydfwriad Haman yn erbyn Mordecai, dywedir iddo frysio i'w dŷ yn alarus, wedi gorchuddio ei ben, Esther 6. 12. Darlunir yr Iuddewon gan Jeremiah (pen. 14. 3, 4) fel yn cywilyddio a gwlladeiddio, ac yn cuddio eu penau, o herwydd newyn blin; a phan dderbyniodd Dafydd y newydd am farwolaeth Absalom, efe a orchuddiodd ei wyneb, ac a waedd-

odd â llef uchel, 2 Sam. 19. 4. Y cenheloedd paganaidd a addolent eu duwiau â'u penau yn orchuddiedig, oddieithr Sadwrn a Hercules, y rhai a addolid â'r penau heb orchudd; a'r Iuddewon, wrth wasanaethu y gwir Dduw, a wnaent felly oddiar ysbryd caethiwed ac ofn. Hyny, tebygol, oedd y rheswm paham y dywed yr Apostol wrth y Corinthiaid, "Pob gwr yn gweddio, neu yn prophwydo, â pheth am' ei ben, sydd yn cywilyddio ei ben," 1 Cor. 11. 4.

Yr oedd cau y genau yn arwydd hen iawn o alar; ac y mae Iuddewon Barbary yn parhau i'w arfer hyd y dydd hwn. Pan ddychwelont oddiwrth y bedd i dŷ y trengedig, mae y prif alarwr yn eu derbyn â'i ên wedi ei chylymu â lliain, yn gyffelyb i'r modd yr oedd wyneb y trengedig wedi cael ei gylymu; a thrwy hyn dywedir fod y galarwr yn tystio ei fod yn barod i farw dros ei gyfaill. A'i enau wedi ei gylymu fel hyn, y galarwr a dreulia saith niwrnod, yn ystod y rhai ei gyfeillion a ddeuant ddwywaith yn mhob pedair awr ar hugain i weddio gydag ef. Dichon y cynwysir cyfeiriad at hyn yn y gorohymyn a dderbyniodd Ezeziel pan fu ei wraig farw, i ymgadw oddiwrth y dulliau cyffredin o alaru: "Taw â llefain, na wna alarnad; rhwym dy gap am dy ben, a dod dy esgidiau am dy draed, ac na chau ar dy enau, na fwyta chwaith fara dynion," Ezec. 24. 17. Yr oedd cyfraith Moses yn nghylch dyn gwahanglwyfus yn gofyn fod ei wiagoedd wedi eu rhwygo, ei ben yn noeth, a bod caead ar ei wefus uchaf (Lef. 13. 45), oblegid yr ystyrid ef fel dyn marw.

Yr oedd eistedd ar y ddaear yn agwedd a ddangosai ofid blin. Fel hyn y prophwyd a esyd allan agwedd henuriaid Israel, ar ol dinystr Jerusalem, a chaethgludiad y rhai yr oedd y cleddyf wedi arbed: "Henuriaid merch Seion a eisteddant ar lawr, a dawant a son; gosodasant lwch ar eu penau; ymwregysant â sachliain; gwryfyn Jerusalem a ostyngasant eu penau hyd lawr," Galar. 2. 10. Cafodd Judea ei harddangos fel gwraig ar amrywiol o ddarnau o arian bathol Vespasian a Thitus, yn yr agwedd hon o alar a chaethgludiad yn eistedd ar y llawr. Yr Iuddewon a wylent o herwydd eu gwasgariad, wrth afonydd Babilon, yn yr un agwedd alarus: "Wrth afonydd Babilon, yno yr eisteddasom, ac wylasom, pan feddylasom am Seion," Salm 137. 1. Ond, yr hyn sydd yn fwy nodedig, yr ydym yn cael Judea dan y darlun iod o wraig athrist yn eistedd ar y llawr, mewn ymadrodd eiddo y prophwyd, lle y mae yr un adfyd, yr hwn a nodir

allan ar arian bathol yr ymerawdwr hyn, yn cael ei ragddywedyd,—“A hithau yn anrheithiedig a eistedd ar y ddaear,” Esay 3. 26.

Galarwyr dwyreiniol yn fynych a aent i eithafoedd mawrion, curo eu dwyfronau a'u morddwydydd, dryllio eu cnawd, a gwneuthur cwysi yn eu wynebau â'u hewinedd. Er y dangosai gwrrywaid, weithiau, yr arwyddion hyn o dristwch, benywod a'u dangosent amlaf, nwydau y rhai ydynt fwy angerddol ac aflywodraethus.

Yr oedd curo y ddwyfron yn arwydd cyffredin iawn o alar edifeiriol. Coffeir yn nammeg y Pharisead a'r Publican, “na fynai yr olaf gymmaint a chodi ei olygon tua'r nef, eithr iddo guro ei ddwyfron, gan ddywedyd, O Dduw bydd drugarog wrthyf bechadur,” Luc 18. 10. I arwyddo yr un fath o dristwch yr oedd yr hen arferiad hōno, o daro y forddwyd. Coffeir hyn fel amgylchiad a ganlynai edifeirwch Ephraim: “Yn ddiau wedi i mi ddychwelyd, mi a edifarheais; ac wedi i mi wybod, mi a darewais fy morddwyd; myfi a gywilyddiwyd, ac a waradwyddwyd hefyd, am i mi ddwya gwaradwydd fy ieuencyd,” Jer. 31. 19.

Dull rhyfedd iawn arall o osod allan dristwch, oedd llosgi brwmstan yn nhŷ y trengedig. Dywed Livy fod yr arferiad hōn yn gyffredin yn mysg y Rhufeiniaid; a thybja rhai esponwyr y cyfeirir ati yn ngeiriau Bildad: “Brwmstan a wasgerir ar ei drigfa ef,” Job 18. 15. Mae y meddylddrych yn cytuno âg amcan y llefarwr, yr hwn yw disgrifio diwedd truenus y rhagrithiwr.

Dywed *Chardin* wrthym, þan fyddo un o frenhinoedd Persia yn marw, fod ei feddygon a'i ser-ddewiniaid yn colli eu lleoedd, ac yn cael eu bwrw o'r llys; y blaenaf, am na allent wellâu eu penadur, a'r olaf, am na roddent rybudd blaenorol am ei farwolaeth. Efe a dybia fod y ddefod ynfyd hon wedi disgyn i'r amseroedd diweddar o oesoedd boreol iawn; ac mai hi oedd y gwir reswm am fod Daniel yn absennol pan welodd Belsassar yr ysgrifen, ei dynged ei hun ar y pared. Os yw tyb y teithiwr deallus hwnw wedi ei gosod ar sail dda, yr oedd y prophwyd parchus, yn ol cyfraith sefydledig y llys, wedi gorfod rhoddi i fynu y trefniad o faterion cyhoedd ar farwolaeth Nebuchodonosor; ac wedi byw mewn sefyllfa annghyhoedd dros dair blynedd ar hugain, yn cael ei esgeuluso a'i annghofio, hyd nes i ddygwyddiad arswydus y noson ryfedd hōno ddangos fod ei gynnorthwy yn



angenrheidiol, a'i ddwyn drachefn i sylw cyhoedd. Rhydd hyn reswm boddhaol iawn, am anwybodaeth y penadur halogedig ac anystyriol hwnw, ac am waith yr hen frenhines yn dwyn pethau i gof, yr hon oedd dros lawer o amser wedi cael adnabyddiaeth o'i gymmeriad a'i alluoedd ef yn amser teyrnasiad ei gwr. Mae y dyb, pa fodd bynag, yn olygus iawn, ac yn rhoddi yr eglurhad goreu ag a allwn gael ar ddyrswch yr hwn yn amgen nad yw yn hawdd i'w symud.

Yn Barbary, pan byddo dyn farw, mae y cymmydogion, y perthynasau, a'r cyfeillion yn anfon bara i'r tŷ galar, yr hwn y mae y prophwyd Ezeziel (pen. 24. 17) yn alw yn *fara dynion*. Tybid fod y teulu mewn cymmaint ó drallod o herwydd colli eu perthynas, fel y byddent yn annghofio eu hymborth angenrheidiol. Y rhai a anfonent yr ymborth, a ymwelent â'u cyfeillion galarus ac ymddifad, ar ol yr angladd, i'w cysuro a'u cynnorthwyo yn y wledd a wnaent mewn anrhydedd i'r marw. Mewn cyfeiriad at yr arferiad hon y derbyniodd Jeremia y gorchymyn hwnw (pen. 16. 5), "Na ddos i dŷ galar, ac na ddos i alaru, ac na chwyna iddynt, canys myfi a gymmerais ymaith fy heddwch oddiwrth y bobl hyn, medd yr Arglwydd." Pan ddaeth yr holl bobl i beri i Dafydd fwyta bara, a hi eto yn ddydd, ar ol angladd Abner (2 Sam. 3. 35), yr oedd hyny mewn cydgoriad âg arferiad gyffredinol yn y wlad. Gellir cymmwyso yr un sylw at yr amgylchiad a goffeir gan Ioan, i lawer o'r Iuddewon ddyfod at Martha a Mair i'w cysuro hwynt, Ioan 11. 19.

Hysbysa *Chardin* i ni yr arferir yn y Dwyrain adael i berthynas person a fyddo wedi marw i alaru ac wylo, hyd nes ar y trydydd neu y pedwerydd dydd o bellaf, y byddo i'r perthynasau a'r cyfeillion fyned i ymweled âg ef, i beri iddo fwyta, ei arwain i olchfa, a gwneuthur iddo wisgo dillad newyddion, o herwydd ei fod ef cyn hyny wedi bwrw ei hun ar y llawr. Cafodd syndod gweision Dafydd, y rhai a welsent ei ofid chwerw tra y bŷ y plentyn yn glaf, ei gynhyrfu wrth ei weled ef yn ymolchi ac yn bwyta heb gymmelliad cyfeillion.

Dynodid allan y galarwr dwyreiniol drwy annhaclusrwydd ei wisgiad. Efe a oddefai wallt ei ben, os na byddai wedi ei dori neu ei dynu ymaith yn mawredd ei dristwch, i grogi yn anhrefnus ar yr ysgwyddau; ni wnelai na thrin ei farf, na golchi

ei draed, hyd yn nod yn y tywydd poethaf; ni olchai ei grys, nac un o'r lliciniau a wisgai. Yn ystod yr holl amser i alaru, efe a wrthodai newid ei ddillad. Yn y cyflwr hwn o esgeulusdra hollol, yr ymddengys fod Dafydd yn galaru am ei faban; oblegid wedi iddo ddeall oddiwrth ei weision fod y plentyn wedi marw, yr hanesydd ysbrydoledig a sylwa, "Yna Dafydd a gyfododd oddiar y ddaear, ac a ymeneinniodd, ac a newidiodd ei ddillad," 2 Sam. 12. 20.

Yr oedd yr amser i alaru am y marw yn hwy neu yn fyrach yn ol urddas y person. Yn mysg yr Iuddewon yn ddiweddar, yr amser arferol yw saith niwrnod, yn ystod y rhai hwy a gauant eu hunain yn eu tai; neu os bydd i ryw achlysur anarferol beri iddynt ymddangos yn gyhoedd, bydd hyny heb esgidiau, fel arwydd eu bod wedi colli cyfaill anwyl. Eglura hyn y rheswm, pan y gorchymynwyd i Ezeziel ymatal oddiwrth y defodau wrth alaru, paham y cyfarwyddwyd ef i wisgo ei esgidiau am ei draed, Ezec. 24. 17.

Yr oedd yn ddefod yn mysg yr Iuddewon, i ymweled â beddau eu cyfeillion trengedig dros dri diwrnod; canys, cyhyd a hyny, tybient fod eu hysbrydoedd yn ehedeg o'u hamgylch; ond pan unwaith y gwelent eu gwedd yn dechreu troi, fel y buasai yn gwneuthur yn ystod yr amser hwnw yn y gwledydd poethion hyny, darfyddai bryd hyny eu holl obaith am iddynt ddychwelyd i fywyd. Ar ol cylchdreigliad o eiddo gwlybyroedd y corph, yr hyn, yn ol rhai awdwyr, a gyflawnir mewn tri diwrnod, tuedda y corph yn naturiol i lygredigaeth; ac o ganlyniad yr oedd gan Martha reswm i ddywedyd fod corph ei brawd, yr hwn yr ymddengys oddiwrth y cyn-destun ei fod wedi cael ei osod yn y bedd er y diwrnod y bu farw, yn awr ar y pedwerydd dydd yn dyfod yn ffiadd. Ond ymddengys oddiwrth grybwylliad yn yr hanes, eu bod yn Judea yn arfer ymweled â beddau eu cyfeillion trengedig ar ol y trydydd dydd, yn unig i alaru o herwydd eu colled, a rhoddi gollyngiad i'w gofid. Oni buasai fod hyn yn arferiad gyffredin, ni buasai y bobl a ddaethent i gysuro chwiorydd Lazarus, mor barod i farnu, pan aeth Mair allan i gyfarfod â'i Hiachawdwr,—“Mae hi yn myned at y bedd i wylu yno.” Mae y menywod Tyrcaidd yn parhau i ddylyn yr arferiad hon; hwy a ânt cyn codiad haul ar ddydd Gwener, y dydd pennodedig at eu

haddoliad, at fedd y trengedig, a chyda llawer o ddagrau a galar-nadau, taenellant ddwfr ar eu beddau, a bwfiant flodau arnynt. Mae y Persiaid hefyd yn ymweled â beddau eu gweinidogion eglwysig penaf; a'r Mohammedaniaid yn Hindwstan a ganlynant yr un arteriad, yr hon, tebygol, a ddysgasant oddiwrth eu cymmydogion y Persiaid, gan fyned at y bedd, a galaru ar ol cyfeillion ymadawedig dros ddeg diwrnod. Y gwragedd yn Syria hefyd aânt yn finteioedd ar ryw ddyddiau at feddau eu perthynasau y rhai ydynt ryw ychydig o bellder oddiwrth eu trefi, i wylo yno; ac ar yr achlysuron hyn ymollyngant i'r adroddiadau dyfnaf o'u gofid.

Pan fu *Le Bruin* yn Rama, efe a welodd fintai fawr o'r gwragedd hyn at alaru yn myned i alaru wrth y beddau. Efe a'u canlynodd, ac a eisteddodd ar fan uchel gerllaw eu beddau, yn agos i'r fan lle y gwnaent hwy eu galarnadau. Hwy, yn gyntaf, a aethant ac a osodasant eu hunain ar y beddau, ac a wylasant yno; ar ol aros yn nghylch hanner awr, cododd rhai o honynt i fynu, a ffurfiasant gylch, gan ymaffyd yn nwyllaw eu gilydd. Yn fuan ymadawodd dwy o honynt oddiwrth y lleill, ac a gymmerasant eu safle yn nghanol y cylch, lle y gwnaethant y fath swm drwy ysgrachian a churo eu dwyllaw, ac hefyd ystumiau dŷeithr ar eu cyrph, fel, yn marn y teithiwr, yr oedd lle i dybied eu bod yn orphwyllog. Wedi hyny hwy a ddychwelasant, ac a eisteddasant i wylo drachefn, hyd nes, o un i un, yr aethant adref. Y dillad a wisgent oeddynt y cyfryw ag a ddefnyddient yn gyffredin, gwŷn neu unrhyw liw arall; ond pan godasant i ffurfio cylch, rhoddasant orchudd dû dros ranau uchaf eu personau. Y fath, gellir barnu, oedd yr wylo yn Rama, yr hwn a ddesgrifir yn mhrophwydoliaethau Jeremiah (pen. 31. 15): "Lef a glywyd yn Rama, cwynfan ac wylofain chwerw; Rahel yn wylo am ei meibion, ac ni fynai ei chysufo am ei meibion, o herwydd nad oeddynt."

Mewn parthau ereill o wlad Canaan a Syria, byddai cyfeillion a pherthynasau y trengedig yn myned yn achlysurol i'r ystafelloedd a adeiledid uwchben y beddau, i fyfyrion ar eu colled, a phorthi eu tristwch yn y lleoedd pellenig ac unig hyny. Ymddengys i hyn fod yn arferiad gyffredin iawn, a'i bod wedi ei dwyn i wledydd pell iawn oddiwrth wlad yr addewid. Mae

*Humboldt* yn coffau ffaith ryfedd a welodd efe yn ymerodraeth Mexico, sef un neu ddau o feddau wedi eu hadeiladu, ag ystafelloedd uwchben y bedd, yn null y Dwyrain; amgylchiad ag a gefnoga y dyb i'r Mexicanaid ddyfod ar y cyntaf o Asia, lle y flynai y dull hwn o adeiladu beddau. Yr oedd gan yr Hebraid gynt arferiad eilunaddolaidd o fyned i blith y beddau, i dderbyn breuddwydion, wrth y rhai yr ymdrechent ffurfio barn am ddygwyddiadau, a pha fodd i drefnu eu matterion; canys y mae y prophwyd Esay (pen. 65. 4) yn eu cyhuddo o aros yn mysg y beddau, a llettya yn y mynwentau. Y Deg-a-thriugain a ddarllenant y geiriau hyn, *Cysgu yn y beddau gyda gohog ar gael breuddwydion*; a rhesymol yw meddwl i fedd Moses gael ei ddirgelu yn fwriadol, rhag iddo mewn amserau dyfodol gael parch ofergoelus, ac i'r bobl gyflawni eilunaddoliaeth yno.

Mae olew yn cael ei ddefnyddio yn awr yn y Dwyrain, i'w losgi mewn anrhydedd i'r meirw, y rhai a barohant â math o warogaeth crefyddol. Tybia Mr. *Harmer* fod yn naturiol i ni feddwl, fod y prophwyd Hosea yn cyfeirio at arferiad gyffelyb, pan yr edliwia efe i'r Israeliaid eu bod yn dwyn olew i'r Aipht, Hos. 12. 1. Nid mewn ffordd o fasnach cyfreithlon y dygent ef yno; canys ni cheryddir hwynt pan yn ei ddwyn felly i Tyrus, ac yn ei roddi am nwyddau ereill. Nid fel anrheg yr anfonent ef i frenin yr Aipht; canys âg arian ac aur yr ymdrechai y brenhinoedd Iuddewig enill ffafr brenhinoedd cymmydogaethol. Nid oedd yn cael ei gedi fel treth; pan ddiorseddodd brenin yr Aipht Joachaz, brenin Juda, ni roddodd efe ar y bobl i dalu cymmaint a chymmaint o olew, ond cymmaint a chymmaint o arian ac aur, 2 Bren. 23. 34, 35. Ond os oeddynt yn llosgi olew yn yr oesau boreol hyny mewn anrhydedd i'w heilunod, a'u cyfeillion ymadawedig, ac os oedd yr Iuddewon yn ei anfon i'r Aipht i'r perwyl hwaw, nid rhyfedd fod y prophwyd yn eu ceryddu mor llym am eu hymddygiad. Yr oedd olew yn yr oesau diweddar yn cael ei gyflwyno yn fynych i'r gwrthdychau y talent iddynt barch crefyddol yn yr Aipht a Barbary.

Y mae brenhinoedd a thywysogion gwledydd dwyreiniol, yn fynych yn cael eu dwyn i brawf ar ol eu marwolaeth gan y bobl ag y bu iddynt yn eu bywyd eu sarhau a'u gorthrymu, a chospir hwynt yn ol eu haeddiant. Tra yr oedd pobl ddewisedig Duw yn

arfer anrhydeddu, mewn modd neillduol, goffadwriaeth y brenhin-oedd ag a fyddent wedi llywodraethu arnynt gyda chyfiawnder a thiriondeb, gofalent am roddi gwarth ar enw y rhai a adawsent y byd dan eu hannghymeradwyaeth. Yr oedd beddrod y brenhin-oedd Iuddewig yn Jerusalem, lle, mewn rhyw gell osodedig, y rhoddid gweddillion eu tywysogion; a chan y bwriedid y lle hwn yn gladdfa i reolwyr dylynol, dywedid pan y byddai un farw, ac y caffai ei gladdu yno, y ceaglid ef at ei dadau. Ond coffeir am-rywiol o angreifftiau yn hanes tŷ Dafydd, yn y rhai, ar amrywiol o gyfrifon, y naceid i rai tywysogion yr anrhydedd o gael eu claddu gyda'u hynafiaid, ac y cleddid hwynt mewn rhyw le arall yn Jerusalem. Ac i roddi ychydig yn chwaneg o warth arnynt, cymmerid rhai i ryw ychydig o bellder oddiwrth Jerusalem, a chleddid hwynt mewn bedd cyffredin. Gwaradwyddwyd Uziah ac Ahaz yn y modd hwn. 2 Cron. 26. 23, a 28. 27.

Yr oedd hyn, yn ddiameu, mewn trefn i wneuthur argraph priodol ar feddwl y brenin a reolai ar y pryd, i'w rybuddio ef i wyllo rhag camarfer ei awdurdod, a gofalu am deimladau a thybiau y bobl er lles y rhai y codasid ef i'r orsedd; fel na ddilynai efe gamrau ei ragflaenoriaid, y rhai a osodid dan y fath warth. Yr oedd efe, yn y modd hwn, yn cael ei attal oddiwrth ddrwg, a'i gynhyrfu at ddaioni, yn ol y graddau o ofn a fyddai ynddo rhag cael ei felldigo, neu ddymuniad am gael ei anrhydeddu, ar ol ei farwolaeth.

Yr oedd gan yr Aiphtiaid ddefod gyffelyb i hon, mewn rhyw fesur, yn unig ei bod yn cyrhaedd personau o bob gradd a sefyllfa. Mor fuan ag y byddai dyn farw, gorohymynid ei ddwya i brawf; yr oedd gwrandauiad yn cael ei roddi i'r cyhuddwr cyhoedd; ac os profai efe fod y trengedig wedi arwain bywyd drwg, yr oedd ei goffadwriaeth yn cael ei gondemnio, ac ymddifadid ef o'r anrhydedd o gladdedigaeth. Fel hyn gweithredid ar feddyliau yr Aiphtiaid gan gyfreithiau a gyrhaeddent hyd yn nod tu draw i'r bedd, a byddai pob un, wrth weled yr anfri a roddid i'r corph marw, yn ofni tynu dianrhydedd ar ei goffadwriaeth ei hun, ac eiddo ei deulu. Ond, er syndod, nid oedd y pennadur ei hun yn cael ei ryddhau oddiwrth yr ymofyniad cyhoedd hwn ar ol ei farwolaeth. Yr oedd bywyd a gweinyddiad y pennaduriaid o bwys i'r holl deyrnas, a chan fod angau yn terfynu ei holl weithrediadau, bernid y byddai er lles y wladwr-

iaeth fod iddynt hwy bryd hyny gael barn amhleidgar mewn modd cyhoeddus, yn gystal â'u deiliaid gwaelaf. Mewn canlyniad o'r ymchwiliad difrifol hwn, ni chaffai rhai o honynt eu rhesu yn mysg y meirw anrhydeddus, ac o ganlyniad ymddifadid hwynt o gladdedigaeth cyhoedd, a rhaid fod yr effaith a gaffai hyn yn rymus iawn. Yr oedd y penaeth mwyaf trahaus, yr hwn a allai sathru ar gyfreithiau dwyfol a dynol yn ei fywyd, yn gweled y caffai, drwy yr ymchwiliad llym hwn, ei ddedfrydu wedi ei farwolaeth, i warth a melldith.

---

### GWISGOEDD.

MAE llawer o drigolion Arabaidd Gwlad Canaan a Barbary ag nad ydynt yn gwisgo crysau, ond yn myned o amgylch bron yn noethion, heb ddim ond brethyn, neu fath o fantell wedi ei osod o amgylch eu cyrph. Nid annhebygol yw fod trigolion tlotaf Judea gynt yn gwisgo yn yr un modd ag y gwnai Arabiaid y gwledydd hyny mewn amserau diweddar, heb fod ganddynt grysau, ond math o fentyll i guddio eu cyrph noethion. Os felly y gwnaent, rhydd hyn lawer o oleuni ar addewid Samson (Barn. 14. 12), y rhoddai efe ddeg ar hugain o lenllieiniau i'w gymdeithion, neu fel y mae yn cael ei ddarllen yn fwy priodol ar ymyl y ddalen mewn rhai Beiblau, deg ar hugain o grysau, os datguddient ystyr ei ddychymyg. Nid ellir yn hawdd gredu eu bod y rhai a alwn ni yn lenllieiniau, canys gallasai Samson ladd deg ar hugain o Philistiaid gerllaw Ascelon, heb gael un lenllian: neu pe buasai yn lladd y rhai oeddynt yn dwyn eu gwelyau gyda hwynt ar eu teithiau, fel y gwnant yn fynych yr amser hwn, buasai lladd pymtheg yn ddigon, canys yn y Dwyrain, fel mewn gwledydd ereill, yr oedd dwy lenllian yn perthyn i bob gwely; ond efe a laddodd ddeg ar hugain, mewn trefn i gael deg ar hugain llenllian. Os cymmerir yr olwg hon ar y geiriau, rhaid fod gweithred Samson yn gyffrous iawn i'r Philistiaid; oblegid gan nad oedd ond pobl mewn sefyllfa esmwyth yn gwisgo crysau, nid deg ar hugain o bobl gyffredin a laddodd efe, ond deg ar hugain o bersonau mewn sefyllfa anrhydeddus a phwysig. Defnyddia Esay yr un gair, yn ei ddeagrifiad o wisg ardderchog

a chostus pobl fawrion, yr hwn yn ein cyfieithiad ni a ddarllenir *llain meinwch*, Esay 3. 23. Ymddengys felly, yn ddiarnheul, mai personau o radd uchel a gwmpodd drwy law Samson ar yr achlysur hwnw.

Byddai personau a ymroddent i fywyd o hunan-ymwadiad, yn gyffredin, yn gwisgo dillad o ddefnyddiau geirwon. Dywedir fod Ioan Fedyddiwr yn gwisgo dillad o flew camel, a bod gwregys o groen o gylch ei lwynau. Mae yn amgylchiad teilwng o sylw, fod y *shawls* tecaf a harddaf, y rhai a wnant i fynu ran mor hanfodol o wisg y Tyrciaid, ac a wisgir gan bersonau o'r radd uchaf, yn cael eu gwneuthur o flew camel. Perthyna y rhai hyn yn ddiarnheul i'r *dillad esmwyth* a wisgid gan y rhai a drigent yn mhalasau brenhinoedd y Dwyrain. Ond amlwg yw yr ancana yr ysgrifenydd ysbrydoledig, yn ei sylw ar ddillad Ioan, osod allan eu gwaeledd. *Pa beth yr aethoch allan i'w weled? ai dyn wedi ei wisgo â dillad esmwyth? wele y rhai sydd yn gwisgo dillad esmwyth, mewn tai brenhinoedd y maent*, Mat. 11. 8; ond yr oedd dillad Ioan o wneuthuriad gwahanol iawn. Mae yn wir yn ddigon eglur fod trigolion y diffaethwch, lle y treuliodd Ioan ei ddyddiau cyn iddo ddechreu ar ei weinidogaeth, a'r rhai a drigent mewn cymmydogaethau ereill anaml eu trigolion, yn gwneuthur math o ddefnydd, tebyg i'n brethynau rhawn ni, o'r blew a syrthiai oddiwrth eu camelod, at eu gwasanaeth eu hunain; ac ymddengys mai un o'r rhai hyn oedd gwisg Ioan. Yn yr un modd yr oedd Tartariaid yr oesau diweddar yn gweithio blew eu camelod yn fath o frethyn, yr hwn a wasanaethai i guddio eu pebyll, er fod eu dull o fyw yn dlawd a gwael. Yn gyffelyb i ddull rhagflaenor hunan-ymwadol yr Iachawdwr, yr oedd yr offeiriaid a'r mynachod Tyrciaid, yn ddiweddar, yn gwisgo dillad o'r fath hyn, y rhai a rwymment hwy am eu lwynau â gwregysau o groen. Ymddengys fod Elias y Thesbiad yn gwisgo gwisg o flew camel, ag oedd yr un mor wael a garw; canys gosodir ef allan yn ein cyfieithiad ni fel "gwr blewog," yr hyn a ddylai gael ei gymmwysu at ei ddillad, ac nid at ei berson. Gwisg o frethyn rhawn oedd gwisg prophwyd yn y dyddiau hyn; a defnyddid hi yn achlysurol gan dwyllwyr, i'w galluogi yn hawddach ac yn fwy llwyddiannus i dwyllo eu cymmydogion hygoelus. *A bydd yn y dydd hwnw, i'r prophwydi gywilyddio bob un am ei weledigaeth wedi iddo brophwydo; ac ni wisgant grys o rawn i dwyllo*, Zech. 13. 4. Yr

oedd y prophwyd Esay yn gwisgo yr un defnydd; canys cafodd orchymyn i ddatod ei sachliain oddiam ei lwynau, Esay 20. 2. Yr oedd sachliain yn arwydd o ymostyngiad a hunan-ymwadiad, a chafodd ei ddewis o herwydd hyny, tebygol, i fod yn wisg swyddol prophwyd yn yr hen amserau. Gwel hefyd Joel 1. 13; Dat. 6. 12.

Yn yr oesoedd diweddar, nid oedd benywod Syria yn ymddangos un amser yn yr heolydd heb eu gorchudd.

Y *radid* oedd fath o orchudd, yr hwn, tybia Calmet, a wisgid gan fenywod priod, fel arwydd o'u hymostyngiad a'u dibyniad, ac yr oedd yn cyrhaedd yn isel i lawr dros y person. Mae codi gorchudd gwyr yf yn cael ei ystyried yn sarhad mawr; ond mae cymmeryd ymaith orchudd menyw briod yn un o'r sarhadau mwyaf ag a ellir wneuthur iddi, oblegid yr ymddifedir hi drwy hyny<sup>n</sup> o'r arwydd sydd yn gwanhaniaethu ac yn urddasoli ei chymmeriad, ac yn dynodi ei pherthynas â'i gwr, a'i rhan yn ei serchiadau. Dyma y rheswm paham y mae y ddyweddi yn achwyn gyda'r fath deimlad: *Gwyhwyr y caerau a ddygasant fy ngorchudd oddiarnaf*, Can. 5. 7. Pan byddo yn cael ei gymmeryd ymaith drwy drais gan y gwr, mae yr un peth ag ysgariaeth, ac yn cael ei gyfrif yn adfyd mawr; am hyny, bygythiodd Duw gymmeryd ymaith wisgoedd addurniadol *merched Seion; yn y dydd honno y tyn yr Arghwydd ymaith—y gwisgoedd symudliw, a'r mentyll, y lliain meinwyc, a'r cycyllau, a'r gynau*, Esay 3. 18, &c.

Y gorchudd cyffredin yn Aleppo sydd lenlliain, digon helaeth i guddio yr hell wisg o'r pen i'r traed, a dygir hi dros yr wyneb mewn dull ag y cuddia hi y cwbl ond un llygad. At yr arferiad o'r gorchudd hwn y cyfeiria y ddyweddi, yn y geiriau hyn, *Dygaist fy nghalon âg un o'th lygaid*, Can. 4. 9.

---

## PRYDIAU BWYD A GWLEDDOEDD.

YN ngwlad Groeg, a pharthau ereill, yr oeddynt yn cymmeryd eu pryd bwyd yn y bore, sef bara a gwin heb ei gymmysgu â dwfr; ond yr oedd bwyta ac yfed yn y bore yn cael ei ystyried yn Israel yn anghymmedroldeb; ac mae Solomon yn cyhoeddi gwae uwchben gwlad, pan byddo pobl o radd uchel ac awdurdodol yn ymollwng i bleserau y bwrdd ar awr mor amhrydlon: *Gwae di y wlad sydd â bachgen yn frenin iddi, a'th dynysogion*



*yn bwyta yn fore*, Preg. 10. 16. Dichon fod yr Iuddewon yn eymmeryd pryd ysgafn, efallai, fel y Groegiaid, yn nghylch codiad haul, er fod hyn yn ansicr iawn; ond eisteddent i lawr i fwyta, ac nid yfent win hyd ar ol yr aberth boreol. Mae y Syriaid yn bresennol yn cymmeryd eu borefwyd mor fuan ag y codont yn y bore; oddiwrth yr hyn yr ymddengys fod cyfnewid- iad yn null y wlad yn hyn. Maent yn ciniawa yn nghylch un- ar-ddeg yn y bore yn y gauaf, ac yn hytrach yn gynt yn yr hâf; a swpperant yn nghylch pump o'r gloch yn y gauaf, ac yn nghylch chwech yn yr hâf. Ciniaw ysgafn a gymmerant, ac nid ydynt yn hir wrthi; ond mae eu swpper yn drymach ac yn wychach. Yr un dull o fyw oedd yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid; ac ar ol i fasnach a llafur y dydd fyned heibio, hwy a gymmerent bryd llawnach. Mewn amrywiol o fanau yn y Tea- tament Newydd, mae y swpper yn cael ei choffau fel y prif bryd: *Herod ar ei ddydd genedigaeth a wnaeth swpper i'w benaethiaid, a'i flaenoriaid, a goreugwŷr Galilea*, Marc 6. 21; ac yn y ddam- meg, dywedir i ryw wr wneuthur swpper mawr, a gwahodd llawer, Luc 14. 16. Pan ymwelodd yr Iesu â Lazarus a'i chworydd, hwy a wnaethant iddo swpper, Ioan 12. 2. Y dysgleidiau a ddefnyddid yn y gwleddoedd Iuddewig oeddynt bethau cyffredin; y rhai hyn oeddynt fynychaf fara a llaeth, ffrwythau a llyisiau.

Yr oeddynt hwy, fel holl genhedloedd y Dwyrain, yn brin yn yr arferiad o gig; byddent yn gyffredin yn tori eu newyn â bara, ac yn tori eu syched â dwfr. Hwyl a ystyrient fara a dwfr mor angenrheidiol eu eu cynnalïaeth, fel, dan y ddau air hyn, y cyn- nwyseent bob math o fwyd. Yr oedd eu bara yn cael ei wneuthur yn gyffredin o wenith neu haidd, neu o flawd math o bŷs (*lentils*), neu flawd ffâ. Yr oedd bara gwenith yn cael ei ystyried y rha- goraf; mewn amser o brinder yr arferid bara haidd fynychaf. Mewn rhai parthau o Persia arferir bara haidd yn gyffredin gan bobl isel eu sefyllfa. Ond, pa fodd bynag, rhaid peidio esgeuluso coffau, fod haidd yn cael ei ddefnyddio wrth wneuthur bara, o flaen un math arall o fyd; ond, yn mhen oesau, daeth rhai cen- hedloedd, yn wyneb llawnder, i edrych yn wael ar fara haidd, fel yr ymddengys y gwnelai y Midianiaid yn amser Gideon, pan y cymharent ef i dorth haidd, Barn. 7. 14.

Yn yr oesau cyntaf, yr oeddynt yn crasu eu hŷd; felly y gwelai pobl Israel am amser maith; ac wedi hyny curent ef

mewn mortar, at yr hyn y cyfeiria Solomon: *Er i ti bwyso ffôl mewn mortar â phestl yn mhlith gwenith; etto nid ymedy ei ffôlineb âg ef*, Diar. 27. 22. Wedi hyny defnyddid melinau, cyffelyb i'r melinau llaw ag oedd yn aml gynt yn y wlad hon; ac o'r rhai hyn yr oedd dau fath: rhai mawrion, y rhai a dröid gan geffylau neu asynod; a rhai bychain ag a weithid gan ddynion,—caethion, yn gyffredin, ag a fyddent wedi eu condemnio at y gwaith caled hwn fel cosp am eu troseddau.

Gellir gweled diystyrwch mawr yn ymddygiad y Philistiaid at Samson wrth ei gospi. Hwy, gyda chreulondeb barbaraidd, a'i gosodasant i gyflawni gwasanaeth gwaelaf caethferch; anfonasant ef i falu yn y carchardŷ (Barn. 16. 21), nid iddo ei hun yn unig; buasai hyny, er yn ddarostyngiadol iawn i'r gwron, yn haws i'w oddef; hwy a'i gwnaethant yn falwr i'r carchardŷ, lle yr oedd y drwg-weithredwr erchyllaf yn cael ei oddef i edrych arno, ac uno i'w wawdio a'i boenydio. Samson, rheolwr a dialwr Israel, a lafurio, fel y rhag-ddywedodd Esay y cawsai morwynferch Babilon lafurio, Esay 47. 1.

Tuag at barotoi eu bwydydd, yr oedd pobl y Dwyrain, o herwydd prinder tanwydd, yn gorfod defnyddio tom gwartheg i'r perwyl hwnw. Dywed *Dr. Russell*, "Mae yr Arabiaid yn ofalus yn casglu tom y camelod a'r defaid, yn gystal ag eiddo y gwartheg; maent yn crynhoi y cwbl o'r heolydd, ac yn eu gosod y tu allan i'r dînasoedd yn bentyrau mawrion i sychu, ac mae eu harogl yn aneddefol iawn, ac yn parhau i fod felly pa bryd bynag y disgyno gwlaw, er fod tô yn cael ei roddi ar y pen. Dengys yr amgylchiad hwn, mewn goleu cryf, drueni mawr yr Iuddewon hyny ag a ddiangasant rhag cleddyf Nebuchodonozor: *Y rhai a ymborthent yn foethus, a ddyfethwyd yn yr heolydd; y rhai a feithrinwyd mewn ysgarlad, a gosteidiant y tommenydd*, Galar. 4. 5. Mae cofleidio tommenydd yn fath o drueni ag sydd, efallai, yn anadnabyddus i ni yn yr oesau diweddar; ond rhydd i ni olwg athrist ar sefyllfa y bobl y cyfeirir atynt. Pa beth a allasai fod yn fwy gofidus i'r rhai a fuasant fyw yn foethus, na chrwydro drwy yr heolydd heb ymborth? Pa beth a allasai fod yn fwy ffiائد a dychrynlyd i'r rhai a wisgasid mewn gwisgoedd gwychion, na gorfod myned, o herwydd dystrywio eu palasau, i geisio cysgod yn mhlith pentyrau o dom, drewdod y rhai oedd bron yn anoddefol? Ymddengys oddiwrth yr Ysgrhythrau yr arferai cardoteion gyrchu at dommenau am gysgod, yr hyn a rydd rym ac

ardderohogrwydd neillduol i eiriau Hannah: *Efe sydd yn cyfodi y llawd o'r lloch, ac yn dyrchafu yr angkenus o'r tommenau i'w gosod gyda ikyroysoegion, ac i beri iddynt etifeddu teyrn-gadair gogoniant*, 1 Sam. 2. 8. Cyfrifai hi y cyfnewidiad yn ei hamgylchiadau, mor fawr a dyrohafiad cardotyn tlawd a dirmygedig o dommen ddrewllyd, yr hon a wnelid i raddau mawrion felly yno drwy wres yr haul, i un o'r sefyllfaoedd gwyhaf ar y ddaear.

Yr oedd prinder defnyddiau i wneuthur tân yn y Dwyrain, yn peri i'r trigolion, ar amserau, ddefnyddio pob peth ag a ellid i'r perwyl hwnw. Mae cyrs gwywedig llysiau a blodau, cangau bychain myrtwydd, rhôsmari, a phlanhigion ereill, oll yn cael eu defnyddio i dwymo eu ffyrnau. Eglur yw fod cyfeiriad at yr arferiad hon yn y geiriau hyny o eiddo ein Iachawdwr, yn nghylch *llysiuym y maes, yr hun sydd heddyw, ac y foru a furir i'r ffwrn*, Mat. 6. 25—30. Y lili, y rhai a ragorent ar Solomon mewn gogoniant, a wywant yn fuan, ac a ddefnyddir i dwymo ffwrn. Os oedd Duw wedi addurno y llysiau a'r blodau hyn yn y fath fodd, y rhai ni chadwant eu prydfferthwch ond dros ychydig o ddyddiau, ac yna a ddefnyddir at wasanaeth isel, oni ddillada efe ddygybllion ei Fab, y rhai ydynt wedi eu bwriadu at anfarwoldeb, a mwynhad o happerwydd tragywyddol?

Mae i'r twll yn yr hwn y gosodir y crochan, agoriad ar un tu, fel y galler gosod tanwydd dano. Ymddengys mai y tu hwn a eilw Jeremiah yn *wyneb y crochan*, Jer. 11. 3, gan arwyddo y cawsai y tanwydd i'w dwymo eu dwyn o'r parth hwnw. Cafodd y rhag-ddwyediad oymhariaethol hwn ei gyflawni pan fu i Nebuchodonosor, tiriogaethau yr hwn a orweddent i'r gogledd o Ganaan, arwain ei fyddinpedd yn erbyn Jerusalem a dymchwelyd gorsedd-feinciau tŷ Dafydd.

Wedi i'r hil ddynol, yn Noah, gael caniatad i fwyta oig, ymddengys iddynt yn fuan iawn ddarostwng y defaid a'r ychain i'r gyllell; ond gellir casglu eu bod dros lawer o oesau, oddieithr ar achlysuron annghyffredin, yn arbed rhai ieuainc y praidd. Mor ddiweddar a dyddiau Amos (pen. 6. 4) yr oedd *bwyla yr ŵyn o'r praidd, a'r lloi o ganol y cul*, yn cael ei ystyried yn waith pobl ddirywiedig iawn, yn arwydd o foethusrwydd, ac yn galw am gerydd. Yr oedd y patriarch Abraham yn dylyn arferiad y Dwyrain, ac yn talu parch anarferol i'r ymwelwyr dyeithr a ddaethent ato, pan gyrchodd efe lô tyner, ac y parotôdd efe ef er ei groesawi. A phan bu i'r tad, yn y ddammeg, dderbynu ei

fab yn ddiogel, er ei fod wedi ei golli, gosododd allan lawenydd mawr ei galon drwy ladd iddo y llô pasgedig, yr hyn oedd yn beth mor anarferol, fel mai hyny yw yr unig beth a goffeir yn yr hanes a roddodd y gwas i'r mab hynaf, ac o herwydd yr hyn y tramgwyddodd efe. Gwel Luc 15. 23.

Yr oedd mêl yn cael ei ystyried yn mysg danteithion gyda'u prydiau bwyd yn y Dwyrain. Sonir yn aml yn yr Ysgrifthyrau am ymienyn a mêl, wrth ddesgrifio llwyddiant a llawnder, Esay 7. 15; lle yr amcana y prophwyd osod allan godiad sydyn Juda, a dymchweliad Syria, a theyrnas y deg llwyth. Yr oedd yr ymborth hwn mor hyfryd, fel yr oeddynt yn aml yn ymollwng i ormodedd wrth ei ddefnyddio; anhawdd, ar un dyb arall, yw deall geiriau Solomon, *Nid da bwyta llawer o fel*, Diar. 25. 27. Yr oedd o'r blaen wedi sylwi, yn yr un bennod, fod eithafoedd mewn bwyta mêl, yn achlysuero afiechyd; ac yma cyfeiria at yr un peth. Yr oedd y mêl o'r diliau yn llawer melusach nag ydoedd wedi ei dynu allan o honynt, yr hyn a arwyddir mewn llawer o fanau yn yr Ysgrifthyrau.

Pan byddai y cwmpeini, ar ol eu gwleddoedd, yn barod i ymadael, deuai gwas i mewn, ac a daenellai rhôs-ddwfr yn helaeth arnynt, fel arwydd o barch ei feistr iddynt. Crybwylla *Bruce* a *Niebuhr* am anghreiffiau a ddangosant fod hyny yn beth arferol yn y Dwyrain. Ymddengys fod y prophwyd Esay yn cyfeirio at yr arferiad hon, mewn ymadrodd yn yr hwn y disgrifia efe gymmeriad a swydd y Messiah: *Felly y taenella efe genhedloedd llawer; brenhinoedd a gauant eu genau wrtho ef*, Esay 52. 15. Megys gwas etholedig y Tad, efe a ymddengys yn nghyflawnder amser, i ddangos mawredd ei gariad, a chyfranu bendithion iachawdwriaeth, drwy ei waed ei hun, i blant dynion. Efe a'u croesawa i wledd yr efengyl, drwy dywalltiad o'i Ysbryd Glân; a phan byddont yn gadael cynteddoedd tŷ Dduw ar y ddaear, efe a ymwel â hwynt drachefn, ac a lona eu beneidiau â chawodydd o fendithion. Brenhinoedd a thywysogion y ddaear, a syrthiant i lawr mewn syndod a dystawrwydd o'i flaen, a'r holl genhedloedd a'i gwasanaethant.

Byddai yr hwn a wnelai y wledd, ar rai achlysuron, yn rhoddi anrhegion i'r gwesteion ar eu hymadawiad. Ymddengys fod hyny yn beth cyffredin yn mysg y Groegiaid a'r Rhufeiniaid. Pan wnaeth Alexander ei wledd priodas yn Susa yn Per-

sia, talodd holl ddyledion ei filwyr o'i drysor ei hun, ac anrhegodd bob un o'r gwesteion, y rhai nid oeddynt yn llai na naw mil, & chwppan aur. Cyfeirir yn fynych yn yr Ysgrythyrau at yr un peth fel arferiad cyffredin yn mysg yr Iuddewon, wrth ddybenu eu gwleddoedd cyhoedd. Pan ddygod Dafydd yr arch i fynu o dŷ Obededom, heblaw offrymu i'r Arglwydd, efe a roddodd roddion i'r bobl, 2 Sam. 6. 19.

Nid yw y benywod yn cael cyfeillachu â'r gwrrywod mewn gwleddoedd yn y Dwyrain; ond caniateir iddynt roesawu eu gilydd yn eu hystafelloedd eu hunain. Pan wnaeth Ahasferus, brenin Persia, wledd i holl bobl ei brif ddinas, y *frenhines Fasti a wnaeth wledd i'r gwragedd yn y brenhindŷ yr hun oedd eiddo Ahasferus y brenin*, Esther 1. 9. Dywed Chardin mai dyma yr arferiad yn holl barthau y Dwyrain; mae y gwragedd yn cynnal eu gwleddoedd ar yr un amser, ond yn wahanol oddiwrth y gwŷr. Hyn yn ddiameuol yw y rheswm fod y prophwyd yn son am *lais priodfab a llais priodferch*, ar wahan y naill oddiwrth y llall, Jer. 7. 34. Efe a olyga fod swm llawenydd priodasol i'w glywed mewn ystafelloedd gwahanol. Ni ellid clywed llais personol y pâr newydd briodi, ond y llawenydd trystfawr ag a fyddai yn gyffredin mewn gwledd priodas; canys yn Syria, ac yn y gwleddydd cymmydogaethol, tebygol, mae y briodferch yn cael ei chondemnio i ddystawrwydd, ac i aros yn y fan lle yr eisteddo hi. Pan byddai y wledd drosodd, ac y symudai y gwesteion, gelwid y tlodion i mewn i fwyta y briwfwyd, fel na chollid dim. Wrth sylwi ar y ddefod hon, cawn reswm am y gorchymyn a roddwyd i'r gwas, yn nammeg y swpper: *Dos allan ar frys, i heolydd ac ystrydoedd y ddinas, a dug i mewn yma y tlodion, a'r anafus, a'r cloffion, a'r deillion. A'r gwas a ddywedodd, Arglwydd, gwnaethpwyd fel y gorchymynais, ac ello y mae lle. A'r arglwydd a ddywedodd wrth y gwas, Dos i'r prif ffyrdd a'r caeau, a chymmell hwynt i ddyfod i mewn, fel y llanwer fy nhŷ*, Luc 14. 21—23. Nid oedd y bobl dlodion ac anghenus hyn yn cael eu galw i'r wledd, hyd yr amser pan ddysgwylid iddynt ddyfod.

## DEFODAU YNGHYLCH PRIODAS YN Y DWYRAIN.

Yn mysg yr Iuddewon, yr oedd y cyflwr priodasol, er yr amserau cyntaf a goffeir yn eu hanes, yn cael ei ystyried mor anrhydeddus, fel yr oedd y person a esgeulusai, neu a beidiai a myned iddo, heb reswm da dros beidio, yn cael ei ystyried yn euog o drosedd mawr. Ac nid yn eu plith hwy yn unig yr edrychid ar y peth felly; mewn amrywiol o'r taleithiau Groegaidd, yr oedd priodas yn cael ei chyfrif yn barchus iawn; yr oedd eu cyfreithiau yn ei chalonogi yn fawr, a'r esgeulusiad o honi yn cael ei annghefnogi neu ei gospi. Y Lacedæmoniaid a ddygent dan benydiau trymion y rhai a oedent neu a ymgadwent oddiwrth briodas. Gwnaeth yr Atheniaid gyfraith, wrth yr hon yr oedd pawb ag yr ymddiriedid matterion cyhoedd iddynt, i fod yn briod, ac yn berchen plant ac etifeddiaethau; canys ystyrid y rhai hyn fel cynnifer y wystlon am eu hymddygiadau da.

Yr oedd gan yr Iuddewon eu cyfreithiau er cyfarwyddyd personau mewn cyflwr addas i briodi. Ni oddefid i'r archoffeiriad briodi gwraig weddw, ac nid oedd offeiriad o un radd i briodi puttain, neu un wedi ei bwrw ymaith oddiwrth ei fwr. I'r dyben o gadw trefn ac etifeddiaethau, yr oedd etifeddes yn rhwym i briodi yn ei llwyth ei hun. Ac nid oedd pobl Israel, gan eu bod yn bobl neillduol i Dduw, i briodi â'r cenhedloedd eilunaddolgar yn eu cymmydogaethau.

I osod attaliad ar lygredigaeth y galon ddynol, a gosod gwahaniaeth rhwng pobl ddewisedig Duw a'r cenhedloedd o'u hamgylch, y rhai oeddynt halogedig iawn yn eu moesau, ac yn barod i briodi eu perthynasau agosaf, nodwyd allan rai perthynasau gan y Llywydd Mawr â'r rhai nid oedd priodas i gael ei ffurfio. Gan i'r Creawdwr weled yn dda wneuthur yr holl hil ddynol o un gwaed, nid dichonadwy, yn oesau cyntaf y teulu dynol, oedd gochelyd priodi perthynasau agos iawn.

Mae yr ysgrifenywyr Iuddewig yn cadarnhau na chafodd yr attaliad hwn gyda golwg ar briodas, ei roddi cyn rhoddiad y gyfraith, oddieithr gyda golwg ar fam un, neu lŷs-fam, neu chwaer o'r un fam. Cofeir un amgylchiad yn hanes Abraham ag a ym-

ddengys yn cadarnhau y dyb hon. Pan fu i Abimelech, brenin Gerar, achwyn fod y patriarch wedi ei dwyllo drwy alw Sarah yn chwaer iddo, pan yr oedd hi mewn gwirionedd yn wraig iddo, atebodd Abraham, *A hefyd yn wir fy chwaer yw hi; merch fy nhad yw hi, ond nid merch fy mam; ac y mae hi yn wraig i mi*, Gen. 20. 12. Yr oedd yr un rhyddid yn cael ei gymmeryd mewn parthau ereill o'r byd. Yn Lacedæmonia goddefid priodasau rhwng plant yr un fam, ond eu bod o wahanol dadau. Yn Athen gwaherddid i blant yr un fam briodi, ond ddim i blant yr un tad. Dywed haneswyr fod y Persiaid yn hollol ddiofal am reolau gweddeidd-dra yn y matter hwn; canys dywed *Potter* fod y *Magi*, y personau santeiddiolaf yn eu plith, yn hiliogaeth mamau o'u meibion eu hunain.

Yn Mesopotamia, ni ellid rhoddi y ferch ieuangaf i briodi o flaen yr hynaf. Safodd Laban at y rheol hon yn ei ymddygiad at Jacob. Mae cyfraith i'r perwyl hwn yn mysg yr Hindwaid, yr hon sydd yn gwahardd i'r chwaer ieuangaf briodi o flaen yr hynaf, neu i'r brawd ieuangaf briodi o flaen yr hynaf.

Eglur yw oddiwrth yr ysgrythyr a rheswm, i Dduw fwriadu priodas i fod yn undeb rhwng un gwr ac un wraig. Pan ddywedodd Duw, *Nid da bod y dyn ei hunan*, ni addawodd efe iddo ond ymgeledd un gymhares: *Gwnawn iddo ymgeledd cymwys iddo*, Gen. 2. 18. Efe a gyflawnodd yr addewid dyner hon iddo yn fuan; yr hyn oedd yn ddangosiad eglur o'i ewyllys nad oedd ond un gwr ac un wraig i gael eu huno mewn priodas. Adda a gymmeradwyodd y cynllun hwn, ac yr oedd hyny yn cael ei fwriadu fel rheol i'w holl hiliogaeth yn mhob oes ddylynol. *Am hyn*, medd Adda, *yr ymedy dyn â'i dad a'i fam, ac y glŷn wrth ei wraig, a hwy ill dau a fyddant un cnawd*, Gen. 2. 24. Cafodd y gosodiad cyntaf ei gadarnhau gan Crist, Mat. 19, 4, a' chan yr apostol Paul, 1 Cor. 7. 2.

Ond er fod y gyfraith mor benderfynol, ni ellir ammeu i'r arferiad o gymmeryd llawer o wragedd (*polygamy*) gael ei dwyn i mewn yn fuan wedi y creadigaeth. Lamech, un o hiliogaeth Cain, a'r hwn nid oedd ond y chwechfed person o Adda, a briododd ddwy wraig; efe, efallai, oedd y cyntaf a anturiodd, yn y modd hwn, i droseddu cyfraith ei Greawdwr. Ymddengys i'r arferiad anwarrantadwy hon, yr hon a gafwyd oddiwrth y cyn-ddiluwiaid, ddyfod yn gyffredin iawn yn fuan wedi y dylif; canys

coffeir ef fel peth nad oedd mewn un modd yn hynod, i Sara, pan yr anobeithiodd hi am gael plant, gymmeryd ei llaw-forwyn Hagar, a'i rhoddi i Abraham ei gwr, o'r hon y cafodd efe fab. Yr oedd gan Esay a Jacob rifedi o wragedd; a hyn, yn ddiau, oedd un o'r arferion a oddefodd Moses i aros yn mysg ei bobl, o herwydd caledrwydd eu calonau, gan wahardd i'r arch-offeiriad yn unig gael chwaneg nag un wraig.

Mae pob trosedd o'r gyfraith ddwyfol yn cael ei ganlyn gan gosp gyfatebol. Mae llawer o wragedd ar unwaith i'r un gwr wedi troi allan, yn mhob oes, ac yn mhob gwlad lle y mae 'yr arferiad o'u cadw wedi ffynu, yn achos o lawer o ddrygau. Yr eiddigedd a'r ymryson a fu yn rheulu, Abraham, ac yn eiddo ei wŷr Jacob, y rhai a ddeilliasant oddiwrth yr achos hwnw, ydynt ddigon adnabyddus; a mwy truenus eto oedd yr ymrysonau a ysgydwasant dŷ a gorsedd Dafydd. Y cyfryw ddrygau ydynt effeithiau naturiol ac angenrheidiol yr arferiad hon; canys os bydd gan wr lawer o wragedd, mae ei serch yn cael ei ranu, ac o ganlyniad cymmer eiddigedd ac ymryson anfeddyginiaethol le rhwng ei wragedd anhappus. I gadw ei drigfa rhag bod yn lle o aflonyddwch a therfysg parhaus, rhaid oedd iddo ei lywodraethu, fel y mae y rhai hyn yn y Dwyrain ag y mae ganddynt lawer o wragedd yn gorfod gwneuthur eto, gydag awdurdod arglwydd-aidd, yr hyn ar unwaith sydd yn dystrywio holl gysuron rhesymol ac anwylawl y cyflwr priodasol. Mae y gwr yn arglwydd chwervw a dideimlad, a'i wragedd yn dorf o gaethion crynedig. Mae y plant, gyda gwres dyeithr i'r rhai a gyflewyd mewn amgylchiadau gwahanol, yn cymmeryd plaid eu mhamau eu hunain, ac yn edrych ar blant y wragedd ereill fel dyeithriaid neu elynion. Edrychant ar eu tad cyffredinol gyda diosfalwch neu fraw, tra y glynant wrth eu mham eu hunain gyda'r serch cynhesaf, fel yr unig riant ag sydd o bwys neillduol iddynt hwy, ac oddiwrth yr hon y dysgwylant unrhyw dâl priodol o serch a hynawsedd. Cadarnheir hyn gan bob ysgrifenydd ar foesau y Dwyrain; a rhydd hyn reswm am ddull o lefaru ag sydd mor gyffredin yn yr ysgrythyrau: "Fy mrodyr, meibion fy mham oeddynt hwy," ebe Gideon; "fel mai byw yr Arglwydd, pe gadawsech hwynt yn fyw, ni laddwn ohwi," Barn. 8. 19. Yr oedd yn trymhaeu cystudd Dafydd yn fawr, ei fod wedi myned fel estron i blant ei fam, Salm 69. 8; nid oedd gelyniaeth ei frodyr, neu blant ei dad o wragedd ereill, yn rhoddi cymmaint o anes-



mwythder iddo. Cyfeirir at yr un peth yn achwyniad y ddyweddi: "Nac edrychwch arnaf am fy mod yn ddô, ac am i'r haul edrych arnaf: meibion fy mam a ddigiasant wrthyf; gosodasant fi i gadw gwinllanoedd," Can. 1. 6. Prin y byddai plant un wraig yn ystyried plant gwraig arall yn frodyr a chwiorydd iddynt mewn un modd; ac ni themlent fawr chwaneg o gariad at eu tad. Nid yw dyn yn y Dwyrain, o herwydd yr arferiad annaturiol hon, yn sylwi ond ychydig ar sarhad a wneir ar ei dad; ond pan lefarir gair yn erbyn ei fam, dengys yr anfodlonrwydd mwyaf. Ei gwaradwyddo neu ei melldigo hi, yw y sarhad mwyaf a all gelyn wneuthur; ac mae yn drosedd nad yw yn cael ei faddeu ond anfynych iawn. "Taro," ebe Affricaniad pan wedi digio wrth ei wrthwynebwr, "ond na felldithia fy mam."

Byddai deg neu ddeuddeg mis yn gyffredin rhwng amser y dyweddiad a dydd y briodas; yn ystod yr amser hwn arosai y briodferch gyda'i rhieni, fel y gallai hi barotoi addurniadau iddi ei hun cymmwys erbyn ei phriodas. Gwasanaetha y ddefod hon i egluro amgylchiad a goffeir yn nghylch priodas Samson, yr hwn sydd yn amgen rywbeth yn dywyll. "Efe a aeth i waered, ac a ymddyddanodd â'r wraig (yr hon a welsai efe yn Timnath), ac yr oedd hi wrth fodd Samson," Barn. 14. 7. Ymddengys fod y geiriau hyn yn cyfeirio at y ddefod o ddyweddio, a'r rhai canlynol at y briodas: "Ac ar ol ychydig ddyddiau efe a ddychwelodd i'w chymmeryd hi." Gellir gweled yma fod crŷn amser rhwng y dyweddiad a'r briodas.

Byddai priodferch yn y Dwyrain yn myned dan amrywiol o buredigaethau cyn amser y briodas. Cafodd llancesau Persia fod *chwe' mis mewn olew myrrh, a chwe' mis mewn peraroglan*, a phethau ereill i lanhau y gwragedd, cyn i Ahasferus eu cymmeryd, Esther 2. 12.

Arferai yr Iuddewon gynt addurno y pâr ieuanc â choronau priodas, y rhai oeddynt yn gyffredin o aur, wedi eu gwneuthur ar ddull tŵr. Canfyddwn yr arferiad hon yn ngwahoddiad y ddyweddi i'w chymdeithion: "Ewch allan, merched Seion, ac edrychwch ar y brenin Solomon yn y goron â'r hon y coronodd ei fam ef yn ei ddydd dyweddi ef, ac yn nydd llawenydd ei galon ef," Can. 3. 11. Ac yn y moes-gyfarchiad a rydd y priodfab i'r briodferch: "By ben sydd arnat fel Carmel," Can. 7. 5. Wedi ei addurno â choron ar ddull tŵr, cyffelyb i'r mynydd hwnw mewn dull, ac yn arw gan emau fel y mae y mynydd hwnw gan

grugau. Cyfeiria y prophwyd Esay at yr un arferiad pan y mae yn gosod allan, gyda llawer o hyfrydwoch, lwyddiant Seion mewn amser i ddyfod.—“Gan lawenyachu y llawenyachaf yn yr Arglwydd; fy enaid a orfoledda yn fy Nuw; canys gwisgodd fi â gwisgoedd iachawdwriaeth, gwisgodd fi â mantell cyfiawnder; megys y mae priodfab yn ymwisgo â harddwisg, ac fel yr ymdrwsia priodferch â'i thlysau,” neu, yn llythyrenol, “fel yr ymdrwsia hi â choron.” Esay 61. 10.

Byddai y briodas yn cael ei chyflawni yn gyffredin mewn gardd, neu ryw le allan. Ar ddiwedd y seremoni gynt, byddai y tad a'r fam, a pherthynasau y wraig, yn gweddio am fendith ar y pâr ieuanc. Bethuel a Laban, ac aelodau ereill y teulu, a gyhoeddasant fendith mewn medd difrifol ar Rebecca cyn ei hymadawiad. “A hwy a fendithiasant Rebecca, ac a ddywedasant wrthi, Ein chwaer wyt, bydd di fil fyrddiwn; ac etifedded dy hâd borth ei gaseion,” Gen. 24. 60. Ac yn mhen amser maith wedi hyny, pan ddyweddiwyd Ruth y Foabees i Boaz, “yr holl bobl y rhai oedd yn y porth, a'r henuriaid, a ddywedasant, Yr ydym yn dystion: yr Arglwydd a wnelo y wraig sydd yn dyfod i'th dŷ di fel Rahel, ac fel Lea, y rhai a adeiladasant ill dwy dŷ Israel; a gwna di rymusdra yn Ephrata, bydd enwog yn Bethlehem,” Ruth 4. 11, 12. Ar ol i'r fendith gael ei chyhoeddi, mae y briodferch yn cael ei thywys, gyda rhwysg mawr, i dŷ ei gwr; yr hyn, yn gyffredin, a wneir yn yr hwyr; a phan byddai yr orymdaith yn myned yn mlaen, byddai arian, bwydydd melusion, blodau, a phethau ereill, yn cael eu tafu yn mysg y dorf, y rhai a ddalient hwy mewn llieniau a wneid i'r perwyl hwnw, yn cael eu lledu allan mewn modd priodol ar astellod. Peth cyffredin yw defnyddio peraroglau mewn priodasau yn y Dwyrain; a hyny, ar rai achlysuron, yn helaeth iawn. Nid yn unig y mae y gwisgoedd yn cael eu perarogli, hyd nes y byddo, yn iaith y Salmydd, arogl myrrh, aloes, a chasia ganddynt; ond arferid hefyd osod morwynion i dywys yr orymdaith, a chanddynt grochanau o berarogliau; a llosgid peraroglau, weithiau, yn ffenestri yr holl dai yn yr heolydd drwy y rhai yr elai yr orymdaith, hyd nes byddai yr awyr yn llwythog gan berarogl. Mewn cyfeiriad at yr arferiad hon y gofynir, “Pwy yw hon sydd yn dyfod i fynu o'r anialwch megys colofnau mwg, wedi ei pherarogli â myrrh, ac â thus, a phob powdr yr apothecari?” Can. 3. 6. Yr oedd y fath gyfiawnder o beraroglau yn cael eu llosgi ar yr achlysuron hyn, fel y byddai

colofnau o fwg yn dyrchafu oddiar y thuserau, mor uchel, fel y gallasid eu gwled o gryn bellder; ac yr oedd y peraroglau yn gryfion a gwerthfawr iawn, fel eiddo y marsiandwyr. Tystia rhai teithwyr a fuont yn ddiweddar drwy y Dwyrain, fod yr arferiad hon yn cael ei chadw i fynu yno hyd yn hyn.

Mae ystafelloedd y gwragedd yn cael eu cyfrif yn gysegredig yn holl wledydd y Dwyrain; mae hyd yn nod yn drosedd i holi pa beth sydd yn myned yn mlaen o fewn yr *harem*, neu dŷ y gwragedd. Dywed *Chardin* y gall dyn rodio dros gant o ddyddiau, y naill ar ol y llall, gerllaw y tŷ lle y byddo y gwragedd, heb wybod pa beth a wneir o'i fewn, mwy na'r hyn a wneir yn y man pellaf o'r wlad. Rhydd hyn reswm dros ymddygiad *Mordecai*, yr hwn a rodiodd beunydd o flaen cyntedd tŷ y gwragedd, i wybod llwyddiant *Esther*, a pha beth a wnelid iddi, Es. 2. 11.

Nid yw yr Arabiaid mor fanwl a'r Tyrciaid ynghylch eu menywod; ac er fod ganddynt ystafelloedd pennodedig i'w gwragedd yn eu pebyll, maent yn ewyllysgar yn arwain iddynt gydnabod, neu y dyeithriaid hyny a gymmerant dan eu diffyniad. Tywysydd *Pococke*, yn ei daith i Jerusalem, a'i tywysodd ddwy neu dair milltir i'w babell, lle yr eisteddodd i lawr gyda'i wraig ac ereill o amgylch y tân. Yr Arabiaid ffyddlon a'i cadwai yno er mwyn mwy o ddiogelwch, a'r wraig yn wastadol gydag ef; ni feiddiai un dyeithr un amser fyned i ystafell y gwragedd heb gael ei dywys. Gallwn weled, yn y ddefod hon, reswm dros wahoddiad *Jael* i *Sisera*, pan ddymchwelasid ef gan *Barac*, i ddyfod i mewn: "Tro i mewn, fy arglwydd, tro i mewn ataf fi; nac ofna," Barn. 4. 18. Hi a'i gwahoddodd i gymmeryd noddfa yn ei rhan hi o'r babell, i'r hon nid allai un dyn dyeithr anturio myned, ac yn yr hon yr oedd yn naturiol iddo ef ystyried ei fod yn fwy diogel.

Yn Ngwlad Groeg yr oedd y gwragedd gynt yn cael eu cadw yn gaeth iawn yn eu lletty, yn enwedig gwryfion a gwragedd gweddwon; y blaenaf, o herwydd na chwarent fawr profiad o'r byd, a gaent eu gwyllo yn ofalus iawn. Sicrheid eu hystafelloedd a chloion a bolltau; a phrin y byddai ganddynt ryddid, weithiau, i fyned o un ystafell i'r llall, heb ganiatad. Yr oedd benywod wedi priodi yn cael eu cadw agos yr un mor gaeth, hyd nes y byddent yn famau; yna caent ychydig chwaneg o ryddid. Ond dibynai hyn yn hollol ar ewyllys y gwr. Ond pa mor hynaws bynag fyddai y gwr, bernid mai peth anwedus iawn oedd bod menywod yn myned lawer o amgylch.

Ymddengys fod gan Paul olwg ar y drythfeddylliau hyn am briodoldeb, yn ei gyfarwyddiadau i Timotheus a Thitus, tuag at reoli eglwysi Groeg; yn y rhai y mae yn dangos, y pwys o'u bod yn *gwarchod gartref*. Gwel 1 Tim. 5. 14; Tit 2. 4, 5. Nid oedd yr Iuddewon yn cadw eu berywod mor gaeth; ond eto ystyrid mai anweddus oedd iddynt ymddangos lawer yn gyhoeddus; canys gelwir gwraig yn Hebraeg wrth enw a arwydda cuddio neu ddirgelu, o herwydd mai anaml y goddefid iddi ddyfod i gwmpeni cymmysg. Er na chedwid y menywod priod mor gaeth, dysgwylid iddynt warchod gartref, a threulio eu hamser i drefnu materion y tŷ. Y gwr doeth, wrth hon am fenyw anllad, a ddywed, *Ei thraed nid arhoant yn ei thŷ*, tra y mae pob gwraig ddoeth, drwy ei hymddygiad diwyd a chall, yn adeiladu ei thŷ, ac yn craffu ar ffyrdd tylwyth ei thŷ. Gwel Diar. 7. 11; 14. 1; 31. 27.

Nid yw y gwragedd yn y Dwyrain yn dyoddef ond ychydig wrth esgor; canys mae rhai mewn sefyllfa dda yn fynych i'w gweled ar eu traed dranoeth, ac ddim dan rwymau i gaethiwo eu hunain oll ar y trydydd dydd. Anfynych y galwant fyd-wragedd atynt; a phan wnant hyny, maent yn esgor weithiau cyn y deudeuant i'w cynnorthwyo; y gwragedd tlodion, pan allan gyda'u gwaith, a ânt o'r neilldu, esgorant a golchant y baban, rhoddant ef mewn lliain, a dychwelant at eu gwaith drachefn. Gyda golwg ar yr Hebreesau yn yr Aipht, ymddengys fod dywediad y byd-wragedd yn wirionedd: *Nid yw yr Hebreesau fel yr Aiphtiesau; oblegid y maent hwy yn fywiog, ac yn esgor cyn dyfod byd-wraig atynt*, Exod. 1. 19.

Wedi i blentyn gael ei eni, y Groegiaid gynt a'i golohent mewn dwfr. Y weithred nesaf a haeddai sylw, yw tori bogail y plentyn, yr hyn a wnaed gan y mammaethod; oddiwrth yr hyn y dechreuodd y dywediad diarhebol yn mysg y Groegiaid, *Ni thorwyd dy fogail*, gan feddwl, baban ydwyt o hyd, prin wedi dy ysgaru oddiwrth dy fam. Pan aner mab, rhyw was parchus, yn gyffredin, yw y cyntaf i ddwyn y newydd da i'w feistr, ac am hyny efe a dderbyn anrheg, i'r hon y mae yn tybied fod ganddo hawl, ond nid yw genedigaeth merch yn peri llawenydd; yn y gwrthwyneb, mae cymmaint o anmharodrwydd yn mhob un i hysbysu y peth i'r tad, ag sydd o awydd am roddi gwybodaeth iddo am enedigaeth mab. At yr amgylchiad hwn cyfeiria y prophwyd gyda grym ac ardderchawgrwydd mawr: *Melldigedig fyddo y gwr a fynegodd*

*i'm tad, gan ddywedyd, Ganwyd i ti blentyn gorryw; gan ei lawenychu yn fawr, Jer. 20. 15.*

Byddai y Lacedæmoniaid, pan enid plant gweinion, neu rai afluniaidd iddynt, yn gorchymyn eu tafu i ogof ddofn, gan feddwl nad da i'r plant eu hunain, nac i'r wladwriaeth, oedd iddynt gael eu dwyn i fynu; ond byddai llawer o bersonau yn bwrw eu plant allan, pan nad ewyllysient iddynt drengu, yn unig o herwydd eu bod yn analluog i'w cynnal. Byddai y plant yn gyffredin yn cael eu gosod, fynychaf, mewn cawelli. Fel hyn y bwriwyd Moses allan gan ei fam pan nad allai ei guddio yn hwy. Mynych y byddai rhieni, pan fwrient en plant allan, yn cymmeryd gemau a modrwyau, neu ryw beihau ereill, drwy y rhai y gallent eu hadnabod wedi hyny, os gofalai Rhagluniaeth am danynt, ac yn eu rhwymo wrthynt; gwnaent hyny hefyd i galonogi y rhai a'u caffent, i'w magu a'u haddysgu os byddent byw; neu i roddi claddedigaeth gweddus iddynt os byddent feirw. Y prophwyd Ezeiel a ddwg yr amgylchiadau hyn i mewn yn ei ddesgrifiad o gyflwr gwael, a sefyllfa druenus hen bobl Dduw, dan orthrymder creulon Pharaoh. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw wrth Jerusalem, Dy enedigaeth sydd o wlad Canaan; dy dad oedd Amoriad, a'th fam yn Hittees. Ac am dy enedigaeth, ar y dydd y'th anwyd, ni thorwyd dy fogail, ac mewn dwfr ni'th olchwyd i'th feddalhau; ni'th gyweiriwyd chwaith â halen, ac ni'th rwymwyd â rhwymyn. Ni thosturiodd llygad wrthyt, i wneuthur it' un o hyn, i dosturio wrthyt; ond ar wyneb y maes y'th dafwyd, i ffeiddio dy einioes ar y dydd y'th aned," Ezec. 16. 3—5.

Sylfaenwyr y genedl Iuddewig a ymdeithiasant yn ngwlad Canaan, lle yr oedd yr Amoriaid a'r Hittiaid yn meddu y llywodraeth fwyaf, heb fod ganddynt hwy un awdurdod, etifeddiaeth, na meddiant o un math, oddieithr lle claddu; yn fynych mewn ofn rhag eu cymmydogion eiddigus, ac yn gorfod crwydro oddiwrth un genedl at un arall. Yn cael eu gyru o'r wlad hōno gan newyn, cymmerasant noddfa yn yr Aipht, y maes agored ar yr hwn y tafwyd hwynt. Y llywodraeth, yn éiddigeddu o herwydd eu llwyddiant, ac yn ofni o herwydd eu cynnydd cyflym mewn rhifedi, a attaliasant eu ffafr a'u nodedd oddiwrthynt, a'u darostyngasant i gaethiwed, rheolasant arnynt gyda llymdra, ohwerwasant eu bywydau iddynt drwy orthrymder creulon, ac nid amcanent at ddim llai na'u dystryw hollol. Gorchymynid i'w plant gwrryw gael eu tagu ar eu genedigaeth; ac nid an-

nhebyg yw i lawer o honynt, fel Moses, gael eu bwrw allan i'r maes. Nid oedd gan y bobl hyn un diffynwr, neb i gymmeryd eu plaid mewn matterion cyhoedd; nid oedd llygad a dosturiai wrth eu trueni mawr. Ni chymmerid gofal am eu gwladwriaeth fabanaidd, i'w chadw a'i magu; ond defnyddid pob dyfais ag a allasai llywod-ddysg farbaraidd nodi allan, i'w dystrywio yn ei dechreuad. Nid yw plentyn newydd eni, pan yn noeth, aflan, a diymgeledd, mewn mwy o berygl pan wedi ei fwrw allan ar y maes, nag oedd yr Hebraeid ynddo yn yr Aipht. "Pan dramwyaais heibio it', a'th weled yn ymdrybaeddu yn dy waed, dywedais wrthyt yn dy waed, Bydd fyw."

Mae amhlantadrwydd o hyd yn cael ei gyfrif yn waradwydd yn y Dwyrain, ac y mae plant gwryw yn cael eu dymuno uwchlaw pob bendith arall, hyd yn nod gan y bobl iselaf. Hysbys yw fod y teimlad hwn yn gryf iawn yn yr Hebreesau; ond ynddynt hwy tebygol nad teimlad naturiol yn unig ydoedd, ond fod ynddo gymmysg o obaith crefyddol, yr hyn a'u gogwyddai i ddysgwyl am enedigaeth plentyn yn yr hwn y bendithid holl dylwythau y ddaear.

Peth cyffredin, agos yn mysg pob cenedl, mewn trefn i wahanuaethu un dyn oddiwrth un arall o'r un enw, a fyddai rhoddi iddo gyfenw oddiwrth grefft neu alwad ei dad. Ceir yn mysg y Saeson lawer o anghreiffiau o hyn mewn cyfenwau, megys *Baker, Carpenter, &c.* Mae yr Arabiaid y dydd heddyw yn gwahanuaethu personau drwy roddi iddynt gyfenw oddiwrth alwedigaeth eu rhieni, er na byddont hwy eu hunain un amser yn ei dilyn. Yn ol y ddefod hon dichon y gellir ystyried sylw yr Iuddewon, yn yr hwn y galwent ein Hiachawdwr yn Saer, fel yn cyfeirio yn unig at grefft yr hwn a gyfrifid yn dad iddo: un arall o'r efengylwyr a'i geilw yn fab y Saer. Gwel Luc 2. 52. Mat. 13. 55.

Mor fuan ag y caffo y plentyn ei eni, rhoddir ef dan ofal mammaeth; os bachgen a fydd, mae y tad, pan ddelo y plentyn yn ddwy flwydd oed, yn pennodi dyn gofalus i fod yn geidwad iddo; a gellir tybied mai y cyfryw oeddynt dadmaethod meibion Ahab, 2 Bren. 10. 1. Ond os merch a fydd, hi a ymddiriedir i ofal mammaeth, yr hon yn gyffredin a'i dilyn drwy ei bywyd. Aeth mammaeth Rebecca gyda hi o dŷ ei thad, a bu gyda hi hyd ddydd ei marwolaeth. Dengys hyn fod mammaethod weithiau yn cael eu parchu yn fawr.

Pan byddai y fam farw cyn y byddai wedi gorphen rhoddi sugn i'r plentyn, byddai ei fywyd yn cael ei gadw weithiau & llaeth o fronau y tad. Coffeir mewn hanesyddiaeth am ang-hreiffitiau o'r fath, ac mae profion digon cedyrn o'u cywirdeb wedi cael eu rhoddi. Yr oedd yn hysbys mor fore a dyddiau Job, fod llaeth yn mronau gwrrywod. *Ei fronau ef sydd yn llawn llaeth, a'i esgyrn yn iraidd gan fer,* Job 21. 24.

Mae ail briodasau, yn ystod bywyd y wraig gyntaf, yn cael eu gwrthwynebu yn fawr gan foneddigesau o radd uchel; perthynasau grymus y rhai, yn ystyried y fath beth yn sarhad arni hi ac ar ei theulu, a gymmerant y cyfle gyntaf i ddial am hyny. Mor nerthol yr eglura hyn eiriau Laban wrth Jacob, pan wnaeth efe gyfammod âg ef ar fynydd Gilead: "Os gorthrymi di fy merched i, neu os cymmeri wragedd heblaw fy merched i, nid oes neb gyda ni; edrych, Duw sydd dyst rhyngof fi a thi," Gén 31. 50.

Arferir mewn llawer o barthau yn y Dwyrain, oed eu plant i farchogaeth ar ben y glun, a rhoddi y fraich o amgylch y corph. Yn nheyrnas Algiers, pan byddo y caethion yn cymmeryd y plant allan, mae y bechgyn yn marchogaeth ar eu hyagwyddau; ac mewn gorymdaith grefyddol a welodd Symes yn *Ava*, prif ddinas ymerodraeth y Burmaniaid, y personau o radd uchel cyntaf a aeth hebio, oeddynt dri phlentyn yn marchogaeth ar ysgwyddau dynion. Amlwg yw oddiwrth y ffeithiau hyn, fod plant yn y Dwyrain yn cael eu dwyn weithiau yn y naill ffordd ac weithiau yn y llall. Ac nid oedd y ddefod yn wahanol yn Judea, er fod y prophwyd yn llesaru yn y dull hwn: *Dygir dy feibion yn eu mynnesau, neu yn eu breichiau, a dygir dy ferched ar ysgwyddau,* Esay 49. 22; canys, yn ol Dr. *Russell*, mae y plant fyddo yn alluog i gynnal eu hunain, yn cael eu dwyn yn gyffredin ar ysgwyddau, a'r coesau o amgylch y gwddf; ond pan yn fabanod, dygir hwynt yn y breichiau, neu mewn modd astuniaidd ar un glun. Dywed *Dandani* fod pobl Asia, pan yn marchogaeth, yn dwyn eu plant ieuainc ar eu hyagwyddau gyda deheurwydd mawr. Mae y plant hyn yn gafaelu yn mhén yr hwn a'u dwg, pa un a fyddo efe ar geffyl neu ar draed, ac nid ydynt yn ei rwystro i rodio, neu i wneathur yr hyn a fyno. Dengys hyn bwys yr ymadrodd hwnw o eiddo Esay, yr hwn a llesara am fod y Cenedloedd yn dwyn plant yn y dull hwn; ac felly nid yw pellder yn un rhwystr i'r dull hwn o'u dwyn, gan y gellir eu dwyn ar geffylau o blith y bobloedd, pa mor bell bynag.

Byddai bastard yn mysg y Groegiaid yn cael ei ddiystyru a'i wawdio yn gyhoedd, am ei fod yn fastard; ac yn Persia nid yw mab gordderchwraig un amser yn cael ei osod ar yr un tir ag un cyfreithlon; byddai cynnyg at hyny yn drosedd yn erbyn teimladau y llwyth, yn gystal ag eiddo teuluoedd y gwragedd cyfreithlon.

Ymddengys nad oedd tadau yn mysg yr Iuddewon, mwy na'r Groegiaid, yn gofalu fawr am addysgu eu bastardiaid. Gellir casglu eu bod yn eu gadael, mewn mesur mawr, i'w tueddiadau eu hunain. Ni byddent yn eu ceryddu am eu beiau, nac yn llenwi eu meddyliau â gwybodaeth fuddiol. Amlwg yw y cynnwysir hyn yn ngeiriau yr apostol:—*Os goddefoch gerydd, y mae Duw yn ymddwyn tuag atoch megys tuag at feibion; canys pa fab sydd yr hun nid yw ei dad yn ei geryddu? Eithr os heb gerydd yr ydych o'r hon y mae pawb yn gyfranog; yna bastardiaid ydych, ac nid meibion*, Heb. 12. 7, 8. Ac mewn trefn i attal tueddiadau llygredig y galon, rhoddodd Jehofah, drwy gyfraith bendant, warth-nôd ar fastard, yr hwn nid oedd i gael ei symud hyd y ddegfed genhedlaeth, Deut. 33. 2.

Peth arferol yn y Dwyrain oedd nodi caethion yn eu talcenau, fel y mau egluraf; ac weithiau ar leocedd ereill yn y corph. Y ffordd gyffredin o wneuthur hyn, oedd llosgi y fan â haiarn poeth; ac felly gwnaent ryw lythyrenau neillduol, ac yna tywalltent inc i'r cwysau, fel y byddai yr argraph yn fwy amlwg. Byddai caethion yn cael eu nodi yn fynych fel cosp am eu troseddau; ond yn fwyaf cyffredin fel yr adwaenid hwynt os diangent. I'r un perwyl nodid milwyr. Byddai enwau eu meistri weithiau yn cael eu rhoddi ar ddwyllaw caethion; ac enwau y penciwddod yn cael ei roddi ar ddwyllaw milwyr. Yr oedd addolwyr gau-dduwiau yn cael eu nodi yn yr un modd. Yr oedd yr arferiad hon o nodi eu hunain wedi myned yn gyffredin iawn yn mysg y Syriaid; a bernir i'r Iuddewon gael eu gwahardd i nodi eu hunain, o herwydd fod eilunaddolwyr, drwy y seremoni hōno, yn cyseggu eu hunain at wasanaeth eu gau-dduwiau. Ar yr aehlysur hwn, byddai yr arwyddion a ddefnyddient yn wahanol; enwau eu duwiau, ac arwyddion ereill. Yr apostol yn llytr y Datguddiad, a gyfeiria at y ffyrdd hyn o nodi: *Ac mae yn peri i bawb, fychain a mawrion, cyfoethigion a thlodion, rhyddion a chaethion, dderbyn nôd ar eu llaw ddehau, neu ar eu talcenau*, Dat. 13. 16. Yr oedd canlynwyr y bwystfil yn derbyn eu nôd ar eu llaw ddehau, o



herwydd eu bod yn rhesu eu hunain dan ei fanerau, yn barod i gynnorthwyo ei aohos, a lledu ei diriogaethau â thân a chleddyf; dygent enw eu penciwddod, esgob Rhufain, *λατινος*, a rhifedi ei enw, sef 666. Derbynient hefyd nôd caethion ar eu talcenau, i ddangos eu bod yn feddiant hollol iddo, y rhai yr honai hawl i'w trefnu fel y mynai; y rhai nid allent brynu na gwerthu, byw mewn oysur, na marw mewn heddwch, heb ei ganiatad ef. Ond nid yn unig yr oeddynt yn filwyr a chaethion iddo; ond yr oeddynt hefyd yn rhai a'i cydnabyddent ac a'i hystyrient fel Duw, a hwy a'i dyrohafent uwchlaw y cwbl a elwid yn Dduw, ac a addolid; ac yn arwydd o hyn, derbynient nôd ar gledr eu llaw, neu yn eu talcenau. Daeth yr arferiad o nodi milwyr a chrefyddwyr offergoelus, oddiwrth y ddefod o nodi caethwas â rhyw nôd neillduol, i'w attal rhag gadael ei feistr, neu fel y buasai yn hawddach ei gael allan a'i adferyd.

At y ddefod hon y cyfeiria y prophwyd Ezeziel: "Dos drwy ganol y ddinas, drwy ganol Jerusalem, a noda nôd ar dalcenau y dynion sydd yn ucheneidio, ac yn gweiddi am y ffeidd-dra oll a wneir yn ei chanol hi," Ezec. 9. 4. Gellir coffau anghraifft arall o'r Datguddiad (pen. 7. 3): "Na ddrygwch y ddaear, na'r môr, na'r prenau, nes darfod i ni selio gwasanaethwyr ein Duw ni yn eu talcenau." Yn y ddwy anghraifft hyn y mae yn arwydd o ddiffyniad a diogelwch i personau a breintiau pobl Dduw.

Pris caethwas, yn ol *Maimonides*, oedd deg-ar-hugain o arian, pa un bynag ai gwrryw neu fenyw fuasai, heb un olwg ar ryw, dull, na maintioli, na gwerth mewnol. A dyma y pris a roddodd y bradychwr ar Waredwr eneidiau; yr oedd yn rhan o'r iseldra mawr y plygodd efe iddo, fod iddo gael ei brisio gan ei fradychwr a'i lofruddion yn ol pris caethwas cenhedlig, y gwaelaf a'r mwyaf dirmygedig o'r hil ddynol. Mae caethion yn y Dwyrain yn cael eu gwerthu am lawer llai yn amser rhyfel. Pan fu i'r Tartariaid oresgyn Poland, hwy a werthasant blant y wlad anhappus hōno am goron yr un. Yn Mingrelia, gwlad helaeth yn Asia, maent yn eu gwerthu am ymborth a gwin. Un o'r adfydan trymion a ddyoddefodd pobl Israel am eu hanwireddau, oedd gweled eu plant yn cael eu gwerthu am beth bychan ei werth: "Ac ar fy mhobl y bwriasant goelbrenau, a rhoddasant y bachgen er puttain, a gwerthasant fachgennes er gwin, fel yr yfent," Joel 3. 3. Dywed Harmer, "Mae rhieni yn amser newyn yn fynych yn gwerthu eu plant, ac hyd yn nod eu hunain, am fara mewn

gwledydd dwyreiniol; ac arferwyd gwneuthur felly o amser Joseph hyd yr amser presennol. Nid oedd y fath hyn o gaethiwed yn adnabyddus yn mysg yr Iuddewon. Mae cyfraith Moses yn y modd mwyaf, yn gorchymyn fel hyn i Israel, "Pan dlodo dy frawd, a'i werthu ef it'; na wna iddo wasanaethu yn gaethwas; bydded gyda thi fel gweinidog cyflog, fel ymdeithydd; hyd flwyddyn y jubili y caiff wasanaethu gyda thi," Lef. 25. 39, &c.

Ni oddefir i gaethwas yn y Dwyrain edrych yn wyneb ei feistr; efe a saif ger ei fron a'i lygaid tua'r ddaear, neu ar law ei feistr, gan wyllo ar yr arwydd a roddir iddo. At ddystawrwydd a sobrwydd caethwas yn ngwydd ei berchennog, y cyfeiria y Salmydd (Salm 123. 1, 2): "*Atat ti y dyrchafaf fy llygaid, ti yr hwn a breswyli yn y nefoedd,*" &c.

Yr oedd caethion y Groegiaid a'r Rhufeiniaid yn cael eu trin gyda'r llymdostedd mwyaf, ac yn fynych iawn gyda'r annghyfiawader a'r creulondeb erchyllaf. Un o'r cospedigaethau trymaf a ddyoddefai y trueiniaid hyn oddiar law eu harglwyddi annhrugarog, oedd cael eu fflangellu yn y chwareule (*circus*), gan ddwyn croes, yr hyn a rydd i ni feddylddrych am ddyoddefiadau ein lachawdwr bendigedig ar ein rhan ni. Yn cael ei ddiystyru gan y Cenhedloedd, a'i ffeiddio gan yr Iuddewon, fel y gwaelaf o ddrwgweithredwyr, efe, fel un o'r caethion iselaf, a gymmellwyd i ddwyn ei groes, nes y soddodd dan ei phwys. Gorchymynir i'w ddysgybllion blygu i driniaeth gyffelyb er ei twyn ef: *Yr hun nid yw yn cymmeryd ei groes, ac yn fy nghanlyn i, nid yw deihong o honof fi.*

Mae pobl gyfoethog Barbary, pan heb blant, yn prynu caethion ieuainc, yn eu haddysgu yn eu crefydd eu hunain, ac weithiau yn eu mabwysiadu yn blant iddynt eu hunain. Er fod yr arferiad hon yn ddyeithr ac annaturiol, cawn hanes ei bod mewn oesau bore iawn; ffynai yn amser Abraham, yr hwn a ddywed am un o'i gaethion, *Un a aned yn fy nhŷ fydd fy etifedd*; er fod Lot mab ei frawd yn byw yn y gymmydogaeth, a bod ganddo lawer o berthynasau ereill yn Mesopotamia. Yn llysoedd brenhinoedd Dwyreiniol, mynych y byddai caethion yn cael eu codi i fawredd nodedig; ac felly nid oes genym un achos i amheu gwirionedd yr hanesion am ddyrchafiad rhyfeddol Joseph yn nhŷ Pharaoh, a Daniel dan frenin Babilon; ac mae hyn oll yn gyson hollol â moesau a defodau sefydledig y gwledydd hyny.

## CYFAMMODAU.

YMDDENGYS fod y cyfammodau cyntaf y darllenwn am danynt yn y llyfr santaidd, wedi cael eu gwneuthur yn unig mewn geiriau. Felly, yn ol dim a allwn ni gasglu, yr oedd y cyfammod rhwng Isaac a brenin Gerar, Gen. 26. 29. Yn mhen llawer o oesau wedi hyny y defnyddiwyd ysgrifen i'r perwyl hwnw; canys y cytundeb cyntaf o'r fath hyn ag y darllenwn am dano yn yr ysgrhythyr, oedd hwnw a goffeir yn llyfr Jeremiah, yr hwn oedd yn nghylch prynu tir. Ni phennodid ysgrifen gan gyfraith Moses ond mewn achos o ysgariad. Ond, er hyny, yr oedd yr ymdriniaethau hyny yn gedyrn a safadwy. Byddent yn cael eu gwneuthur yn mhyrth eu dinasoedd; a mynych y byddent yn cael eu cadarnhau â llwon.

Mae bwyta o'r un bara wedi cael ei ystyried yn mhob gwlad yn wystl sicr o gyfeillgarwch. Teisen o fara, medd un hanesydd, oedd y gwystl cadarnaf o gariad yn mhlith y Macedoniaid. Ni chyfrifid dim yn fwy gwarthus yn y Dwyrain, na gwneuthur cam â'r rhai y bwyteid bara wrth eu bwrdd. Yn gyson â'r teimladau hyn, mae y Salmydd santaidd yn achwyn ar Ahi-tophel: *Hefyd, y gwr oedd amoyl genyf, yr hwn yr ymddiriedais iddo, ac a fwytaodd fy mara, a ddyrchafodd ei sawdl i'm herbyn.* Salm 41. 9. Ac un mwy na Dafydd a achwyna gyda golwg ar Judas Iscariot: *Nid wyf yn dywedyd am danoch oll: mi a wn pwy a etholais; ond fel y cyflawnid yr ysgrhythyr, yr hwn sydd yn bwyta bara gyda mi, a gododd ei sawdl i'm herbyn,* Ioan 13. 18. Yr oedd y bradychwyr wedi byw dros fwy na thair blynedd mewn heddwoch a chyfeillgarwch â'i Arglwydd: yr oedd wedi cael ei alw i'r swydd apostolaidd, ac wedi cael ei dderbyn i'r un agosrwydd at ei Athraw dwyfol, ag a fwynhâi y dysgyblion ereill. Yr oedd y breintiau aamhrisiadwy hyn yn mwyhau llawer ar ei drosedd ef; ond ei waith yn bwyta bara wrth fwrdd ei Athraw, tra yr oedd yn cydfwriadu yn erbyn ei fywyd, oedd yn cyflawni ei ddrygioni erochyll.

Byddai ysgrifau rhwymaw! yn cael eu dileu mewn gwahanol ffyrdd; un ffordd oedd drwy dyna llinell yn groes iddynt, ac un

arall oedd gyru hoel drwyddynt; yn y naill ffordd a'r llall gwnelid y rhwym-ysgrif yn ddiwerth a dirym. Mae yr apostol yn cymmwyso y defodau hyn at farwolaeth Crist: "Gan ddileu ysgrifen-law yr ordeiniadau, yr hon bedd i'n herbyn ni, yr hon oedd yn wrthwyneb i ni, ac a'i cymmerodd hi oddiar y ffordd, gan ei hoelio wrth y groes," Col. 2. 14. Byddai ffon, weithiau, yn cael ei thori gan ddynion, fel arwydd fod y cyfammod i ba un y byddent wedi myned yn cael ei ddiddymu. Mae rhyw weddill o'r ddefod hon i'w weled hyd yn hyn yn ein gwlad ni: mae arglwydd goruchwyliwr Lloegr, pan yn rhoddi i fynu ei awdurdod, yn tori gwialen ei swydd, i ddynodi terfyniad ei reolaeth. Yn gyson â'r arferiad hon, y prophwyd Zechariah a dorodd y ffyn Hyfrydwch a Rhwymau, yr arwyddion o gyfammod Duw âg Israel gynt, i ddangos iddynt ei fêd ef, o herwydd eu hanwireddau lliosog a pharhaus, yn attal ei ffafrau neillduol oddiwrthynt, ac ddim mwyach yn eu cydnabod fel ei bobl briodol. Dyma yr eglurhad a roddwyd gan y prophwyd ei hun: "A chymmerais fy ffon hyfrydwch, a thorais i, i dori fy nghyfammod yr hwn a ammodaswn â'r holl bobl hyn: a'r dydd hwnw y torwyd hi. Yna mi a dorais fy ail ffon, sef Rhwymau, i dori y frawdoliaeth rhwng Juda ac Israel."

---

#### GWAHANOL FFYRDD POBL Y DWYRAIN I DDANGOS EU PARCH I'W GILYDD.

Nid oes un rhan o'r byd yn yr hwn y mae y gwahaniaeth graddau sydd yn mysg dynion, yn cael ei gynnal i fynu gyda chymmaint o fanylwch, ag Asia. Nid oes un nôd o barch yn fwy cyffredin, nac yn cael ei ofyn yn fwy llym gan reolau moesoldeb a gweddusdra, nac anrheg. Cyfrifir ef yn beth anfoesgar yn y wlad hono, i ddyn ymweled âg un arall heb anrheg yn ei law. Mae pendefigion, a swyddwyr y llywodraeth, yn ei dysgwyl fel teyrnged ddyledus i'w cymmeriad a'u hawdurdod; ac ystyriant eu bod yn cael eu sarhau a'u twyllo pan esgeulusir hi. Mae y ddefod mor gyffredin, fel nad yw y bobl iselradd yn eu hymweladau â'u gilydd, ond yn anfynych yn esgeuluso dwyn blodeuyn, afal euraidd, firwythau y balmwydden, neu ryw arwyddion cyffelyb o barch, i'r person yr ymwelant âg ef. Yn yr Aipht mae y ddefod

hon yn gyffredin iawn. Mae ymweliadau y bobl hyny, y rhai ydynt yn aml iawn yn ystod y flwyddyn, yn wastadol yn cael eu blaenori gan arhegion o wahanol fathau, yn ol 'eu sefyllfa a'u meddiannau. Mae arhegion mor hanfodol i ddwyn cyfeillach yn mlaen yn y Dwyrain, fel, yn ol tystiolaeth Mr. *Bruce*, "pa un ai ffrwythau palmwydd neu berlau a fyddont, y maent o gymmaint pwys yn' eu moesau hwynt, fel hebddynt na bydd dyn o radd isel un amser yn dawel yn ei feddwl ei hun, ac na feddwl efe fod ganddo afael yn yr hwn sydd uwch nag ef, er cael ei ffafir neu ei ddiffyniad."

Mae pob un yn rhoddi, yr hyn a fyddo yn fwyaf cyfleus iddo, a chlyson â'i alwedigaeth. Y rhai nad oes ganddynt un alwedigaeth, a roddant arian. Gan y cyfrifir fod derbyn arhegion o'r fath hyn yn anrhydedd, hwy a'u derbyniant yn gyhoedd; a dewisant wneuthur hyny pan fyddo ganddynt fwyaf o gwmpeini. Cyfeiria Solomon at y ddefod hon yn y ddiareb hono: "Rhodd dyn a ehanga arno, ac a'i dwg ef ger bron pennaethiad," Diar. 18. 16. Gallwn ei gweled yn yr ateb a roddodd Saul i'w lanc, pan gynygiodd efe fyned i ymgynghori â'r prophwyd Samuel yn nghylch dyben eu taith: "Od awn ni, pa beth a ddygwn ni i'r gwr? canys y bara a ddarfu yn ein llestri ni, a gwobr arall nid oes i'w ddwyn i wr Duw. Pa beth sydd genym?" 1 Sam. 9. 7. 'Tueddai Saul ar y cyntaf i gynyg i'r gweledydd, yr hwn ar y pryd hwnw oedd y rheolwr penaf yn Israel, damaid o fara, hyd oni chafodd ei fod oll wedi dar fod, ac yna cytunodd i roddi arheg ildo o'r bedwaredd ran siel o arian, yn nghylch gwerth chwe' cheiniog. Nid allent, wrth gynyg y fath beth bychan, fwriadu prynu ei wasanaeth, ond yn unig dangos iddo yr arwydd arferol hwnw o barch i'r hwn yr oedd ganddo hawl. Ac nid er mwyn arian yr oedd prophwydi yr Arglwydd yn rhoddi eu gwasanaeth i llysbyssu pethau i ddyfod. Pe buasant yn peidio derbyn y cyfrw arhegion, buasant yn euog o droseddu rheol sefydledig berthynol i foesau da, ac o sarhau y personau gan y rhai y cynygid hwynt. Pan fu i Eliseus, gyda llŵ, wrthod derbyn yr arheg a gynygiodd Naaman y Syriad iddo, ni wnaeth felly am ei fod yn ystyried fod yn anghyfreithlon iddo dderbyn arheg, canys ni phetrusai dderbyn arhegion gan ei bobl ei hun; ac nid oedd y prophwyd yn ddiotal am ddefod sefydledig, yr hon nid oedd yn troseddu un gorchymyn o'r gyfraith ddwyfol, ac nid ewyllysiai, yn ddiachos, archolli teimlad y pendefig Syriaidd; ond gwnaeth

felly, am na fynai roddi cyfie i Naaman ddywedyd ei fod ef wedi cyfoethogi prophwyd Jehofah; a thrwy y weithred hon o hunanymwadiad, tebygol yr ewyllysiai gymmeradwyo cymmeriad a gwasanaeth y gwir Dduw i'r boneddwr ardderhog hwnw.

Mae trethi yn Persia yn fynych yn cael eu casglu mewn dull o anrhegion i'r penadur. Yr anrhegion arferol yw y rhai a roddir yn flynyddol gan lywodraethwyr y taleithiau, penau y llwythau, gweinidogion, a phawb ereill mewn swyddi uchel, ar wyl cyhydedd y gwanwyn. Mae yr anrhegion hyn yn cael eu rheol-eiddio yn ol natur y swydd, a chyfoeth y person, ac yn cael eu gwneuthur i fynu o'r goreuon o gynnyrchion y rhan hono o'r deyrnas. Weithiau, rhoddir swm mawr o arian, yr hwn, yn wastadol, yw yr anrheg mwyaf cymmeradwy. Mewn cyfeiriad at y ddefod hon y rhoddir y gorchymyn hwnw gyda golwg ar y Messiah: *Y rhai oll ydynt o'i amgylch ef, dygant anrheg i'r ofnadwy*, Salm 76. 11.

Mae anrhegion un brenin i'r llall yn fynych yn cael eu hystyried gan yr hwn a'i derbynio, fel arwydd o ymostyngiad. Dywed *Chardin* eu bod yn cael eu hystyried felly yn gyffredinol drwy y Dwyrain; ac efe mewn modd priodol a gymmwysa y sylw hwn at eiriau Dafydd: *Brenhinoedd Tarsis a'r ynysoedd a ddygant anrheg; brenhinoedd Sheba a Seba a ddygant rodd*, Salm 72. 10; a bod y Salmydd santaidd yn cyfeirio at offrymau fel teyrnged, sydd amlwg oddiwrth yr adnod nesaf: *Ie, yr holl frenhinoedd a ymgyrmannt iddo, a'r holl genhedloedd a'i gwasanaethant ef*.

Yr oedd barnwyr a llywodraethwyr Israel, yn nyddiau Amos, wedi myned mor llygredig, fel na chywilyddient dderbyn pâr o esgidiau neu sandalau, fel llwgr-wobr er ffafrio rhyw blaid mewn cyfraith. Hwy, medd y prophwyd mewn lldiawgrwydd, *a werthant y cyfawn er arian, a'r, ilawd er pâr o esgidiau*, Amos. 2. 6. Ond er fod anrhegion o ychydig iawn o werth, megys pâr o esgidiau, neu flodeuyn, yn cael eu derbyn weithiau, nid yw pobl y Dwyrain ya ystyried eu bod yn wastadol yn rhwym i dderbyn yr hyn a gynnygir, neu i guddio eu hanfoddlonrwydd pan na byddo yr anrheg yn cydgorodio âg urddas y pleidiau, neu pan byddo un werthfawrocach wedi cael ei rhoddi i un arall. Maent yn fynych, gyda digllonedd, yn gwrthod derbyn rhai, yr hyn a rydd rym i ymliwiad y prophwyd (Mal. 1. 8): *Os offrymu yr ydych y dall yn aberth, onid drwg hyny? ac os offrymuoch y cloff a'r clwyfus, onid drwg hyny? cynnyg ef yr awrhon i'th dywysog,*

*a fydd efe boddlon i' ? neu a dderbyn efe dy wymb ?* Nid cymmwys i'w urddas ef yw derbyn y cyfryw anrheg, am hyny efe a'i gwrthyd gyda dirmyg a lliidiawgrwydd. Efe a ofynai am or-euon y praidd, heb y rhai ni foddlonid ef; ac a gaiff y Goruchaf ei drin gyda llai o barch, ac heb gospi am yr anfrï o hyny ?

Defnyddir anrhegion yn y Dwyrain, mewn ffordd o arian cym-morth, i ddenu tywysogion i dori eu hymrwymiaidau, ac i gymmeryd rhan mewn rhyfel yn erbyn eu cymmydogion. Pendefig dwyreiniol, yn amser rhyfelwyr y groes, pan mewn cweryl â'i feistr, tywysog Aleppo, a anfonodd anrhegion i Godfrey o Bouilon, er cael ei gymmorth. Asa, brenin Juda, a arferodd yr un modd-ion i dori y cyngrair oedd rhwng brenhinoedd Israel a Syria, ac i ddenu yr olaf i ddyfod yn blaidd yn y rhyfel.â'r cyntaf. Coffeir yr amgylchiad yn y geiriau canlynol: *Yna Asa a gymmerodd yr holl arian a'r aur a adawsid yn nhrysorau tŷ yr Arghwydd, a thrysorau tŷ y brenin, ac efe a'u rhoddodd hwynt yn llaw ei weision: a'r brenin Asa a anfonodd at Benhadad fab Tabrimon, fab Hexion, brenin Syria, yr hun oedd yn trigo yn Damascus, gan ddywedyd, Cyfammod sydd rhyngof fi a thi, rhwng fy nhad i a'th dad di: wele, mi a anfonais i ti anrheg o arian ac aur; tyred, diddyma dy gyfammod â Baasa brenin Israel, fel y cilio efe oddiwrthyf fi, 1 Bren. 15. 18, 19.*

Nid yw cyfarchiadau pobl wrth gyfarfod â'u gilydd yn llai eeffred-in yn y Dwyrain nag yn ngwledydd Ewrop; ond eeffyngir hwynt yn gyffredin i'r rhai a fyddo o'u cenedl eu hunain, neu o'u plaid grefyddol hwy. Pan aneroho yr Arabiaid eu gilydd, mae hwy yn gyffredin yn y geiriau hyn, *Salum Aleikum*, tangnefedd fyddo i chwi, gan osod eu llaw ddehau, pan lefaront y geiriau hyn, ar eu calon. Yr ateb yw *Aleikum Essalam*, gyda ehwithau bydded tangnefedd; at yr hyn y mae pobl oedranus yn dueddol i chwane-gu, "a thrugaredd a bendith Duw." Nid yw Mohammedaniaid yr Aipht a Syria, un amser yn eeffarch Cristion yn y modd hwn; boddlonant eu hunain ar ddywedyd, *Dydd da i chwi*; neu, *Gyfaill, pa fodd yr ydych?*

Ymddengys fod yr Iuddewon yn nyddiau ein Harglwydd, yn cadw yr un arferiad yn gyffredin; ni roddent y cyfarchiad cyffredin o *Dangnefedd i chwi* i rai o'r cenedloedd na publicanod; y publicanod ag a fyddent o'r genedl Iuddewig, a'i defnyddient i'w cydwladwyr ag a fyddent yn publicanod, ond ddim i neb cenedloedd; er fod yr Iuddewon manwl yn gwrthod ei roddi i bub-

licanod nac i genhedloedd. Gorchymynodd ein Harglwydd osod o'r neilldu sarrugrwydd yr Iuddewon, a meithrin ysbryd mwyn-eiddiach tuag at bawb dynion: "Os cyferchwych well i'ch brodyr yn unig, pa ragoriaeth yr ydych yn ei wneuthur? ond ydyw y publicanod hefyd yn gwneuthur felly?" Mat. 5. 47. Rhwymwyd hwynt gan yr un awdurdod i ddangos cariad neillduol at eu brodyr yn Nghrist, ac hefyd i edrych ar bob dyn fel brawd, a themlo awydd didwyll i ddwyn yn mlaen ei lesiant, a dangos hynawsedd mewn cyfarchiadau pan yn cyfarfod â dynion.

Mae pobl o radd isel, hefyd, yn cusanu traed, penliniau, neu wisgoedd eu huchafiaid. Mynych hefyd y maent yn cusanu y llaw; ond nid yw y weithred olaf hon yn cael ei hystyried yn arwydd o gymmaint ymostyngiad a'r lleill; dywed haneswyr fod y rhai sydd yn gweini i dywysogesau Arabaidd, yn cusanu eu dwylaw pan yn cael y ffافر o beidio cusanu eu traed neu ymylau eu gwisgoedd.

Yr oedd yr holl ddulliau hyn, ymddengys, wrth gyfarch, mewn arferiad yn gyffredia yn nyddiau ein Hiachawdwr, canys efe a sonia am was yn syrthio wrth draed ei feistr, pan byddai ganddo ffافر i'w gofyn; a gwas ts yn talu yr un moes i'r cyntaf, yr hwn a berthynai, fel yr ymddengys, i radd uwch: "A'r gwas a syrthiodd i lawr, ac a'i haddolodd ef, gan ddywedyd, Arglwydd, bydd ymarhous wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll. Yna y syrthiodd ei gyd-was wrth ei draed ef, ac a ymblliodd âg ef, gan ddywedyd, Bydd ymarhous wrthyf, a mi a dalaf i ti y cwbl oll," Mat. 18. 26. 29. Pan erfyniodd Jairus ar yr Iachawdwr i fyned gydag ef i iachau ei ferch, efe a syrthiodd wrth ei draed; ymddengys i'r apostol Pedr hefyd ar yr un achlysur syrthio wrth liniau yr Iesu (Luc 5. 8), yn yr un modd ag y mae yr Arabiad yn awr yn syrthio wrth draed ei uwchafiad.

Tybia Mr. *Harmer* nad oedd Cornelius, pan syrthiodd efe i lawr wrth draed yr apostol Pedr, ac yr addolodd efe ef, yn bwrriadu talu iddo anrhydedd dwyfol, ond yn unig ei gyfarch yn y modd a ystyrir yn y Dwyrain y mwyaf isel a gostyngedig. Efe a addefa fod rhywbeth anarferol yn ymddygiad Cornelius, ond ddim cymmysg o eilunaddoliaeth. Ond mae lle i ofni fod y farn a rydd yr ysgrifenydd parchus hwn ar y Rhufeinwr rhagorol hwnw, yn rhy ffafriol. Nid oedd yr apostolion, ar achlysuron ereill, yn gwrthod yr arwyddlon cyffredin o barch a moesgarwch oddiwrth bobl o'u hamgylch; ac os nad oedd mwy na hyn yn



ngweithred Cornelius, anhawdd yw cael rheswm dros y gwrthodiad, yn ol pethau yn gyffredin. Ond dylai geiriau yr efengylwr gael penderfynu y matter; efo a ddywed yn bendant i Cornelius ei addoli ef; *ἑρπιδισμῶν*, y gair ag y mae Luc, ac ysgrifenyddys ysbrydoledig ereill, yn arfer yn gyffredin i osod allan yr ymostyngiad dyledus yn unig i'r Goruchaf. Mae y gair hwn, rhaid addef, yn fynych yn cael ei ddefnyddio gan ysgrifenyddys, cysegredig ac ethnicaidd, i ddynodi moesgarwch yn unig; ond ni ellir, gyda phriodoldeb, ei ddeall felly yma, canys y peth sydd gan yr apostol mewn golwg yn ei wrthodiad, yw addoliad crefyddol: *Cyfod, dyn wyf finau hefyd*, Act. 16. 25, 26. Ond yn sicr, nid yw yn anghyson â chymmeriad dyn, i dderbyn arwydd anghyffredin o barch oddiwrth un arall.

Tybia Mr. *Harmer* hefyd nad yw ymddygiad yr apostol Ioan yn bwrw ei hun i lawr with draed yr angel, i gael ei ystyried ond fel moesgarwch. "Ni wnaeth Ioan ddim," medd efo, "ond yr hyn oedd gyson âg arferion ei wlad ei hun, pan byddo ei phobl mewn modd diniwed yn bwriadu dangos parch a diolchgarwch mawr." Ond os nad oedd yr apostol, drwy ei ymostyngiad, yn bwriadu dangos dim ond moesgarwch gwladol, paham y gwrthododd yr angel ei dderbyn, a hyny o herwydd ei fod ef yn un o'i gyd-weision? Fod yr hyn y bwriadai Ioan ei dalu i'r angel yn fwy na moesgarwch gwladol, ei fod yn fri dwyfol, o herwydd, efallai, y cynnwrf oedd yn ei feddwl, neu olwg gamsyniol ar ei gymmeriad, sydd amlwg iawn oddiwrth y gorchymyn a dderbyn efo oddiwrth y cenhadwr nefol hwn, i roddi i Dduw y gwarogaeth y bwriadasai ei roddi yr amser hwn iddo ef. Er fod Ioan yn Iuddew, yn elyn i bob eilunaddoliaeth, ac yn bregethwr selog yn ei erbyn, eto nid oedd ond dyn darostyngedig i deimladau cyffelyb i eiddo ereill; ac er ei fod dan ddylanwad goruwch-naturiol yr Ysbryd Dwyfol, fel apostol, nid oedd yn anffaeledig fel Cristion, ac o ganlyniad, er ei fod yn cael ei ffafrio yn fawr gan Dduw, yr oedd yn agored i wyro o lwybr dyledswydd; ac oni buasai iddo ef ar yr amser hwn wneuthur peth anmhriodol iawn, ni buasai yr angel yn ei gerddu, nac yn arfer geiriau mor llymion: "Gwel na wnelych; canys cydwas ydwyf i ti, ac i'th frodyr y prophwydi, ac i'r rhai sydd yn cadw geiriau y llyfr hwn; addola Dduw," Dat. 22. 9. Fod yn ei ymddygiad ef ar yr achlysur nodedig hwn, gymmysg, o leiaf, o eilunaddoliaeth, sydd eglur oddiwrth y gorchymyn a dderbyniodd, i gadw y fath anrhydedd i Dduw yn unig, i'r hwa yr oedd yn ddyledus.

Mae eu cyfarchiadau yn y Dwyrain o ddull llawer mwy sobr a chrefyddol na'r rhai a ddefnyddir yn mysg cenedloedd Ewrop. *Duw a roddo ras i ti, fy mab*, oedd y cyfarchiad a roddodd Joseph i'w frawd Benjamin, Gen. 43. 29. Ac nid oedd ymadrodd fel hwn ond cyfarchiad cyffredin yn Asia, er y caffai, yn ein gwlad ni, ei ystyried yn fendithiad. Mae pobl y Dwyrain yn hyawdl iawn wrth ddymuno daioni i'w gilydd ar bob achlysur, hyd yn nod i rai nad ydynt ond prin yn eu hadnabod; ac eto mae eu cyfarchiadau yn fynych mor wag a thwyllodrus, ag yw eiddo pobl ereill. Ymddengys oddiwrth eiriau yr Ysgrhythyr, mai hyn oedd eu cymmeriad yn mhob oes: "A'u geneuau y bendithiant, ond o'u mhewn y melldithiant."

Cyfrifir yn ein plith ni yn beth anmhrifodol iawn mewn dyn i goffau ei enw ei hun o flaen eiddo ei gydradd; ac yn beth hunanol iawn i ddyn enwi ei hun o flaen ei uwchafiaid; ond yn y Dwyrain, peth arferol iawn yw i'r llefarwr enwi ei hun yn flaenaf. Yr oedd hyn yn beth cyffredin iawn yn Israel, ac yn gyson â moesau da; canys Dafydd, yr hwn a fuasai yn hir yn llys Saul, ac nad allasai fod yn anwybodus o reolau moesau da, a anerehodd ei benadur yn y dull hwn,—“Barned yr Arglwydd rhyngof fi a thithau,” 1 Sam. 24. 12, a hyn hefyd ar amser pan yr oedd wedi ymddwyn at y tywysog hwnw gyda pharch mawr; canys efo a ostyngodd ei wyneb tua'r ddaear, ac a ymgrymmodd ychydig cyn hyny. Yn yr un modd yr atebodd Ephron yr Hethiad i Abraham, yr hwn oedd o leiaf ei gydradd, tebygol ei fod yn uwch nag ef:—“Fy arglwydd, y tir a dâl bedwar can' siel o arian, beth yw hyny rhyngof fi a thithau?” Gen. 23. 15. Gallwn weled oddiwrth hyn nad oedd Dafydd yn euog o anfoesgarwch wrth enwi ei hun o flaen Saul; yr oedd ei ymddygiad yn gyson â dull llysoedd dwyreiniol, o leiaf llys Persia, yr hwn yr ymddengys iddo gael ei sefydlu yn fuan wedi y diluw.

Mae gorchfygwr yn y Dwyrain yn gofyn yr ymostyngiad mwyaf oddiwrth y rhai a orchfygo. Hwy a syrthiant yn eu hyd ar y llawr o'i flaen; cusanant ei draed a'r tir y sathra arno. Coffâ *D'Herbelot* am dywysog dwyreiniol yr hwn a fwriodd ei hun un diwrnod ar y ddaear, ac a gusanodd ôl traed ceffyl ei orchfygwr. Dichon mai peth arferol yno oedd gofyn y prawf hwn o ymostyngiad hollol i ewyllys y meist'r.

Y cyfryw yw yr ymostyngiad ag y gwna y cenhedloedd mwyaf diofn ac annibynol ar y ddaear, ei roddi, ryw ddydd, i'r Messiah; "O'i flaen ef yr ymgryma trigolion yr anialwch," yr Arabiaid gwylltion, y rhai nid allodd un gorchfygwr erioed eu darostwng, nac un gwladwriaethwr eu dofi; *a'i elynion a lyfant y llwch* (Salm 72. 9), neu a ddangosant yr ofn a'r parch mwyaf, drwy yr ymostyngiad iselaf.

Mae cusanu y llaw, a'i gosod ar y pen yn ddull cyffredin yn y Dwyrain i ddangos parch. Ymddengys ei fod yn beth cyffredin yn mhlith y Mohammedaniaid, pan fethont gusanu llaw eu huchafiaid, eu bod yn cusanu eu llaw eu hunain, ac yna ei gosod ar eu talcen; fel hyn hefyd talant barch i fôd anweledig, yr hwn nid allant ei gyffwrdd. Ond hanfodai yr arferiad yn hir cyn amser Mohammed; canys yn yr un ffordd yr oedd yr hen eilunaddolwyr yn addoli eu duwiau pell neu anweledig. "Os edrychais," medd Job, "ar yr haul pan dywynai, a'r lleuad yn cerdded yn ddisglair; ac os hudwyd fy nghalon yn guddiedig, ac os fy ngeaau a gusanodd fy llaw; hyn hefyd fuasai anwiredd i'w gopsi gan y barnwyr; canys gwadaswn Dduw sydd uchod," Job 31. 26—28. Pe buasai y gwr cystuddiedig yn gwneuthur hyn, yn yr amgylchiad y cyfeiria efe ato, buasai yn weithred eilunaddolaidd, er ei bod yn gyson hollol â'r dull o dalu parch gwladol ag a fyfiai yn ei wlad ef, a thros y Dwyrain oll.

Maent weithiau yn gosod allan eu cariad a'u parch drwy ymaffyd yn y farf a'i chusanu. Yn y ffordd hon, tebygol, y fflugiodd Joab dystio ei barch i Amasa, ei gyd-geisydd am ffafr y brenin; efe a ymaffodd yn y farf i'w gusanu ef, neu yn ol dull tywysogion Arabaidd, i gusanu y farf ei hun; ac wrth blygu i hyny, gallai weled yn well y modd i gyfeirio ei ergyd, na phe buasai ond yn dal ei farf, ac yn codi ei hun i gusanu ei wyneb ef, tra nad oedd Amasa, o herwydd y moesgarwch hwn, ddim yn drwgdybio niwed oddiwrth ei lofrudd. Tebygol iawn yw i Judas fradychu ei Arglwydd yn yr un modd drwy gusanu ei farf. Yr efangylwyr Matthew a Marc a ddywedant iddo ddyfod yn uniongyrchol at yr Iesu, a dywedyd, Henffych well, Athraw, a'i gusanu ef (Mat. 26. 49); ond ymddengys fod Luc yn amneidio i Judas ei anerch gyda mwy o foesgarwch. Cafodd yr Iesu, yn ol Matthew, amser i ddywedyd, cyn iddo dderbyn y

cusan oddiwrth Judas, *Y cyfaiŵ, i ba' beth y daethost? a thra yr oedd Judas yn cusanu ei farf, gallasai yr Iesu ddywedyd, gyda rhwyddineb mawr, yn y modd yr adrodda Luc, Ai & chusan yr wyt ti yn bradychu Mab y dyn? Luc 22. 48.*

Yn gyffredin yn y Dwyrain, ac ar raf achlysuron o lawenydd, mewn gwledydd ereill, yr oeddynt yn taenu gangau coed, a blodau, yn ffordd gorohfygwyr a thywysogion clodfawr. Dywed *Herodotus* i bobl fyned o flaen *Xerxes*, pan yn croesi yr Hellespont (culfor gerllaw Caercystenyn, yn rhanu Asia oddiwrth Ewrop), a llosgi pob math o beraroglau ar y pontydd, a thaenu myrtwydd ar hyd y ffordd. Felly y gwnaeth yr Iuddewon hyny ag oeddynt yn credu mai Crist oedd y Messiah addawedig, a brenin Israel; hwy a dorasant i lawr gangau o'r gwydd, ac a'u taenasant ar hyd y ffordd. Weithiau mae yr holl ffordd ag sydd yn arwain at balas penaeth dwyreiniol, dros amrywiol o filltiroedd, yn cael ei chuddio â sidan gwerthfawr, dros yr hwn y marchoga efe i'r ddinas. Yn gyson â'r ddefod hon, y lliaws a daenasant eu dillad ar hyd y ffordd pan farchogodd ein Iachawdwr mewn gorfoledd i Jerusalem, Mat. 21. 8.

Yr oedd y gofal yr oedd deiliaid ymerawdwr Mogul yn deimlo, neu a ffugient deimlo, am ei lwyddiant personol, yn cael ei ddangos, dros oesoedd, drwy seremoni ryfedd iawn. Ar ddydd gwyl ei enedigaeth, mewn ufudd-dod i hen ddefod, byddai yn cael ei bwysu mewn clorian, yn ngwydd ei bendefigion penaf. Mae y seremoni yn cael ei chyflawni mewn ystafell helaeth yn ei balas, i'r hon nid oes neb yn cael ei dderbyn ond drwy ganiatad. Yr oedd y cloriannau yn y rhai y pwyswyd yr ymerawdwr pan drigai Syr Thomas Roe yn ei lys ef, wedi cael eu gwisgo âg aur; ac yr oedd y trawst wrth yr hwn y crogent gerfydd cadwyni mawrion, wedi cael ei wneuthur o'r un defnydd gwerthfawr. Yr ymerawdwr, gan eistedd mewn un o'r cloriauau hyn, a bwyswyd yn gyntaf yn erbyn arian bathol, yr hwn, yn ddiwed wedi hyny a ranwyd yn mhlith y tlodion: yna pwyswyd ef yn erbyn aur, ac wedi hyny yn erbyn gemau. Wrth y pwysau hyn (o'r hwn y mae ei feddygon yn cadw cyfrif cywir bob blwyddyn) y cymmerant arnynt ffurfio tyb gyda golwg ar gyflwr ei gorph o ran iechyd; am yr hwn, pa beth bynag fyddo eu gwir farn, y llefarant yn wastadol mewn iaith wenieithus. Mae y seremoni hon o bwysu ymerawdwr Hindwstan, yn cael ei chyflawni ddwy waith yn y flwyddyn, ar ddydd

gwyl ei enedigaeth yn ol yr haul ac yn ol y lleuad; ac yn ol fel y byddo yn ysgafnach neu yn drymach nag o'r blaen, y mae y meddyg a bennodir i weini yn ei gyhoeddi ef mewn cyflwr o lwyddiant neu ddafeiliad. Felly gellir rhoddi i dynged Belsassar, yr hon a ysgrifenydd ar y pared, eglurhad llythyr-enol,—mae yn cyfeirio at ddefod yr hon y bu i'r Hindwaid, pan y mudasant o Persia, gwlad eu tadau, ei dwyn gyda hwynt, a'i throsglwyddo i lawr i'r amserau diweddar drwy res faith o oesau. Gwel Dan. 5. 27.

Mae tywysog Indiaidd yn myned allan mewn *palanquin*, math o wely, yn yr hwn y mae yn lled-orwedd neu yn eistedd mewn rhwyg, pan ar ei ymweliadau, neu yn gorphwys pan ar daith, fel po byddai yn ei wely ei hun. Mae ymadrodd yn Nghaniad Solomon ag sydd yn disgrifio yn gywir orymdaith tywysog Indiaidd yn y *palanquin*, yn cael ei gylhynu gan ei wylwyr: *Pwy yn hon, neu hwn, sydd yn dyfod i fynu o'r anialloch, megys colofnau mwg?—Wele ei wely ef, sef ciddo Solomon; y mae tri ugain o gedyrn o'i amgylch, sef o gedyrn Israel*, Can. 3. 6, 7.

Mae i'w gerbyd gysgodlen, yn cael ei chuddio â brethyn neu *velvet*, wedi ei addurno âg aur, yn cael ei dal i fynu â cholofnau wedi eu harddu âg arian ac aur. Cyffelyb i hwn, medd *Forbes*, y bernir fod cerbyd Solomann, yr hwn a wnaethh efe iddo ei hun o goed Libanus.

Dywed Herodotus, fod gan frenhinoedd Persia geffylau perthynol iddynt eu hunain, y rhai a ddygid o Armenia, a'r rhai oeddynt nodedig am eu harddwch. Os oedd yr un gyfraith yn ffynnu yn Persia ag oedd yn Judea, nid allai neb farchogaeth ar geffyl y brenin mwy nag eistedd ar ei orsedd, neu ddal ei deyrnwialen. Dengys hyn yn eglur helaethwrydd awydd Haman, pan y cynygiodd efe ddwyn y wisg frenhinol yr hon a wisg y brenin, a'r march y merchyg y brenin arno, a rhoddi y frenhinol goron ar ei ben, Esther 6. 8. Nid oedd y frenhinol goron i gael ei gosod ar ben y dyn, ond ar ben y march; caniateir yr eglurhad hwn gan Eben Ezra, gan yr aralleiriad Caldeig, a'r cyfieithiad Syriaidd. Nid oes cofiad wedi hynny am i'r goron gael ei gosod ar ben Mordecai, ac nid anturiasai Haman nodi allan beth nad ellid yn ol cyfreithiau Persia, ei ganiatau. Ond peth arferol oedd gosod y frenhinol goron ar ben march a arweinid o amgylch mewn gwychedd; ac

mae hyn, sicrheir i ni, yn arferiad yn Persia, fel y mae yn mysg yr Ethiopiaid hyd y dydd hwn; oddiwrthynt hwy daeth i'r Eidal; canys, yr oedd y ceffylau a ieuodd y Rhufeiniaid yn eu cerbydau rhwysgfawr, wedi eu haddurno â choronau.

## GWEINYDDIAD CYFIAWNDER YN NGWGLAD CANAAN A'R DWYRAIN YN GYFFREDINOL.

YN y Dwyrain mae yr hawl i alw troseddwr i gyfrif, yn cael ei hōni naill ai gan y person a dderbynio y niwed, neu ei berthynas agosaf, ac mae yr un person hwnw, drwy ganiatad neu oddefiad ei bobl, yn cymmyrd arno swydd plaid, barnwr, a dienyddiwr. Lle y mae pethau yn y fath gyfiwr nid ydym i ryfeddu o yw y gweinyddiad o gyfiawnder yn fynych yn fyrbwyll ac mewn modd terfysglyd. Yr oedd gwaith y Philisiaid yn llosgi dyweddi Samson a'i thad â thân, o'r fath hyn; nid yn ganlyniad prawf teg, ond yn codi oddiar gynhyrriad lliaws digofus. Dan gyfraith Moses, yr oedd hawl dyn i ddial yn cael ei gydnabod; ond i attal effeithiau dychrynlyd ymddial personol a disymwth, cafodd dinasoedd noddfa eu pennodi o fewn i bellder cyfneus i'w gilydd drwy wlad yr addewid, i'r rhai y gallasai, y llofrudd ffoi am ddiogelwch, hyd oni ellid ei ddwyn i brawf rheolaidd, mewn llys cyfiawnder.

Yn mysg y Rhufeiniaid, pan gaffai y person a gyhuddid ei ddwyn i lys i gael ei brofi, ei berthynasau agos, ei gyfeillion, a'i gydnabod, a ymddangosent yn y llys â'u gwallt yn annhrefnus, a'u dillad yn fudron ac allan o'r dull cyffredin, yn wylo ac yn ochain rhag cosp. Y cyhuddedig a ymddangosai weithiau o flaen y llys wedi ei wisgo mewn gwisg ddi, a'i ben wedi ei orchuddio â mwch. Gyda golwg ar y ddefod hen y mae y prophwyd Zecharia yn gosod allan Josua, yr archoffeiriad, pan ymddangosodd efe ger bron yr Arglwydd, a Satan yn sefyll ar ei ddeheulaw i'w gyhuddo, fel wedi ei wisgo â dillad budron, Zech. 3. 3. Ar ol i'r matter gael ei ohwilio yn fanwl, a bod pob plaid wedi cael ei gwranddo yn anmheidgar, y cyhoeddwr swyddol, wrth arch yr ynad a lywyddai, a orchymynai i'r barnwyr ddwyn i mewn

eu dedfryd. Y ffordd henaf o roddi barn, oedd drwy ddefnyddio cregin gwŷnion a duon y môr, neu gerig bychain. Byddai yr hynafiaid weithiau yn rhoddi eu pleidlais drwy ddefnyddio cerig gwŷnion neu dduon; â'r rhai hyn hwy a gondemniant yr euog, a rhyddhaent y diniwed. Gyda chyfeiriad at yr hen ddefod hon y mae ein Harglwydd yn addaw i'r gorchfygwr ysbrydol *gareg wen*; "ac yn y *gareg enw newydd wedi ei ysgrifenu, yr hwn nid edwyn neb, ond yr hwn fyddo yn ei dderbyn*, Dat. 2. 17. Y *gareg wen* o gymmeradwyaeth, ac arni enw newydd urddasol ac anrhydeddus, yr hwn sydd yn adnabyddus yn unig iddo ef ei hun, ac i drigolion y byd hwnw i'r hwn y derbynir ef, a'r rhai ydynt wedi ei dderbyn eisioes. Pan gaffai dedfryd o gondemniad ei chyhoeddi, os byddai y trosedd yn angeuol, rhoddai y tystion eu dwylaw ar ben y troseddwr, a dywedent, Bydded dy waed ar dy ben dy hun. At yr arferiad y cyfeiriai yr Iuddewon, pan y llefasant allan ar brawf Crist, *Bydded ei waed ef arnom ni, ac ar ein plant*. Yna arweinid y drwgweithredwr i'w ddienyddio, ac ni oddefid i neb alaru yn gyhoedd o herwydd ei anffawd. Rhwymid ei ddwyllaw â rheffynau, a'i draed â gefynau, arferiad ag y cyfeiria Dafydd ati yn ei alarnad am Abner:—"Dy ddwyllaw nid oeddynt yn rhwym, ac nid oedd dy draed wedi eu rhoddi mewn egwydydd," 2 Sam. 3. 34.

Yn y Dwyrain gweithredir yn fynych mewn modd byrbwyll ac arglwyddaidd wrth ddienyddio. Yn fynych, mor fuan ag y mynwesir drwg dyb, neu y mynegir yr achos o'r tramgwydd, mae y gorchymyn yn cael ei roddi i ddienyddio; mae cennad angau yn brysiot at y dyn pan heb wybod dim am dano, dengys ei warant, a chyflawna y weithred y funud hono mewn dystawrwydd ac unigolrwydd. Mae anghreiffitiau o'r fath hyn yn cymeryd lle yn barhaus yn mysig y Tyrciaid a'r Persiaid; ac yn y dull hwn mynych y mae pendeffigion yn cael eu symud ymaith. Nid oedd y cyfryw ddull yn anghyffredin yn mysig yr Iuddewon dan lywodraeth eu brenhinoedd. Felly y cafodd Adonijah a Joab eu rhoddi i farwolaeth gan Solomon, ac felly torwyd pen Ioan Fedyddiwr yn amser Herod. "Digofaint y brenin sydd megys cennad angau; oad gwr doeth a'i gostega," Diar. 16. 14. Mae ei anfoddlonrwydd yn gosod y person anhappus yn agored i farwolaeth ddisymmwith, a gall lenwi mynwes y dyn â braw a therfysg.

fel ymddangosiad dienyddiwr; ond drwy gallineb a phwyll, gall dyn weithiau ddiamc rhagddo.

Oddiwrth y parodrydd arswydus gyda'r hwn y cyflawnodd Benaiah orchymyn Solomon ar Adonijah a Joab, gellir casglu fod dienyddiwr y llys mor ddiofal, a bod yr Iuddewon gynt mor blygedig i'r driniaeth ag oedd y Tyrciaid neu y Perstaid. Y prophwyd Eliseus yw yr unig un y coffeir am dano yn yr Ysgrythyr, ag a anturiodd wrthsefyll arch y brenin. "Ond Eliseus oedd yn eistedd yn ei dŷ, a'r henuriaid yn eistedd gydag ef; a'r brenin a anfonodd wr o'i faen: ond cyn dyfod y gennad ato ef, efe a ddywedodd wrth yr henuriaid, A welwch chwi y modd yr anfonodd mab y llofrudd hwn i gymimeryd ymaith fy mhen i? Edrychwch pan ddel y gennad i mewn, a chauwch y drws, a deliwch ef wrth y drws; onid yw trwst traed ei arglwydd ar ei ol," 2 Bren. 6. 32. Oni buasai fod y fath orchymynion wedi myned yn aml iawn yn myag yr Iuddewon, a bod y bobl, yn gyffredin, yn plygu iddynt heb wrthwynebiad, ni buasai Jehoram yn anturio anfon dyn wrtho ei hun i ddienyddio gwr mor enwog ag oedd Eliseus.

Byddai drwgweithredwyr, ar amserau ereill, yn cael eu dienyddio yn gyhoeddus; a chyflawnid hyny yn gyffredin y tu allan i'r ddinas. At y cyfryw ddienyddiadau y tu allan i'r porth, y mae y Salmydd yn ddiameu yn cyfeirio yn ei achwyniad: "Rhoddasant gelanedd dy weision yn fwyd i adar y nefoedd, a chig dy saint i fwystfilod y ddaear; tywalltasant eu gwaed fel dwfr o amgylch Jerusalem; ac nid oedd a'u claddai," Salm 79. 2, 3. Naill ai nid oedd perthynasau wedi eu gadael i'w claddu, neu ni oddefid i neb wneuthur y seremoni olaf â hwynt. Mae tywysogion dwyreiniol yn ymddwyn yn fynych mewn modd arglwyddaidd i raddau ag a barant syndod a braw. Bernid yn yr oesoedd gynt ei fod yn beth beius iawn claddu rhai wedi marw dan law dienyddiwr, heb ganiatad i wneuthur hyny. Yn Morocco, ymerodraeth helaeth yn Affrica, ni feiddia un dyn gladdu corph drwgweithredwr heb arch oddiwrth yr ymerawdwr i wneuthur hyny; a *Windus*, yr hwn a ymwelodd â'r wlad hono, wrth lefaru am ddyn a lifasid yn ddau, a ddywed, "Buasai raid i'w gorph gael ei adael i gael ei fwyta gan gwn, oni buasai i'r ymerawdwr faddeu iddo; defod wrthun yw maddeu i ddyn ar ol iddo farw; ond oni wna efe felly, ni faidd neb gladdu y corph." Dichon



fod gelysion pobl Dduw wedi dwyn yn mlaen eu gwrthwynebiad iddynt mor bell, fel na feiddiai neb gladdu eu cyrph.

Mae y prawf drwy ddwfr yn adnabyddus iawn drwy y gwledydd dwyreiniol, a chafodd ei bennodi gan Dduw ei hun yn neddf Moses mewn achos o eiddigedd: "Nesed yr offeiriad hi, a phared iddi sefyll gar bron yr Arglwydd; a chymmered yr offeiriad ddwfr santaidd mewn llestr pridd, a chymmered yr offeiriad o'r llwch a fyddo ar lawr y tabernacl, a rhodded yn y dwfr, a phared iddi yfed o'r dwfr," Num. 5. 16, &c. Yn mysg yr Hindwaid y mae prawf o'r fath hyn yn fynych yn cymmyrd lle, ac yn cael ei ddwyn yn mlaen mewn llawer o ffyrdd gwahanol, un o ba rai sydd yn debyg iawn i'r un a arferai yr luddewon yn achos eiddigedd. Mae prawf drwy y *cosha* yn cael ei ddesgrifio fel hyn: "Gwneir i'r oyhuddedig yfed tri llymaid o ddwfr yn yr hwn y mae delwau yr haul, Devi, ac eiddo duwiau ereill wedi cael eu golchi; ac os o fewn pedwar diwrnod ar ddeg y bydd iddo gael unrhyw afiechyd, ystyrir fod ei droedd wedi ei brofi."

## Y DDANGOSEG GYNTAF.

### YR ESTUNAU O'R YSGRYTHYRAU SANTAIDD.

	Todal.
Genesis - 3. 7.....	380
“ 4. 4.....	320
“ 13. 1—3.....	140
“ 13. 2.....	219
“ 14. 14.....	59
“ 14. 15.....	275
“ 14. 22.....	381
“ 15. 3.....	53
“ 15. 5.....	381
“ 15. 12.....	342
“ 18. 1, 2.....	9
“ 18. 4.....	63
“ 18. 6.....	133
“ 18. 7.....	134
“ 20. 12.....	443
“ 21. 8.....	54
“ 21. 19.....	64
“ 21. 23.....	381
“ 22. 3.....	219
“ 23. 9.....	357
“ 23. 2.....	417
“ 24. 4.....	38
“ 24. 11.....	67
“ 24. 16—18.....	135
“ 24. 59.....	54
“ 24. 64.....	163
“ 24. 65.....	90
“ 27. 4.....	68
“ 27. 27.....	164
“ .....	91
“ 28. 2.....	321
“ 29. 2.....	69
“ 29. 20.....	39
“ 31. 35.....	164
“ 32. 6.....	275
“ 32. 7.....	276
“ 33. 10.....	111
“ 37. 3.....	91
“ 37. 10.....	165
“ 37. 34.....	296
“ 39. 4.....	60
“ 39. 12.....	91
“ 39. 22.....	92
“ 41. 2.....	220
“ 41. 42.....	166
“ 41. 47.....	189

	Todal.
Genesis - 42. 9.....	276
“ 42. 15.....	382
“ 45. 22.....	92
“ .....	165
“ 47. 23.....	262
“ 48. 14.....	383
“ 49. 17.....	247
“ 49. 22.....	253
“ 50. 1.....	358
Exodus - 1. 11.....	264
“ 50. 11.....	383
“ 3. 1.....	221
“ 10. 21.....	342
“ 12. 46.....	69
“ 13. 16.....	322
“ 15. 21.....	114
“ 15. 25.....	383
“ 15. 26.....	352
“ 16. 14.....	70
“ 22. 2.....	384
“ 22. 6.....	387
“ 23. 19.....	222
“ 25. 4.....	93
“ 25. 10.....	323
“ 26. 36.....	10
“ 29. 22.....	223
“ 33. 8.....	10
“ 35. 35.....	94
“ 38. 8.....	94
Leviticus - 2. 4.....	71
“ 2. 13.....	71
“ 15. 17.....	223
“ 16. 22.....	325
“ 19. 28.....	359
“ .....	421
“ 23. 10.....	199
“ 24. 19, 20.....	296
Numeri - 5. 2.....	359
“ 7. 2.....	142
“ 10. 31.....	143
“ 11. 32.....	345
“ 13. 23.....	199
“ 16. 15.....	167
“ 19. 11.....	360
“ 20. 17, 18.....	143
“ 20. 28.....	388

	Tudal.		Tudal.
Numeri - 21. 17.....	117	1 Sam. - 20. 18, 25.....	170
" 22. 15.....	168	" 20. 24.....	345
" 23. 24.....	277	" 20. 30.....	55
" 31. 23.....	325	" 20. 41.....	170
" 35. 13.....	278	" 24. 8.....	171
" 35. 19.....	297	" 25. 1.....	362
Dout. - 7. 2.....	278	" 26. 13, 14.....	281
" 18. 10.....	144	" 26. 20.....	248
" 20. 5.....	11	" .....	390
" 21. 19.....	264	" 30. 21.....	171
" 25. 4.....	201	2 Sam. - 1. 18.....	362
" 28. 24.....	202	" 2. 16.....	282
" 33. 17.....	224	" 3. 34.....	302
Josua - 2. 1.....	145	" 4. 12.....	302
" 5. 15.....	95	" 6. 15.....	327
" 7. 24, 25.....	298	" 6. 19.....	255
" 9. 4.....	254	" 6. 20.....	391
" 10. 24.....	279	" 10. 4.....	303
" 24. 30.....	361	" 10. 5.....	171
Barnwyr - 1. 7.....	299	" 11. 2.....	119
" 1. 14.....	168	" 11. 8.....	112
" 3. 31.....	300	" 12. 4.....	147
" 5. 6.....	145	" 14. 14.....	363
" 5. 10.....	225	" 16. 13.....	172
" 5. 25.....	75	" 17. 13.....	172
" 5. 28.....	11	" 17. 18.....	304
" 6. 19.....	135	" 27. 28.....	77
" 6. 38.....	203	" 20. 9.....	173
" 7. 16.....	146	" 20. 9, 10.....	283
" 9. 27.....	255	" 24. 18.....	203
" 9. 53.....	279	1 Bren. - 2. 10.....	263
" 14. 5, 6.....	225	" 2. 19.....	174
" 15. 8.....	280	" 4. 25.....	204
" 16. 21.....	301	" 7.....	15
" 16. 27.....	12	" 8. 44.....	328
Ruth - 2. 4.....	203	" 10. 5.....	265
" 2. 14.....	75	" 10. 8.....	284
" 3. 9.....	42	" 10. 20.....	269
" 4. 1.....	13	" 14. 3.....	174
" 4. 7.....	389	" 14. 10.....	283
1 Sam. - 1. 11.....	55	" 19. 19.....	176
" 4. 12.....	390	" 20. 34.....	15
" 4. 13.....	263	" 21. 23.....	304
" 5. 4.....	326	" 22. 30.....	284
" 6. 4.....	226	2 Bren. - 1. 4.....	16
" 7. 5.....	280	" 3. 11.....	176
" 9. 3.....	226	" 4. 10.....	14
" 9. 26.....	13	" 4. 24.....	177
" 11. 2.....	301	" 6. 25.....	205
" 13. 19, 20.....	280	" 9. 17.....	345
" 14. 25.....	76	" 9. 30.....	98
" 15. 12.....	361	" 11. 1.....	267
" 15. 33.....	304	" 11. 2.....	17
" 16. 17.....	117	" .....	148
" 17. 18.....	76	" 18. 19.....	268
" 17. 44.....	302	" 19. 7.....	323
" 17. 51.....	281	" 21. 13.....	124
" 18. 4.....	97	" 25. 7.....	269
" .....	170	1 Cron. - 2. 35.....	61

	Tudal.
1 Cron. -- 9. 18	17
" 12. 8	227
" 27. 25	306
2 Cron. -- 25. 12	305
" 33. 20	364
" 35. 24	286
Ezra -- 4. 14	77
" 8. 21	286
" 9. 3	425
Neh -- 3. 7	370
" 5. 15	392
" 6. 5	125
" 7. 3	149
Esther -- 1. 6	18
" 1. 7	407
" 3. 16	178
" 6. 8	178
" 7. 7	306
" 9. 19	112
Job -- 1. 19	394
" 3. 5	346
" 5. 5	78
" 9. 25	149
" 9. 26	150
" 16. 10	306
" 19. 23	125
" 24. 8	394
" 24. 16	19
" 29. 7	179
" 30. 1	228
" 30. 22	395
" 31. 26—28	464
" 31. 32	137
" 32. 22	180
" 37. 9	396
" 39. 13	249
Salm -- 1. 4	206
" 2. 12	181
" 7. 13	287
" 9. 15	228
" 13. 10	169
" 20. 5	288
" 22. 13	229
" 22. 16	230
" 23. 5	410
" 35. 7	232
" 42. 17	397
" 45. 8	288
" 59. 6	233
" 59. 14	234
" 56. 8	364
" 60. 4	289
" 72. 5	346
" 72. 9—11	270
" 75. 8	408
" 76. 14	459
" 77. 19	398
" 80. 10	256
" 84. 3	329

	Tudal.
Salm -- 91. 5	366
" 102. 7	399
" 102. 26	98
" 104. 5	347
" 107. 5	79
" 110. 3	347
" 118. 26	181
" 121. 5	151
" 121. 6	349
" 123. 2	62
" 126. 5, 6	207
" 127. 4, 5	57
" 137. 6	330
" 141. 7	365
" 144. 13	235
Diar. -- 3. 28	399
" 7. 16	19
" 11. 1	307
" 11. 26	208
" 15. 17	80
" 16. 14	307
"	261
" 17. 19	289
" 21. 9	20
" 22. 13	235
" 23. 6	401
" 23. 31	408
" 26. 13	235
" 27. 9	182
" 27. 22	438
Prog. -- 7. 1	403
" 7. 6	81
" 11. 1	82
" 12. 4	350
Can. Sol. -- 1. 5	20
"	21
" 2. 1	403
" 3. 11	446
" 4, 9	437
" 4. 12	82
" 4. 13, 15	209
" 5. 7	437
" 7. 5	446
" 8. 2	409
" 8. 6	272
Essay -- 1. 3	236
" 1. 8	257
" 1. 30	210
" 2. 19	404
" 3. 1	83
" 3. 16	99
" 5. 28	236
" 7. 15	84
" 9. 6	184
" 10. 1	272
" 13. 14	237
" 13, 21, 22	237
" 14. 4	184
" 15. 2	366

		Tudal.			Tudal.
Esay -	17. 13	404	Ezeziel -	29. 18	293
"	18. 2	405	"	33. 2	352
"	21. 7	211	"	39. 15	370
"	21. 11	238	"	43. 8	30
"	21. 14	350	"	44. 2	187
"	22. 1	84	Daniel -	2. 4	273
"	22. 16	22	"	2. 14	310
"	22. 23	366	"	2. 4	112
"	25. 6	23	"	3. 6	310
"	25. 6	409	"	5. 20	293
"	26. 19	367	"	5. 27	465
"	32. 20	238	"	6. 7	242
"	34. 15	249	"	6. 24	311
"	35. 7	152	Hosea -	2. 6	216
"	38. 12	351	Joel -	3. 2	370
"	40. 3	186	"	3. 3	445
"	40. 24	406	Amos -	3. 12	187
"	41. 15	212	"	5. 19	31
"	44. 18	42	"	6. 10	422
"	47. 14	215	"	9. 6	39
"	49. 9-11	216	Nahum -	2. 10	311
"	49. 16	186	Hab. -	1. 8	243
"	50. 6	308	"	2. 20	294
"	51. 17	408	"	2. 14	331
"	54. 12	23	Zeph. -	14. 16	244
"	58. 11	257	Zech. -	14. 20	332
"	60. 8	129	"	14. 20	245
"	63. 13, 14	299	Mal. -	1. 8	113
Jeremia -	2. 18	25	Mat. -	1. 1	57
"	3. 2	290	"	3. 4	104
"	4. 7	241	"	3. 11	104
"	4. 30	101	"	5. 13	87
"	8. 7	250	"	5. 41	156
"	16. 8	368	"	6. 5	332
"	20. 15	449	"	6. 7	333
"	22. 13	25	"	6. 19	105
"	22. 14	26	"	6. 28, 30	440
"	29. 18	27	"	8. 28, 30	373
"	31. 4, 5	308	"	9. 9	273
"	31. 15	121	"	9. 20	188
"	31. 21	432	"	11. 8	436
"	36. 18	156	"	11. 16, 17	420
"	36. 22	130	"	13. 4	216
"	37. 15	27	"	14. 6	189
"	48. 11	309	"	14. 7	192
"	49. 19	260	"	14. 11	312
"	50. 42	241	"	20. 6, 7	33
"	51. 27	291	"	21. 7	245
"	58. 31	252	"	21. 13	335
Galamad -	1. 11	291	"	22. 11	43
"	4. 8	84	"	22. 19	107
"	5. 10	85	"	23. 2, 4	409
Ezeziel -	4. 15	85	"	23. 27	374
"	9. 2	86	"	24. 25	353
"	9. 4	130	"	24. 41	217
"	13. 18	330	"	24. 51	313
"	23. 25	28	"	25. 6	44
"	37. 3	310	"	25. 10	45
		29	"	26. 23	67

		Tudal.
Mat.	26. 67	314
"	27. 10	377
"	27. 25	316
Marc	2. 4	33
"	5. 8	371
"	7. 3	190
"	8. 23	354
"	9. 41	158
"	9. 50	88
"	11. 8	191
"	14. 3	261
"	14. 51	108
"	14. 52	108
Luc	1. 61	58
"	2. 7	160
"	2. 8	245
"	4. 29	315
"	5. 8	88
"	5. 39	262
"	7. 12	355
"	7. 35	193
"	10. 4	193
"	11. 5. 8	138
"	11. 47	378
"	14. 8. 10	48
"	14. 13	88
"	15. 29	89
"	16. 7	63
Ioan	1. 23	194
"	1. 42	56
"	2. 1	50
"	4. 9	34
"	9. 6	355
"	10. 3	245
"	10. 11	246
"	11. 19	378
"	11. 38	379
"	13. 23	90
"	14. 18	59
"	18. 3	34
"	19. 23	109
Actau	3. 1	335

		Tudal.
"	8. 30	131
"	9. 34	35
"	10. 11, 12	356
"	12. 21	274
"	15. 10	316
"	16. 24	316
"	18. 6	110
"	19. 12	110
"	19. 24	336
"	20. 8, 9	36
"	22. 23	274
"	23. 2	317
Rhaf.	7. 24	317
"	12. 13	138
1 Cor.	9. 5	81
"	11. 14, 15	111
"	11. 4	426
"	15. 32	122
Galat.	3. 1	337
Philip.	1. 7	194
"	2. 15	37
Colos.	2. 15	294
1 Tim.	5. 14	448
Titus	2. 5	52
Heb.	1. 14	337
"	11. 35	318
"	11. 37	319
"	12, 7, 8	453
Iago	5. 7	218
2 Pedr	1. 19	339
Dat.	1. 1	132
"	2. 17	469
"	2. 16	195
"	2. 17	195
"	4. 10	196
"	9. 3	252
"	10. 10	132
"	14. 10	408
"	19. 10	196
"	19. 16	197
"	19. 17, 18	295
"	21. 2	52

# YR AIL DDANGOSEG.

## MATTERION.

A.	Tudal.	Tudal.	Tudal.
Afenydd yn llifo drosodd .....	211	Aipht .....	262
Anrhydedd, ffyrdd i'w ddangos.....	457	Arenod .....	250
Angenrheidiau yu cael eu dirgym- mell .....	81	<b>B.</b>	
Aden neu wŷg .....	42	Banerau .....	288, 289
Asynod gwylltion.....	225	Bara .....	82
Amaethyddiaeth .....	192	Barf, cusanu.....	173
Amaethwyr a:fog.....	207	cillio.....	171, 303
Anifeiliaid, cyfoeth mewn.....	221	tori ymaith .....	366, 308
Alhambra .....	13	ymaflyd yn.....	263
Addarniadau.....	322	Byrddau ygrifenu .....	127
Almai .....	116	Blaen-ffirwyth .....	199
Ampulla .....	364	Blodau.....	191, 367
Ad-daliad .....	226	Bwyd.....	63
Angari .....	156	blasus .....	68
Antelopes.....	243, 237, 228	Bwya .....	90, 132, 134
Antimouy .....	98	Breniu brenhinoedd .....	197
Arabiaid, eu gwersylloedd .....	275	Byddinoedd, y difrod a'wnant.....	295
yn hanner newyns .....	79	Bŵch diangol .....	32.
yn ceisio yeglyfaeth.....	290	Bugeiliaid .....	24
yn ymadael.....	206	Beddau .....	357, 366, 373, 374, 37
orwydrawl .....	221	Benywod, gwisgoedd.....	99, 59, 435
Arch .....	323	Bloddest.....	327
Arfogneti# .....	252	Bodiau, tori.....	299
Asynod .....	167	Buddugoliaeth .....	274, 294
Anifeiliaid .....	219	Bwrdd, bwya dano .....	299
gwylltion.....	122, 302	Blwyddyn newydd.....	346
rheibus .....	235	<b>C.</b>	
Adar yn dystrywio yd .....	216	Calon.....	194
dofiou .....	350	Caean drain.....	216
mewn temlau.....	329	Costreli .....	254
Angladdau .....	357	Carcharorion.....	316
Achau .....	57	Caduwon.....	238
Aelwydydd.....	27	Carchardai .....	309
Allweddau.....	11	Colofnuau coffadwriaeth .....	361
Arian.....	52	Cenhadau.....	157, 291, 307
Aderyn y to .....	399	Cyfrwyau.....	219, 245
Arwyddion .....	11	Cyfarchiadau.....	140, 177, 193, 196
ffordd.....	156	Crwyn .....	128, 223, 319
Arteithiau .....	318	Caethon.....	59
Addunedau ynghylch plant.....	55	Cysgu .....	13, 26
Arfa.....	362	Cyffogi gweision.....	33
Achau, y modd i'w profi.....	57	Ceffylau, cariau.....	236
Anialwch, syched mewn .....	64	rhyfel .....	294
Aurhegiou, 50, 92, 111, 122, 165, 174	174		
Adasiu.....	137		

	Tudal.
Ceffylau segur.....	287
yn anrhegion.....	167
yr anialwch.....	240
Carodigrwydd i deithwyr.....	63
Casau.....	18, 193, 164
Camelod.....	238, 112, 150
disgyn oddiar.....	163
Camlet.....	104
Caravans, neu finteioedd o far- slandwyr.....	69, 142, 275, 276
Creigiau.....	280
Caravansery, tafarndy neu lety cw- hoedd.....	145, 160, 351
Carpodau.....	28, 224
Crochenydd.....	377
Cern, taro ar y.....	306
Caws.....	76
Congl neu gwr.....	29, 187
Cyph yn cael eu dwyn i'r bedd...	363
Coru du.....	130
Cottwm.....	93
Cyfammodau.....	455
halen.....	72
Cyfrwydra niitwraidd.....	280
Coronan yn cael eu bwrw i lawr...	196
Cresyddoider.....	280
Cloddio trwy dai.....	10
Clorinau defaid.....	223
Cludwyr negeseuon.....	284
Cwn.....	230, 233, 234, 304
yn cyfarth.....	233
Colommenod.....	129, 204
Clustiau, eu tori ymaith.....	310
Clychau, neu firwynau ceffylau...	245
Cofleidio y meirw.....	358
Cleddyfau.....	288
Cyffion.....	316
Cerig.....	15, 370
Cisionaid.....	244, 250
Chwedlau, adroddwyr.....	117, 118
Cyagodlen.....	151
Clorianau.....	307
Corwynt.....	394, 396, 406
Cythraulaid, addoliad.....	340
Cywhibau.....	246
Cymmeriad.....	403
Cyflawnder.....	265
Cymdeithion y priodfab.....	41

D.

	Tudal.
Dyddiau, dal ar.....	346
Duwch o herwydd newyn.....	85, 311
Drychau.....	94
Deudellau.....	245
Defaid.....	235, 245
cynffonau.....	223
Dillad, ysgwyd.....	110
rhwymo.....	46
perarogli.....	91
Dystawrwydd.....	331
Dyddiau ffodus.....	144, 346
Dwylaw, curo.....	148
argraphu arnynt.....	186
goichi.....	190
cyn bryta.....	413
yn cael eu tori ymaith...	302
Daebar, llwch a lludw.....	202
Dwfr, tywallt ar ddwylaw.....	176
gau ymddangosiad o.....	158
menywod yn tygu.....	67, 135
mewn gardd.....	120, 257
ei werth.....	84
Dymuniadau da.....	181
Dyrysui.....	242
Dichell.....	280
Dagrau.....	364
Dyrnu.....	203, 212
Dysgl, gwlychu llaw ynddi.....	87
Dinas, cladda mewn.....	363
Dinas aur.....	184
Diorseddu brenhinoedd.....	293
Dromedariaid.....	151
Diolch wrth swyta.....	414
Diennyddiad.....	306
Dienyddwr.....	272
Diwreiddiad cenhedloedd.....	278
Duwiolder yr hen amseroedd.....	203
Dwyfron, pwyso ar.....	90

E.

Eisteddfa yn yr heol.....	179
yn wag.....	170
Eiddigedd.....	52, 489
Enaint.....	261
Egyrn wrth feddau.....	365
Esgidiau.....	95
Estrysiaid.....	248
Euphrates.....	25
Eutyclus.....	36
Enwau anadnabyddus.....	195
y modd y rhoddir hwynt...	58
anifeiliaid.....	245
Emir.....	60

FL

Ffau llewod.....	242
Ffynnonau.....	158, 67, 69, 117, 304



	Tudal.
Ffrwythau.....	253
Ffenestri.....	11, 36
Ffaglau.....	146
Ffinegr.....	75
Fwlturiaid.....	249
Ffyrdd cerig.....	155
Ffwrn.....	71, 133
bwrw i.....	310

## G.

Gwisgoedd, 43, 90, 91, 92, 93, 109	
165, 170, 176	
ymyl.....	188
brenhinol.....	178, 274, 442
Gluniau, coffeidio.....	88
Gardd afalau... 211, 82, 210, 364, 362	
Gwelyau.....	16, 19, 35
aur.....	18
Gwenyu.....	247
Gwrthbanau.....	108
Gwaed, yfed.....	277
Gwahoddiadau.....	48
i'r tlodion.....	88
Gwarchod gartref.....	52, 448
Gwyr meirch.....	294
Gwregysau.....	97
Gofid.....	390
Gwestwyr.....	48
Gwallt.....	111
Goruchwylwyr.....	63
Gorchudd.....	90
Gwanwyn.....	347
Gorsedd.....	21, 268, 270
Gwin.....	255, 407
cymmysgedig.....	408
puredig.....	409
wedi ei oeri.....	410
Gwinwydd.....	190, 253, 257
Gwahan-glwyf.....	355
Goleudai.....	37
Goleuadau wrth deithio.....	143
Gwyfynod.....	105
Gorymdaith.....	44, 51
Galaru.....	358
Genau, taro ar y.....	317
Gweddio.....	328, 332
bod yn siaradus wrth.....	333
yn bemoeth.....	428
Gwiliedydd.....	350, 352
Gweision.....	59
arwyddion i.....	148
Gwarchaeedig.....	283
Gwraedd yn ymosod ar elynion... 279	
Gwraig, gwasanaethu am.....	39
y modd i'w dewis.....	38
Gwlaw.....	218
Gwlith.....	204
Gelysion, caredigrwydd i.....	138

## Tudal.

Gelysion, penau.....	261
Gormodiaith.....	381
Gwahanu.....	313
Glaswellt, lloegi.....	115
Gwehydd.....	94, 351
Gogwyddo wrth fwyta.....	411

## H.

<i>Hybees</i> .....	143
Heron.....	248
Hocion.....	23
Halen.....	71, 72, 77, 87, 88
Had, yspailio.....	207
Haint.....	365
Hogrwydd oddiwrth y marw... 359, 360	
Hysbysrwydd, y modd y rhoddid 291	
Haul.....	195, 349
Heolydd.....	15

## I.

Iau ar war.....	316
Ibis.....	329
Ifori.....	132
Inc.....	130
Iuddewon a Samarinaid.....	34
Iorddonen.....	241
Jehosophat, dyffryn.....	370
Jerusalem.....	330

## L ac Ll.

Lantornau.....	34
Lazarus, bedd.....	379
Llyfrau'.....	194
Lletygarwch.....	133
Lletty cyhoedd.....	160
Lleustai.....	257
Llifogydd'.....	39
Lleidr.....	384
Lleni.....	34
Llwch.....	172, 271, 274
Llewod.....	225, 235, 241, 249
Llewparidiaid.....	243
Lleuad.....	345, 349
Llythrau.....	124
Agored.....	125
Lliain teg.....	93
Llwybrau.....	146, 305
Lindys.....	252
Llygald.....	42, 269, 401, 301
drwg.....	337
Llygod.....	296
Llynoedd.....	82
Llestri brwyn.....	405

## M.

Mel.....	76
----------	----

	Tudal.
Morgrug .....	105
gwynion.....	106
Moses, gwialen.....	383
Mynydd Hor.....	388
Meddiant, y dull o gymmeryd.....	349
Mynod.....	89, 222
Merched.....	61
yn dawasio.....	114
Malu yd.....	217
Melinau llaw.....	217
Mamelukes.....	61
Manna.....	70
Marchnadleoedd.....	33
Meddygon.....	353
Meddyginiaeth.....	352
Mamau.....	55
Mammaethed.....	54
Modrwy.....	166
Maglau angau.....	228
Mynyddoedd.....	361
Meirw, eu cofleidio.....	358
yn cael eu rhwymo wrth y byw.....	317
toriadau am y.....	359
talu anrhydedd i'r.....	415
halogi wrth y.....	418
Meistriaid gwaith.....	264
Merwynion.....	39
Morddwyd, ysgrifenu ar.....	197
Mwd ( <i>ceiling</i> ).....	27

## N.

Nadredd.....	247
Napoyuan.....	110
Newyn.....	85
Nilus.....	220
Noethni.....	380
Nos, teithio yn y.....	149
Noddfa, dinasoedd.....	278
Nazareth.....	315
Neuadd gyhoedd.....	24

## O.

Ol traed anifeiliaid.....	227
Offrymau.....	321
Oriau y nos.....	350
gweddi.....	335
Ogofau.....	394, 404
Oerfel.....	349

## P.

Pais ddiwniad.....	109
Papyrus.....	126
Pawyn, gorsedd ar ddull.....	266
Peraroglau.....	113
Priodfereh yn cael ei thywys adroff.....	44

	Tudal.
Phiol lawn.....	181, 410
Phiolaid o ddwfr.....	79
Pen yn noeth.....	293
ei ddwyn mewn gorfoledd.....	281
mewn dysgl.....	312
Pyrth.....	13, 187, 264, 289
Piwm, ysgrifenu ar.....	128
Plu.....	248
Porfa.....	216
Petrysiaid.....	248, 390
Priodas.....	38, 424
gwiag.....	43
Picellau tanlyd.....	57, 287
Pobl, symud.....	308
Poerodd.....	355
Poen yn yr wyneb.....	314
Prynedigaeth gwladol.....	389
Preniau.....	63, 204
Prif-ffyrdd.....	155, 263
Pistylloedd.....	397
Pebyll.....	9, 10, 20, 21
Plant, hyfforddiad i.....	54
yn parhau eu rhieni.....	164
Pyllau.....	296
Puredigaeth.....	395

## R.

Rhwysg, meirch er.....	286
Rhyfel, llaf.....	291
Rhwymyn santaidd.....	47
Rhestogau.....	28
Rhwydau.....	228
Rice.....	238
Rhos-ddwfr.....	113, 189, 403
Rhegfeydd.....	315
Rhag-redogwyr.....	168, 186

## S.

Sandalau.....	95, 104
Siaced fraith.....	91
Sel.....	130, 272
Serab.....	152
Seirph.....	31, 247
Simoon.....	392
Shawls.....	104
Style ysgrifenu gyda.....	126
Syched.....	80
Sypiau grawnwin.....	200, 255
Saeth haint.....	365
Sheiks.....	60

## T.

Talcenau, nod ar y.....	330
Temlau.....	336, 321
Trwynau, eu tori ymaith.....	310
Teithio.....	140





Book 1000  
1  
C. 1000. 1000. 1000

JUN 22 1982



5.253.1.32  
u dwyreiniol;  
er Library

004194630



2044 080 769 888